Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2:

Adroddiad Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Cyngor Sir Penfro

Chwefror 2011

Adroddiad Amgylcheddol

9T9001

A COMPANY OF
ROYAL HASKONING

HASKONING UK LTD.
ENVIRONMENT

Stratus House
Emperor Way
Exeter, Dyfnaint EX1 3QS
Y Deyrnas Unedig
+44 (0)1392 447999 Ffôn
+44 (0)20 722202659 Ffacs
info@exeter.royalhaskoning.com E-bost
www.royalhaskoning.com Gwefan

Enw'r ddogfen	Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2: Adroddiad Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)
Enw byr y ddogfen	CRhT2 Gorllewin Cymru
Statws	Adroddiad Amgylcheddol
Dyddiad	Tachwedd 2010
Enw'r prosiect	Asesiad Amgylcheddol Strategol CRhT2 Gorllewin Cymru
Rhif y prosiect	9T9001
Cleient	Cyngor Sir Penfro
Cyfeirnod	9T9001/ AA for Public Consultation/Exet

Drafftiwyd gan	Randolph Velterop, Peter Brunner	
Gwiriwyd gan	Peter Thornton	
Dyddiad / llythrennau blaen	…PT…….	…17.11.2010….
Cymeradwywyd gan	Peter Thornton	
Dyddiad / llythrennau blaen	…PT…….	…17.11.2010….

Y cyswllt allweddol ar gyfer y CRhT yw **Emyr Williams**. Dylid anfon ymatebion trwy e-bost at Emyr.Williams@sir-benfro.gov.uk neu i'r cyfeiriad canlynol:

d/o Emyr Williams

Cyngor Sir Penfro

Neuadd y Sir

Hwlffordd

Sir Benfro

SA61 1TP

Tudalen wag o fwriad.

CRYNODEB ANNHECHNEGOL

Beth yw CRhT?

Asesiad ar raddfa fawr yw Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) o'r peryglon cysylltiedig â phrosesau arfordirol a'i fwriad yw lleihau'r peryglon i'r amgylchedd cymdeithasol, economaidd, naturiol a hanesyddol trwy reoli traethlin yn effeithiol a chynaliadwy. Bwriad CRhT yw rheoli perygl trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol i leihau bygythiad llifogydd ac erydiad i bobl a'u heiddo, yn ogystal ag elwa'r amgylchedd, cymdeithas a'r economi yn unol ag 'egwyddorion datblygu cynaliadwy' y Llywodraeth.

Gorllewin Cymru

Mae CRhT2 Gorllewin Cymru yn cwmpasu'r arfordir a'r tir mawr o Benrhyn y Santes Ann, heibio Ynys Enlli i Ben y Gogarth, gan gynnwys Ynys Môn. Mae hyd lawn arfordir ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru tua 460km gan gynnwys aberoedd.

Gwlad fynyddig yn bennaf yw Cymru gydag ardaloedd cymharol fychan o wastadedd arfordirol a dyffrynnoedd llawr gwlad, gydag arwynebedd o 2.078 miliwn (m) hectar (ha) (tuag 20,000km^2), a morlin o ryw 1,280km i gyd. Mae cymeriad morlin Gorllewin Cymru'n amrywio o drefi glan môr, porthladdoedd gweithredol a phorthladdoedd fferi, i gymunedau gwledig bach a darnau unig o arfordir. Mae'n forlin o olygfeydd garw ysblennydd heb eu difetha, gyda chlogwyni môr uchel, pentiroedd amlwg, baeau bach gyda thraethau o dywod neu raean, ogofâu, staciau craig ac ardaloedd o dwyni tywod amlwg. Dynodwyd llawer o'r morlin yn Arfordir Treftadaeth ac mae o gryn werth diwylliannol, hanesyddol a daearegol. Mae amryw ynysoedd oddi ar y morlin, a'r fwyaf yw Ynys Môn yn y gogledd-orllewin. Mae ardal astudiaeth CRhT2 yn cynnwys morlin a dyffrynnoedd yn siroedd Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Penfro, Powys ac Ynys Môn.

Ffurfiwyd arfordir Bae Ceredigion o gerrig clai a thywodfeini Ordofigaidd a Silwraidd mewn haenau. Bydd y tonnau gwynt mwy ac ymchwydd cefnforol yn symud o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain ym Môr Iwerddon trwy Sianel Sain Siôr. Mae amlygrwydd i donnau'n amrywio ymhob rhan o ardal yr astudiaeth, gyda Sir Benfro'n cysgodi rhai rhannau deheuol o Fae Ceredigion a'r amddiffyniad hwn yn cael ei gynyddu'n lleol gan y pentiroedd creigiog niferus fel Pen Caer a Thrwyn Cemais. Ar hyd ochr ddeheuol Pen Llŷn, daw'r arfordir yn fwy agored i'r tonnau mawr o'r de-orllewin.

Y porthladdoedd masnachol mwyaf nodedig yn ardal yr astudiaeth yw Caergybi ac Abergwaun. Y cylch trefol mwyaf yw dinas Bangor, yn y gogledd, gyda phoblogaeth dros un fil ar hugain.

Darparu AAS ar gyfer y CRhT

Nid yw darparu Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar gyfer CRhT yn ofyniad statudol; hybwr darparu AAS yw polisi'r Llywodraeth gyda'r bwriad o sicrhau bod y broses yn agored ac yn rhoi ystyriaeth briodol i amgylchedd yr arfordir. Dan Gyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni arbennig ar yr amgylchedd, rhaid gwneud AAS o gynlluniau a rhaglenni sydd eu hangen dan ddarpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi penderfynu bod CRhT yn gynlluniau sy'n gallu dylanwadu ar ddatblygiad ac, felly, y dylai fod yn amodol ar ofynion Rheoliad yr AAS. Mae'r AAS yn cloriannu'n drefnus y canlyniadau amgylcheddol all ddeillio o wneud penderfyniadau lefel uchel; trwy roi sylw i faterion strategol, mae proses yr AAS yn hwyluso penderfynu ar ddewis. Mae hefyd yn cyfeirio cynlluniau unigol tuag at yr atebion a lleoliadau mwyaf priodol yn ogystal â helpu sicrhau bod cynlluniau canlyniadol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion amgylcheddol eraill.

Felly, bwriadwyd i'r AAS sicrhau bod ystyried y materion economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol cysylltiedig â'r arfordir mae wedi bod yn ganolog i ddatblygu a chloriannu polisi. O fewn proses yr AAS ac mewn ffordd gyfatebol i'r un a ddefnyddiwyd drwy broses gyfan y CRhT, defnyddiwyd y term 'amgylchedd' i gwmpasu'r derbynyddion canlynol:

- Poblogaeth a chymunedau (gan gynnwys iechyd dynol, isadeiledd hanfodol ac ati);
- Etifeddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol;
- Asedau materol;
- Bioamrywiaeth, anifeiliaid a phlanhigion;
- Pridd, dŵr, awyr;
- Ffactorau hinsoddol; a hefyd
- Tirwedd.

Yr Asesiad

Gwnaed yr asesiad ar y gyfres o bolisïau sydd yn y CRhT ac sy'n cael eu hamlinellu ym **Mhennod 4** yr Adroddiad Amgylcheddol (AA).

Mae proses yr AAS wedi datblygu dwy ddogfen arwahanol ac allweddol; Adroddiad Cwmpasu ac Adroddiad Amgylcheddol. Sefydlodd yr Adroddiad Cwmpasu (**Atodiad E**) fan cychwyn amgylcheddol ar gyfer traethlin Gorllewin Cymru a, thrwy wneud hynny, datblygodd gyfres o feini prawf asesu AAS, ar gyfer asesu polisïau'r CRhT. Aeth yr Adroddiad Cwmpasu drwy gyfnod ymgynghori pum wythnos gyda Grŵp Llywio'r Cleient CRhT Gorllewin Cymru a ffurfiwyd o ymgyngoreion statudol, gan gynnwys yr awdurdodau lleol priodol ac asiantaethau'r llywodraeth fel: Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC), HENEB, Network Rail, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, CBHC, Archeoleg Dyfed ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AyrA).

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ac ymateb yr ymgyngoreion statudol, gwnaed yr asesiad amgylcheddol o bolisi dewisol CRhT gan ddefnyddio amcanion a dangosyddion yr AAS

a gytunwyd trwy'r cyfnod ymgynghori; gyda'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r broses honno. Mae materion amgylcheddol allweddol a nodwyd trwy'r Adroddiad Cwmpasu ar draethlin Gorllewin Cymru fel a ganlyn:

- Cynnal a chefnogi prif ganolfannau gweithgarwch economaidd trwy atal neu leihau colledion economaidd trwy leihau erydiad arfordirol a llifogydd arfordirol i eiddo preswyl, masnachol a diwydiannol.
- Atal neu leihau colledion economaidd gymaint â phosibl trwy leihau erydiad arfordirol a llifogydd arfordirol i isadeiledd a chynnal cysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol felly.
- Atal neu leihau colledion economaidd gymaint â phosibl trwy leihau erydiad arfordirol a llifogydd arfordirol i dir amaethyddol.
- Atal neu leihau gymaint â phosibl erydiad arfordirol a llifogydd arfordirol i asedau cymunedol (gan gynnwys traethau).
- Atal neu leihau gymaint â phosibl dirywiad i iechyd ac effeithiau ar iechyd yn deillio o lifogydd arfordirol.
- Cyflawni "statws ecolegol da" yr amgylchedd dŵr croyw a morol dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y Comisiwn Ewropeaidd (CE).
- Gweld cyfleoedd i gynnal a gwella'r amgylchedd a phrosesau naturiol trwy reoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol.
- Atal neu leihau gymaint â phosibl ymyriadau rheoli'r arfordir sy'n cael effaith andwyol ar ddiddordeb geomorffolegol a daearegol yr arfordir neu gyflenwad a drifft disgynnol gwaddod.
- Gwarchod a gwella asedau treftadaeth fel Henebion Cofrestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Adeiladau Rhestredig, ac Ardaloedd Cadwraeth.
- Gwarchod a gwella'r dirwedd o safon ac amwynder gweledol (e.e. AHNE ac Arfordiroedd Treftadaeth).
- Gweld bod cynefinoedd a rhywogaethau presennol yn gallu addasu i hinsawdd sy'n newid.

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i nodi a rhagweld yr effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol cysylltiedig â gweithredu CRhT Gorllewin Cymru yn golygu defnyddio trefn farnu arbenigol ar sail tystiolaeth seiliedig ar y patrwm Ffynhonnell-Llwybr-Derbynnydd (SPR) sy'n cael ei dderbyn yn eang. Oherwydd natur gymhleth ac amlamrywedd y CRhT, cymrodd y cloriannu ffurf asesiad ansoddol seiliedig ar farn broffesiynol, dadansoddiad GIS gyda chefnogaeth deunydd darllen a adolygwyd gan gydweithwyr, gyda'r canlyniadau'n cael eu sgorio mewn saith categori rhwng cadarnhaol iawn a negyddol iawn.

Rhoddwyd yr asesiad ar ddwy lefel:

1) Dadansoddi sylfaenol o bob Parth Datblygu Polisi (PDZ) sy'n cynnwys asesiad manwl ar lefel yr uned bolisi (Uned Bolisi) cysylltiedig â'r pedwar gwahanol ddewis datblygu polisi gan gynnwys cadw'r llinell amddiffyn bresennol (HTL); symud y llinell amddiffyn bresennol ymlaen (ATL); adlinio rheoledig (MR) neu ddim ymyriad gweithredol (NAI); a
2) Dadansoddiad eilaidd sy'n ceisio penderfynu'r effeithiau llawn ar lefel y PDZ a'r cynllun cyfan, gan ystyried y dewis / cynllun datblygu polisi hirdymor at ei gilydd.

Cofnodwyd y dadansoddiad sylfaenol mewn cyfres o dablau asesu manwl oedd yn dogfennu effaith polisi CRhT yn llawn ar gyfer pob uned o bob PDZ o ran y meini prawf asesu. Mae cofnod manwl llawn o'r asesiad sylfaenol hwn yn **Helaethiad A i D** ond dylid nodi y gallai'r asesiadau hyn newid ar ôl ymgynghori ac unrhyw newid polisïau dilynol. Yn ogystal â rhoi canlyniadau'r asesiad hwn, mae'r Adroddiad Amgylcheddol hefyd yn rhoi mesurau arolygu a lliniaru i sicrhau lleihau effeithiau'r CRhT ar draethlin Gorllewin Cymru gymaint ag y bo modd. Bydd gofynion yr arolygu a'r camau at ddeddfu'r gofynion hynny'n cael eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r CRhT. Yr agwedd hon sy'n rhoi'r peirianwaith mwyaf cadarn ar gyfer cyflawni, gan fod Cynllun Gweithredu'r CRhT a) yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r CRhT a b) yn adeiladu ar y swyddogaethau trefnyddol ym mhroses y CRhT.

Casgliadau

Hybwr allweddol datblygu polisi CRhT oedd cynnal cymeriad amrywiol tirwedd a morwedd y glannau trwy ddatblygiad naturiol y draethlin ble bynnag y bo modd, gan gydbwyso â'r dymuniad i beidio â chyfyngu ar allu anheddau arfordirol i gadw eu hyfywedd a'u gwerthoedd craidd a rheoli ac addasu i beryglon llifogydd ac erydiad. Ar drywydd y cydbwysedd hwn, mae'r CRhT wedi dyfeisio agwedd strategol at reoli, sy'n canolbwyntio ar gynnal mannau sy'n nodweddion / derbynyddion allweddol, ar yr un pryd â galluogi datblygiad naturiol yr arfordir mewn ardaloedd eraill. Cymhlethdod arall fu'r angen i reoli'n gynaliadwy cynefin arfordirol sydd wedi ymateb i arferion blaenorol rheoli'r arfordir. Wrth geisio cael y cydbwysedd hwn y mae gwrthdrawiadau lleol yn digwydd. Trwy ddal i ddiogelu anheddau hanesyddol, Adeiladau Rhestredig a chymunedau arfordirol, gall effeithiau andwyol ar gynefin arfordirol godi o ffactorau fel gwasgfa arfordirol a chyfyngu ar symudiad gwaddodion ar hyd yr arfordir ac amlygiad daearegol clogwyni. Ar y llaw arall, trwy ganiatáu prosesau naturiol sy'n hanfodol i nodweddion daearegol, er enghraifft, fe all fod perygl i'r amgylchedd hanesyddol trwy erydiad.

Ar sail yr AAS hwn, mae CRhT Gorllewin Cymru wedi canolbwyntio ar roi'r cydbwysedd hwn. Allan o ryw 5000 asesiad unigol o nodweddion diddordeb allweddol (gwelwch **Helaethiad A i D**), mae mwyafrif effeithiau andwyol perthnasol i fioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid yn gysylltiedig â dal i ddiogelu anheddau hanesyddol, cymunedau / anheddau arfordirol ac asedau materol trwy bolisïau fel HTL neu MR. Bydd y polisïau hyn yn golygu colled sylweddol o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig neu dan fygythiad cysylltiedig ag Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safleoedd Ramsar, gan gynnwys y canlynol:

- ACA Sir Benfro Forol (colli gwastadedd tywod rhynglanwol);
- ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (colli gwastadedd tywod rhynglanwol, morfa heli);
- AGA Aber Afon Dyfi (colli glaswelltir wedi'i wella);
- Cors Fochno a Ramsar Dyfi;
- ACA Y Fenai a Bae Conwy (colli gwastadedd tywod a gwastadedd llaid rhynglanwol);
- AGA Traeth Lafan, Bae Conwy; ac
- ACA Cors Heli Glannau Môn (colli gwastadedd llaid rhynglanwol).

Fe all cyfanswm o hyd at **452ha** o gynefin gael ei golli trwy ddiffyg lle ar gael i gynefinoedd rhynglanwol a daearol addasu mewn ymateb i wasgfa arfordirol sy'n gysylltiedig ag amddiffynfeydd, isadeiledd neu ffurf leol y tir ar hyn o bryd wrth i lefel y môr gynyddu. Fe all hyn fod angen lliniaru trwy greu cynefin cyfartal yn rhywle arall a byddai polisïau MR yn ogystal â chynefin cydadferol yn gwneud iawn am lawer ohono. Yn debyg i'r Safleoedd ***Natura 2000*** y PDZ hwn, fe all fod cyfyngiad ar ddatblygiad naturiol y nodweddion diddordeb cynefin cysylltiedig â'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Chynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth (BAP) fel gwastadeddau tywod a morfa heli. Fodd bynnag, gallai polisi MR ar hyd rhai rhannau greu cynefin ychwanegol (e.e. gwastadeddau tywod rhynglanwol) yn yr hirdymor a lleihau'r effeithiau all fod yn ystod y ddau gyfnod cyntaf. Nodwyd mesurau ataliol a lliniaru allweddol ar gyfer Gorllewin Cymru yn yr AA hwn cysylltiedig â bioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid.

O ran yr amgylchedd dŵr, rhoddodd yr asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD) ar wahân sylw i effeithiau polisïau arfaethedig y CRhT ar y pedwar Amcan Amgylcheddol CFfD ar gyfer y cyrff dŵr croyw, trosiannol, arfordirol a chodi. Nodwyd y gallai naw o'r ugain PDZ gyfrannu at fethu cyflawni Amcanion Amgylcheddol CFfD 2, 3 a 4.

Argymhellwyd polisïau dewisol NAI neu MR mewn ardaloedd lle mae asedau dynol cyfyngedig neu ar hyd darnau o forlin heb ei ddatblygu sydd, ymhlith pethau eraill, yn sicrhau cadwraeth y diddordebau daearegol a safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol. Er enghraifft, bydd polisïau NAI o gwmpas llawer o'r arfordir agored yn arbennig yr adrannau hynny sy'n GCR neu Dreftadaeth Arfordirol yn sicrhau bod amlygiad daearegol yn parhau. Fodd bynnag bydd yr un polisïau sy'n hyrwyddo erydiad neu ddyddodiad hirdymor (NAI neu MR) yn ddi-ffael yn effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol cofnodedig ac anhysbys, oherwydd bod cymaint o dreftadaeth arfordirol. Cynhwyswyd safleoedd treftadaeth allweddol y dylid eu harchwilio trwy gyfundrefn arolygu sefydledig yn yr AA hwn.

Mae'r CRhT wedi ceisio gwarchod isadeiledd sylweddol, cylchoedd masnachol a diwydiannol ac asedau materol (e.e. porthladdoedd, cysylltiadau fferi, prif ffyrdd, rheilffyrdd, gweithfeydd trin carthion, depos diwydiannol, ac ati) yn ystod cyfnod llawn y CRhT, pan fo'n economaidd ymarferol gwneud hynny. Nid yw isadeiledd sy'n cael ei effeithio gan MR neu NAI yn strategol ac mae modd lliniaru am ei golli'n gymharol hawdd yn lleol, er enghraifft trwy adleoli neu adlinio. Er enghraifft, bydd polisi NAI yn effeithio ar Sefydliad Awyrennau Brenhinol y MoD yn Aber-porth (Uned Bolisi 6.1) drwy ddifrod neu golled, ond byddai modd lliniaru trwy adleoli rhannau o'r orsaf awyr.

Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer amddiffyn nifer sylweddol o eiddo ac asedau rhag erydiad a llifogydd. Dan y polisïau cymeradwy bydd mwyafrif mawr yr asedau preswyl a masnachol yn cael eu gwarchod, er y gall mwy o berygl erydiad a llifogydd effeithio ar rai asedau yn PDZ Gorllewin Cymru. Fodd bynnag, mewn ymateb i gynnydd disgwyliedig yn lefel y môr, efallai y bydd angen adleoli rhai cymunedau yn y dyfodol.

Felly, mae modd dod i gasgliad bod y CRhT wedi rhoi amrywiaeth o fuddiannau i werthoedd cymdeithasol ac economaidd traethlin Gorllewin Cymru a, phan nodwyd effeithiau negyddol cymedrol neu sylweddol yn arbennig cysylltiedig â bioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid a threftadaeth ac asedau, dyfeisiwyd mesurau lliniaru a rheoli i roi sylw i'r effeithiau hyn lle bo modd.

CYNNWYS

			Tudalen
1	CYFLWYNIAD A CHEFNDIR		12
	1.1	Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) Gorllewin Cymru	12
	1.2	Cyd-destun CRhT yr AAS	12
	1.3	Pam ydym ni'n defnyddio Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)	13
	1.4	Cwmpas a Strwythur yr Adroddiad Hwn	15
	1.5	Nodau ac Amcanion CRhT2 Gorllewin Cymru	16
	1.6	Goblygiadau Polisi CRhT i Dderbynyddion Amgylcheddol	22
	1.7	Ymgynghori	23
	1.8	Cydredeg â Phrosesau Cyfochrog Eraill	24
	1.9	Cloriannu'r Cynllun a Gwahanol Ddewisiadau	24
2	CYD-DESTUN A METHODOLEG		26
	2.1	Dewisiadau Gwahanol a Pharthau Datblygu Polisi (PDZ)	26
	2.2	Methodoleg CRhT2 Gorllewin Cymru	26
	2.3	Lliniaru ac Arolygu	28
	2.4	Amcanion AAS	28
3	ARDAL YR ASTUDIAETH		32
	3.1	Diffinio Ardal yr Astudiaeth	32
	3.2	Man Cychwyn Amgylcheddol Cryno	32
	3.3	Materion Allweddol yr Amgylchedd	32
4	ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL		52
	4.1	Methodoleg yr Asesiad	52
	4.2	Prif Dueddiadau'r PDZ	79
	4.3	Asesiad CFfD	118
	4.4	Asesiad Cronnus	119
	4.5	Casgliad	127
5	AROLYGU A LLINIARU		130
	5.1	Cyflwyniad	130
	5.2	Arolygu a Rheoli Cynefinoedd	130
6	Y CAMAU NESAF YM MHROSES SEA		134
	6.1	Ymatebion i'r Ymgynghoriad	134
	6.2	Diben yr Ymgynghoriad	134
	6.3	Dogfennau Dilynol	134

7 CYFEIRIADAU 136

8 BYRFODDAU AC ACRONYMAU 138

9 GEIRFA 140

HELAETHIAD A – TABLAU ASESU MANWL AR GYFER ASEDAU MATEROL A THREFTADAETH ADEILEDIG 146

HELAETHIAD B – TABLAU ASESU MANWL AR GYFER SAFLEOEDD NATURA 2000 148

HELAETHIAD C – TABLAU ASESU MANWL AR GYFER SAFLEOEDD O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG 150

HELAETHIAD D – TABLAU ASESU MANWL AR GYFER CYNEFINOEDD CYNLLUNIAU GWEITHREDU AR FIOAMRYWIAETH 152

HELAETHIAD E – ADRODDIAD CWMPASU AAS 154

HELAETHIAD F – YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD A CHAMAU GWEITHREDU / YMATEB YN DILYN CYLCHREDEG DRAFFT O'R ADRODDIAD AMGYLCHEDDOL 156

TABLAU

Tabl 1.1 Dewisiadau a Ddefnyddiwyd wrth Ddatblygu'r CRhT 19
Tabl 1.2 Goblygiadau Cyffredinol all Godi gyda Phob Dewis CRhT 20
Tabl 1.3 Terminoleg CRhT ac AAS..... 22
Tabl 2.1 Meini Prawf Arwyddocâd a Ddefnyddiwyd wrth Asesu Effeithiau ... 27
Tabl 2.2 Amcanion a Dangosyddion Cynaliadwyedd CRhT2 Gorllewin Cymru 29
Tabl 3.1 Safleoedd Hanesyddol Allweddol sydd mewn Perygl Erydiad yn ystod y Tri Chyfnod gyda Senarios NAI neu MR..... 48
Tabl 4.1 Cymharu Amcanion yr AAS gyferbyn ac o fewn Amcanion eraill yr AAS 54
Table 4.2 Cyflawni Amcanion yr AAS ar draws y CRhT 57
Tabl 4.3 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 1 – Penrhyn y Santes Ann i Drwyn Borough 59
Tabl 4.4 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 2 – Trwyn Borough i Ddinas Fach 60
Tabl 4.5 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 3 – Dinas Fach i Ben Anglas .. 61
Tabl 4.6 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 4 – Pen Anglas i Ben-y-Bal 62
Tabl 4.7 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 5 – Pen y Bal i Aberteifi 63
Tabl 4.8 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 6 – Pencribach i Benrhyn Cei Newydd 64
Tabl 4.9 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 7 – Penrhyn Cei Newydd i Drwyn Llanina 65
Tabl 4.10 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 8 – Gilfach i Lanrhystud..... 66
Tabl 4.11 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 9 – Carreg i Sarn Gynfelyn..... 67
Tabl 4.12 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 10 – Borth Uchaf i Donfannau 68

Tabl 4.13 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 11 – Tonfannau i Fochras..... 69
Tabl 4.14 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 12 - Mochras i Benychain..... 70
Tabl 4.15 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 13 – Penychain i Drwyn Cilan 71
Tabl 4.16 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 14 – Trwyn Cilan i Garreg Ddu72
Tabl 4.17 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 15 – Carreg Ddu i Drwyn y Tal73
Tabl 4.18 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 16 – Trwyn Dylan i Lanfairfechan 74
Tabl 4.19 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 17 – Pen-y-parc i'r Penrhyn (Caergybi) 75
Tabl 4.20 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 18 – Penrhyn (Caergybi) i Borth Helygen (Gogledd Ynys Môn) 76
Tabl 4.21 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 19 - Porth Helygen i Drwyn Penmon (gan gynnwys Ynys Seiriol)..... 77
Tabl 4.22 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 20 – Llanfairfechan i Ben y Gogarth 78
Tabl 4.23 Crynodeb o'r Unedau Polisi a Allai Fethu Cyflawni Amcanion Amgylcheddol CFfD..... 119
Tabl 4.24 Crynodeb o Faterion Eilaidd, Cronnus a Synergaidd ar gyfer pob Derbynnydd AAS 120
Tabl 4.25 **Crynodeb o ardaloedd presennol cynefin BAP gwastadedd llaid, gwastadedd tywod a morfa heli yn ardal yr astudiaeth ac ardaloedd a all fod mewn perygl fesul cyfnod** 127
Table 5.1 Summary of PDZs where Adverse Effect on Integrity of International Sites is Predicted, Showing Habitat Types Effected and Likely Extent 131

FFIGURAU

Ffigur 1.1 Proses AAS yn Natblygiad CRhT 12
Ffigur 1.2 Dull a Chyfnodau'r AAS ar gyfer y CRhT hwn..... 14
Ffigur 1.3 Ardal Astudiaeth a PDZ Gorllewin Cymru..... 18
Ffigur 2.1 Patrwm Ffynhonnell-Llwybr-Derbynnydd fel y cymhwyswyd i AAS 26
Ffigur 3.1 PDZ 1 i 7 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd Dynodedig 34
Ffigur 3.2 PDZ 7 i 14 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd Dynodedig 36
Ffigur 3.3 PDZ 14 i 20 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd Dynodedig 38
Ffigur 3.4 PDZ 1 i 7 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd ac Isadeiledd Hanesyddol 40
Ffigur 3.5 PDZ 7 i 14 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd ac Isadeiledd Hanesyddol 42
Ffigur 3.6 PDZ 15 i 20 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd ac Isadeiledd Hanesyddol 44

Tudalen wag o fwriad.

1 CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) Gorllewin Cymru

1.1.1 Yr adroddiad hwn yw Adroddiad Amgylcheddol (AA) yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar gyfer ail Gynllun Rheoli Traethlin (CRhT) Gorllewin Cymru.

1.2 Cyd-destun CRhT yr AAS

1.2.1 Bwriad proses yr AAS sy'n cyd-fynd â'r CRhT yw sicrhau bod ystyried materion amgylcheddol yn ymwneud â'r arfordir yn ganolog i'n ddatblygiad a chloriannu polisi. Mae'r Adroddiad Amgylcheddol (AA) hwn yn rhoi'r modd i gynnal gwerthusiad strwythuredig o'r materion amgylcheddol yn ymwneud ag arfordir Gorllewin Cymru'n seiliedig ar ddefnyddio'r meini prawf asesu a ddatblygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu (sydd i'w weld yn http://www.westofwalessmp.org/). Yn Adroddiad Amgylcheddol drafft hwn yr AAS, yn yr Adroddiad Cwmpasu blaenorol ac mewn ffordd gyffelyb i'r hyn a ddefnyddiwyd drwy gydol proses y CRhT (DEFRA, 2006a, 2006b) caiff y term 'amgylchedd' ei ddefnyddio i gwmpasu'r derbynyddion canlynol (yn ôl diffiniad OS 1633):

Derbynyddion

- Bioamrywiaeth, anifeiliaid a phlanhigion.
- Poblogaeth a chymunedau (gan gynnwys iechyd dynol, isadeiledd hanfodol ac ati).
- Asedau materol.
- Pridd, dŵr, awyr a ffactorau hinsoddol.
- Etifeddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol.
- Tirwedd.

1.2.2 Caiff swyddogaeth yr adroddiad hwn ym mhroses AAS y CRhT ei chyflwyno yn **Ffigur 1.1**.

Ffigur 1.1 Proses AAS yn Natblygiad CRhT



1.3 Pam ydym ni'n defnyddio Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

1.3.1 Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn cael eu hardystio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), sydd wedi penderfynu bod CRhT yn gynlluniau sy'n gallu dylanwadu ar ddatblygiad ac, felly, y dylent fod yn amodol ar ofynion Rheoliadau AAS.

1.3.2 Mae AAS yn cloriannu'n drefnus y canlyniadau amgylcheddol all ddeillio o benderfyniadau lefel uchel (h.y. cynlluniau, polisïau a rhaglenni). Trwy roi sylw i faterion strategol, mae AAS yn cynorthwyo dewisiadau, mae'n cyfeirio cynlluniau unigol at yr atebion a lleoliadau mwyaf priodol ac mae'n helpu sicrhau bod cynlluniau canlyniadol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion amgylcheddol eraill.

1.3.3 Dan Gyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni arbennig ar yr amgylchedd, rhaid gwneud AAS o gynlluniau a rhaglenni sy'n ofynnol dan ddarpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol. Mae CRhT yn pennu fframwaith eglur ar gyfer datblygiad i ddod ac mae llawer yn gyffredin rhyngddynt â'r math o gynlluniau a rhaglenni y lluniwyd y Gyfarwyddeb ar eu cyfer, er bod rhaid nodi nad yw AAS yn ofyniad statudol ar CRhT ac nad yw hon, felly, yn ddogfen statudol.

1.3.4 Pennodd ail genhedlaeth CRhT fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol, a gall beri effeithiau amgylcheddol sylweddol. Felly, yn unol â chanllawiau CRhT Llywodraeth Cynulliad Cymru a DEFRA (DEFRA, 2006a, 2006b) rhaid ystyried effeithiau amgylcheddol holl bolisïau cyn penderfynu pa bolisïau i'w mabwysiadu. Dylid ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol dewisiadau ar fywyd gwyllt a chynefinoedd, poblogaethau ac iechyd, pridd, dŵr, awyr, ffactorau hinsawdd, tirwedd, etifeddiaeth ddiwylliannol a'r berthynas gynhenid rhwng y rhain. O ganlyniad, mae DEFRA wedi argymell asesu polisïau CRhT trwy ddefnyddio'r dull a ddisgrifiwyd yn y Gyfarwyddeb. Y ddeddfwriaeth sy'n trosi'r Gyfarwyddeb yn gyfraith gartref yw Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (OS 1633, 2004).

1.3.5 Prif nod Cyfarwyddeb yr UE yw ***"darparu ar gyfer amddiffyn yr amgylchedd yn dda a chyfrannu at wneud ystyriaethau amgylcheddol yn rhan o baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni gyda golwg ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy".***

1.3.6 Seiliwyd yr agwedd at AAS CRhT2 Gorllewin Cymru ar amryw ddogfennau cyfarwyddyd allweddol, sef: Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, Canllawiau Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (SDBW, 2005), Canllawiau DEFRA ar AAS (2004), Asesiad Amgylcheddol Strategol a Bioamrywiaeth: Canllawiau i Ymarferwyr (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, English Nature, Asiantaeth yr Amgylchedd, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, 2004), a Nodyn Cyngor Technegol 5 – Cynllunio Gwarchod Natur (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

1.3.7 Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli Cyfnod 3 proses a dull darparu AAS ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru (**Ffigur 1.2**).

Ffigur 1.2 Dull a Chyfnodau'r AAS ar gyfer y CRhT hwn



1.4 Cwmpas a Strwythur yr Adroddiad Hwn

1.4.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys saith pennod a thri helaethiad, gyda'r cyflwyniad hwn yn ffurfio'r Bennod Gyntaf.

1.4.2 Diben yr adroddiad hwn yw adeiladu ar gynnwys a chanfyddiadau'r Adroddiad Cwmpasu a mynegi'n eglur sut mae'r CRhT yn debygol o effeithio ar faterion amgylcheddol allweddol a derbynyddion cysylltiedig traethlin Gorllewin Cymru.

Y canlynol yw penodau Adroddiad Amgylcheddol hwn yr AAS:

Y Bennod Gyntaf sy'n cyflwyno'r ddogfen hon ac yn rhoi cyd-destun defnyddio AAS ym mhroses y CRhT. Yn ogystal, mae'r bennod hon yn egluro sail resymegol y CRhT ei hun ac yn disgrifio goblygiadau posibl y CRhT ar yr amgylchedd ehangach;

Yr Ail Bennod sy'n disgrifio cyd-destun a methodoleg yr AAS, gan gynnwys methodoleg ragfynegi a chloriannu yn ogystal â bylchau data ac ansicrwydd;

Y Drydedd Bennod sy'n rhoi crynodeb o ardal yr astudiaeth gan roi sylw i'r paramedrau a ystyriwyd ar gyfer yr AAS;

Y Bedwaredd Bennod sy'n cyflwyno crynodeb o asesiad y CRhT ar lefel uned ac ardal reoli PDZ, ac yn dod i gasgliadau cysylltiedig ag effeithiau'r cynllun at ei gilydd;

Y Bumed Bennod sy'n rhoi adroddiad ar fesurau lliniaru ac arolygu gofynnol i roi sylw i ansicrwydd neu effeithiau andwyol y CRhT;

Y Chweched Bennod sy'n rhoi manylion y camau nesaf i'w cymryd ym mhroses yr AAS gan gynnwys manylion ar gyfer ymgynghori;

Y Seithfed Bennod sy'n rhoi'r cyfeiriadau ar gyfer yr astudiaeth;

Helaethiad A sy'n cyflwyno asesiad manwl o Bolisi CRhT, ar ffurf tablau asesu ar gyfer yr asedau materol, y gymuned a nodweddion yr amgylchedd hanesyddol;

Helaethiad B sy'n cyflwyno asesiad manwl o Bolisi CRhT, ar ffurf tablau asesu ar gyfer y Safleoedd Natura 2000;

Helaethiad C sy'n cyflwyno asesiad manwl o Bolisi CRhT, ar ffurf tablau asesu ar gyfer y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;

Helaethiad D sy'n cyflwyno asesiad manwl o Bolisi CRhT, ar ffurf tablau asesu ar gyfer Cynefinoedd y Cynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth; a

Helaethiad E sy'n cyflwyno'r Adroddiad Cwmpasu sy'n cynnwys amgylchedd man cychwyn ar gyfer Gorllewin Cymru.

1.5 Nodau ac Amcanion CRhT2 Gorllewin Cymru

1.5.1 Dogfen bolisi anstatudol Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) sy'n dangos agwedd gyson at asesiad lefel uchel o beryglon llifogydd ac erydiad arfordirol (gan ystyried sefydlogrwydd clogwyni) yn ystod y 100 mlynedd nesaf. Mae gofyn iddo ystyried amddiffynfeydd presennol a'r amgylcheddau naturiol ac adeiledig, a chyd-fynd ag ardaloedd arfordirol cyfagos. Bwriad CRhT yw rheoli i ben perygl trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol i leihau bygythiad llifogydd ac erydiad ar bobl a'u heiddo a manteisio'r amgylchedd, cymdeithas a'r economi mor bell ag y bo modd, yn unol ag 'egwyddorion datblygu cynaliadwy' y Llywodraeth.

1.5.2 Aseswyd ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru yn wreiddiol gan Partneriaeth Rheoli'r Draethlin (Grŵp Arfordir Bae Ceredigion; Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gan asesu'r morlin canlynol: Penrhyn y Santes Ann i Aber Afon Teifi; Penmaendewi i Swnt Enlli; Aber Afon Dyfi i Aberdaron ac Ynys Enlli i Ben y Gogarth. Gorffennwyd y rhain yn fuan wedi 2000 ac fe'u cyfunwyd bellach yn un CRhT ar gyfer yr adolygiad cyntaf – CRhT2 Gorllewin Cymru.

1.5.3 Bydd amcanion CRhT2 Gorllewin Cymru, a seiliwyd ar Ganllawiau Cynlluniau Rheoli Traethlin Cyfrol 1: Nodau a Gofynion (DEFRA, 2006a), yn ceisio:

- Cyflwyno peryglon llifogydd ac erydiad i bobl ac amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol ardal astudiaeth CRhT2;
- Gweld cyfleoedd i gynnal a gwella'r amgylchedd trwy reoli peryglon llifogydd ac erydiad arfordirol;
- Nodi'r polisïau dewisol ar gyfer rheoli peryglon llifogydd ac erydiad yn ystod y can mlynedd nesaf;
- Nodi canlyniadau gweithredu'r polisïau dewisol;
- Cyflwyno gweithdrefnau ar gyfer mesur pa mor effeithiol yw'r polisïau hyn;
- Hysbysu eraill fel bod defnydd tir, cynllunio a datblygu'r draethlin yn y dyfodol yn ystyried y perygl a'r polisïau dewisol;
- Annog rhag datblygu amhriodol mewn ardaloedd lle mae peryglon llifogydd ac erydiad yn fawr; a
- Cadw at ddeddfwriaeth ryngwladol a chenedlaethol ar warchod natur a cheisio cyflawni'r amcanion bioamrywiaeth.

1.5.4 Yn ogystal, dehonglodd Llywodraeth Cynulliad Cymru nodau CRhT2 ymhellach, sef:

- Annog darparu cyfundrefnau rhybuddio rhag llifogydd sy'n ddigonol a chost-effeithiol;
- Annog darparu mesurau amddiffyn rhag llifogydd a gwarchod yr arfordir sy'n ddigonol ac yn gadarn a chynaliadwy'n dechnegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd;
- Annog rhag datblygu amhriodol mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd neu erydiad arfordirol; a
- Diwygio'r arweiniad a roddwyd yn y Canllawiau Gwerthuso Prosiectau Gwarchod rhag Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir Cyfrol 3 – Arfarniad Economaidd i

adlewyrchu'r ffaith y dylai cyfiawnhad dros y buddsoddiad cyhoeddus fod ar sail ystyried buddiannau holl ddewisiadau, mesuradwy ac anfesuradwy, gan roi sylw arbennig i'r effeithiau ar bobl, sy'n gallu ac sy'n rhaid eu hystyried ym mhroses cloriannu a gwneud dewisiadau.

1.5.5 O ganlyniad, bwriad yr AAS yw hysbysu proses CRhT2 o'r cyfyngiadau cymdeithasol ac amgylcheddol, materion ac effeithiau polisïau rheoli'r draethlin, a bydd yn asesu'r polisïau hyn i wneud proses dewis polisïau eglur ac agored.

1.5.6 Ar gyfer CRhT2, caiff rhannau o'r arfordir eu hystyried mewn perthynas â'u dylanwad ar (a'u rhyngweithiad gydag) ardaloedd eraill o'r CRhT ac, felly, datblygwyd cyfres o 20 Parth Datblygu Polisi (PDZ) yn ymgorffori rhannau penodol o'r arfordir, fel sydd i'w weld yn **Ffigur 1.3**. Ystyriwyd y darnau hyn o forlin mewn perthynas â'u dylanwad ar, a'u rhyngweithiad gydag, ardaloedd eraill o'r CRhT. Ar ben hynny, rhannwyd pob PDZ yn Unedau Rheoli (MAN), 62 ohonynt i gyd, a chânt hwy eu hunain eu rhannu wedyn yn Unedau Polisi (PU) arwahanol. Mae map o'r unedau polisi ym Mhennod 4 CRhT2.

1.5.7 Bydd y dewis mwyaf priodol ar gyfer rheoli traethlin yn dibynnu ar y darn o draethlin dan sylw ac ar amgylchiadau technegol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Caiff y pedwar dewis a ystyriwyd ar gyfer rheoli traethlin yn ail genhedlaeth y CRhT eu cyflwyno yn **Nhabl 1.1**.

1.5.8 At ddibenion cynllunio, seiliwyd datblygiad y CRhT ar gyfnodau, sef ymhen 0 - 20 mlynedd (2005 - 2025), 20 - 50 mlynedd (2025 - 2055) a 50 - 100 mlynedd (2055 - 2105).

1.5.9 Gall pob un o bolisïau'r CRhT sy'n cael eu cyflwyno yn **Nhabl 1.1** effeithio ar yr amgylchedd ehangach mewn un ffordd neu fwy. Mae **Tabl 1.2** yn cyflwyno goblygiadau posibl pob dewis.

Ffigur 1.3 Ardal Astudiaeth a PDZ Gorllewin Cymru

Tabl 1.1 Dewisiadau a Ddefnyddiwyd wrth Ddatblygu'r CRhT

Dewis y CRhT	Disgrifiad o'r dewis
Cadw'r llinell (HTL) 	Cadw'r llinell amddiffyn bresennol trwy gynnal neu'n newid y safon amddiffyn. Bydd y polisi hwn yn cwmpasu'r sefyllfaoedd hynny lle mae gwaith neu gamau gweithredu'n cael eu gwneud o flaen yr amddiffynfeydd presennol (fel porthi traeth, ailadeiladu troed adeiledd, codi morgloddiau alltraeth ac ati), i wella neu gynnal y safon y llinell amddiffyn bresennol. Gallai hyn gynnwys polisïau eraill sy'n golygu camau gweithredu y tu cefn i amddiffynfeydd presennol (fel codi muriau llifogydd eilaidd) lle byddant yn ffurfio rhan hanfodol o gynnal cyfundrefn bresennol amddiffyn yr arfordir.
Symud y llinell ymlaen (ATL) 	Symud y llinell amddiffyn bresennol ymlaen trwy godi amddiffynfeydd newydd ar ochr y môr i'r amddiffynfeydd gwreiddiol. Dylid cyfyngu defnyddio'r polisi hwn i'r unedau polisi hynny lle caiff adennill tir sylweddol ei ystyried.
Adlinio rheoledig (MR) 	Gadael i'r draethlin symud yn ôl neu ymlaen, gan reoli neu gyfyngu ar y symudiad (fel lleihau erydiad neu godi amddiffynfeydd newydd ar ochr tua'r tir yr amddiffynfeydd gwreiddiol).
Dim ymyriad gweithredol (NAI) 	Peidio â buddsoddi mewn amddiffynfeydd arfordirol na chymryd camau gweithredu.

Tabl 1.2 Goblygiadau Cyffredinol all Godi gyda Phob Dewis CRhT

Dewis CRhT	Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol
Cadw'r llinell (HTL)	• Gwarchod cynefin daearol tua'r tir o amddiffynfeydd (fel corstiroedd dŵr croyw, morlynnoedd halwynog, morlynnoedd dŵr croyw, coetir a glaswelltir); • Cynnal tirweddau adeiledig; • Gwarchod adnoddau dŵr croyw fel mannau tynnu; • Atal llygredd rhag dod o dir halogedig; • Gwarchod asedau economaidd sydd y tu ôl i amddiffynfeydd (asedau preswyl, diwydiannol, amaethyddol a masnachol); • Gwarchod isadeiledd ac isadeiledd hanfodol; • Gwarchod cymunedau; a • Gwarchod asedau adloniadol, diwylliannol a hanesyddol tua'r tir o'r amddiffynfeydd.	• Ymyrryd ar brosesau arfordirol; • Gwasgfa arfordirol (colli cynefin rhynglanwol); • Atal erydiad arfordirol naturiol rhag amlygu nodweddion daearegol mewn SoDdGA Daearegol, neu newid y prosesau geomorffolegol mewn cyfundrefnau tafodau a thwyni tywod, gan beri bod y safleoedd mewn cyflwr anffafriol; • Llai o amwynder gweledol a golygfeydd o'r môr mewn rhai ardaloedd trwy godi amddiffynfeydd yn uwch; • Colli neu niweidio asedau treftadaeth ar y blaendraeth gyda chynnydd yn lefel y môr; a • Hyrwyddo arferion defnydd tir anghynaliadwy.
Symud y llinell ymlaen (ATL)	Fel Cadw'r Llinell (gwelwch uchod) ynghyd â'r canlynol: • Gwarchod cynefin daearol tua'r tir o amddiffynfeydd (fel corstiroedd dŵr croyw, morlynnoedd halwynog, morlynnoedd dŵr croyw, coetir a glaswelltir); • Cynnal tirweddau adeiledig; • Atal llygredd rhag dod o dir halogedig; • Gwarchod asedau economaidd sydd y tu ôl i amddiffynfeydd (asedau preswyl, diwydiannol, amaethyddol a masnachol); • Gwarchod isadeiledd ac isadeiledd hanfodol; • Gwarchod cymunedau; • Gwarchod asedau adloniadol, diwylliannol a hanesyddol tua'r tir o'r amddiffynfeydd; • Gwarchod asedau treftadaeth claddedig (gan gynnwys coedwig foddedig) yn y blaendraeth; a • Darparu lle ychwanegol ar gyfer cymunedau.	Fel Cadw'r Llinell (gwelwch uchod) ynghyd â'r canlynol: • Ymyrryd ar brosesau arfordirol; • Gostyngiad ar unwaith ym maint cynefin rhynglanwol; • Newid swyddogaeth y cynefinoedd arfordirol presennol; • Mwy o wasgfa arfordirol; • Newid geomorffoleg yr arfordir, gyda phosibilrwydd cynnydd yng nghyflymder erydiad arfordirol o boptu'r llinell newydd; • Posibilrwydd dirywiad yn Statws / Potensial Ecolegol y corff dŵr dan sylw (h.y. trosiannol neu arfordirol); • Effeithiau uniongyrchol ar y dirwedd ac amwynder gweledol; • Tarfu ar asedau treftadaeth yn y blaendraeth; • Tarfu ar asedau adloniadol yn y blaendraeth; ac • Ansicrwydd effeithiau.

Dewis CRhT	Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol
Adlinio rheoledig (MR)	• Cynefin arfordirol yn mudo tua'r tir wrth i lefel y môr gynyddu; • Creu cynefin tir gwlyb yn unol â thargedau UKBAP a BAP lleol; • Creu cynefin ar gyfer adar yn bwydo, pysgod ifanc a creaduriaid dyfrol eraill; • Lleihau perygl llifogydd / erydu i rai ardaloedd; • Hyrwyddo prosesau naturiol yr arfordir a chyfrannu at reoli'r arfordir yn fwy cynaliadwy; • Gwell amwynder gweledol a thirweddau naturiol ar hyd yr arfordir; • Gwella Statws / Potensial Ecolegol y corff dŵr oddi amgylch; a hefyd • Cynnal amwynder adloniadol y blaendraeth.	• Mwy o lifogydd / erydu o'r ardal a adliniwyd neu ardal y cilio rheoledig; • Colli neu newid cyflwr cynefin dŵr codi / croyw tua'r tir o'r amddiffynfeydd; • Colli nodweddion a chymeriad tirwedd adeiledig; • Effaith ar ddyfrhaenau a thyniadau; • Halogi cyrff dŵr os ydynt o gwmpas tir halogedig; • Colli asedau economaidd yng nghefnwlad amddiffynfeydd (e.e. asedau preswyl, diwydiannol, amaethyddol a masnachol); • Colli isadeiledd ac isadeiledd hanfodol; • Colli cymunedau; a hefyd • Colli asedau adloniadol a threftadaeth
Dim ymyriad gweithredol (NAI)	• Cynefin arfordirol yn mudo tua'r tir wrth i lefel y môr gynyddu; • Creu cynefin tir gwlyb yn unol â thargedau UKBAP a BAP lleol; • Creu cynefin ar gyfer adar yn bwydo, pysgod ifanc a creaduriaid dyfrol eraill; • Hyrwyddo amddiffynfeydd arfordirol naturiol; • Cyfrannu at reoli'r arfordir yn fwy cynaliadwy a naturiol; • Datblygu tirwedd arfordirol fwy naturiol; • Cynnal cyflwr ffafriol SoDdGA Daearegol. • Gwella Statws / Potensial Ecolegol y corff dŵr oddi amgylch; a hefyd • Cynnal amwynder adloniadol y blaendraeth.	• Colli cynefinoedd dŵr croyw a daearol, a newidiadau mewn morlynnoedd halwynog pan fydd amddiffynfeydd yn methu; • Colli neu newid cyflwr cynefin dŵr codi / croyw tua'r tir o'r amddiffynfeydd; • Colli nodweddion a chymeriad tirwedd adeiledig; • Dirywiad tirwedd gyda llai o amddiffynfeydd; • Effaith ar ddyfrhaenau a thyniadau; • Llifogydd / erydiad afreoledig yn arwain at lygredd yn dod o dir halogedig; • Colli asedau economaidd yng nghefnwlad amddiffynfeydd (e.e. asedau preswyl, diwydiannol, amaethyddol a masnachol); • Colli isadeiledd ac isadeiledd hanfodol; • Colli cymunedau; • Perygl llifogydd / erydu afreoledig i eiddo preswyl a masnachol ac isadeiledd; • Colli asedau treftadaeth; • Ansicrwydd effeithiau ac amser i addasu.

1.6 Goblygiadau Polisi CRhT i Dderbynyddion Amgylcheddol

1.6.1 Mae Canllawiau i Ymarferwyr (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, English Nature, Asiantaeth yr Amgylchedd, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, 2004), Cyfres Nodiadau Esboniadol AAS CCGC, (CCGC, 2007), a chanllawiau AAS DEFRA (DEFRA, 2006a; 2006b) yn nodi cyfres o dderbynyddion amgylcheddol, a ddylai ffurfio sail a chwmpas dechreuol yr AAS. Y derbynyddion yw'r nodweddion amgylcheddol all deimlo effaith polisïau'r CRhT.

1.6.2 Mae canllawiau CRhT yn gofyn bod y CRhT yn cael ei ddatblygu mewn ymateb i ystyriaeth o nodweddion amgylcheddol yr arfordir, nodweddion sydd angen eu hasesu i benderfynu beth yw natur a nodweddiad yr arfordir. Mae gwahaniaeth ystyr yma rhwng meini adeiladu'r AAS a'r CRhT. Felly, mae angen eglurhau'r cysylltiad rhwng nodweddion CRhT â derbynyddion AAS, ac yna benderfynu sut all y CRhT effeithio ar y derbynyddion. Mae **Tabl 1.3** isod yn croesgyfeirio rhwng derbynyddion AAS a therminoleg CRhT.

Tabl 1.3 Terminoleg CRhT ac AAS

Materion ac Amcanion CRhT	Adolygiad Thematig CRhT	Derbynnydd AAS
Yr Amgylchedd	Yr amgylchedd naturiol	Cynefinoedd
		Rhywogaethau
		Awyr a dŵr
	Amaethyddiaeth	Pridd
	Tirwedd a chymeriad	Tirwedd
		Asedau materol
		Poblogaeth
Treftadaeth	Yr amgylchedd hanesyddol	Etifeddiaeth ddiwylliannol
Masnachol	Defnydd tir heddiw ac yn y dyfodol	Poblogaeth a chymunedau
Adloniant		Poblogaeth a chymunedau
Asedau caled		Poblogaeth a chymunedau



1.6.3 Yn ôl Rheoliadau AAS, mae angen gwneud gwerthusiad dechreuol o bob derbynnydd amgylcheddol i edrych ar effeithiau tebygol y CRhT. Cydgasglwyd y derbynyddion a ddatblygwyd ar gyfer AAS CRhT2 Gorllewin Cymru o'r derbynyddion a bennwyd yn y canllawiau AAS. Y bwriad oedd sicrhau bod datblygiad y CRhT a swyddogaeth yr AAS wrth asesu a datblygu polisi'n cael ei ddarparu o ran casgliad cyson o feini prawf a seiliwyd ar ganllawiau CRhT ac AAS.

1.6.4 Fodd bynnag, mae gofynion penodol proses y CRhT yn golygu cael agwedd ystyriol at nodi materion a derbynyddion er mwyn defnyddio termau a seiliau cyffredin a chyson ar gyfer asesu. Er enghraifft, oherwydd natur proses y CRhT a'i chymhwyso ar hyd yr arfordir, gwahanwyd bioamrywiaeth, anifeiliaid a phlanhigion yn ddau dderbynnydd, cynefinoedd a rhywogaethau, oherwydd bod y rhaniad hwn yn galluogi mesur asesiad effeithiau ar y derbynyddion hyn yn well.

1.6.5 Yna mae modd olrhain yr effeithiau ar dderbynyddion ar y cyd, i weld sut all y CRhT ddylanwadu ar faterion ac amcanion themâu'r CRhT. Mae'r cam hwn yn rhoi eglurder cysylltiedig â sut yr ystyriwyd yr amgylchedd wrth gynhyrchu'r CRhT a'i asesu yng nghyd-destun yr AAS.

1.6.6 Fe all holl ddewisiadau polisi'r CRhT effeithio ar holl dderbynyddion yr AAS, ac eithrio'r awyr. Hepgorwyd yr awyr fel derbynnydd a allai deimlo effaith y CRhT, oherwydd na nodwyd unrhyw lwybr ar gyfer yr effaith hon. Mae polisi'r CRhT yn ymwneud â thir, dŵr a'r rhyngwyneb llanwol fel ardal ofodol, ni noddwyd unrhyw enghreifftiau lle gallai polisi CRhT gael unrhyw effaith, cadarnhaol neu negyddol, ar ansawdd yr awyr.

1.6.7 Mae nodi derbynyddion all deimlo effaith y CRhT yn rhoi canolbwynt i'r asesiad dilynol.

1.7 Ymgynghori

1.7.1 Mae CRhT Gorllewin Cymru wedi dilyn y gweithdrefnau a bennwyd yng nghanllawiau'r CRhT o ran ymgynghori, sy'n cael eu disgrifio ymhellach isod.

1.7.2 Sefydlodd Adroddiad Cwmpasu'r AAS y man cychwyn amgylcheddol (gan gynnwys materion amgylcheddol allweddol) gan ddatblygu cyfres o feini prawf asesu a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar gyfer asesu polisi CRhT.

1.7.3 Defnyddiwyd yr Adroddiad Cwmpasu fel sail i ymgynghori pum wythnos pryd y gwahoddwyd yr ymgyngoreion sy'n cael eu rhestru isod i roi sylwadau ar y man cychwyn amgylcheddol a'r meini prawf asesu (gwelwch **Helaethiad E**).

- Cyngor Sir Penfro;
- Cyngor Sir Ceredigion;
- Cyngor Sir Powys;
- Cyngor Gwynedd;
- Parc Cenedlaethol Eryri;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- HENEB;
- Network Rail;
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
- CBHC;
- Archeoleg Dyfed; ac
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

1.7.4 Yn dilyn drafftio'r Adroddiad Amgylcheddol hwn cafodd ei gyflwyno i gael sylwadau Grŵp Llywio'r Cleient sy'n cynnwys nifer o ymgyngoreion statudol. Defnyddiwyd y sylwadau a dderbyniwyd i derfynu'r Adroddiad Amgylcheddol hwn, a chaiff yr ymatebion a dderbyniwyd a'r camau a gymrwyd i'w hymgorffori yn y ddogfen derfynol hon eu cyflwyno yn **Atodiad F**.

1.8 Cydredeg â Phrosesau Cyfochrog Eraill

1.8.1 Bydd yr AAS yn ffurfio cydran o beirianwaith asesu ehangach y CRhT sydd hefyd yn cynnwys:

- Yr Asesiad Priodol dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt);
- Ystyriaeth o ofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/60/EC yn sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu cymunedol ym maes polisi dŵr); ac
- Fel cydran o'r **Adroddiad Amgylcheddol**, bydd mesurau arolygu'n cael eu pennu ar ôl yr asesiad. Bydd manyleb gwaith arolygu a'r camau gweithredu i ddeddfu'r gofynion arolygu yng Nghynllun Gweithredu'r CRhT (sy'n cael ei drafod isod).

1.9 Cloriannu'r Cynllun a Gwahanol Ddewisiadau

1.9.1 Fel cydran o'r Adroddiad Amgylcheddol, bydd mesurau arolygu'n cael eu pennu ar ôl yr asesiad. Bydd manyleb gwaith arolygu a'r camau gweithredu i ddeddfu'r gofynion arolygu yng Nghynllun Gweithredu'r CRhT (sy'n cael ei drafod isod).

1.9.2 Swyddogaeth CRhT yw ystyried yr arfordir cyfan o safbwynt rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol. Ei gyfansoddiad daearegol sy'n pennu ymddygiad traethlin Gorllewin Cymru ac, felly, mae'n amlwg nad oes un agwedd ar amgylchedd yr arfordirol (o ran ei ymddygiad ffisegol, naturiol neu adeiledig) yn bwysicach na'r lleill. Mae cyd-ddibyniaeth gymhleth rhwng gwahanol werthoedd ar hyd yr arfordir llinellol hwn sydd, o'i roi'n syml, yn golygu bod gwneud penderfyniad yn un ardal reoli'r CRhT yn gallu effeithio ar amryw unedau polisi cyfagos.

1.9.3 O ganlyniad, pe bai polisi CRhT ym mhob ardal reoli'n cael ei asesu'n unigol a chyfunol, yna byddai effaith lluosydd ar hyd y draethlin fel y byddai angen asesu pob uned reoli nid yn unig o ran y pedwar dewis a fanylwyd uchod, ond o ran pob dewis wedi'i gyfuno ag un o bedwar dewis yn y ddwy uned reoli gyfagos. O ran hyn, felly, ystyriwyd ei bod yn amhriodol ac anhylaw cymhwyso gweithdrefn syml ac anhyblyg o werthuso polisi i bob dewis CRhT. Seiliwyd sail resymegol ychwanegol i'r penderfyniad hwn ar y ffaith nad oedd dim ond nifer cyfyngedig o ddewisiadau polisi'n briodol mewn llawer o ardaloedd rheoli, mewn gwirionedd. Er enghraifft, byddai polisi adlinio rheoledig yn hollol amhriodol i gytref boblog, fel y byddai polisi symud y llinell ymlaen ar draethlin ddynamig a naturiol. Fel y cyfryw, ystyriwyd hefyd bod asesu pob dewis polisi CRhT ar gyfer pob ardal reoli'n rhy afrosgo ac, felly, yn ddiangen yng nghyd-destun CRhT, yn enwedig pan gymhwyswyd yr AAS drwy ddatblygiad polisi i gyd.

1.9.4 Y ffactor allweddol yma yw yr ystyriwyd yr agweddau eraill at reoli o fewn prosesau'r CRhT yn unol â chanllawiau CRhT. Tra nad yw'r broses hon yn defnyddio'r un derminoleg â phroses yr AAS, a bod sut y byddai gwahanol ddewisiadau'n cael eu hasesu'n wahanol i asesiad syml seiliedig ar AAS, mae'r CRhT serch hynny'n rhoi ystyriaeth drwyadl a chadarn o ddewisiadau rheoli ymarferol. Mae'r broses hon, gwaith cloriannu dewisiadau o fewn y CRhT, yn rhoi disgrifiad eglur o sut y cloriannwyd dewisiadau a dylid ei defnyddio i gael dealltwriaeth o sut y datblygodd polisi.

2 CYD-DESTUN A METHODOLEG

2.1 Dewisiadau Gwahanol a Pharthau Datblygu Polisi (PDZ)

2.1.1 Bydd CRhT2 Gorllewin Cymru yn rheoli'r draethlin trwy edrych ar bedwar gwahanol ddewis datblygu polisi gan gynnwys cadw'r llinell amddiffyn bresennol; gwella'r llinell amddiffyn bresennol; adlinio rheoledig; neu ddim ymyriad gweithredol (gwelwch **Dabl 1.1**). Bydd y polisïau hyn yn cael eu hasesu gyferbyn â'r asedau a meini prawf amgylcheddol (gwelwch isod) yn ardal yr astudiaeth, fesul uned ar gyfer 20 Parth Datblygu Polisi (PDZ), (gwelwch **Ffigur 1.3**) lle gwnaed asesiadau o asedau, anheddau, henebion a safleoedd dynodedig, ac sy'n cael eu manylu yn **Atodiadau A i D**.

2.2 Methodoleg CRhT2 Gorllewin Cymru

2.2.1 Caiff fframwaith yr AAS ei nodi yn **Adran 1.2, Pennod 1**. Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r fethodoleg a ddefnyddiwn i nodi a rhagweld effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol gweithredu'r cynllun.

2.2.2 Er mwyn asesu effeithiau amgylcheddol gweithredu'r CRhT, byddwn yn mabwysiadu trefn barn arbenigol ar sail tystiolaeth. Seiliwyd y dull hwn ar y patrwm Ffynhonnell-Llwybr-Derbynnydd (SPR) sy'n cael ei dderbyn yn eang (**Ffigur 2.1**).

Ffigur 2.1 Patrwm Ffynhonnell-Llwybr-Derbynnydd fel y cymhwyswyd i AAS



2.2.3 Bydd y cloriannu'n waith ansoddol seiliedig ar farn broffesiynol gyda chefnogaeth deunydd darllen a adolygwyd gan gydweithwyr lle bo modd a thynnu safleoedd a nodweddion gyda GIS. Bydd hyn yn cael ei wneud ar lefel uchel mewn cymhariaeth â asesu safle manwl a bydd yn cael ei seilio hefyd ar effeithiau a materion sefydledig sy'n cael eu nodi yn **Adran 3** (ac asesiad polisïau, cynlluniau a strategaethau a nodwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r AAS) a barn arbenigol ar effeithiau disgwyliedig ar y derbynyddion.

2.2.4 Bydd perfformiad pob uned unigol cysylltiedig â phob PDZ gyferbyn ag amcanion, dangosyddion a thargedau'r AAS (gwelwch adran **2.4**) yn cael dosbarthiad arwyddocâd yn ogystal â chrynodeb disgrifiadol byr (e.e. effeithiau negyddol helaeth heb ansicrwydd).

2.2.5 Caiff penderfynu'r effaith ei seilio ar archwilio ffynonellau effaith all ddigwydd (ffisegol, cemegol neu fiolegol), ar hyd pa lwybr y gallai'r effaith ddylanwadu ar dderbynnydd (e.e. ôl troed uniongyrchol aflonyddwch neu newid proses arfordirol anuniongyrchol), a'r amgylchedd neu adnodd sy'n derbyn (y derbynnydd).

2.2.6 Bydd penderfynu arwyddocâd pob effaith debygol gyferbyn â'r amrywiol dderbynyddion a nodwyd yn ystyried y meini prawf canlynol:

- hyd a lled;
- maint;

- sensitifedd yr amgylchedd sy'n derbyn;
- parhad, amlder; a
- gwrthdroadwyedd.

2.2.7 Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, yn fras, dosbarthwyd effeithiau naill ai fel buddiol neu andwyol, gyda'r disgrifydd 'mân', 'sylweddol' neu 'niwtral' yn cael ei ddefnyddio i ddynodi a yw'r effaith yn arwyddocaol neu beidio ar sail meini prawf arbennig. Caiff y meini prawf eu cyflwyno yn **Nhabl 2.1** a chaiff y derbynyddion eu pennu yng Nghanllawiau Ymarferol yr AAS (SDBW, 2005) a'u rhestru yn **Nhabl 1.3**.

Tabl 2.1 Meini Prawf Arwyddocâd a Ddefnyddiwyd wrth Asesu Effeithiau

Arwyddocâd	Disgrifiad
Cadarnhaol Sylweddol	Mae'r polisi'n debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar baramedrau pwysig yn genedlaethol (neu'n rhyngwladol), neu gyflawni'r amcan cynaliadwyedd yn sylweddol. Gall yr effeithiau cadarnhaol fod yn fyrdymor ar raddfa fawr neu hirdymor ac ar raddfa genedlaethol. Yn ogystal, mae effeithiau cadarnhaol cronnus ac anuniongyrchol sylweddol yn debygol o fewn ac oddi allan i ardal CRhT2 Gorllewin Cymru.
Cadarnhaol Cymedrol	Mae'r polisi'n debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar baramedrau pwysig yn rhanbarthol, neu gyflawni'r amcan cynaliadwyedd yn gymedrol, neu effaith gadarnhaol sylweddol ar raddfa leol. Gall yr effeithiau cadarnhaol fod yn fyrdymor ar raddfa fawr neu'n hirdymor ac ar raddfa ranbarthol. Byddai effeithiau cronnus cadarnhaol yn deillio rhwng cylchoedd lleol neu nifer o baramedrau.
Mân Gadarnhaol	Mae'r polisi'n debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar baramedrau pwysig yn lleol, neu gyflawni'r amcan cynaliadwyedd i raddau. Byddai effeithiau'n fyrdymor a hirdymor, neu gallent fod yn effeithiau cadarnhaol cymedrol yn y byrdymor. Fe all effeithiau cronnus neu anuniongyrchol fod yn gyfyngedig neu ddim o gwbl yn ardal CRhT2 Gorllewin Cymru.
Niwtral	Ni fyddai'r polisi'n peri unrhyw effeithiau neu newid cadarnhaol na negyddol i'r amcan yn y byrdymor na'r hirdymor. Mae sgôr niwtral yn digwydd pan fo cryn dipyn o sicrwydd nad oes rhagolwg o unrhyw effaith gadarnhaol na negyddol, neu pan fyddai effaith yn ddibynnol ar leoliad mesurau polisi o'r fath.
Mân Negyddol	Mae'r polisi'n debygol o arwain at effaith negyddol ar baramedrau pwysig yn lleol, neu leihau ychydig ar yr amcan cynaliadwyedd. Byddai effeithiau'n fyrdymor a hirdymor, neu gallent fod yn effeithiau negyddol cymedrol yn y byrdymor. Fe all effeithiau cronnus neu anuniongyrchol fod yn gyfyngedig neu ddim o gwbl yn ardal CRhT2 Gorllewin Cymru.
Negyddol Cymedrol	Mae'r polisi'n debygol o arwain at effaith negyddol ar baramedrau pwysig yn rhanbarthol, neu leihau'r amcan cynaliadwyedd yn gymedrol. Byddai effeithiau'n fyrdymor a hirdymor, neu gallent fod yn effeithiau negyddol sylweddol yn y byrdymor. Gall y polisi beri effeithiau cronnus ac anuniongyrchol cyfyngedig mewn ardal prosiect.
Negyddol Sylweddol	Mae'r polisi'n debygol o effeithio'n negyddol ar baramedrau pwysig yn genedlaethol (neu'n rhyngwladol) neu gyfres o effeithiau hirdymor ar raddfa fach (cronnus). Mae'r polisi'n debygol o darfu'n sylweddol ar gyflawni'r amcan cynaliadwyedd. Gall effeithiau anuniongyrchol hefyd ymestyn oddi allan i ardal CRhT2 Gorllewin Cymru.
?	Data anhysbys neu annigonol.

2.3 Lliniaru ac Arolygu

2.3.1 Bydd unrhyw fesurau lliniaru neu arolygu sydd eu hangen o ganlyniad i'r asesiad hwn yn cael eu manylu'n eglur a'u rhestru yn yr adroddiad hwn ac, yn y pen draw, yn cael eu manylu yng Nghynllun Gweithredu'r CRhT. Mae'r dull hwn yn rhoi'r peirianwaith cyflawni mwyaf cadarn, gan fod y Cynllun Gweithredu, a) yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r CRhT, a b) yn adeiladu ar y swyddogaethau trefnyddol a datblygwyd ym mhroses y CRhT.

Sylwch: Mae'n bwysig nodi bod yr agwedd at AAS ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru ar lefel uwch nag ar gyfer Asesu Effaith Amgylcheddol (AEA) prosiect penodol.

O ganlyniad, mae effeithiau'n cael eu targedu ar faterion graddfa 'ranbarthol' ac, fel y cyfryw, ystyriwyd bod y dangosyddion sy'n rhoi canolbwynt ar raddfa ranbarthol yn bwysicach na'r rhai sy'n rhoi gwybodaeth ar raddfa leol neu sirol. Mae hyn yn unol â'r Gyfarwyddeb AAS.

2.4 Amcanion AAS

2.4.1 Nod datblygu cynaliadwy yw cydbwyso cynnydd economaidd gydag anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol, a pheidio â chymryd adnoddau y gall fod eu hangen ar genedlaethau'r dyfodol i oroesi a datblygu. Polisïau rheoli traethlin yn gynaliadwy fydd y rhai sy'n ystyried y cysylltiadau ag amddiffynfeydd, datblygiadau a phrosesau eraill, ac sy'n osgoi, hyd y bo modd, ymrwymo cenedlaethau a ddaw i ddewisiadau amddiffyn anhyblyg a drud. Dylai gweithredu'r polisïau elwa rhanddeiliaid a chynorthwyo gwella'r amgylchedd, yn genedlaethol ac yn lleol. Mewn perthynas â'r arfordir mae ansawdd amgylcheddol yn cynnwys daeareg a geomorffoleg, tirwedd, treftadaeth, planhigion ac anifeiliaid a'u cynefinoedd cysylltiedig, ansawdd ac adnoddau dŵr (ar gyfer bodau dynol a'r amgylchedd naturiol), a'r amryw "asedau" ac "adnoddau" amgylcheddol eraill.

2.4.2 Amcanion cynaliadwyedd yw'r arf hanfodol ar gyfer cymharu a phenderfynu wrth greu a dewis polisïau CRhT2. Caiff amcanion CRhT2 Gorllewin Cymru eu cyflwyno yn **Nhabl 2.2** a seiliwyd ar amcanion CRhT2 cyffiniol Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr sy'n mynd tua'r dwyrain o'r Gogarth (Halcrow, 2010) er mwyn sicrhau cysondeb ar draws unedau'r CRhT yn ogystal â chysondeb wrth asesu effeithiau posibl polisïau'r CRhT. Ychwanegwyd at y dangosyddion a gyflwynwyd gyda'r amcanion cynaliadwyedd (Halcrow, 2010) pan oedd hynny'n berthnasol i ardal astudiaeth y CRhT hwn. Mae'r dangosyddion yn sicrhau ble bynnag y bo modd bod modd gwneud asesiad gwrthrychol a mesuradwy o'r polisïau, gan roi mwy o eglurder. Gall y dangosyddion hyn hefyd fod yn rhai o'r dangosyddion allweddol fyddai'n cael eu defnyddio i gadw golwg ar bolisïau CRhT2 i'r dyfodol. Ar gyfer asesiad strategol fel hwn, dylid nodi ni fydd safleoedd RSPB, Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNL) a Gwarchodfeydd Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn cael eu cynnwys yn yr AAS hwn ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru.

Tabl 2.2 Amcanion a Dangosyddion Cynaliadwyedd CRhT2 Gorllewin Cymru

Amcan AAS	Nodweddion sydd o fewn yr Amcan	Dangosydd	Targed
Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid			
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol.	• Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) • Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) • Safleoedd Ramsar ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig • Gwarchodfeydd Biogenetig a Biosffer	Statws cadwraeth dywededig safleoedd cadwraeth rhyngwladol cysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydiad.	Dim dirywiad yn statws cadwraeth safleoedd dynodedig o ganlyniad i newidiadau ym mesurau rheoli perygl erydiad / llifogydd.
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol.	• Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) • Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG)	Statws cadwraeth dywededig safleoedd cadwraeth cenedlaethol cysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydiad.	Dim dirywiad yn statws cadwraeth safleoedd dynodedig o ganlyniad i newidiadau ym mesurau rheoli perygl erydiad / llifogydd.
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol.	• Cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol	Cynefin BAP yn bresennol.	Dim colled ym maint cynefin BAP.
Daeareg a Geomorffoleg			
Cynnal prosesau naturiol a gweledded a hygyrchedd amlygiadau daearegol yn holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.	• Safleoedd Daearegol o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) cysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydiad • Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol (GCR) • Safleoedd Daearegol Pwysig yn Rhanbarthol (RIGS)	Statws cadwraeth dywededig SoDdGA daearegol, GCR a RIGS cysylltiedig ag erydiad a llifogydd.	Dim dirywiad yn statws cadwraeth y safle dynodedig o ganlyniad i newidiadau ym mesurau rheoli perygl erydiad / llifogydd.
Cynnal a gwella priodweddau geomorffolegol nodweddion naturiol.	• Traethau • Cyfundrefnau twyni	Nifer y nodweddion naturiol sydd â swyddogaeth amddiffyn naturiol rhag llifogydd ar hyn o bryd.	Dim colled o nodweddion naturiol sydd â swyddogaeth amddiffyn naturiol rhag llifogydd ar hyn o bryd.
Dŵr			
Osgoi llygru pridd a sicrhau nad oes dim dirywiad yn ansawdd dŵr.	• Safleoedd tirlenwi (ffynhonnell AyrA), diwydiant sylweddol a safleoedd gwastraff peryglus, mwyngloddiau segur, tir a allai fod yn halogedig, dŵr ymdrochi dynodedig, dŵr arwyneb a dŵr codi (e.e. Parthau Diogelu Ffynonellau Dŵr Codi) • Pysgodfeydd masnachol a physgodfeydd cregyn (e.e. Ardaloedd Cynaeafu Pysgod Cregyn)	Nifer y safleoedd a allai lygru sydd mewn perygl o lifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol.	Dim cynnydd yn y perygl i safleoedd a allai lygru sydd mewn perygl o lifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.

Amcan AAS	Nodweddion sydd o fewn yr Amcan	Dangosydd	Targed
Cymeriad Tirwedd ac Amwynder Gweledol			
Gwarchod a gwella tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn perthynas â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro gydag Amcanion AHNE a Chynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol.	Newidiadau yng nghymeriad tirwedd a golygfeydd o fewn: • Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) • Parciau Cenedlaethol • Arfordiroedd Treftadaeth	Cydymffurfio ag amcanion AHNE a'r Parciau Cenedlaethol perthnasol i reoli perygl llifogydd llanwol / erydiad. Newid yng nghymeriad tirwedd o fewn ardaloedd dynodedig.	Dim effeithiau andwyol ar gymeriad tirwedd o fewn safleoedd dynodedig o ganlyniad i newid ym mesurau rheoli perygl erydiad / llifogydd.
Amgylchedd Hanesyddol (Etifeddiaeth Ddiwylliannol)			
Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo asedau a safleoedd etifeddiaeth ddiwylliannol rhestredig ac eraill a'u hamgylchoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol.	• Safleoedd Treftadaeth y Byd • Henebion Cofrestredig (SM) (Cymru a Lloegr) • Parciau a Gerddi Cofrestredig • Adeiladau Rhestredig • Ardaloedd Cadwraeth	Ardaloedd o bwysigrwydd pensaernïol ac archeolegol sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd ym mherygl llifogydd llanwol / erydu i nodweddion archeolegol sy'n sensitif i erydiad / llifogydd, o'i gymharu â'r polisi gwneud dim'.
Asedau Materol			
Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol.	• Porthladdoedd, ierdydd cychod, angorfeydd, clybiau hwylio, llwybrau fferi a dyfrffyrdd, gwylwyr y glannau, badau achub ac achubwr. • Mynediad at y môr a mordwyo	Nifer y gweithrediadau a gweithgareddau morol sy'n teimlo effaith erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer y gweithrediadau a gweithgareddau morol sy'n teimlo effaith erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo isadeiledd hanfodol a gweld bod gwasanaethau hanfodol yn aros yn weithredol.	• Traffyrdd, ffyrdd A, ffyrdd B a mân ffyrdd (lle mae cysylltiad yn fater allweddol) • Rheilffyrdd a gorsafoedd • Meysydd awyr • Meysydd awyr rhyngwladol • Gorsafoedd pwmpio, gweithfeydd trin carthion, chwareli, cyfleusterau presennol cynhyrchu trydan (e.e. atomfeydd) ac is-orsafoedd • Mynediad ar gyfer y gwasanaethau brys	Nifer yr asedau isadeiledd allweddol sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer yr asedau isadeiledd allweddol sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Defnydd Tir			
Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo tir amaethyddol lle nid yw'n cyfyngu ar fioamrywiaeth.	Tir amaethyddol graddau 1 – 3a	Graddau tir amaethyddol sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol i dir amaethyddol graddau 1 – 3a.

Amcan AAS	Nodweddion sydd o fewn yr Amcan	Dangosydd	Targed
Poblogaeth			
Rheoli ac addasu i erydiad arfordirol a gorlifo pobl ac eiddo preswyl.	• Eiddo ar wahân • Tai mewn pentrefi, trefi a dinasoedd glan môr • Y gymuned	Nifer yr eiddo preswyl sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer yr eiddo preswyl sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Rheoli ac addasu i erydiad arfordirol a gorlifo neu ddifrodi cyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol.	• Cyfleusterau cymunedol allweddol agored i niwed (e.e. meddygfeydd, ysbytai, cartrefi henoed, ysgolion, siopau, eglwysi, llyfrgelloedd, prifysgolion ac ati) • Cyfleusterau amwynderol allweddol (e.e. tir agored cyhoeddus ac ati) • Cyfleusterau adloniadol allweddol (e.e. cyrsiau golff, traethau ymdrochi, promenadau ffurfiol, llwybrau beicio cenedlaethol, Parciau Gwledig, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cestyll a Cheyrydd ac ati) • Mynediad at gyfleusterau cymunedol / amwynderol	Nifer y cyfleusterau cymunedol, amwynderol ac adloniadol gwerth uchel sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer y cyfleusterau cymunedol, amwynderol ac adloniadol gwerth uchel sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Rheoli ac addasu i erydiad arfordirol a gorlifo er mwyn lleihau perygl i asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd.	Siopau, swyddfeydd, busnesau, ffatrïoedd, warysau, ardaloedd a ddynodwyd i'w hadfywio, meysydd carafanau, meysydd awyr, safleoedd tynnu carreg a mwynau, sefydliadau milwrol a meysydd cyflogaeth allweddol eraill	Nifer yr asedau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer yr asedau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo er mwyn sicrhau bod asedau MoD yn aros yn weithredol.	• Safleoedd MoD (gan gynnwys safleoedd gwaredu, safleoedd creiddiol a meysydd tanio yn y DU)	Nifer y safleoedd MoD sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer y safleoedd MoD sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.

3 ARDAL YR ASTUDIAETH

3.1 Diffinio Ardal yr Astudiaeth

3.1.1 Caiff man cychwyn amgylcheddol a chymdeithasol manwl ei gyflwyno yn **Helaethiad E**, fel rhan o'r Adroddiad Cwmpasu y dylid cyfeirio ato i gael gwybodaeth fwy manwl am ardal yr astudiaeth. Caiff crynodeb o'r man cychwyn a'r materion amgylcheddol allweddol a nodwyd ar gyfer traethlin Gorllewin Cymru eu cyflwyno yn y bennod hon fel cyfeirbwynt yn yr adroddiad hwn at y ffactorau sydd wedi siapio ffurf a chynnwys yr asesiad.

3.2 Man Cychwyn Amgylcheddol Cryno

3.2.1 Mae'r man cychwyn amgylcheddol yn **Helaethiad E** yn cynnwys yr arfordir a'r tir mawr o Benrhyn y Santes Ann, heibio Ynys Enlli i Ben y Gogarth gan gynnwys Ynys Môn. Mae hyd lawn arfordir ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru tua 460km gan gynnwys aberoedd. Isod mae disgrifiad cyffredinol o'r amgylchedd ffisegol.

3.2.2 Mae cymeriad y morlin yn amrywiol o drefi glan môr, porthladdoedd gweithredol a phorthladdoedd fferi, i gymunedau gwledig bach a darnau unig o arfordir. Mae'n forlin o olygfeydd garw ysblennydd heb eu difetha, gyda chlogwyni môr uchel, pentiroedd amlwg, baeau bach gyda thraethau o dywod neu raean, ogofâu, staciau craig ac ardaloedd o dwyni tywod amlwg. Dynodwyd llawer o'r morlin yn Arfordir Treftadaeth ac mae o gryn werth diwylliannol, hanesyddol a daearegol. Mae amryw ynysoedd oddi ar y morlin, a'r fwyaf yw Ynys Môn yn y gogledd-orllewin. Mae ardal astudiaeth CRhT2 yn cynnwys morlin a dyffrynnoedd yn siroedd Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Penfro, Powys ac Ynys Môn.

3.2.3 Ffurfiwyd arfordir Bae Ceredigion o gerrig clai a thywodfeini Ordofigaidd a Silwraidd mewn haenau. Bydd y tonnau gwynt mwy ac ymchwydd cefnforol yn symud o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain ym Môr Iwerddon trwy Sianel Sain Siôr. Mae amlygrwydd i donnau'n amrywio ymhob rhan o ardal yr astudiaeth, gyda Sir Benfro'n cysgodi rhai rhannau deheuol o Fae Ceredigion a'r amddiffyniad hwn yn cael ei gynyddu'n lleol gan y pentiroedd creigiog niferus fel Pen Caer a Thrwyn Cemais. Ar hyd ochr ddeheuol Pen Llŷn, daw'r arfordir yn fwy agored i'r tonnau mawr o'r de-orllewin.

3.2.4 Y porthladdoedd masnachol mwyaf nodedig yn ardal yr astudiaeth yw Caergybi ac Abergwaun. Y cylch trefol mwyaf yw dinas Bangor, yn y gogledd, gyda phoblogaeth dros un fil ar hugain.

3.2.5 Defnydd adloniadol a gwerth amwynderol morlin Gorllewin Cymru yw dwy o'i phrif nodweddion. Mae'r arfordir yn adnodd hanfodol i'r diwydiant ymwelwyr yng Nghymru (yn enwedig yn y gogledd a'r de-orllewin), gan gyfrif am chwarter cyfanswm gwariant twristiaeth yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007).

3.2.5 Mae **Ffigurau 3.1** i **3.6** yn rhoi crynodeb o'r asedau amgylcheddol allweddol cysylltiedig â phob un o PDZ CRhT2 Gorllewin Cymru.

3.3 Materion Allweddol yr Amgylchedd

3.3.1 Fel y diffiniwyd eisoes yn **Adran 3.2** a **Helaethiad E**, trwy ystyried y polisi, deddfwriaeth a dynodiadau perthnasol i draethlin Gorllewin Cymru a gyda chefnogaeth trafodaethau

gyda rhanddeiliaid allweddol fel rhan o broses y CRhT, nodwyd cyfres o faterion amgylcheddol. Mae'r materion hyn yn fynegiant o'r problemau y mae angen i'r CRhT roi sylw iddynt wrth gyflwyno polisi ar reoli'r draethlin. Datblygwyd y gyfres i osgoi dibynnu ar faterion cyffredinol rheoli'r arfordir (er bod rhai materion yr un fath o gwmpas yr arfordir ac yn cael eu cynnwys felly). Mae hefyd wedi sôn am yr hyn mae cynlluniau eraill, ymrwymiadau rheoli a rhanddeiliaid yn ystyried yw'r materion amgylcheddol mwyaf hanfodol i draethlin Gorllewin Cymru cysylltiedig â'r amgylchedd dŵr; amgylchedd a daeareg yr arfordir; bioamrywiaeth; yr amgylchedd hanesyddol; y gymuned ac asedau.

Yr Amgylchedd Dŵr

3.3.2 Ymhlith peryglon allweddol i'r amgylchedd dŵr heddiw ac yn y dyfodol mae:

- Digwyddiadau gorlifo dŵr storm amlach a mwy'n arwain at lygru dyfroedd arfordirol naill ai trwy ddiffyg cynnal a chadw neu fwy o law o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd;
- Mwy o 'ôl-lifo' mewn isadeiledd dŵr storm / carthion trwy ddiffyg cynnal a chadw neu fwy o law o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd;
- Cynnydd yn lefel y môr yn arwain at ddynameg arfordirol anrhagweladwy, all gynyddu erydiad arfordirol a difrodi amwynderau arfordirol;
- Gall cynnydd yn lefel y môr arwain hefyd at newidiadau sylweddol mewn dynameg a phrosesau afonol;
- Gallai cynnydd yn lefel y môr / ymchwydd beryglu cyflenwad / tyniadau dŵr;
- Posibilrwydd colli trefi bach a phentrefi oherwydd cynnydd yn lefel y môr, llifogydd llanwol ac afonol, er enghraifft, Y Friog, Biwmares, Y Bermo, Caergybi, Conwy, Abergwaun ac Wdig;
- Effeithiau ar gynefinoedd dŵr croyw mewn ymateb i amddiffynfeydd a/neu wasgfa arfordirol (e.e. effeithiau ar forfa heli);
- Cynnydd mewn gorlifo sydyn oherwydd glaw trwm a chynnydd mewn llifogydd afonol ac arfordirol ac erydiad;
- Ansawdd ymdrochi a dŵr yn gostwng oherwydd posibilrwydd mwy o lygredd gwasgaredig ac ysbwriel ar draethau; a
- Newidiadau yng nghynaliadwyedd pysgodfeydd, twristiaeth ac adloniant.

Amgylchedd a Daeareg yr Arfordir

3.3.3 Ymhlith peryglon allweddol i amgylchedd yr arfordir heddiw ac yn y dyfodol mae:

- Mae amddiffynfeydd arfordirol, sy'n gallu cael cryn effaith ar brosesau naturiol yr arfordir, ar hyd rhyw 29% o forlin Cymru. Maent yn cael cryn effaith ar dirwedd arfordirol Cymru;

Ffigur 3.1 PDZ 1 i 7 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd Dynodedig


N
PDZ 1
PDZ 2
PDZ 3
PDZ 4
PDZ 5
PDZ 6
PDZ 7
PDZ 8
PEMBROKESHIRE COAST NATIONAL PARK
Key
Policy Development Zone
Local Nature Reserve (LNR)
Regioanally Important Geological Site (RIGS)
National Nature Reserve (NNR)
Special Protection Areas (SPA)
Sites of Special Scientific Interest (SSSI)
Special Areas of Conservation (SAC)
0
100
200 Kilometres

Ffigur 3.2 PDZ 7 i 14 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd Dynodedig


N
Holyhead
Bangor
Colwyn Bay
Caernarfon
Pwllheli
Aberystwyth
Llanelli
Fishguard
Carmarthen
Brecon
Swansea
Cardiff
PDZ 13
PDZ 12
PDZ 11
PDZ 10
PDZ 9
PDZ 8
PDZ 7
PDZ 6
CARDIGAN BAY /
BAE CEREDIGION
BARMOUTH
MACHYNLLETH
ABERYSTWYTH
ABERAERON
LLANDILOES
YBALA
Key
Policy Development Zone
Local Nature Reserve (LNR)
Regioanally Important Geological Site (RIGS)
National Nature Reserve (NNR)
Special Protection Areas (SPA)
Sites of Special Scientific Interest (SSSI)
Special Areas of Conservation (SAC)
0
100
200 Kilometres

Ffigur 3.3 PDZ 14 i 20 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd Dynodedig


N
Holyhead
Bangor
Colwyn Bay
Caernarfon
Dolgellau
Aberystwyth
Llanidloes
Fishguard
Carmarthen
Brecon
Swansea
Cardiff
PDZ 18
PDZ 19
PDZ 20
PDZ 17
PDZ 16
PDZ 15
HOLYHEAD
CAERGYBI
ANGLESEY
CAERNARFON
BAY
LIVERPOOL BAY
COLWYN BAY
PRESTATYN
RHYL
HOYLAKE
CAERNARFON
BETWS-Y-COED
PORTHMADOG
BLAENAU FFESTINIOG
LLANDUDNO
BANGOR
MENAI BRIDGE
LLANGOLLEN
Y BALA
Key
Policy Development Zone
Local Nature Reserve (LNR)
Regioanally Important Geological Site (RIGS)
National Nature Reserve (NNR)
Special Protection Areas (SPA)
Sites of Special Scientific Interest (SSSI)
Special Areas of Conservation (SAC)
0
100
200 Kilometres

Ffigur 3.4 PDZ 1 i 7 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd ac Isadeiledd Hanesyddol


N
PDZ 1
PDZ 2
PDZ 3
PDZ 4
PDZ 5
PDZ 6
PDZ 7
PDZ 8
PEMBROKESHIRE COAST NATIONAL PARK
ST BRIDES BAY
CARMARTHEN BAY
Key
School
Power / Gas Station
Sewage and Water Treatment Plant
Hospital
Airport
Protected Wreck
Scheduled Monument
Listed Building
Road
Policy Development Zone
0
100
200 Kilometres

Ffigur 3.5 PDZ 7 i 14 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd ac Isadeiledd Hanesyddol


Holyhead
Bangor
Colwyn Bay
Caernarfon
Dolgellau
Aberystwyth
Llanguno
Fishguard
Carmarthen
Brecon
Swansea
Cardiff
N
PDZ 13
PDZ 12
PDZ 11
PDZ 10
PDZ 9
PDZ 8
PDZ 7
PDZ 6
CARDIGAN BAY /
BAE CEREDIGION
PORTHMADOG
CRICCIETH
PWLLHELI
Llanbedrog
Llandanwg
BARMOUTH
DOLGELLAU
Y BALA
LLANIDLOES
ABERYSTWYTH
ABERAERON
NEW QUAY
BORTH
TYWYN
MACHYNLLETH
Key
School
Power / Gas Station
Sewage and Water Treatment Plant
Hospital
Airport
Protected Wreck
Scheduled Monument
Listed Building
Road
Policy Development Zone
0
100
200 Kilometres

Ffigur 3.6 PDZ 15 i 20 Gorllewin Cymru'n Dangos Safleoedd ac Isadeiledd Hanesyddol


N
Holyhead
Bangor
Colwyn Bay
Caernarfon
Dolgellau
Aberystwyth
Llanidloes
Fishguard
Carmarthen
Brecon
Swansea
Cardiff
HOLYHEAD to
Dun Laoghaire 3 hrs
Dublin
Dun Laoghaire 2 hrs
BIRKENHEAD to
Belfast
Dublin
LIVERPOOL to
Dublin
Dublin
(summer only)
PDZ 18
PDZ 19
PDZ 20
PDZ 17
PDZ 16
PDZ 15
LIVERPOOL BAY
CAERNARFON
BAY
ANGLESEY
HOLYHEAD BAY
HOLY ISLAND
CONWY BAY
HOLYHEAD/ CAERGYBI
AMLWCH
Benllech
BEAUMARIS
MENAI BRIDGE
BANGOR
PENMAENMAWR
LLANDUDNO
COLWYN BAY
ABERGELE
RHYL
PRESTATYN
HOYLAKE
CAERNARFON
BETWS-Y-COED
LLANRWST
DENBIGH
RUTHIN
HOLYWELL
BLAENAU FFESTINIOG
LLAN FFESTINIOG
PORTHMADOG
CRICCIETH
PWLLHELI
Y BALA
LLANGOLLEN
Key
School
Power / Gas Station
Sewage and Water Treatment Plant
Hospital
Airport
Protected Wreck
Scheduled Monument
Listed Building
Road
Policy Development Zone
0
100
200 Kilometres

- Colli neu ddifrodi nodweddion diddordeb daearegol a geomorffolegol ar yr arfordir oherwydd datblygiad a/neu waith arfordirol / amddiffyn rhag llifogydd, fel yn SoDdGA Solfach, SoDdGA y Bermo, SoDdGA Creigiau Pen-y-graig, SoDdGA Traeth Trefdraeth a rhannau o Arfordir Sir Benfro;
- Mae Traeth Mwnt (ger Aberteifi) yn cilio'n araf;
- Cynnydd yn lefel y môr a goblygiadau i adloniant a thwristiaeth;
- Dirywiad amddiffynfeydd arfordirol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd;
- Mwy o berygl llifogydd llanwol ac afonol mewn anheddau fel Aberteifi, Aberaeron, Aberystwyth, Y Borth, Aberdyfi, Tywyn, Y Friog, Y Bermo, Llandanwg, Porthmadog, Pwllheli, Caernarfon, Rhosneigr, Caergybi a Chonwy;
- Gwaith amddiffyn yn ymyrryd ar gyflenwadau gwaddod yn arwain at broblemau erydu gwaeth mewn mannau eraill;
- Digwyddiadau glaw amlach a mwy yn y gaeaf yn arwain at orlifo sydyn ac ansadrwydd clogwyni, gan beryglu anheddau; a
- Diffyg cyflenwad gwaddod o gwmpas yr arfordir yn arwain at broblemau erydu gwaeth, gydag ardaloedd mewn perygl fel twyni tywod y Borth, tra gallai effeithiau cynnydd yn lefel y môr newid amgylchiadau ffisegol a chemegol presennol cynefinoedd fel halltedd morlynnoedd arfordirol.

Bioamrywiaeth

3.3.4 Ymhlith peryglon allweddol heddiw ac yn y dyfodol i fioamrywiaeth mae:

- Newidiadau yn nosbarthiad presennol cynefin a rhywogaethau oherwydd newid yn yr hinsawdd;
- Colli cynefinoedd arfordirol (e.e. morfa heli a gwastadeddau llaid) oherwydd gwasgfa arfordirol rhwng môr uwch ac amddiffynfeydd caled rhag y môr / llifogydd, er enghraifft colli morfa heli / gwastadeddau llaid Aber Mawddach;
- Posibilrwydd peryglon oherwydd cynnydd yn lefel y môr / ymchwydd i gynefinoedd aberol a'r glannau;
- Darnio cynefinoedd;
- Rhywogaethau 'newydd' yn cytrefu cynefinoedd oherwydd newid yn yr hinsawdd;
- Cynnydd yn lefel y môr a cholled uniongyrchol o fioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefin, gyda mwy o berygl llifogydd / gorlifo AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid gan gynnwys morlyn Cemlyn. Fodd bynnag, gall cynnydd yn lefel y môr hefyd fod yn fuddiol i safleoedd o'r fath;
- Mwy o ddefnydd adloniadol o ddyfrffyrdd ac effeithiau cysylltiedig ar gynefinoedd a rhywogaethau, fel effeithiau ar ACA Bae Ceredigion ac ACA Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd;
- Dirywiad cynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig oherwydd gwaith arfordirol ac amddiffyn rhag llifogydd a gwaith sefydlogi clogwyni, fel o gwmpas clogwyni a llethrau morol Gwynedd (e.e. Pen Llŷn);

- Datblygiadau presennol a godwyd mewn mannau amhriodol ar yr arfordir sy'n dibynnu ar waith amddiffyn parhaol;
- Amddiffynfeydd yr arfordir nad oes modd eu cyfiawnadwy'n economaidd mwyach ond sydd ag effeithiau gweddilliol;
- Ymyrryd ar gyflenwadau a symudiad gwaddod ar hyd y lan yn effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig;
- Cynefinoedd dŵr croyw a lled-hallt yn dibynnu ar amddiffynfeydd presennol rhag y môr;
- Bydd cynnydd mewn twristiaeth a gweithgareddau dŵr yn effeithio ar erydu'r arfordir a chlogwyni a gall effeithio ar adar, morfilod ac ati; a
- Mae darnio cynefinoedd yn fater allweddol; yn y blynyddoedd diwethaf bu tuedd gyffredinol i gynefinoedd bywyd gwyllt fynd yn llai ac yn fwy ar wahân. Gall newid yn yr hinsawdd effeithio fwy ar blanhigion ac anifeiliaid ac, felly, mae'n bwysig sicrhau datblygu cysylltiadau a thramwyfeydd fydd yn cynorthwyo bywyd gwyllt ymateb i newid yn yr hinsawdd.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

3.3.5 Ymhlith peryglon allweddol heddiw ac yn y dyfodol i'r amgylchedd hanesyddol mae:

- Colli safleoedd archeolegol fel Henebion Rhestredig a safleoedd hanesyddol trwy lifogydd ac erydiad arfordirol;
- Mwy o bwysau adloniadol ar safleoedd hanesyddol;
- Datblygiad arfordirol amhriodol yn effeithio ar safleoedd hanesyddol a thirweddau hanesyddol;
- Colli mwy o safleoedd hanesyddol oherwydd newid yn yr hinsawdd fel y rhai sy'n digwydd yn y parth rhynglanwol ac islanwol. Ymhlith safleoedd allweddol a allai fod dan fygythiad oherwydd newid yn yr hinsawdd a chyflwr cysylltiedig y tywydd mae: Castell Conwy; Castell Cricieth; Y Mwnt a'r capel; adfeilion eglwys Dwynwen a'r goleudy; Abaty Llandudoch; a Chapel Non; ac
- Mae safleoedd archeolegol niferus heb eu rhestru a heb eu dynodi ar hyd a lled ardal astudiaeth CRhT2, ac mae'n debygol y bydd llawer mwy o safleoedd sy'n anhysbys ar hyn o bryd a allai ddod i'r amlwg yn y dyfodol trwy ddatblygu neu erydu arfordirol parhaol, neu oherwydd effaith polisïau rheoli'r arfordir.

3.3.6 Mae **Tabl 3.1** yn rhestru cyfres o safleoedd amgylchedd hanesyddol o gwmpas morlin Gorllewin Cymru (seiliedig ar yr asesiad manwl yn atodiadau **A i D**) sy'n debygol o fod mewn perygl erydiad o ganlyniad i bolisïau NAI neu MR, gan gynnwys y cyfnod pryd y gallai'r perygl ddigwydd. Caiff y perygl ei nodi gyda blwch lliw coch yn y cyfnod perthnasol.

Tabl 3.1 Safleoedd Hanesyddol Allweddol sydd mewn Perygl Erydiad yn ystod y Tri Chyfnod gyda Senarios NAI neu MR

Uned PDZ	Lleoliad	Math	Nodwedd	Cyfnod		
				1	2	3
1.1	Pen y Castell Bach	Heneb Restredig	Bryngaer			
1.1	Pen y Castell Mawr	Heneb Restredig	Bryngaer			
1.1	Ynys y Geifr	Heneb Restredig	Mynachlog / anheddiad clostir			
1.1	Watery Bay	Heneb Restredig				
1.1	Jack Sound	Heneb Restredig	Parc ceirw caer bentir			
1.1	Tower Point	Heneb Restredig	Rhathlan Tower Point			
1.1	Pen y Castell	Heneb Restredig	Lloc amddiffynedig Pen y Castell			
1.1	Mill Haven	Heneb Restredig	Cerflun bach, Odyn Galch a Rhathlan Mill Haven			
1.2	Sain Ffraid	Adeilad Rhestredig	Pentref bach gyda llawer o nodweddion archeolegol a hanesyddol, gan gynnwys eglwys, mynwentydd, capel a thŵr			
2.7	Aberllydan	Heneb Restredig	Bryngaer, Rhathlan Black Point			
3.1	Dinas Fach	Heneb Restredig	Lloc amddiffynedig Dinas Fach			
3.1	Craig Segar	Heneb Restredig	Gwersyll Porth y Rhaw			
3.1	Penpleidian	Heneb Restredig	Gwersyll Caerfai			
3.1	Castell Heinif	Heneb Restredig	Caer bentir Castell Heinif			
3.1	Porthmelgan	Heneb Restredig	Cylchoedd cutiau a llociau hynafol i'r gogledd-orllewin o Garn Llidi			
3.1	Penmaendewi	Heneb Restredig	Gwersyll Penmaendewi			
3.1	Castell Coch	Heneb Restredig	Caer bentir Castell Coch			
3.1	Caerau	Heneb Restredig	Caerau pentir			
3.1	Abermawr	Heneb Restredig	Melin Aberfelin			
3.1	Pen Castell Coch	Heneb Restredig	Caer bentir			
3.1	Porth Mawr	Heneb Restredig	Caer bentir Castell Coch (ar Benmorfa)			
3.1	Carreg Golchfa	Heneb Restredig	Lloc amddiffynedig			
3.1	Pwll Deri	Heneb Restredig	Cofeb			
3.1	Dinas Mawr	Heneb Restredig	Gwersyll Dinas Mawr			

Uned PDZ	Lleoliad	Math	Nodwedd	Cyfnod		
				1	2	3
3.11	Ynys y Castell	Heneb Restredig	Bryngaer Ynys y Castell			
3.12	Abermawr	Arfordir Treftadaeth	Coedwig foddedig			
3.12	Abermawr	Adeilad Rhestredig	Gorsaf Wrando am Longau Tanfor			
3.8	Porth Mawr	Arfordir Treftadaeth	Coedwig foddedig			
4.15	Parrog Trefdraeth	Adeilad Rhestredig	Tŷ Mawr ac odyn galch ar bwys Kilnhouse			
4.3	Wdig	Adeilad Rhestredig	Bridge Cottages			
4.8	Cwm Abergwaun	Adeilad Rhestredig	Hen Gaer			
4.8	Castle Point	Heneb Restredig	Hen Gaer			
5.1	Castell Tre-Ruffudd	Heneb Restredig	Caer bentir			
5.1	Caer bentir Pen-Castell	Heneb Restredig	Caer bentir			
5.15	Mwnt	Heneb Restredig	Nodweddion crefyddol, corffdy, capel			
5.8	Gwbert	Adeilad Rhestredig	Olion tŷ cyn cyfnod y Normaniaid			
5.9	Craig y Gwbert	Heneb Restredig	Lloc amddiffynedig			
6.3	Penbryn	Heneb Restredig	Castell Bach			
6.6	Llangrannog	Hwylio / Iard Longau	Iardiau llongau			
6.7	Cwmtydu	Heneb Restredig	Castell Bach			
6.8	Cwmtydu	Adeilad Rhestredig	Odyn Galch flaenorol			
10.6	Dyffryn Dyfi	Adeilad Rhestredig	Anheddau			
10.6	Dyffryn Dyfi	Adeilad Rhestredig	Milwrol			
10.6	Dyffryn Dyfi	Heneb Restredig	Domen Las			
11.4	Y Friog	Heneb Restredig	Amddiffynfeydd rhag goresgyniad			
12.19	Cricieth	Heneb Restredig	Castell Cricieth			
13.7	Tan y Bwlch	Adeilad Rhestredig	Adeilad			
13.18	Porth Ceiriad	Heneb Restredig	Gwersyll Pared Mawr			
14.5	Porth Neigwl	Adeilad Rhestredig	Adeiladau Rhestredig a pharc hanesyddol i'r gorllewin o Borth Neigwl			
15.1	Porth Ysgaden	Adeilad Rhestredig	Odyn Galch			

Uned PDZ	Lleoliad	Math	Nodwedd	Cyfnod		
				1	2	3
15.2	Porth Dinllaen	Adeilad Rhestredig	'White Hall'			
16.1	Cwningar Bodowen	Heneb Restredig	Caer bentir Tywyn y Parc			
16.3	Dinas Dinlle	Heneb Restredig	Heneb Restredig			
16.6	Afon Menai	Adeilad Rhestredig	Yr Uncorn			
16.13	Y Felinheli	Heneb Restredig	Caer bentir 'Dinas Camp'			
16.15	Parc y Faenol	Adeilad Rhestredig	Gardd amgaerog a therasog mewn cyflwr da o ddiwedd yr 16eg ganrif gan gynnwys rhai adeileddau rhestredig			
16.16	Llanfair Pwllgwyngyll	Adeilad Rhestredig	Cerflun, ac eiddo arfordirol			
16.26	Bangor	Adeilad Rhestredig	Adeiladau isel a 'Pier Camp'			
17.3	Aberffraw	Adeilad Rhestredig / Heneb Restredig	Mae ychydig o adeiladau rhestredig, a phont sy'n Heneb Restredig yn y dref hon			
17.5	Porth Nobla	Adeilad Rhestredig	Bwthyn Tyn Towyn			
17.19	Afon Alaw	Heneb Restredig	Cylchoedd cutiau Ynys Leurad			
17.19	Traeth Rhyd y Gari	Heneb Restredig	Melin lanw Felin Carnau, melin lanw Felin Wen a melin lanw Bodior			
17.21	Y Fali	Heneb Restredig	Cored Bysgod Newlands			
18.1	Porth y Felin	Parciau a Gerddi Hanesyddol	Parc Hanesyddol Cestyll ac Adeiladau Rhestredig			
18.3	Tre Fadog	Heneb Restredig	Castell			
18.14	Porth Wen	Heneb Restredig	Gwaith brics Porth Wen			
19.3	Traeth Lligwy	Heneb Restredig	Cored Bysgod Traeth Lligwy			
19.7	Traeth Bychan	Adeilad Rhestredig	Odynnau Calch			
19.14	Y Traeth Coch	Adeilad Rhestredig	Pont			
19.15	Y Traeth Coch	Heneb Restredig	Cored Bysgod Llanddona			
20.12	Gogarth	Heneb Restredig	Gogarth Grange			
20.19	Caer Rufeinig Canovium	Heneb Restredig / Adeilad Rhestredig	Heneb Restredig, Parc a Gardd Hanesyddol ac Adeilad Rhestredig			

Y Gymuned ac Asedau

3.3.7 Peryglon allweddol heddiw ac yn y dyfodol cysylltiedig â chymuned ac asedau:

- Cau mwy o ddarnau arfordirol y rheilffordd;
- Cynaliadwyedd yr isadeiledd presennol, cynnydd yn lefel y môr a chilio rheoledig;
- Erydiad clogwyni (cilio) a pherygl i asedau cymunedol (e.e. Bae Ceredigion);
- Perygl llifogydd, er enghraifft mewn cylchoedd trefol ac anheddau fel Aberteifi, Aberaeron, Aberystwyth, Y Borth, Aberdyfi, Tywyn, Y Friog, Y Bermo, Llandanwg, Porthmadog, Pwllheli, Caernarfon, Rhosneigr, Caergybi a Chonwy;
- Llai o dir agored cyhoeddus oherwydd cilio clogwyni arfordirol mewn ymateb i erydiad (e.e. Bae Ceredigion);
- Llai o dwristiaeth oherwydd colli traeth trwy erydiad neu ddiffyg cyflenwad gwaddod;
- Llai o dwristiaeth oherwydd dirywiad yn ansawdd dŵr ymdrochi; a
- Mwy pwysau i ddatblygu ar hyd y draethlin ac isadeiledd cludiant cysylltiedig.

4 ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

4.1 Methodoleg yr Asesiad

Cymharu Amcanion yr AAS gyferbyn ac o fewn Amcanion eraill yr AAS

4.1.1 Mae **Tabl 4.1** yn cyflwyno cymhariaeth o amcanion yr AAS gyferbyn ag amcanion eraill yr AAS a hefyd â hwy eu hunain, i benderfynu faint o wrthdaro sy'n debygol o fod o ganlyniad i benderfynu ar bolisi'r CRhT. Pan nad oes unrhyw wrthdaro neu pan fo'r amcan yn cefnogi cyflawni amcan arall, caiff y rhes ei lliwio'n wyrdd, tra bo gwrthdaro'n cael ei ddangos mewn oren. Lle nad oes unrhyw wrthdaro, ond dim cyfuno disgwyliedig rhwng yr amcanion, lliwiwyd y rhes yn las gan ddangos effaith niwtral neu ddim effaith ar gyflawni'r amcan.

4.1.2 Seiliwyd yr amcanion a ddefnyddiwyd ar gyfer yr AAS hwn ar amcanion a ddefnyddiwyd mewn AAS eraill, ac mae'n amlwg y gall fod llawer o wrthdaro rhwng buddiannau mewn perthynas â pholisïau CRhT. Mae **Tabl 4.1** yn dangos lle gall cyflawniad penodol un amcan ar lefel y PDZ beri nad yw amcan arall yn cael ei gyflawni neu hyd yn oed yn effeithio er gwaeth ar y buddiannau sy'n cael eu 'cefnogi' gan yr amcan hwnnw. Mae'r gwrthdaro hwn yn digwydd i lawr ar y lefel benodol i safle'n ogystal.

4.1.3 Mae gwrthdrawiadau amlwg yn digwydd rhwng amcanion yr amgylchedd naturiol ac amcanion cysylltiedig â phobl, er enghraifft, fe all gadael i brosesau naturiol ddigwydd (a datblygu ac ymestyn cynefinoedd newydd neu wahanol o ganlyniad) beri colli asedau dynol (treftadaeth adeiledig, archeoleg, isadeiledd, anheddau). Serch hynny, i ryw raddau, mae'r gwerthoedd ar agweddau dynol hefyd peri cyflawni amcanion cysylltiedig â phobl (e.e. tirwedd i ryw raddau, ac amwynder / adloniant).

4.1.4 Gall gwrthdrawiadau ddigwydd o ganlyniad i'r amcan ar ei nodweddion ei hun. Er enghraifft gall amcanion gwarchod natur, sy'n amlwg yn gallu gwrthdaro ag asedau a nodweddion cysylltiedig â phobl, hefyd wrthdaro rhwng cynefinoedd. Er enghraifft, gall cynefinoedd morol ac arfordirol wrthdaro â'r cynefinoedd dŵr croyw a daearol. Gall diogelu asedau dynol hefyd effeithio ar werthoedd dynol (fel amwynder ac adloniant).

4.1.5 Mae **Tabl 4.2** yn cyflwyno asesiad strategol amcanion yr AAS gyferbyn â 4 polisi'r CRhT ar draws y CRhT cyfan. O ganlyniad, mae'n amlwg y byddai cymharu'r amcanion gyferbyn â 4 polisi'r CRhT yn unig yr un fath ar draws pob PDZ, gan arwain at yr un amlwg gwrthdrawiadau yn ôl pob golwg, yn ogystal â gwrthdrawiadau o fewn amcanion. Mae'r rhain yn dangos nad yw gwrthdrawiadau clir ond yn digwydd ar draws nifer o ardaloedd gyda pholisïau NAI, HTL ac ATL. Byddai'r polisïau HTL ac ATL yn gwrthdaro â'r amcan daearegol, tra byddai'r polisïau NAI yn gwrthdaro ag amcanion yr amgylchedd hanesyddol, gweithgareddau morol, isadeiledd a thir amaethyddol. Gallai llawer o weddill yr amcanion wrthdaro yn erbyn neu gynorthwyo cyflawni amcan yn dibynnu'n unig ar y buddiannau penodol i safle.

Asesiad Manwl o Bob Uned Bolisi o ran y Polisïau Dewisol

4.1.6 Caiff yr asesiad ei wneud ar ddwy lefel:

1) Dadansoddiad sylfaenol o bob Parth Datblygu Polisi (PDZ) sy'n cynnwys asesiad manwl ar lefel yr uned bolisi; a

2) Dadansoddiad eilaidd sy'n ceisio penderfynu beth yw'r effeithiau at ei gilydd ar lefel ardaloedd rheoli'r PDZ a'r cynllun cyfan.

4.1.7 Cofnodwyd y dadansoddiad sylfaenol mewn cyfres o dablau manwl, sy'n dogfennu'n llawn effaith pob ardal reoli PDZ ac unedau polisi cysylltiedig o ran amcanion, dangosyddion a thargedau (meini prawf asesu) yr AAS a gyflwynwyd yn **Nhabl 2.2**. Aseswyd y rhain gyferbyn â'r asesiad meini prawf arwyddocâd a gyflwynwyd yn **Nhabl 2.1**.

4.1.8 Mae **Tablau 4.3 i 4.22** yn cyflwyno crynodeb fesul PDZ, sy'n adroddiad cryno o asesiad manwl pob Uned Bolisi o ran y polisïau dewisol (Gwelwch **Atodiadau A i D**). Yn strategol fel hyn ni all y polisïau beri effeithiau cadarnhaol i gyd a chyflawni (neu fod â dim effaith) holl amcanion, oherwydd y dylanwad lleol iawn ar effeithiau. O ganlyniad, mae'n digwydd yn aml fod cyflawni neu wrthdaro yn erbyn cyflawni amcan sy'n cael ei gyflwyno yn y tablau hyn yn benodol i ardaloedd bach yn y PDZ. Mae **Adran 4.2** yn rhoi asesiad o'r tueddiadau a chanfyddiadau a ddaeth o'r asesiad manwl. Yn **Adran 4.2** mae asesiad CFfD ac asesiad cronnus hefyd.

Sylwch: Yn ystod yr asesiad, ni aseswyd amgylchoedd nodweddion hanesyddol ar yr adeg hon oherwydd nad yw polisi'n nodi camau penodol ac, fel y cyfryw, nid oes modd gwybod beth yw effaith polisïau ar amgylchoedd (yn hytrach na tharfu ffisegol). Fodd bynnag, byddai angen gwneud unrhyw gynllun mewn ffordd ystyriol a phriodol, fyddai hefyd yn cynnwys yr angen i osgoi neu leihau cymaint â phosibl yr effaith ar amgylchoedd gweledol adeiladau rhestredig a Henebion Cofrestredig.

Yn ystod yr asesiad manwl (**Atodiadau A i D**) lle bo adeiledd amddiffyn yn bodoli eisoes ar ddarn o forlin, mewn llawer achos aseswyd bod effaith polisi HTL pellach yn niwtral yn y cyfnod cyntaf ar sail yr egwyddor na fyddai amddiffynfeydd mae wedi dirywio'n ddigon yn ystod y cyfnod cyntaf i beri colli nodwedd benodol gyda senario NAI.

Allwedd

	Cryn effaith gadarnhaol a chyflawni'r amcan ar draws PDZ
	Effaith gadarnhaol gymedrol a chyflawni'r amcan ar draws mwyafrif y PDZ
	Mân effaith gadarnhaol a chyflawni'r amcan ar draws rhai o'r PDZ
	Niwtral neu ddim gwelliant sylweddol o ran yr amcan hwn ar draws y PDZ
	Mân effaith negyddol ac effaith niweidiol ar yr amcan yn rhai mannau ar draws y PDZ
	Effaith negyddol gymedrol ac effaith niweidiol ar yr amcan ar draws mwyafrif y PDZ
	Effaith negyddol sylweddol ac effaith niweidiol ar yr amcan ar draws y PDZ i gyd
?	Data anhysbys neu annigonol

Tabl 4.1 Cymharu Amcanion yr AAS gyferbyn ac o fewn Amcanion eraill yr AAS

Amcanion	Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol.	Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol.	Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol.	Cynnal prosesau naturiol a chadw gwelededd a hygyrchedd amlygiadau daearegol yn yr holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.	Cynnal a gwella priodweddau geomorffolegol nodweddion naturiol.	Atal rhag llygru pridd a sicrhau nad oes dim dirywiad yn ansawdd dŵr.	Gwarchod a gwella tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn perthynas â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro gydag Amcanion AHNE a Chynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol.	Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo asedau etifeddiaeth ddiwylliannol rhestredig a safleoedd eraill sy'n bwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, a'u hamgylchoedd.	Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol.	Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo isadeiledd hanfodol a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn aros yn weithredol.	Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo tir amaethyddol lle nad yw'n cyfyngu ar fioamrywiaeth.	Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl; cyfleusterau cymunedol, adloniadol, amwynderol ac asedau eraill diwydiannol, masnachol, twristiaeth ac amddiffyn.
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol.												
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol.												
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol.												
Cynnal prosesau naturiol a chadw gwelededd a hygyrchedd amlygiadau daearegol yn yr holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.												

Amcanion	Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol.	Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol.	Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol.	Cynnal prosesau naturiol a chadw gwelededd a hygyrchedd amlygiadau daearegol yn yr holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.	Cynnal a gwella priodweddau geomorffolegol nodweddion naturiol.	Atal rhag llygru pridd a sicrhau nad oes dim dirywiad yn ansawdd dŵr.	Gwarchod a gwella tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn perthynas â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro gydag Amcanion AHNE a Chynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol.	Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo asedau etifeddiaeth ddiwylliannol rhestredig a safleoedd eraill sy'n bwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, a'u hamgylchoedd.	Lleihau effaith polisiau ar weithrediadau a gweithgareddau morol.	Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo isadeiledd hanfodol a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn aros yn weithredol.	Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo tir amaethyddol lle nad yw'n cyfyngu ar fioamrywiaeth.	Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl; cyfleusterau cymunedol, adloniadol, amwynderol ac asedau eraill diwydiannol, masnachol, twristiaeth ac amddiffyn.
Cynnal a gwella priodweddau geomorffolegol nodweddion naturiol.												
Atal rhag llygru pridd a sicrhau nad oes dim dirywiad yn ansawdd dŵr.												
Gwarchod a gwella tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn perthynas â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro gydag Amcanion AHNE a Chynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol.												
Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo asedau etifeddiaeth ddiwylliannol rhestredig a safleoedd eraill sy'n bwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, a'u hamgylchoedd.												

Amcanion	Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol.	Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol.	Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol.	Cynnal prosesau naturiol a chadw gwelededd a hygyrchedd amlygiadau daearegol yn yr holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.	Cynnal a gwella priodweddau geomorffolegol nodweddion naturiol.	Atal rhag llygru pridd a sicrhau nad oes dim dirywiad yn ansawdd d'ŵr.	Gwarchod a gwella tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn perthynas â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro gydag Amcanion AHNE a Chynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol.	Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo asedau etifeddiaeth ddiwylliannol rhestredig a safleoedd eraill sy'n bwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, a'u hamgylchoedd.	Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol.	Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo isadeiledd hanfodol a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn aros yn weithredol.	Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo tir amaethyddol lle nad yw'n cyfyngu ar fioamrywiaeth.	Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl; cyfleusterau cymunedol, adloniadol, amwynderol ac asedau eraill diwydiannol, masnachol, twristiaeth ac amddiffyn.
Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol.												
Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo isadeiledd hanfodol a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn aros yn weithredol.												
Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo tir amaethyddol lle nad yw'n cyfyngu ar fioamrywiaeth.												
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl; cyfleusterau cymunedol, adloniadol, amwynderol ac asedau eraill diwydiannol, masnachol, twristiaeth ac amddiffyn.												

Table 4.2 Cyflawni Amcanion yr AAS ar draws y CRhT

Amcan AAS	Cyflawni Amcanion yr AAS			
	NAI	MR	HTL	ATL
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol.				
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol.				
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol.				
Cynnal prosesau naturiol a chadw gweledded a hygyrchedd amlygiadau daearegol yn yr holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.				
Cynnal a gwella priodweddau geomorffolegol nodweddion naturiol.				
Atal rhag llygru pridd a sicrhau nad oes dim dirywiad yn ansawdd dŵr.				
Gwarchod a gwella tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn perthynas â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro gydag Amcanion AHNE a Chynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol.				
Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo asedau etifeddiaeth ddiwylliannol rhestredig a safleoedd eraill sy'n bwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, a'u hamgylchoedd.				
Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol.				
Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo isadeiledd hanfodol a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn aros yn weithredol.				
Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo tir amaethyddol lle nad yw'n cyfyngu ar fioamrywiaeth.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl; cyfleusterau cymunedol, adloniadol, amwynderol ac asedau eraill diwydiannol, masnachol, twristiaeth ac amddiffyn.				

Allwedd i Dablau 4.3 i 4.22

Allwedd

	Cryn effaith gadarnhaol a chyflawni'r amcan ar draws PDZ
	Effaith gadarnhaol gymedrol a chyflawni'r amcan ar draws mwyafrif y PDZ
	Mân effaith gadarnhaol a chyflawni'r amcan ar draws rhai o'r PDZ
	Niwtral neu ddim gwelliant sylweddol o ran yr amcan hwn ar draws y PDZ
	Mân effaith negyddol ac effaith niweidiol ar yr amcan yn rhai mannau ar draws y PDZ
	Effaith negyddol gymedrol ac effaith niweidiol ar yr amcan ar draws mwyafrif y PDZ
	Effaith negyddol sylweddol ac effaith niweidiol ar yr amcan ar draws y PDZ i gyd
?	Data anhysbys neu annigonol

Tabl 4.3 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 1 – Penrhyn y Santes Ann i Drwyn Borough

PDZ 1				
Amcan yr AAS	**Effaith y Polisi Dewisol ar gyfer pob Cyfnod**			
	1	**2**	**3**	**Lliniaru**
Unedau Polisi 1.1 i 1.3				
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol.				
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol.				
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol.				
Cynnal prosesau naturiol a chadw gweledded a hygyrchedd amlygiadau daearegol yn yr holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.				
Cynnal a gwella priodweddau geomorffolegol nodweddion naturiol.				
Atal rhag llygru pridd a sicrhau nad oes dim dirywiad yn ansawdd dŵr.				
Gwarchod a gwella tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn perthynas â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro gydag Amcanion AHNE a Chynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol.				
Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo asedau etifeddiaeth ddiwylliannol rhestredig a safleoedd eraill sy'n bwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, a'u hamgylchoedd.				Cloddio a chofnodi
Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol.				
Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo isadeiledd hanfodol a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn aros yn weithredol.				Adleoli neu adlinio
Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo tir amaethyddol lle nad yw'n cyfyngu ar fioamrywiaeth.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol.				Adleoli
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd.				
Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo er mwyn sicrhau bod asedau MoD yn aros yn weithredol.				

Tabl 4.4 Cyflawni Amcanion yr AAS yn PDZ 2 – Trwyn Borough i Ddinas Fach

PDZ 2				
Amcan yr AAS	**Effaith y Polisi Dewisol ar gyfer pob Cyfnod**			
	1	**2**	**3**	**Lliniaru**
Unedau Polisi 2.1 i 2.13				
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol.				
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol.				Creu cynefin
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol.				Creu cynefin
Cynnal prosesau naturiol a chadw gweledded a hygyrchedd amlygiadau daearegol yn yr holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.				
Cynnal a gwella priodweddau geomorffolegol nodweddion naturiol.				
Atal rhag llygru pridd a sicrhau nad oes dim dirywiad yn ansawdd dŵr.				
4.2.31 Caiff HTL ei awgrymu ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 3.3 (Harbwr Solfach) ac Uned Bolisi 3.10 (Porth Gain) ac ar gyfer y cyfnod cyntaf yn unig yn Uned Bolisi 3.4 (Porth Clais allanol) ac Uned Bolisi 3.8 (Porth Mawr). Gallai polisïau HTL beri mân gyfyngiad ar ddatblygiad naturiol cynefin gwastadedd tywod rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a lleihau maint cynefin BAP gwaddod arfordirol. Caiff yr ardaloedd sydd mewn perygl eu hystyried yn ddibwys ac mae i'w disgwyl i'r effeithiau fod yn fân yn unig.

4.2.32 Gallai'r polisïau MR yn Uned Bolisi 3.8, Uned Bolisi 3.9 (Abereiddi) ac Uned Bolisi 3.11 (Abercastell) beri colli darnau bach o gynefin BAP daearol gan gynnwys cors bori arfordirol a gorlifdir a choetir Yw collddail cymysg. Byddai lliniaru ar gyfer colli'r coetir Yw collddail cymysg hwn yn creu cynefinoedd. Mae polisïau MR yn debygol o arwain at greu cynefin gwaddod arfordirol BAP ychwanegol e.e. Uned Bolisi 3.9 sy'n debygol o wneud iawn am unrhyw golledion yn deillio o bolisi HTL.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.33 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn. Fodd bynnag, bydd colledion blynyddol i'r môr oherwydd erydiad yn digwydd yn naturiol ar hyd SoDdGA yr Aber Mawr ac, felly, efallai y bydd angen dogfennu a chofnodi nodweddion y safle hwn.

Tirwedd

4.2.34 Dim effaith ar Arfordir Treftadaeth, gydag effaith gadarnhaol gymedrol ar yr Ardal Gadwraeth yn Unedau Polisi 3.3 a 3.10, a mân effaith gadarnhaol ar y Parc Cenedlaethol ar draws y PDZ.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.35 Allan o 38 nodweddion treftadaeth dynodedig a ddynodwyd yn y PDZ hwn, mae dwy ar hugain ohonynt yn debygol o gael eu heffeithio oherwydd difrod neu golled o ganlyniad i bolisi NAI ar hyd Unedau Polisi 3.1, 3.3, 3.11, a 3.12. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lloc amddiffynedig Dinas Fach (Heneb Restredig) yn Ninas Fach;
- Odyn galch ac Adeiladau Rhestredig yn Solfach;
- Gwersyll Porth y Rhaw (Heneb Restredig) ar Graig Segar;
- Gwersyll Caerfai (Heneb Restredig) ym Mhempleidian;
- Adeilad Rhestredig Gradd II ym Mhenporthclais;
- Odyn galch ar ochr ddeheuol yr aber;
- Castell Heinif (Heneb Restredig) Caer bentir yng Nghastell Heinif;
- Cylchoedd cutiau a Llociau Hynafol (Heneb Restredig) i'r gogledd-orllewin o Garn llidi ym Mhorthmelgan;
- Gwersyll Penmaendewi (Heneb Restredig);
- Caer bentir Castell Coch (Heneb Restredig);
- Caerau pentir (Heneb Restredig) yn y Caerau;
- Melin Aberfelin (Heneb Restredig) yn Abermawr;
- Caer bentir (Heneb Restredig) ym Mhen Castell Coch;
- Caer bentir Castell Coch (ar Benmorfa) (Heneb Restredig) yn y Porth Mawr;
- Lloc amddiffynedig (Heneb Restredig) yng Ngharreg Golchfa;
- Cofeb (Heneb Restredig) ym Mhwll Deri;
- Gwersyll Dinas Mawr (Heneb Restredig) yn Ninas Mawr;
- Bryngaer Ynys y Castell (Heneb Restredig) yn Ynys y Castell;
- Coedwig foddedig (Arfordir Treftadaeth) yn Abermawr;
- Gorsaf Wrando am Longau Tanfor yn Abermawr;
- Cofeb ryfel, anheddiad yn Solfach; a hefyd
- Coedwig foddedig (Arfordir Treftadaeth) ym Mhorth Mawr.

4.2.36 Fodd bynnag, bydd polisi rheoli dewisol HTL yn gwarchod y safleoedd canlynol yn gadarnhaol (y ddau gyfnod olaf):

- Chwarel Porth-gain (Heneb Restredig) ym Mhorth-gain (Uned Bolisi 3.1);
- Safle Treftadaeth, adeiladau rhestredig ym Mhorth-gain (Uned Bolisi 3.1); a
- Capel Padrig Sant (Heneb Restredig) ym Mhorth Mawr (Uned Bolisi 3.8).

4.2.37 Yn y PDZ hwn, fe all chwech o nodweddion archeolegol heb eu dynodi cysylltiedig ag Unedau Polisi 3.1, 3.4, a 3.12 gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI neu MR. Fodd bynnag, bydd mwy na 15 o nodweddion archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda

HTL mewn amrywiol unedau polisi. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

4.2.38 Gall lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gynnwys cloddio a chofnodi ac arolygu cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.39 Ni fyddai effaith ar y llithrfa a'r fynedfa yn Uned Bolisi 3.11 yn Abercastell yn y cyfnod cyntaf gyda'r polisi HTL ond byddai'r polisïau MR yn y cyfnodau eraill yn gadael i'r draethlin dreiglo'n ôl gan beri colli'r fynedfa bresennol at y môr y byddai angen ei addasu a'i ailgyflunio i gynnal mynediad.

4.2.40 Mae'r llithrfa a'r fynedfa yn Harbwr Porthclais (Uned Bolisi 3.5) yn debygol o gael eu cynnal yn yr holl gyfnodau, yn amodol ar gymorth ariannol lleol, er y byddai'r ffordd fynediad mewn perygl llifogydd yn y trydydd cyfnod.

4.2.41 Ni fyddai gorsaf y bad achub ym Mhorthstinian yn rhan o'r polisi NAI yn un o'r tri chyfnod a byddai, felly, yn cael ei chynnal yn y ddau gyfnod olaf. Yn yr un modd, byddai angen addasu'r orsaf achubwyr ym Mhorth Mawr yn y ddau gyfnod olaf gyda pholisïau MR ac, felly, mae ei swyddogaeth yn debygol o gael ei chynnal.

4.2.42 Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol ar isadeiledd hanfodol yn y PDZ hwn.

Population and Community

4.2.43 O'r pum nodwedd / eiddo a nodwyd yn y PDZ hwn, prif effaith y polisi rheoli dewisol o NAI fydd caniatáu erydu / cilio naturiol a bydd posibilrwydd colli eiddo ar hyd Uned Bolisi 3.1 (holl gyfnodau). Bydd hyn yn gysylltiedig â llwybr troed, ffordd ac eiddo preswyl yn Aberdraw. Efallai y bydd angen lliniaru fel adleoli eiddo.

4.2.44 Mae'r unig effaith sylweddol yn y PDZ hwn yn ymwneud â cholli rhannau o lwybr yr arfordir yn Uned Bolisi 3.12 yn Abermawr o ganlyniad i'r polisïau NAI yn y ddau gyfnod olaf. Y lliniaru ar am y golled hon fyddai adleoli rhannau o lwybr yr arfordir tua'r tir.

4.2.45 Ni nodwyd unrhyw asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol yn y PDZ hwn.

PDZ 4 Pen Anglas i Ben-y-Bal

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.46 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.47 Yn y PDZ hwn, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol ar nodweddion diddordeb y SoDdGA o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir ar SoDdGA Creigiau Abergwaun na SoDdGA Clogwyni Trefdraeth.

4.2.48 Mae'r unig bolisïau HTL a aseswyd fel rhai a allai beri colli cynefin gwastadedd tywod sylweddol yn y PDZ hwn ar gyfer y ddau gyfnod olaf yn Uned Bolisi 4.2 (Harbwr Abergwaun). Mae perygl mân golledion cynefin rhynglanwol yn y cyfnod cyntaf gyda pholisïau HTL yn Uned Bolisi 4.2 a 4.3 (Y Parrog a Gwaun Wdig), yn yr ail gyfnod yn Uned Bolisi 4.15 (Parrog Trefdraeth) ac yn y trydydd cyfnod yn Unedau Polisi 4.7 (Cei Cwm Abergwaun) a 4.12 (Cwm-yr-Eglwys). Fodd bynnag, caiff yr ardal sydd mewn perygl ei hystyried yn fach a'r asesiad yw na fydd dim ond mân effaith negyddol ar faint y cynefin BAP gwaddod arfordirol.

4.2.49 Gallai polisïau MR yn Unedau Polisi 4.3, 4.6, 4.14, a 4.18 (Traeth Trefdraeth) beri colli cynefinoedd BAP daearol gan gynnwys; coetir Yw cymysg collddail a rhedyn ungoes. Y lliniaru am y colledion hyn fyddai creu cynefinoedd.

4.2.50 Mae polisïau MR yn debygol o arwain at greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol mewn ardaloedd fel Unedau Polisi 4.14 a 4.15 sy'n debygol o wneud iawn am unrhyw golledion yn deillio o bolisi HTL. Ar ben hynny, clogwyn yw llawer o'r arfordir ac mae polisïau HTL yn cyfeirio at ddarnau bach neu leol o arfordir.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.51 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.52 Dim effaith ar y Parc Cenedlaethol a'r Arfordir Treftadaeth, ac effaith gadarnhaol gymedrol ar yr Ardal Gadwraeth yn Unedau Polisi 4.3, 4.6, a 4.7, a mân effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth yn Uned Bolisi 4.18.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.53 Allan o 14 o nodweddion treftadaeth dynodedig a nodwyd yn y PDZ hwn, mae erydiad yn debygol o effeithio ar amryw nodweddion o ganlyniad i bolisi NAI neu MR. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adeiladau Rhestredig (Tŷ Mawr ac Odyn Galch ar bwys Kilnhouse) ym Mharrog Trefdraeth (Uned Bolisi 4.15);
- Bridge Cottages (Adeiladau Rhestredig) yn Wdig (Uned Bolisi 4.3);
- Hen Gaer (Adeilad Rhestredig) yng Nghwm Abergwaun (Uned Bolisi 4.8);
- Hen Gaer (Adeilad Rhestredig) yn Castle Point (Uned Bolisi 4.8); a
- Odyn galch (Adeilad Rhestredig) ar Draeth Aberfforest (Uned Bolisi 4.13).

4.2.54 Fodd bynnag, bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safleoedd canlynol yn gadarnhaol (holl gyfnodau):

- Adeiladau Rhestredig yng Nghwm Abergwaun (Uned Bolisi 4.6).

4.2.55 Yn y PDZ hwn, fe all deunaw o nodweddion archeolegol heb eu dynodi cysylltiedig ag Unedau Polisi 4.4, 4.9, 4.11, 4.13, a 4.16 gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI neu MR. Fodd bynnag, bydd mwy nag 11 o nodweddion archeolegol yn dal i gael eu

gwarchod dan HTL mewn amrywiol unedau polisi. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

4.2.56 Gall lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gynnwys cloddio a chofnodi ac arolygu cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.57 Byddai'r polisïau HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 4.2 (Harbwr Abergwaun) yn cynnal yr harbwr a'r marina a'u swyddogaeth.

4.2.58 Dan y polisïau NAI yn y ddau gyfnod olaf yn Uned Bolisi 4.14 Parrog Trefdraeth mae erydiad yn debygol o leihau ac arwain at golli mynediad cychod yn Fferm Tŷ Canol. Byddai'r polisi HTL ar gyfer y ddau gyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 4.15 yn sicrhau parhad mynediad a defnyddio'r clwb hwylio. Byddai angen adlinio'r mynediad hwn gyda'r polisi MR yn y trydydd cyfnod.

4.2.59 Fe all fod effaith gadarnhaol ar isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd yn Abergwaun (Uned Bolisi 4.2), oherwydd y bydd amddiffynfeydd o fewn yr harbwr yn cael eu cynnal gan warchod y rheilffordd a ffyrdd.

4.2.60 Fe all erydiad carlam effeithio ar ffordd yr arfordir ym Mhenyraber (Uned Bolisi 4.4) oherwydd bod cynnydd yn lefel y môr yn effeithio ar y ffordd ac yn atal mynediad. Byddai modd lliniaru trwy adlinio'r ffordd.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.61 O'r chwe nodwedd / eiddo a nodwyd yn y PDZ hwn, fe all prif effaith y polisi rheoli dewisol o MR ar hyd Uned Bolisi 4.15 beri colli ambell eiddo fel y Clwb Hwylio ym Mharrog Trefdraeth. Efallai y bydd angen lliniaru fel adleoli'r clwb hwylio ac arolygu erydiad ac eiddo yn Feidr Brenin. Fodd bynnag, ar hyd Uned Bolisi 4.6 yng Nghwm Abergwaun bydd y polisi MR yn effeithio'n gadarnhaol oherwydd y byddai adlinio'r amddiffynfeydd yn dal i gynnwys amddiffyn yr eiddo.

4.2.62 Mae'r unig effaith sylweddol yn y PDZ hwn yn ymwneud â cholli rhannau o lwybr yr arfordir yn Uned Bolisi 4.13 ar Draeth Aberfforest o ganlyniad i'r polisïau NAI yn y ddau gyfnod olaf. Fe all y polisi MR yn Uned Bolisi 4.17 Traeth Trefdraeth yn yr ail gyfnod hefyd effeithio ar y maes parcio er y byddai faint yn dibynnu ar fanylion yr adlinio.

4.2.63 Y lliniaru am y golled hon fyddai adleoli rhannau o lwybr yr arfordir a'r maes parcio tua'r tir.

4.2.64 Ni nodwyd unrhyw asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol yn y PDZ hwn.

PDZ 5 Pen y Bal i Aberteifi

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.65 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.66 Yn y PDZ hwn, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir ar nodweddion diddordeb SoDdGA Aber-arth – Carregwylan, SoDdGA Clogwyni Trefdraeth, SoDdGA Afon Teifi, SoDdGA Caeau Crug Bychan, a SoDdGA Tŷ Gwyn a Llwyn Ysgaw.

4.2.67 Mae'r unig bolisïau HTL a allai beri unrhyw ostyngiad sylweddol mewn cynefin BAP rhynglanwol oherwydd cynnydd yn lefel y môr yn Uned Bolisi 5.7 (Coronation Drive) yn yr ail gyfnod ac Uned Bolisi 5.8 (Ffordd Gwbert) yn y ddau gyfnod olaf gyda pherygl colli cyfanswm o 0.6ha o wastadedd llaid rhynglanwol a 3.2ha o wastadedd tywod ar y mwyaf yn ystod yr holl gyfnodau.

4.2.68 Gallai polisïau MR yn Uned Bolisi 5.3 (Twyni Poppit a Ben-yr-ergyd) ac Uned Bolisi 5.7 beri colli cynefinoedd BAP daearol o gors bori arfordirol a gorlifdir a choetir Yw cymysg collddail. Y lliniaru am golli coetir Yw cymysg collddail fyddai cynefin adloniant yn amodol ar fanylion polisi MR.

4.2.69 Mae polisïau MR yn debygol o arwain at greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol mewn ardaloedd fel Uned Bolisi 5.3 sy'n debygol o wneud iawn am unrhyw golledion sy'n deillio o bolisi HTL.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.70 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.71 Dim effaith ar y Parc Cenedlaethol, Arfordir Treftadaeth nac AHNE, er y gall fod mân effaith negyddol ar Ardal Dirwedd Hanesyddol yn Unedau Polisi 5.5, 5.7, 5.8, 5.11 a 5.12, y byddai modd ei leihau trwy ddylunio ystyriol a phriodol ar lefel y cynllun.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.72 Allan o 10 o nodweddion treftadaeth dynodedig a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd erydiad neu darfu o ganlyniad i bolisi NAI neu HTL yn debygol o effeithio ar dair ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Caer bentir (Heneb Restredig) yng Nghastell Tre-Ruffudd (Uned Bolisi 5.1);
- Nodweddion crefyddol, corffdy, capel (Heneb Restredig) yn y Mwnt (Uned Bolisi 5.15); ac
- Olion tŷ cyn y Normaniaid (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 5.8).

4.2.73 Ar gyfer y PDZ hwn bydd y polisi HTL yn Uned Bolisi 5.8 ar y cyd â chynnydd yn lefel y môr yn arwain at ddirywiad yr Adeilad Rhestredig sydd yn y parth rhynglanwol.

4.2.74 Fodd bynnag, bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safle canlynol yn gadarnhaol (y ddau gyfnod olaf):

- Amryw Adeiladau Rhestredig a Henebion Rhestredig yn Aberteifi (Uned Bolisi 5.12).

4.2.75 Yn y PDZ hwn, gallai pump o nodweddion archeolegol heb eu dynodi a gafwyd yn Unedau Polisi 5.1, 5.3, 5.8 a 5.15 gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI neu MR. Fodd bynnag, bydd dwy nodwedd archeolegol yn dal i gael eu gwarchod dan HTL yn Uned Bolisi 5.8. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

4.2.76 Gall lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gynnwys cloddio a chofnodi ac arolygu cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.77 Gyda'r polisi NAI ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 5.4 byddai'r ddwy lithrfa yn aber Llandudoch yn cael eu heffeithio gan erydiad ac, yn y pen draw, yn cael eu colli yn y trydydd cyfnod.

4.2.78 O'r pum nodwedd a ddynodwyd yn y PDZ hwn, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol ar isadeiledd.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.79 O'r chwe nodwedd / eiddo a nodwyd yn y PDZ hwn, gallai prif effaith y polisi rheoli dewisol o HTL ar hyd Uned Bolisi 5.12 fod yn gysylltiedig â llifogydd rheolaidd o'r eiddo ar y lan, er y bydd amddiffyniad rhag erydu'n cael ei gynnal. Lliniaru fel: a) systemau rhybuddio llifogydd yn gynnar, a b) adleoli eiddo masnachol.

4.2.80 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn.

4.2.81 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau i'w disgwyl yn y PDZ hwn. Fodd bynnag bydd polisi MR (y ddau gyfnod olaf) yn effeithio'n gadarnhaol ar safle'r Maes Carafanau yn y Gwbert ar hyd Uned Bolisi 5.3 (h.y. amddiffyniad parhaus a rheoledig).

PDZ 6 Pencribach i Benrhyn Cei Newydd

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.82 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.83 Yn y PDZ hwn, nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol ar nodweddion diddordeb y SoDdGA o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir i'w disgwyl yn SoDdGA Aber-arth – Carreg Wylan.

4.2.84 Gallai'r polisi HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 6.2 (Aber-porth) beri cyfyngiad bach iawn ar ddatblygiad naturiol cynefin rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr. Fe all fod perygl colli ychydig o gynefin BAP gwastadedd tywod yn y ddau gyfnod olaf gyda cholled debygol o hyd at 0.5ha fel cyfanswm yn yr holl gyfnodau.

4.2.85 Gallai polisi MR yn Uned Bolisi 6.4 (Tre-saith) yn y ddau gyfnod olaf beri lleihau ychydig ar gynefin coetir Yw cymysg collddail. Mae'r polisïau MR hyn yn debygol o arwain at greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol yn y cyfnodau hyn. Y lliniaru am golli cynefin gwaddod arfordirol yn Uned Bolisi 6.2 fyddai creu cynefinoedd a hefyd am golli coetir Yw cymysg collddail yn Uned Bolisi 6.4, er y byddai hyn yn amodol ar fanylion y MR polisi.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.86 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.87 Dim effaith ar ddynodiadau tirwedd.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.88 Allan o wyth o nodweddion treftadaeth dynodedig a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd erydiad yn debygol o effeithio ar dair nodwedd o ganlyniad i bolisi NAI a MR. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Castell Bach (Heneb Restredig) ym Mhenbryn (Uned Bolisi 6.3);
- Iardiau llongau yn Llangrannog (Uned Bolisi 6.6);
- Castell Bach (Heneb Restredig) yng Nghwmtudu (Uned Bolisi 6.7); a
- Odyn Galch flaenorol (Adeilad Rhestredig) yng Nghwmtudu (Uned Bolisi 6.8).

4.2.89 Yn y PDZ hwn, gallai deg o nodweddion archeolegol heb eu dynodi sydd i'w cael yn Unedau Polisi 6.4, 6.5, 6.6, 6.7 a 6.8 gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI neu MR. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

4.2.90 Gall lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gynnwys cloddio a chofnodi ac arolygu cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.91 Yn Aber-porth byddai'r polisi HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn cynnal gweithrediad y clwb hwylio. O'r ddwy nodwedd a ddynodwyd yn PDZ 6, bydd Sefydliad Awyrennau Brenhinol MoD yn Aber-porth (Uned Bolisi 6.1) yn cael ei effeithio trwy ddifrod neu golled gyda pholisi NAI. Yn yr un modd, gall erydiad ddifrodi'r gwaith trin hefyd. Byddai modd lliniaru trwy adleoli rhannau o'r orsaf awyr a'r gwaith trin (neu amddiffyniad lleol).

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.92 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar nodweddion / eiddo i'w disgwyl yn y PDZ hwn. Fodd bynnag, bydd polisi HTL (y ddau gyfnod olaf) yn effeithio'n gadarnhaol ar hyd Uned Bolisi 6.1 trwy gynnal amddiffynfeydd o flaen eiddo Aber-porth ac, yn arbennig, bydd y rhai uwchlaw Traeth Dyffryn yn dal i gael eu gwarchod.

4.2.93 O'r saith nodwedd a ddynodwyd yn PDZ 6 dim ond pedair fyddai'n cael eu heffeithio'n sylweddol. Byddai'r polisïau NAI ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 6.3 yn peri bod llwybr troed yr arfordir yn beryglus yn y trydydd cyfnod. Byddai modd lliniaru trwy adlinio llwybr yr arfordir tua'r tir.

4.2.94 Byddai gostyngiad yn lled Traeth Aber-porth (Uned Bolisi 6.3) o ganlyniad i'r polisi HTL erbyn y trydydd cyfnod. Yn yr un modd gall polisïau MR yn y ddau gyfnod olaf beri bod traeth Tre-saith yn serthach a llai tywodlyd. Fe all y polisïau MR yn y ddau gyfnod olaf hefyd beri bod y ffordd bresennol ar hyd glan y môr yn Llangrannog yn dod yn anghynaliadwy fel bod gofyn dewis ffordd arall.

4.2.95 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

PDZ 7 Penrhyn Cei Newydd i Drwyn Llanina

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.96 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.97 Yn y PDZ hwn, nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol ar nodweddion diddordeb y SoDdGA Aber-arth – Carreg Wylan i'w disgwyl o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir.

4.2.98 Gallai'r polisïau HTL yn Uned Bolisi 7.2 (Traeth y Dolau, Harbwr Cei Newydd i Benpolian) yn ystod y ddau gyfnod olaf beri cyfyngu ar ddatblygiad naturiol cynefin rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a lleihau maint cynefin BAP gwaddod arfordirol. Fe all fod perygl cryn effaith, gyda cholli hyd at 1.2ha o gynefin gwastadedd tywod fel cyfanswm yn yr holl holl gyfnodau.

4.2.99 Gallai'r polisïau MR yn yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 7.3 (Bae Cei Newydd) a'r cyfnod olaf yn Uned Bolisi 7.5 (Cei Bach) beri colli cynefinoedd BAP daearol gan gynnwys cors bori arfordirol a gorlifdir, coetir Yw cymysg collddail a rhedyn ungoes. Mae polisïau MR yn debygol o arwain at greu cynefin gwaddod arfordirol BAP ychwanegol mewn ardaloedd fel Unedau Polisi 7.3, 7.4 (Trwyn Llanina) a 7.5 sy'n debygol o wneud iawn am unrhyw golledion yn deillio o bolisi HTL. Lliniaru am golli coetir Yw cymysg collddail a rhedyn ungoes fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y MR polisi.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.100 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.101 Dim effaith ar ddynodiadau tirwedd.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.102 Adeiladau Rhestredig yw'r unig nodweddion hanesyddol yn y PDZ hwn na fydd yn cael eu heffeithio gan bolisi HTL ar hyd Uned Bolisi 7.2 (effaith gadarnhaol sylweddol). Fodd

bynnag, bydd NAI yn effeithio ar ddau Adeilad Rhestredig yn Uned Bolisi 7.1 lle gall erydiad beri colli rhan o'r nodwedd hanesyddol (effaith negyddol sylweddol).

4.2.103 Yn y PDZ hwn, cafwyd pump o nodweddion archeolegol heb eu dynodi yn Unedau Polisi 7.1, 7.2, 7.3, 7.5 a 7.6 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI neu MR. Fodd bynnag, bydd mwy na 7 o nodweddion archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL yn Uned Bolisi 7.2. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

Asedau Materol

4.2.104 Byddai'r polisïau HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 7.2 yng Nghei Newydd yn cynnal asedau gan gynnwys y Pier Carreg, yr Harbwr a gorsaf y bad achub, yn enwedig yn y ddau gyfnod olaf.

4.2.105 Ni nodwyd unrhyw nodweddion isadeiledd hanfodol yn y PDZ hwn.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.106 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar eiddo i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

4.2.107 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn.

4.2.108 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

PDZ 8 Parc Gwyliau Gilfach yr Halen i Garreg Ti-pw

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.109 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.110 Yn y PDZ hwn, nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol i'w disgwyl ar nodweddion diddordeb SoDdGA Creigiau Aber-arth – Morfa na SoDdGA Traeth Llan-non o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir.

4.2.111 Nid oes disgwyl i'r polisi HTL yn Uned Bolisi 8.2 (Traeth Deheuol Aberaeron) dros ddau gyfnod, a holl gyfnodau yn Uned Bolisi 8.3 (Harbwr Aberaeron) arwain at unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd BAP rhynglanwol yn y cylchoedd hyn. Fe all fod perygl mân leihad dibwys mewn cynefin gwastadedd tywod yn ystod y ddau gyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 8.4 (Traeth Gogleddol Aberaeron) yn deillio o gyfyngu ar ddatblygiad naturiol cynefin rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr. Mae'r unig ostyngiad a allai fod yn sylweddol yn digwydd yn y trydydd cyfnod yn Uned Bolisi 8.4 gyda pherygl colli hyd at 1.6ha o gynefin gwastadedd tywod rhynglanwol fel cyfanswm yn yr holl gyfnodau.

4.2.112 Gallai'r polisïau MR yn Unedau Polisi 8.2, 8.6 (Aber-arth), 8.8 (Llan-non a Llansanffraid) ac 8.9 (Bae Llanrhystud) beri colli cynefinoedd BAP daearol o gors bori arfordirol a gorlifdir a choetir Yw cymysg collddail. Byddai lliniaru am y colledion o goetir Yw cymysg collddail yn creu cynefinoedd. Mae'r polisïau MR yn Unedau Polisi 8.8 ac 8.9 yn debygol o arwain at greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.113 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.114 Dim effaith ar ddynodiadau tirwedd.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.115 Allan o wyth o nodweddion treftadaeth dynodedig a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd erydiad neu darfu o ganlyniad i bolisi MR yn debygol o effeithio ar bedair ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tŷ Pwyso Rhodfa'r Traeth (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 8.2);
- Trapiau pysgod yn Llansanffraid (Uned Bolisi 8.8);
- Clifton / Manteg (Adeiladau Rhestredig) (Uned Bolisi 8.8); a
- Odynau Calch Aberstrincell neu Graiglas yn Llanrhystud.

4.2.116 Fodd bynnag, bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safleoedd canlynol yn gadarnhaol (y ddau gyfnod olaf) a MR (y trydydd cyfnod):

- Adeiladau Rhestredig yn Aberaeron (Uned Bolisi 8.2); a
- Adeiladau Rhestredig yn Aber-arth (Uned Bolisi 8.6).

4.2.117 Yn y PDZ hwn, cafwyd pedair o nodweddion archeolegol heb eu dynodi yn Uned Bolisi 8.2 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI neu MR. Fodd bynnag, bydd mwy nag 20 o nodweddion archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL yn Uned Bolisi 8.3. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

4.2.118 Gall lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gynnwys cloddio a chofnodi ac arolygu cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.119 Byddai'r polisi HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 8.3 yn Aberaeron yn cynnal yr harbwr, llithrfeydd a mynediad at y traeth yn enwedig yn y cyfnodau diweddarach.

4.2.120 Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol ar isadeiledd hanfodol yn y PDZ hwn.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.121 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar eiddo i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

4.2.122 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn.

4.2.123 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

PDZ 9 Carreg Ti-pw i Sarn Gynfelyn

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.124 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.125 Yn y PDZ hwn, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol ar nodweddion diddordeb SoDdGA Creigiau Cwm-Ceriw a Ffos-Las (Morfa Bychan), SoDdGA Creigiau Pen y Graig, SoDdGA Alltwen a Thraeth Tanybwlch, SoDdGA Clarach a Chraigyfulfran, a SoDdGA Borth-Clarach o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir.

4.2.126 Mae'r unig bolisi HTL a allai beryglu lleihau cynefin gwastadedd tywod BAP yn Unedau Polisi 9.7 (Y Ro Fawr) a 9.9 (Glan y Môr a Rhodfa Fuddug) lle gall y polisi gyfyngu ar ddatblygiad naturiol cynefin rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr. Gallai hyd at 1.8ha o gynefin gwastadedd tywod rhynglanwol fel cyfanswm gael ei golli yn yr holl gyfnodau.

4.2.127 Byddai'r polisi MR yn y ddau gyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 9.2 (Tan-y-bwlch) yn peri colli ffen, cors a chorstir a chors bori arfordirol a gorlifdir. Byddai'r lliniaru am golli'r cynefinoedd hyn yn creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR. Mae'r polisïau MR yn Unedau Polisi 9.2 a 9.11 (Bae Clarach) yn debygol o arwain at greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.128 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.129 Dim effaith ar ddynodiadau tirwedd.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.130 Allan o 4 o nodweddion treftadaeth dynodedig a nodwyd, yr unig nodwedd y bydd erydiad yn debygol o effeithio arni o ganlyniad i bolisi NAI (y trydydd cyfnod) yw'r Dramffordd yn Aberystwyth (Uned Bolisi 9.2). Gall arolygu neu reoli cilio'r draethlin yn lleol leihau perygl difrodi neu golli'r nodwedd dreftadaeth hon yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

4.2.131 Bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safleoedd canlynol (y ddau gyfnod olaf):

- Adeiladau Rhestredig Lluosog yn Aberystwyth (Uned Bolisi 9.2); a
- Castell Aberystwyth (Heneb Restredig) yn Aberystwyth (Uned Bolisi 9.7).

4.2.132 Yn y PDZ hwn, cafwyd tair o nodweddion archeolegol heb eu dynodi yn Unedau Polisi 9.1 a 9.2 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI neu MR. Fodd bynnag, bydd

mwy na 50 o nodweddion archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL am Unedau Polisi 9.3, 9.7, 9.8 a 9.9. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

Asedau Materol

4.2.133 Yn Nhan-y-bwlch (Uned Bolisi 9.2/3) mae'r grib raeanog yn debygol o dorri gyda NAI yn y trydydd cyfnod gan ddargyfeirio Afon Ystwyth trwy geg newydd. Byddai hyn yn effeithio ar fynediad i'r aber; fodd bynnag mae hyn yn debygol o fod yn ddibwys oherwydd cynnydd yn lefel y môr a'r prism llanwol mwy yn Afon Rheidol.

4.2.134 Byddai'r polisïau HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn yr harbwr, y marina a'r pier carreg yn cynnal gweithrediad yr asedau hyn yn ogystal â mynediad at y llithrfa.

4.2.135 Ni nodwyd unrhyw nodweddion isadeiledd hanfodol yn y PDZ hwn.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.136 O'r 4 nodwedd / eiddo a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd prif effaith y polisi rheoli dewisol o MR ar hyd (Uned Bolisi 9.11) yn gysylltiedig ag eiddo'r maes carafanau ym Mae Clarach lle byddai pen gogleddol y bae'n cael ei golli fel rhan o'r adlinio. Efallai y bydd angen lliniaru fel creu lle i adleoli eiddo.

4.2.137 Ni nodwyd cyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn.

4.2.138 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

PDZ 10 Borth Uchaf i Donfannau

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.139 Caiff HTL ei awgrymu ar gyfer y morlin agored yn y PDZ hwn yn Unedau Polisi 10.2, 10.3, 10.16, 10.17 a 10.19, gyda'r bwriad o amddiffyn isadeiledd cludiant ac aneddiadau mawr. Gallai'r polisïau HTL gyfyngu ar ddatblygiad naturiol gwastadedd tywod rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a lleihau maint nodwedd gwastadedd tywod rhynglanwol. Mae'r polisi ar ochrau deheuol a dwyreiniol aber Afon Dyfi'n anelu at ddiogelu'r rheilffordd cyn bo modd ei haddasu a'i hadlinio. Y polisi HTL ar gyfer yr aber gogleddol yw cynnal yr aneddiadau mawr neu isadeiledd cludiant arall. Gallai'r polisïau hyn gyfyngu ar ddatblygiad naturiol gwastadedd tywod rhynglanwol a morfa heli o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a lleihau maint gwastadedd tywod rhynglanwol a morfa heli, a nodweddion yr aber yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau wedyn. Gallai'r lleihad mewn cynefinoedd rhynglanwol (un o nodweddion cymhwysol yr ACA) fod yn sylweddol yn y ddau gyfnod olaf. Fodd bynnag bydd, polisïau MR sydd yn yr arfaeth ar gyfer y trydydd cyfnod yn gwrthbwyso llawer o'r colledion, er y bydd newid cymesur o gors bori / porfa yn effeithio ar orlifo llanwol yn y pen draw. Mae colli cynefin rhynglanwol yn yr ACA yn ystod y ddau gyfnod cyntaf hefyd yn darparu cynefin cynhaliol i rywogaethau diddordeb AGA Aber Afon Dyfi. O ganlyniad, mae effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ac AGA Aber Afon Dyfi (yn ogystal â chwtogi ar gyflawni maen prawf Ramsar Aber Afon Dyfi) i'w disgwyl. Gall mesurau lliniaru lefel cynllun fod yn briodol er mwyn

lleihau faint o gynefinoedd sy'n debygol o gael eu colli'n lleol, ond heb fod yn debygol yn yr aber ehangach. Bydd angen gwneud profi achos IROPI ar gyfer y polisïau hyn a chreu cynefin cydadferol pan fo hynny'n briodol.

4.2.140 Y prif fygythiad i nodwedd y gors ddyrchafedig fyw yn ACA Cors Fochno yn y tymor byr i ganolig fyddai gorlif afreoledig dirybudd yn cynhyrchu llifau mawr ac yn creu sianelau erydiad dwfn hiciog. Roedd mater difrodi ACA Cors Fochno a'i nodweddion blaenoriaethol yn ganolog i'r polisi a ddatblygwyd ar gyfer yr ardal hon. Byddai draenio llai yn ystod y ddau gyfnod cyntaf cyn MR a rheoli gorlifo'n sicrhau nad yw cyrion y gors yn cael eu heffeithio. O ganlyniad, nid oes disgwyl unrhyw effaith andwyol ar ACA Cors Fochno na'r maen prawf ar gyfer Ramsar Aber Afon Dyfi yn yr ardal hon.

4.2.141 Yn debyg i Safleoedd Natura 2000 y PDZ hwn, fe all datblygiad naturiol y nodweddion diddordeb cynefin cysylltiedig â'r SoDdGA fel gwastadeddau tywod a morfa heli gael ei gyfyngu. Bydd hyn yn digwydd am SoDdGA Dyfi ar hyd Unedau Polisi 10.3, 10.4, 10.5, 10.6, 10.7, 10.11, 10.12, 10.13, 10.14, 10.17 a 10.18 gyda HTL yn bennaf yn ystod y ddau gyfnod cyntaf. Fodd bynnag, gallai polisi MR yn y trydydd cyfnod ar hyd rhai rhannau greu cynefin ychwanegol (ffen, cors) yn yr hirdymor a lleihau'r effeithiau all fod yn ystod y ddau gyfnod cyntaf. O ran yr effeithiau hynny sy'n gysylltiedig â HTL (h.y. colled debygol o gynefin rhynglanwol oherwydd cynnydd yn lefel y môr / gwasgfa arfordirol), mae'r mesurau lliniaru am golli cynefinoedd yn debygol o orgyffwrdd gofynion cynefinoedd cydadferol y Safleoedd Natura 2000, er y gall fod angen creu rhywfaint o gynefinoedd daearol newydd.

4.2.142 Gallai'r polisïau HTL yn Unedau Polisi 10.2 (Pentref Borth) yn yr ail gyfnod, 10.6 (Cors Fochno) a 10.7 (Cyffordd Dyfi) yn ystod y ddau gyfnod cyntaf, 10.11 (Gogarth) a 10.12 (Gogledd Dyfi) ar gyfer yr holl gyfnodau, 10.13 (Aberdyfi) yn y trydydd cyfnod ac, yn olaf, 10.16 (Tywyn) yn y ddau gyfnod olaf beri lleihau cynefinoedd rhynglanwol yn sylweddol (gan gynnwys gwastadeddau llaid, gwastadeddau tywod a morfa heli) o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr. Gallai'r colledion llwyr yn yr holl gyfnodau ymestyn hyd at y canlynol; gwastadedd llaid 40.5ha, gwastadedd tywod 54.4ha a morfa heli 89.7ha. Mae mwyafrif y colledion yn digwydd yn yr ail gyfnod o ran morfa heli a'r ddau gyfnod olaf o ran gwastadedd llaid a gwastadedd tywod.

4.2.143 Gallai'r polisïau MR yn Unedau Polisi 10.1 (Borth Uchaf), 10.2, 10.5, 10.6, 10.7, 10.10 (Cwm Pennal), 10.14 (Twyni Aberdyfi), 10.18 a 10.19 (Tonfannau) beri colli cynefin BAP daearol gan gynnwys; cors bori arfordirol a gorlifdir, coetir Yw cymysg collddail a ffen, cors a chorstir. Y lliniaru am golli coetir Yw cymysg collddail a ffen, cors a chorstir fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR.

4.2.144 Mae polisïau MR yn debygol o arwain at greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.145 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.146 Dim effaith ar yr Arfordir Treftadaeth, a mân effaith gadarnhaol ar y Parc Cenedlaethol yn Unedau Polisi 10.10, 10.14, 10.15, 10.18 a 10.19.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.147 Allan o 17 o nodweddion treftadaeth dynodedig a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd erydiad neu darfu'n debygol o effeithio ar amryw ohonynt o ganlyniad i bolisi MR (y trydydd cyfnod) yn Unedau Polisi 10.2 a 10.6. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Angorfa, Morfan a Sabrina Cottages (Uned Bolisi 10.2);
- Anheddau (Adeiladau Rhestredig) yn Nyffryn Dyfi (Uned Bolisi 10.6);
- Adeiladau Milwrol Rhestredig yn Nyffryn Dyfi (Uned Bolisi 10.6); a
- Domen Las yn Nyffryn Dyfi (Uned Bolisi 10.6).

4.2.148 Fodd bynnag, bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safleoedd canlynol yn gadarnhaol (y ddau gyfnod olaf):

- Adeiladau Rhestredig yn Aberdyfi (Uned Bolisi 10.13).

4.2.149 Yn y PDZ hwn, cafwyd dwy nodwedd archeolegol heb eu dynodi yn Unedau Polisi 10.1 a 10.15 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI neu MR. Fodd bynnag, bydd mwy na 18 o nodweddion archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL/MR yn amryw unedau polisi. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

4.2.150 Gall lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gynnwys cloddio a chofnodi ac arolygu cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.151 Fe all polisi MR yn y trydydd cyfnod yn Uned Bolisi 10.2 yn y Borth ofyn addasu gorsaf yr achubwr a'r bad achub er mwyn cynnal ei gweithrediad a'i swyddogaeth. O'r naw nodwedd a nodwyd yn PDZ 10, bydd effaith sylweddol ar bump ohonynt:

- Ffordd arfordirol yn y Borth (Uned Bolisi 10.1);
- Rheilffordd yn Aberdyfi (Uned Bolisi 10.11 a 10.12);
- Rheilffordd yn Nhywyn (Uned Bolisi 10.16);
- Pont ac argloddiau Dysynni (Uned Bolisi 10.18); a
- Rheilffordd a llwybr troed yn Rhoslefain (Uned Bolisi 10.19).

4.2.152 Fe all fod llwybr arall ar gael i liniaru effeithiau negyddol ar ffordd yr arfordir yn y Borth.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.153 O'r 6 nodwedd / eiddo a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd prif effaith y polisi rheoli dewisol o MR ar hyd (Uned Bolisi 10.2) yn gysylltiedig ag eiddo arfordirol y Borth. Efallai y bydd angen lliniaru fel systemau rhybuddio llifogydd yn gynnar ac adleoli eiddo. Fodd bynnag, bydd polisïau HTL a HTL/MR ar hyd Unedau Polisi 10.12 a 10.15 yn gwarchod preswylfeydd ac eiddo ac anheddau.

4.2.154 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn heblaw effaith gadarnhaol y polisïau MR ar Gwrs Golff Aberdyfi yn Uned Bolisi 10.14.

4.2.155 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau i'w disgwyl yn y PDZ hwn. Fodd bynnag bydd polisi HTL (y ddau gyfnod olaf) yn effeithio'n gadarnhaol ar safle'r Maes Carafanau yn Nhywyn ar hyd Uned Bolisi 10.15 (h.y. dal i amddiffyn).

PDZ 11 Tonfannau i Fochras

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.156 O ran yr arfordir agored, caiff HTL ei awgrymu ar gyfer yr holl gyfnodau yn Unedau Polisi 11.1, 11.3 ac, yn y cyfnod cyntaf, yn Uned Bolisi 11.4 gyda'r bwriad o amddiffyn isadeiledd cludiant (rheilffordd a ffordd) ac aneddiadau mawr. Gallai hyn gyfyngu ar ddatblygiad naturiol gwastadedd tywod rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a lleihau maint nodwedd gwastadedd tywod rhynglanwol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw leihad mesuradwy ym maint y cynefin yn y cyfnod cyntaf ac, felly, ni fyddai nodwedd gwastadedd tywod rhynglanwol ond yn cael ei cholli yn Unedau Polisi 11.1 ac 11.3 yn y ddau gyfnod olaf. Yn Aber Mawddach, gallai HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Unedau Polisi 11.7, 11.8 ac 11.11 (Llyn Penmaen) beri colli cynefin gwastadedd tywod rhynglanwol o fewn yr aber oherwydd gwasgfa arfordirol wrth gynnal yr amddiffynfeydd, o ganlyniad i fwriad gwarchod isadeiledd cludiant (rheilffordd a ffordd). O ganlyniad, mae disgwyl effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Pen Llŷn a'r Sarnau oherwydd diffyg cyflawni'r amcanion cadwraeth ar gyfer nodweddion gwastadedd tywod rhynglanwol ac aberol y Safle. Fe all mesurau lliniaru ar lefel cynllun fod yn briodol er mwyn lleihau maint y cynefinoedd all gael eu colli'n lleol. Bydd angen profi achos IROPI ar gyfer y polisïau hyn a chreu cynefin cydadferol pan fo hynny'n briodol.

4.2.157 Gallai'r polisi MR yn y ddau gyfnod olaf yn Uned Bolisi 11.13 beri colli cynefin gweundir neu goetir a fyddai'n effeithio ar ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion; fodd bynnag, caiff hyn ei osgoi trwy sicrhau nad yw MR yn arwain at darfu ar gynefin yr ACA yn ystod dylunio manwl. Gall y lliniaru hwn gael ei weithredu'n llwyddiannus ac osgoi dod i gasgliad y bydd effaith andwyol.

4.2.158 Yn debyg i Safleoedd Natura 2000 y PDZ hwn, fe all fod cyfyngiad ar ddatblygiad naturiol y nodweddion diddordeb cynefin cysylltiedig â'r SoDdGA fel gwastadeddau tywod a morfa heli. Bydd hyn yn digwydd yn SoDdGA Aber Mawddach yn Unedau Polisi 11.4, 11.6, 11.8, 11.9, 11.11, 11.12 ac 11.14 gyda HTL yn bennaf yn ystod yr holl gyfnodau. Fodd bynnag, gallai polisi MR yn y ddau gyfnod olaf ar hyd rhai rhannau greu cynefin ychwanegol (ffen, corstir) yn yr hirdymor a lleihau'r effeithiau all fod yn ystod y cyfnod cyntaf. O ran yr effeithiau hynny sy'n gysylltiedig â HTL (h.y. colled debygol o gynefin rhynglanwol oherwydd cynnydd yn lefel y môr / gwasgfa arfordirol), mae'r mesurau lliniaru am golli cynefinoedd yn debygol o orgyffwrdd gofynion cynefinoedd cydadferol y Safleoedd Natura 2000, er y gall fod angen creu rhywfaint o gynefinoedd daearol newydd. Gallai amlygiad daearegol gael ei golli hefyd a difrod i gydran ddaearegol SoDdGA Glannau Tonfannau i'r Friog.

4.2.159 Gallai'r polisïau HTL yn Unedau Polisi 11.6 (Arglawdd y Friog), 11.9 (Fegla) ac 11.12 (yr aber uchaf) yn y cyfnod cyntaf, ac Uned Bolisi 11.14 De'r Bermo) beri lleihau cynefin BAP gwastadedd llaid, gwastadedd tywod a morfa heli o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth. Gallai cyfanswm y colledion yn yr holl gyfnodau fod hyd at: gwastadedd llaid 2.1ha, gwastadedd tywod 31.8ha a morfa heli 6.1ha. Mae mwyafrif y colledion morfa heli yn digwydd yn y cyfnod cyntaf, gyda phrif golledion gwastadedd tywod yn y trydydd cyfnod.

4.2.160 Gallai'r polisïau MR yn Unedau Polisi 11.2 (Llwyngwril), 11.4 (arfordir Ro Wen), 11.6, 11.9, 11.10 (glan ddeheuol Mawddach), 11.12, 11.13 (gogledd Mawddach), 11.15 (Gogledd y Bermo), 11.17 (Cors Egryn) ac 11.18 (Sunnysands) beri colli cynefin BAP daearol gan gynnwys; ffen, cors a chorstir, cors bori arfordirol a gorlifdir, coetir Yw cymysg collddail a choetir conifferaidd. Y lliniaru am golli ffen, cors a chorstir a choetir Yw cymysg collddail fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR.

4.2.161 Mae polisïau MR yn debygol o arwain yn greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol yn enwedig yn Unedau Polisi 11.10, 11.13, 11.9 ac 11.12.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.162 Fe all cyflymder amlygu cysylltiedig â chydran diddordeb daearegol SoDdGA Glannau Tonfannau i'r Friog arafu. Bydd hyn yn peri effaith negyddol sylweddol.

Tirwedd

4.2.163 Gallai fod effaith negyddol gymedrol ar gymeriad y Parc Cenedlaethol yn Unedau Polisi 11.1 ac 11.3 ond gellid lleihau'r rhain trwy ddylunio ystyriol a phriodol ar lefel y cynllun. Gallai fod mân effaith gadarnhaol mewn mannau eraill yn y Parc Cenedlaethol oherwydd yr amrywiol bolisïau MR; fodd bynnag, gallai'r rhain hefyd beri erydiad a cholli Ardal Dirwedd Hanesyddol, gan beri mân effaith negyddol wedyn.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.164 Allan o saith o nodweddion treftadaeth dynodedig a nodwyd, yr unig nodwedd a allai gael ei heffeithio yn y PDZ hwn trwy ddifrodi neu darfu o ganlyniad i bolisi HTL (y ddau gyfnod olaf) yw'r Amddiffynfeydd rhag Ymosodiad (Heneb Restredig) yn y Friog (Uned Bolisi 11.4). Bydd hyn yn digwydd oherwydd bod y safle tua'r môr o'r amddiffynfeydd a, thrwy gynnydd yn lefel y môr ac erydiad, mae'n debygol y bydd mwyafrif y safle hwn yn cael ei golli yn y cyfnod olaf. Gall arolygu neu reoli cilio'r draethlin yn lleol leihau posibilrwydd difrodi neu golli'r nodwedd dreftadaeth hon gan ddibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

4.2.165 Yn y PDZ hwn, cafwyd dwy nodwedd archeolegol heb eu dynodi yn Unedau Polisi 11.4 ac 11.18 allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI neu MR. Fodd bynnag, bydd amryw nodweddion archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL yn amryw unedau polisi. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

Asedau Materol

4.2.166 Gall y polisïau MR a NAI yn y ddau gyfnod olaf yn Unedau Polisi 11.4 (Y Friog) ac 11.9 (Afon Mawddach) beri colli defnydd o'r llithrfa a mynediad.

4.2.167 Byddai'r HTL polisïau ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 11.14 yn y Bermo'n cynnal gweithrediad yr harbwr a gorsaf y bad achub yn enwedig yn y ddau gyfnod olaf.

4.2.168 O'r naw nodwedd a nodwyd yn PDZ 11, bydd effaith sylweddol ar chwech ohonynt:

- Promenâd, ffordd arfordirol a meysydd parcio yn y Bermo (Uned Bolisi 11.14);
- Rheilffordd yn y Bermo (Uned Bolisi 11.15);
- Rheilffordd ger Gwastadgoed (Uned Bolisi 11.3);
- Rheilffordd a'r lan yn Ro Wen (Uned Bolisi 11.4);
- Ffordd arfordirol yn y Friog (Uned Bolisi 11.4); a
- Traphont ac arglawdd ym Mhont y Bermo (Uned Bolisi 11.8).

4.2.169 Yn y Bermo, mae ffyrdd eraill yn bodoli eisoes a byddai modd defnyddio ailddatblygu glan y môr yn y dyfodol i liniaru effeithiau negyddol. Efallai y bydd modd lliniaru effeithiau negyddol i'r rheilffordd yn Ro Wen trwy ei symud tua'r tir.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.170 O'r saith nodwedd / eiddo a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd prif effaith y polisïau rheoli dewisol o NAI a HTL/MR yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Eiddo yn y Friog (Uned Bolisi 11.4) a allai gael ei golli gyda NAI. Efallai y bydd angen lliniaru fel darparu tai newydd / lle i ddatblygu eiddo.

4.2.171 Er mai'r polisi cyflawn ar gyfer y lan yn Llwyngwril yw MR, bydd yr eiddo sydd mewn perygl ar yr A493 yn dal i gael ei warchod wrth warchod y rheilffordd.

4.2.172 Yr unig effeithiau sylweddol a nodwyd yn y PDZ hwn oedd i'r llwybr troed yn Ro Wen, a fyddai'n dirywio ac yn cael ei golli yn y pen draw yn ystod y ddau gyfnod olaf o ganlyniad i'r polisïau MR a NAI. Efallai y bydd modd lliniaru effeithiau ar y llwybr troed yn Ro Wen trwy ei symud tua'r tir.

4.2.173 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau i'w disgwyl yn y PDZ hwn; fodd bynnag, bydd polisi HTL (y ddau gyfnod olaf) yn effeithio'n gadarnhaol ar ganolfan yr Awyrlu Brenhinol yn Llanbedr ar hyd Uned Bolisi 11.2 (h.y. dal i'w gwarchod).

PDZ 12 Mochras i Benychain

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.174 Ar gyfer aberoedd Glaslyn / Dwyryd ac Artro yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau mae amrywiaeth o ddewisiadau polisi yn yr Unedau Polisi gyda'r mwyafrif yn NAI yn ystod yr holl gyfnodau, fydd yn gadael i'r aberoedd ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr.

Gallai polisïau HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Unedau Polisi 12.8, 12.13 ac 12.14, ac yn y cyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 12.9 yn Aber Afon Glaslyn a Dwyryd, ac yn yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 12.4 yn Aber Afon Artro gyfyngu ar ddatblygiad naturiol gwastadedd tywod rhynglanwol a morfa heli o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a lleihau maint gwastadedd tywod rhynglanwol a morfa heli ac yna nodweddion aberol yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Awgrymwyd HTL ar gyfer amryw unedau ar hyd morlin gogledd-orllewin y PDZ hwn gan gynnwys Unedau Polisi 12.17, 12.18, 12.20 a 12.24, allai gyfyngu ar ddatblygiad naturiol gwastadedd tywod rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, gan gyfyngu ar led y traeth ac, felly, leihau maint nodwedd gwastadedd tywod rhynglanwol yn rhai rhannau o'r ACA yn yr unedau hyn. O ganlyniad, mae disgwyl effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Fe all mesurau lliniaru ar lefel cynllun fod yn briodol er mwyn lleihau maint y cynefinoedd all gael eu colli'n lleol. Bydd angen profi'r achos IROPI ar gyfer y polisïau hyn a chreu cynefin cydadferol pan fo hynny'n briodol.

4.2.175 Yn debyg i safleoedd Natura 2000 y PDZ hwn, fe all datblygiad naturiol y nodweddion diddordeb cynefin cysylltiedig â'r SoDdGA fel gwastadeddau tywod a morfa heli gael ei gyfyngu. Bydd hyn yn digwydd ar gyfer SoDdGA Morfa Dyffryn a SoDdGA Morfa Harlech yn Unedau Polisi 12.2, 12.3, 12.4, 12.6, 12.8, 12.9, 12.13 a 12.14 am HTL ym mwyafrif yr holl gyfnodau. Gallai polisi MR ar hyd rhai rhannau greu cynefin ychwanegol (e.e. rhynglanwol) yn yr hirdymor a lleihau posibilrwydd effeithiau yn ystod y cyfnod cyntaf. O ran yr effeithiau hynny sy'n gysylltiedig â HTL (h.y. colled debygol o gynefin rhynglanwol oherwydd cynnydd yn lefel y môr / gwasgfa arfordirol), mae'r mesurau lliniaru am golli cynefinoedd yn debygol o orgyffwrdd gofynion cynefinoedd cydadferol y Safleoedd Natura 2000, er y gall fod angen creu rhywfaint o gynefinoedd daearol newydd.

4.2.176 Gallai'r polisïau HTL yn Unedau Polisi 12.2 (Tafod Deheuol Artro), 12.3 (De Aber Afon Artro), 12.4 (Dwyrain Aber Afon Artro), 12.6 (Pentir Llandanwg), 12.8 (Gwastadedd Harlech), 12.9 (Talsarnau), 12.13 (Y Cob a Phorthmadog) a 12.14 (Borth-y-gest) gyfyngu ar ddatblygiad naturiol cynefin / parth rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a lleihau maint cynefin BAP gwastadedd tywod, gwastadedd llaid a morfa heli. Gallai cyfanswm y colledion yn ystod yr holl gyfnodau fod hyd at y canlynol: gwastadedd llaid 3.9ha, gwastadedd tywod 27.0ha a morfa heli 20.8ha. Mae mwyafrif y colledion yn digwydd yn y trydydd cyfnod. Lle mae'r polisi'n HTL yn yr Unedau Polisi uchod yn y cyfnod cyntaf byddai'r polisïau MR yn y ddau gyfnod arall yn arwain at greu cynefin rhynglanwol ychwanegol. Ar ben hynny, mae pob un o'r polisïau MR eraill yn debygol o arwain at greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol.

4.2.177 Gallai'r polisïau MR sy'n digwydd yn y ddau gyfnod olaf yn Unedau Polisi 12.3 (de Aber Afon Artro), 12.5 (Twyni Llandanwg), 12.9, 12.17 a 12.24 (Afon Wen) beri colli cynefin BAP daearol o ffen, cors a chorstir a chors bori arfordirol a gorlifdir. Y lliniaru am golli ffen, cors a chorstir fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.178 Fe all HTL yn ystod yr ail gyfnod ar hyd Uned Bolisi 12.18 beri colli glan gyfyngedig ar hyd y safle hwn nad yw yn y golwg fel arfer oherwydd ei natur bell yn ôl a thraethau uchel. Bydd hyn yn peri effaith negyddol gymedrol ar SoDdGA Tiroedd a Glannau Rhwng Cricieth ac Afon Glaslyn.

Tirwedd

4.2.179 Gallai fod effaith negyddol gymedrol ar gymeriad y Parc Cenedlaethol yn Uned Bolisi 12.6, y byddai modd ei lleihau trwy ddylunio ystyriol a phriodol ar lefel y cynllun. Gallai fod mân effaith gadarnhaol mewn mannau eraill yn y Parc Cenedlaethol oherwydd yr amrywiol bolisïau MR; fodd bynnag, gallai'r rhain hefyd beri erydiad a cholli Ardal Dirwedd Hanesyddol, gan beri mân effaith negyddol wedyn.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.180 Allan o 10 o nodweddion treftadaeth dynodedig, y nodweddion y bydd erydiad yn debygol o effeithio arnynt o ganlyniad i bolisi NAI neu MR yw Eglwys Tanwg Sant (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 12.5); Pont Briwet (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 12.10); a Thŵr yr Arsyllfa (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 12.18). Gall arolygu neu reoli cilio'r draethlin yn lleol leihau perygl difrodi neu golli'r nodwedd dreftadaeth hon, yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

4.2.181 Fodd bynnag, bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safleoedd canlynol (yn bennaf yn y ddau gyfnod olaf):

- Adeiladau Rhestredig ym Mhorthmadog (Uned Bolisi 12.13); a
- Caffi Morannedd, Adeilad Rhestredig yng Nghricieth (Uned Bolisi 12.19).

4.2.182 Yn y PDZ hwn, cafwyd tair nodwedd archeolegol heb eu dynodi yn Uned Bolisi 12.5 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi MR. Fodd bynnag, bydd amryw nodweddion archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL yn amryw unedau polisi. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

Asedau Materol

4.2.183 Yn y PDZ hwn mae'r polisïau MR yn Uned Bolisi 12.2 yn Llandanwg ac Ynys Mochras yn y ddau gyfnod olaf yn debygol o gyfyngu ar ddefnyddio a mynediad at yr harbwr a'r clwb hwylio oherwydd y byddai mynediad yn cael ei golli, yn enwedig yn y trydydd cyfnod. Byddai lliniaru'n gofyn adleoli'r clwb hwylio neu gael llwybrau mynediad eraill.

4.2.184 Byddai'r polisi HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 12.13 yn gwarchod a chynnal gweithrediad harbwr a marina Porthmadog.

4.2.185 Byddai'r polisi MR yn Uned Bolisi 12.18 yn y trydydd cyfnod yn peri colli'r ffordd a'r llithrfa fyddai'n gofyn eu hadlinio er mwyn iddynt ddal i weithredu.

4.2.186 O'r 14 o nodweddion a nodwyd yn PDZ 12, bydd effeithiodd sylweddol ar wyth ohonynt:

- Ffordd a rheilffordd ym Mhortmeirion (Uned Bolisi 12.12);
- Gorsaf drenau ym Mhorthmadog (Uned Bolisi 12.13);
- Rheilffordd yng Nghricieth (Uned Bolisi 12.17);
- Rheilffordd rhwng Penychain a Chricieth (Uned Bolisi 12.22);
- Pont Pensarn dros Afon Artro (Uned Bolisi 12.3);
- Rheilffordd yn Llandanwg (Uned Bolisi 12.6);
- Rheilffordd yn Harlech (Uned Bolisi 12.6); a
- Rheilffordd ger Afon Dwyryd (Uned Bolisi 12.9).

4.2.187 Fe all yr effeithiau negyddol sylweddol yng Nghricieth a rhwng Penychain a Chricieth gael eu lliniaru trwy symud y rheilffordd.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.188 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau i'w disgwyl yn y PDZ hwn, tra bydd yr eiddo gyda HTL ar hyd glannau Borth-y-gest yn dal i gael eu gwarchod.

4.2.189 Yr unig effeithiau sylweddol a nodwyd yn y PDZ hwn oedd ar y llwybr troed ger Afon Dwyryd a fyddai'n dirywio ac yn cael eu colli yn ystod y ddau gyfnod olaf o ganlyniad i bolisïau NAI a llifogydd rheolaidd. Efallai y bydd modd lliniaru effeithiau ar y llwybr troed trwy ei symud tua'r tir.

4.2.190 O ran y safle gwersylla ar Ynys Mochras (Uned Bolisi 12.1) mae'n debygol y gall llifogydd ac erydiad cysylltiedig â pholisi NAI/MR effeithio ar rai lleiniau (y ddau gyfnod olaf). Efallai y bydd angen lliniaru trwy adleoli lleiniau.

PDZ 13 Penychain i Drwyn Cilan

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.191 Gallai HTL yn Uned Bolisi 13.6 yn yr holl gyfnodau, ac yn Unedau Polisi 13.7 ac 13.8 yn y cyfnod cyntaf yn unig, gyfyngu ar ddatblygiad naturiol gwastadedd tywod rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a lleihau maint nodwedd gwastadedd tywod rhynglanwol yn lleol, gan fod yr Unedau Polisi eraill yn y PDZ hwn oddi allan i derfyn yr ACA. Fodd bynnag, mae effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Pen Llŷn a'r Sarnau i'w disgwyl o ganlyniad i bolisi yn Unedau Polisi 13.6, 13.7 ac 13.8, gyda cholled lwyr o hyd at 2.19ha o nodwedd gwastadedd tywod rhynglanwol yn cael ei effeithio erbyn y trydydd cyfnod. Fe all mesurau lliniaru ar lefel cynllun fod yn briodol er mwyn lleihau maint y cynefinoedd all gael eu colli'n lleol. Bydd angen profi'r achos IROPI ar gyfer y polisïau hyn a chreu cynefin cydadferol pan fo hynny'n briodol.

4.2.192 Bydd polisi dewisol HTL hefyd yn effeithio ar SoDdGA Mynydd Tir y Cwmwd a Glannau Carreg yr Imbill sy'n gysylltiedig ag Uned Bolisi 13.6 a allai beri lleihau maint cynefin rhynglanwol yn lleol. Mae'r mesurau lliniaru am golli cynefinoedd yn debygol o orgyffwrdd gofynion cynefinoedd cydadferol y Safleoedd Natura 2000, er y gall fod angen creu rhywfaint o gynefinoedd daearol newydd.

4.2.193 Gallai'r polisïau HTL yn y cyfnod cyntaf yn Unedau Polisi 13.3 (coleg Glan yr Athro), 13.4 (Harbwr Pwllheli a mynedfa), 13.5 (Canol Pwllheli) ac 13.15 (Machroes) beri mân golledion dibwys o gynefin BAP gwastadedd tywod a gwastadedd llaid o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a lleihau maint cynefin BAP gwaddod arfordirol. Mae'r unig golledion sylweddol yn digwydd yn y ddau gyfnod olaf yn Unedau Polisi 13.3, 13.4 ac 13.5. Gallai cyfanswm y colledion ar gyfer yr holl gyfnodau fod hyd at: gwastadedd llaid 6.5ha a gwastadedd tywod (7.6ha). Mae mwyafrif y colledion yn digwydd yn y trydydd cyfnod.

4.2.194 Gallai'r polisïau HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Unedau Polisi 13.3 (coleg Glan yr Athro), 13.4 (Harbwr Pwllheli a mynedfa), 13.5 (Canol Pwllheli) ac, yn y cyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 13.15 (Machroes), gyfyngu ar ddatblygiad naturiol cynefin rhynglanwol, er o faint cyfyngedig.

4.2.195 Gallai'r polisïau MR yn y ddau gyfnod olaf yn Unedau Polisi 13.2 (Aber-erch), 13.7 (Cwrs Golff), 13.8 (Traeth Crugan) ac, yn yr ail gyfnod, yn Uned Bolisi 13.14 beri colli cynefin BAP daearol gan gynnwys ffeniau, cors a chorstir a chors bori arfordirol a gorlifdir. Y lliniaru am golli ffen, cors a chorstir fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR.

4.2.196 Mae polisïau MR yn debygol o arwain at greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.197 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.198 Fe allai mân effaith gadarnhaol fod ar gymeriad AHNE Pen Llŷn yn Uned Bolisi 13.13. Fodd bynnag, oherwydd yr amrywiol bolisïau MR, gallai'r rhain hefyd arwain at erydiad a cholli Ardal Dirwedd Hanesyddol, gan beri mân effaith negyddol wedyn.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.199 Allan o 5 o nodweddion treftadaeth dynodedig, yr unig nodweddion y bydd erydiad neu darfu o ganlyniad i NAI yn debygol o effeithio arnynt (holl gyfnodau) a pholisi MR (y cyfnod olaf) yw Gwersyll Pared Mawr (Heneb Restredig) ym Mhorth Ceiriad (Uned Bolisi 13.18) a'r Adeilad Rhestredig yn Nhan-y-bwlch (Uned Bolisi 13.7). Fe all arolygu neu reoli cilio'r draethlin yn lleol leihau perygl difrodi neu golli'r nodwedd dreftadaeth hon, yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

4.2.200 Fodd bynnag, bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safle canlynol (yn y trydydd cyfnod):

- Adeiladau Rhestredig ym Mhwllheli (Uned Bolisi 13.4).

4.2.201 Yn y PDZ hwn, cafwyd dwy nodwedd archeolegol heb eu dynodi yn Unedau Polisi 13.8 ac 13.9 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI. Fodd bynnag, bydd un nodwedd archeolegol yn dal i gael ei gwarchod gyda HTL yn Uned Bolisi 13.4. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

Asedau Materol

4.2.202 Byddai'r polisi HTL yn Uned Bolisi 13.4 ar gyfer yr holl gyfnodau'n cynnal gweithrediad harbwr Pwllheli.

4.2.203 Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol ar isadeiledd hanfodol yn y PDZ hwn.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.204 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar eiddo i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

4.2.205 Yr unig effeithiau sylweddol a nodwyd yn y PDZ hwn oedd ar y llwybr troed yn Nhraeth Crugan fyddai'n cael ei golli wrth greu ceg newydd i Afon Penrhos yn y ddau gyfnod olaf o ganlyniad i bolisïau MR. Efallai y bydd modd lliniaru effeithiau ar y llwybr troed trwy ei symud tua'r tir.

4.2.206 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau i'w disgwyl yn y PDZ hwn; fodd bynnag bydd gan bolisïau HTL a MR effeithiau cadarnhaol ar y parciau gwyliau yn Aber-erch, Aber-soch i Lanbedrog, a Phwllheli (h.y. amddiffyn parhaus a rheoledig).

PDZ 14 Trwyn Cilan i Garreg Ddu

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.207 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.208 Yn y PDZ hwn, nid oes effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol ar nodweddion diddordeb yr amrywiol SoDdGA i'w disgwyl o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir.

4.2.209 NAI yw polisi rhannau mawr o forlin PDZ 14 ymhob un o'r tri chyfnod. Lle mae polisïau HTL a MR yn bresennol, nid yw cynefinoedd BAP yn debygol o gael eu heffeithio ac eithrio posibilrwydd colli hyd at 0.1ha yn y cyfnod cyntaf.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.210 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.211 Y rhagolwg yw y bydd mân effaith gadarnhaol ar AHNE Pen Llŷn a'r ardal tirwedd hanesyddol oherwydd cadw a datblygu nodweddion naturiol trwy'r amrywiol bolisïau, yn ogystal â gwarchod yr anheddiad a'i gymeriad adeiledig a hanesyddol cysylltiedig yn Uned Bolisi 14.8.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.212 O ran y ddwy nodwedd treftadaeth dynodedig allweddol yn y PDZ hwn, yr Adeiladau Rhestredig a'r Parc Hanesyddol i'r gorllewin o Borth Neigwl (Uned Bolisi 14.5), mae erydiad o ganlyniad i bolisi NAI yn debygol o effeithio arnynt. Fe all arolygu neu reoli cilio'r draethlin yn lleol leihau perygl difrodi neu golli'r nodwedd dreftadaeth hon, yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

4.2.213 Fodd bynnag, bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safle canlynol (yn y ddau gyfnod olaf):

- Adeiladau Rhestredig yn Aberdaron (Uned Bolisi 14.8).

4.2.214 Yn y PDZ hwn, cafwyd tair o nodweddion archeolegol heb eu dynodi yn Unedau Polisi 14.1, 14.6 ac 14.9 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI. Fodd bynnag, bydd deg o nodweddion archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL yn Uned Bolisi 14.8. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

Asedau Materol

4.2.215 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar weithrediadau morol yn y PDZ hwn er y gall y polisi NAI beri colli'r llithrfa ym Mhorth Meudwy (Uned Bolisi 14. 9) yn y trydydd cyfnod er bod hyn yn ansicr.

4.2.216 Ymhlith y nodweddion isadeiledd hanfodol a allai gael eu heffeithio gan erydiad cysylltiedig â pholisi NAI ymhob un o'r tri chyfnod mae cyfnewidfa ffôn yn Uned Bolisi 14.7.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.217 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau i'w disgwyl yn y PDZ hwn, tra byddai llinell newydd y draethlin yn Aberdaron gyda HTL yn y cyfnod olaf yn cynnwys amddiffyn craidd y pentref.

4.2.218 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn.

4.2.219 Ni nodwyd unrhyw asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol yn y PDZ hwn.

PDZ 15 Carreg Ddu i Drwyn y Tal

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.220 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.221 Yn y PDZ hwn, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol ar nodweddion diddordeb yr amrywiol SoDdGA o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir.

4.2.222 Gallai'r polisïau HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 15.3 (Gorllewin Porth Nefyn) gyfyngu ar ddatblygiad naturiol cynefin rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a lleihau maint cynefin BAP gwastadedd tywod yn enwedig yn yr ail gyfnod. Fodd bynnag mae'r polisi MR fyddai'n dilyn yn y trydydd cyfnod a pholisïau MR mewn Unedau Polisi eraill fel 15.5 yn debygol o arwain at greu cynefin BAP rhynglanwol ychwanegol. O fewn y PDZ cyfan, gallai cyfanswm o hyd at 0.1ha o wastadedd llaid rhynglanwol a 0.6ha o wastadedd tywod rhynglanwol gael eu colli yn ystod y ddau gyfnod cyntaf.

4.2.223 Gallai'r polisïau MR ar gyfer yr holl gyfnodau yn Unedau Polisi 15.5 (Trefor) ac 15.6 (Aberdesach), yn y ddau gyfnod olaf yn Uned Bolisi 15.2 ac yn y trydydd cyfnod yn Uned Bolisi 15.3 beri colli cynefin BAP daearol gan gynnwys coetir Yw cymysg collddail a chors bori arfordirol a gorlifdir. Y lliniaru am golli coetir Yw cymysg collddail fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.224 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.225 Mae effaith negyddol gymedrol i'w disgwyl yn y trydydd cyfnod yn Uned Bolisi 15.2 (Porth Dinllaen) yn effeithio ar gymeriad amgylchedd adeiledig a hanesyddol AHNE Pen Llŷn, yr ardal tirwedd hanesyddol a'r Arfordir Treftadaeth.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.226 Allan o 8 o nodweddion treftadaeth dynodedig a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd erydiad o ganlyniad i bolisïau NAI neu MR yn debygol o effeithio ar bump ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adeiladau Rhestredig – Penyborth a Hendafarn (Uned Bolisi 15.1);
- Odyn Galch (Uned Bolisi 15.1);
- Chwarel segur ym Mhorth y Nant (Uned Bolisi 15.1);
- 'White Hall' (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 15.2); a
- Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol (Uned Bolisi 15.1 - 15.5).

4.2.227 Yn y PDZ hwn, cafwyd pedair o nodweddion archeolegol heb eu dynodi yn Unedau Polisi 15.1, 15.2 ac 15.4 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

4.2.228 Gall lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gynnwys cloddio a chofnodi ac arolygu cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.229 Nid oes disgwyl i bolisi'r CRhT effeithio'n sylweddol ar fynediad a gweithrediadau morol yn y PDZ hwn.

4.2.230 Ni nodwyd unrhyw nodweddion isadeiledd hanfodol yn y PDZ hwn.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.231 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar eiddo i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

4.2.232 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn.

4.2.233 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

PDZ 16 Trwyn Dylan i Lanfairfechan

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.234 Fe all polisi HTL yn Aber Afon Cefni (Uned Bolisi 16.9; yr arglawdd a'r pentref) beri colli cynefin rhynglanwol trwy wasgfa arfordirol, gyda phosibilrwydd lleihau maint gwastadedd llaid rhynglanwol (a nodwedd yr aber wedyn) yn ACA Cors Heli Glannau Môn. Yn ACA Y Fenai a Bae Conwy, gallai polisi HTL yn Unedau Polisi 16.5, 16.11 ac 16.33 beri lleihau gwastadedd tywod rhynglanwol wrth i'r cynefinoedd rhynglanwol gael eu gwasgu o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr a'r cyfyngiad oherwydd y polisi HTL. Dim ond yn y cyfnod cyntaf fyddai colled o Uned Bolisi 16.5, yn cael ei ddilyn gan MR yn yr ail gyfnod neu'r trydydd. Fe all y cyfyngiad oherwydd polisïau HTL effeithio hefyd ar nodweddion creigres rynglanwol. Dewiswyd HTL yn yr unedau hyn er mwyn gwarchod isadeiledd cludiant (ffordd) neu isadeiledd amddiffyn y wlad, er nad yw hynny ond yn y tymor canolig, gyda'r bwriad o adlinio'r asedau hyn ymhellach o'r arfordir. Dynodwyd rhan o ACA Afon Menai hefyd fel rhan o AGA Traeth Lafan Bae Conwy ac, ar ôl hynny, gallai colli gwastadedd tywod rhynglanwol cynhaliol effeithio ar boblogaethau rhywogaethau ddiddordeb yr AGA. O ganlyniad, mae effaith andwyol i'w disgwyl ar gyfanrwydd ACA Cors Heli Glannau Môn, ACA Y Fenai a Bae Conwy ac AGA Traeth Lafan Bae Conwy. Fe all mesurau lliniaru ar lefel cynllun fod yn briodol er mwyn lleihau faint o gynefinoedd allai gael eu colli'n lleol. Bydd angen profi'r achos IROPI ar gyfer y polisïau hyn a chreu cynefin cydadferol pan fo hynny'n briodol.

4.2.235 Yn debyg i Safleoedd Natura 2000 y PDZ hwn, fe all fod cyfyngiad ar ddatblygiad naturiol y nodweddion diddordeb cynefin cysylltiedig â'r SoDdGA fel gwastadeddau tywod a gwastadeddau llaid. Bydd hyn yn digwydd yn SoDdGA Y Foryd, SoDdGA Cors Ddyga, SoDdGA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn, SoDdGA Glannau Porthaethwy, SoDdGA Glannau Penmon - Biwmares, SoDdGA Traeth Lafan, a SoDdGA Parc Baron Hill ar hyd Unedau Polisi 16.5, 16.9, 16.11, 16.19, 16.22, 16.24, 16.29 ac 16.33. O ran HTL ar hyd yr unedau polisi hyn, bydd hyn yn peri colled debygol o gynefinoedd oherwydd gwasgfa arfordirol. Mae'r mesurau lliniaru am golli cynefinoedd yn debygol o orgyffwrdd gofynion cynefinoedd cydadferol y Safleoedd Natura 2000, er y gall fod angen creu rhywfaint o gynefinoedd daearol newydd.

4.2.236 Gallai'r polisïau HTL yn Unedau Polisi 16.5 (Y Foryd), 16.9 (yr arglawdd a'r pentref), 16.11 (Ffordd yr Aber i Afon Carrog), 16.12 (Caernarfon) ac 16.19 (Porthaethwy) gyfyngu ar ddatblygiad naturiol cynefin rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a pheri gostyngiad sylweddol ym maint cynefin BAP gan gynnwys gwastadedd llaid, gwastadedd tywod a morfa heli. Gallai cyfanswm y colledion ar gyfer yr holl gyfnodau fod hyd at: gwastadedd llaid 29.9ha, gwastadedd tywod 14.6ha a morfa heli 5.0ha. Mae mwyafrif y colledion yn y trydydd cyfnod o ran gwastadedd llaid a morfa heli, ac yn yr ail gyfnod o ran gwastadedd tywod.

4.2.237 Gallai'r polisïau MR yn Unedau Polisi 16.5, 16.11, 16.21, 16.32 (Afon Aber) ac 16.33 (Llanfairfechan) beri colli cynefin BAP daearol gan gynnwys; cors bori arfordirol a gorlifdir, coetir Yw cymysg collddail a ffen, cors a chorstir. Gellid colli cyfran fechan o ffen, cors a chorstir yn Uned Bolisi 16.5 yn yr ail gyfnod, gyda cholledion bach o goetir Yw cymysg collddail yn ystod y ddau gyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 16.32 a'r trydydd cyfnod yn Unedau Polisi 16.33 ac 16.21. The mitigation for the loss of coetir Yw cymysg collddail and fen, marsh and swamp fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR.

4.2.238 Mae polisïau MR yn Unedau Polisi 16.5, 16.32 ac 16.33 yn debygol o arwain at greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.239 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.240 Nid oes unrhyw effaith i'w disgwyl ar yr Arfordir Treftadaeth na'r Ardal Dirwedd Hanesyddol. Fodd bynnag, gallai fod effaith negyddol gymedrol o ganlyniad i golli nodweddion tirwedd adeiledig ond byddai'r effaith gadarnhaol gymedrol yn deillio o well nodweddion amgylchedd naturiol y dirwedd yn cydbwyso hyn. Gallai fod effaith negyddol gymedrol ar safbwynt arwyddocaol Castell Caernarfon ond byddai modd lleihau hyn i ddibwys trwy ddylunio ystyriol a phriodol ar lefel y cynllun.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.241 Allan o 37 o nodweddion treftadaeth a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd erydiad o ganlyniad i bolisi NAI yn debygol o effeithio ar ddeuddeg ohonynt (holl gyfnodau), gan cynnwys:

- Caer Bentir Tywyn y Parc (Heneb Restredig) yng Nghwningar Bodowen (Uned Bolisi 16.1);
- Caer bentir 'Dinas Camp' (Heneb Restredig) yn y Felinheli (16.3);
- Yr Uncorn (Adeilad Rhestredig) ar Afon Menai (Uned Bolisi 16.6);
- Gardd furiog a therasog o'r 16eg ganrif ddiweddar mewn cyflwr da gan gynnwys rhai adeileddau rhestredig (Adeiladau Rhestredig) ym Mharc y Faenol (Uned Bolisi 16.15);
- Cerflun, ac eiddo arfordirol (Adeiladau Rhestredig) yn Llanfair Pwllgwyngyll (Uned Bolisi 16.16);
- Pont dros nant ger Melin Pwll-fanogl (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 16.16);
- Carreg filltir ger Penrhyn Safnas (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 16.20);
- Gerddi hanesyddol, castell ac Adeiladau Rhestredig ym Miwmares (Uned Bolisi 16.21);
- Glanfa'r Garth (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 16.25);
- Adeiladau Rhestredig isel a 'Pier Camp' ym Mangor (Uned Bolisi 16.26);
- Parc Hanesyddol Castell y Penrhyn (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 16.29); a
- Pont yng ngheg Afon Ogwen (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 16.31).

4.2.242 Fodd bynnag, bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safleoedd canlynol (y ddau gyfnod olaf):

- Adeiladau Rhestredig, Amgylchoedd Hanfodol, Y Castell a Muriau'r Dref (Uned Bolisi 16.12);
- Y Felinheli Adeilad Rhestredig yn y Felinheli (Uned Bolisi 16.14);
- Amryw Adeiladau Rhestredig yn Nhref Porthaethwy (Uned Bolisi 16.19);
- Safle Brodordy (Heneb Restredig) yn Llan-faes (Uned Bolisi 16.25);
- Parc Hanesyddol Castell y Penrhyn (Adeilad Rhestredig) yn Abercegin (Uned Bolisi 16.29); ac
- Adeilad Rhestredig yng Nghaer Belan a doc (gan gynnwys adeiladau'r cei) yng Nghaer Belan (Uned Bolisi 16.4).

4.2.243 Yn y PDZ hwn, cafwyd wyth o nodweddion archeolegol heb eu dynodi yn Unedau Polisi 16.15, 16.16, 16.25 ac 16.31 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI. Fodd bynnag, bydd mwy nag 20 o nodweddion archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL yn amryw unedau polisi. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

4.2.244 Gall lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gynnwys cloddio a chofnodi ac arolygu cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.245 Byddai'r polisïau HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 16.12, Uned Bolisi 16.14 ac Uned Bolisi 16.29 yn cynnal gweithrediad harbwr, marina a dociau Caernarfon, y Felinheli ac Abercegin yn enwedig yn y ddau gyfnod olaf.

4.2.246 O'r chwe nodwedd a ddynodwyd yn PDZ 16, bydd effaith sylweddol ar dair ohonynt:

- Ffordd arfordirol ar hyd Afon Menai (Uned Bolisi 16.11);
- Ffordd arfordirol Penmon ar hyd Afon Menai (Uned Bolisi 16.25); a
- Rheilffordd yn Llanfairfechan (Uned Bolisi 16.31).

4.2.247 Bydd modd lliniaru'r effeithiau negyddol ar y ffyrdd trwy adlinio.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.248 O'r chwe nodwedd / eiddo a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd prif effaith y polisi rheoli dewisol o MR ar hyd (Uned Bolisi 16.33) yn y cyfnod olaf yn gysylltiedig ag eiddo yn Llanfairfechan lle gall ambell eiddo gael ei golli oherwydd yr adlinio. Efallai y bydd angen lliniaru fel darparu tir arall ar gyfer datblygu neu adleoli eiddo.

4.2.249 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn ar wahân i'r polisi HTL/NAI yn cynnal hawliau tramwy cyhoeddus ar hyd llwybr troed a llwybr beicio Caernarfon.

4.2.250 Fe all mwy o erydu cysylltiedig â NAI effeithio ar y Fferm Frithyll a'r pyllau ym Mhontllyfni (Uned Bolisi 16.1), yn arbennig y pyllau hynny sydd agosaf at y traeth ac mae'r fferm bysgod mewn perygl llifogydd ar lanwau mawr arferol. Efallai y bydd angen lliniaru fel adleoli'r fferm bysgod neu waith amddiffyn preifat.

4.2.251 O ran Maes Awyr Caernarfon (Uned Bolisi 16.4), mae'n debygol y bydd effaith ar ei swyddogaeth yn y cyfnod hwn oherwydd bod cynnydd yn lefel y môr yn gwneud amddiffynfeydd yn anghynaliadwy cysylltiedig â pholisi o MR/NAI. Efallai y bydd angen lliniaru fel adleoli'r maes awyr.

PDZ 17 Twyn y Parc i Dwyn Cliperau

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.252 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.253 At ei gilydd ychydig iawn o effaith fydd ar yr amrywiol SoDdGA cysylltiedig â'r PDZ hwn. Gallai fod rhywfaint o gynefin rhynglanwol gael ei golli o flaen yr amddiffynfeydd ar hyd Uned Bolisi 17.20 cysylltiedig SoDdGA â Beddmanarch – Cymyran. Gall lliniaru gynnwys creu cynefinoedd.

4.2.254 Yr unig golledion cynefin BAP gwastadedd tywod, gwastadedd llaid a morfa heli sylweddol a allai fod o ganlyniad i bolisi HTL yn Unedau Polisi 17.7 (de Cwm Crigyll) ac 17.18 (Cob y Fali) lle gallai polisi beri cyfyngu ar ddatblygiad naturiol cynefin rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr. Mae rhai colledion dibwys hefyd yn Unedau Polisi 17.11 (Porth Diana), 17.15 (Caergybi), 17.18 ac 17.20 (Y Fali). Gallai cyfanswm y colledion ar gyfer yr holl gyfnodau fod hyd at: gwastadedd llaid 2.3ha, gwastadedd tywod 7.7ha a morfa heli 0.4ha. Mae mwyafrif y colledion gwastadedd tywod a gwastadedd llaid yn digwydd yn y trydydd cyfnod.

4.2.255 Gallai'r polisïau MR ar gyfer yr holl gyfnodau yn Unedau Polisi 17.9 (polisi cyffredinol y De-orllewin), 17.19 (polisi cyffredinol y Môr Mewndirol), 17.21 (Newlands), 17.22 (Afon Alaw) ac 17.23 (Traeth Cribin i Dwyn Cliperau), a'r ddau gyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 17.10 (Borthwen) beri colli cynefin BAP daearol gan gynnwys; rhedyn ungoes, coetir Yw cymysg collddail, coetir conifferaidd, cors bori arfordirol a gorlifdir, ffen, cors a chorstir a rhostir corlwyni. Y lliniaru am golli rhedyn ungoes, coetir Yw cymysg collddail, ffen, cors a chorstir a rhostir corlwyni fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR. Mae'r polisïau MR hyn ac yn enwedig y rhai yn yr holl gyfnodau yn Unedau Polisi 17.19 a 17.22 yn debygol o arwain at greu cynefin rhynglanwol ychwanegol.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.256 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.257 Gallai polisïau MR beri effaith negyddol gymedrol ar nodweddion AHNE Ynys Môn. Fodd bynnag, gellid lleihau hyn i ddibwys trwy ddylunio ystyriol a phriodol ar lefel y cynllun.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.258 Allan o 23 o nodweddion treftadaeth dynodedig a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd erydiad o ganlyniad i bolisi NAI yn debygol o effeithio ar ddeuddeg ohonynt (holl gyfnodau). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hen swyddfa dollau (Adeilad Rhestredig) ym Mhorth Dafarch (Uned Bolisi 17.14);
- Cylch Cutiau Ynys Leurad (Heneb Restredig) yn Afon Alaw (Uned Bolisi 17.19);
- Melin lanw Felin Carnau, melin lanw Felin Wen a melin lanw Bodior (Heneb Restredig) ar draeth Rhyd y Gari (Uned Bolisi 17.9);
- Cored Bysgod Newlands (Heneb Restredig) yn y Fali (Uned Bolisi 17.21);
- Adeiladau Rhestredig a Heneb Restredig (Pont) yn Aberffraw (Uned Bolisi 17.3);
- Carnedd gron Trwyn Du (Heneb Restredig) yn Nhraeth Aberffraw (Uned Bolisi 17.4);
- Eglwys Cwyfan Sant (Adeilad Rhestredig) ym Mhorth Cwyfan (Uned Bolisi 17.4);
- Bwthyn Tyn Towyn (Adeilad Rhestredig) ym Mhorth Nobla (Uned Bolisi 17.5);
- Porth y Castell (Adeilad Rhestredig) ym Mhorth Castell (Uned Bolisi 17.9); a
- Gwylfa Rhoscolyn (Adeilad Rhestredig) yn Rhoscolyn (Uned Bolisi 17.9).

4.2.259 Bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safleoedd canlynol (y ddau gyfnod olaf):

- Harbwr, amryw Adeilad Rhestredig a nodweddion hanesyddol yng Nghaergybi (PU17.15);
- Pontrhydybont (Adeilad Rhestredig) yn Afon Alaw (Uned Bolisi 17.19); a
- Darn o forglawdd yn Surf Point (Adeilad Rhestredig) yn Rhosneigr (Uned Bolisi 17.7).

4.2.260 Yn y PDZ hwn, cafwyd dwy nodwedd archeolegol heb eu dynodi Uned Bolisi 17.19 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI. Fodd bynnag, bydd pump o nodweddion archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL neu MR yn Unedau Polisi 17.15 ac 17.19. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

4.2.261 Fe all lliniaru nodweddion sy'n cael eu heffeithio cysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol gynnwys cloddio a chofnodi a mesur cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.262 Byddai'r polisïau HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 17.15 yn cynnal gweithrediad harbwr a marina Ynys Gybi.

4.2.263 O'r pum nodwedd a ddynodwyd yn PDZ 17, dim ond arglawdd y rheilffordd ger Afon Alaw (Uned Bolisi 17.19) fydd yn cael ei effeithio'n sylweddol –cryn effaith gadarnhaol yn yr achos hwn trwy gynnal yr arglawdd a mynediad o ganlyniad.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.264 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar eiddo i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

4.2.265 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn.

4.2.266 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

PDZ 18 Twyn Cliperau i Drwyn Cwmrwd

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.267 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.268 Yn y PDZ hwn, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol ar nodweddion diddordeb yr amrywiol SoDdGA o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir.

4.2.269 Nid oes disgwyl i fwyafrif polisïau HTL yn y PDZ hwn arwain at unrhyw ostyngiad sylweddol yn y cynefinoedd BAP rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr. Yr unig beryglon lleihau cynefin BAP gwastadedd tywod yw rhai mân a allai ddigwydd yn Uned Bolisi 18.10 (Harbwr Cemais) yn y trydydd cyfnod, ac Uned Bolisi 18.11 (Promenâd Traeth Mawr) yn yr ail gyfnod, gyda chyfanswm colled debygol o hyd at 0.5ha o gynefin BAP gwastadedd tywod.

4.2.270 Gallai'r polisïau MR yn y cyfnod cyntaf yn Unedau Polisi 18.3 (Porth Trefadog) ac 18.6 (Bae a Phentir Cemlyn), a'r trydydd cyfnod yn Uned Bolisi 18.11 beri colli rhannau bach o gynefin BAP daearol fel cors bori arfordirol a gorlifdir a rhedyn ungoes. Y lliniaru am golli rhedyn ungoes fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR. Oherwydd natur greigiog y darn hwn o forlin mae disgwyl i golledion fod yn fach.

4.2.271 Mae polisïau MR yn debygol o arwain at greu cynefin rhynglanwol ychwanegol.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.272 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.273 Gallai fod mân effaith negyddol ar yr ardal tirwedd hanesyddol oherwydd y polisi yn Uned Bolisi 18.17. Mae effaith gadarnhaol gymedrol i'w disgwyl ar yr Arfordir Treftadaeth yn bennaf oherwydd dileu nodweddion diwydiannol yn Uned Bolisi 18.14. Fodd bynnag, mae'r nodweddion hyn hefyd yn elfen o AHNE Ynys Môn ac, mewn ymateb, byddai mân effaith negyddol i'w disgwyl.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.274 Allan o 8 o nodweddion treftadaeth dynodedig a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd erydiad o ganlyniad i bolisïau NAI yn debygol o effeithio ar dair ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Parc Hanesyddol Cestyll ac Adeiladau Rhestredig ym Mhorth y Felin (Uned Bolisi 18.1);
- Gwaith brics Porth Wen (Heneb Restredig) yn y Borth Wen (Uned Bolisi 18.14); a hefyd
- Castell (Heneb Restredig) yn Nhre Fadog (Uned Bolisi 18.3).

4.2.275 Yn y PDZ hwn, cafwyd pedair nodwedd archeolegol heb eu dynodi yn Unedau Polisi 18.1, 18.13 ac 18.14 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI. Fodd bynnag, bydd dwy nodwedd archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL yn amryw unedau polisi. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

4.2.276 Fe all lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol gynnwys cloddio a chofnodi a mesur cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.277 Nid oes disgwyl i bolisi'r CRhT effeithio'n sylweddol ar fynediad a gweithrediadau morol yn y PDZ hwn.

4.2.278 O'r ddwy nodwedd a nodwyd yn PDZ 18, nid oes effeithiau negyddol sylweddol i'w disgwyl er y gall fod cryn effaith gadarnhaol ar Atomfa'r Wylfa ym Mhorth y Galen-ddu (Uned Bolisi 18.7), trwy gael ei hamddiffyn.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.279 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar eiddo i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

4.2.280 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn.

4.2.281 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

PDZ 19 Baeau Dwyreiniol Ynys Môn

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.282 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar AGA neu ACA yn y PDZ hwn.

4.2.283 Yn y PDZ hwn, nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol ar nodweddion diddordeb yr amrywiol SoDdGA o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir.

4.2.284 Gallai'r polisïau HTL yn Unedau Polisi 19.1 (Ffordd y Traeth, Benllech) a 19.12 (Y Traeth Coch) gyfyngu ar gynefinoedd BAP rhynglanwol, er bod disgwyl i lawer o bolisïau MR yn y PDZ hwn greu cynefin rhynglanwol, yn enwedig yn Uned Bolisi 19.14 (Afon Nodwydd). Nid yw cyfanswm y golled debygol o 0.1ha o wastadedd llaid rhynglanwol a

3.8ha o gynefin gwastadedd tywod rhynglanwol yn debygol o ddigwydd o dderbyn gogwydd a ffurf tir yr unedau polisi.

4.2.285 Gallai'r polisïau MR ar gyfer yr holl gyfnodau yn Unedau Polisi 19.4 (Porth Lydan) ac 19.14, y ddau gyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 19.2 (Portobello), y cyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 19.7 (Canolfan Traeth Bychan) a'r trydydd cyfnod yn Unedau Polisi 19.10 (Ffordd y Traeth, Benllech) ac 19.12 (Y Traeth Coch) beri colli darnau bach o gynefin BAP daearol gan gynnwys; coetir Yw cymysg collddail, cors bori arfordirol a gorlifdir a ffen, cors a chorstir. Y lliniaru am golli coetir Yw cymysg collddail a ffen, cors a chorstir fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.286 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.287 Y rhagolwg yw y bydd mân effaith negyddol ar yr ardal tirwedd hanesyddol oherwydd colledion trwy erydiad a chynnydd yn lefel y môr yn deillio o bolisi NAI, ac mae effaith negyddol gymedrol i'w disgwyl ar AHNE Ynys Môn oherwydd colli nodweddion treftadaeth adeiledig er bod amddiffyn ac ehangu nodweddion amgylchedd naturiol yn gwrthbwyso hyn. Ar ben hynny, gellid lleihau arwyddocâd yr effaith negyddol i fân trwy ddylunio ystyriol a phriodol ar lefel y cynllun.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.288 Allan o 6 nodwedd treftadaeth a nodwyd yn y PDZ hwn, bydd erydiad o ganlyniad i bolisïau NAI yn debygol o effeithio ar bedair ohonynt (holl gyfnodau), gan cynnwys:

- Pont Ynys Môn (Adeilad Rhestredig) yn y Traeth Coch (Uned Bolisi 19.14);
- Cored Bysgod Llanddona (Heneb Restredig) yn y Traeth Coch (Uned Bolisi 19.15);
- Cored Bysgod Traeth Lligwy (Heneb Restredig) ar Draeth Lligwy (Uned Bolisi 19.3); ac
- Odynnau Calch, Adeiladau Rhestredig Ynys Môn yn Nhraeth Bychan (Uned Bolisi 19.7).

4.2.289 Nid oes unrhyw nodweddion archeolegol sylweddol heb eu dynodi i'w cael yn y PDZ hwn.

4.2.290 Fe all lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol gynnwys cloddio a chofnodi a mesur cyflymder erydu. Gall rheoli cilio'r draethlin yn lleol hefyd leihau perygl difrodi neu golli nodweddion treftadaeth yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

Asedau Materol

4.2.291 Gyda'r polisïau MR yn Uned Bolisi 19.4 byddai gorsaf bad achub Moelfre'n cael ei gwarchod a'i gweithrediad yn cael ei chynnal yn yr holl gyfnodau.

4.2.292 Fe all y polisi NAI yn Nhraeth Bychan yn Uned Bolisi 19.9 gael effaith fach ar gadw cychod yn y fan hon.

4.2.293 Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol ar isadeiledd hanfodol yn y PDZ hwn.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.294 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar eiddo i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

4.2.295 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn.

4.2.296 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

PDZ 20 Llanfairfechan i Lanrwst

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.2.297 Mae Uned Bolisi 20.1 yn cynnwys cynefin rhynglanwol dynodedig a allai deimlo effaith y polisi HTL arfaethedig ar gyfer yr holl gyfnodau, er mwyn gwarchod isadeiledd cludiant (yr A55). Wrth i'r cynefin rhynglanwol gael ei wasgu o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr a'r cyfyngiad oherwydd polisi HTL, gallai hyn gyfyngu ar led y traeth a lleihau maint nodwedd gwastadedd tywod rhynglanwol, fyddai hefyd yn effeithio ar amcanion cadwraeth y nodweddion creigres a chilfachau a baeau bas yn yr ACA hon. Dynodwyd rhan o ACA Afon Menai'n rhan o AGA Traeth Lafan Bae Conwy hefyd ac, wedyn, gallai colli gwastadedd tywod rhynglanwol cynhaliol effeithio ar boblogaethau rhywogaethau diddordeb yr AGA. O ganlyniad, mae disgwyl effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Y Fenai a Bae Conwy ac AGA Thraeth Lafan Bae Conwy. Bydd angen profi'r achos IROPI ar gyfer y polisi hwn a chreu cynefin cydadferol pan fo hynny'n briodol.

4.2.298 Er bod HTL yn cael ei awgrymu mewn Unedau Polisi eraill (sef 20.2, 20.3 a 20.11) sy'n cynnwys cynefin rhynglanwol, nid yw'r rhain o fewn ffiniau'r ACA na'r AGA, ac ni fyddai unrhyw effaith andwyol yn digwydd.

4.2.299 Yn debyg i Safleoedd Natura 2000 y PDZ hwn, fe all fod cyfyngiad ar ddatblygiad naturiol y nodweddion diddordeb cynefin cysylltiedig â'r SoDdGA fel gwastadeddau tywod a gwastadeddau llaid. Bydd hyn yn digwydd yn SoDdGA Aber Afon Conwy, SoDdGA Pen y Gogarth a SoDdGA Traeth Lafan ar hyd Unedau Polisi 20.1, 20.3, 20.4, 20.5, 20.6, 20.7, 20.8, 20.9, 20.10, 20.11, 20.15, 20.16, 20.17, 20.18 a 20.19. Bydd HTL ar hyd yr unedau polisi hyn yn peri colled debygol o gynefinoedd oherwydd gwasgfa arfordirol, tra gallai MR ar hyd rhai rhannau greu cynefin ychwanegol (e.e. rhynglanwol) yn yr hirdymor a lleihau'r effeithiau all yn y ddau gyfnod cyntaf. Mae'r mesurau lliniaru am golli cynefinoedd yn debygol o orgyffwrdd gofynion cynefinoedd cydadferol y Safleoedd Natura 2000, er y gall fod angen creu rhywfaint o gynefinoedd daearol newydd.

4.2.300 Gallai'r polisïau HTL yn Unedau Polisi 20.2 (Penmaen-mawr), 20.3 (Morfa Conwy), 20.5 (Conwy), 20.11 (Pen Morfa a'r Cwrs Golff), 20.15 (Cyffordd Llandudno ac Aber Afon Ganol), 20.16 (Llansanffraid Glan Conwy) a 20.17 (Llansanffraid Glan Conwy i Dal-y-cafn) beri cyfyngu ar ddatblygiad naturiol cynefin rhynglanwol o ganlyniad i gynnydd yn

lefel y môr, a allai gyfyngu ar led y traeth a pheri gostyngiad sylweddol ym maint cynefin BAP rhynglanwol. Gallai'r colledion llwyr yn yr holl gyfnodau fod hyd at: gwastadedd llaid 14.5ha, gwastadedd tywod 58.6ha a morfa heli 7.5ha. Mae mwyafrif y colledion morfa heli a gwastadedd llaid yn digwydd yn y trydydd cyfnod, gyda phrif golledion gwastadedd tywod yn digwydd yn y ddau gyfnod olaf.

4.2.301 Mae pob un o'r polisïau MR yn y PDZ hwn, ar wahân i'r ail gyfnod yn Uned Bolisi 20.19 (Tal-y-cafn i Lanrwst), sy'n effeithio ar gynefinoedd BAP daearol yn digwydd yn y trydydd cyfnod. Yn Unedau Polisi 20.6 (Cwm Gyffin), 20.9 (Trwyn Deganwy), 20.11 (Pen Morfa a'r Cwrs Golff) a 20.15 (Cyffordd Llandudno ac Aber Afon Ganol) gallai'r polisi hwn beri colli rhannau bach o gynefin BAP daearol gan gynnwys; cors bori arfordirol a gorlifdir, coetir Yw cymysg collddail, ffen, cors a chorstir a chamlesi dŵr llonydd agored. Mae prif golled camlesi dŵr llonydd agored yn digwydd o ganlyniad i adlinio trwy'r warchodfa natur yn Uned Bolisi 20.15. Y lliniaru am golli camlesi dŵr llonydd agored, coetir Yw cymysg collddail a ffen, cors a chorstir fyddai creu cynefinoedd yn amodol ar fanylion y polisi MR.

4.2.302 Mae polisïau MR yn debygol o arwain at greu cynefin rhynglanwol ychwanegol.

Daeareg a Geomorffoleg

4.2.303 Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ddynodiadau daearegol yn y PDZ hwn.

Tirwedd

4.2.304 Gallai fod effaith negyddol gymedrol ar yr ardal tirwedd hanesyddol oherwydd polisïau MR yn Unedau Polisi 20.3, 20.6, 20.8, 20.9 a 20.11, a gallai fod effaith andwyol gymedrol ar y golygfeydd arwyddocaol yng Nghastell Conwy. Fodd bynnag, gellid lleihau arwyddocâd yr effeithiau negyddol i ddibwys trwy ddylunio ystyriol a phriodol ar lefel y cynllun.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2.305 Allan o 7 o nodweddion treftadaeth dynodedig, yr unig nodwedd y bydd erydiad o ganlyniad i NAI neu darfu o ganlyniad i HTL yn debygol o effeithio arni (yn y ddau gyfnod olaf yn eu tro) yw Gogarth Grange (Heneb Restredig) ar y Gogarth (Uned Bolisi 20.12). Fe all arolygu neu reoli cilio'r draethlin yn lleol leihau perygl difrodi neu golli'r nodwedd dreftadaeth hon yn dibynnu ar effeithiau'r math hwn o reoli ar ddynodiadau amgylcheddol eraill.

4.2.306 Fodd bynnag, bydd y polisi rheoli dewisol o HTL yn gwarchod y safle canlynol yn gadarnhaol (yn y trydydd cyfnod):

- Amrywiol Adeiladau Rhestredig, Parc Hanesyddol, Y Castell yng Nghonwy (Uned Bolisi 20.6).

4.2.307 Yn y PDZ hwn, cafwyd dwy nodwedd archeolegol heb eu dynodi yn Unedau Polisi 20.6 a 20.13 a allai gael eu colli neu ddifrodi gyda pholisi NAI neu MR. Fodd bynnag, bydd tair nodwedd archeolegol yn dal i gael eu gwarchod gyda HTL yn Unedau Polisi 20.5 a 20.6. Mae **Helaethiad A2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodweddion archeolegol all gael eu heffeithio yn y PDZ hwn.

Asedau Materol

4.2.308 Nid oes disgwyl i bolisi'r CRhT effeithio'n sylweddol ar fynediad a gweithrediadau morol yn y PDZ hwn.

4.2.309 O'r naw nodwedd a ddynodwyd yn PDZ 20, bydd cryn effeithiau cadarnhaol ar chwech ohonynt trwy gael eu hamddiffyn:

- Rheilffordd yn Llansanffraid Glan Conwy;
- Ffordd a rheilffordd yn Nhal-y-cafn;
- Rheilffordd ym Mhenmaen-mawr;
- Gwibffordd yr A55 yn Llandudno;
- Tair pont yn croesi'r afon yng Nghonwy; a
- Mynedfeydd y twnnel dan yr afon yng Nghonwy.

Poblogaeth a'r Gymuned

4.2.310 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau i'w disgwyl yn y PDZ hwn, tra bo eiddo'n annhebygol o gael ei effeithio yn y cyfnod olaf cysylltiedig â HTL ym Mhenmaen-mawr (Uned Bolisi 20.2) a Chonwy (Uned Bolisi 20.5). Felly, bydd amddiffyn eiddo'n parhau ar hyd yr unedau polisi hyn.

4.2.311 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol i'w disgwyl ar gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol yn y PDZ hwn.

4.2.312 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd allweddol i'w disgwyl yn y PDZ hwn.

4.3 Asesiad CFfD

4.3.1 Ni fydd mwyafrif polisïau CRhT2 yn ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru yn peri dirywiad yn Statws neu Botensial Ecolegol y cyrff dŵr ac, felly, ni fyddant yn methu cyflawni Amcanion Amgylcheddol y CFfD.

4.3.2 Dangosodd yr asesiad CFfD o bolisïau CRhT2 ym mhob PDZ a'r crynodeb cyrff dŵr o gyflawni Amcanion Amgylcheddol y CFfD (gwelwch Adroddiad Asesiad CFfD) y gall rhai o'r polisïau dewisol mewn unedau polisi fethu cyflawni Amcanion Amgylcheddol CFfD 2, CFfD 3 a CFfD 4. Caiff yr unedau polisi hyn eu crynhoi yn **Nhabl 4.23**.

Tabl 4.23 Crynodeb o'r Unedau Polisi a Allai Fethu Cyflawni Amcanion Amgylcheddol CFfD

Corff Dŵr	Math TraC	CFfD 2	CFfD 3	CFfD 4
Teifi	Trosiannol		5.11	
Canol Bae Ceredigion	Arfordirol		8.3	
Ystwyth / Rheidol	Trosiannol	9.3, 9.4, 9.6, 9.7	9.6	
Dyfi a Leri	Trosiannol	10.5, 10.6, 10.7, 10.8, 10.11		
Gogledd Bae Ceredigion	Arfordirol	11.1, 11.3	10.17, 11.3	
Glaslyn	Trosiannol	12.13, 12.14		
De Bae Caernarfon	Arfordirol	16.1	16.1	
Cefni	Trosiannol	16.9	16.9	
Seiont	Trosiannol	16.11, 16.12		
Bae Cymyran	Arfordirol		17.7	17.8
Bae Caergybi	Arfordirol	17.15		
Gogledd Ynys Môn	Arfordirol	18.16	18.16	18.16
Conwy	Trosiannol	20.3 – 20.10, 20.16, 20.17	20.5	

Mae rhagor o fanylion yr effeithiau ar gyrff dŵr dynodedig i'w cael yn Asesiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru.

4.4 Asesiad Cronnus

Elfen allweddol wrth ystyried effeithiau amgylcheddol yn strategol yw posibilrwydd effeithiau eilaidd, cronnus a synergaidd ar dderbynnydd amgylcheddol arbennig sydd i'w asesu; o fewn y CRhT ac ochr yn ochr â chynlluniau neu raglenni perthnasol eraill. Yn aml caiff yr effeithiau hyn yn ar y cyd eu galw'n effeithiau cronnus. Mae **Tabl 4.24** yn dangos effeithiau amgylcheddol sylweddol y cynllun cyfan, a ystyriwyd mewn perthynas â phob un o'r amcanion amgylcheddol.

Tabl 4.24 Crynodeb o Faterion Eilaidd, Cronnus a Synergaidd ar gyfer pob Derbynnydd AAS

Effeithiau cronnus a nodwyd (swm effeithiau unedau polisi)	Rhyngweithiad Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol
Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid	
Ar hyd mwyafrif glannau'r CRhT, caiff amrywiaeth o gynefinoedd arfordirol eu dynodi dan ddeddfwriaeth ryngwladol oherwydd eu buddiannau cadwraeth. Mae'r CRhT yn argymell mabwysiadu polisi NAI ar hyd rhan gynyddol o arfordirol / glannau aberol er mwyn rhoi lle i'r cynefinoedd hyn rhynglanwol a ddynodwyd yn rhyngwladol dreiglo'n ôl neu ehangu'n naturiol. Bydd parhau'r polisi hwn ynghyd â MR mewn llawer o ardaloedd, yn ogystal â gadael i amddiffynfeydd sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd fethu unwaith y daw eu bywyd i ben yn cael effeithiau buddiol ar y dynodiadau a'u nodweddion diddordeb. Mae rhywfaint o bosibilrwydd ail-greu cynefin hefyd, er enghraifft mae polisïau MR yn debygol o arwain at greu cynefin BAP gwaddod arfordirol ychwanegol ym mwyafrif y PDZ. Mae'r canlyniad cadarnhaol hwn o greu cynefinoedd gyda MR yn gwneud iawn am effeithiau negyddol polisi HTL ar hyd rhai darnau o draethlin yn peri gwasgfa arfordirol a cholli cynefinoedd rhynglanwol (gwastadedd llaid, gwastadedd tywod, a morfa heli) yn bennaf mewn cyfundrefnau aberol ond hefyd ar hyd traethau ar yr arfordir agored. Fodd bynnag, bydd y polisi MR hefyd yn effeithio ar ardaloedd a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) wedi ystyried y colledion ac enillion cronnus canlynol o ganlyniad i bolisïau CRhT2 ar gyfer pob un o'r grwpiau cynefin dynodedig fel: • Gwastadedd tywod rhynglanwol – Cyfanswm o **171.61ha** (PDZ 2, 3, 10, 11, 12, 13, 16 a 20). • Morfa heli – Cyfanswm o **147.25ha** (PDZ 10 a 12). • Gwastadedd llaid rhynglanwol – Cyfanswm o **16.16ha** (PDZ 16). Mae'r HRA wedi ystyried y bydd angen cael cynefin cydadferol trwy RHCP. Bydd angen cyfanswm o **886.82ha**. Ystyrir bod y PDZ canlynol yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd ar yr adeg hon: • PDZ 2 – Trwyn Borough i Ddinas Fach • PDZ 3 – Dinas Fach i Ben Anglas • PDZ 10 – Borth Uchaf i Donfannau • PDZ 11 – Tonfannau i Fochras • PDZ 12 – Mochras i Benychain • PDZ 13 – Penychain i Drwyn Cilan • PDZ 16 – Trwyn Dylan i Lanfairfechan • PDZ 20 – Llanfairfechan i Lanrwst ***Mae rhagor o fanylion yr effeithiau ar safleoedd a ddynodwyd yn***	Ymhlith cynlluniau a pholisïau allweddol y dylid eu hystyried o ran eu goblygiadau i dderbynyddion bioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid AAS CRhT2 Gorllewin Cymru mae: • Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2011-2021 (Mabwysiadwyd Medi 2010); • Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Sir Benfro 2000; • Cynllun Rheoli Llifogydd y Dalgylch Afonydd Sir Benfro a Cheredigion (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, 2010); • Astudiaeth Ragbrofol Llifogydd Pwllheli (Strategaeth Addasu i Newid yn yr Hinsawdd); • Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru - Cynllun Cludiant Rhanbarthol (2009); • Ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol Strategaeth Ddewisol Cyngor Sir Ceredigion 2007 – 2022. Cyngor Sir Ceredigion – Strategaeth Wastraff ar gyfer Ceredigion; • Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Ceredigion 2002; • Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr o Ddalgylch Gogledd Ceredigion 2008; • Cynllun Cludiant Rhanbarthol De-orllewin Cymru (NEWID, 2009); • Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gorllewin Cymru (TRACC, 2009); • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007 – 2022 Datganiad Ysgrifenedig (Fersiwn Adneuo Gwanwyn 2009); • Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001 – 2016; • Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Gwynedd; • Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Gogledd-orllewin Cymru (Asiantaeth yr

Effeithiau cronnus a nodwyd (swm effeithiau unedau polisi)	Rhyngweithiad Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol
rhyngwladol i'w cael yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru (Atodiad G).	Amgylchedd Cymru, 2009); • Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gorllewin Cymru (TRACC, 2009); • Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd-orllewin Cymru (Taith, 2009); • Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ynys Môn 2006 -2021; • Adolygiad Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2009; • LBAP Ynys Môn; • Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001 – 2016; • Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Gwynedd; and • Dogfen Ymgynghori ar Strategaeth Reoli Tynnu Dŵr o Ddalgylch Ynys Môn 2006. Ynghylch cynlluniau eraill all fod o berthnasedd i'r derbynnydd hwn, cyfeiriwch at yr Adroddiad Cwmpasu (**Atodiad E** i'r AA). **Effeithiau allweddol all ddeillio o'r polisi:** • Gallai ymrwymiad i gyrraedd targedau allweddol y CDLl a Llywodraeth Cynulliad Cymru (e.e. am dai fforddiadwy) beri datblygiad newydd ar yr arfordir. Fodd bynnag, mae polisïau penodol ym mwyafrifol y CDLl yn datgan y bydd datblygu yn y parth arfordirol yn cael ei oddef yn unig os oes modd dangos bod angen man ar yr arfordir. Yn ogystal mae CDLl fel Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2011-2021 yn darparu ar gyfer diogelu Safleoedd Ewropeaidd. • Gwnaeth Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri HRA a nodi nad oes unrhyw effeithiau andwyol cysylltiedig â'r CDL. O ganlyniad, nid oes unrhyw effeithiau cyfunol cysylltiedig â'r CRhT a'r CDLl. • AmcanionGallai amcanion i reoli

Effeithiau cronnus a nodwyd (swm effeithiau unedau polisi)	Rhyngweithiad Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol
	bioamrywiaeth ar hyd y morlin beri bod polisïau CRhT2 yn cael effaith andwyol ar amcanion y LBAP. Er enghraifft, yng Nghynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Sir Benfro nodwyd y gallai polisïau CRhT2 ddylanwadu ar glogwyni morol a thwyni tywod. Bydd dylanwad hefyd ar gynefinoedd tebyg yn LBAP Afon Conwy ynghyd â'r rhai cysylltiedig â pharth rhynglanwol (e.e. morfa heli a gwastadeddau llaid). O ran LBAP Gwynedd nodwyd y gallai polisïau CRhT2 ddylanwadu ar glogwyni morol a choetiroedd gwlyb. Nid oes unrhyw effeithiau i'w disgwyl ar LBAP eraill. • Nododd Cynllun Cludiant Rhanbarthol De-orllewin Cymru (NEWID, 2009) y gallai Ffordd Gyswllt Gogledd Sir Gâr i Geredigion effeithio ar ACA Afon Teifi mewn perthynas â rhyddhau / cyfeintiau / ansawdd dŵr croyw. Nid yw'r nodweddion hyn yn gweithredu ar y cyd â pholisïau'r CRhT ac, felly, nad oes unrhyw effaith gyfunol. • Nododd Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gorllewin Cymru (TRACC, 2009) y gall fod effaith ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau o ganlyniad i waith adeiladu yn Aber Dysynni. Gallai fod effaith fyrdymor ar y cynefinoedd cysylltiedig â PDZ 10, 11, 12 ac 13. Felly, mae effaith gyfunol debygol cyn lliniaru. • Mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried Astudiaeth Ragbrofol Llifogydd Pwllheli (Strategaeth Addasu i Newid yn yr Hinsawdd) gyfredol a strategaethau addasiad cysylltiedig i reoli perygl llifogydd er mwyn sicrhau nad oes gwrthdrawiadau tebygol. ***I weld disgrifiad manwl pellach o effeithiau'r cynlluniau, dylid cyfeirio at yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru (Atodiad G i'r CRhT).***
Treftadaeth y Ddaear, Priddoedd a Daeareg	
Argymhellwyd polisïau dewisol NAI neu MR mewn ardaloedd lle mae asedau dynol cyfyngedig neu ar hyd darnau o forlin heb eu datblygu sydd, ymhlith pethau eraill, yn sicrhau cadwraeth y diddordebau daearegol a safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol. Er enghraifft, bydd polisïau NAI o gwmpas llawer	Mae polisïau'r CRhT yn cefnogi nodau cynlluniau datblygu fel Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2001 - 2016) a Strategaeth Ddewisol CDLI Cyngor Sir

Effeithiau cronnus a nodwyd (swm effeithiau unedau polisi)	Rhyngweithiad Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol
o'r arfordir agored, yn arbennig y darnau hynny sy'n GCR neu Dreftadaeth Arfordirol, yn sicrhau bod amlygiad daearegol yn parhau. Nid yw effaith gronnus cyfyngu prosesau arfordirol ar hyd y draethlin yn arwyddocaol iawn ar ddaeareg yr arfordir.	Ceredigion (2007 - 2022) sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu nodweddion ffisegol naturiol fel y safleoedd daearegol.
Dŵr	
Rhoddodd yr asesiad CFfD ar wahân sylw i effeithiau polisïau arfaethedig dan y CRhT ar bedwar Amcan Amgylcheddol CFfD ar y cyrff dŵr croyw, trosiannol, arfordirol a chodi. **Amcan Amgylcheddol CFfD 2:** Nodwyd y gallai wyth o'r 20 PDZ gyfrannu at beidio â chyrraedd Amcan Amgylcheddol CFfD 2. **Amcan Amgylcheddol CFfD 3:** Nodwyd y gallai wyth o'r 20 PDZ gyfrannu at beidio â chyrraedd Amcan Amgylcheddol CFfD 3. **Amcan Amgylcheddol CFfD 4:** Nodwyd y gallai naw o'r 20 PDZ gyfrannu at beidio â chyrraedd Amcan Amgylcheddol CFfD 4. ***Mae rhagor o fanylion yr effeithiau ar gyrff dŵr dynodedig i'w cael yn Asesiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru.***	Diben y CFfD yw sicrhau bod dyfroedd aberol ac arfordirol yn cyflawni Statws Ecolegol Da, ac yn rhoi fframwaith a gofyniad ar y CRhT i roi mwy o bwysiad ar atal newidiadau a phwysau dynol newydd ar y dyfroedd arfordirol ac aberol a lleihau cymaint â phosibl y pwysau presennol (h.y. amddiffynfeydd) ar yr amgylchedd dŵr naturiol. Bydd gweithredu'r CRhT yn ceisio sicrhau cadw'n llawn at ddeddfwriaeth ac argymhellion (ble bynnag y bo modd) ar gynnal a gwella ansawdd dŵr dan arweiniad y CFfD.
Cymeriad Tirwedd ac Amwynder Gweledol	
At ei gilydd, nid oes unrhyw gynllun i godi amddiffynfeydd newydd mewn ardaloedd sy'n ddiamddiffyn ar hyn o bryd. Felly bydd yr effeithiau cronnus ar y rhan fwyaf o'r morlin a chymeriad y dynodiadau – dwy AHNE a'r 12 Arfordir Treftadaeth – yn ddibwys gan y byddant yn aros fel y maent. Yn bennaf mae'r Arfordiroedd Treftadaeth yn cwmpasu ardaloedd sy'n dal i fod yn ddiamddiffyn ac a fydd yn gadael i forlin amrywiol ddal i erydu'n naturiol (ardaloedd NAI). Nod hirdymor y CRhT yw cynnal y cymunedau arfordirol pwysig a gadael i gymaint ag y bo modd o draethlin Gorllewin Cymru ddatblygu'n naturiol. Felly bydd newidiadau sylweddol i'r dirwedd oherwydd y bydd amddiffynfeydd presennol yn cael methu a threulio neu gael eu symud. Oherwydd bod prosesau naturiol i gael eu caniatáu lle bo modd, caiff y rhain eu hasesu fel effeithiau buddiol cronnus. Byddai modd lleihau unrhyw effeithiau all fod ar y dirwedd oherwydd polisïau rheoli trwy ddylunio ystyriol a phriodol ar lefel y cynllun.	Bydd polisïau'r CRhT yn cael eu datblygu a'u gweithredu yn unol â pholisïau Cynlluniau Rheoli'r AHNE lleol, er enghraifft, Adolygiad Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2009. Ar y cyfan mae polisïau CRhT yn cyfyngu polisi a fyddai'n peri newid golwg yr AHNE oherwydd adeileddau dynol maen mannau lle mae gweithgaredd dynol ac isadeiledd eisoes, a hybu prosesau naturiol ble bynnag y bo modd. O ganlyniad, ni fydd polisïau CRhT2 yn cael effaith gyfunol andwyol gyda pholisïau AHNE Ynys Môn. Yn ogystal, bwriad CDLl, fel Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2011-2021, yw ceisio gwarchod a gwella cymeriadau tirwedd arbennig.

Effeithiau cronnus a nodwyd (swm effeithiau unedau polisi)	Rhyngweithiad Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol
Amgylchedd Hanesyddol (Etifeddiaeth Ddiwylliannol)	
Mae effeithiau andwyol cronnus cymedrol ar asedau treftadaeth statudol yn debygol, gan fod holl ddewisiadau polisi'n peri rhywfaint o effaith andwyol. Er bod yr effaith ar asedau treftadaeth dynodedig yn gymedrol, yr effaith ar asedau heb eu dynodi'n debygol o fod yn fwy difrifol, gyda llawer o safleoedd ar lannau NAI yn cael eu dinistrio neu ddifrodi oherwydd bod mwyafrif y safleoedd brau ac agored i niwed yn y parth rhynglanwol ac ar ymylon arfordirol. Bydd MR a NAI yn peri llifogydd neu erydu safleoedd asedau dynodedig ac anhysbys a bydd HTL a MR yn peri tarfu ar safleoedd treftadaeth wrth adeiladu amddiffynfeydd newydd. Tra bo safleoedd treftadaeth sensitif (e.e. Henebion Cofrestredig) yn debygol o ddal i gael eu gwarchod. Mae traethlin newidiol (boed hynny trwy lifogydd / erydiad neu adeiladu amddiffynfeydd) y'n debygol o gynhyrchu ffrwd barhaol o ddarganfyddiadau archeolegol a bydd hyn yn cyfrannu at ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o hanes yr arfordir hwn. Mae amrywiaeth eang o safleoedd a nodweddion treftadaeth o gwmpas y morlin, gyda llawer o'r rhain yn cael eu gwarchod trwy bolisïau'r CRhT na fyddai'n goroesi gyda pholisi NAI. Enghreifftiau o asedau gwarchodedig yw: • Capel Padrig Sant ym Mhorth Mawr (Uned Bolisi 3.8); • Adeiladau Rhestredig Amrywiol; • Amryw Adeiladau Rhestredig a Henebion Rhestredig yn Aberteifi (Uned Bolisi 5.12); • Adeiladau Rhestredig yn Aberaeron (Uned Bolisi 8.2); • Adeiladau Rhestredig yn Aber-arth (Uned Bolisi 8.6); • Castell Aberystwyth (Uned Bolisi 9.7); • Eglwys Tanwg Sant (Uned Bolisi 12.15); • Parc Hanesyddol Castell y Penrhyn (Adeilad Rhestredig) yn Abercegin (Uned Bolisi 16.29); ac • Amrywiol Adeiladau Rhestredig, Parc Hanesyddol a'r Castell yng Nghonwy (Uned Bolisi 20.6). Rhaid derbyn y peryglon cynyddol hyn dan y cynllun hirdymor cymeradwy ar gyfer y CRhT hwn, a dylid ystyried rhaglen briodol o arolygon, cofnodi ac archwilio i gofnodi'r safleoedd pwysig hyn, a'r nodweddion hynny na nodwyd eto.	Bydd polisïau yn y Cynlluniau Datblygu Lleol yn cynghori ar warchod yr amgylchedd hanesyddol. Bydd gweithredu'r CRhT yn ceisio sicrhau cadw'n llawn at y polisïau hyn (ble bynnag y bo modd) trwy weithgareddau rheoli'r arfordir.

Effeithiau cronnus a nodwyd (swm effeithiau unedau polisi)	Rhyngweithiad Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol
Defnydd Tir, Isadeiledd ac Asedau Materol	
Ceisiodd y CRhT warchod isadeiledd sylweddol, cylchoedd masnachol a diwydiannol ac asedau materol (e.e. porthladdoedd, cysylltiadau fferi, prif ffyrdd, rheilffyrdd, gweithfeydd trin carthion, depos diwydiannol, ac ati) yn ystod cyfnod llawn y CRhT, lle bo'n economaidd ymarferol gwneud hynny. Mae hyn er mwyn lleihau perygl i eiddo masnachol fel isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd yn Abergwaun (Uned Bolisi 4.2) fydd yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol wrth i amddiffynfeydd yn yr harbwr gael eu cynnal gan warchod y rheilffordd a ffyrdd. Nid yw isadeiledd sy'n teimlo effaith MR neu NAI yn strategol ac mae'n gymharol hawdd gwneud iawn am ei golled yn lleol, er enghraifft adleoli neu adlinio. Er enghraifft, bydd polisi NAI yn effeithio ar Sefydliad Awyrennau Brenhinol MoD yn Aber-porth (Uned Bolisi 6.1) trwy ddifrod neu golled, ond byddai modd lliniaru trwy adleoli rhannau o'r orsaf awyr. Mae cyfnod Y CRhT yn caniatáu meddwl yn hirdymor, fel bod modd gwneud cynlluniau ar gyfer cynnal a buddsoddi mewn isadeiledd yn y dyfodol ymhell o flaen llaw, gan ystyried datblygiad arfaethedig a naturiol tebygol y draethlin. Mae polisïau arfaethedig y CRhT yn annhebygol o effeithio ar weithgareddau morol gyda mwyafrif y polisïau'n gwarchod cyfleusterau porthladd, marina a harbwr allweddol. Fodd bynnag, lle mae newid yn y polisi rheoli a dychwelyd i brosesau naturiol yn cael ei ystyried yn fuddiol i safleoedd Ewropeaidd trwy naill ai MR neu NAI neu le nad yw polisi cadw'r llinell mwyach yn dderbyniol yn economaidd neu'n dechnegol, fe all fod rhai effeithiau ar isadeiledd. Bydd angen dargyfeirio rhywfaint o isadeiledd fel rheilffyrdd a ffyrdd yn y tymor canolig a hwy dan y CRhT hwn, er nad yw llawer o wasanaethau hanfodol yn debygol o gael eu heffeithio. Tra mai HTL yw'r polisi dewisol ar gyfer y cylchoedd trefol allweddol yn y pen draw, fe all fod effaith andwyol ar beth isadeiledd, lle bydd cynnal y glannau'n dod yn fwyfwy anodd yn dechnegol.	Nod dogfen hon y CRhT yw sicrhau bod arfordir ac aberoedd Gorllewin mae Cymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy a bod y polisïau'n adlewyrchu hyn, yn enwedig y safbwynt hirdymor. Felly, dylid ystyried goblygiadau datblygu yn y dyfodol yn y gorlifdiroedd llanwol neu mewn ardaloedd arfordirol sy'n agored i erydiad, yn enwedig oherwydd y bydd cynlluniau datblygu'n dylanwadu ar natur a lleoliad tai ac isadeiledd newydd, er enghraifft: Bydd cynlluniau cludiant a datblygu'n dylanwadu ar natur a lleoliad isadeiledd newydd. Er enghraifft, un o bolisïau allweddol Strategaeth Ddewisol Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion (2007 – 2022) yw diogelu rheilffyrdd blaenorol a thiroedd cysylltiedig ar gyfer posibilrwydd datblygu cludiant a chyfnewidfeydd cynaliadwy fel y nodwyd yn y CCRh. Felly, dylai'r CRhT gynorthwyo dylanwadu ar a sicrhau bod isadeiledd newydd yn cael ei leoli'n briodol lle mae modd rheoli peryglon llifogydd arfordirol neu erydiad yn briodol.

Effeithiau cronnus a nodwyd (swm effeithiau unedau polisi)	Rhyngweithiad Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol
Poblogaeth	
Mae amryw gylchoedd trefol sylweddol lle bo polisi dewisol CRhT yn cynnig cynnal amddiffynfeydd presennol, gan iddynt gael eu hystyried yn economaidd hyfyw yn yr hirdymor. Bydd hyn yn peri effaith fuddiol ar bobl, eu hiechyd a'u heiddo trwy warchod y cymunedau a'u hasedau rhag llifogydd neu erydiad. Caiff amddiffyn ei ganolbwyntio'n bennaf ar gytrefi mwy, lle mae'r budd mwyaf. Mae'r CRhT wedi dynodi ardaloedd lle byddai morlin yn gweithredu'n fwy naturiol er budd yr amgylchedd naturiol a phrosesau aberol. Fodd bynnag, gallai fod newidiadau i'r tir ac asedau amgylcheddol pe bai'r polisïau hyn yn cael eu gweithredu. Mae modd ystyried effeithiau cronnus mewn perthynas â'r derbynnydd hwn o ran cost iawndal i asedau preswyl a masnachol gyda NAI (neu MR) a'r cynllun dewisol. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer gwarchod nifer sylweddol o eiddo ac asedau rhag erydiad a llifogydd. Dan y polisïau cymeradwy bydd mwyafrif mawr yr asedau preswyl a masnachol yn cael eu gwarchod, er y gall mwy o berygl erydiad a llifogydd effeithio ar rai asedau yn PDZ Gorllewin Cymru.	Nod dogfen hon y CRhT yw sicrhau bod arfordir ac aberoedd Gorllewin mae Cymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy a bod y polisïau'n adlewyrchu hyn, yn enwedig y safbwynt hirdymor. Felly, dylid ystyried goblygiadau datblygu yn y dyfodol yn y gorlifdiroedd llanwol neu mewn ardaloedd arfordirol sy'n agored i erydiad, yn enwedig oherwydd y bydd cynlluniau datblygu'n dylanwadu ar natur a lleoliad tai ac isadeiledd newydd, er enghraifft: Dogfen Ymgynghori ar Strategaeth Ddewisol Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro 2011-2021: gellid darparu rhwng 3400 a 7000 o dai yn ystod cyfnod y cynllun. Strategaeth Ddewisol Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2006: Cynnig 4,730 o anheddau rhwng 2005 a 2020; a b) Cynnig amrediad arwyddol o 60 – 90 hectar o dir cyflogaeth. Mae'r ardaloedd yn cynnwys – Arfordir (Dwyrain) Abergele, Llanddulas, Towyn a Bae Cinmel; Arfordir (Canol) Bae Colwyn, Llysfaen, Mochdre; Creuddyn gan gynnwys Conwy a Llandudno; Arfordir (Gorllewin) Llanfairfechan, Penmaen-mawr; gwledig; a holl gymunedau eraill. Ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol Strategaeth Ddewisol Cyngor Sir Ceredigion 2007 - 2022: Bydd y CDLl yn rhoi sylw i lety ymwelwyr trwy ganiatáu ac annog datblygu llety fel safleoedd datblygu gwestai a gwersylla. Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ynys Môn 2006 -2021: Safleoedd tai strategol mewn prif ganolfannau a chanolbwyntiau ar gyfer rhyw 700 o anheddau (e.e. Glannau Caergybi). Felly, dylai'r CRhT gynorthwyo dylanwadu ar a sicrhau bod isadeiledd newydd yn cael ei leoli'n briodol lle mae modd rheoli peryglon llifogydd arfordirol neu erydiad yn briodol.

4.5 Casgliad

Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid

4.5.1 Nodwyd polisïau lle nad oes modd dod i gasgliad na fyddai eu cyfres polisïau'n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd rhyngwladol neu fod effaith andwyol yn debygol, heb fesurau ychwanegol wrth weithredu polisïau penodol, neu y mynegwyd bwriad polisi yn y fath ffordd (a thrwy gamau gweithredu'r CRhT) fyddai'n dangos osgoi'n amlwg y tarfu ffisegol oherwydd polisi a allai fod yn peri effaith andwyol ar nodweddion y safle. Y safleoedd dan sylw yw ACA Sir Benfro Forol, ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, AGA Aber Afon Dyfi, Ramsar Cors Fochno ac Aber Afon Dyfi, ACA Y Fenai a Bae Conwy, ACA Morfa Heli Glannau Ynys Môn ac AGA Traeth Lafan Bae Conwy.

4.5.2 Mae'r effeithiau cryfaf yn cyfyngu ar bolisi HTL gan beri gwasgfa arfordirol a cholli cynefinoedd rhynglanwol (gwastadedd llaid, gwastadedd tywod, a morfa heli) yn ogystal â phosibilrwydd colli rhai nodweddion creigres rynglanwol, yn bennaf mewn cyfundrefnau aberol ond hefyd ar hyd traethau'r arfordir agored. Mae'r colledion a newidiadau hyn hefyd yn effeithio ar y nodweddion aber a chilfachau a baeau bas oherwydd newid strwythur a swyddogaeth. Mae hyn yn golygu y bydd ymrwymiad cyfreithiol dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd i gael hyd i gynefin cydadferol i sicrhau gwarchod cydlyniad ecolegol y rhwydwaith Natura 2000 (a safleoedd Ramsar). Bydd cynefin cydadferol yn cael ei sicrhau trwy'r polisïau MR yn y CRhT lle bydd y rhain yn arwain at greu cynefinoedd ychwanegol, yn ogystal â thrwy nodi ardaloedd eraill lle gall fod MR na fwriadwyd ar hyn o bryd, a thrwy Gynllun Creu Cynefinoedd Rhanbarthol Cymru a ddatblygwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Fodd bynnag, bydd yr effaith andwyol ar gyfanrwydd y Safleoedd angen cymeradwyaeth CCGC (a Llywodraeth Cynulliad Cymru) i brofi "dim atebion eraill", ac yna gymeradwyo "Rhesymau Hanfodol Budd Gor-redol y Cyhoedd (IROPI)".

4.5.3 Mae effeithiau polisïau'r CRhT ar nodweddion diddordeb y SoDdGA a chynefinoedd BAP yn debyg i'r rhai a drafodwyd uchod ar gyfer y dynodiadau Natura 2000, yn enwedig y rhai cysylltiedig â chynefinoedd arfordirol a rhynglanwol. Yn gyffredinol ar hyd a lled ardal y CRhT fe all fod colledion o gynefinoedd rhynglanwol cysylltiedig â pholisïau HTL all beri bod y cynefinoedd yn cael eu 'gwasgu' yn erbyn amddiffynfeydd caled yn enwedig gyda chynnydd yn lefel y môr (gwelwch **Dabl 4.25**). Yn gyffredinol lle bo cynefinoedd daearol a rhynglanwol yn bresennol gallai polisi HTL, wrth warchod rhag colli'r cynefin daearol, gael canlyniadau negyddol ar gynefinoedd rhynglanwol. Tra gallai ardaloedd gyda pholisïau MR greu cynefin rhynglanwol ychwanegol a gweithredu i wneud iawn am y colledion o ganlyniad i bolisïau HTL yn rhywle arall, gallent beri gostyngiad mewn nodweddion cynefin BAP daearol a allai ofyn lliniaru trwy greu cynefinoedd ychwanegol yn rhywle arall.

Tabl 4.25 Crynodeb o ardaloedd presennol cynefin BAP gwastadedd llaid, gwastadedd tywod a morfa heli yn ardal yr astudiaeth ac ardaloedd a all fod mewn perygl fesul cyfnod

Math o gynefin BAP	Cyfanswm presennol cynefin BAP (ha)	Arwynebedd mewn Perygl ei Golli (ha)			
		Y cyfnod cyntaf	Yr ail gyfnod	Y trydydd cyfnod	Cyfanswm
Llaid Rhynglanwol	3,314	10	42	49	**101**
Tywod Rhynglanwol	4,020	22	91	107	**221**
Morfa Heli	1,417	30	73	27	**130**

Treftadaeth y Ddaear, Priddoedd a Daeareg

4.5.4 Yn gyffredinol mae polisïau sy'n debygol o effeithio ar nodweddion neu amlygiadau daearegol yn gyfyngedig i bolisïau HTL a allai arafu amlygu neu erydu'r nodweddion daearegol, gan beri i lystyfiant eu cuddio dros gyfnod. Yn gyffredinol nid yw'r nodweddion daearegol allweddol sy'n gysylltiedig yn aml â SoDdGA ar bwys glannau adeiledig, lle mae polisïau NAI yn gyffredinol yn cynnal presenoldeb y nodweddion diddordeb. Felly, nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig â pholisïau'r CRhT ym mwyafrif ardal yr astudiaeth. Y brif ardal lle all amlygiad daearegol gael ei golli a difrodi'r gydran ddaearegol yw SoDdGA Glannau Tonfannau / Y Friog lle gall erydiad arafu o ganlyniad i bolisi CRhT a fwriadwyd i amddiffyn rheilffordd sy'n bwysig yn genedlaethol.

Dŵr

4.5.5 Fel y nodwyd yn **Adran 4.4** ac yn yr asesiad CFfD ei hun, ni fydd mwyafrif y polisïau yn ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru yn peri dirywiad yn Statws neu Botensial Ecolegol y cyrff dŵr ac, felly, ni fyddant yn methu cyflawni Amcanion Amgylcheddol CFfD. Fe all Amcanion Amgylcheddol CFfD2, CFfD3 a/neu CFfD4 gael eu cyflawni mewn tri ar ddeg o'r cyrff dŵr Trosiannol ac Arfordirol.

Cymeriad Tirwedd ac Amwynder Gweledol

4.5.6 Yn gyffredinol mae effeithiau'r CRhT ar gymeriad tirwedd ac effeithiau gweledol yn gyfyngedig. Yn y rhan fwyaf o achosion NAI yw polisi'r Unedau Polisi mewn ardaloedd tirwedd warchodedig heblaw am leol ardaloedd o flaen anheddau a mynediad. Yn yr achosion hyn mae polisïau HTL neu MR yn gwarchod llawer o gymeriad ac amwynder gweledol yr anheddau hanesyddol. Lle mae polisïau HTL a MR yn bodoli, mae anferthedd llawer o'r baeau ac arfordir yn caniatáu cymhathwyd llawer o'r polisïau HTL yng ngolygfa llawer o nodweddion y dirwedd at ei gilydd gan gynnwys y Parciau Cenedlaethol, AHNE ac Arfordiroedd Treftadaeth gydag ychydig iawn o ymwthiad gweledol, heblaw yn lleol lle mae nodweddion adeiledig yn bodoli eisoes. Dim ond yn lleol mae effaith ar barciau fel Parc Cenedlaethol Eryri o ganlyniad i bolisi HTL a'r gofyniad i warchod llwybrau cludiant allweddol gydag effeithiau hefyd yn gysylltiedig â cholli anheddiad Porth Dinllaen fyddai'n effeithio ar yr Arfordir Treftadaeth ac Ardal Dirwedd Hanesyddol, er y byddai'r golled yn cynnal nodwedd naturiol yr Arfordir Treftadaeth. Mewn mannau gan gynnwys yr Aber Bach, Solfach, a Phorth-gain gall polisïau HTL a MR hefyd effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth a pheri rhywfaint o darfu gweledol.

4.5.7 Yn y rhan fwyaf o achosion mae dylunio unrhyw weithrediad HTL yn ystyriol a phriodol yn debygol o leihau unrhyw effeithiau cysylltiedig â pholisïau CRhT yn sylweddol.

Yr Amgylchedd Hanesyddol (Etifeddiaeth Ddiwylliannol)

4.5.8 Mae'r prif effeithiau cysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol yn deillio o'r polisïau NAI sy'n arwain at golled naturiol o rai nodweddion hanesyddol yr arfordir agored mewn ymateb i erydu naturiol parhaus; o ganlyniad, caiff cyfran uchel o nodweddion treftadaeth eu colli yn PDZ 1. Mae'r yn cynnwys llawer o henebion rhestredig fel caerau pentir a llociau amddiffynedig. Yn gyffredinol mae diogelu nodweddion treftadaeth, gan gynnwys adeiladau rhestredig a henebion rhestredig, yn digwydd trwy bolisïau CRhT cysylltiedig â glannau adeiledig a lle mae modd cyfiawnhau polisïau HTL a MR. O

dderbyn bod gwarchod morlin Gorllewin Cymru i gyd yn aneconomaidd ac anghynaliadwy, mae colli nodweddion hanesyddol trwy erydiad arfordirol naturiol yn anochel. Nid yw'r colledion hyn o ganlyniad uniongyrchol i bolisi'r CRhT ond maent yn deillio o fwriad rheoli'r CRhT at ei gilydd a nod hirdymor o adael i'r morlin weithredu a datblygu'n naturiol.

Asedau Materol

4.5.9 Yn gyffredinol mae'r prif effeithiau ar isadeiledd hanfodol o ganlyniad i bolisïau CRhT yn canolbwyntio ar yr ardaloedd aberol isel fel aberoedd Mawddach, Dyfi a Glaslyn yn PDZ 10, 11 a 12 a hefyd 16. Yn y cylchoedd hyn mae'r prif effeithiau'n gysylltiedig â'r rheilffordd a ffyrdd arfordirol. Mewn llawer achos byddai angen adlinio'r rheilffordd tua'r tir er mwyn lliniaru perygl colli'r llwybrau tramwy hyn yn y dyfodol. Ardal arall lle byddai ffyrdd mynediad allweddol yn cael eu colli fyddai trwy adlinio Traeth Niwgwl a cholli'r A487 yn y pen draw.

4.5.10 O ran effeithiau ar weithrediadau morol, mae polisïau'r CRhT yn gyffredinol yn cydnabod pwysigrwydd economaidd mynediad a gweithrediadau morol ac, at ei gilydd, caiff y rhain eu cynnal drwy ardal y CRhT i gyd gyda pholisïau HTL ar gyfer yr holl gyfnodau cysylltiedig â diogelu porthladdoedd a marinâu allweddol fel porthladdoedd Abergwaun, Cei Newydd, Aberaeron, Porthmadog, Pwllheli, Caernarfon, Y Felinheli, Abercegin ac Ynys Gybi. Dan rai amgylchiadau fe all fod colli mynediad cysylltiedig â cholli llithrfeydd lleol, er mai MR yw'r polisïau'n gyffredinol yn yr achosion hyn ac, fel y cyfryw, mae'n debygol y byddai llithrfeydd a mynedfeydd yn cael eu haildrefnu a mynediad yn cael ei gynnal. At ei gilydd, felly, daethpwyd i gasgliad nad oes disgwyl i'r CRhT gael unrhyw effeithiau sylweddol ar fynediad na gweithrediadau morol.

Poblogaeth

4.5.11 Yn gyffredinol nid oes disgwyl i'r CRhT gael effaith sylweddol at ei gilydd ar asedau masnachol neu dwristaidd. Mae'r unig ardaloedd lle gallai fod effaith sylweddol yn PDZ 16 gyda pholisïau MR/NAI yn peryglu rhywfaint ar Faes Awyr Caernarfon oherwydd cynnydd yn lefel y môr gan wneud yr amddiffynfeydd yn anghynaliadwy. Fe all fod effaith hefyd ar byllau'r fferm frithyll ym Mhontllyfni a byddai angen adleoli'r fferm neu wneud gwaith amddiffyn preifat sylweddol.

4.5.12 Ar hyd a lled ardal y CRhT caiff eiddo a mynediad lleol eu gwarchod gyda pholisïau HTL a MR. Mewn rhai mannau fel Bae Clarach, y Borth, y Friog a Llanfairfechan mae disgwyl i bolisi MR effeithio ar eiddo trwy golled oherwydd erydiad neu orlifo yn yr hirdymor. Mewn rhai achosion gall systemau rhybuddio llifogydd yn gynnar ac adleoli eiddo liniaru'r effeithiau hyn i ryw raddau. Lle nad yw'n gynaliadwy cynnal eiddo bwriad polisi'r CRhT yw gadael amser i addasu glannau ac adleoli eiddo lle bo angen.

Casgliad

4.5.13 At ei gilydd, felly, mae modd dod i gasgliad bod y CRhT wedi rhoi amrywiaeth o fuddiannau i werthoedd cymdeithasol ac economaidd traethlin Gorllewin Cymru a, lle nodwyd effeithiau negyddol cymedrol neu sylweddol, cysylltiedig yn arbennig â bioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid a threftadaeth ac asedau, dyfeisiwyd mesurau lliniaru a rheoli i roi sylw i'r effeithiau hyn lle bo modd.

5 AROLYGU A LLINIARU

5.1 Cyflwyniad

5.1.1 O'r mân effeithiau andwyol a nodwyd yn yr asesiad hwn (sy'n cael ei fanylu yn **Atodiadau A i D)**, mae rhai'n cael sylw yng nghyd-destun ehangach synergedd a chydbwysedd mewn perthynas ag effeithiau ardaloedd rheoli eraill, tra bo rhai angen rheoli penodol. Mae polisi CRhT yn rhai ardaloedd rheoli'n gweithio yn erbyn prosesau naturiol, er enghraifft, er mwyn cynnal rhannau allweddol o'r arfordir i warchod gwerthoedd amgylcheddol eraill. Sut y caiff polisi ei gymhwyso ar hyd a lled ardal y CRhT er mwyn cydbwysedd, yw'r elfen bwysig yn enghreifftiau o'r fath ac, felly, nid yw lliniaru nac arolygu'n briodol nac yn ofynnol.

5.1.2 Fodd bynnag, mae'r CRhT yn gofyn lliniaru a/neu arolygu am effeithiau unigol, lle nodwyd effaith andwyol. Yn y cyd-destun hwn, y farn yw bod angen y mesurau canlynol i gynnal y CRhT er mwyn osgoi effaith andwyol ar werthoedd amgylcheddol traethlin Gorllewin Cymru.

- Datblygu cynlluniau rheoli ac arolygu cynefinoedd, pan fo hynny'n briodol;
- Gwneud iawn am y colledion cynefin a nodwyd yn yr HRA – bydd cynefin cydadferol yn cael ei geisio a'i sicrhau trwy'r RHCP ar gymeradwyaeth CCGC ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.
- Ymchwilio i fanylion creu cynefinoedd gyda pholisïau MR a NAI;
- Dal i ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd wrth ddatblygu strategaeth; ac
- Astudiaethau pellach ar lefel strategaeth neu gynllun i archwilio effeithiau tebygol llifogydd ac erydiad ar nodweddion treftadaeth pwysig (hysbys ac anhysbys) sydd mewn perygl ac ystyried rhaglen briodol o arolygon, cofnodi ac archwilio i gofnodi'r safleoedd pwysig hyn, a'r nodweddion posibl hynny na nodwyd eto.

5.1.3 Bydd arolygu penodol gyda chanolbwynt ar AAS yn cael ei wneud i ysbrydoli lefelau asesiad dilynol (e.e. asesiad amgylcheddol ar lefel strategaeth a chynllun). Mae'r Cynllun Gweithredu ym mhrif ddogfen y CRhT yn nodi astudiaethau aberol a lleol fydd yn ofynnol i ysbrydoli'r polisïau. Bydd yr astudiaethau hyn yn cael eu gwneud i ysbrydoli adolygiadau CRhT Gorllewin Cymru yn y dyfodol.

5.2 Arolygu a Rheoli Cynefinoedd

Effeithiau ar Gyfanrwydd Safleoedd Rhyngwladol (ACA, AGA a Ramsar)

5.2.1 Y canlynol yw'r PDZ a nodwyd fel y rhai fyddai'n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd rhyngwladol (fel y nodwyd yn ystod HRA CRhT Gorllewin Cymru:

- PDZ 2 – Trwyn Borough i Ddinas Fach
- PDZ 3 – Dinas Fach i Ben Anglas
- PDZ 10 – Borth Uchaf i Donfannau
- PDZ 11 – Tonfannau i Fochras
- PDZ 12 – Mochras i Benychain

- PDZ 13 – Penychain i Drwyn Cilan
- PDZ 16 – Trwyn Dylan i Lanfairfechan
- PDZ 20 – Llanfairfechan i Lanrwst

5.2.2 Mae **Tabl 5.1** yn cyflwyno crynodeb o'r Safleoedd Rhyngwladol, mathau o gynefin a meintiau ffisegol a ddynodwyd ar hyn o bryd fel rhai sy'n digwydd o ganlyniad i bolisïau'r CRhT. Oherwydd bod yr asesiad o'r cynllun, yn hytrach na pholisi cyfansoddol, daethpwyd i gasgliad y bydd y CRhT yn effeithio'n wrthwynebus ar gyfanrwydd safleoedd rhyngwladol felly. Byddai effaith hefyd ar safle Ramsar Cors Fochno a Dyfi. Fodd bynnag, cynhwyswyd y colledion cynefin sy'n effeithio ar y safle hwn eisoes o fewn colledion cynefin ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn Uned Bolisi 10.

Table 5.1 Summary of PDZs where Adverse Effect on Integrity of International Sites is Predicted, Showing Habitat Types Effected and Likely Extent

Safle Dynodedig	PDZ	Math o Gynefin	Gostyngiad yn arwynebedd y cynefin (ha)			
			Y cyfnod cyntaf	Yr ail gyfnod	Y trydydd cyfnod	Cyfanswm
ACA Sir Benfro Forol	2	Gwastadedd tywod rhynglanwol	0.76	1.07	0.00	**1.83**
ACA Sir Benfro Forol	3	Gwastadedd tywod rhynglanwol	0.29	0.45	0.39	**1.13**
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau	10	Gwastadedd tywod rhynglanwol	8.74	46.30	36.03	**91.07**
	10	Morfa heli	20.09	69.15	27.93	**117.17**
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau	11	Gwastadedd tywod rhynglanwol	4.44	9.18	7.08	**20.70**
	11	Morfa heli	1.70	2.99	4.00	**8.69**
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau	12	Gwastadedd tywod rhynglanwol	2.50	14.45	22.22	**39.17**
	12	Morfa heli	1.78	6.36	13.25	**21.39**
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau	13	Gwastadedd tywod rhynglanwol	0.20	1.19	0.80	**2.19**
AGA Traeth Lafan, Conwy	16	Cynefin cynhaliol*	2.85	11.60	0.00	**14.45**
ACA Y Fenai a Bae Conwy	16	Gwastadedd tywod rhynglanwol	2.85	11.60	0.00	**14.45**
ACA Cors Heli Glannau Môn	16	Gwastadedd llaid rhynglanwol	0.85	4.25	11.06	**16.16**
AGA Traeth Lafan, Conwy	20	Cynefin cynhaliol*	0.06*	0.28*	0.73*	**1.07***
ACA Y Fenai a Bae Conwy	20	Gwastadedd tywod rhynglanwol	0.06	0.28	0.73	**1.07**

na = gwir faint yn anhysbys ond yn gysylltiedig â cholli cynefin rhynglanwol a nodwyd yn y Safle ar gyfer y PDZ.

*** mae cynefin cynhaliol yn gysylltiedig â cholli cynefin rhynglanwol yn yr un uned ar gyfer yr ACA perthnasol.**

5.2.3 Yn arbennig, bydd symudiad yng nghyfansoddiad cynefin trosiannol (yn enwedig colled neu gynnydd cynefin rhynglanwol a'r cymarebau rhwng gwastadedd llaid a morfa heli). Mae hyn yn golygu bod ymrwymiad cyfreithiol dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd i gael hyd i gynefin cydadferol i sicrhau gwarchod cydlyniad ecolegol y rhwydwaith ***Natura 2000*** (a safleoedd Ramsar). Bydd cynefin cydadferol yn cael ei sicrhau trwy RHCP; byddai hyn angen cymeradwyaeth CCGC a Llywodraeth Cynulliad Cymru i brofi "dim atebion eraill", ac yna gymeradwyo "Rhesymau Hanfodol er Budd Gor-redol y Cyhoedd (IROPI)".

5.2.4 Efallai y bydd angen datblygu rhagor o ofynion arolygu ac astudio yn y safleoedd sy'n cael eu rhestru yn **Nhabl Table 5.1**.

Effeithiau ar Gynefinoedd SoDdGA a BAP

5.2.5 Fe all y CRhT effeithio ar gyflwr SoDdGA trwy newidiadau cynefin a rheoli'r arfordir (oherwydd nifer y SoDdGA ar yr arfordir), gydag effeithiau dilynol ar y targedau lefel uchel cysylltiedig â SoDdGA mewn cyflwr ffafriol. Arf allweddol, felly, wrth reoli ac arolygu newid i draethlin Gorllewin Cymru yw dal i gadw golwg ar unedau SoDdGA, sy'n galluogi dangos yn gynnar ymhle gall cyflwr ffafriol ei fygwth trwy reoli'r arfordir yn amhriodol (polisi CRhT). Y farn yw y byddai rhaglen arolygu bresennol CCGC yn ddigonol i'r diben hwn, ond mae angen porthi unrhyw ganfyddiadau dechreuol i Gynllun Gweithredu'r CRhT a datblygu polisi CRhT dilynol ar y cyfle cyntaf. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod arolygu cynefin BAP ar hyn o bryd yn ardal y cynllun yn cael ei wneud mewn ffordd fydd yn tynnu sylw at newidiadau ym maint cynefin BAP ac yn hysbysu proses gofnodi BAP. Mae'r peirianwaith hwn yn ofynnol i sicrhau bod peirianwaith ehangach yn bodoli ar gyfer creu cynefinoedd BAP sy'n rhoi sylw i ofynion newydd seiliedig ar effeithiau'r CRhT.

5.2.6 Mae'r CRhT yn rhoi cyfeiriad polisi sy'n arwyddo'r gwariant sydd ei angen ar yr arfordir. Yn syml, lle mae polisi CRhT yn berthnasol i ddarparu, gwella neu ailadeiladu amddiffynfeydd, bydd polisi'r CRhT yn gyfryngol wrth sicrhau cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau, gan ei bod yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ceisiadau am gyllid.

5.2.7 Nid yw'n fwriad na swyddogaeth y CRhT i sicrhau cyllid, fel peirianwaith polisi. Felly, mae'n dilyn bod y CRhT yn cyflawni ei swyddogaeth o nodi'r ardaloedd lle bydd angen cyllid wrth roi cyfeiriad polisi. I'r perwyl hwn, y farn yw bod rhoi cyllid i wneud iawn am bolisi oddi allan i gwmpas y CRhT.

5.2.8 Mae disgwyl i'r gofynion cynefinoedd cydadferol dan yr HRA (**Tabl 5.1** uchod) fod yn ddigonol i wneud iawn am y colledion cysylltiedig â cholli gwastadedd llaid, gwastadedd tywod, a chynefinoedd morfa heli BAP rhynglanwol, ynghyd â'r cynefinoedd rhynglanwol sy'n cael eu creu gan y polisïau MR mewn mannau eraill yn ardal astudiaeth y CRhT.

Archwilio'r Amgylchedd Hanesyddol a Safleoedd Daearegol

5.2.9 Gallai polisi CRhT arwain at golli asedau treftadaeth dynodedig sy'n bwysig i'r amgylchedd hanesyddol. Caiff y prif nodweddion hanesyddol sydd mewn perygl ac a fyddai angen mwy o ymchwil a chofnodi eu rhestru a'u hamlygu yn **Nhabl 3.1** sy'n cynnwys tua 77 o nodweddion. Felly, yng Nghynllun Gweithredu'r CRhT bydd Cadw'n gyfryngol wrth benderfynu beth all natur benodol y colledion fod a, lle bo colledion yn hysbys, yn rhoi pris ar archwilio fel bod modd gwneud cais i'r Llywodraeth am y cymorth ariannol hwn. Bwriad rhoi sylw i'r mater hwn yng Nghynllun Gweithredu'r CRhT fydd sicrhau bod Cadw a phartneriaid yn cael cyllid o flaen llaw i archwilio safleoedd sydd dan fygythiad.

5.2.10 O ran safleoedd daearegol lle gall fod llai o amlygiad, dylid dogfennu a chofnodi 'r nodweddion diddordeb daearegol yn y mannau canlynol:

- SoDdGA Arfordir Niwgwl i'r Aber Bach;
- SoDdGA Traeth Llan-non;
- SoDdGA Allt Wen a Thraeth Tanybwlch; a
- SoDdGA Glannau Tonfannau i'r Friog.

6 Y CAMAU NESAF YM MHROSES SEA

6.1 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

6.1.1 Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu at ymgynghori ar yr un pryd â'r CRhT ei hun. Dylid gwneud sylwadau naill ai'n ysgrifenedig neu mewn dull electronig i:

Emyr.Williams@pembrokeshire.gov.uk

d/o Emyr Wiliams

Cyngor Sir Penfro

Neuadd y Sir

Hwlffordd

Sir Benfro

SA61 1TP

6.2 Diben yr Ymgynghoriad

6.2.1 Diben ymgynghori ar yr adroddiad hwn yw penderfynu:

- A nodwyd y materion amgylcheddol yn gywir?
- A yw'r adroddiad yn nodi'n gywir y meini prawf asesu y dylid eu defnyddio i asesu'r cynllun?
- A yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn gywir? ac
- A anghofiwyd materion neu fanylion a ddylai fod yn elfen allweddol o'r asesiad?

6.2.2 Fel rhan o'r ymgynghori, bydd croeso i atebion i'r cwestiynau hyn, neu faterion eraill yn ymwneud ag effeithiau amgylcheddol y cynllun. Bydd yr ymateb yn cynorthwyo cwblhau'r adroddiad hwn a phwyso a mesur effeithiau amgylcheddol y CRhT. Mewn ymateb i'r materion hyn bydd ystyriaeth ac ardystiad terfynol y cynllun yn cael ei ddarparu.

6.3 Dogfennau Dilynol

6.3.1 Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu i weld a fyddent yn peri newid arwyddocaol i effeithiau tebygol y polisïau sy'n cael eu cynnig yn y CRhT drafft. Bydd hyn yn cael ei wneud gyda datblygwyr y CRhT er mwyn cael gwybod a oes angen gwneud addasiad priodol i bolisi dewisol, neu a allai datganiad mwy eglur o fwriad liniaru mater neu effaith all godi, neu a oes angen cyfeiriad penodol yng Nghynllun Gweithredu'r CRhT. Ar ben hynny, gallai'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y CRhT beri newid y polisïau dewisol. Os digwydd hyn, bydd y canfyddiadau yn yr AA hwn yn cael eu hadolygu a'r effeithiau'n cael eu hailasesu.

6.3.2 Bydd adroddiad ar ganlyniadau adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw newidiadau i bolisïau'r CRhT mewn Datganiad Wedi Mabwysiadu. Bydd hyn hefyd yn manylu sut yr ymdoddwyd yr ystyriaethau amgylcheddol yn y CRhT.

Tudalen wag o fwriad.

7 CYFEIRIADAU

CCGC (2007). Cyfres Nodiadau Esboniadol AAS Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, English Nature, Asiantaeth yr Amgylchedd, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (2004). Asesiad Amgylcheddol Strategol a Bioamrywiaeth: Canllawiau ar gyfer Ymarferwyr.

DEFRA (2004). Canllawiau ar AAS. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

DEFRA (2004). Canllawiau ar AAS. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

DEFRA (2006a). ***Canllawiau Cynllun Rheoli Traethlin Cyfrol 1: Nodau a Gofynion***. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

DEFRA (2006b). ***Cynllun Rheoli Traethlin Canllawiau Cyfrol 2: Gweithdrefnau***. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

Y Comisiwn Ewropeaidd (1992). Cyfarwyddeb 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar warchod cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt. Yn dwyn yr enw'r 'Cyfarwyddeb Cynefinoedd'.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2001). Cyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a Chyngor 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni arbennig ar yr amgylchedd. Yn dwyn yr enw'r 'Asesiad Amgylcheddol Strategol'.

Asiantaeth yr Amgylchedd (2005). Canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd ar Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Asiantaeth yr Amgylchedd (2009). Canllawiau Mewnol ar AAS o gynlluniau a rhaglenni.

Halcrow (2010). Cynllun Rheoli Traethlin Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a CCGC (2007). Astudiaeth Asesu Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cynhyrchwyd gan John Campion Associates Ltd ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a CCGC.

SDBW (2005). Canllawiau Ymarferol ar y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

Nodyn Cyngor Technegol 5 – Cynllunio Gwarchod Natur (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). Strategaeth Dwristiaeth Glan Môr Cymru, drafft dogfen strategaeth derfynol Ionawr 2007. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Tudalen wag o fwriad.

8 BYRFODDAU AC ACRONYMAU

Byrfodd	Diffiniad
AA	Adroddiad Amgylcheddol
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
AEA	Asesu'r Effaith Amgylcheddol
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
ATA	Ardal Tirwedd Arbennig
ATL	Symud y Llinell Ymlaen
AyrA	Asiantaeth yr Amgylchedd
BAP	Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth
BMP	Cynllun Rheoli Traethau
BQE	Elfen Ansawdd Biolegol
CBHC	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CE	Y Comisiwn Ewropeaidd
CFfD	Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
CRoW	Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
CRhBA	Cynllun Rheoli Basn Afon
CRhLID	Cynllun Rheoli Llifogydd y Dalgylch
CRhT	Cynllun Rheoli Traethlin
CRhT2	Adolygiad Cyntaf o'r Cynllun Rheoli Traethlin
CSG	Grŵp Llywio'r Cleient
DBA	Dosbarth Basn Afon
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
DU	Y Deyrnas Unedig
EMP	Cynllun Rheoli Aberoedd
EMS	Safle Morol Ewropeaidd
FWB	Corff Dŵr Croyw
GCR	Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol
GIS	System Gwybodaeth Ddaearyddol
GNL	Gwarchodfa Natur Leol
GWB	Corff Dŵr Codi
Ha	Hectarau
HAPS	Cynlluniau Gweithredu ar Gynefinoedd
HEAP	Cynllun Gweithredu ar yr Amgylchedd Hanesyddol
HER	Cofnod Amgylchedd Hanesyddol
HLC	Nodweddiad Tirwedd Hanesyddol
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
HTL	Cadw'r Llinell
IROPI	Rhesymau Budd Gor-redol y Cyhoedd
JNCC	Cydbwyllgor Cadwraeth Natur
km	Cilometr
km^2	Cilometr sgwâr (neu 100ha)

Byrfodd	Diffiniad
LB	Adeilad Rhestredig
LBAP	Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
m	Metrau
MAN	Uned Reoli
MNR	Gwarchodfa Natur Forol
MR	Adlinio Rheoledig
NAI	Dim Ymyriad Gweithredol
NE	Natural England
NEAS	Gwasanaeth Cenedlaethol Asesu Amgylcheddol
NNR	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
NTS	Crynodeb Annhechnegol
°C	Graddau Celsius
PDZ	Parth Datblygu Polisi
PED	Potensial Ecolegol Da
PPP	Cynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau
PU	Uned Bolisi
RDP	Cynllun Datblygu Gwledig
RHCP	Rhaglen Digolledu Cynefinoedd Rhanbarthol
RIGS	Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig yn Rhanbarthol
RSPB	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
SAC	Ardal Cadwraeth Arbennig
SDBW	Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog
SED	Statws Ecolegol Da
SFRA	Asesiad Strategol Perygl Llifogydd
SM	Heneb Restredig
SM	Heneb Restredig
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SPR	Model Llwybr Ffynhonnell-Derbynnydd
SR	Adroddiad Cwmpasu
TraC	Corff Dŵr Trosiannol ac Arfordirol
UDO	Uwchlaw Datwm Ordnans
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
UKBAP	Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth
UKCP	Rhagamcaniadau Hinsawdd y DU
WHS	Safle Treftadaeth y Byd
WLMP	Cynllun Rheoli Lefel Dŵr
WPM	Gyda Rheoli Presennol
WWTP	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff
Y&D	Ymchwil a Datblygiad

9 GEIRFA

Addaswyd o: http://www.environment-agency.gov.uk/commondata/acrobat/6_chapter_5_glossary__1388113.pdf

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)
Dynodwyd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 i warchod ardaloedd o gefn gwlad gydag ansawdd olygfaol arbennig nad oes modd eu dewis ar gyfer statws Parc Cenedlaethol oherwydd diffyg cyfleoedd hamdden awyr agored ynddynt (un o amcanion hanfodol Parciau Cenedlaethol). Yr Asiantaeth Cefn Gwlad sy'n gyfrifol am ddynodi AHNE a chynghori'r Llywodraeth ac eraill ar sut y dylid eu gwarchod a'u rheoli. Mae rhagor o wybodaeth am AHNE i'w chael yn http://www.aonb.org.uk/

Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth (BAP)
Cynllun a gytunwyd ar gyfer cynefin neu rywogaeth, sy'n ffurfio rhan o ymrwymiad y DU i fioamrywiaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan BAP: http://www.ukbap.org.uk

Y Gyfarwyddeb Adar
Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd (79/409/EEC) ar warchod adar gwyllt. Gweithredwyd yn y DU fel Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) 1994. I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch â gwefan Gwasg Ei Mawrhydi:
http://www.hmso.gov.uk/si/si1994/Uksi_19942716_en_1.htm

Cyrff Ymgynghori
Awdurdodau sydd, oherwydd eu cyfrifoldebau amgylcheddol, yn debygol o fod â diddordeb mewn effeithiau gweithredu cynlluniau a rhaglenni ac y mae'n orfodol ymgynghori â hwy ar gyfnodau penodedig yr AAS.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Corff cyhoeddus anadrannol sy'n gyfrifol am gyflawni polisi'r llywodraeth ar yr amgylchedd a rheoli perygl llifogydd yng Nghymru.

Arfarniad Amgylcheddol
Ffurf ar asesiad amgylcheddol sy'n cael ei defnyddio yn y DU (yn bennaf ar gyfer cynlluniau datblygu) ers y 1990au cynnar, gyda chefnogaeth "Arfarniad Amgylcheddol o Gynlluniau Datblygu: Arweiniad Arferion Da" (DoE, 1993); disodlwyd yn fwy diweddar gan arfarniad o gynaliadwyedd. Mae rhai agweddau ar arfarniad amgylcheddol yn rhagfynegi gofynion y Gyfarwyddeb AAS.

Asesu'r Effaith Amgylcheddol (AEA)
Yn gyffredinol, dull neu weithdrefn ar gyfer rhagweld effeithiau cynnig ar yr amgylchedd, naill ai brosiect unigol neu "strategaeth" lefel uwch (polisi, cynllun neu raglen), gyda'r bwriad o ystyried yr effeithiau hyn wrth wneud penderfyniadau. Caiff y term "Asesu'r Effaith Amgylcheddol" (AEA) ei ddefnyddio, fel yng Nghyfarwyddeb Ewropeaidd 337/85/EEC, wrth asesu prosiectau. Haenau o asesiad amgylcheddol yw AAS ac AEA – y cyntaf yn cael ei wneud yn strategol a'r ail ar lefel prosiect.

Adroddiad Amgylcheddol (AA)
Dogfen ofynnol gan Gyfarwyddeb AAS fel rhan o asesiad amgylcheddol, sy'n nodi, disgrifio a chloriannu effeithiau sylweddol tebygol gweithredu cynllun neu raglen ar yr amgylchedd.

Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (AAS)
Cyflwynodd y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF; rhagflaenydd DEFRA) gynlluniau AAS yn 1987 a chânt eu dynodi yn ôl darpariaethau adrannau 18 a 19 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1986 a Gorchymyn Dynodi Ardaloedd o Sensitifrwydd Amgylcheddol Arbennig (Cyfnod II) (Newid) (Rhif 2) 2001. DEFRA sy'n eu llywodraethu ac maent yn cynnig cymhellion (dan gytundeb 10 mlynedd gyda chymal terfynu 5 mlynedd) i annog amaethwyr i fabwysiadu arferion amaethyddol fyddai'n gwarchod a gwella rhannau o'r wlad yn arbennig o werth mawr oherwydd tirwedd, bywyd gwyllt neu hanes. Mae rhagor o fanylion i'w cael ar wefan DEFRA:
http://www.defra.gov.uk/erdp/schemes/esas/default.htm

Map Llifogydd
Y Map Llifogydd yw map gwybodaeth gyhoeddus Asiantaeth yr Amgylchedd am orlifdiroedd. Mae'n dangos meintiau'r Parth Llifogydd, sy'n anwybyddu amddiffynfeydd, lleoliad amddiffynfeydd dyrchafedig, a'r arwynebedd sy'n elwa ar amddiffynfeydd. Ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd, mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am debygolrwydd gorlifo darnau cyffredinol o dir.

Dynodiad Cyfarwyddeb Pysgodfeydd Dŵr Croyw
Bwriad Cyfarwyddeb 78/659/EEC y Gymuned Ewropeaidd ar Ansawdd Dyfroedd Croyw sydd Angen eu Gwarchod neu Wella er mwyn Cynnal Bywyd Pysgod ('Cyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw') yw gwarchod a gwella ansawdd dŵr ac mae'n ffurfio rhan o raglen arolygu ansawdd dŵr Asiantaeth yr Amgylchedd. Dan y Gyfarwyddeb roedd gofyn i Lywodraeth y DU ddynodi dau ddosbarth o ddŵr: dyfroedd addas ar gyfer rhywogaethau eogiaid (dyfroedd sy'n gallu cynnal pysgod o'r teulu Salmonidae, yn bennaf eogiaid a brithyll ond hefyd penllwyd) a dyfroedd addas ar gyfer sypriniaid (o'r teulu Cyprinidae ynghyd â phenhwyad, draenogyn dŵr croyw a llysywen). Mae'r Gyfarwyddeb yn pennu safonau ar gyfer gwarchod pysgodfeydd dŵr croyw, cysylltiedig ag ansawdd y dŵr yn bennaf, ac mae'n gofyn bod darnau arbennig o ddŵr yn cyrraedd y safonau hyn er mwyn i bysgod allu byw neu fagu. I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch â'r wefan:
http://www.environment-agency.gov.uk/

System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)
System gyfrifiadurol yw GIS ar gyfer cipio, cadw, cadarnhau, cyfuno, trin, dadansoddi ac arddangos data gofodol.

Dŵr Codi
Dŵr sy'n digwydd dan ddaear mewn ffurfiannau naturiol (creigiau, graeanau a thywodydd yn nodweddiadol).

Dangosydd
Mesur o newidynnau dros gyfnod, yn cael ei ddefnyddio'n aml i fesur cyflawni amcanion.

Defnydd Tir
Dynodiadau amrywiol o weithgareddau, datblygiadau, cnydau, ac ati y caiff tir ei ddefnyddio ar eu cyfer.

Rheoli Tir
Amrywiol weithgareddau cysylltiedig ag arferion amaethyddol, coedwigaeth, ac ati.

Cynlluniau Datblygu Awdurdodau Lleol
Yn gyffredinol mae'r cynlluniau datblygu tir statudol hyn yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd o ddyddiad eu mabwysiadu.

Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth (LBAP)
Agenda lleol (a gynhyrchir gan yr awdurdod lleol) gyda chynlluniau a thargedau i warchod a gwella bioamrywiaeth a chyflawni datblygiad cynaliadwy. Rydym yn ymrwymo i Gynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth ac yn gweithio gyda llywodraeth ganolog (Uwch-gynhadledd y Ddaear yn Rio di Janeiro, 1992) i wireddu amcanion LBAP.

Lliniaru
Caiff ei ddefnyddio yn yr AAS hwn i gyfeirio at fesurau i osgoi, lleihau neu wneud iawn am effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd.

Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG)
Caiff Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol eu dynodi dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 neu Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y newidiwyd) yn bennaf ar gyfer gwarchod natur, ond gallant hefyd gynnwys safleoedd gyda nodweddion daearegol o ffisiograffig arbennig. Cawsant eu sefydlu i warchod yr ardaloedd pwysicaf o gynefin bywyd gwyllt a ffurfiannau daearegol ym Mhrydain, ac fel mannau ar gyfer ymchwil wyddonol. Mae pob GNG yn "bwysig yn genedlaethol" ac yw enghreifftiau gorau o gynefin / ecosystem arbennig. Caiff GNG ddynodiad SoDdGA dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y newidiwyd).

Parciau Cenedlaethol
Darnau eang o gefn gwlad a ddynodwyd dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 oherwydd eu harddwch naturiol a'u cyfleoedd adloniant awyr agored. Mae dynodiad yn cefnogi gwarchod a gwella eu tirweddau, bywyd gwyllt ac etifeddiaeth ddiwylliannol, a hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'u rhinweddau arbennig. I gael rhagor o wybodaeth, ymwelwch â gwefan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol http://www.anpa.gov.uk/

Amcan
Datganiad o'r hyn a fwriadwyd, gan fanylu ar gyfeiriad dewisol newid mewn tueddiadau.

Datwm Ordnans Newlyn
System draddodiadol o gyfesurynnau fertigol yw Datwm Ordnans Newlyn (ODN), yn cynnwys datwm medrydd llanw gyda man dechreuol yn Newlyn (Cernyw) a Ffrâm Cyfeirnodau Daearol a grëwyd gyda lefel wirod rhwng 200 o feincnodau sylfaenol ar hyd a lled Prydain. Mae gan bob meincnod uchder orthometrig yn unig (nid uchder elipsoid na sefyllfa lorweddol fanwl). Mae'r system gyfesurynnau hon yn bwysig am ei bod yn cael ei defnyddio i ddisgrifio sefyllfaoedd fertigol nodweddion ar fapiau Prydeinig (er enghraifft, pwyntiau uchder a chyfuchliniau) fel uchder uwchlaw lefel môr cymedrig. A bod yn fanwl gywir, mae'r gair Datwm yn y teitl yn cyfeirio at bwynt dechreuol y medrydd llanw yn unig, yn hytrach na'r meincnodau cenedlaethol a lefelwyd.

Cynllun neu Raglen
Mae'r term "cynllun neu raglen" yn cynnwys unrhyw gynlluniau neu raglenni y mae Cyfarwyddeb AAS yn berthnasol iddynt.

Safle Ramsar
Tiroedd gwlyb pwysig yn rhyngwladol a ddynodwyd dan Gytundeb Ramsar 1971 ar 'Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol yn Enwedig fel Cynefin Adar Dŵr'. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan Gytundeb Ramsar ar wlyptiroedd: http://www.ramsar.org/

Awdurdod Cyfrifol
Y sefydliad sy'n paratoi cynllun neu raglen dan y Gyfarwyddeb ac sy'n gyfrifol am yr AAS.

Henebion Cofrestredig
Er mwyn gwarchod safleoedd archeolegol i'r cenedlaethau a ddaw, mae modd "rhestru" y mwyaf gwerthfawr ohonynt. Rhestru yw proses rhoi amddiffyniad cyfreithiol i safleoedd a henebion pwysig yn genedlaethol trwy eu rhoi ar restr, neu 'restru'

Cwmpasu
Proses benderfynu cwmpas a manylder AAS, gan gynnwys yr effeithiau amgylcheddol a gwahanol ddewisiadau sydd angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio a strwythur a chynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol.

Sgrinio
Proses benderfynu a oes angen AAS ar gynllun neu raglen.

Traeth Graean
Traeth graean yw traeth a arfogwyd gyda cherrig mân neu gerrig crynion bach i ganolig. Yn nodweddiadol gall cyfansoddiad y garreg raddoli o feintiau nodweddiadol yn rhedeg o 2 i 200 milimetr o dryfesur.

Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT)
Cynlluniau anstatudol i lunio polisïau cynaliadwy amddiffyn yr arfordir (er mwyn atal erydiad gan y môr a gorlifo tir arfordirol isel), ac i bennu amcanion ar reoli'r draethlin yn y dyfodol. Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol arforol sy'n eu paratoi, yn gweithredu'n unigol neu fel rhan o grwpiau amddiffyn yr arfordir.

Effeithiau ar yr amgylchedd sy'n sylweddol yng nghyd-destun cynllun neu raglen. Caiff meini prawf ar gyfer asesu arwyddocâd eu cyflwyno yn Helaethiad II i'r Gyfarwyddeb AAS.

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
Safleoedd pwysig yn genedlaethol sy'n ffurfio rhwydwaith o enghreifftiau gorau a mwyaf cynrychiadol o nodweddion ein bywyd gwyllt a geoamrywiaeth. Cânt eu dewis a'u dynodi gan CCGC a'u diogelu dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y newidiwyd).

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)

Caiff ACA eu dynodi dan Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Gymuned Ewropeaidd yn dwyn yr enw 'Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd'. Mae hon gofyn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau pwysig, prin neu dan fygythiad ar hyd a lled Ewrop.

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
Caiff AGA eu dynodi dan Gyfarwyddeb 79/409/EEC y Gymuned Ewropeaidd, yn dwyn yr enw 'Y Gyfarwyddeb Adar', i warchod cynefinoedd rhai adar ymfudol neu brin.

Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)
Term cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel sy'n berthnasol i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Yn yr adroddiad hwn, caiff "AAS" ei ddefnyddio i gyfeirio at y math o asesiad amgylcheddol sy'n ofynnol dan y Gyfarwyddeb AAS.

Cyfarwyddeb AAS
Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC "ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni arbennig ar yr amgylchedd".

Rheoliadau AAS
Y rheoliadau sy'n trosi'r Gyfarwyddeb AAS yn ddeddf, sef Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004.

Asesiad Strategol Perygl Llifogydd (SFRA)
Asesiad bras o berygl llifogydd a wneir gan awdurdod unedol neu gyngor dosbarth. Caiff dogfennau o'r fath eu llunio fel bod modd cloriannu datblygiadau arfaethedig yn gyflym gyferbyn â Chanllawiau Polisi Cynllunio.

Cynllun Fframwaith
Morlynnoedd arfordirol (Nodwedd Flaenoriaethol)	Amherthnasol		Mae hyn yn cynnwys gofyn bod lefel maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion fel a ganlyn: • ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol. • o fewn amrediadau nad ydynt yn debygol o fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd, eu cyflenwad a chyrhaeddiad. • Halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol i fod: – ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol. – islaw lefelau a allai beri cynnydd mewn crynoadau halogyddion mewn gwaddodion neu fywyd. – islaw'r hyn a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor y nodweddion, rhywogaethau, poblogaethau, eu cyflenwad neu gyrhaeddiad. • O ran dolydd heli Iwerydd mae hyn yn cynnwys morffoleg ceinciau a phantiau'r morfa heli • Adfer ac adennill. – Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran nodwedd yr aberoedd bod strwythur a swyddogaethau'r aberoedd a niweidiwyd / ddiraddiwyd oherwydd cyfyngiadau adeileddau dynol fel argloddiau llifogydd, yn cael eu hadfer. <u>Rhywogaethau nodweddiadol</u> Presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth rhywogaethau nodweddiadol fel nad yw ansawdd y cynefin wedi'i ddiraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae: • cyfoeth rhywogaethau, • strwythur a dynameg poblogaeth, • iechyd ffisiolegol, • gallu atgenhedlol, • denu, • symudedd, • cyrhaeddiad. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi: • bod angen i gyflenwad boblogaethau o rywogaethau nodweddiadol sy'n destun pysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicr yn y pen draw. • bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd cynefin yn briodol i'w gynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw. • Adfer ac adennill. – Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran nodwedd y creigresi nad yw'r gallu i ehangu cymuned y gragen ddilyw Modiolus modiolus oddi ar arfordir gogledd Llŷn yn cael ei atal.	<u>Ymwthiad halwynog:</u> Morlyn trylifo bach yw Morfa Gwyllt a ffurfiwyd o bant mewn bar graean ar draws ceg Afon Dysynni yn y Canolbarth. Dyma'r unig enghraifft o forlyn trylifo yng Nghymru. Y swbstrad yw brithwaith o dywod canolig dros / ymhlith graean, gyda chlytiau mwy lleidiog yn y llecynnau dyfnach, a cherrig mân mwy gwasgaredig. Cafwyd hyd i dri arbenigwr morlynnol ar y safle hwn: y deudroediad *Sphaeroma hookeri*, y bryosoad *Conopeum seurati* a'r alga *Chaetomorpha linum*. Mae ceg Afon Dysynni o fewn cyfyngiadau Uned Bolisi 10.18, gyda pholisi dewisol HTL yn y cyfnod cyntaf a MR yn y ddau gyfnod olaf. Gyda chynnydd yn lefel y môr, byddai'r llwyfandir yn gorlifo, gyda'r gallu i gynyddu'r prism llanwol yn sylweddol. Pe bai rhwystr y draethlin yn cael torri yna gallai fod ceg aber newydd gweithredol ddatblygu. Pe bai sianel y geg yn aros yn sefydlog i'r gogledd, bydd y llif mwy'n ceisio lledu a dyfnhau'r sianel. Mae'n debygol y byddai angen porthi'r traeth i gynnal amddiffynfa'r rheilffordd a'r bae gogleddol. Wrth fynd â'r agwedd hon ymhellach eto, byddai modd ystyried creu toriad newydd trwodd i Afon Dysynni, gan ddatblygu ceg aber mwy gweithredol. Y buddiannau all ddeillio o hyn yw defnyddio Afon Dysynni a'i thraethellau distyll fel rhan o'r gyfundrefn amddiffyn. Fodd bynnag, gyda'r agwedd hon mae cyfle i ymgorffori gwell amddiffynfa i'r morlyn. Bwriad polisi HTL yn ystod yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 10.17 yw amddiffyn y rheilffordd, a gall gynnwys porthi'r grib raeanog.	Mae strategaeth yn ofynnol i gael gwybod beth yw'r swyddogaeth ecolegol a dylanwadau ar y morlyn, a rhaid i strategaeth yn archwilio sut all dulliau gweithredu'r polisi HTL sicrhau (a dylai allu sicrhau) nad yw colled uniongyrchol yn effeithio er gwaeth ar faint y morlyn. Hefyd byddai angen i'r strategaeth benderfynu a fyddai unrhyw faterion prosesau arfordirol hirdymor yn effeithio ar faint y morlyn a sicrhau bod mesurau rheoli a chynnal priodol yn bodoli i atal colli maint y morlyn.	Dim effaith andwyol i'w disgwyl, o ystyried gallu cynllunio ac osgoi colli maint y morlyn ar lefel Strategaeth a Chynllun.	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				mwy o fanylion o weithrediad yr HTL nid oes modd dod i gasgliad na fyddai dim effaith andwyol ar gyfanrwydd nodwedd y morlyn yn digwydd.			
Cilfachau a baeau mawr bas	Amherthnasol			Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Nid oes 'cilfachau a baeau mawr bas ' fel nodwedd o'r ACA hon yn PDZ 10. Yr agosaf yw Bae Tremadog yn PDZ 12 i'r gogledd.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Creigresi	Amherthnasol			Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Mae darnau o greigresi islanwol yn nau ben PDZ 10. Bydd polisïau NAI yn gadael i'r clogwyni sydd wrthi'n erydu ddal i erydu, gan gyflenwi gwaddod i'r blaendraeth uchaf fel na fydd cynnydd yn lefel y môr yn peri lleihau'r amlygiadau rhynglanwol. Creigres greigwely yw'r creigresi islanwol yn PDZ 10 (nid oes creigresi biogenig yn y PDZ hwn). Ar hyd y draethlin feddal mae'r polisïau HTL yn PDZ 10. Felly bydd deunyddiau'n dal i symud ac ni fydd effaith ar faint y creigresi.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai	Amherthnasol			Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Mwyafrif y morlin agored yn PDZ 10 a llawer o aber Afon Dyfi yw gwastadeddau tywod o Uned Bolisi 10.2 i Uned Bolisi 10.19. O'r gwastadeddau tywod hyn – nid yw'r rhai yn Uned Bolisi 10.2, 10.16 a rhan o 10.15 a 10.17 yn rhan o'r ACA. *Aber Afon Dyfi* Yn gyffredinol dewiswyd HTL ar gyfer gwastadeddau tywod yn Aber Afon Dyfi gyda rhai darnau o MR. O fewn yr aber mewnol ac allanol, y polisïau dewisol yw HTL a MR. Mae'n debygol y bydd colli cynefin gwastadedd tywod yn yr aber wrth gynnal yr amddiffynfeydd yn ystod y cyfnod cyntaf yn Unedau Polisi 10.6, 10.7, 10.8, 10.11, 10.12, a 10.13, yn ystod yr ail gyfnod yn Unedau Polisi 10.6, 10.7, 10.8, 10.11, a 10.12, ac yn ystod y trydydd cyfnod yn Unedau Polisi 10.8, 10.11, 10.12, a 10.13. Gyda'r polisïau HTL yn yr unedau hyn, byddai'r amddiffynfa ar ochr ddeheuol a gogleddol yr aber yn parhau yn yr Unedau Polisi hynny a restrwyd uchod. Y polisi ar y twyni tywod yng ngheg yr aber (Uned Bolisi 10.4) fydd cilio rheoledig i sicrhau eu bod yn aros yn amddiffyniad grymus o'r arfordir agored. Y cynefin gwastadedd tywod rhynglanwol yn yr aber fyddai'n cael ei golli yw **4.3ha** (er na fyddai dim colled yn Unedau Polisi 10.8, 10.12, a 10.13) yn y cyfnod cyntaf; **239.88ha** yn yr ail gyfnod; a **111.33ha** yn y trydydd cyfnod (er na fyddai dim colled yn Uned Bolisi 10.8). *Y Morlin Agored*	Posibilrwydd symud amddiffynfeydd tua'r tir lle bo hynny'n ymarferol er mwyn gadael i'r gwastadeddau llaid dreiglo'n ôl ar yr un pryd â chynnydd yn lefel y môr.	Bydd colli cynefin rhynglanwol yn yr aber ac ar yr arfordir agored yn peri effaith andwyol ar gyfanrwydd nodwedd hon yr ACA.	Na
Salicornia a phlanhigion unflwydd yn cytrefu llaid a thywod	Amherthnasol						

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				Y polisi dewisol yn gyffredinol ar hyd llawer o'r morlin yw HTL neu MR yn ystod pob cyfnod – gyda chynnal yr amddiffynfeydd presennol fel y flaenoriaeth, gan ychwanegu at draethau'r Borth a Thywyn yn y ddau gyfnod olaf. Byddai'r polisi HTL yn peri gwasgfa arfordirol a cholli gwastadedd tywod rhynglanwol, lle bo'r rhain yn bresennol tua'r môr o'r amddiffynfeydd presennol yn yr ACA, fel yn Uned Bolisi 10.3, 10.17 (rhan), a 10.18 (rhan). I'r gogledd yn Nhywyn (Uned Bolisi 10.16) bydd y polisi HTL yn arwain at erydiad yng ngwaelod yr amddiffynfa a newid y prosesau arfordirol i'r gogledd o'r amddiffynfa. Serch hynny, nid yw'r cynefinoedd rhynglanwol hyn yn yr ACA. I'r gogledd o'r twyni, y polisi yw cilio hefyd yn Uned Bolisi 10.14 a 10.15. Fodd bynnag mae pryder y gall draenio ddod yn broblem yn y polisi MR arfaethedig dros y prif gorstir gyda chynnydd yn lefel y môr. Bydd MR yn darparu ar gyfer dilyniant a datblygiad naturiol yn y twyni a'r draethlin rhynglanwol ac, felly, mae modd ei dod i gasgliad na fydd unrhyw effaith andwyol. Bydd cynefinoedd yn cael eu colli yn yr aber allanol a'r morlin agored o fewn ffiniau'r safle (Unedau Polisi 10.3, 10.17, a 10.18) yn ystod y tri chyfnod. Yn y cyfnod cyntaf gallai fod colled o hyd at **0.76ha** o wastadedd tywod rhynglanwol yn Unedau Polisi 10.3 a 10.17; yn yr ail gyfnod hyd at **6.39ha** o wastadedd tywod rhynglanwol o ganlyniad i HTL yn Uned Bolisi 10.17, ac yn y trydydd cyfnod hyd at **1.59ha** o wastadedd tywod rhynglanwol o ganlyniad i HTL yn Uned Bolisi 10.17. Gellid colli cyfanswm o **364.25ha o wastadedd tywod rhynglanwol** yn ystod y 100 mlynedd nesaf o ganlyniad i'r polisïau HTL yn y PDZ hwn.			
Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*)	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Nodwyd morfeydd heli yn Aber Afon Dyfi (Uned Bolisi 10.6 yn bennaf) ac maent yn gynefin pwysig i'r ACA, AGA a safleoedd Ramsar. Yn yr Uned Bolisi hon, mae polisi dewisol o HTL/HTL/MR. Byddai'r polisïau HTL yn peri gwasgfa arfordirol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr a cholli cynefin rhynglanwol. Byddai gostyngiad arwynebedd y cynefin rhynglanwol hefyd yn arwain at ostyngiad yn arwynebedd cynefin priodol i forfa heli wrth i'r gwastadeddau tywod rhynglanwol dreiglo'n ôl i'r cynefin morfa heli, yn enwedig yn ystod yr ail gyfnod. O'r cynefin rhynglanwol a gollwyd o ganlyniad i bolisi HTL yn Uned Bolisi 10.6 yn y cyfnod cyntaf gellid colli **1.84ha** o gynefin morfa heli, ac yn yr ail gyfnod gellid colli hyd at **120.16ha** o gynefin morfa heli	Sylwch: yn yr aber mae'r polisi HTL yn bennaf yn berthnasol i'r draethlin graig galed i'r gogledd lle adeiladwyd amddiffynfa i graig galed. I bob diben mae'r polisi MR yn dileu'r brif linell amddiffyn gyda rheoli lleol o ddatblygiad y cynefin a'r gallu i reoli perygl llifogydd i eiddo'n lleol. Fodd bynnag, gallai HTL yn yr ail gyfnod bell colled sylweddol oni bai fod ardaloedd eraill yn cael eu creu.	O dderbyn maint colled y nodwedd hon gallai fod effaith andwyol	Na

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				gyfnod cyntaf, neu hyd yn oed ymhellach i fyny'r afon; fodd bynnag, gallai'r golled ddigwydd o fewn ffiniau'r safle. O dderbyn nad oes unrhyw fodelu manwl (gan fod hwn yn asesiad strategol) seiliedig ar yr achos gwaethaf ac yn defnyddio'r egwyddor ragofalus, gellid colli'r meintiau hyn. Gall astudiaeth bellach nodi bod llai o golled.			
Ogofâu môr dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr	Amherthnasol			Dim yn PDZ 10.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Dolffin trwynfawr *Tursiops truncates*	• Aberoedd • Cilfachau a baeau mawr bas	• Poblogaethau • Cyrhaeddiad • Cynefinoedd cynhaliol a rhywogaethau	<u>Poblogaethau</u> Mae'r boblogaeth yn cynnal ei hun dros gyfnod hir fel cydran hyfyw o'i chynefin naturiol. Elfennau pwysig yw maint y boblogaeth, strwythur, cynhyrchiad, a chyflwr y rhywogaeth yn y safle. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi: • o ran y dolffin trwynfawr, y dyfrgi a'r morlo llwyd; bod beichiau halogyddion yn deillio o weithgaredd dynol islaw lefelau all beri niwed ffisiolegol, neu atal imiwnedd neu atgenhedlu. • na ddylid lleihau poblogaethau morlo llwyd o ganlyniad i weithgaredd dynol. Cyrhaeddiad Mae poblogaeth y rhywogaeth yn y safle'n ddigon fel nad yw amrediad naturiol y boblogaeth yn gostwng nac yn debygol o ostwng hyd y gellir rhagweld. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi o ran y dolffin trwynfawr, y dyfrgi a'r morlo llwyd: • nad yw eu cyrhaeddiad yn yr ACA ac ardaloedd cydgysylltiedig cyfagos yn cael ei gyfyngu na'i rwystro. • bod adnoddau bwyd priodol a digonol yn yr ACA a thu hwnt. • bod y safleoedd a maint y cynefin cynhaliol sy'n cael eu defnyddio gan y rhywogaethau hyn yn hygyrch a'u maint ac ansawdd yn sefydlog neu'n cynyddu. Cynefinoedd a rhywogaethau cynhaliol Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau sydd eu hangen i gynnal y rhywogaeth hon fel bod dosbarthiad, digonedd a dynameg poblogaethau'r rhywogaeth yn y safle a phoblogaeth y tu hwnt i'r safle'n sefydlog neu'n cynyddu. Ymhlith ystyriaethau pwysig mae; • dosbarthiad, • maint, • strwythur, • swyddogaeth ac ansawdd y cynefin, • ysglyfaeth sydd ar gael a'r ansawdd. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi;	Ni fyddai disgwyl i bolisïau'r CRhT gael effaith ar gyfanrwydd yr ACA na phresenoldeb y dolffin trwynfawr yno. Ni fydd polisïau'r CRhT yn peri gostyngiad yn arwynebedd neu faint y cynefin aber neu gilfach / bae sy'n cynnal poblogaeth y dolffiniaid ac, felly, daethpwyd i gasgliad na fydd unrhyw effaith andwyol.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Dyfrgi *Lutra lutra*	• Aberoedd • Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> At ei gilydd, ni fydd arwynebedd yr aber yn cael ei leihau o ganlyniad i bolisïau CRhT2, gan gynnal adnoddau bwyd y dyfrgwn. Fodd bynnag, bydd cynefin rhynglanwol yn cael ei golli yn yr aber. O fewn yr aber mewnol ac allanol, y polisïau dewisol yw HTL a MR. Mae'n debygol y bydd cynefin gwastadedd tywod yn cael ei golli yn yr aber fel wrth i'r amddiffynfeydd gael eu cynnal yn ystod y ddau gyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 10.5, 10.6, a 10.7, ac yn ystod yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 10.8, 10.11, 10.12, 10.13. Gyda'r polisïau HTL yn yr unedau hyn, byddai'r amddiffynfa ar ochr ddeheuol a gogleddol yr aber yn parhau i'r Unedau Polisi hynny a restrwyd uchod. Bydd MR i fyny'r afon yn yr aber (Uned Bolisi 10.10) yn creu cynefin rhynglanwol / aberol ychwanegol yn y tymor hwy. Gall dyfrgwn fod ar hyd darnau arwahanol o'r morlin yn PDZ 10 ac o fewn yr aber. Fodd bynnag, ni fydd fawr ddim cynefin yn cael ei golli yn y pen draw o ganlyniad i wasgfa arfordirol wrth i'r arfordir erydu'n naturiol, ac ni fydd polisïau'r CRhT yn effeithio ar faint o gynefin bwydo aberol sydd ar gael.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Morlo llwyd *Halichoerus grypus*	• Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai		• Bod angen i ddigonedd rhywogaethau ysglyfaethus yn amodol ar bysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicrwydd yn y pen draw. • bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd rhywogaeth yn briodol i'w chynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw. • Y dylai halogiad rhywogaethau ysglyfaethus tebygol fod islaw crynoadau a allai fod yn niweidiol i'w hiechyd ffisiolegol. • Bod tarfu trwy weithgaredd dynol islaw lefelau sy'n atal llwyddiant atgenhedlol, iechyd ffisiolegol neu ymddygiad hirdymor • O ran y dyfrgi bod ffynonellau digonol yn yr ACA a thu hwnt o ddŵr croyw o safon ar gyfer yfed ac yn ymdrochi. • Adfer ac adennill. • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi o ran y dolffin trwynfawr a dyfrgi, y dylai poblogaethau fod yn cynyddu.	Mae bron 40% (tua 125,000) o boblogaeth morloi llwydion y byd i'w cael yn Ynysoedd Prydain, gyda phoblogaeth gymharol sefydlog o ryw 6,000 yng Nghymru. At ei gilydd, ni fydd arwynebedd yr aber yn cael ei leihau o ganlyniad i bolisïau CRhT2 gan gynnal adnoddau bwyd y morloi. Gall erydiad ddigwydd i safleoedd glanio lle maent yn y parth rhynglanwol a gall gwasgfa arfordirol beri bod colled gyffredinol o safleoedd glanio yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn ystod pob cyfnod. Fodd bynnag bydd hyn yn debygol o beri newid ym maint safleoedd glanio ac nid yn nodweddion y safleoedd (e.e. tarfu ac ati). Felly nid oes disgwyl dim effaith andwyol. Mae safleoedd glanio morloi llwydion yn yr ACA hon ac yn arbennig i'r de o Aber Afon Dyfi ar arfordir agored PDZ 10.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Cors Fochno							
Corsydd dyrchafedig byw	Amherthnasol	• Maint y gors ddyrchafedig fyw • Cyflwr y gors ddyrchafedig fyw	• Bydd cymunedau pyllau corsydd corsle ddyrchafedig math DCLl M18 *Sphagnum papillosum - Erica tetralix* a M2 *Sphagnum cuspidatum* mewn > 95% o ardal cors 'elfennol' (h.y. heb ei thorri). • Bydd gorchudd nodwedd migwyn (rhywogaeth *Sphagnum*) yn ddigonol (>25%) i nodi twf mawn iach. • Bydd patrwm 'bryncyn a phant' yn bresennol ar draws canol cromen y gors. • Fel arfer, bydd mwy o wlith yr haul *Drosera anglica* yn y pantiau (h.y. pantiau *Rhyncosporion*) a bydd eu maint yn cynyddu neu'n sefydlog. • Bydd y rhywogaethau canlynol yn gyffredin yn y gors ddyrchafedig fyw*: Sphagnum capillifolium*, *S. papillosum* a *S. magellanicum*, rhosmari gwyllt *Andromeda polifolia* a'r gorsfrwynen wen *Rhyncospora alba*. • Bydd poblogaethau'r migwyn twmpathog prin *Sphagnum austinii* and *S. fuscum* yn sefydlog neu'n cynyddu. • Bydd glaswellt y gweunydd *Molinia caerulea* yn absennol gan mwyaf o'r gorsle ddyrchafedig fyw. • Bydd rhywogaethau prysgwydd fel helygen *Salix* a bedwen *Betula* yn absennol i raddau helaeth hefyd. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Ymwthiad halwynog</u> Mae Cors Fochno ar ochr ddeheuol aber Afon Dyfi yng Nghymru ac yn ffurfio cydran o Gwarchodfa Biosffer Dyfi. Er bod rhan sylweddol o'r mawndir blaenorol wedi mynd i amaethyddiaeth, mae'r ardal graidd sydd wedi goroesi'n cynnal yr ehangder mwyaf o gors ddyrchafedig elfennol bron yn naturiol mewn cyd-destun aberol yn y DU. Mae'r gorchudd helaeth o helyg Mair *Myrica gale* ac ymylon morol gyda chorsfrwynen ddu *Schoenus nigricans* yn nodweddion neilltuol o'r safle hwn yng nghyd-destun Cymru a Lloegr. Y prif fygythiad i'r nodwedd ACA cors ddyrchafedig fyw yn y tymor byr i ganolig fyddai llif dirybudd, afreoledig yn cynhyrchu dŵr cyflym iawn yn arwain at sianelau erydiad hiciog dwfn. Mae mater difrod i Gors Fochno a'r ardaloedd dynodedig cysylltiedig yn cael ei ddwyn ymlaen fel rhan o ddatblygu rheolaeth yr ardal. Mae hyn yn derbyn y byddai ceisio dal i amddiffyn y nodwedd ynddo'i hun yn difrodi'r nodwedd neu'n ei gwneud yn fwyfwy agored i ddifrod mwy sylweddol. Gallai'r polisi MR yn y trydydd cyfnod beri boddi halwynog dirybudd yn y cyfnodau dechreuol a allai effeithio ar strwythur y gors ac, yn ystod y ddau gyfnod cyntaf, mae perygl y gallai llif trychinebus ddigwydd er enghraifft mewn storm arw, ac y gallai polisi HTL waethygu natur y digwyddiad trychinebus a allai beri colli darnau o gynefinoedd y gors, yn ogystal â chyflwr cynefinoedd y gors. Byddai posibilrwydd MR o ddraenio llai yn ystod y ddau gyfnod cyntaf cyn MR a rheoli gorlifo'n sicrhau na fydd effaith ar ymylon y gors. Nid yw maint y llifogydd dros 50 mlynedd yn newid yn sylweddol o'r presennol. Bydd maint y llifogydd dros 100 mlynedd (y trydydd cyfnod) yn gweld llifogydd helaeth o'r ACA i gyd.	Mae angen i'r polisi MR sicrhau bod gorlifo rheoledig a graddol yn digwydd ar y cyd â CCGC i sicrhau na fydd effaith ar nodweddion y gors. Mae'r prif beryglon i wneud hyn yn llwyddiannus yn gysylltiedig â'r draenio presennol yn y safle ar adeg llif. Felly mae angen i drawsnewid draenio fod yn broses raddol yn y ddau gyfnod cyntaf yn ardal y gors ei hun (yn hytrach na'r ardaloedd preswyl neu adeiledig hynny) ac, at ei gilydd, mae angen datblygu strategaeth sy'n pennu'r broses a dulliau ar gyfer rheoli a gweithredu'r trawsnewid i ddylanwad halwynog er mwyn sicrhau nad yw cynefinoedd cors yn cael eu colli na'u heffeithio.	Dim effaith andwyol i'w disgwyl, oherwydd yr ystyrir ei bod yn addas ac ymarferol i reoli trawsnewid cynefinoedd y gors o ddylanwad dŵr croyw i ddŵr hallt ond bod strategaeth a rheolaeth briodol.	Ie
Corsydd dyrchafedig diraddiedig yn dal â'r gallu i adfywio'n naturiol	Amherthnasol	• Maint y gors a garthwyd gyda phlanhigion cors ddyrchafedig M18/M2 • Cyflwr y gors a garthwyd gyda phlanhigion cors ddyrchafedig M18/M2	• Caiff 80% o'r adnodd cors ddyrchafedig ddiraddiedig ei adfer i gors ddyrchafedig fyw, gyda'r gweddill yn cyd-fynd yn hydrolegol â chors fyw. • Bydd planhigion yn cyfateb i Ddosbarthiad Cenedlaethol Llystyfiant cymunedau corsle ddyrchafedig mathau M2 a/neu M18 yn sefydlog neu'n cynyddu o'i gymharu â'r hyn a fapiwyd yn 2003. • Bydd gan ardaloedd / cellïoedd planhigion M18 20% neu fwy o orchudd migwyn, a bydd rhywogaethau coed a rhododendron yn brin neu'n absennol. • Mewn cymunedau llystyfiant lled-naturiol eraill heblaw coetir, gan gynnwys corstir gwael, corstir lled-hallt a chorstir ni fydd mwy o rywogaethau coed nag yn 2003. • Bydd poblogaethau sefydlog neu gynyddol o rywogaethau planhigion nodweddiadol o ymylon corsle a thrawsnewid, gan gynnwys breuwydden, corsfrwynen ddu, corsfrwynen losg, hesgen rafunog fwyaf, tegeirian llydanwyrdd bach, pumnalen y gors, rhedynen gyfrdwy a llysiau'r afu gwylaeth y gors. • Bydd rhywogaethau anoddefgar o ddiffyg draenio fel rhedyn ungoes a'r rhan fwyaf o rywogaethau gwair yn absennol neu brin ar hyd a lled y safle, ynghyd ag rhywogaethau estron goresgynnol fel rhododendron. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.				
Pantiau ar swbstradau mawn o *Rhynchosporion*	Amherthnasol		Ni nodwyd amcanion cadwraeth yn y Cynllun Rheoli Craidd.	<u>Ymwthiad halwynog</u>: Ni fydd cynefin yn cael ei golli o nodwedd hon yr ACA o ganlyniad i bolisïau'r CRhT.			

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
AGA Aber Afon Dyfi							
Rhywogaeth Erthygl 4.1 bwysig yn rhyngwladol (gaeafu): gwyddau talcen-wyn yr Ynys Las *Anser albifrons flavirostris*	Afonydd llanwol. Aberoedd. Gwastadeddau llaid. Gwastadeddau tywod. Morlynnoedd (gan gynnwys pantiau gwaith halen) Morfeydd heli. Dolydd halen. Peithiau halen	• Maint poblogaeth • Cyfradd fyw / farw yn y gaeaf • Cyfradd gwyddau ifanc i oedolion	• Poblogaeth aeafu Dyfi'n cyrraedd lefel pwysigrwydd cenedlaethol (h.y.1% o'r boblogaeth genedlaethol (DU)), bob blwyddyn. • Marwolaethau yn y gaeaf yn <1% bob blwyddyn. • Adar ifanc / isaeddfed yn ffurfio > 5% o'r boblogaeth aeafu bob blwyddyn. • Holl ffactorau penodol i'r safle sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn (e.e. tarfu diangen), dan reolaeth	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Byddai gwasgfa arfordirol yn yr aber ac ar hyd yr arfordir agored yn peri colli cynefinoedd gwastadedd tywod / twyn tywod / morfa heli sy'n cael eu defnyddio gan yr adar yn gaeafu a'u defnyddio fel tiroedd porthi rhynglanwol (yn enwedig) yn yr aber. Fodd bynnag, o dderbyn maint y cynefin hwn yn yr aber, a'r MR arfaethedig yn yr hirdymor fydd yn gadael i'r aber ymateb yn fwy naturiol i gynnydd yn lefel y môr, mae'n annhebygol y bydd unrhyw golli cynefin yn cael effaith sylweddol ar gyfanrwydd nodweddion yr AGA a'r boblogaeth aeafu. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd effaith andwyol wrth golli cynefin bwydo yn y parth rhynglanwol. Yn gyffredinol mae'r gwastadeddau tywod yn Aber Afon Dyfi yn dibynnu ar y dewis o HTL a ffafriwyd gyda rhai darnau o MR. O fewn yr aber mewnol ac allanol, y polisïau dewisol yw HTL a MR. Mae'n debygol y bydd colli cynefin gwastadedd tywod yn yr aber wrth gynnal yr amddiffynfeydd yn ystod y ddau gyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 10.5, 10.6, a 10.7, ac yn ystod yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 10.8, 10.11, 10.12 a 10.13. Gyda'r polisïau HTL yn yr unedau hyn, byddai'r amddiffynfa ar ochr ddeheuol a gogleddol yr aber yn parhau yn yr Unedau Polisi a restrwyd uchod. Byddai'r gostyngiad mewn cynefin rhynglanwol hefyd yn arwain at lai o gynefin priodol i forfa heli wrth i'r gwastadeddau tywod rhynglanwol dreiglo'n ôl i'r cynefin morfa heli, yn enwedig yn Uned Bolisi 10.6. Gallai colled cynefin gwastadedd tywod rhynglanwol a morfa heli yn yr aber (yn bennaf o ganlyniad i HTL yn Unedau Polisi 10.6, 10.7, a 10.11) ymestyn hyd at **355.51ha** yn ystod y tri chyfnod; y cyfnod cyntaf = **4.3ha**; yr ail gyfnod = **239.33ha**, a'r trydydd cyfnod = **111.33ha**. Byddai MR mewn Unedau Polisi eraill yn creu cynefin rhynglanwol ychwanegol a lleihau maint yr effaith all fod.	Posibilrwydd symud amddiffynfeydd tua'r tir lle bo hynny'n ymarferol er mwyn gadael i'r gwastadeddau llaid dreiglo'n ôl ar yr un pryd â chynnydd yn lefel y môr.	Gallai colli cynefin rhynglanwol yn yr aber beri effaith andwyol ar gyfanrwydd y poblogaethau oherwydd colli cynefin cynhaliol nodweddion hyn yr AGA.	Na
	Cyrff dŵr mewndirol (merddwr, dŵr symudol) Corsydd, corstiroedd a ffeniau Porfa wedi'i gwella			<u>Ymwthiad halwynog:</u> Mae'n anochel y bydd ymwthiad halwynog a difrod i gors a glaswelltir yr AGA hon pa un ai yw'r amddiffynfa'n cael ei chynnal neu beidio. Y disgwyl yw y byddai ymwthiad halwynog gyda senario cynnydd o 1m yn lefel y môr yn peri newid i blanhigion y gors, gan adael i ragor o rywogaethau morfa heli sefydlu, a gall mewn gwirionedd arwain at fiomas a dyfroedd llawn maetholion i gynnal poblogaethau mawr o adar. Yn gyffredinol mae'r perygl i'r cynefinoedd glaswelltir yn fach yn ystod y ddau gyfnod cyntaf gyda mwyafrif y dewisiadau polisi yn yr aber yn HTL yn y ddau gyfnod cyntaf; fodd bynnag wrth i'r polisi MR gael ei sefydlu gyda'r trydydd cyfnod, yn Unedau Polisi 10.6 a 10.7, bydd y cynefin rhynglanwol yn treiglo'n ôl, efallai'n lleihau faint o gynefin glaswelltir sydd ar	Ni nodwyd dim	Er bod colli cynefin cynhaliol yn gyfyngedig, gallai arwain at effaith andwyol ar gyfanrwydd poblogaeth y gwyddau yn y trydydd cyfnod.	Na

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				gael. Gallai fod colled lwyr o hyd at **289ha** o'r cynefin hwn yn y trydydd cyfnod.			

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Ramsar Cors Fochno a Dyfi							
Corsydd dyrchafedig byw	Amherthnasol	• Maint y gors ddyrchafedig fyw • Cyflwr y gors ddyrchafedig fyw • Maint a chyflwr pantiau ar swbstradau mawn o'r *Rhyncosporion*	• Math DCLl M18 *Sphagnum papillosum-Erica tetralix* cors ddyrchafedig ac M2 *Sphagnum cuspidatum* • Bydd cymunedau pyllau corsydd yn anheddu > 95% o 'brif' arwynebedd y gors (h.y. heb ei thorri). • Bydd gorchudd nodwedd migwyn (rhywogaeth Sphagnum) yn ddigonol (>25%) i nodi twf mawn iach. • Bydd patrwm 'bryncyn a phant' yn bresennol ar draws canol cromen y gors. • Fel arfer, bydd gwlithlys mawr *Drosera anglica* yn y pantiau (h.y. pantiau Rhyncosporion) a bydd yn cynyddu neu'n aros yr un faint. • Bydd y rhywogaethau canlynol yn gyffredin yn y gors ddyrchafedig fyw: *Sphagnum capillifolium, S. papillosum* a *S. magellanicum*, rhosmari gwyllt *Andromeda polifolia* a'r gorsfrwynen wen *Rhyncospora alba*. • Bydd poblogaethau'r migwyn twmpathog prin *Sphagnum austinii* and *S. fuscum* yn sefydlog neu'n cynyddu. • Bydd glaswellt y gweunydd *Molinia caerulea* yn absennol gan mwyaf o'r gorsle ddyrchafedig fyw. • Bydd rhywogaethau prysgwydd fel helygen *Salix* a bedwen *Betula* yn absennol i raddau helaeth hefyd. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Ymwthiad halwynog:</u> Mae cymhlethdod aberol Afon Dyfi o ddiddordeb ffisiograffig eithriadol. Mae'n cynnwys ponciau tywod, gwastadeddau llaid, morfa heli, mawnogydd, sianelau afon a chilfachau, gyda chymhlethdod twyni tywod helaeth ar draws ceg yr aber. Mae cors ddyrchafedig ddiraddiedig helaeth hefyd o gwmpas ymylon y craidd byw. Yn gynwysedig yma mae amrywiaeth o fathau o dyfiant lle ataliwyd ffurfio mawn o ganlyniad i ddraenio dwys a ddilynwyd mewn mannau gan dynnu mawn a/neu reoli amaethyddol. Mae gorchudd tyfiant yr ardaloedd hyn yn amrywio ac mae'n cynnwys glastir pori a heb ei bori *Molinia-Myrica*, clystyrau cyrs *Phragmites*, dôl frwyn *Juncus*, coetir a phrysgwydd gwlyb, ardaloedd sychach o asid. Mae cromen ganolog y gorsle ddyrchafedig 5m+ uwchlaw lefel môr cymedrig. Gyda senario cynnydd o 1m yn lefel y môr mae gwaith modelu'n awgrymu y byddai ardal graidd hon y gors yn aros yn rhydd o ymosodiad llanwol hyd yn oed gyda digwyddiad llanwol eithafol (1:100 mlynedd). Gallai wyneb y gors heb ei draenio i ehangu a chodi dan amgylchiadau trwythiad mawr gan gynorthwyo hybu clustogi'r gromen ddŵr glaw ac atal llifogydd gormodol o ddŵr glaw mewn pyllau. Gallai cyflwyno dŵr y môr o gwmpas ymylon y gors arwain at dreiddiad dŵr trymach y môr i haenau isaf y mawn gan beri codi'r gromen ddŵr croyw uwchben. Byddai 1m o gynnydd yn lefel y môr yn peri gorlifo llanwol rheolaidd o ddarnau sylweddol o'r gors ddyrchafedig ddiraddiedig, rhan ohoni ar hyn o bryd wrthi'n adfer tuag at gors 'fyw' yn ffurfio mawn. Byddai hyn yn peri colli planhigion cors nodweddiadol a chael rhyw fath o gymuned morfa heli yn eu lle. Er y byddai rhai rhywogaethau cors arbenigol yn wynebu gostyngiadau cynefin a phoblogaeth nid yw'n ymddangos yn debygol y byddai unrhyw rywogaethau / nodweddion safle allweddol yn cael eu dileu. Mae poblogaethau rhai rhywogaethau allweddol nad ydynt yn benodol i gors ddyrchafedig ddŵr glaw e.e. dyfrgi, llygoden y dŵr, pibydd coesgoch, yn debygol o elwa ar ddŵr agored ychwanegol a chynefin tir gwlyb statws maetholion uwch. Byddai cynhyrchu morfa heli newydd a chyfnodau trosiannol dŵr croyw / hallt yn cynorthwyo gwneud iawn am golledion fyddai'n digwydd yn anochel yn yr aber presennol gyda 1m o gynnydd yn lefel y môr. Y prif fygythiad i'r nodwedd ACA cors ddyrchafedig fyw yn y tymor byr i ganolig fyddai llif dirybudd, afreoledig yn	Mae mater difrod i Gors Fochno a'r ardaloedd dynodedig cysylltiedig yn cael ei ddwyn ymlaen fel rhan o ddatblygu rheolaeth yr ardal. Mae hyn yn derbyn y byddai ceisio dal i amddiffyn y nodwedd ynddo'i hun yn difrodi'r nodwedd neu'n ei gwneud yn fwyfwy agored i ddifrod mwy sylweddol ac, felly, y polisi dewisol fyddai HTL yn ystod y ddau gyfnod cyntaf a gadael i'r amddiffynfa fethu yn y trydydd cyfnod	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Pantiau ar swbstradau mawn o'r *Rhynchosporion*	Amherthnasol						
Corsydd dyrchafedig diraddiedig yn dal â'r gallu i adfywio'n naturiol	Amherthnasol	• Maint y gors ddiraddiedig gyda phlanhigion cors ddyrchafedig M18/M2 • Cyflwr y gors ddiraddiedig gyda phlanhigion cors ddyrchafedig M18/M2	• Caiff 80% o'r adnodd cors ddyrchafedig ddiraddiedig ei adfer i gors ddyrchafedig fyw, gyda'r gweddill yn cyd-fynd yn hydrolegol â chors fyw. • Bydd planhigion yn cyfateb i Ddosbarthiad Cenedlaethol Llystyfiant cymunedau corsle ddyrchafedig mathau M2 a/neu M18 yn sefydlog neu'n cynyddu o'i gymharu â'r hyn a fapiwyd yn 2003. • Bydd gan ardaloedd / cellïoedd planhigion M18 20% neu fwy o orchudd migwyn, a bydd rhywogaethau coed a rhododendron yn brin neu'n absennol. • Mewn cymunedau llystyfiant lled-naturiol eraill heblaw coetir, gan gynnwys corstir gwael, corstir lled-hallt a chorstir ni fydd mwy o rywogaethau coed nag yn 2003. • Bydd poblogaethau sefydlog neu gynyddol o rywogaethau planhigion nodweddiadol o ymylon corsle a thrawsnewid, gan gynnwys breuwydden, corsfrwynen ddu, corsfrwynen losg, hesgen rafunog fwyaf, tegeirian llydanwyrdd bach, pumnalen y gors, rhedynen gyfrdwy a llysiau'r afu gwylaeth y gors. • Bydd rhywogaethau anoddefgar o ddiffyg draenio fel rhedyn ungoes a'r rhan fwyaf o rywogaethau gwair yn absennol neu brin ar hyd a lled y safle, ynghyd ag rhywogaethau estron goresgynnol fel rhododendron. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.				

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				cynhyrchu dŵr cyflym iawn yn arwain at sianelau erydiad hiciog dwfn.			
Afonydd llanwol. Aberoedd. Gwastadeddau llaid. Gwastadeddau tywod. Morlynnoedd (gan gynnwys pantiau gwaith halen) Morfeydd heli. Dolydd halen. Peithiau halen	Amherthnasol	•	•	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Byddai gwasgfa arfordirol yn yr aber ac ar hyd yr arfordir agored yn peri colli cynefinoedd gwastadedd tywod / twyn tywod / morfa heli sy'n cael eu defnyddio gan yr adar yn gaeafu a'u defnyddio fel tiroedd porthi rhynglanwol (yn enwedig) yn yr aber. Fodd bynnag, o dderbyn maint y cynefin hwn yn yr aber, a'r MR arfaethedig yn yr hirdymor fydd yn gadael i'r aber ymateb yn fwy naturiol i gynnydd yn lefel y môr, mae'n annhebygol y bydd unrhyw golli cynefin yn cael effaith sylweddol ar gyfanrwydd y safle Ramsar a'r boblogaeth aeafu. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd effaith andwyol wrth golli cynefin bwydo yn y parth rhynglanwol. Yn gyffredinol mae'r gwastadeddau tywod yn Aber Afon Dyfi yn dibynnu ar y dewis o HTL a ffafriwyd gyda rhai darnau o MR. O fewn yr aber mewnol ac allanol, y polisïau dewisol yw HTL a MR. Mae'n debygol y bydd colli cynefin gwastadedd tywod yn yr aber wrth gynnal yr amddiffynfeydd yn ystod y ddau gyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 10.5, 10.6, a 10.7, ac yn ystod yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 10.8, 10.11, 10.12 a 10.13. Gyda'r polisïau HTL yn yr unedau hyn, byddai'r amddiffynfa ar ochr ddeheuol a gogleddol yr aber yn parhau yn yr Unedau Polisi a restrwyd uchod. Byddai'r gostyngiad mewn cynefin rhynglanwol hefyd yn arwain at lai o gynefin priodol i forfa heli wrth i'r gwastadeddau tywod rhynglanwol dreiglo'n ôl i'r cynefin morfa heli, yn enwedig yn Uned Bolisi 10.6 a 10.11. Gallai colled cynefin gwastadedd tywod rhynglanwol a morfa heli yn yr aber (yn bennaf o ganlyniad i HTL yn Unedau Polisi 10.6, 10.7, a 10.11) ymestyn hyd at **355.51ha** yn ystod y tri chyfnod; y cyfnod cyntaf = **4.3ha**; yr ail gyfnod = **239.33ha**, a'r trydydd cyfnod = **111.33ha**. Byddai MR mewn Unedau Polisi eraill yn creu cynefin rhynglanwol ychwanegol a lleihau maint yr effaith all fod.	Posibilrwydd symud amddiffynfeydd tua'r tir lle bo hynny'n ymarferol er mwyn gadael i'r gwastadeddau llaid dreiglo'n ôl ar yr un pryd â chynnydd yn lefel y môr.	Bydd colli cynefin rhynglanwol yn yr aber ac ar yr arfordir agored yn peri effaith andwyol ar gyflawni'r maen prawf Ramsar.	Na

Helaethiad II – Tablau Asesu CRhT2 Gorllewin Cymru ar Safleoedd Natura 2000

Tabl 11: PDZ 11 – Y Bermo ac Afon Mawddach: Tonfannau i Draeth Dyffryn

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau							
Ponciau tywod dan ychydig o ddŵr y môr	Amherthnasol	• Cyrhaeddiad • Adeiledd a swyddogaeth	Cyrhaeddiad Dosbarthiad a maint nodweddion cynefin safle at ei gilydd, a phob un o'u prif gydrannau'n sefydlog neu'n cynyddu. O ran nodweddion y creigresi mae'r rhain yn cynnwys: • Creigresi rhynglanwol • Creigresi islanwol • Creigresi clogfeini a cherrig crynion helaeth – y sarnau • Creigresi biogenig (creigres cragen ddilyw *Modiolus modiolus* / creigres misglen werdd *Musculus discors* a chreigres llyngyren ddiliau *Sabellaria alveolata*) • Creigres garbonad a ffurfiwyd o nwy methan yn gollwng o wely'r môr.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ar arfordir gogledd-orllewin Cymru'n cynnwys ponciau tywod Devil's Ridge, Bastram Shoal, y Tripods, ac ardaloedd o fewn ac i'r de o Fae Tremadog. Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau o halltedd hollol forol, ponciau tywod â'r llanw'n ysgubo drostynt a phonciau tywod cymharol gysgodol. Ar Devil's Ridge, Bastram Shoal a'r Tripods mae llanwau cryf yn golygu fod y gwaddodion tywod, cregyn a gro'n symud yn gyson ac, o ganlyniad, mae'r ponciau tywod yn cynnal anifeiliaid sy'n gallu goddef cymaint o darfu. Gallai fod effaith ar bonciau tywod os oes cryn newid yn y prosesau arfordirol o ganlyniad i bolisïau'r CRhT yn PDZ 11. Mae nodwedd poncen dywod yr ACA gryn bellter o forlin PDZ 11 ac, felly, nid oes disgwyl y bydd effaith arni.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Aberoedd	Amherthnasol		O ran y nodwedd **gwastadedd llaid a gwastadedd tywod rhynglanwol** mae'r rhain yn cynnwys: • Mya arenaria a mwydod gwrychog mewn gro lleidiog • Gwellt y gamlas culddail Zostera gwelyau marina. • Cafnau lleidiog yn aber Afon Mawddach. O ran y nodweddion Salicornia mae hyn yn cynnwys: • Cymunedau a nodweddwyd gan y rhywogaeth *Sarcocornia perennis*. • O ran y nodweddion gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol a phonciau tywod mae hyn yn gofyn sefydlogrwydd at ei gilydd neu gynnydd ym maint y nodwedd, gan ystyried ardaloedd o sefydlogrwydd hirdymor a cholledion ac ychwanegiadau lleol yn deillio o brosesau amgylcheddol. • O ran aberoedd mae hyn yn cynnwys sefydlogrwydd gwaddodion tywodlyd yn gymesur â'r gwaddodion lleidiog. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran y nodwedd aberoedd dylid adfer tir ychwanegol a ddylai ffurfio rhan annatod o'r ecosystem aberol Adeiledd a swyddogaeth Nid yw'r strwythur a swyddogaethau ffisegol, biolegol a chemegol angenrheidiol i gynhaliaeth ac ansawdd hirdymor y cynefin yn cael eu diraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae: • daeareg • gwaddodeg • geomorffoleg • hydrograffeg môr a meteoroleg • cemeg dŵr a gwaddod	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau mae enghreifftiau cynrychiadol o aberoedd bar-adeiledig yng ngogledd-orllewin Cymru, ac mae'n cynnwys aberoedd Glaslyn a Dwyryd (PDZ 12), Mawddach (PDZ 11) a Dyfi (PDZ 10). Mae rhediad di-dor rhwng y tywodydd glân ger y fynedfa i'r môr a'r llaid neu dywodydd lleidiog yn eithafion cysgodol yr aberoedd. Mae'r gwastadeddau tywod rhynglanwol yn cynnal cymunedau o anifeiliaid di-asgwrn-cefn turiol, gan gynnwys poblogaethau trwchus o fwydod gwrychog, cramenogion, meddalogion dwygragennog a meddalogion gastropod. Nodweddion cynefin pwysig i bysgod ifanc yw morfa heli'n ymylu glannau'r aberoedd, a cheinciau a phyllau'r morfa heli. Yng ngheg aber Afon Mawddach, y polisi dewisol yn ystod y cyfnod cyntaf yw HTL yn y Bermo ond MR ar gyfer Tafod Ro Wen – cynnal a, phan fo hynny'n briodol, cymryd camau lleol i amddiffyn yn well rhag llifogydd a gwydnwch ond gadael i'r tafod adlinio a symud gyda chynnydd yn lefel y môr yn ystod y tri chyfnod, tra na fyddai'r creigiau caled a'r tir serth yn y Bermo'n cyfyngiad mwy mewn cymhariaeth â'r hyn gyda'r senario NAI. O fewn yr aber mewnol ac allanol, y polisïau dewisol yw HTL a MR. Mae'n debygol y bydd cynefin gwastadedd tywod rhynglanwol yn cael ei golli yn yr aber wrth gynnal yr amddiffynfeydd yn ystod y cyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 11.6, 11.9, 11.12, ac yn ystod yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 11.11. Gyda'r polisïau HTL yn yr unedau hyn, byddai'r amddiffynfeydd ar ochr ddeheuol a gogleddol yr aber yn parhau yn yr Unedau Polisi a restrwyd uchod. Mae hyn yn dal i gyfyngu ar sut mae'r aber yn ymddwyn a gallai beri cyfundrefn ddelta distyll lai a fyddai wedyn yn rhoi mwy o bwysau ar y twyni yng ngheg yr aber (Uned Bolisi 11.14). Gall hyn beri colli cynefin pwysig yn yr hirdymor (er nad yw'n nodwedd gymhwysol). Er na fyddai arwynebedd y cynefin aberol yn lleihau, byddai disgwyl i strwythur a chyrhaeddiad cynefinoedd rhynglanwol ac islanwol yn yr aber leihau yn ystod y ddau gyfnod cyntaf, er y byddai polisïau MR yn gwneud iawn am hyn yn y tymor (y ddau	Nid oes angen dim	Colli strwythur yr aber ac, o ganlyniad, peidio â chyflawni amcanion cadwraeth y nodweddion aberol.	Na

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
			• rhyngweithiadau biolegol. Mae hyn yn cynnwys gofyn bod lefel maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion fel a ganlyn: • ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol. • o fewn amrediadau nad ydynt yn debygol o fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd, eu cyflenwad a chyrhaeddiad. • Halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol i fod: – ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol. – islaw lefelau a allai beri cynnydd mewn crynoadau halogyddion mewn gwaddodion neu fywyd. – islaw'r hyn a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor y nodweddion, rhywogaethau, poblogaethau, eu cyflenwad neu gyrhaeddiad. • O ran dolydd heli Iwerydd mae hyn yn cynnwys morffoleg ceinciau a phyllau'r morfa heli. • Adfer ac adennill. • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran nodwedd yr aberoedd bod strwythur a swyddogaethau'r aberoedd a niweidiwyd / ddiraddiwyd oherwydd cyfyngiadau adeileddau dynol fel argloddiau llifogydd, yn cael eu hadfer.	gyfnod olaf) yn Unedau Polisi 11.9 a 11.12 ac ymhob cyfnod yn 11.10 a 11.13. At ei gilydd byddai disgwyl i bolisïau MR yn Uned Bolisi 11.10 a 11.13 gynyddu arwynebedd cynefinoedd aberol a rhynglanwol yn sylweddol yn ystod y trydydd cyfnod. At ei gilydd, bydd swyddogaeth, cyrhaeddiad a strwythur y cynefinoedd aberol yn aros mewn cydbwysedd a chyflwr ffafriol, ac nid oes disgwyl dim effaith andwyol yn y trydydd cyfnod. Fodd bynnag, yn ystod y ddau gyfnod cyntaf gallai cyfyngiad polisïau HTL atal morfa heli uchaf rhag symud (treiglo'n ôl) ar y cyd â chynnydd yn lefel y môr, a allai newid strwythur yr aber, a pheri tangyflawni'r amcanion cadwraeth yn ystod y cyfnodau hyn. Mae Cors Arthog tua'r tir o Uned Bolisi 11.6 gyda pholisïau HTL, MR, a NAI. Ni fyddai polisi HTL yn effeithio ar nodwedd hon yr aber am nad yw rheoli dŵr yno'n perthyn i Arglawdd y Friog sydd lawer pellach i lawr yr afon, ac nid oes disgwyl i MR effeithio ar yr hydroleg yn yr ail gyfnod. Gallai NAI yn y trydydd cyfnod weld newidiadau hydrolegol yn y gors. Fodd bynnag, ni fyddai disgwyl i'r rhain ddigwydd ond gyda llanwau storm eithafol gan beri dal lefelau dŵr i fyny yn y gors. Gan na fyddai disgwyl i'r polisi NAI beri cyfyngiadau, byddai cynefinoedd y gors a'r coetir yn gallu ymateb yn naturiol i'r newidiadau hydrolegol yn deillio o gynnydd yn lefel y môr. Felly, ni fydd yn effeithio ar nodwedd hon yr aber.			
Morlynnoedd arfordirol	Amherthnasol			Heb fod yn bresennol yn PDZ 11.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Cilfachau a baeau mawr bas	Amherthnasol		Rhywogaethau nodweddiadol Presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth rhywogaethau nodweddiadol fel nad yw ansawdd y cynefin wedi'i ddiraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae: • cyfoeth rhywogaethau • strwythur a dynameg poblogaeth • iechyd ffisiolegol • gallu atgenhedlol • denu • symudedd • cyrhaeddiad	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Nid yw'r nodwedd hon yn bresennol yn PDZ 11, gyda'r agosaf, Bae Tremadog, i'r gogledd yn PDZ 12. Fodd bynnag, mae symudiad y prosesau arfordirol yn y cylch yn nodweddiadol tua'r gogledd all beri dyddodi gwaddod yn y Bae o ganlyniad i'r dewisiadau rheoli yn PDZ 11. I'r gogledd o'r Bermo nid yw'n ymddangos bod yr amddiffynfeydd o flaen Sunnysands (11.19) ac o flaen Islawrffordd (11.20) yn torri'n sylweddol ar draws drifft ar hyd y cefndraeth ar hyn o bryd. Ystyrir bod y prif ddrifft ar hyd y blaendraeth isaf. Wrth i'r arfordir gilio o boptu'r ddau ddarn o amddiffynfa, bydd yr amddiffynfeydd hyn yn dechrau cael effaith fwy sylweddol ar y blaendraeth isaf.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Creigresi	Amherthnasol		Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi: • bod angen i gyflenwad boblogaethau o rywogaethau nodweddiadol sy'n destun pysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicr yn y pen draw. • bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd cynefin yn briodol i'w gynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran nodwedd y creigresi nad yw'r gallu i ehangu cymuned y gragen ddilyw Modiolus modiolus oddi ar arfordir gogledd Llŷn yn cael ei atal.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Mae darnau o greigresi islanwol yn nau ben PDZ 11 (11.1 ac 11.20); a chreigresi rhynglanwol ar hyd yr arfordir i'r de o'r aber (11.1 i 11.3). Bydd polisi NAI (11.20) yn gadael i'r clogwyni sydd wrthi'n erydu ddal i erydu, gan gyflenwi gwaddod i'r blaendraeth uchaf fel na fydd cynnydd yn lefel y môr yn peri lleihau maint yr amlygiadau rhynglanwol. Creigwely yw'r creigresi islanwol yn PDZ 11 (mae creigresi biogenig yn PDZ 13 i'r gogledd-orllewin). Mae'r polisïau HTL ar hyd blaendraeth creigiog Unedau Polisi 11.1 ac 11.3. Bydd yr amddiffynfa bresennol o dir uchel yn cael ei gynnal er mwyn gwarchod y rheilffordd. Gan fod y tir uchel yn cyfyngu'r blaendraeth creigiog, bydd creigres rynglanwol yn cael ei cholli'n naturiol ac nid o ganlyniad i bolisi CRhT2. Fodd bynnag, gallai	Wrth ddylunio a gwneud cais am unrhyw gynllun ar gyfer Unedau Polisi 11.1 ac 11.3, dylid gwneud arolygon o'r parth rhynglanwol i benderfynu a oes cymunedau neu gynefin creigres yn bresennol ac, os yw'n bresennol, dylid gwneud y gwaith fel na fyddai adeiladu'n tarfu ar neu yn union ar bwys y cynefinoedd a chymunedau creigres hyn.	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				tangyflawni amcanion cadwraeth nodweddion y greigres yn enwedig yn y ddau gyfnod olaf. Yn y pen draw byddai MR (Unedau Polisi 11.2, 11.5, 11.6, 11.9, 11.10, 11.13, ac 11.14) yn sicrhau na fyddai gwasgfa arfordirol yn broblem, am na fyddai disgwyl dim newid i'r prosesau ffisegol neu gemegol heblaw hynny sy'n deillio o amrywiad naturiol mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr. Nid oes disgwyl i HTL ar gyfer holl gyfnodau yn Unedau Polisi 11.7, 11.8, ac 11.12 beri newidiadau i symudiad gwaddodion neu brosesau arfordirol ardaloedd cynefin creigres rynglanwol presennol sydd ymhell o'r unedau hyn at ei gilydd, neu le nad oes unrhyw gyswllt erydiad neu ailgronni uniongyrchol i'w ddisgwyl, a lle mae'r prosesau aberol ehangach yn bennaf. Hefyd nid oes disgwyl i HTL yn y cyfnod cyntaf yn Unedau Polisi eraill 11.6, 11.9, ac 11.13 ymestyn unrhyw ddylanwad ar y prosesau ffisegol neu gemegol fyddai'n effeithio ar y creigresi rhynglanwol yn yr aber.			
Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> *Arfordir Agored* Y bwriad sylfaenol ar hyd yr arfordir i'r gogledd o Lanaber (Unedau Polisi 11.1 i 11.4, 11.14 i 11.20; er bod y gwastadeddau tywod yn Unedau Polisi 11.14 i 11.19 oddi allan i derfyn yr ACA, fel mai dim ond Unedau Polisi 11.1 i 11.4 ac 11.20 sy'n cael eu hystyried) yw gadael iddo ddatblygu'n naturiol a pheidio â bod mewn sefyllfa lle mae ymrwymiad i amddiffynfeydd mwy a mwy i warchod asedau'n ddiderfyn. Y bwriad sylfaenol, felly, yw creu lle o ran defnydd tir. Gallai polisïau HTL ar gyfer yr arfordir agored beri gwasgfa arfordirol o'r gwastadeddau tywod rhynglanwol yn ystod y tri chyfnod yn Unedau Polisi 11.1 ac 11.3, a chaiff colled oherwydd gwasgfa arfordirol ei nodi yn Uned Bolisi 11.4. Yn y cyfnod cyntaf mae'r golled yn gyffredinol fach o dderbyn y lan gul a serth ar hyd y rhannau hyn, gyda **0.82ha** yn y cyfnod cyntaf. Y rhagolwg yw mai'r colledion yn yr ail gyfnod fyddai **7.72ha** (Unedau Polisi 11.1 ac 11.3) ac, yn y trydydd cyfnod, y rhagolwg yw **1.57ha** (Unedau Polisi 11.1 ac 11.3). Nid oes unrhyw amddiffynfeydd presennol yn Uned Bolisi 11.20 a bydd polisi NAI yn gadael i'r twyni tywod ddal i ddatblygu'n naturiol. *Aber Mawddach* Yn gyffredinol mae gwastadeddau tywod yn Aber Mawddach yn amodol ar ddewis HTL yn y cyfnod cyntaf, gyda MR yn y ddau gyfnod olaf. Yn yr aber mewnol ac allanol, y polisïau dewisol yw HTL a MR. Mae'n debygol y bydd cynefin gwastadedd tywod yn cael ei golli yn yr aber wrth gynnal yr amddiffynfeydd yn ystod yr holl gyfnodau yn Unedau Polisi 11.7 ac 11.8, a'r trydydd cyfnod yn Uned Bolisi 11.11. Fodd bynnag, yn y cyfnod cyntaf yn Unedau Polisi 11.6, 11.7, 11.8, 11.9, 11.11 ac 11.12 y rhagolwg o'r mesuriadau ymateb a wnaed ar gyfer y CRhT hwn yw y bydd hyd at **4.78ha** o gynefin morfa heli'n cael ei golli. Byddai'r amddiffynfeydd ar ochr ddeheuol a gogleddol yr aber yn parhau yn yr Unedau Polisi a restrwyd uchod. Byddai disgwyl i strwythur a chyrhaeddiad cynefinoedd rhynglanwol leihau yn yr ail gyfnod, er y byddai polisïau MR yn y tymor hwy (y ddau gyfnod olaf) yn Unedau Polisi 11.9 ac 11.12	Posibilrwydd symud amddiffynfeydd tua'r tir pan fo hynny'n ymarferol i adael i'r morfeydd heli a gwastadeddau llaid dreiglo'n ôl gyda chynnydd yn lefel y môr.	Byddai colli nodwedd gwastadedd tywod rhynglanwol a morfa heli yn ystod y tri chyfnod yn peri effaith andwyol.	Na
Salicornia a phlanhigion unflwydd yn cytrefu llaid a thywod	Amherthnasol						
Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*)	Amherthnasol						

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				ac ymhob cyfnod yn 11.10 ac 11.13 yn gwneud iawn am hyn. At ei gilydd byddai disgwyl i'r polisïau MR yn Uned Bolisi 11.10 ac 11.13 gynyddu arwynebedd cynefinoedd aberol a rhynglanwol yn sylweddol yn y trydydd cyfnod. Gallai cynefin morfa heli gael ei golli lle mae polisïau HTL yn y ddau gyfnod olaf wrth i'r gwastadeddau tywod rhynglanwol dreiglo'n ôl mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i unrhyw bolisïau HTL arwain at gyfyngiad ar y cynefin morfa heli. Lle bwriadwyd MR yn yr ail gyfnod yn Uned Bolisi 11.6; yn y ddau gyfnod olaf yn Unedau Polisi 11.9, 11.10 ac 11.12; ac ymhob cyfnod yn Uned Bolisi 11.13, bydd hyn gadael i'r cynefin morfa heli symud tua'r tir yn y pen draw. Gallai colled gwastadedd tywod rhynglanwol yn y PDZ hwn ymestyn hyd at **19.36ha** yn ystod y tri chyfnod (y cyfnod cyntaf = **4.78ha**, yr ail gyfnod = **10.19ha**, a'r trydydd cyfnod = **15.45ha**). Mwyafrif y math o gynefin i'w golli yw morfa heli, gyda disgwyl colli llai na 2ha o gynefin gwastadedd tywod yn y cylchoedd hyn. Ni amcangyfrifwyd yr enillion o bolisïau MR ar yr adeg hon, ond bydd yn cael ei fesur a'i amcangyfrif yn adroddiad Cyfnod 4.			
Ogofâu môr dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Nodwyd ardaloedd o ogofâu môr yn Uned Bolisi 11.1. Y polisi HTL sy'n bodoli yw sicrhau cadw'r rheilffordd. Gall cyfyngu ar erydiad y clogwyni effeithio ar gyfanrwydd y nodweddion ogofâu môr fel na allant weithredu'n briodol (dal i erydu) neu cânt eu boddi dan ddŵr y môr wrth i lefel y môr gynyddu. Fodd bynnag, nid yw'r ogofâu dan ddŵr ar benllanw ac maent oddi allan i derfyn yr ACA; felly ni fydd unrhyw effaith andwyol.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Dolffin trwynfawr *Tursiops truncates*	• Aberoedd • Cilfachau a baeau mawr bas	• Poblogaethau • Cyrhaeddiad • Cynefinoedd cynhaliol a rhywogaethau	<u>Poblogaethau</u> Mae'r boblogaeth yn cynnal ei hun dros gyfnod hir fel cydran hyfyw o'i chynefin naturiol. Elfennau pwysig yw maint y boblogaeth, strwythur, cynhyrchiad, a chyflwr y rhywogaeth yn y safle. Fel rhan o'r amcan hwn, dylid nodi: • o ran y dolffin trwynfawr, y dyfrgi a'r morlo llwyd; bod beichiau halogyddion yn deillio o weithgaredd dynol islaw lefelau all beri niwed ffisiolegol, neu atal imiwnedd neu atgenhedlu • na ddylid lleihau poblogaethau morlo llwyd o ganlyniad i weithgaredd dynol Cyrhaeddiad Mae poblogaeth y rhywogaeth yn y safle'n ddigon fel nad yw amrediad naturiol y boblogaeth yn gostwng nac yn debygol o ostwng hyd y gellir rhagweld. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi o ran y dolffin trwynfawr, y dyfrgi a'r morlo llwyd:	Ni fyddai disgwyl i bolisïau'r CRhT gael effaith ar gyfanrwydd yr ACA na phresenoldeb y dolffin trwynfawr yno. Ni fydd polisïau'r CRhT yn peri gostyngiad yn arwynebedd neu faint y cynefin aber neu gilfach / bae sy'n cynnal poblogaeth y dolffiniaid ac, felly, daethpwyd i gasgliad na fydd unrhyw effaith andwyol.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Dyfrgi *Lutra lutra*	• Aberoedd • Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Gall dyfrgwn ddigwydd ar hyd darnau arwahanol o forlin PDZ 11 ac yn yr aber. Fodd bynnag, ni fydd fawr ddim cynefin yn cael ei golli yn y pen draw o ganlyniad i wasgfa arfordirol wrth i'r arfordir erydu'n naturiol. Fe all cynefin gwastadedd tywod / gwastadedd llaid gael ei golli yn yr aber, y gallai dyfrgwn ei ddefnyddio fel cynefin porthi neu fagu. Gan mai nod ychydig o gynefin sy'n cael ei effeithio, mae'n annhebygol y bydd unrhyw effaith andwyol ar y dyfrgwn.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Morlo llwyd *Halichoerus grypus*	• Aberoedd • Cilfachau a baeau mawr bas • Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai		• nad yw eu cyrhaeddiad yn yr ACA ac ardaloedd cydgysylltiedig cyfagos yn cael ei gyfyngu na'i rwystro • bod adnoddau bwyd priodol a digonol yn yr ACA a thu hwnt • bod y safleoedd a maint y cynefin cynhaliol sy'n cael eu defnyddio gan y rhywogaethau hyn yn hygyrch a'u maint ac ansawdd yn sefydlog neu'n cynyddu Cynefinoedd a rhywogaethau cynhaliol Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau sydd eu hangen i gynnal y rhywogaeth hon fel bod dosbarthiad, digonedd a dynameg poblogaethau'r rhywogaeth yn y safle a phoblogaeth y tu hwnt i'r safle'n sefydlog neu'n cynyddu. Ymhlith ystyriaethau pwysig mae; • distribution, • maint, • strwythur, • swyddogaeth ac ansawdd y cynefin, • ysglyfaeth sydd ar gael a'r ansawdd. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; • Bod angen i ddigonedd rhywogaethau ysglyfaethus yn amodol ar bysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicrwydd yn y pen draw. • bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd rhywogaeth yn briodol i'w chynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw. • Y dylai halogiad rhywogaethau ysglyfaethus tebygol fod islaw crynoadau a allai fod yn niweidiol i'w hiechyd ffisiolegol. • Bod tarfu trwy weithgaredd dynol islaw lefelau sy'n atal llwyddiant atgenhedlol, iechyd ffisiolegol neu ymddygiad hirdymor • O ran y dyfrgi bod ffynonellau digonol yn yr ACA a thu hwnt o ddŵr croyw o safon ar gyfer yfed ac yn ymdrochi. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi o ran y dolffin trwynfawr a dyfrgi, y dylai poblogaethau fod yn cynyddu.	Mae bron 40% (tua 125,000) o boblogaeth morloi llwydion y byd i'w cael yn Ynysoedd Prydain, gyda phoblogaeth gymharol sefydlog o ryw 6,000 yng Nghymru. Gall gwasgfa arfordirol beri colled gyffredinol o fannau glanio yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn ystod pob cyfnod. Mae morloi llwydion i'w cael ar hyd darnau arbennig o forlin PDZ 11. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynefin fydd yn cael ei golli yn y pen draw o ganlyniad i wasgfa arfordirol wrth i'r arfordir erydu'n naturiol heb effeithio, felly, ar safleoedd glanio'r morlo. At ei gilydd, ni fydd arwynebedd yr aber yn lleihau o ganlyniad i bolisïau CRhT2 gan gynnal adnoddau bwyd y morloi. Gall safleoedd glanio gael eu herydu lle maent yn y parth rhynglanwol a gall gwasgfa arfordirol beri bod colled gyffredinol o safleoedd glanio yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn ystod pob cyfnod. Fodd bynnag bydd hyn yn debygol newid maint safleoedd glanio ac nid i nodweddion y safleoedd (e.e. tarfu ac ati). Felly nid oes disgwyl effaith andwyol.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn							
Twyni symudol elfennol	Amherthnasol	• Maint y twyni symudol elfennol • Cyflwr y twyni symudol elfennol: cyfansoddiad rhywogaethau	• Bod cyfanswm maint y twyni symudol elfennol gan gynnwys yr ardaloedd hynny sy'n cael eu hystyried yn anffafriol neu wedi diraddio ar hyn o bryd yn cael ei gadw i'r arwynebedd oedd yno ar adeg y dynodiad. • Y dylai llinell y forlan a phlanhigion cynnar y twyni fod o rywogaethau nodweddiadol a restrir yn y tabl isod. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yw un o ddau safle a ddewiswyd yng Ngogledd Cymru. Yno mae twyni symudol elfennol fel parthau cul hi yn bennaf ym Morfa Harlech. Cofnodwyd planhigion twyni symudol clymwellt *Leymus arenarius* a marchwellt y twyni *Elytrigia juncea*, ond yr ail yw'r helaethaf o'r ddau o bell ffordd. Yn PDZ 11 mae twyni tywod yr ACA hon yn Uned Bolisi 11.20 lle nodwyd dim polisïau HTL neu MR, gyda NAI fel y polisi dewisol ar gyfer yr uned gyfan hon. Felly, nid oes disgwyl dim effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi CRhT2. Caiff polisïau MR eu hawgrymu ar gyfer Unedau Polisi 11.17 (y cyfnod cyntaf yn cael ei ddilyn gan NAI), 11.18 (holl gyfnodau), ac 11.19 (holl gyfnodau) ac mae disgwyl i hyn alluogi cynnal y broses arfordirol a chyflenwad gwaddod i'r safle. Fodd bynnag, o dderbyn sensitifedd y safle a'i nodweddion i gyflenwad gwaddod, a'r gyfradd porthi gwaddod cymharol anhysbys, mae perygl na fyddai MR yn benodol yn ystod y ddau gyfnod olaf yn cadw digon ar y blaen i symudiad gwaddodion a phorthiant naturiol. O ganlyniad mae perygl y gallai cyflymder datblygiad twyni ostwng, gan effeithio ar gyflwr y nodwedd twyni symudol elfennol.	Dylid datblygu strategaeth i roi data arolwg ar symudiad gwaddodion o'r unedau polisi i'r de o Forfa Dyffryn i weld beth yw'r gofyniad porthi gwaddod ar hyn o bryd, a nodi erbyn pryd y dylid ymgymryd â MR i sicrhau bod hwn yn cael ei gynnal yn naturiol trwy symud y lan gyda chynnydd yn lefel y môr. Dylid datblygu'r strategaeth rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol a CCGC er mwyn sicrhau bod MR yn datblygu tua'r tir ar gyflymder priodol yn Unedau Polisi 11.18 ac 11.19 i gynnal y gyfundrefn dwyni.	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag *Ammophila arenaria* (`twyni gwynion`)	Amherthnasol	• Maint y twyni symudol • Cyflwr y twyni symudol: cyfansoddiad rhywogaethau	• Cynnal cyfanswm maint y twyni symudol gan gynnwys yr ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn anffafriol neu wedi diraddio ar hyn o bryd yn yr ardal oedd yno ar adeg ei dynodi, tua 18.9ha ym Morfa Harlech a ddylai fod yn bresennol ar hyd crib y twyn tua'r môr a thua'r tir yn unedau 1, 3, 4 a 5 ac o leiaf 82ha o dwyni symudol ym Morfa Dyffryn y dylid eu dosbarthu drwy unedau 28, 27, 26, 24, a 23 i gyd. • Dylai'r twyni symudol fod dan dyfiant yn ôl rhywogaeth fel y rhai a restrir yn y tabl isod. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Mae ar gyffordd dwy gyfundrefn gludiant gwaddod morol o bwys ac, o ganlyniad, mae'n enghraifft ragorol o ailgronni gweithredol. Felly, mae twyni symudol yn helaeth ac yn arbennig o aeddfed ym Morfa Dyffryn. Ymhlith rhywogaethau nodedig a gofnodwyd yma mae tafod y bytheiad *Cynoglossum officinale* a rhonwellt y tywyn *Phleum arenarium*. *Mae'r effeithiau all ddigwydd yr un fath â thwyni symudol elfennol uchod.*			
Twyni gyda *Salix repens* ssp. *argentea* (*Salicion arenariae*)	Amherthnasol	• Maint • Cyfansoddiad rhywogaethau'r llaciau twyni • Cyflwr y llaciau twyni	• Cynnal cyfanswm maint y llaciau twyni llaith a thwyni gyda *Salix repens* gan gynnwys yr ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn anffafriol neu wedi diraddio ar hyn o bryd yn yr ardal oedd yno ar adeg ei dynodi, rhyw 65.1ha ym Morfa Harlech a 43.6ha ym Morfa Dyffryn. • Dylai holl gyfnodau olynol planhigion llaciau twyni fod yn bresennol ym Morfa Dyffryn. • Dylai'r llaciau twyni llaith fod dan dyfiant gyda rhywogaethau nodweddiadol a dewisol fel y rhai yn y tabl isod. • Dylai planhigion llaciau twyni fod yn rhydd o brysgwydd a glaswellt cymharol fyr. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Ym Morfa Harlech a Morfa Dyffryn mae cylchoedd cymharol helaeth o dwyni gyda *Salix repens* ssp. *argentea* a maswellt penwyn *Holcus lanatus*, yn enwedig yn rhai o rannau hŷn y gyfundrefn, ymhellach tua'r tir. Yn ogystal, mae dwy gymuned llaciau twyni eraill yn cynnal corhelyg. *Mae'r effeithiau all ddigwydd yr un fath â thwyni symudol elfennol uchod.*			
Llaciau twyni llaith	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yw un o ddau safle cynrychiadol o blanhigion llaciau twyni yng Ngogledd Cymru. Cofnodwyd enghreifftiau o dair gwahanol gymuned llaciau twyni llaith yn y gyfundrefn. Mae planhigion llaciau twyni gyda dail arian *Potentilla anserina* a hesg cyffredin *Carex nigra* yn aeddfed arbennig. *Mae'r effeithiau all ddigwydd yr un fath â thwyni symudol elfennol uchod.*			

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Llysiau'r afu *Petalophyllum ralfsii*	Llaciau Twyni	• Dosbarthiad a maint y boblogaeth. • Cyflwr y cynefin.	• Bydd poblogaeth Petalophyllum yn aros yn sefydlog neu'n cynyddu. • Dylai Petalophyllum fod yn bresennol ym Morfa Harlech ac wedi'i ddosbarthu ar draws rhan ogleddol cyfundrefn twyni tywod Morfa Dyffryn (Unedau 26 a 28). • Dylai'r llaciau twyni ifanc olynol sy'n cynnal y Petalophyllum fod mewn cyflwr da ar sail diffiniad amcan cadwraeth nodweddion 3 a 4 uchod. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Cofnodwyd llysiau'r afu Petalophyllum ralfsii mewn llaciau twyni yn y ddwy gyfundrefn twyni ar y safle hwn; mae'n digwydd amlaf ym Morfa Dyffryn. *Mae'r effeithiau all ddigwydd yr un fath â thwyni symudol elfennol uchod.*			

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion							
Hen goedydd derw mes digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain	Amherthnasol	• Maint y coetir llydanddail a chynefinoedd cysylltiedig • Lleoliad mathau o goetir • Gorchudd canopi coed • Haen canopi a llwyni • Aildyfu coed a llwyni brodorol • Haen lawr • Mwsoglau, llysiau'r afu, cennau a ffyngau llysnafeddog cyffredin • Mwsoglau, llysiau'r afu, cennau a ffyngau llysnafeddog anghyffredin • Coed aeddfed / hynafol • Pren marw	• Rhaid cynnal cyfanswm arwynebedd y coetir, gan gynnwys canopi a phrysgwydd, llennyrch a rhostir sych cysylltiedig, rhedyn ungoes a glaswelltir fel y nodwyd ar fapiau, gwelwch atodiad 2, rhyw 1826ha fel cyfanswm. • Bydd lleoliad gwahanol nodweddion yr ACA coetir, fel sy'n cael ei restru yn y teitl uchod, yn cael ei ddangos yn Atodiad 2. Mae dosbarthiad y cymunedau coetir hyn yn adlewyrchiad o ffurf y tir, priddoedd, daeareg ac agwedd yn bennaf ac yn annhebygol o newid. • Rhaid i ganran gorchudd y canopi coed yn ardal goetir yr ACA gyfan (gwelwch y mapiau yn Atodiad 2) fod yn ddim llai na 80%, lle mae cysgod brigdyfiant presennol yn 87% (ac eithrio digwyddiadau trychinebus naturiol). Bydd cysgod brigdyfiant rhai unedau'n llai sy'n dderbyniol ond bod hyn yn ddigon i ddiogelu'r cynefin, nodweddion a diddordeb arbennig. • Rhywogaethau brodorol yn lleol yw'r canopi a'r haen lwyni. Mae'r rhywogaethau perthnasol i bob nodwedd coetir yr ACA yn Nhabl 2. • Bydd digon o aildyfiant naturiol o goed a llwyni brodorol yn lleol i gynnal canopi a haen lwyni'r coetir, trwy lenwi bylchau a chaniatáu recriwtio coed ifanc, ac annog strwythur oedran amrywiol. • Bydd rhywogaethau haen lawr nodweddiadol pob nodwedd ACA coetir yn gyffredin, yn ôl Tabl 2. Yn y rhan fwyaf o'r ACA coetir mae'n bwysig nad yw'r llystyfiant yn mynd yn rhy drwchus gydag uchder uwchlaw 40cm a/neu dan ddylanwad rhywogaethau fel mieri, eiddew a chelyn ifanc. Fe all fod cyfyngiadau fesul uned neu adran. • Bydd digonedd a dosbarthiad mwsoglau a llysiau'r afu, cennau (a ffyngau llysnafeddog) cyffredin a nodweddiadol (Iwerydd, is-Iwerydd, gorllewinol, cefnforol), yn cael ei gynnal neu gynyddu, gan gyfeirio at y rhestri arwyddol yn Nhablau 3 a 4. • Bydd digonedd a dosbarthiad mwsoglau a llysiau'r afu, cennau a ffyngau llysnafeddog anghyffredin, yn cael ei gynnal neu gynyddu gan gyfeirio at restri arwyddol yn Nhablau 5 a 6 yn Atodiad 3. • Bydd gwasgariad o 5 coeden aeddfed yr hectar o fewn y canopi coed presennol neu barcdir, hynny yw coed gyda thryfesur o ryw 60cm ynghyd ag ar gyfer deri ac ynn a/neu gydag arwyddion dirywiad, tyllau ac ati. Yn y tymor hwy, erbyn 2060 dylai fod 1 coeden hynafol yr hectar hynny yw coed gyda thryfesur o ryw 100cm ynghyd ag ar gyfer deri ac ynn a bedw 75cm. • Bydd cyfaint pren marw'n fwy na 30 metr ciwbig yr hectar ym mhobman gan gynnwys cymysgedd o goed wedi cwympo (lleiafswm o 1 yr hectar), canghennau wedi torri, canghennau marw ar goed byw, a choed marw ar eu traed (lleiafswm o 1 yr hectar). Ar hyn o bryd mae cyfeintiau pren marw'n gymharol isel oherwydd bod strwythur oedran y coetiroedd, yn gyffredinol, yn unffurf gyda diffyg coed aeddfed a phrinder pren marw oherwydd rheoli coedwrol yn y gorffennol. Mae rhai planhigion is yn arbenigwyr pren marw ond mae'r coetiroedd hyn yn tueddu i fod heb y casgliad anifeiliaid di-asgwrn-cefn pren marw prin sydd i'w gael yn rhannau eraill y DU. • Ni fydd rhywogaethau estron ymosodol fel rhododendron, llysiau'r cythraul a Jac y neidiwr yn bresennol. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Ymwthiad halwynog:</u> Mae Coedydd Derw Meirionnydd yn enghraifft fawr iawn o hen goedydd derw mes digoes yng Ngogledd Cymru, gyda phlanhigion Iwerydd eithriadol o'r bryoffytau a chennau. Yn ôl pob tebyg mae Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd yn cynnwys yr ardal fwyaf eang o goedwig lifwaddodol wern yng Ngogledd Cymru. Mae'r coetir ar orlifdir dynamig, yn caniatáu aildyfu a dirywio cylchol o gellïoedd gwern, a datblygu adeiledd naturiol, yn llawn pren marw. Mae nifer o ardaloedd sy'n ffurfio'r ACA hon ar bwys Aber Mawddach gydag agosrwydd arbennig yn yr aber uchaf (Uned Bolisi 11.13). Y polisi dewisol yn Uned Bolisi 11.13 yw HTL yn y cyfnod cyntaf a MR yn y ddau gyfnod olaf. Gallai'r polisi MR beri colli gweundir neu gynefin coetir tua 0.004ha o Uned Bolisi 11.13 yn ystod pob cyfnod.	Ar lefel cynllun, rhaid llunio'r polisi MR i osgoi colli neu darfu trwy adeiladu ar nodwedd y cynefin coetir yn y Safle, a'i fod yn peri llifogydd sensitif a naturiol i unrhyw gynefin yn hytrach na phresenoldeb neu godi adeileddau.	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Coedwigoedd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* (*Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion albae*) (Nodwedd Flaenoriaethol)	Amherthnasol						
Coedwigoedd Derw mes digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain	Amherthnasol						
Coedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a cheunentydd	Amherthnasol						
Coetir cors	Amherthnasol						

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda'r planhigion *Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion*	Amherthnasol	• Maint • Dosbarthiad • Rhywogaethau nodweddiadol • Rhywogaethau annerbyniol ac estron	• Dylai maint cynefin afon addas lle gall y *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* ddigwydd fod yn sefydlog yn ôl y map yn Atodiad 2. • Dylai dosbarthiad presennol (anhysbys) y *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* fod yn sefydlog neu'n cynyddu. • Gall yr afon gyda phlanhigion nofiol fod yn dan ddylanwad rhywogaethau crafanc y dŵr, fel arfer *Ranunculus fluitans*, (ond ni chofnodwyd y rhywogaeth hon ym Meirionnydd), *Callitriche stagnalis* a bryoffytau. • Dylai rhywogaethau sy'n dangos arwyddion cyflwr anffafriol i'r nodwedd hon e.e. algâu edefynnaidd cysylltiedig ag ewtroffigedd a rhywogaethau estron ymosodo, fod yn absennol neu islaw trothwy derbyniol, yn arwyddo statws ecolegol uchel, yn yr ACA. Caiff y nodwedd hon ei hystyried ymhellach dan ffactorau. • All factors affecting the achievement of these factors are under control	<u>Ymwthiad halwynog:</u> Dim ond mor bell â therfyn arferol y llanw y mae polisïau'r CRhT yn berthnasol i Afon Mawddach a byddai maint llifogydd yr afon yn cynyddu tua 120m yn y trydydd cyfnod. Byddai'r polisi HTL yn Uned Bolisi 11.12 (Llyn Penmaen) yn golygu cynnal yr amddiffynfeydd ar hyd glan Afon Wnion a gall beri bod ymwthiad halwynog i'r afon mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr, oherwydd bod yr afon yn methu lledu'n naturiol. Ni fydd hyn yn effeithio ar gyfanrwydd y cwrs dŵr at ei gilydd.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	
Rhostiroedd sych Ewropeaidd	Amherthnasol	• Maint y rhostir sych • Dosbarthiad y rhostir sych • Cyfansoddiad llystyfiant • Strwythur gweundir • Rhywogaethau estron	• Rhaid cynnal cyfanswm arwynebedd y rhostir sych, tua 21ha. • Bydd dosbarthiad y rhostir sych o leiaf sy'n cael ei ddangos ar fap y Cynllun Rheoli Craidd. • Bydd rhywogaethau nodweddiadol ac anghyffredin y cymunedau llystyfiant sy'n ffurfio'r rhostir sych yn aml a thoreithiog, yn ôl Tabl 8. • Dylid cynnal ac adfer strwythur y rhostir, i ddangos aildyfiant naturiol trwy frigblannu a hadu, a sicrhau bod y cymunedau llystyfiant cydrannol yn naturiol amrywiol (dylid cyfeirio hefyd at 3 uchod). • Ni fydd rhywogaethau estron ymosodo fel conwydd, rhododendron, llysiau'r cythraul a Jac y neidiwr yn bresennol. • Yn gyffredinol bydd y rhostir yn rhydd o goed a bod â dim ond ychydig unigolion fan bellaf ar drwch o ddim mwy na 2 yr hectar. Eithriadau i'r rheol hon yw parthau trosiannol o goetir i weundir lle gall coed fod yn fwy trwchus yn graddio i rostir agored. Dylid pennu cyfyngiadau ar barthau coetir trosiannol ar sail uned neu is-uned. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Ymwthiad halwynog:</u> Nid oes modd nodi nodwedd hon yr ACA yn benodol o'r mapiau ond, yn gyffredinol, nid oes disgwyl y bydd polisïau'r CRhT yn effeithio'n sylweddol ar y cynefin. Mae arwynebedd yr ACA ar bwys ardaloedd sydd â pholisïau'r CRhT yn berthnasol iddynt yn fach mewn cymhariaeth â maint cynefin yr ACA at ei gilydd. Gallai'r polisi MR beri colli cynefin gweundir tua 0.004ha o Uned Bolisi 11.13 yn ystod pob cyfnod.	Ar lefel cynllun, rhaid llunio'r polisi MR i osgoi colli neu darfu trwy adeiladu ar nodwedd y cynefin rhostir yn y Safle, a'i fod yn peri llifogydd sensitif a naturiol i unrhyw gynefin yn hytrach na phresenoldeb neu godi adeileddau.	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	
Ystlum pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros*	Hen goedydd derw mes digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain. Coedwigoedd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* (*Alno-Padion*, *Alnion incanae*, *Salicion albae*). Coedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a cheunentydd	• Poblogaeth ystlumod pedol lleiaf • Clwydfannau • Cynefin porthi neu fwydo • Cyrhaeddiad y boblogaeth	• Dylid cynnal maint presennol poblogaeth ystlumod pedol lleiaf a'i hannog i gynyddu lle bo modd. Yn Nhabl 7 mae crynodebau o gyfrifon poblogaeth mewn safleoedd clwydo cofnodedig a mapiau yn Atodiad 4, yn dangos lleoliadau'r clwydi. Oherwydd y bu niferoedd ystlumod pedol lleiaf yn tueddu i gynyddu yng Nghymru mae'n rhesymol disgwyl i boblogaeth Gwynedd gynyddu. • Mae clwydi magu digonol (adeiladau, adeileddau a choed) a chlwydi gaeafgysgu (mwynglodiau ac adeiladau) o ansawdd priodol. Dylid cynnal y mathau eraill o glwyd fel safleoedd nos, dros dro, paru a heidio, hefyd gan fod ein gwybodaeth yn gwella am y clwydi hyn sy'n arwyddocaol yn aml. • Mae cynefin porthi neu fwydo yn yr ACA a'r wlad oddi amgylch, gan gynnwys porfeydd a rhai gerddi, o ansawdd, maint a chysylltedd priodol ar hyd a lled y cyrhaeddiad. • Mae cyrhaeddiad y boblogaeth yn yr ACA / Gwynedd yn sefydlog neu'n cynyddu. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Ymwthiad halwynog:</u> Mae'r safle cyfansawdd mawr hwn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r clwydi magu hysbys ym Meirionnydd a rhai gaeafleoedd, ac mae'n cynnwys canolfan ddosbarthiad ystlumod pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros* yng Nghymru. Mae dyffrynnoedd cysgodol yr afonydd yn darparu gorchudd rhagorol o goed a chlwydi magu addas niferus. Nid oes disgwyl y bydd polisïau'r CRhT yn effeithio'n sylweddol ar gynefin yr ystlum pedol lleiaf. Mae arwynebedd yr ACA ar bwys ardaloedd sydd â pholisïau'r CRhT yn berthnasol iddynt yn fach mewn cymhariaeth â maint cynefin yr ACA at ei gilydd. Gallai'r polisi MR beri colli cynefin gweundir neu goetir tua 0.004ha o Uned Bolisi 11.13 yn ystod pob cyfnod. Mae'r golled lwyr o gynefin yn fach ac, felly, ni fydd yn effeithio ar borthi a chyrhaeddiad y boblogaeth ystlumod.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	

Helaethiad B – Tablau Asesu CRhT2 Gorllewin Cymru ar Safleoedd Natura 2000

Tabl 12: PDZ 12 – Eryri Arfordirol: Traeth Dyffryn i Benychain

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau							
Ponciau tywod dan ychydig o ddŵr y môr	Amherthnasol	• Cyrhaeddiad • Adeiledd a swyddogaeth	Cyrhaeddiad Dosbarthiad a maint nodweddion cynefin safle at ei gilydd, a phob un o'u prif gydrannau'n sefydlog neu'n cynyddu. O ran nodweddion y creigresi mae'r rhain yn cynnwys: • Creigresi rhynglanwol. • Creigresi islanwol. • Creigresi clogfeini a cherrig crynion helaeth – y sarnau. • Creigresi biogenig (creigres cragen ddilyw *Modiolus modiolus* / creigres misglen werdd *Musculus discors* a chreigres llyngyren ddiliau *Sabellaria alveolata*). • Creigres garbonad a ffurfiwyd o nwy methan yn gollwng o wely'r môr. O ran y nodwedd **gwastadedd llaid a gwastadedd tywod rhynglanwol** mae'r rhain yn cynnwys: • *Mya arenaria a mwydod gwrychog mewn gro lleidiog*. • Gwellt y gamlas culddail Zostera gwelyau marina. • Cafnau lleidiog yn aber Afon Mawddach. O ran y nodweddion Salicornia mae hyn yn cynnwys: • Cymunedau a nodweddwyd gan y rhywogaeth *Sarcocornia perennis*. • O ran y nodweddion gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol a phonciau tywod mae hyn yn gofyn sefydlogrwydd at ei gilydd neu gynnydd ym maint y nodwedd, gan ystyried ardaloedd o sefydlogrwydd hirdymor a cholledion ac ychwanegiadau lleol yn deillio o brosesau amgylcheddol. • O ran aberoedd mae hyn yn cynnwys sefydlogrwydd gwaddodion tywodlyd yn gymesur â'r gwaddodion lleidiog. • Adfer ac adennill. • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran y nodwedd aberoedd dylid adfer tir ychwanegol a ddylai ffurfio rhan annatod o'r ecosystem aberol. Adeiledd a swyddogaeth Nid yw'r strwythur a swyddogaethau ffisegol, biolegol a chemegol angenrheidiol i gynhaliaeth ac ansawdd hirdymor y cynefin yn cael eu diraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae: • daeareg • gwaddodeg • geomorffoleg • hydrograffeg môr a meteoroleg • cemeg dŵr a gwaddod • rhyngweithiadau biolegol.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Dim yn PDZ 12.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Aberoedd	Amherthnasol			Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau mae enghreifftiau cynrychiadol o aberoedd bar-adeiledig yng ngogledd-orllewin Cymru, ac mae'n cynnwys aberoedd Glaslyn a Dwyryd (PDZ 10). Mae rhediad di-dor rhwng y tywodydd glân ger y fynedfa i'r môr a'r llaid neu dywodydd lleidiog yn eithafion cysgodol yr aberoedd. Mae'r gwastadeddau tywod rhynglanwol yn cynnal cymunedau o anifeiliaid di-asgwrn-cefn turiol, gan gynnwys poblogaethau trwchus o fwydod gwrychog, cramenogion, meddalogion dwygragennog a meddalogion gastropod. Nodweddion cynefin pwysig i bysgod ifanc yw morfa heli'n ymylu glannau'r aberoedd, a cheinciau a phyllau'r morfa heli. Yn Aber Afonydd Glaslyn a Dwyryd mae amrywiaeth o ddewisiadau polisi yn yr Unedau Polisi gyda'r mwyafrif yn NAI yn ystod yr holl gyfnodau fydd yn gadael i'r aber ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr. Bydd HTL ar gyfer holl gyfnodau yn Uned Bolisi 12.8 (Gwastadedd Harlech), 12.13 (Y Cob a Phorthmadog) a 12.14 (Borth-y-gest) a'r cyfnod cyntaf yn 12.9 (Talsarnau) yn creu rhywfaint o wasgfa arfordirol leol. Ni fydd arwynebedd yr aber yn lleihau o ganlyniad i'r polisïau CRhT2 hyn; fodd bynnag bydd maint a strwythur nodweddion rhynglanwol ac islanwol yr aber yn cael eu newid gyda maint rhai cynefinoedd yn lleihau tra bo eraill yn cynyddu o ganlyniad i wasgfa arfordirol. Fodd bynnag, gallai cyfyngiad polisïau HTL atal morfa heli uchaf rhag symud (treiglo'n ôl) gyda chynnydd yn lefel y môr, a allai newid strwythur yr aber, a pheri tangyflawni'r amcanion cadwraeth yn y cyfnodau hyn. Bydd y polisi MR yn Uned Bolisi 12.5, ar gyfer holl gyfnodau, Unedau Polisi 12.2, 12.3, a 12.9 yn y ddau gyfnod olaf a 12.11 yn y cyfnod cyntaf yn cynorthwyo lliniaru'r wasgfa arfordirol a bydd yn galluogi i'r cynefinoedd aberol adennill eu cydbwysedd naturiol o gynefinoedd. Bydd NAI yn Uned Bolisi 12.10, 12.12 (pob cyfnod) a 12.11 (y ddau gyfnod olaf) yn galluogi i'r aber a'i nodweddion rhynglanwol ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr. Ni fydd maint Aber Afon Artro yn Unedau Polisi 12.2 (HTL/MR/MR), 12.3 (HTL/MR/MR), 12.4 (HTL/HTL/HTL), a 12.5 (MR/MR/MR) yn lleihau; fodd bynnag bydd cydbwysedd nodweddion rhynglanwol yr aber yn newid dros gyfnod o ganlyniad i wasgfa arfordirol. Bydd y polisi MR yn Unedau Polisi 12.2 a 12.3 yn y ddau gyfnod olaf a 12.5 ym mhob cyfnod yn cynorthwyo lliniaru'r wasgfa arfordirol a bydd yn galluogi i'r aber adennill ei gydbwysedd naturiol o gynefinoedd. Nid yw HTL ym mhob cyfnod yn 12.4 yn rhan o'r ACA ac, felly, nid oes disgwyl iddo gael effaith andwyol ar gyfanrwydd nodwedd hon yr ACA.	Nid oes angen dim	Lleihau strwythur yr aber ac, o ganlyniad, peidio â chyflawni amcanion cadwraeth y nodweddion aberol.	Na
Morlynnoedd arfordirol	Amherthnasol			Heb fod yn bresennol yn PDZ 12.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
			Mae hyn yn cynnwys gofyn bod lefel maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion fel a ganlyn:			disgwyl	
Cilfachau a baeau mawr bas	Amherthnasol		• ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol. • o fewn amrediadau nad ydynt yn debygol o fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd, eu cyflenwad a chyrhaeddiad. • Halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol i fod: – ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol – islaw lefelau a allai beri cynnydd mewn crynoadau halogyddion mewn gwaddodion neu fywyd – islaw'r hyn a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor y nodweddion, rhywogaethau, poblogaethau, eu cyflenwad neu gyrhaeddiad. • O ran dolydd heli Iwerydd mae hyn yn cynnwys morffoleg ceinciau a phantiau'r morfa heli • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran nodwedd yr aberoedd bod strwythur a swyddogaethau'r aberoedd a niweidiwyd / ddiraddiwyd oherwydd cyfyngiadau adeileddau dynol fel argloddiau llifogydd, yn cael eu hadfer. <u>Rhywogaethau nodweddiadol</u> Presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth rhywogaethau nodweddiadol fel nad yw ansawdd y cynefin wedi'i ddiraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae:	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Ffurfiwyd gwely môr Bae Tremadog ar ochr ddeheuol Pen Llŷn, gogledd-orllewin Cymru, o frithwaith o wahanol fathau o waddod, sy'n cynnal cymysgedd amrywiol o gymunedau planhigion ac anifeiliaid. Mae Bae Tremadog yn cwmpasu PDZ 12 i gyd. Mae'r dewisiadau rheoli ym Mae Tremadog yn cynnwys NAI, HTL a MR. Yn yr Unedau Polisi lle bydd NAI yn ddewis polisi yn y pen draw a lle'r oedd yn MR neu HTL yn wreiddiol (Unedau Polisi 12.22, 12.23 a 12.25) bydd y dewis polisi'n gadael i'r bae ddechrau erydu'n fwy naturiol. Mae gwasgfa arfordirol i'w gweld yn ystod yr holl gyfnodau, a newid yn y prosesau arfordirol yn y bae o ganlyniad i'r dewisiadau HTL a MR. Ni fydd arwynebedd y bae'n lleihau o ganlyniad i bolisïau CRhT2; fodd bynnag gall maint y nodweddion yn y bae, yn arbennig y nodweddion rhynglanwol, newid. Nid oes modd dod i gasgliad na fydd polisïau'r CRhT yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar gyfanrwydd nodwedd yr ACA hon, fel cyrhaeddiad a strwythur yr elfennau rhynglanwol. Gall polisïau'r CRhT newid drifft a dyddodiad gwaddod, ond yn lleol yn unig, ac ni fyddai'n effeithio ar gydbwysedd symudiad a chyfaint gwaddod at ei gilydd; ac, fel y cyfryw, ni fydd yn peri lleihau na newid yn swyddogaeth a datblygiad cynefinoedd perthnasol.	Nid oes angen dim	Colli strwythur cilfachau a baeau bas ac, o ganlyniad, peidio â chyflawni amcanion cadwraeth y nodwedd.	Na
Creigresi	Amherthnasol		• cyfoeth rhywogaethau • strwythur a dynameg poblogaeth • iechyd ffisiolegol • gallu atgenhedlol • denu • symudedd • cyrhaeddiad Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi: • bod angen i gyflenwad boblogaethau o rywogaethau nodweddiadol sy'n destun pysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicr yn y pen draw. • bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd cynefin yn briodol i'w gynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran nodwedd y creigresi nad yw'r gallu i ehangu cymuned y gragen ddilyw Modiolus modiolus oddi ar arfordir gogledd Llŷn yn cael ei atal	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Mae darnau bach o greigresi rhynglanwol ac islanwol ym Mae Tremadog yn PDZ 12. Bydd polisïau NAI yn gadael i'r clogwyni sydd wrthi'n erydu ddal i erydu, gan gyflenwi gwaddod i'r blaendraeth uchaf fel na fydd cynnydd yn lefel y môr yn peri lleihau'r amlygiadau rhynglanwol. Mae darnau o greigresi islanwol yn Unedau Polisi 12.18 i 12.25 lle mae'r dewisiadau polisi'n cynnwys HTL, NAI a MR. Mae'r creigresi islanwol yn PDZ 12 yn cynnwys creigresi creigwely a chreigresi biogenig. Mae'r polisïau HTL ar hyd cefn blaendraeth graean Unedau Polisi 12.18 (y ddau gyfnod cyntaf; MR yn y trydydd cyfnod), 12.20 (pob cyfnod) a 12.24 (y cyfnod cyntaf) lle mae angen gwarchod anheddau neu ffyrdd. Bydd y polisi HTL yn peri lleihau arwynebedd y traeth graean wrth i'r cynefin rhynglanwol gael ei golli o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr yn y byrdymor (y ddau gyfnod cyntaf); a bydd MR yn lliniaru hynny yn y pen draw wrth i'r graean gael ei dynnu o'r traeth. Gall y deunydd graean setlo yn y creigresi islanwol ond, o dderbyn ei fod yn ddeunydd graean yn hytrach na thywod, mae'n annhebygol y bydd y creigresi islanwol yn cael eu mygu o ganlyniad. Yn hytrach, gall y deunydd graean beri cynyddu maint y creigresi yn y pen draw. Byddai MR yn y pen draw'n sicrhau na fyddai gwasgfa arfordirol yn broblem, gan y bydd cynefin creigres yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				Bydd polisi NAI (12.19, 12.21, 12.23 a 12.25) yn gadael i'r traethau graean ddal i ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr.			

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Mae mwyafrif morlin PDZ 12 yn cynnwys darnau mawr o wastadedd tywod, rhai darnau o forfa heli, gyda'r gweddill yn draethau graean. Caiff ardal y gwastadeddau tywod a'u dewisiadau polisi perthnasol eu crynhoi isod: *Yr Arfordir Agored* Mae'r Unedau Polisi canlynol yn cynnwys polisi HTL yn ystod rhai cyfnodau neu bob un: 12.2 = HTL/MR/MR 12.5 = MR/MR/MR 12.6 = HTL/HTL/HTL 12.17 = HTL/MR/MR 12.18 = HTL/HTL/MR (rhynglanwol rhannol yn ffiniau'r safle) 12.20 = HTL/HTL/HTL 12.24 = HTL/MR/MR (clytiau graean / tywod) Gallai HTL beri colli cynefin rhynglanwol o ganlyniad i wasgfa arfordirol, er y byddai hyn yn lleol yn Unedau Polisi 12.4 a 12.6, a dim colledion yn Unedau Polisi 12.2, 12.17, a 12.24. At ei gilydd, nid oes disgwyl colledion yn y cyfnod cyntaf. Fodd bynnag, gallai fod colledion o **3.23ha** o wastadedd tywod rhynglanwol yn yr ail gyfnod yn Unedau Polisi 12.6, 12.18, a 12.20, ac **1.95ha** yn y trydydd cyfnod yn Unedau Polisi 12.6 a 12.20. Yn benodol mae MR yn Unedau Polisi 12.2, 12.3 a 12.5 yn bwriadu osgoi ymestyn amddiffynfa galed ymhellach ar hyd y lan hon gyda'r bwriad o ganiatáu rhywfaint o reolaeth ond hefyd i'r gyfundrefn dwyni dreiglo'n ôl. Byddai'r bwriad hwn yn porthi'r agwedd yn y cyfnod cyntaf (HTL) fel bod rheoli presennol yn osgoi ymrwymiad yn y dyfodol i ymestyn amddiffynfa galed. *Yr Aber* Mae'r unedau polisi canlynol yn cynnwys polisi HTL yn rhai cyfnodau neu bob un: 12.3 = HTL/MR/MR 12.4 = HTL/HTL/HTL 12.8 (ceg yr aber; twyni) =HTL/HTL/HTL 12.9 = HTL/ MR/MR 12.13 = HTL/HTL/HTL 12.14 = HTL/HTL/HTL Bydd y gwastadeddau tywod gyda NAI fel y polisi dewisol yn gallu ymateb i gynnydd yn lefel y môr a bydd unrhyw golli cynefin o'r Unedau Polisi hyn yn digwydd yn naturiol ac nid fel un o ganlyniadau uniongyrchol polisi CRhT2. Yn yr Unedau Polisi gyda HTL yn y cyfnod cyntaf gellid colli hyd at **0.23ha** o gynefin rhynglanwol o ganlyniad i Unedau Polisi 12.8 a 12.9, yn yr ail gyfnod gellid colli hyd at **13.51ha** o ganlyniad i Unedau Polisi 12.4, 12.8, 12.13, a 12.14 ac, yn y trydydd cyfnod gellid colli hyd at **26.2ha** o ganlyniad i Unedau Polisi 12.4, 12.8, 12.13, a 12.14. Yn Uned Bolisi 12.16 mae'r angen hanfodol am reolaeth (MR) yn yr ardal hon yn caniatáu datblygiad naturiol y twyni. Mae hyn yn bwysig o safbwynt gwarchod natur ond hefyd wrth ddarparu amddiffynfa naturiol gadarn rhag llifogydd. Felly, bydd y polisi MR arfaethedig yn ystod pob cyfnod yn galluogi i'r twyni tywod ymateb			
Salicornia a phlanhigion unflwydd yn cytrefu llaid a thywod	Amherthnasol				Ni nodwyd dim	Oherwydd colli cynefin gwastadedd tywod rhynglanwol yn yr holl gyfnodau mae effaith andwyol i'w disgwyl	Na

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr a sicrhau cynnal ceg yr aber. Bydd cyfanswm o 9ha o gynefin yn cael ei golli o Uned Bolisi PU 12.16.			
Dolydd heli lwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*)	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Bydd polisi NAI yn nyfroedd isaf yr aber yn gadael i'r aber weithredu'n fwy naturiol, gyda morfeydd heli'n mudo yn ôl gyda chynnydd mewn boddi halwynog lle bo hynny'n ymarferol. HTL yw'r dewis ar gyfer pob cyfnod ar hyd dau ddarn o'r aber allanol lle mae amddiffynfeydd yn bodoli eisoes (Unedau Polisi 12.8 a 12.13); ac un lle mae amddiffynfa naturiol (12.14). Caiff HTL ei awgrymu hefyd yn y cyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 12.9. Mae'r polisïau HTL mewn ardal o gynefin rhynglanwol helaeth yn yr aber fydd yn ymateb i wasgfa arfordirol a chynnydd yn lefel y môr trwy dreiglo'n ôl i'r cynefin morfa heli (yn enwedig yn Unedau Polisi 12.8, 12.9, a 12.13, lle mae cynefin morfa heli helaeth) yn y pen draw gan beri colli cynefin morfa heli (bydd ymylon isaf y morfa heli'n dod yn gynefin gwastadedd tywod a gwastadedd llaid rhynglanwol wrth i lefelau'r llanw gynyddu). Bydd MR yn y ddau gyfnod olaf yn Uned Bolisi 12.9 yn cynorthwyo lleddfu'r wasgfa arfordirol yn yr aber. At ei gilydd, o'r cynefin rhynglanwol a nodwyd uchod, yn y cyfnod cyntaf byddai hyn yn cynnwys tua **0.21ha** o gynefin morfa heli bod gellid ei golli yn Unedau Polisi 12.8 a 12.9, tra gellid colli hyd at **5.55ha** o forfa heli yn yr ail gyfnod yn Unedau Polisi 12.8, 12.13, a 12.14; a gellid colli hyd at **12.42ha** o forfa heli yn y trydydd cyfnod yn Unedau Polisi 12.8, 12.13, a 12.14. Fel cyfanswm gellid colli hyd at **18.18ha** o gynefin morfa heli allan o'r **39.94ha** o gynefin rhynglanwol a nodwyd uchod oherwydd gwasgfa arfordirol o ganlyniad i bolisïau HTL yn y PDZ hwn.	Posibilrwydd symud amddiffynfeydd tua'r tir lle bo modd (yn arbennig yn Unedau Polisi 12.9) pan fo hynny'n ymarferol i adael i'r gwastadeddau llaid dreiglo'n ôl gyda chynnydd yn lefel y môr.	Oherwydd colli cynefin morfa heli yn yr holl gyfnodau mae effaith andwyol i'w disgwyl	Na
Ogofâu môr dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Nodi ardaloedd o ogofâu môr yng ngheg Aber Afonydd Glaslyn a Dwyryd – a allai gwmpasu Uned Bolisi 12.16 (ym mhen yr Uned Bolisi). Y polisi dewisol yn Uned Bolisi 12.16 yw MR – gyda'r prif bwyslais ar gynnal y cynefin twyni. Felly, y dyb yw y bydd ardal yr ogofâu môr yn cael gweithredu ac erydu'n naturiol mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr a allai beri colli cynefin ogof – fodd bynnag, bydd ogofâu newydd yn cael eu creu fel rhan o'r broses naturiol.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Dolffin trwynfawr *Tursiops truncates*	• Aberoedd • Cilfachau a baeau mawr bas	• Poblogaethau • Cyrhaeddiad • Cynefinoedd cynhaliol a rhywogaethau	<u>Poblogaethau</u> Mae'r boblogaeth yn cynnal ei hun dros gyfnod hir fel cydran hyfyw o'i chynefin naturiol. Elfennau pwysig yw maint y boblogaeth, strwythur, cynhyrchiad, a chyflwr y rhywogaeth yn y safle. Fel rhan o'r amcan hwn, dylid nodi: • o ran y dolffin trwynfawr, y dyfrgi a'r morlo llwyd; bod beichiau halogyddion yn deillio o weithgaredd dynol islaw lefelau all beri niwed ffisiolegol, neu atal imiwnedd neu atgenhedlu • na ddylid lleihau poblogaethau morlo llwyd o ganlyniad i weithgaredd dynol Cyrhaeddiad Mae poblogaeth y rhywogaeth yn y safle'n ddigon fel nad yw amrediad naturiol y boblogaeth yn gostwng nac yn debygol o ostwng hyd y gellir rhagweld. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi o ran y dolffin trwynfawr, y dyfrgi a'r morlo llwyd: • nad yw eu cyrhaeddiad yn yr ACA ac ardaloedd cydgysylltiedig cyfagos yn cael ei gyfyngu na'i rwystro • bod adnoddau bwyd priodol a digonol yn yr ACA a thu hwnt • bod y safleoedd a maint y cynefin cynhaliol sy'n cael eu defnyddio gan y rhywogaethau hyn yn hygyrch a'u maint ac ansawdd yn sefydlog neu'n cynyddu Cynefinoedd a rhywogaethau cynhaliol Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau sydd eu hangen i gynnal y rhywogaeth hon fel bod dosbarthiad, digonedd a dynameg poblogaethau'r rhywogaeth yn y safle a phoblogaeth y tu hwnt i'r safle'n sefydlog neu'n cynyddu. Ymhlith ystyriaethau pwysig mae; • dosbarthiad, • maint, • strwythur, • swyddogaeth ac ansawdd y cynefin, • ysglyfaeth sydd ar gael a'r ansawdd. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; • Bod angen i ddigonedd rhywogaethau ysglyfaethus yn amodol ar bysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicrwydd yn y pen draw.	Ni fyddai disgwyl i bolisïau'r CRhT gael effaith ar gyfanrwydd yr ACA na phresenoldeb y dolffin trwynfawr yno. Ni fydd polisïau'r CRhT yn peri gostyngiad yn arwynebedd neu faint y cynefin aber neu gilfach / bae sy'n cynnal poblogaeth y dolffiniaid ac, felly, daethpwyd i gasgliad na fydd unrhyw effaith andwyol.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Dyfrgi *Lutra lutra*	• Aberoedd • Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir</u> Gall dyfrgwn ddigwydd ar hyd darnau arwahanol o forlin PDZ 12 ac yn yr aber. Fodd bynnag, ni fydd fawr ddim cynefin yn cael ei golli yn y pen draw o ganlyniad i wasgfa arfordirol wrth i'r arfordir erydu'n naturiol Fe all fod gostyngiad ym maint y cynefin rhynglanwol yn yr aber yn ystod y tri chyfnod. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i weddill y parth rhynglanwol a nodweddion yr aber gyfyngu neu leihau'r adnodd bwyd neu rwystro symud y boblogaeth ddyfrgwn. At ei gilydd, ni fydd arwynebedd yr aber yn lleihau o ganlyniad i bolisïau CRhT2 gan gynnal adnoddau bwyd y dyfrgwn felly. Fodd bynnag, bydd cynefin rhynglanwol yn cael ei golli yn yr aber.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Morlo llwyd *Halichoerus grypus*	• Aberoedd • Cilfachau a baeau mawr bas • Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai		• bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd rhywogaeth yn briodol i'w chynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw. • Y dylai halogiad rhywogaethau ysglyfaethus tebygol fod islaw crynoadau a allai fod yn niweidiol i'w hiechyd ffisiolegol. • Bod tarfu trwy weithgaredd dynol islaw lefelau sy'n atal llwyddiant atgenhedlol, iechyd ffisiolegol neu ymddygiad hirdymor. • O ran y dyfrgi bod ffynonellau digonol yn yr ACA a thu hwnt o ddŵr croyw o safon ar gyfer yfed ac yn ymdrochi. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi o ran y dolffin trwynfawr a dyfrgi, y dylai poblogaethau fod yn cynyddu.	Mae bron 40% (tua 125,000) o boblogaeth morloi llwydion y byd i'w cael yn Ynysoedd Prydain, gyda phoblogaeth gymharol sefydlog o ryw 6,000 yng Nghymru. Gall gwasgfa arfordirol beri colled gyffredinol o fannau glanio yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn ystod pob cyfnod. Mae morloi llwydion i'w cael ar hyd darnau arbennig o forlin PDZ 12. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynefin fydd yn cael ei golli yn y pen draw o ganlyniad i wasgfa arfordirol wrth i'r arfordir erydu'n naturiol heb effeithio, felly, ar safleoedd glanio'r morlo. At ei gilydd, ni fydd arwynebedd yr aber yn lleihau o ganlyniad i bolisïau CRhT2 gan gynnal adnoddau bwyd y morloi. Gall safleoedd glanio gael eu herydu lle maent yn y parth rhynglanwol a gall gwasgfa arfordirol beri bod colled gyffredinol o safleoedd glanio yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn ystod pob cyfnod. Fodd bynnag bydd hyn yn debygol newid maint safleoedd glanio ac nid i nodweddion y safleoedd (e.e. tarfu ac ati). Felly nid oes disgwyl effaith andwyol.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn							
Twyni symudol elfennol	Amherthnasol	• Maint y twyni symudol elfennol • Cyflwr y twyni symudol elfennol: cyfansoddiad rhywogaethau	• Bod cyfanswm maint y twyni symudol elfennol gan gynnwys yr ardaloedd hynny sy'n cael eu hystyried yn anffafriol neu wedi diraddio ar hyn o bryd yn cael ei gadw i'r arwynebedd oedd yno ar adeg y dynodiad. • Y dylai llinell y forlan a phlanhigion cynnar y twyni fod o rywogaethau nodweddiadol a restrir yn y tabl isod. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir</u> Mae Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yn un o ddau safle a ddewiswyd yng Ngogledd Cymru. Mae twyni symudol elfennol yn digwydd fel parthau cul hir yn bennaf ym Morfa Harlech. Cofnodwyd planhigion twyni symudol clymwellt *Leymus arenarius* a marchwellt y twyni *Elytrigia juncea*, ond yr ail yw'r helaethaf o'r ddau o bell ffordd. Mae twyni tywod yr ACA hon yn PDZ 12 yn Uned Bolisi 12.7 ac yn rhannol yn Uned Bolisi 12.1 ac i raddau llai yn Uned Bolisi 12.8. Polisi dewisol Uned Bolisi 12.7 a 12.1 yw NAI fyddai'n gadael i'r twyni ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr – ac ni fyddai unrhyw golled o ganlyniad i erydiad o ganlyniad i bolisi CRhT2. Mae'r polisi HTL yn 12.8 (rhan o Uned Bolisi 12.8) yn ofynnol i gynnal yr arglawdd rholio sydd heb fod yn gysylltiedig yn gorfforol â'r gyfundrefn dwyni. Mae'r amddiffynfa hon yn cwmpasu llai na hanner Uned Bolisi 12.8 ac yn bennaf mae wrth gefn cynefin morfa heli a rhostir, ac ni fydd yn effeithio ar symudiad gwaddodion i mewn neu allan o'r gyfundrefn dwyni dros 2km tua'r gorllewin. Felly ni fydd y polisi HTL yn Uned Bolisi 12.8 yn cael effaith andwyol ar y twyni tywod.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag *Ammophila arenaria* (`twyni gwynion`)	Amherthnasol	• Maint y twyni symudol • Cyflwr y twyni symudol: cyfansoddiad rhywogaethau	• Mae cyfanswm arwynebedd y twyni symudol gan gynnwys yr ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn anffafriol neu wedi diraddio ar hyn o bryd yn cael ei gadw i'r hyn oedd pan ddynodwyd, tua 18.9 ha ym Morfa Harlech, a ddylai fod yn bresennol ar hyd crib y twyn tua'r môr a thua'r tir yn unedau 1, 3, 4 a 5 ac o leiaf 82ha o dwyni symudol ym Morfa Dyffryn a ddylai fod wedi'i ddosbarthu drwy unedau 28, 27, 26, 24, a 23 i gyd. • Dylai'r twyni symudol fod dan dyfiant rhywogaethau yn ôl y tabl isod. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Mae Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yn un o ddau safle a ddewiswyd yng Ngogledd Cymru i gynrychioli trwyni symudol ar hyd y draethlin gydag *Ammophila arenaria*. Mae ar gyffordd dwy gyfundrefn gludiant gwaddod morol o bwys ac, o ganlyniad, mae'n enghraifft ragorol o ailgronni gweithredol. Felly, mae twyni symudol yn helaeth ac yn arbennig o aeddfed ym Morfa Dyffryn. Ymhlith rhywogaethau nodedig a gofnodwyd yma mae tafod y bytheiad *Cynoglossum officinale* a rhonwellt y tywyn *Phleum arenarium*. *Mae'r effeithiau all ddigwydd yr un fath â thwyni symudol elfennol uchod.*			
Twyni gyda *Salix repens* ssp. *argentea* (*Salicion arenariae*)	Amherthnasol	• Maint • Cyfansoddiad rhywogaethau'r llaciau twyni • Cyflwr y llaciau twyni	• Cynnal cyfanswm maint y llaciau twyni llaith a thwyni gyda *Salix repens* gan gynnwys yr ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn anffafriol neu wedi diraddio ar hyn o bryd yn yr ardal oedd yno ar adeg ei dynodi, rhyw 65.1ha ym Morfa Harlech a 43.6ha ym Morfa Dyffryn. • Dylai holl gyfnodau olynol planhigion llaciau twyni fod yn bresennol ym Morfa Dyffryn. • Dylai'r llaciau twyni llaith fod dan dyfiant gyda rhywogaethau nodweddiadol a dewisol fel y rhai yn y tabl isod. • Dylai planhigion llaciau twyni fod yn rhydd o brysgwydd a glaswellt cymharol fyr. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir</u> Ym Morfa Harlech a Morfa Dyffryn mae cylchoedd cymharol helaeth o dwyni gyda *Salix repens* ssp. *argentea* a maswellt penwyn *Holcus lanatus*, yn enwedig yn rhai o rannau hŷn y gyfundrefn, ymhellach tua'r tir. Yn ogystal, mae dwy gymuned llaciau twyni eraill yn cynnal corhelyg. *Mae'r effeithiau all ddigwydd yr un fath â thwyni symudol elfennol uchod.*			
Llaciau twyni llaith	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yw un o ddau safle cynrychiadol o blanhigion llaciau twyni yng Ngogledd Cymru. Cofnodwyd enghreifftiau o dair gwahanol gymuned llaciau twyni llaith yn y gyfundrefn. Mae planhigion llaciau twyni gyda dail arian *Potentilla anserina* a hesg cyffredin *Carex nigra* yn aeddfed arbennig. *Mae'r effeithiau all ddigwydd yr un fath â thwyni symudol elfennol uchod.*			

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Llysiau'r afu *Petalophyllum ralfsii*	Llaciau Twyni	• Dosbarthiad a maint y boblogaeth. • Cyflwr y cynefin.	• Bydd poblogaeth *Petalophyllum* yn aros yn sefydlog neu'n cynyddu. • Dylai *Petalophyllum* fod yn bresennol ym Morfa Harlech ac wedi'i ddosbarthu ar draws rhan ogleddol cyfundrefn twyni tywod Morfa Dyffryn (Unedau 26 a 28). • Dylai'r llaciau twyni ifanc olynol sy'n cynnal y Petalophyllum fod mewn cyflwr da ar sail diffiniad amcan cadwraeth nodweddion 3 a 4 uchod. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Cofnodwyd llysiau'r afu *Petalophyllum ralfsii* mewn llaciau twyni yn y ddwy gyfundrefn twyni ar y safle hwn; mae'n digwydd amlaf ym Morfa Dyffryn. *Mae'r effeithiau all ddigwydd yr un fath â thwyni symudol elfennol uchod.*			
ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion							
Hen goedydd derw mes digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain	Amherthnasol	• Maint y coetir llydanddail a chynefinoedd cysylltiedig • Lleoliad mathau o goetir • Gorchudd canopi coed • Haen canopi a llwyni • Aildyfu coed a llwyni brodorol • Haen lawr • Mwsoglau, llysiau'r afu, cennau a ffyngau llysnafeddog cyffredin • Mwsoglau, llysiau'r afu, cennau a ffyngau llysnafeddog anghyffredin • Coed aeddfed / hynafol • Pren marw	• Rhaid cynnal cyfanswm arwynebedd y coetir, gan gynnwys canopi a phrysgwydd, llennyrch a rhostir sych cysylltiedig, rhedyn ungoes a glaswelltir fel y nodwyd ar fapiau, gwelwch atodiad 2, rhyw 1826ha fel cyfanswm. • Bydd lleoliad gwahanol nodweddion yr ACA coetir, fel sy'n cael ei restru yn y teitl uchod, yn cael ei ddangos yn Atodiad 2. Mae dosbarthiad y cymunedau coetir hyn yn adlewyrchiad o ffurf y tir, priddoedd, daeareg ac agwedd yn bennaf ac yn annhebygol o newid. • Rhaid i ganran gorchudd y canopi coed yn ardal goetir yr ACA gyfan (gwelwch y mapiau yn Atodiad 2) fod yn ddim llai na 80%, lle mae cysgod brigdyfiant presennol yn 87% (ac eithrio digwyddiadau trychinebus naturiol). Bydd cysgod brigdyfiant rhai unedau'n llai sy'n dderbyniol ond bod hyn yn ddigon i ddiogelu'r cynefin, nodweddion a diddordeb arbennig. • Rhywogaethau brodorol yn lleol yw'r canopi a'r haen lwyni. Mae'r rhywogaethau perthnasol i bob nodwedd coetir yr ACA yn Nhabl 2. • Bydd digon o aildyfiant naturiol o goed a llwyni brodorol yn lleol i gynnal canopi a haen lwyni'r coetir, trwy lenwi bylchau a chaniatáu recriwtio coed ifanc, ac annog strwythur oedran amrywiol. • Bydd rhywogaethau haen lawr nodweddiadol pob nodwedd ACA coetir yn gyffredin, yn ôl Tabl 2. Yn y rhan fwyaf o'r ACA coetir mae'n bwysig nad yw'r llystyfiant yn mynd yn rhy drwchus gydag uchder uwchlaw 40cm a/neu dan ddylanwad rhywogaethau fel mieri, eiddew a chelyn ifanc. Fe all fod cyfyngiadau fesul uned neu adran. • Bydd digonedd a dosbarthiad mwsoglau a llysiau'r afu, cennau (a ffyngau llysnafeddog) cyffredin a nodweddiadol (Iwerydd, is-Iwerydd, gorllewinol, cefnforol), yn cael ei gynnal neu gynyddu, gan gyfeirio at y rhestri arwyddol yn Nhablau 3 a 4. • Bydd digonedd a dosbarthiad mwsoglau a llysiau'r afu, cennau a ffyngau llysnafeddog anghyffredin, yn cael ei gynnal neu gynyddu gan gyfeirio at restri arwyddol yn Nhablau 5 a 6 yn Atodiad 3. • Bydd gwasgariad o 5 coeden aeddfed yr hectar o fewn y canopi coed presennol neu barcdir, hynny yw coed gyda thryfesur o ryw 60cm ynghyd ag ar gyfer deri ac ynn a/neu gydag arwyddion dirywiad, tyllau ac ati. Yn y tymor hwy, erbyn 2060 dylai fod 1 coeden hynafol yr hectar hynny yw coed gyda thryfesur o ryw 100cm ynghyd ag ar gyfer deri ac ynn a bedw 75cm. • Bydd cyfaint pren marw'n fwy na 30 metr ciwbig yr hectar ym mhobman gan gynnwys cymysgedd o goed wedi cwympo (lleiafswm o 1 yr hectar), canghennau wedi torri, canghennau marw ar goed byw, a choed marw ar eu traed (lleiafswm o 1 yr hectar). Ar hyn o bryd mae cyfeintiau pren marw'n gymharol isel oherwydd bod strwythur oedran y coetiroedd, yn gyffredinol, yn unffurf gyda diffyg coed aeddfed a phrinder pren marw oherwydd rheoli coedwrol yn y gorffennol. Mae rhai planhigion is yn arbenigwyr pren marw ond mae'r coetiroedd hyn yn tueddu i fod heb y casgliad anifeiliaid di-asgwrn-cefn pren marw prin sydd i'w gael yn rhannau eraill y DU. • Ni fydd rhywogaethau estron ymosodol fel rhododendron, llysiau'r cythraul a Jac y neidiwr yn bresennol. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Ymwthiad halwynog:</u> Mae Coedydd Derw Meirionnydd yn enghraifft fawr iawn o hen goedydd derw mes digoes yng Ngogledd Cymru, gyda phlanhigion Iwerydd eithriadol o'r bryoffytau a chennau. Ymhlith rhywogaethau bryoffyt nodedig mae *Sematophyllum demissum* sydd mewn perygl a *Campylopus setifolius* a *Leptoscyphus cuneifolius* sy'n anfynych ledled y wlad. Mae'r coedydd – yn bennaf o dderi mes digoes *Quercus petraea* gyda phlanhigion daear asidaidd – yn ymestyn ar hyd cyfres o gymoedd cydgysylltiedig, gydag amrywiaeth eang o lethrau ac agweddau, ac mae'n cynnwys llawer o hafnau a cheunentydd cul. Mae rheolaeth yn amrywiol, gan gynnwys ardaloedd yn cael eu pori a heb eu pori, a chellïoedd yn cael eu rheoli'n goedwigwrol, neu gydag ymyriad lleiaf. Mae'r amrywiaeth eang hon o amgylchiadau amgylcheddol, topograffig a rheoli'n cyfrannu at amrywiaeth fiolegol fawr y safle eithriadol hwn. Mae'r coedydd yn ymestyn i ACAy cyfagos y Rhinog. Yn ôl pob tebyg mae Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd yn cynnwys yr ardal fwyaf eang o goedwig lifwaddodol wern *Alnus glutinosa* yng Ngogledd Cymru. Mae'r coetir ar orlifdir dynamig, yn caniatáu aildyfu a dirywio cylchol o gellïoedd gwern, a datblygu adeiledd naturiol, yn llawn pren marw. Mae planhigion daear toreithiog, gyda rhywogaethau planhigion nodedig gan gynnwys cronnell *Trollius europaeus* a Siani lusg *Lysimachia nummularia*. Mae'r coetir yn digwydd mewn brithwaith gyda chorstir llawn rhywogaethau a glaswelltir gwlyb, ac yw gysylltiedig â chellïoedd o hen goedydd derw mes digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain. Mae'r safle hefyd yn bwysig i adar dŵr. Yr Uned Bolisi agosaf at yr ACA hon yw Uned Bolisi 12.11 gyda pholisi dewisol MR yn y cyfnod cyntaf a NAI yn y ddau gyfnod olaf. Fodd bynnag, mae'r modelu maint llifogydd neu erydiad 100 mlynedd wedi dangos na fydd unrhyw effaith ar gyfanrwydd yr ACA hon a deilliodd cyfrifiadau na fydd dim cynefin yn cael ei golli o'r ACA hon yn PDZ 12. Fodd bynnag, mae perygl, er un bach, y gallai tarfu yn ystod gweithredu'r polisi MR yn Uned Bolisi 12.11 effeithio ar nodweddion yr ACA (naill ai gynefinoedd neu rywogaethau) allai beri tangyflawni byrdymor o amcanion cadwraeth y safle.	Ar lefel cynllun, rhaid llunio'r polisi MR i osgoi colli neu darfu trwy adeiladu ar nodwedd neu rywogaethau'r cynefin coetir / gweundir yn y Safle, a'i fod yn peri llifogydd sensitif a naturiol i unrhyw gynefin yn hytrach na phresenoldeb neu godi adeileddau.	Am nad yw'r Uned Bolisi 12.11 o fewn y Safle, y disgwyl yw bod posibilrwydd da o lwyddiant llawn wrth atal ac osgoi unrhyw darfu ar y Safle a'i nodweddion ac, felly, nid oes dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Coedwigoedd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* (*Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion albae*)	Amherthnasol						

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda'r planhigion *Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion*	Amherthnasol	• Maint • Dosbarthiad • Rhywogaethau nodweddiadol • Rhywogaethau annerbyniol ac estron	• Dylai maint cynefin afon addas lle gall y Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion ddigwydd fod yn sefydlog yn ôl y map yn Atodiad 2. • Dylai dosbarthiad presennol (anhysbys) y *Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion* fod yn sefydlog neu'n cynyddu. • Gall yr afon gyda phlanhigion nofiol fod yn dan ddylanwad rhywogaethau crafanc y dŵr, fel arfer *Ranunculus fluitans*, (ond ni chofnodwyd y rhywogaeth hon ym Meirionnydd), *Callitriche stagnalis* a bryoffytau. • Dylai rhywogaethau sy'n dangos arwyddion cyflwr anffafriol ar gyfer y nodwedd hon e.e. algâu edefynnaidd cysylltiedig ag ewtroffigedd a rhywogaethau estron ymosodo, fod yn absennol neu islaw trothwy derbyniol, yn arwyddo statws ecolegol uchel, yn yr ACA. Caiff y nodwedd hon ei hystyried ymhellach dan ffactorau. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth				
Rhostiroedd gwlyb gogledd Iwerydd gydag *Erica tetralix*	Amherthnasol		Ni nodwyd amcanion cadwraeth yn y Cynllun Rheoli Craidd				
Rhostiroedd sych Ewropeaidd	Amherthnasol	• Maint y rhostir sych • Dosbarthiad y rhostir sych • Cyfansoddiad llystyfiant • Strwythur gweundir • Rhywogaethau estron	• Rhaid cynnal cyfanswm arwynebedd y rhostir sych, tua 21ha. • Bydd dosbarthiad y rhostir sych o leiaf sy'n cael ei ddangos ar fap y Cynllun Rheoli Craidd. • Bydd rhywogaethau nodweddiadol ac anghyffredin y cymunedau llystyfiant sy'n ffurfio'r rhostir sych yn aml a thoreithiog, yn ôl Tabl 8. • Dylid cynnal ac adfer strwythur y rhostir, i ddangos aildyfiant naturiol trwy frigblannu a hadu, a sicrhau bod y cymunedau llystyfiant cydrannol yn naturiol amrywiol (dylid cyfeirio hefyd at 3 uchod). • Ni fydd rhywogaethau estron ymosodo fel conwydd, rhododendron, llysiau'r cythraul a Jac y neidiwr yn bresennol. • Yn gyffredinol bydd y rhostir yn rhydd o goed a bod â dim ond ychydig unigolion fan bellaf ar drwch o ddim mwy na 2 yr hectar. Eithriadau i'r rheol hon yw parthau trosiannol o goetir i weundir lle gall coed fod yn fwy trwchus yn graddio i rostir agored. Dylid pennu cyfyngiadau ar barthau coetir trosiannol ar sail uned neu is-uned. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.				
Ystlum pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros*	Hen goedydd derw mes digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain. Coedwigoedd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* (*Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion albae*). Coedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a cheunentydd.	• Poblogaeth ystlumod pedol lleiaf • Clwydfannau • Cynefin porthi neu fwydo • Cyrhaeddiad y boblogaeth	• Dylid cynnal maint presennol poblogaeth ystlumod pedol lleiaf a'i hannog i gynyddu lle bo modd. Yn Nhabl 7 mae crynodebau o gyfrifon poblogaeth mewn safleoedd clwydo cofnodedig a mapiau yn Atodiad 4, yn dangos lleoliadau'r clwydi. Oherwydd y bu niferoedd ystlumod pedol lleiaf yn tueddu i gynyddu yng Nghymru mae'n rhesymol disgwyl i boblogaeth Gwynedd gynyddu. • Mae clwydi magu digonol (adeiladau, adeileddau a choed) a chlwydi gaeafgysgu (mwyngloddiau ac adeiladau) o ansawdd priodol. Dylid cynnal y mathau eraill o glwyd fel safleoedd nos, dros dro, paru a heidio, hefyd gan fod ein gwybodaeth yn gwella am y clwydi hyn sy'n arwyddocaol yn aml. • Mae cynefin porthi neu fwydo yn yr ACA a'r wlad oddi amgylch, gan gynnwys porfeydd a rhai gerddi, o ansawdd, maint a chysylltedd priodol ar hyd a lled y cyrhaeddiad. • Mae cyrhaeddiad y boblogaeth yn yr ACA / Gwynedd yn sefydlog neu'n cynyddu. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Ymwthiad halwynog:</u> Mae'r safle cyfansawdd mawr hwn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r clwydi magu hysbys ym Meirionnydd a rhai gaeafleoedd, ac mae'n cynnwys canolfan ddosbarthiad ystlumod pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros* yng Nghymru. Mae dyffrynnoedd cysgodol yr afonydd yn darparu gorchudd rhagorol o goed a chlwydi magu addas niferus. Nid oes disgwyl y bydd polisïau'r CRhT yn effeithio'n sylweddol ar gynefin yr ystlum pedol lleiaf. Mae arwynebedd yr ACA ar bwys ardaloedd sydd â pholisïau'r CRhT yn berthnasol iddynt yn fach mewn cymhariaeth â maint cynefin yr ACA at ei gilydd. Am nad yw cynefin cynhaliol yr ystlum yn cael ei golli o ganlyniad i'r polisïau yn PDZ 12, ni fydd unrhyw effaith ar yr ystlumod, er y gall fod tarfu byrdymor yn ystod gweithredu polisi MR.			

Helaethiad B – Tablau Asesu CRhT2 Gorllewin Cymru ar Safleoedd Natura 2000

Tabl 13: PDZ 13 – Baeau De Llŷn: Penychain i Drwyn Cilan

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau							
Ponciau tywod dan ychydig o ddŵr y môr	Amherthnasol	• Cyrhaeddiad • Adeiledd a swyddogaeth	<u>Adeiledd a swyddogaeth</u> Nid yw'r strwythur a swyddogaethau ffisegol, biolegol a chemegol angenrheidiol i gynhaliaeth ac ansawdd hirdymor y cynefin yn cael eu diraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae: • daeareg • gwaddodeg • geomorffoleg • hydrograffeg môr a meteoroleg • cemeg dŵr a gwaddod • rhyngweithiadau biolegol. Mae hyn yn cynnwys gofyn bod lefel maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion fel a ganlyn: • ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol. • o fewn amrediadau nad ydynt yn debygol o fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd, eu cyflenwad a chyrhaeddiad. • Halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol i fod: – ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol. – islaw lefelau a allai beri cynnydd mewn crynoadau halogyddion mewn gwaddodion neu fywyd. – islaw'r hyn a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor y nodweddion, rhywogaethau, poblogaethau, eu cyflenwad neu gyrhaeddiad. • O ran dolydd heli Iwerydd mae hyn yn cynnwys morffoleg ceinciau a phantiau'r morfa heli. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran nodwedd yr aberoedd bod strwythur a swyddogaethau'r aberoedd a niweidiwyd /	Dim yn PDZ 13.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Aberoedd	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau mae enghreifftiau cynrychiadol o aberoedd bar-adeiledig yng ngogledd-orllewin Cymru, ac mae'n cynnwys aberoedd Glaslyn a Dwyryd, Mawddach a Dyfi. Nid oes unrhyw gynefin aberol dynodedig yn PDZ 13.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Morlynnoedd arfordirol (Nodwedd flaenoriaethol)	Amherthnasol			<u>Ymwthiad halwynog:</u> Nid yw nodwedd flaenoriaethol yr ACA hon yn PDZ 13 ac, felly, nid oes disgwyl i ddewisiadau polisi yn y PDZ hwn effeithio arni.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Cilfachau a baeau mawr bas	Amherthnasol		ddiraddiwyd oherwydd cyfyngiadau adeileddau dynol fel argloddiau llifogydd, yn cael eu hadfer. <u>Rhywogaethau nodweddiadol</u> Presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth rhywogaethau nodweddiadol fel nad yw ansawdd y cynefin wedi'i ddiraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae: • cyfoeth rhywogaethau • strwythur a dynameg poblogaeth • iechyd ffisiolegol • gallu atgenhedlol • denu • symudedd • cyrhaeddiad Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi: • bod angen i gyflenwad boblogaethau o rywogaethau nodweddiadol sy'n destun pysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicr yn y pen draw • bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd cynefin yn briodol i'w gynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran nodwedd y creigresi nad yw'r gallu i ehangu cymuned y gragen ddilyw *Modiolus modiolus* oddi ar arfordir gogledd Llŷn yn cael ei atal.	Ffurfiwyd gwely môr Bae Tremadog ar ochr ddeheuol Pen Llŷn, gogledd-orllewin Cymru, o frithwaith o wahanol fathau o waddod, sy'n cynnal cymysgedd amrywiol o gymunedau planhigion ac anifeiliaid. Mae Bae Tremadog yn cwmpasu PDZ 13 i gyd. Mae'r dewisiadau rheoli ym Mae Tremadog yn cynnwys NAI, HTL a MR. Bydd NAI ym mhentir Porth Ceiriad ac Ynys Tudwal (Uned Bolisi 13.16 i 13.19) yn gadael i'r arfordir ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr a pheri erydu naturiol (0.7ha yn ystod y tri chyfnod), a ffynhonnell naturiol o ddeunydd i'r arfordir. Bydd HTL yn Unedau Polisi 13.2 (y cyfnod cyntaf); 13.3, 13.4, 13.5, 13.6 (pob cyfnod); 13.7, 13.11, 13.12 (y cyfnod cyntaf); 13.13 (pob cyfnod); 13.14 a 13.15 (y cyfnod cyntaf) yn cyfyngu'r cynefin rhynglanwol ac yn peri newid yn strwythur y nodwedd cilfachau a baeau bas, er y gall leihau rhai o'r cydrannau, a chynyddu eraill. At ei gilydd byddai'r newid yn digwydd yn y ddau gyfnod olaf ac yn gysylltiedig ag Uned Bolisi 13.6 yn bennaf, fyddai'n peri tangyflawni'r amcanion cadwraeth ar gyfer y nodwedd hon.	Nid oes angen dim	Colli strwythur cilfachau a baeau bas ac, o ganlyniad, peidio â chyflawni amcanion cadwraeth y nodwedd.	Na

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Creigresi	Amherthnasol		Cyrhaeddiad Dosbarthiad a maint nodweddion cynefin safle at ei gilydd, a phob un o'u prif gydrannau'n sefydlog neu'n cynyddu. O ran nodweddion y creigresi mae'r rhain yn cynnwys: • Creigresi rhynglanwol. • Creigresi islanwol. • Creigresi clogfeini a cherrig crynion helaeth – y sarnau. • Creigresi biogenig (creigres cregyn dilyw *Modiolus modiolus* / creigres *crenella Musculus discors* gwyrdd a chreigres llyngyr diliau *Sabellaria alveolata*. • Creigres garbonad a ffurfiwyd o nwy methan yn gollwng o wely'r môr.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Mae darnau o greigresi islanwol yn PDZ 13; nid oes unrhyw greigresi rhynglanwol yno. Y creigresi islanwol yn PDZ 13 yw creigresi creigwely a chreigresi biogenig, gyda chreigresi islanwol ger y lan yn Unedau Polisi 13.6, 13.7, 13.8, 13.9, 13.10, 13.16, a 13.19. Mae creigresi rhynglanwol yn Unedau Polisi 13.3, 13.8, 13.9, 13.16, 13.18, a 13.19. Bydd polisi NAI (13.1; 13.9, 13.10, 13.16, 13.17, 13.18, a 13.19) yn gadael i'r clogwyni sydd wrthi'n erydu ddal i erydu, gan gyflenwi gwaddod i'r blaendraeth uchaf fel na fydd cynnydd yn lefel y môr yn lleihau maint y greigres rynglanwol ac islanwol. Bydd y cyflenwad gwaddod hefyd yn cynyddu maint y creigresi islanwol yn y pen draw. Mae polisïau HTL ar hyd blaendraeth creigiog 13.6, 13.7, 13.8, 13.13, 13.14 a 13.15. Gan fod tir uchel yn cyfyngu'r blaendraeth creigiog yn Unedau Polisi 13.13, 13.14 a 13.15 bydd blaendraeth rhynglanwol yn cael ei golli'n naturiol ac nid o ganlyniad i bolisi CRhT2, tra bo cyfyngiad naturiol eisoes ar y cyflenwad gwaddod i'r creigresi islanwol. Ar ben hynny, o dderbyn HTL yn y cyfnod cyntaf yn Unedau Polisi 13.7 a 13.8, nid yw'n amlwg y bydd cynefin rhynglanwol yn cael ei golli yn y tyniadau GIS o dderbyn y cynnydd cyfyngedig yn lefel y môr a'r symudiad sydd ar gael y parth rhynglanwol isaf a chanol. Mae HTL ar gyfer yr holl gyfnodau yn Uned Bolisi 13.3 yn digwydd ar y lan uchaf ac, o dderbyn bod y greigres rynglanwol ar y lan isaf ac nad oes ddisgwyl i gyfyngiad y lan uchaf gyfyngu ar y lan isaf, bydd y greigres yn gallu ymateb i gynnydd yn lefel y môr trwy fudo tua'r tir o fewn y parth rhynglanwol. O ganlyniad nid oes cyfyngiad i'w ddisgwyl. Nid oes unrhyw greigresi yn Unedau Polisi 13.2, 13.4, 13.5, 13.11, 13.12, 13.13, 13.14 a 13.15 ac, felly, nid oes disgwyl i bolisïau yn yr unedau hyn beri colli unrhyw gynefin greigres rynglanwol neu islanwol na newidiadau i gyflenwad gwaddod i greigresi islanwol. Yn y pen draw byddai MR fel y polisi dewisol yn Unedau Polisi 13.7, 13.8, 13.11, 13.12, 13.14 a 13.15 yn sicrhau na fyddai gwasgfa arfordirol yn broblem, oherwydd y bydd cynefin creigres (pa un ai yw'n bresennol neu beidio) yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr ac, yn y byrdymor i hirdymor, ac ni fydd maint y cynefin creigres islanwol yn gostwng.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai	Amherthnasol		Cyrhaeddiad O ran y nodwedd **gwastadedd llaid a gwastadedd tywod rhynglanwol** mae'r rhain yn cynnwys: • *Mya arenaria a mwydod gwrychog mewn gro lleidiog*. • Gwellt y gamlas culddail Zostera gwelyau marina. • Cafnau lleidiog yn aber Afon Mawddach. O ran y nodweddion Salicornia mae hyn yn cynnwys: • Cymunedau a nodweddwyd gan y rhywogaeth *Sarcocornia perennis*. • O ran y nodweddion gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol a phonciau tywod mae hyn yn gofyn sefydlogrwydd at ei gilydd neu gynnydd ym maint y nodwedd, gan ystyried ardaloedd o sefydlogrwydd hirdymor a cholledion ac ychwanegiadau lleol yn deillio o brosesau amgylcheddol. • O ran aberoedd mae hyn yn cynnwys sefydlogrwydd gwaddodion tywodlyd yn gymesur â'r gwaddodion lleidiog. • Adfer ac adennill. • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran y nodwedd aberoedd dylid adfer tir ychwanegol a ddylai ffurfio rhan annatod o'r ecosystem aberol.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Darnau mawr o draethau (gwastadeddau tywod) yw mwyafrif morlin PDZ 13. Bwriadwyd NAI ar gyfer darnau o glogwyni'n nodweddiadol ar y pentir (Uned Bolisi 13.10) ac ardaloedd o wastadeddau tywod (Uned Bolisi 13.9 ac Uned Bolisi 13.1) a fydd yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr. Bydd HTL ar hyd gweddill yr arfordir yn peri gwasgfa arfordirol o'r gwastadeddau tywod. Fodd bynnag, nid yw terfyn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ond yn ymestyn at farc MLW y gwastadeddau tywod yn Unedau Polisi 13.6, 13.7, 13.8, 13.9 a 13.18. Bwriadwyd y polisïau HTL yn unig yn Uned Bolisi 13.6 (pob cyfnod) a 13.7 a 13.8 (y cyfnod cyntaf) gyda MR yn yr arfaeth ar gyfer y ddau gyfnod olaf. Ni nodwyd colli dim cynefin yn y cyfnod cyntaf oherwydd HTL yn Uned Bolisi 13.6; 13.7, a 13.8. Yn Uned Bolisi 13.6, gallai'r polisi HTL yn yr ail gyfnod beri colli hyd at **1.19ha** o wastadedd tywod rhynglanwol ac, yn ystod y trydydd cyfnod, gellid colli hyd at **0.8ha** o wastadedd tywod. Ar waethaf polisi dewisol HTL ar hyd mwyafrif yr arfordir, cyfyngedig yw colled cynefin rhynglanwol o ganlyniad i bolisi HTL yn Uned Bolisi 13.2; 13.7, 13.8, 13.11, 13.12, 13.14, a 13.15 yn y cyfnod cyntaf; Unedau Polisi 13.3, 13.4, 13.5 13.6, 13.13 ar gyfer yr holl gyfnodau. Mae'r golled fwyaf sylweddol o gynefin rhynglanwol yn Uned Bolisi 13.5 (canol Harbwr Pwllheli) ac mae'r Uned Bolisi hon, ynghyd ag eraill lle rhagwelir colled, oddi allan y ffiniau'r safle.	None Identified	Byddai colli nodwedd gwastadedd tywod rhynglanwol yn y safle o ganlyniad i HTL yn Uned Bolisi 13.6 yn peri effaith andwyol.	Na
Salicornia a phlanhigion unflwydd yn cytrefu llaid a thywod	Amherthnasol						
Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*)	Amherthnasol		Adeiledd a swyddogaeth Nid yw'r strwythur a swyddogaethau ffisegol, biolegol a chemegol angenrheidiol i gynhaliaeth ac ansawdd hirdymor y cynefin yn cael eu diraddio. O ran dolydd heli Iwerydd mae hyn yn cynnwys morffoleg ceinciau a phantiau'r morfa heli.	Dim yn bresennol yn PDZ 13.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Ogofâu môr dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr	Amherthnasol		Fel yr uchod ar gyfer holl nodweddion.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Dim ond un lleoliad a nodwyd gydag ogofâu môr yn PDZ 13, ar Ynysoedd Tudwal (Uned Reoli 13.17). Y polisi dewisol ar gyfer 13.17 yw NAI lle gall y clogwyni erydu'n naturiol mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr a allai beri colli cynefin ogof – fodd bynnag, bydd ogofâu newydd yn cael eu creu fel rhan o'r broses naturiol. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 13.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon.*	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Dolffin trwynfawr *Tursiops truncates*	• Aberoedd • Cilfachau a baeau mawr bas	• Poblogaethau • Cyrhaeddiad • Cynefinoedd cynhaliol a rhywogaethau	<u>Poblogaethau</u> Mae'r boblogaeth yn cynnal ei hun dros gyfnod hir fel cydran hyfyw o'i chynefin naturiol. Elfennau pwysig yw maint y boblogaeth, strwythur, cynhyrchiad, a chyflwr y rhywogaeth yn y safle. Fel rhan o'r amcan hwn, dylid nodi: • o ran y dolffin trwynfawr, y dyfrgi a'r morlo llwyd; bod beichiau halogyddion yn deillio o weithgaredd dynol islaw lefelau all beri niwed ffisiolegol, neu atal imiwnedd neu atgenhedlu. • na ddylid lleihau poblogaethau morlo llwyd o ganlyniad i weithgaredd dynol. Cyrhaeddiad Mae poblogaeth y rhywogaeth yn y safle'n ddigon fel nad yw amrediad naturiol y boblogaeth yn gostwng nac yn debygol o ostwng hyd y gellir rhagweld. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi o ran y dolffin trwynfawr, y dyfrgi a'r morlo llwyd: • nad yw eu cyrhaeddiad yn yr ACA ac ardaloedd cydgysylltiedig cyfagos yn cael ei gyfyngu na'i rwystro. • bod adnoddau bwyd priodol a digonol yn yr ACA a thu hwnt. • bod y safleoedd a maint y cynefin cynhaliol sy'n cael eu defnyddio gan y rhywogaethau hyn yn hygyrch a'u maint ac ansawdd yn sefydlog neu'n cynyddu. Cynefinoedd a rhywogaethau cynhaliol Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau sydd eu hangen i gynnal y rhywogaeth hon fel bod dosbarthiad, digonedd a dynameg poblogaethau'r rhywogaeth yn y safle a phoblogaeth y tu hwnt i'r safle'n sefydlog neu'n cynyddu. Ymhlith ystyriaethau pwysig mae; • dosbarthiad • maint • strwythur • swyddogaeth ac ansawdd y cynefin • ysglyfaeth sydd ar gael a'r ansawdd. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; • Bod angen i ddigonedd rhywogaethau ysglyfaethus yn amodol ar bysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicrwydd yn y pen draw. • bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd rhywogaeth yn briodol i'w chynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw. • Y dylai halogiad rhywogaethau ysglyfaethus tebygol fod islaw crynoadau a allai fod yn niweidiol i'w hiechyd ffisiolegol. • Bod tarfu trwy weithgaredd dynol islaw lefelau sy'n atal llwyddiant atgenhedlol, iechyd ffisiolegol neu ymddygiad hirdymor. • O ran y dyfrgi bod ffynonellau digonol yn yr ACA a thu hwnt o ddŵr croyw o safon ar gyfer yfed ac yn ymdrochi. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi o ran y dolffin trwynfawr a dyfrgi, y dylai poblogaethau fod yn cynyddu.	Ni fyddai disgwyl i bolisïau'r CRhT gael effaith ar gyfanrwydd yr ACA na phresenoldeb y dolffin trwynfawr yno. Ni fydd polisïau'r CRhT yn peri gostyngiad yn arwynebedd neu faint y cynefin aber neu gilfach / bae sy'n cynnal poblogaeth y dolffiniaid ac, felly, daethpwyd i gasgliad na fydd unrhyw effaith andwyol.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Dyfrgi *Lutra lutra*	• Aberoedd • Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Darnau mawr o draethau (gwastadeddau tywod) yw mwyafrif morlin PDZ 13, gyda'r polisi rheoli dewisol yn HTL neu MR at ei gilydd. Bwriadwyd NAI ar gyfer ardaloedd o glogwyni'n nodweddiadol ar y pentir (Uned Bolisi 13.10) ac ardaloedd o wastadeddau tywod (Uned Bolisi 13.9 ac Uned Bolisi 13.1) a fydd yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr. Gall fod gwasgfa arfordirol sylweddol a cholli cynefin traeth i'w gweld yn Nhraeth y De (PU13.6) i Draeth Crugan (Uned Bolisi 13.8) Nid yw'r aber ac Afon Soch yn rhan o'r ACA hon – felly nid oes disgwyl i'r dewisiadau polisi arfaethedig fae yn effeithio ar gyfanrwydd cynefin y dyfrgwn. At ei gilydd, ni fydd arwynebedd yr aber yn cael ei leihau o ganlyniad i bolisïau CRhT2 gan gynnal adnoddau bwyd y dyfrgwn. Fodd bynnag, bydd cynefin rhynglanwol yn cael ei golli yn yr aber.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Morlo llwyd *Halichoerus grypus*	• Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai			Mae bron 40% (tua 125,000) o boblogaeth morloi llwydion y byd i'w cael yn Ynysoedd Prydain, gyda phoblogaeth gymharol sefydlog o ryw 6,000 yng Nghymru. Gall gwasgfa arfordirol beri colled gyffredinol o safleoedd glanio yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn ystod pob cyfnod. Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: mae gwasgfa arfordirol sylweddol a cholli cynefin traeth i'w gweld yn Nhraeth y De (PU13.6) i Draeth Crugan (Uned Bolisi 13.8). At ei gilydd, ni fydd arwynebedd yr aber yn lleihau o ganlyniad i bolisïau CRhT2 gan gynnal adnoddau bwyd y morloi. Gall safleoedd glanio gael eu herydu lle maent yn y parth rhynglanwol a gall gwasgfa arfordirol beri bod colled gyffredinol o safleoedd glanio yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn ystod pob cyfnod. Fodd bynnag bydd hyn yn debygol newid maint safleoedd glanio ac nid i nodweddion y safleoedd (e.e. tarfu ac ati). Felly nid oes disgwyl effaith andwyol.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Clogwyni Pen Llŷn							
Clogwyni môr dan dyfiant o arfordiroedd Iwerydd a'r Baltig	Amherthnasol	• Maint y rhostir arfordirol (sych a morol) • Cyflwr y rhostir arfordirol (sych a morol) • Nodweddion arwyddocaol cysylltiedig	• Maint y rhostir arfordirol neu forol yn sefydlog neu'n cynyddu. • O leiaf 2 wahanol fath o gymuned DCLl rhostir arfordirol neu forol yn bresennol ac yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau planhigion nodweddiadol. • Ardaloedd o rostir yn ffurfio brithwaith gyda glaswelltir morol a chlytiau o dir noeth – dim gorchudd rhostir dros bopeth. • Planhigion rhostir arloesol yn bresennol. • Pori'n digwydd bob blwyddyn fel ag i atal glaswellt hir rhag datblygu ond heb atal grug rhag tyfu neu flodeuo. Bydd glaswellt byr mewn cynefinoedd glaswelltir a strwythur rhostir agored, amrywiol yn cael ei gynnal mewn cynefinoedd pen clogwyn ar gyfer y frân goesgoch yn bwydo, heb leihau maint nac ansawdd y glaswelltir a'r gweundir. • Bydd y rhostir arfordirol yn cynnwys planhigion gydag *Ulex gallii* yn bresennol ac o leiaf 30% o orchudd grugaidd, fel arfer *Calluna vulgaris*, gydag o leiaf un dangosydd morol yn bresennol fel *Armeria maritima*, *Plantago maritima*, *Plantago coronopus* neu *Scilla verna*. • Bydd poblogaethau iach o'r planhigion fasgwlaidd prin (gan gynnwys cor-rosyn rhuddfannog, *Tuburaria guttata*, banhadlen ymledol *Cytisus scoparius* ssp. *maritimus*, lafant-y-môr y creigiau *Limonium britannicum* ssp. *pharense*, cordafod y neidr, *Ophioglossum azoricum*, meillionen y Gorllewin, *Trifolium occidentale* a brwyn llym *Juncus acutus*) yn bresennol. • Bydd poblogaethau iach o rywogaethau prin o blanhigion anfasgwlaidd, gan gynnwys rhywogaethau mwsogl a llysiau'r afu gyda dosbarthiadau Ewropeaidd cyfyngedig, a'r cennau sy'n byw mewn pridd, cen rhuban blewog *Heterodermia leucomela* a chen blew euraid *Teloschistes flavicans* yn bresennol. • Dylai rhywogaethau sy'n dangos arwyddion amgylchiadau bras direol, gan gynnwys eithin Ewropeaidd *Ulex europeaus*, rhedyn ungoes *Pteridium aquilinum*, bysedd y cŵn *Digitalis purpurea*, rhywogaethau llysiau'r gingroen *Senecio* sp, tafol *Rumex obtusifolius* a danadl *Urtica dioica* fod yn absennol gan mwyaf. • Dylai rhywogaethau gwair sy'n dangos arwyddion gwella gan gynnwys maeswellt rhedegog *Agrostis stolonifera*, byswellt *Dactylus glomerata*, rhygwellt parhaol *Lolium perenne* a maswellt penwyn *Holcus lanatus* fod yn absennol gan mwyaf. • Caiff rhywogaethau pwysig cysylltiedig fel y frân goesgoch yn bwydo (ar y tir mawr ac ar Ynys Enlli) ac adar drycin Manaw'n nythu (ar Ynys Enlli) eu cofnodi ar ddarnau o rostir arfordirol neu forol. • Bydd holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn, gan gynnwys dwysedd pori a llosgi, dan reolaeth.	<u>Cyfyngu ar erydiad arfordirol:</u> Polisi dewisol ACA Clogwyni Llŷn ar ei hyd yw NAI yw PDZ 13 – felly bydd y clogwyni'n gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr a bydd unrhyw golli cynefin i erydiad o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid y CRhT. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 13.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon.*	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Tudwal							
Rhywogaeth Erthygl 4.1 bwysig yn rhyngwladol (gaeafu): Brân Goesgoch *Pyrrhocorax pyrrhocorax*	Porfa wedi'i gwella Gweundir a phrysgwydd Glaswelltir sych Twyni tywod arfordirol. Traethau tywod. Machair Afonydd llanwol. Aberoedd. Gwastadeddau llaid. Gwastadeddau tywod. Morlynnoedd (gan gynnwys pantiau gwaith halen)	• Poblogaeth fagu • Poblogaeth fagu • Cyflwr y cynefin porthi	• Poblogaeth fagu'r frân goesgoch yn yr AGA yw 18 pâr o leiaf, a dylai 12 o leiaf ohonynt fod yn SoDdGA Glannau Ynys Gybi / Tre Wilmot a dylai 6 o leiaf fod yn SoDdGA Glannau Rhoscolyn. • Poblogaeth y frân goesgoch heb fod yn magu yw o leiaf 18 unigolyn neu 2.5% o boblogaeth aeafu Gwledydd Prydain. • Cynefin addas digonol (gan gynnwys clogwyni môr Iwerydd, glaswelltir morol, rhostir morol, rhostir gwlyb a rhostir sych) yn bresennol ac mewn cyflwr priodol i gynnal y poblogaethau magu. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Polisi dewisol AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Tudwal i gyd sydd yn PDZ 13 yw NAI (13.16, 13.17, 13.18 a 13.19) – therefore the cliffs and other associated coastal habitat will be able felly bydd y clogwyni a chynefin arfordirol cysylltiedig arall yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr a bydd unrhyw golli cynefin i erydiad o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid y CRhT.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Helaethiad B – Tablau Asesu CRhT2 Gorllewin Cymru ar Safleoedd Natura 2000

Tabl 14: PDZ 14 – Trwyn Cilan i Garreg Ddu: Trwyn Cilan i Garreg Ddu gan gynnwys Ynys Enlli

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau							
Ponciau tywod dan ychydig o ddŵr y môr	Amherthnasol	• Cyrhaeddiad • Adeiledd a swyddogaeth	<u>Cyrhaeddiad</u> Dosbarthiad a maint nodweddion cynefin safle at ei gilydd, a phob un o'u prif gydrannau'n sefydlog neu'n cynyddu. O ran nodweddion y creigresi mae'r rhain yn cynnwys: • Creigresi rhynglanwol. • Creigresi islanwol. • Creigresi clogfeini a cherrig crynion helaeth – y sarnau. • Creigresi biogenig (creigres cragen ddilyw *Modiolus modiolus* / creigres misglen werdd *Musculus discors* a chreigres llyngyren ddiliau *Sabellaria alveolata*). • Creigres garbonad a ffurfiwyd o nwy methan yn gollwng o wely'r môr.	Ni nodwyd polisïau HTL neu MR, gyda NAI fel y polisi dewisol ar gyfer mwyafrif yr uned hon. Felly nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 14.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon.*	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Aberoedd	Amherthnasol		O ran y nodwedd **gwastadedd llaid a gwastadedd tywod rhynglanwol** mae'r rhain yn cynnwys: • *Mya arenaria a mwydod gwrychog mewn gro lleidiog*. • Gwellt y gamlas culddail Zostera gwelyau marina. • Cafnau lleidiog yn aber Afon Mawddach. O ran y nodweddion Salicornia mae hyn yn cynnwys: • Cymunedau a nodweddwyd gan y rhywogaeth *Sarcocornia perennis*. • O ran y nodweddion gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol a phonciau tywod mae hyn yn gofyn sefydlogrwydd at ei gilydd neu gynnydd ym maint y nodwedd, gan ystyried ardaloedd o sefydlogrwydd hirdymor a cholledion ac ychwanegiadau lleol yn deillio o brosesau amgylcheddol. • O ran aberoedd mae hyn yn cynnwys sefydlogrwydd gwaddodion tywodlyd yn gymesur â'r gwaddodion lleidiog. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran y nodwedd aberoedd dylid adfer tir ychwanegol a ddylai ffurfio rhan annatod o'r ecosystem aberol.	Ni nodwyd polisïau HTL neu MR, gyda NAI fel y polisi dewisol ar gyfer mwyafrif yr uned hon. Felly nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 14.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon.*	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Morlynnoedd arfordirol (Nodwedd Flaenoriaethol)	Amherthnasol			Nid yw nodwedd flaenoriaethol yr ACA hon yng nghyffiniau PDZ 14.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Cilfachau a baeau mawr bas	Amherthnasol		<u>Adeiledd a swyddogaeth</u> Nid yw'r strwythur a swyddogaethau ffisegol, biolegol a chemegol angenrheidiol i gynhaliaeth ac ansawdd hirdymor y cynefin yn cael eu diraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae: • daeareg • gwaddodeg • geomorffoleg • hydrograffeg môr a meteoroleg • cemeg dŵr a gwaddod	Ni nodwyd polisïau HTL neu MR, gyda NAI fel y polisi dewisol ar gyfer mwyafrif yr uned hon. Felly nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. Mae bae mawr bas Porth Neigwl yn Unedau Polisi 14.2, 14.2 a 14.3 gyda pholisi dewisol o NAI. Nid oes dim cynefin yn cael ei golli yn yr Unedau Polisi hyn.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Creigresi	Amherthnasol		• rhyngweithiadau biolegol. Mae hyn yn cynnwys gofyn bod lefel maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion fel a ganlyn: • ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol. • o fewn amrediadau nad ydynt yn debygol o fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor poblogaethau rhywogaethau'r nodwedd, eu cyflenwad a chyrhaeddiad. • Lefelau halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol i fod: – ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol. – islaw lefelau a allai beri cynnydd mewn crynoadau halogyddion mewn gwaddodion neu fywyd. – islaw'r hyn a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor y nodweddion, rhywogaethau, poblogaethau, eu cyflenwad neu gyrhaeddiad. • O ran dolydd heli Iwerydd mae hyn yn cynnwys morffoleg ceinciau a phantiau'r morfa heli. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran nodwedd yr aberoedd bod strwythur a swyddogaethau'r aberoedd a niweidiwyd / ddiraddiwyd oherwydd cyfyngiadau adeileddau dynol fel argloddiau llifogydd, yn cael eu hadfer. <u>Rhywogaethau nodweddiadol</u> Presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth rhywogaethau nodweddiadol fel nad yw ansawdd y cynefin wedi'i ddiraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae: • cyfoeth rhywogaethau • strwythur a dynameg poblogaeth • iechyd ffisiolegol • gallu atgenhedlol • denu • symudedd • cyrhaeddiad Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi: • bod angen i gyflenwad boblogaethau o rywogaethau nodweddiadol sy'n destun pysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicr yn y pen draw. • bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd cynefin yn briodol i'w gynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; o ran nodwedd y creigresi nad yw'r gallu i ehangu cymuned y gragen ddilyw Modiolus modiolus oddi ar arfordir gogledd Llŷn yn cael ei atal.	Ni nodwyd polisïau HTL neu MR, gyda NAI fel y polisi dewisol ar gyfer mwyafrif yr uned hon. Felly nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. Mae'r creigresi yn PDZ 14 yn annhebygol o gael eu heffeithio o ganlyniad i'r CRhT. Gan fod yr arfordir yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynefin creigres yn cael ei golli, gyda phosibilrwydd gallu creu rhagor o gynefin creigres. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 14.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon.*	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai	Amherthnasol			Ni nodwyd polisïau HTL neu MR, gyda NAI fel y polisi dewisol ar gyfer mwyafrif yr uned hon. Felly nid oes disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. Dim effaith sylweddol ar wastadedd llaid rhynglanwol, gwastadedd tywod a morfa heli: gallai gael effaith fuddiol trwy greu cynefin rhynglanwol ac islanwol newydd a chludo gwaddod newydd i gynefinoedd tywod a thwyni. Mae polisi HTL ar ddarn amddiffynedig pentref Aberdaron (Uned Bolisi 14.8) yn y cyfnod cyntaf ac olaf a MR yn yr ail gyfnod (bydd MR yn golygu gwella'r amddiffynfa bresennol). Nid yw'r ACA ond yn cwmpasu arwynebedd bach o wastadedd tywod yn Uned Bolisi 14.8. Dangosodd modelu na fydd dim gwastadedd llaid na gwastadedd tywod yn cael ei golli o flaen Aberdaron yn yr ACA yn Uned Bolisi 14.8. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 14.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon.*	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Salicornia a phlanhigion unflwydd yn cytrefu llaid a thywod	Amherthnasol						
Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*)	Amherthnasol						

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Ogofâu môr dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr	Amherthnasol			Ni nodwyd unrhyw bolisïau HTL nac MR yn y mannau lle mae ogofâu môr dan ddŵr, gyda NAI fel y polisi dewisol ym mwyafrif yr uned hon. Felly nid oes disgwyl dim effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. Gall yr ogofâu yn PDZ 14 gael eu colli wrth i lefel y môr gynyddu a'r clogwyni erydu'n naturiol – fodd bynnag, bydd ogofâu newydd yn cael eu creu fel rhan o'r broses naturiol. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 14.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon.*	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Dolffin trwynfawr *Tursiops truncates*	• Aberoedd • Cilfachau a baeau mawr bas	• Poblogaethau • Cyrhaeddiad • Cynefinoedd cynhaliol a rhywogaethau	<u>Poblogaethau</u> Mae'r boblogaeth yn cynnal ei hun dros gyfnod hir fel cydran hyfyw o'i chynefin naturiol. Elfennau pwysig yw maint y boblogaeth, strwythur, cynhyrchiad, a chyflwr y rhywogaeth yn y safle. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi: • o ran y dolffin trwynfawr, y dyfrgi a'r morlo llwyd; bod beichiau halogyddion yn deillio o weithgaredd dynol islaw lefelau all beri niwed ffisiolegol, neu atal imiwnedd neu atgenhedlu • na ddylid lleihau poblogaethau morlo llwyd o ganlyniad i weithgaredd dynol Cyrhaeddiad Mae poblogaeth y rhywogaeth yn y safle'n ddigon fel nad yw amrediad naturiol y boblogaeth yn gostwng nac yn debygol o ostwng hyd y gellir rhagweld. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi o ran y dolffin trwynfawr, y dyfrgi a'r morlo llwyd: • nad yw eu cyrhaeddiad yn yr ACA ac ardaloedd cydgysylltiedig cyfagos yn cael ei gyfyngu na'i rwystro • bod adnoddau bwyd priodol a digonol yn yr ACA a thu hwnt • bod y safleoedd a maint y cynefin cynhaliol sy'n cael eu defnyddio gan y rhywogaethau hyn yn hygyrch a'u maint ac ansawdd yn sefydlog neu'n cynyddu Cynefinoedd a rhywogaethau cynhaliol	Ni nodwyd unrhyw bolisïau HTL na MR ac eithrio yn Aberdaron, gyda NAI yn bolisi dewisol mwyafrif yr uned hon. Felly nid oes disgwyl dim effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. Nid oes disgwyl i'r polisïau yn y PDZ effeithio ar ddosbarthiad cyrhaeddiad neu gynefin cynhaliol y dolffiniaid trwynfawr yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 14.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon.*	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Dyfrgi *Lutra lutra*	• Ponciau tywod dan ychydig o ddŵr y môr		Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau sydd eu hangen i gynnal y rhywogaeth hon fel bod dosbarthiad, digonedd a dynameg poblogaethau'r rhywogaeth yn y safle a phoblogaeth y tu hwnt i'r safle'n sefydlog neu'n cynyddu. Ymhlith ystyriaethau pwysig mae; • dosbarthiad, • maint, • strwythur, • swyddogaeth ac ansawdd y cynefin, • ysglyfaeth sydd ar gael a'r ansawdd. Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi; • Bod angen i ddigonedd rhywogaethau ysglyfaethus yn amodol ar bysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicrwydd yn y pen draw. • bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd rhywogaeth yn briodol i'w chynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw. • Y dylai halogiad rhywogaethau ysglyfaethus tebygol fod islaw crynoadau a allai fod yn niweidiol i'w hiechyd ffisiolegol. • Bod tarfu trwy weithgaredd dynol islaw lefelau sy'n atal llwyddiant atgenhedlol, iechyd ffisiolegol neu ymddygiad hirdymor • O ran y dyfrgi bod ffynonellau digonol yn yr ACA a thu hwnt o ddŵr croyw o safon ar gyfer yfed ac yn ymdrochi. • Adennill ac adfer • Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi o ran y dolffin trwynfawr a dyfrgi, y dylai poblogaethau fod yn cynyddu.	Ni nodwyd unrhyw bolisïau HTL na MR mewn ardaloedd a allai gynnal dyfrgwn, gyda NAI yn bolisi dewisol mwyafrif yr uned hon. Felly nid oes disgwyl dim effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. Mae dyfrgwn i'w cael ar hyd darn cyfyngedig iawn o'r morlin yn PDZ 14. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynefin fydd yn cael ei golli yn y pen draw o ganlyniad i wasgfa arfordirol wrth i'r arfordir erydu'n naturiol heb effeithio, felly, ar safleoedd glanio'r morlo. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 14.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon.*	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Morlo llwyd *Halichoerus grypus*	• Aberoedd • Cilfachau a baeau mawr bas			Ni nodwyd unrhyw bolisïau HTL na MR ac eithrio yn Aberdaron, gyda NAI yn bolisi dewisol mwyafrif yr uned hon; Felly nid oes disgwyl dim effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir oherwydd colli cynefin. Mae morloi llwydion i'w cael ar hyd darnau arbennig o forlin PDZ 14. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynefin fydd yn cael ei golli yn y pen draw o ganlyniad i wasgfa arfordirol wrth i'r arfordir erydu'n naturiol heb effeithio, felly, ar safleoedd glanio'r morlo. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 14.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon.*	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Corsydd Llŷn							
Twyni symudol elfennol	Amherthnasol	• Maint • Ansawdd	• Faint o dywod sy'n cronni'n naturiol a deunydd organaidd min y traeth sydd ar gael sy'n penderfynu dosbarthiad a maint twyni symudol elfennol yn hwyr yn yr haf. Fodd bynnag, ni fyddai disgwyl i arwynebedd cynefin twyni elfennol hwn i gyd fod dan dyfiant yn unrhyw flwyddyn a gall twyni elfennol fod yn absennol mewn rhai blynyddoedd. Byddai absenoldeb di-dor yn ystod y cylch hysbysu chwe blynedd yn peri ystyried y cyflwr yn anffafriol. • Mae posibilrwydd elfen twyni symudol elfennol o'r dosbarthiad nodweddiadol o draeth i dwyn sefydlog yn gyflawn ar hyd yr arfordir meddal. Mae hyn yn cynnwys cyflenwad digyfyngiad o waddod, cyfle i gludo ar y gwynt a deunydd organaidd yn digwydd yn naturiol ar fin y traeth. • Rhywogaethau nodweddiadol planhigion min y traeth yw *Atriplex* spp., *Beta vulgaris*, *Cakile maritime*, *Honkenya peploides*, *Salsola kali*. • Rhywogaethau nodweddiadol planhigion twyni elfennol yw *Elytrigia juncea* a/neu *Leymus arenarius*. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir :</u> Mae Twyni Abermenai i Aberffraw'n un o ddau safle a ddewiswyd i gynrychioli Twyni symudol elfennol yng Ngogledd Cymru. Mae twyni elfennol yn ffurfio parth ar draws rhan eang o'r rhyngwyneb traeth / twyni, gan wneud y safle hwn yn un o'r enghreifftiau mwyaf helaeth o'r math hwn o gynefin yn y DU. Yn wahanol i rai eraill yng Ngogledd Cymru, mae difrod adloniadol i'r safle'n fach iawn. Mae darnau o dwyn tywod gyda chysylltiad arbennig â'r prosesau arfordirol ym Morfa Dinlle (Uned Bolisi 16.4), Y Foryd (16.5), Bae Llanddwyn (Uned Bolisi 16.7), Coedwig Niwbwrch (16.8), ac ychydig yn Aber Afon Cefni (Uned Bolisi 16.10). Polisi NAI sydd yn yr holl Unedau Polisi, ac eithrio Unedau Polisi 16.4 (MR/MR/NAI) ac 16.5 (HTL/MR/NAI). Bydd NAI yn gadael i'r twyni tywod ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr, gan gadw cyrhaeddiad a strwythur y cynefinoedd twyni. Y polisi MR yn ystod y ddau gyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 16.4 fyddai mesurau (yn hytrach nag amddiffynfeydd caled) i gynnal datblygiad a swyddogaeth y twyni, wrth i'r polisi MR adael i'r twyni ddatblygu'n naturiol mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr. Byddai'n angenrheidiol cael strategaeth a chynllun rheoli priodol i sicrhau nad yw datblygiad y twyni'n cael ei atal neu nad yw cynefinoedd twyni eraill yn cael eu cyfyngu. Ni fyddai'r polisi HTL yn Uned Bolisi 16.5 yn cynnwys amddiffynfeydd caled ar hyd y lan i gyd ond byddai'n golygu rheoli terfynau dwyreiniol a de-ddwyreiniol y safle nad yw'n cyfrannu at weithrediad y twyni ac na fyddai, felly, yn lleihau datblygiad y twyni ar y wyneb gorllewinol. Ar ben hynny, ni fyddai'r HTL yn rhwystro symudiad y twyni sefydlog gorllewinol tua'r tir. Dim ond yn y cyfnod cyntaf y bwriadwyd HTL ac, yn dilyn hynny, byddai MR yn rheoli priodol i ymateb i gynnydd yn lefel y môr, gan roi lle a symud rhwystrau i symudiad y twyni tua'r tir, er bod y rhai ar y wyneb gorllewinol pell yn annhebygol o gyrraedd y fan hon yn yr ail gyfnod, ond gallant yn y trydydd cyfnod fel ymateb hirdymor i gynnydd yn lefel y môr. Dylid nodi bod yr amddiffynfa oddi allan i derfynau safle'r twyn, gan gyfyngu ar bosibilrwydd cyfyngu mwy ar y gyfundrefn dwyni gan y byddai'n cymryd cryn amser cyn i'r cynefinoedd twyni symud tua'r tir i ardal gyfyngiad Uned Bolisi 16.5, erbyn pryd y bydd y polisi'n NAI (y trydydd cyfnod). At ei gilydd, nid oes disgwyl i'r polisïau achosi unrhyw ddirywiad ym mhrosesau a nodweddion y twyn yn y Safle.	Paratoi strategaeth a chynllun rheoli ar gyfer cyfundrefn dwyni Morfa Dinlle a'r amgylchoedd er mwyn sicrhau bod cynigion a chamau gweithredu MR yn gwella a chaniatáu datblygu'r cynefinoedd twyni'n briodol.	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag *Ammophila arenaria* (`twyni gwynion`)	Amherthnasol	• Maint • Ansawdd	• Mae twyni symudol gydag *Ammophila arenaria* yn bresennol ar hyd blaen y twyn sy'n wynebu'r prifwynt (de-orllewin) lle mae cyflenwad gwaddod yn ddigonol. • Ni ddylai fod unrhyw leihad yng nghyfanswm (cronnol) arwynebedd y cynefinoedd twyni cymhwysol y dynodwyd y safle hwn ar eu cyfer (h.y. ni ddylai cyfanswm y cynefin twyni cymhwysol leihau). Gall maint a lleoliad nodweddion cynefin twyni unigol amrywio'n gyfnodol a thymhorol. • Mae elfen twyni symudol y dosbarthiad nodweddiadol o draeth i dwyn sefydlog yn gyflawn ar hyd yr arfordir meddal. • Mae tir noeth yn bresennol. • Rhywogaethau nodweddiadol y planhigion twyni symudol yw *Ammophila arenaria*, *Leymus arenarius*, *Elymus farctus*, *Eryngium maritimum*, *Euphorbia portlandica*, *Euphorbia paralias*, a *Calystegia soldanella*. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Mae Twyni Abermenai i Aberffraw'n un o ddau safle dethol yng Ngogledd Cymru. Mae'n cynnwys un o'r ardaloedd mwyaf o gymuned twyni symudol clymwellt *Leymus arenarius* yng Nghymru. Mae'r twyni symudol ym mhen deheuol y safle'n cynnal toreth o gelyn y môr *Eryngium maritimum*, ac mae dosbarthiad aeddfed o fathau twyni, gan gynnwys trawsnewid tua'r môr rhwng twyn symudol a blaendwyn, a thrawsnewid tua'r tir i dwyn sefydlog a llac twyn. *Gwelwch Twyni symudol elfennol am fanylion colli cynefinoedd.*			
Twyni sefydlog gyda phlanhigion llysieuol (`twyni llwydion`)	Amherthnasol	• Maint • Ansawdd	• Gall dosbarthiad twyni sefydlog o fewn y safle amrywio mewn ymateb i brosesau dynamig naturiol a newidiadau i gynefinoedd twyni cymhwysol eraill ar gyfer y safle. • Ni ddylai fod unrhyw leihad yng nghyfanswm arwynebedd y twyni sefydlog gyda phlanhigion llysieuol. • Mae elfen twyni sefydlog y dosbarthiad nodweddiadol o draeth i dwyn sefydlog yn gyflawn ar hyd yr arfordir meddal. • Mae tir noeth yn bresennol. • Rhywogaethau nodweddiadol y planhigion twyni sefydlog yw Cerastium fontanum, Crepis capillaris, Cladonia spp., Peltigera spp., Erodium cicutarium, Geranium molle, Luzula campestris, Odontites verna, Pilosella officinarum, Plantago lanceolata, Prunella vulgaris, Festuca rubra, Galium verum, Anacamptis pyramidalis, Thymus polytrichus, Sedum acre, Veronica chamaedrys, Carex arenaria, C. flacca, Euphrasia officinalis, Hypnum cupressiforme, Hypochaeris radicata, Linum catharticum, Lotus corniculatus, Ononis repens, Rhinanthus minor, Rhytidiadelphus squarrosus, R triquetrus, Tortula muralis Viola canina, V. riviniana a V. tricolor. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : O fewn y cymhlethdod twyni hwn yng Ngogledd Cymru mae ardaloedd helaeth o blanhigion twyni sefydlog gyda pheiswellt coch *Festuca rubra* a briwydd felen *Galium verum* a glaswelltir twyni lled-sefydlog gyda moresg *Ammophila arenaria* a pheiswellt coch. Ar waethaf y ffaith bod cyfran uchel o'r llystyfiant agored wedi cael ei goedwigo, mae gweddill y cymunedau'n cadw cryn ddiddordeb. Ymhlith rhywogaethau nodedig y safle mae eiddilwellt cynnar *Mibora minima*. Ar ochr ddeheuol Afon Menai, mae'r twyni ym Morfa Dinlle'n cynnwys cymuned llawn cen gyda *Coelocaulon aculeatum* (SD11), math o blanhigion sy'n brin iawn yng Nghymru. *Gwelwch Twyni symudol elfennol am fanylion colli cynefinoedd.*			
Twyni gyda *Salix repens ssp. argentea (Salicion arenariae)*	Amherthnasol	• Maint • Ansawdd	• Mae dosbarthiad twyni gyda *Salix repens ssp argentea* yn cyd-fynd â'r dosbarthiad twyni nodweddiadol a lle bo ffurf y tir yn addas. Gall lleoliad twyni gyda *Salix repens ssp argentea* o fewn y safle amrywio mewn ymateb i brosesau dynamig naturiol a newidiadau mewn cynefinoedd twyni cymhwysol eraill ar gyfer y safle. • Ni ddylai fod unrhyw leihad yng nghyfanswm (cronnol) arwynebedd y cynefinoedd twyni cymhwysol y dynodwyd y safle hwn ar eu cyfer (h.y. ni ddylai cyfanswm y cynefin twyni cymhwysol leihau). Gall maint a lleoliad nodweddion cynefin twyni unigol amrywio'n gyfnodol a thymhorol. • Mae *Salix repens* i'w gael yn aml o leiaf ac yn gyffredinol 5 - 30cm o daldra. • Mae cyfleoedd i ddechrau llaciau twyni elfennol trwy erydiad y gwynt. • Mae tir noeth yn bresennol. • Mae lefel dŵr daear yn briodol yn y gaeaf a'r haf. • Nid yw llygredd yn effeithio ar ansawdd dŵr codi. • Y rhywogaethau nodweddiadol yw *Salix repens*, *Carex arenaria*, C *flacca*, *Euphrasia officinalis*, *Festuca rubra*, *Lotus corniculatus*, *Ononis repens*, *Equisetum variegatum*, *Epipactis palustris*, *Epipactis leptochila spp dunensis* a *Pilosella officinarum*. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Mae Twyni Abermenai i Aberffraw yng Ngogledd Cymru'n cynnwys ardal eang o dwyni gydag amrywiaeth gyflawn o blanhigion twyni, gan gynnwys ardaloedd sylweddol o blanhigion llaciau yn drwm o gorhelyg *Salix repens* ssp. *argentea*. Ar waethaf maint y coedwigo, mae dyfrhaen y twyn yn cadw ei chyfanrwydd at ei gilydd, er bod newidiadau yn lefel trwythiad, i'w briodoli'n rhannol i dwf y goedwig, wedi dylanwadu ar ddatblygu llaciau'r twyni. Mae lle i wella mwy yn yr hirdymor. *Gwelwch Twyni symudol elfennol am fanylion colli cynefinoedd.*			

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Llaciau twyni llaith	Amherthnasol	• Ansawdd	• Mae dosbarthiad llaciau twyni llaith yn cyd-fynd â'r dosbarthiad twyni nodweddiadol a lle mae ffurf y tir yn addas. Gall lleoliad llaciau twyni llaith yn y safle amrywio mewn ymateb i brosesau dynamig naturiol a newidiadau yng nghynefinoedd twyni cymhwysol eraill ar gyfer y safle. • Ni ddylai fod unrhyw leihad yng nghyfanswm (cronnol) arwynebedd y cynefinoedd twyni cymhwysol y dynodwyd y safle hwn ar eu cyfer (h.y. ni ddylai cyfanswm y cynefin twyni cymhwysol leihau). Gall maint a lleoliad nodweddion cynefin twyni unigol amrywio'n gyfnodol a thymhorol. • Dylai holl gymunedau llaciau twyni llaith fod yn bresennol, o laciau twyni elfennol gyda chanran uchel o dir noeth i lystyfiant mwy caeëdig gyda *Salix repens*. • Mae cyfleoedd yn bodoli i ddechrau llaciau twyni elfennol (trwy erydiad y gwynt). • Mae tir noeth yn bresennol. • Mae lefel dŵr codi'n briodol yn y gaeaf a'r haf. • Nid yw lygredd yn effeithio ar ansawdd dŵr codi. • Y rhywogaethau nodweddiadol yw *Salix repens*, *Carex arenaria*, C *flacca*, *Equisetum variegatum*, *Lotus corniculatus*, *Ononis repens*, *Potentilla anserina*, *Galium palustre*, *Mentha aquatica*, *Hydrocotyle vulgaris*, *Campyllium stellatum*, *Prunella vulgaris*, *Ranunculus flammula*, *Calliergon cuspidatum*, *Anagallis tenella*. *Parnassia palustris*, *Selaginalla selaginoides*, *Dactylorhiza incarnata* ac *Epipactis palustris*. • Mae llysiau'r afu i'w cael mewn llaciau twyni llaith lle mae *Equisetum variegatum* yn gyffredin yn adrannau Aberffraw a Niwbwrch. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Abermenai to Aberffraw Dunes represents Llaciau twyni llaith in north Wales. There are large areas of open dune vegetation and many humid dune slacks remain, although there have been changes in the water table that are partly attributable to the growth of the commercial forest. The changes have influenced the development of humid dune slacks, which nonetheless retain most the essential features of the habitat type. *Gwelwch Twyni symudol elfennol am fanylion colli cynefinoedd.*			
Llynnoedd ewtroffaidd naturiol gyda phlanhigion *Magnopotamion* neu fath *Hydrocharition*	Amherthnasol	• Helaethder cynefin • Cyflwr y nodwedd • Presenoldeb rhywogaethau ymosodol estron	• Mae dosbarthiad y llynnoedd yn adlewyrchu eu statws ffisiograffig fel llynnoedd a gronnwyd gan dwyn o ddyffrynnoedd bas. • Maint (arwynebedd) y cynefin yw 30ha, heblaw os yw'n llai oherwydd dilyniant naturiol i gorstir neu gors. • Mae dalgylch y llynnoedd yn dal i ddarparu ansawdd a swmp digonol o ddŵr. • Caiff lefel dŵr priodol ei gynnal drwy gydol y flwyddyn, (amrywiad tymhorol +/- 30cm). • Mae ansawdd dŵr yn nodweddiadol o lynnoedd bas morol, alcalinaidd iawn, fel ag i gadw pH 7-9, alcalinedd 1500-2500µeq/l, ocsigen toddedig a Chyfanswm Ffosfforws blynyddol brig <50µg/l. • Mae gwerthoedd α cloroffyl yn isel, ac yn ddigonol i ganiatáu dosbarthu'r ddau lyn fel 'Da' neu well o ran 'llyn bas alcalinaidd iawn' gan ddefnyddio dulliau dosbarthu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. • Y rhywogaethau nodweddiadol yw planhigion dyfrol boddedig gan gynnwys *Elatine hydropiper*, *Potamogeton trichoides*, P *pectinatus* P. *perfoliatus* P. *lucens*, *Ranunculus circinatus*, *Eleocharis acicularis, Myriophyllum spicatum*, *Callitriche hermaphroditica* a *Chara* spp.. • Dylai planhigion dyfrol newydd ymddangos, yn nodweddiadol *Phragmites australis*, *Schoenoplectus lacustris*, *Sparganium erectum*, *Typha latifolia*, *Alisma plantago-aquatica* a *Litorella uniflora* fod yn bresennol ar y draethlin. • Dylai rhywogaethau ymosodol neu aflonyddol fel *Crassula helmsii* neu bysgod breision fod yn absennol. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Heb fod yn bresennol yn PDZ16.			

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Llysiau'r afu *Petalophyllum ralfsii*	Llaciau twyni llaith	• Helaethder y nodwedd • Cyflwr y cynefin	• Mae poblogaeth llysiau'r afu'n sefydlog neu'n cynyddu. • Mae llysiau'r afu i'w cael mewn llaciau twyni llaith lle mae *Equisetum variegatum* yn gyffredin, ar hyd a lled y safle lle mae cyflwr y cynefin yn addas, h.y. adrannau Aberffraw a Niwbwrch. • Mae llac twyni llaith gyda thywod noeth neu gramen ddeilbridd a llystyfiant byr gydag *Equisetum variegatum* yn nodweddiadol ohono'n bresennol yn adrannau Aberffraw a Niwbwrch lle gwaddod ac amgylchiadau hydrolegol yn caniatáu (gwelwch amcan llaciau twyni llaith). • Caiff cystadleuaeth rhywogaethau eraill ei rheoli (gan gynnwys cysgodi). • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Mae Twyni Abermenai i Aberffraw'n cymhlethdod helaeth o dwyni tywod, llaciau twyni, corstir, graean a chlogwyni yn ne-orllewin Ynys Môn, Gogledd Cymru. Mae poblogaeth fawr o lysiau'r afu *Petalophyllum ralfsii* yma a gofnodwyd gyntaf yn 1828. Mae'r parhad hanesyddol hwn yn dangos bod y safle'n arbennig o ffafriol i barhad y rhywogaeth hon. Er y coedwigwyd yn rhannol, mae'r twyni agored yn doreithiog iawn mewn planhigion bryoffyt, gan gynnwys y mwsoglau *Amblyodon dealbatus*, *Catoscopium nigritum* a llysiau'r afu *Southbya tophacea*, yn enwedig o ran llaciau a gwastadeddau llaith, calchaidd. *Gwelwch Twyni symudol elfennol am fanylion colli cynefinoedd.*			
Tafolen y traeth *Rumex rupestris*	Llaciau twyni llaith	• Presenoldeb / absenoldeb • Nifer yr unigolion • Strwythur y llystyfiant	• Mae poblogaeth tafol y traeth yn sefydlog neu'n cynyddu. • Mae tafol y traeth i'w cael mewn 3 lle o leiaf ar hyd a lled y safle. • Mae cyfleoedd i hadau wasgaru ar y môr. • Mae cynefin glannau nentydd agored, tryddiferiadau clogwyni meddal arfordirol neu byllau llaciau twyni'n ddigonol ar gyfer ei barhad. • Caiff cyflenwad dŵr croyw digonol ei gynnal. • Caiff tir noeth neu ardaloedd a aflonyddwyd (e.e. gan anifeiliaid pori) eu cynnal i ganiatáu egino. • Caiff cystadleuaeth rhywogaethau eraill ei rheoli (gan gynnwys cysgodi). • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Mae Twyni Abermenai i Aberffraw yng Ngogledd Cymru'n bwysig trwy gynrychioli tafol y traeth *Rumex rupestris* yn ei man pellaf i'r gogledd-orllewin. Mae ymhell o safleoedd hysbys eraill y rhywogaeth hon, ac mae tafolen y traeth i'w chael mewn sefyllfa anghyffredin: ar hyd gwely nant fechan ac ar ymylon llaith pyllau, gynt mewn twyndir ond bellach mewn llannerch mewn planhigfa gonwydd. Mae dwy gytref fach, a oedd yn cynnal 21 o blanhigion blodeuog yn 1994, 26 yn 1995 a 53 yn 1996. *Gwelwch Twyni symudol elfennol am fanylion colli cynefinoedd.*			

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Cors Heli Glannau Môn							
Aberoedd	Amherthnasol	• Maint • Dosbarthiad gofodol cymunedau aberol	• Caiff dosbarthiad a maint yr aberoedd, a'r cynefinoedd ynddynt, eu penderfynu'n bennaf gan adeiledd naturiol a phrosesau amgylcheddol. • Caiff yr adeileddau cynefin naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hirdymor yr aberoedd a'r cynefinoedd a rhywogaethau nodweddiadol ynddynt eu cynnal. • Caiff dosbarthiad gronynnau a strwythur gwaddodion yr aberoedd, a'u hamrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan brosesau naturiol cyflenwi a chludo gwaddod. • Nid yw ansawdd strwythur cynefin wedi'i ddiraddio'n fwy o ganlyniad i weithrediad dynol neu gan ddeunyddiau o darddiad anthropogenig. • Caiff y prosesau amgylcheddol naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hirdymor yr aberoedd, y cynefinoedd sydd ynddynt a'u rhywogaethau nodweddiadol eu cynnal. • Caiff cemeg dŵr a gwaddod eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Caiff y gyfundrefn a graddiannau halltedd yn yr aberoedd eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Caiff rhywogaethau nodweddiadol eu penderfynu'n bennaf gan ddynameg poblogaeth gynhenid a phrosesau ecolegol. • Caiff cyfoeth rhywogaethau, dynameg poblogaeth, digonedd, biomas, strwythurau poblogaeth, iechyd ffisiolegol, gallu atgenhedlol, denu, cyrhaeddiad a symudedd eu cynnal. • Mae rheoli gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, maint, strwythur, swyddogaeth neu boblogaethau nodweddiadol rhywogaethau'r nodwedd, yn briodol i gynnal statws cadwraethol ffafriol ac yn sicr yn yr hirdymor. • Mae rheoli pysgodfeydd masnachol presennol ar gyfer rhywogaethau nodweddiadol yn sicrhau nad yw manteisio ar rywogaethau'n ddim mwy nag uchafswm cynnyrch cynaliadwy ac yn sicr yn yr hirdymor.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir :</u> Mae aber Cefni yn Unedau Polisi 16.8, 16.9 ac 16.10 ac mae'n cynnwys gwastadedd tywod / gwastadedd llaid a morfa heli. Bydd y polisi NAI yng ngheg yr aber (Uned Bolisi 16.8 a 16.10) a'r aber allanol yn gadael i'r aber ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr a bydd unrhyw gynefin sy'n cael ei golli o ganlyniad i brosesau naturiol. Gallai'r polisi HTL yn yr aber mewnol (Uned Bolisi 16.9; yr arglawdd a'r pentref) beri colli cynefin morfa heli a gwastadedd tywod / gwastadedd llaid trwy wasgfa arfordirol. Mae'r amddiffynfa bresennol yn Uned Bolisi 16.9 yn cynnwys arglawdd carreg ar oledd ar lan ddwyreiniol yr afon. Bydd y lan orllewinol ddiamddiffyn yn gadael i'r aber weithredu'n fwy naturiol. Er bod colli cynefin aberol yn uniongyrchol yn annhebygol, mae'n debygol y bydd maint gwahanol gynefinoedd aberol yn newid ac, er y bydd cydbwysedd yn yr aber at ei gilydd yn cael ei gynnal, gall dosbarthiad gofodol cynefinoedd newid. Mae tebygolrwydd y bydd maint y gwastadedd llaid rhynglanwol yn Uned Bolisi 16.9 yn lleihau, allai beri tangyflawni amcanion cadwraeth nodwedd yr aber. Fe all y math o gynefin sy'n lleihau fod yn wahanol (e.e. morfa heli yn hytrach na gwastadedd llaid). Mae Aber Braint yn Uned Bolisi 16.6 lle mae polisi dewisol NAI, fyddai'n caniatáu i'r aber ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr. Dros gyfnod, bydd llifogydd llanwol rheolaidd yn digwydd a gall yr aber symud tua'r tir, er y byddai ffurf tir yr arfordir yn cyfyngu ar lifogydd. Bydd nodwedd yr aber yn cael ei gynnal. O fewn Uned Bolisi 16.6 bydd unrhyw golli cynefin o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid o ganlyniad i bolisi'r CRhT.	Nid oes angen dim	Gostyngiad yn strwythur yr aber ac, o ganlyniad, peidio â chyflawni amcanion cadwraeth y nodweddion aberol.	Na

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Salicornia a phlanhigion unflwydd yn cytrefu llaid a thywod	Amherthnasol	• Maint • Dosbarthiad • Cyflwr • Dosbarthiad a helaethder cymuned cordwellt cyffredin *Spartina anglica* SM6 yn y parth morfa heli arloesol	• Caiff dosbarthiad a helaethder Salicornia eu penderfynu'n bennaf gan adeiledd naturiol a phrosesau amgylcheddol. • Caiff yr adeileddau cynefin naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hirdymor Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill a'u rhywogaethau nodweddiadol eu cynnal. • Caiff dosbarthiad gronynnau a strwythur gwaddodion Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill, a'u hamrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan brosesau naturiol cyflenwi a chludo gwaddod. • Caiff geomorffoleg y nodwedd Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill, a'i amrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan y ddaeareg sylfaenol a phrosesau amgylcheddol naturiol. • Caiff y prosesau amgylcheddol naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hirdymor y nodwedd Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill a'i rhywogaethau nodweddiadol eu cynnal. • Caiff y prosesau hydrograffig a meteorolegol angenrheidiol i gynhaliaeth hir-dymor y nodwedd Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill a'i rhywogaethau nodweddiadol eu penderfynu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol. • Caiff cyfundrefn a graddiannau halltedd y nodwedd Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Mae maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn aros o fewn amrediadau na allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hir-dymor y cymunedau Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill, eu dosbarthiad a'u cyrhaeddiad. • Mae halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol yn aros islaw lefelau a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hir-dymor y cymunedau Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill, eu dosbarthiad a'u cyrhaeddiad. • Caiff lefelau ocsigen toddedig yn y golofn ddŵr a gwaddodion eu penderfynu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol. • Mae cymunedau rhywogaethau nodweddiadol yn cadw eu statws cadwraeth dros gyfnod hir fel cydrannau hyfyw o'r cynefinoedd Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill. Mae rheolaeth briodol o weithgareddau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, maint, strwythur, swyddogaeth neu rywogaethau nodweddiadol cymunedau'r nodwedd, ar gyfer cynnal statws cadwraethol ffafriol ac yn sicr yn yr hirdymor.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir :</u> Mae hwn yn rhan o gymhlethdod o forfa heli a chynefinoedd twyni o boptu i gyfundrefnau twyni Cwningar Niwbwrch, Gogledd Cymru. Felly, mae'n bwysig o ran cyfanrwydd adeileddol y safle, ac fe'i dewiswyd yn bennaf oherwydd amrywiaeth o fathau twyn tywod Atodiad I. Mae'r clystyrau mwyaf sylweddol o forfa heli *Salicornia* spp. I'w cael ar Draeth Malltraeth yn aber Cefni. Mae nodweddion hyn yr ACA yn digwydd yn Unedau Polisi 16.6 (NAI), 16.7 (NAI), 16.8 (NAI), 16.9 (HTL) ac 16.10 (NAI). NAI yw'r polisi dewisol yng ngheg yr aber (Uned Bolisi 16.8 a 16.10) ac yn Unedau Polisi 16.6 ac 16.7. Bydd y polisi NAI yn gadael i'r cynefinoedd rhynglanwol weithredu'n naturiol, a bydd yn caniatáu i'r morfa heli fudo'n ôl wrth i'r gwastadeddau tywod ddal i symud tua'r tir mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr, Gan fod cynefin y gwastadedd tywod a'r morfa heli'n gallu mudo tua'r tir, ni fydd unrhyw golli cynefin o ganlyniad i bolisi CRhT2. Bydd unrhyw golli cynefinoedd yn yr Unedau Polisi hyn o ganlyniad i brosesau naturiol. Gallai'r polisi HTL yn yr aber mewnol (16.9; yr arglawdd a'r pentref) lle mae amddiffynfeydd yn bodoli eisoes arwain at ddatblygu is ymylon o gynefin morfa heli i wastadedd llaid. Fodd bynnag, byddai presenoldeb amddiffynfeydd yn achosi gwasgfa arfordirol gan beri colli cynefin rhynglanwol (gan gynnwys morfa heli) trwy fethu mudo tua'r tir oherwydd gwasgfa arfordirol. Mae'n ymddangos mai prif ardal y morfa heli yw ystlys ddeheuol yr aber (NAI). Fodd bynnag, ar waethaf cofnodi colli dim cynefin, gallai fod mân golled i gynefin ymylol ar hyd rhan ogleddol yr aber, er mai'r disgwyl yw y byddai hyn yn digwydd ar draul gwastadedd llaid rhynglanwol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau mai gwastadedd llaid rhynglanwol sy'n cael ei golli yn hytrach na morfa heli (gwelwch isod) dylid cadw golwg priodol. **Daeth cyfrifiadau colli cynefinoedd i gasgliad na fydd unrhyw wastadedd tywod na chynefin morfa heli'n cael eu colli yn Uned Bolisi 16.9 o ganlyniad i bolisi HTL y CRhT2.** *Un o ganlyniadau prosesau naturiol yw unrhyw golled i'r nodwedd ddiddordeb hon gyda pholisi NAI.*	Nid oes angen dim. Fodd bynnag, dylid cadw golwg er mwyn sicrhau nad yw maint y nodwedd morfa heli a dosbarthiad mathau morfa heli'n cael eu colli yn lle colli gwastadedd llaid rhynglanwol.	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai	Amherthnasol	• Maint • Dosbarthiad biotopau • Cyfansoddiad y gymuned • Helaethder biotopau nodedig • Cyfansoddiad rhywogaethau biotopau nodedig	• Caiff dosbarthiad a maint y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod, a'r cynefin ynddynt, eu penderfynu'n bennaf gan adeiledd naturiol a phrosesau amgylcheddol. • Caiff y strwythurau cynefin naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hir-dymor y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod, a'r cynefin a rhywogaethau nodweddiadol ynddynt eu cynnal. • Caiff dosbarthiad gronynnau a strwythur gwaddodion y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod, a'u hamrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan brosesau naturiol cyflenwi a chludo gwaddod. • Nid yw ansawdd strwythur cynefin wedi'i ddiraddio'n fwy o ganlyniad i weithrediad dynol neu gan ddeunyddiau o darddiad anthropogenig. • Caiff y prosesau amgylcheddol naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hir-dymor y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod, y cynefinoedd sydd ynddynt a'u rhywogaethau nodweddiadol eu cynnal. • Caiff cemeg dŵr a gwaddod eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Caiff cyfundrefn a graddiannau halltedd yn y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Caiff rhywogaethau nodweddiadol eu penderfynu'n bennaf gan ddynameg poblogaeth gynhenid a phrosesau ecolegol y cyfoeth rhywogaethau, dynameg poblogaeth, digonedd, biomas, strwythurau poblogaeth, iechyd ffisiolegol, gallu atgenhedlol, denu, cyrhaeddiad a symudedd eu cynnal. • Mae rheoli gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, maint, strwythur, swyddogaeth neu boblogaethau nodweddiadol rhywogaethau'r nodwedd, yn briodol i gynnal statws cadwraethol ffafriol ac yn sicr yn yr hirdymor. • Mae rheoli pysgodfeydd masnachol presennol ar gyfer rhywogaethau nodweddiadol yn sicrhau nad yw manteisio ar rywogaethau'n ddim mwy nag uchafswm cynnyrch cynaliadwy ac yn sicr yn yr hirdymor.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Gallai'r polisi HTL yn yr aber mewnol (Uned Bolisi 16.9; yr arglawdd a'r pentref) lle mae amddiffynfeydd yn bodoli eisoes beri lleihau'r cynefin gwastadedd llaid rhynglanwol oherwydd y cyfyngiad ar yr amddiffynfeydd, gyda morfa heli'n cytrefu ardaloedd o wastadedd llaid, tra byddai ardaloedd is o laid aberol yn dod yn islanwol. At ei gilydd, gellid colli hyd at **7.12ha** o wastadedd llaid yn ystod yr holl holl gyfnodau, gyda **0.17ha** yn y cyfnod cyntaf, **3.3ha** yn yr ail gyfnod, 3.**65ha** yn y trydydd cyfnod.	Ni nodwyd dim	Mae effaith andwyol i'w disgwyl oherwydd lleihau maint y nodwedd ddiddordeb	Na

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Dol heli Iwerydd (ASM)	Amherthnasol	• Helaethder dol heli Iwerydd • Cyflwr cyfundrefn geinciau a phantiau heli ASM • Dosbarthiad planhigion • Strwythur glaswellt	• Caiff dosbarthiad a maint y dolydd heli eu penderfynu'n bennaf gan adeiledd naturiol a phrosesau amgylcheddol. • Caiff y strwythurau cynefin naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hir-dymor y dolydd heli a'r rhywogaethau nodweddiadol eu cynnal. • Caiff dosbarthiad gronynnau a strwythur gwaddodion y dolydd heli, a'u hamrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan brosesau naturiol cyflenwi a chludo gwaddod. • Caiff geomorffoleg y dolydd heli, a'i amrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan y ddaeareg sylfaenol a phrosesau amgylcheddol naturiol. • Caiff y prosesau hydrograffig a meteorolegol angenrheidiol i gynhaliaeth hir-dymor y dolydd heli a'u rhywogaethau nodweddiadol eu penderfynu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol. • Caiff cyfundrefn a graddiannau halltedd yn y dolydd heli eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Mae maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn aros o fewn amrediadau na allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hir-dymor cymunedau'r dolydd heli, eu dosbarthiad a'u cyrhaeddiad. • Mae halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol yn aros islaw lefelau a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hir-dymor cymunedau'r dolydd heli, eu dosbarthiad a'u cyrhaeddiad. • Caiff lefelau ocsigen toddedig yn y golofn ddŵr a gwaddodion eu penderfynu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol; • Caiff dosbarthiad morfa heli o arloesol, corstir canol isaf a chorstir canol uchaf a'u trosiad i ddŵr croyw a llystyfiant daearol eu cynnal. • Mae cymunedau rhywogaethau nodweddiadol yn cadw eu statws cadwraeth dros gyfnod hir fel cydrannau hyfyw o gynefinoedd y dolydd heli. • Caiff cyfoeth rhywogaethau, dynameg poblogaeth, digonedd, biomas, strwythurau poblogaeth, iechyd ffisiolegol, gallu atgenhedlol, denu, cyrhaeddiad a symudedd eu cynnal. • Mae rheolaeth briodol o weithgareddau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, maint, strwythur, swyddogaeth neu rywogaethau nodweddiadol cymunedau'r nodwedd, ar gyfer cynnal statws cadwraethol ffafriol ac yn sicr yn yr hirdymor.	See above in *Salicornia* a phlanhigion unflwydd yn cytrefu llaid a thywod	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA y Fenai a Bae Conwy							
Cilfachau a baeau mawr bas	Amherthnasol	• Cyrhaeddiad • Adeiledd a swyddogaeth	Cyrhaeddiad Dosbarthiad a maint nodweddion cynefin safle at ei gilydd, a phob un o'u prif gydrannau'n sefydlog neu'n cynyddu. O ran y nodwedd **gwastadedd llaid a gwastadedd tywod rhynglanwol** mae'r rhain yn cynnwys; • Cymunedau gro lleidiog • Gwellt-y-gamlas bach, gwelyau *Zostera noltei* • Cymunedau gwaddod Traeth Lafan O ran nodweddion y creigresi mae'r rhain yn cynnwys; • Cymunedau creigres dan amgylchiadau cysgodol rhag tonnau ynni mawr, yn cael eu hysgubo gan y llanw • Cymunedau dan glogfeini, dan fargod ac mewn agennau • Cymunedau creigresi calchfaen • Cymunedau creigresi brigiad clai O ran y nodwedd **bae bas mawr** mae'r rhain yn cynnwys; • Ardaloedd gwaddod lleidiog yn fras o ddeunydd organaidd Adeiledd a swyddogaeth Nid yw'r strwythur a swyddogaethau ffisegol, biolegol a chemegol angenrheidiol i gynhaliaeth ac ansawdd hirdymor y cynefin yn cael eu diraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae; • daeareg, • gwaddodeg, • geomorffoleg, • hydrograffeg a meteoroleg, • cemeg dŵr a gwaddod, • rhyngweithiadau biolegol. Mae hyn yn cynnwys gofyn bod lefel maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol o fewn amrediadau na allant fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor poblogaeth rywogaethau'r nodwedd, eu cyflenwad a chyrhaeddiad. Halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol i fod: • ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol • islaw lefelau a allai beri cynnydd mewn crynoadau halogyddion mewn gwaddodion neu fywyd • islaw'r hyn a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor y nodweddion, rhywogaethau, poblogaethau, eu cyflenwad neu gyrhaeddiad. • Adennill ac adfer Mae hyn yn cynnwys yr angen i adfer rhai nodweddion **creigres** fel cymunedau dan glogfeini, dan fargod ac mewn agennau, a rhai nodweddion **gwastadedd llaid a gwastadedd tywod** fel y cynefinoedd gro lleidiog a'r cynefinoedd lleidiog cysgodol. Mae'r cynefinoedd hyn i gyd hefyd yn rhan o'r nodwedd **cilfachau a baeau mawr**. Rhywogaethau nodweddiadol	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Mae'r lan o Foelfre i Fangor i Gonwy a'r Gogarth yn cynnwys brithwaith o wahanol fathau gwaddod, sy'n cynnal cymysgedd amrywiol o gymunedau planhigion ac anifeiliaid. Mae'r ardal hon oddi allan i PDZ 12 ac ni fydd yn cael ei heffeithio felly.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Ponciau tywod dan ychydig o ddŵr y môr	Amherthnasol	• Cyrhaeddiad. • Strwythur a swyddogaeth. • Rhywogaethau nodweddiadol.		Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Mae'r safle'n cynnwys cymhlethdod Four Fathom Banks, sy'n fath cymharol brin o boncen dywod islanwol yng Nghymru, trwy fod yn gymharol fawr, ac yn eithaf cysgodol rhag effaith y tonnau ond yn sefyll mewn ardal o arfordir agored. Mae'r ponciau tywod yn amrywio o dywodydd lleidiog sefydlog mewn ardaloedd lle mae llifau llanw gwan i dywod crych cymharol lân wedi'i ddidoli'n dda ac yn ardal allanol y boncen lle mae llifau llanw'n gryfach. Mewn dyfroedd bas iawn, yn enwedig ger y glannau, mae cymunedau tywodlyd cymharol gyfoethog o rywogaethau yw drwm o fwydod gwrychog fel *Spio filicornis*. Yn rhai blynyddoedd pan fo llawer o gregyn deuglawr, gwelwyd heidiau pwysig yn rhyngwladol o'r fôr-hwyaden ddu *Melanitta nigra* yn ymgynnull yn ardal cymhlethdod y Four Fathom Banks i fwydo. Bydd polisïau NAI yn Unedau Polisi 16.6, 16.13, 16.15, 16.16, 16.18, 16.20, 16.23, 16.25, 16.26, 16.30 ac 16.31 yn gadael i'r blaendraeth sydd wrthi'n erydu ddal i erydu, gan gyflenwi gwaddod i'r blaendraeth uchaf fel na fydd cynnydd yn lefel y môr yn peri lleihau maint yr amlygiadau rhynglanwol. Fodd bynnag gall cyflwr y ponciau tywod newid os yw deunydd erydu'n cael ei ddyddodi'n barhaol yn y cylch – naill ai'n newid math y gwaddod, neu'n cynyddu / lleihau uchder y ponciau tywod; fodd bynnag, bydd hyn o ganlyniad i'r prosesau naturiol ac nid o ganlyniad i bolisïau CRhT2. Bydd HTL yn yr Unedau Polisi sy'n cael eu rhestru isod yn gadael i'r ponciau tywod islanwol ymateb i gynnydd yn lefel y môr ar draul / colled y cynefinoedd rhynglanwol. Gellid colli cynefin rhynglanwol lle nad yw'n gallu symud tua'r tir gan y bydd maint cynefin islanwol yn cynyddu – naill ai o ganlyniad i fod dan ddŵr y môr, neu drwy ddyddodi gwaddod ar y cynefinoedd islanwol presennol. 16.5 = HTL/MR/NAI, 16.11 = HTL/HTL/MR, 16.12 = HTL/HTL/HTL,16.14 = HTL/HTL/HTL, 16.17 = HTL/MR/NAI, 16.19 = HTL/HTL/HTL, 16.21 = HTL/HTL/MR, 16.22 = HTL/HTL/MR, 16.24 = HTL/HTL/HTL, 16.27 = HTL/HTL/HTL, 16.28 = HTL/HTL/MR, 16.29 = HTL/HTL/HTL, 16.33 = HTL/HTL/MR Byddai MR yn y pen draw (fel y rhestrwyd uchod) yn sicrhau na fyddai gwasgfa arfordirol yn broblem i'r cynefin rhynglanwol a bydd yn sicrhau nad yw maint ponciau tywod islanwol yn cynyddu'n sylweddol ar draul y cynefin rhynglanwol. O dderbyn mai dim ond tri o'r unedau polisi HTL hirdymor sydd o fewn terfynau'r safle rhynglanwol allan o dri ar ddeg o unedau polisi (gwelwch y rhynglanwol isod), ac o dderbyn natur y patrymau a symudiad gwaddod yn Afon Menai a Thraeth Lafan (a glannau cyfyngedig dan sylw), nid oes	Nid oes angen dim. Fodd bynnag, dylid cadw golwg ar y ponciau tywod islanwol i sicrhau nad yw cynnydd yn lefel y môr yn peri unrhyw golli maint y ponciau tywod islanwol.	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
			Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth rhywogaethau nodweddiadol fel nad yw ansawdd cynefin yn cael ei ddiraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae: • cyfoeth rhywogaethau • strwythur a dynameg poblogaeth, • iechyd ffisiolegol, • gallu atgenhedlol • denu, • symudedd • cyrhaeddiad Fel rhan o'r amcan hwn dylid nodi: • bod angen i gyflenwad boblogaethau o rywogaethau nodweddiadol sy'n destun pysgodfeydd masnachol presennol fod yn hafal i neu'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni cynnyrch mwyaf cynaliadwy a sicr yn y pen draw • bod gweithgareddau neu weithrediadau rheolaeth a rheoliad sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y nodwedd cynefin yn briodol i'w gynnal mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw.	disgwyl dim rhwystr i symudiad gwaddodion a datblygiad ponciau tywod islanwol. At ei gilydd daethpwyd i gasgliad y bydd y ponciau tywod islanwol yn gallu ymateb i'r amgylchiadau newidiol ac na fydd polisïau CRhT2yn effeithio er gwaeth arnynt. Mae perygl a bydd deunydd a erydwyd yn cael ei golli os oes newid annisgwyl ym mhrosesau arfordirol yr ardal, a dylid cadw golwg yn y dyfodol i sicrhau na fydd unrhyw effaith arnynt.			
Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir :</u> Y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol yn cynnwys Traeth Lafan, glannau Afon Menai, a'r Foryd. Mae Traeth Lafan yn enghraifft o wastadedd llaid a thywod helaeth bron yn hollol forol sy'n agored i amrywiaeth eang o amlygrwydd i donnau, yn rhoi amrywiaeth o fathau gwaddod gyda chymunedau cysylltiedig nodweddiadol. Er enghraifft, mae'r berdys *Haustorius arenarius* a *Bathyporeia sarsi* i'w cael mewn tywod glân symudol, tra bo cregyn deuglawr fel y gocysen *Cerastoderma edule*, cragen blacen *Mya arenaria* a chragen delyn yr aber *Macoma balthica* yn gyffredin mewn tywod mân a lleidiog mwy cysgodol. Mae saer y tywod *Lanice conchilega* i'w gael mewn ardaloedd sy'n cael eu hysgubo mwy gan y llanw. Mae'r glannau gwaddod cymysg rhwng Biwmares a Lleiniog yn lannau cynhyrchiol dros ben sy'n llawn rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion. Mae'r glannau hyn yn cynnwys bïotop pwysig yn genedlaethol sy'n brin yn y DU. Mae gwellt-y-gamlas bach *Zostera noltei* sy'n anfynych ledled y wlad i'w gael ar y safle hwn hefyd. Gwastadedd llaid neu wastadedd tywod yw mwyafrif morlin y safle hwn. Fodd bynnag, nid yw'r ACA yn cynnwys holl wastadeddau tywod / llaid rhynglanwol yn PDZ 16. Mae'r Unedau Polisi canlynol yn cynnwys gwastadeddau tywod / gwastadeddau llaid sydd o fewn terfyn yr ACA: 16.5 = HTL/MR/NAI (gwastadedd tywod a morfa heli) 16.6 = NAI/NAI/NAI (gwastadedd tywod) 16.9 = HTL/HTL/HTL (gwastadedd llaid) 16.11 = HTL/HTL/MR (gwastadedd tywod a morfa heli) 16.12 = HTL/HTL/HTL (gwastadedd llaid and gwastadedd tywod) 16.13 = NAI/NAI/NAI (gwastadedd llaid and shingle) 16.17 = HTL/MR/NAI (gwastadedd tywod) 16.18 = NAI/NAI/NAI (gwastadedd llaid) 16.24 = HTL/HTL/HTL (gwastadedd llaid) 16.25 = NAI/NAI/NAI (gwastadedd tywod) 16.30 = NAI/NAI/NAI (gwastadedd llaid) 16.31 = NAI/NAI/NAI (gwastadedd tywod) 16.33 = HTL/HTL/MR (gwastadedd tywod) Bydd colli cynefin yn Unedau Polisi 16.6, 16.13, 16.18, 16.25, 16.30 ac 16.31 o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid o ganlyniad i bolisïau CRhT2. Bydd polisi HTL yn Uned Bolisi 16.5, rhan o 16.11, ac 16.33 yn peri colli cynefin rhynglanwol fel y bydd y gwastadeddau tywod / gwastadeddau llaid yn cael eu cyfyngu wrth i lefel y môr gynyddu. Gellid colli tua **1.21ha** o wastadedd tywod rhynglanwol o ganlyniad i HTL yn Unedau Polisi 16.5, 16.11, ac 16.33 yn y cyfnod cyntaf, tra gellid colli hyd at **3.87ha** yn yr ail gyfnod o ganlyniad i HTL yn Unedau Polisi 16.11 ac 16.33.	Posibilrwydd symud amddiffynfeydd tua'r tir pan fo hynny'n ymarferol yn lleol i ganiatáu i gynefin rhynglanwol dreiglo'n ôl yn unol â chynnydd yn lefel y môr, gan leihau maint nodwedd y safle dan sylw.	Byddai colli hyd at 5.08ha o nodwedd gwastadedd llaid a gwastadedd tywod rhynglanwol yn peri effaith andwyol.	Na

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				Er y bydd HTL yn Unedau Polisi 16.12, 16.14, 16.17, 16.19, 16.21, 16.22, 16.24, 16.27, 16.28, ac 16.29 yn cyfyngu ar gynefin rhynglanwol ni fydd yn effeithio er gwaeth ar nodwedd y safle gan y byddai'n effeithio ar gynefin rhynglanwol oddi allan i derfynau'r safle. Bydd y polisi NAI yn y trydydd cyfnod yn Unedau Polisi 16.5 ac 16.17 yn galluogi i'r cynefin rhynglanwol ymateb yn naturiol i'r cynnydd yn lefel y môr – felly bydd unrhyw golli cynefin yn y trydydd cyfnod o'r Unedau Polisi hyn o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid i bolisi CRhT2.			
Creigresi	Amherthnasol			<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir :</u> Mae creigresi Afon Menai a Bae Conwy rhwng tir mawr Cymru ac Ynys Môn yn cynnwys rhaeadr lanwol Afon Menai, a charreg galch creigresi ar hyd arfordir de-ddwyrain Ynys Môn ac o gwmpas Ynys Seiriol a Thrwyn y Fuwch a'r Gogarth. Mae amgylchiadau amgylcheddol Afon Menai'n anghyffredin. Mae'r dŵr yn gymharol gymylog, yn cynnwys cryn dipyn o ddeunydd mewn daliant ac, er bod yr ardal yn cael ei chysgodi'n dda rhag effaith y tonnau, mae llifau llanw'n gryf, yn cyrraedd hyd at 8 not (4m yr eiliad) mewn mannau yn ystod llanwau mawr. O ganlyniad, creigresi Afon Menai mae cymysgedd amrywiol ac anghyffredin o anifeiliaid yno sy'n bwydo'n bennaf trwy hidlo eu bwyd o ddŵr y môr. Yn bennaf mae creigresi creigwely yn Unedau Polisi 16.14, 16.15, 16.16, 16.18 ac 16.26 gyda'r dewisiadau polisi: 16.14 = HTL/HTL/HTL 16.15 = NAI/NAI/NAI 16.16 = NAI/NAI/NAI 16.18 = NAI/NAI/NAI 16.26 = NAI/NAI/NAI Bydd polisïau NAI yn gadael i'r tywod rhynglanwol a gwastadeddau llaid ddal i gyflenwi gwaddod i'r creigresi islanwol a chyflenwi gwaddod i'r blaendraeth uchaf gan ganiatáu cynnal maint y creigresi islanwol a rhynglanwol. Bydd HTL yn Uned Bolisi 16.14 yn peri colli cynefinoedd o'r parth rhynglanwol yn y pen draw wrth i lefel y môr gynyddu ac wrth i'r lan gael ei gwasgu. Fodd bynnag, mae'r parth rhynglanwol oddi allan i derfynau'r safle ac, o ganlyniad, ni fyddai disgwyl i arwynebedd cynefin nodweddion y greigres ger y lan ostwng. Mae cynefin creigres rynglanwol ac islanwol fas yn Uned Bolisi 16.11 lle mae ffiniau'r safle ochr yn ochr â chyfyngiad all fod (ar bolisi HTL) yn y cyfnod cyntaf ac, yn enwedig, yn yr ail, allai beri lleihau neu gyfyngu ar gynefin creigres. Er bod Unedau Polisi arall ar bwys terfynau'r safle, ar y cyfan nid yw'r parth rhynglanwol o fewn terfynau'r safle ac, o ganlyniad, bydd digon o gynefin rhynglanwol i'r creigresi rhynglanwol neu islanwol bas fudo iddo mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr, ac nid oes disgwyl dim colled yn nodweddion y greigres. Nid oedd data ar gael i feintoli colled y nodwedd ddiddordeb arbennig hon.	Nid oes angen dim. Fodd bynnag, dylid cadw golwg ar gynefinoedd y creigresi i sicrhau nad yw eu maint yn lleihau o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr.	Colli maint neu strwythur cynefin creigres yn yr ail gyfnod.	Na

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
AGA Traeth Lafan , Bae Conwy							
Rhywogaeth Erthygl 4.2 bwysig yn rhyngwladol (gaeafu): Pioden fôr *Haematopus ostralegus*, gylfinir *Numenius arquata*	Afonydd llanwol. Aberoedd. Gwastadeddau llaid. Gwastadeddau tywod. Morlynnoedd (gan gynnwys pantiau gwaith halen) Morfeydd heli. Dolydd halen. Peithiau halen	• Nifer y piod môr yn gaeafu • Maint gwastadeddau rhynglanwol a dosbarthiad gofodol bras eu mathau gwaddod a chymuned cyfansoddol yn cael ei gynnal • Cyflenwad a dosbarthiad cocos – 15mm yn cael eu cynnal yn ddigonol i gynnal y boblogaeth yn 4000 unigolyn	• Mae brig 5 mlynedd cyfartalog nifer y piod môr yn gaeafu'n 4,000 o leiaf. • Mae cyflenwad a dosbarthiad cocos 15mm neu fwy a bwyd addas arall yn cael eu cadw ar lefelau digonol i gynnal y boblogaeth gyda brig 5 mlynedd cyfartalog o 4,000 unigolyn. • Nid yw piod môr yn cael eu haflonyddu mewn ffyrdd sy'n eu hatal rhag treulio digon o amser yn bwydo i bara'n fyw. • Mae safleoedd clwydo, gan gynnwys safleoedd clwydo penllanw, yn aros yn addas ar gyfer piod môr i glwydo'n ddigyffwrdd. • Mae rheolaeth a rheoliad gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o effeithio'n wrthwynebus ar y piod môr, yn briodol ar gyfer cynnal y nodwedd mewn cyflwr ffafriol ac yn sicr yn y pen draw.	<u>Coastal squeeze/ Coastal processes:</u> Mae Traeth Lafan ym Mae Conwy ger Bangor yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae'n barth rhynglanwol mawr o wastadeddau tywod a gwastadeddau llaid ar ymyl dwyreiniol Afon Menai. Mae'r ardal yn agored i amryw gyfeiriadau ac amrywiaeth o amgylchiadau, gyda nentydd dŵr croyw'n llifo ar draws y gwastadeddau. Mae'r safle'n bwysig i adar dŵr yn gaeafu, yn enwedig y bioden fôr *Haematopus ostralegus*. Dan amgylchiadau o dywydd gaeaf garw, mae Traeth Lafan yn gweithredu fel lloches i biod môr a ddadleolwyd o Aber Dyfrdwy. Ar hyd morlin yr AGA, y dewis rheoli yw NAI sy'n caniatáu i'r ponciau tywod ymateb i gynnydd yn lefel y môr. Yn Uned Bolisi 16.33, bydd polisi HTL yn ystod yr holl gyfnodau yn arwain at wasgfa arfordirol a allai beri colli cynefin gwastadedd tywod rhynglanwol wedyn yn safle – **0.03ha** yn y cyfnod cyntaf, a **0.4ha** yn yr ail gyfnod. Bydd traeth yn cael ei golli a mwy o amlygrwydd i donnau hefyd dan y dewis rheoli hwn ym mhen gorllewinol yr Uned Bolisi hon. Byddai'r golled hon o gynefin rhynglanwol yn digwydd hefyd yn Uned Bolisi 20.1 a byddai'n peri gostyngiad yn y cynefin cynhaliol (gwastadedd tywod) rhywogaethau'r AGA. Er bod cyfanswm arwynebedd gwastadedd tywod rhynglanwol yn fach mewn perthynas â'r arwynebedd at ei gilydd, gallai'r golled effeithio ar amgylchiadau ffafriol poblogaethau'r bioden fôr a'r gylfinir.	Ni nodwyd dim	Gallai fod effaith andwyol ar gyfanrwydd oherwydd colli cynefin cynhaliol poblogaethau adar y safle	Na

Helaethiad B – Tablau Asesu CRhT2 Gorllewin Cymru ar Safleoedd Natura 2000

Tabl 17 PDZ 17 – Ynys Gybi a Gorllewin Ynys Môn: Twyn y Parc i Dwyn Cliperau

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA y Twyni o Abermenai i Aberffraw							
Twyni symudol elfennol	Amherthnasol	• Maint • Ansawdd	• Dosbarthiad a maint twyni symudol elfennol yn hwyr yn yr haf sy'n penderfynu faint o dywod yn cronni'n naturiol a deunydd organaidd min y traeth sydd ar gael. Fodd bynnag, ni fyddem yn disgwyl i'r ardal gyfan a allai fod yn gynefin twyni elfennol fod dan dyfiant yn unrhyw flwyddyn a gall twyni elfennol fod yn absennol yn rhai blynyddoedd. Byddai absenoldeb di-dor yn ystod y cylch hysbysu chwe blynedd yn peri ystyried bod y cyflwr yn anffafriol. • Posibilrwydd bod elfen twyni symudol elfennol y dosbarthiad nodweddiadol, o draeth i dwyn sefydlog, yn gyflawn ar hyd yr arfordir meddal. Mae hyn yn cynnwys cyflenwad gwaddod digyfyngiad, cyfle i gludo ar y gwynt a deunydd organaidd min y traeth yn digwydd yn naturiol. • Mae rhywogaethau nodweddiadol planhigion min y traeth yn cynnwys *Atriplex* spp., *Beta vulgaris*, *Cakile maritime*, *Honkenya peploides*, *Salsola kali*. • Mae rhywogaethau nodweddiadol planhigion y twyni elfennol yn cynnwys *Elytrigia juncea* a/neu *Leymus arenarius*. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Yn PDZ 17, dim ond Unedau Polisi 17.2, 17.3 ac 17.4 sydd ar bwys yr ACA hon ac, o'r rhain, polisi dewisol Uned Bolisi 17.2 ac 17.4 yw NAI. Felly, bydd y twyni tywod yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr. Gallai HTL yn y cyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 17.3 gyfyngu ar ddatblygiad y twyni; fodd bynnag, nid yw bwriad polisi HTL yn y cyfnod cyntaf ond ar hyd mur presennol y cei nad yw'n cyfyngu nac yn dylanwadu ar symudiad gwaddodion a datblygiad y twyni. Felly, mae'n annhebygol o effeithio ar dwyni elfennol. Nid oes mapiau Rheoliad 33 ar gael i nodi lleoliad penodol y cynefinoedd hyn. Fodd bynnag, gellir tybio y bydd cynefin y twyn blaen yn dal i allu datblygu, ond gall fod cyfyngiad ar y twyni cefn. Fodd bynnag, at ei gilydd, ni fydd y nodwedd twyn hon yn cael ei heffeithio. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 17.**	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag *Ammophila arenaria* (`twyni gwynion`)	Amherthnasol	• Maint • Ansawdd	• Mae twyni symudol gydag *Ammophila arenaria* yn bresennol ar hyd blaen y twyn sy'n wynebu'r prifwynt (de-orllewin) lle mae cyflenwad gwaddod yn ddigonol. • Ni ddylai fod unrhyw leihad yng nghyfanswm (cronnol) arwynebedd y cynefinoedd twyni cymhwysol y dynodwyd y safle hwn ar eu cyfer (h.y. ni ddylai cyfanswm y cynefin twyni cymhwysol leihau). Gall maint a lleoliad nodweddion cynefin twyni unigol amrywio'n gyfnodol a thymhorol. • Mae elfen twyni symudol y dosbarthiad nodweddiadol o draeth i dwyn sefydlog yn gyflawn ar hyd yr arfordir meddal. • Mae tir noeth yn bresennol. • Rhywogaethau nodweddiadol y planhigion twyni symudol yw *Ammophila arenaria*, *Leymus arenarius*, *Elymus farctus*, *Eryngium maritimum*, *Euphorbia portlandica*, *Euphorbia paralias*, and *Calystegia soldanella*. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Mae'r safle'n cynnwys un o'r ardaloedd mwyaf o gymuned twyni symudol clymwellt *Leymus arenarius* yng Nghymru. Mae'r twyni symudol ym mhen deheuol y safle'n cynnal digonedd o gelyn y môr *Eryngium maritimum*, ac mae dosbarthiad aeddfed o fathau twyni, gan gynnwys trawsnewidiad tua'r môr rhwng twyn symudol a blaendwyn, a thrawsnewidiad tua'r tir i dwyn sefydlog a llac twyn. Yn PDZ 17, dim ond Unedau Polisi 17.2, 17.3 ac 17.4 sydd ar bwys yr ACA hon ac, o'r rhain, polisi dewisol Uned Bolisi 17.2 ac 17.4 yw NAI. Felly, y disgwyl yw y bydd y twyni tywod yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr. Gallai HTL yn y cyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 17.3 gyfyngu ar ddatblygiad y twyni; fodd bynnag, nid yw bwriad polisi HTL yn y cyfnod cyntaf ond ar hyd mur presennol y cei nad yw'n cyfyngu nac yn dylanwadu ar symudiad gwaddodion a datblygiad y twyni. Felly, mae'n annhebygol o effeithio ar dwyni elfennol. Nid oes mapiau Rheoliad 33 ar gael i nodi lleoliad penodol y cynefinoedd hyn. Fodd bynnag, gellir tybio y bydd cynefin y twyn blaen yn dal i allu datblygu, ond gall fod cyfyngiad ar y twyni cefn. Fodd bynnag, at ei gilydd, ni fydd y nodwedd twyn	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				hon yn cael ei heffeithio. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 17.**			
Twyni sefydlog gyda phlanhigion llysieuol (`twyni llwydion`)	Amherthnasol	• Maint • Ansawdd	• Gall dosbarthiad twyni sefydlog o fewn y safle amrywio mewn ymateb i brosesau dynamig a newidiadau yng nghynefinoedd twyni cymhwysol eraill ar gyfer y safle. • Ni ddylai fod unrhyw leihad yng nghyfanswm arwynebedd twyni sefydlog gyda phlanhigion llysieuol. • Mae elfen twyni sefydlog y dosbarthiad nodweddiadol o draeth i dwyn sefydlog yn gyflawn ar hyd yr arfordir meddal. • Mae tir noeth yn bresennol. • Rhywogaethau nodweddiadol y planhigion twyni sefydlog yw *Cerastium fontanum, Crepis capillaris, Cladonia spp., Peltigera spp., Erodium cicutarium, Geranium molle, Luzula campestris, Odontites verna, Pilosella officinarum, Plantago lanceolata, Prunella vulgaris, Festuca rubra, Galium verum, Anacamptis pyramidalis, Thymus polytrichus, Sedum acre, Veronica chamaedrys, Carex arenaria, C. flacca, Euphrasia officinalis, Hypnum cupressiforme, Hypochaeris radicata, Linum catharticum, Lotus corniculatus, Ononis repens, Rhinanthus minor, Rhytidiadelphus squarrosus, R triquetrus, Tortula muralis Viola canina, V. riviniana* a *V. tricolour.* • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Yn PDZ 17, dim ond Unedau Polisi 17.2, 17.3 ac 17.4 sydd ar bwys yr ACA hon ac, o'r rhain, polisi dewisol Uned Bolisi 17.2 ac 17.4 yw NAI. Felly, y disgwyl yw y bydd y twyni tywod yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr – a bydd unrhyw golled o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid y CRhT. Nid oes mapiau Rheoliad 33 ar gael i nodi lleoliad y cynefin penodol hwn. Gallai'r cynefin hwn gael ei gyfyngu gan HTL yn Uned Bolisi 17.3 yn y cyfnod cyntaf, os yw'r cynefin yn neu dan ddylanwad Uned Bolisi 17.3. Fodd bynnag, nid yw bwriad polisi HTL yn y cyfnod cyntaf ond ar hyd mur presennol y cei nad yw'n cyfyngu nac yn dylanwadu ar symudiad gwaddodion a datblygiad twyni sefydlog. Felly, mae'n annhebygol o effeithio ar dwyni sefydlog. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 17.**	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Twyni gyda *Salix repens ssp. argentea (Salicion arenariae)*	Amherthnasol	• Maint • Ansawdd	• Mae dosbarthiad twyni gyda *Salix repens ssp argentea* yn cyd-fynd â dosbarthiad nodweddiadol twyni a lle bo ffurf y tir yn addas. Gall lleoliad twyni gyda *Salix repens ssp argentea* o fewn y safle amrywio mewn ymateb i brosesau dynamig naturiol a newidiadau yng nghynefinoedd twyni cymhwysol eraill ar gyfer y safle. • Ni ddylai fod unrhyw leihad yng nghyfanswm (cronnol) arwynebedd y cynefinoedd twyni cymhwysol y dynodwyd y safle hwn ar eu cyfer (h.y. ni ddylai cyfanswm y cynefin twyni cymhwysol leihau). Gall maint nodweddion cynefin twyni amrywio'n gyfnodol a thymhorol. • Mae *Salix repens* yn gyffredin o leiaf ac yn 5 - 30cm o daldra'n gyffredinol. • Mae cyfleoedd yn bodoli i ddechrau llaciau twyni elfennol trwy erydiad y gwynt. • Mae tir noeth yn bresennol. • Nid yw llygredd yn effeithio ar ansawdd dŵr codi. • Mae lefel dŵr daear yn briodol yn y gaeaf a'r haf. • Y rhywogaethau nodweddiadol yw *Salix repens*, *Carex arenaria*, C *flacca*, *Euphrasia officinalis*, *Festuca rubra*, *Lotus corniculatus*, *Ononis repens*, *Equisetum variegatum*, *Epipactis palustris*, *Epipactis leptochila* spp *dunensis* a *Pilosella officinarum*. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Yn PDZ 17, dim ond Unedau Polisi 17.2, 17.3 ac 17.4 sydd ar bwys yr ACA hon ac, o'r rhain, polisi dewisol Uned Bolisi 17.2 ac 17.4 yw NAI. Felly, y disgwyl yw y bydd y twyni tywod yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr – a bydd unrhyw golled o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid y CRhT. Nid oes mapiau Rheoliad 33 ar gael i nodi lleoliad y cynefin penodol hwn. Gallai'r cynefin hwn gael ei gyfyngu gan HTL yn Uned Bolisi 17.3 yn y cyfnod cyntaf, os yw'r cynefin yn neu dan ddylanwad Uned Bolisi 17.3. Fodd bynnag, nid yw bwriad polisi HTL yn y cyfnod cyntaf ond ar hyd mur presennol y cei nad yw'n cyfyngu nac yn dylanwadu ar symudiad gwaddodion a datblygiad twyni gyda *Salix repens*. Felly, mae'n annhebygol o effeithio ar y nodwedd twyni. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 17.**	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Llaciau twyni llaith	Amherthnasol	• Ansawdd	• Mae dosbarthiad llaciau twyni llaith yn cyd-fynd â'r dosbarthiad twyni nodweddiadol a lle mae ffurf y tir yn addas. Gall lleoliad llaciau twyni llaith yn y safle amrywio mewn ymateb i brosesau dynamig naturiol a newidiadau yng nghynefinoedd twyni cymhwysol eraill ar gyfer y safle. • Ni ddylai fod unrhyw leihad yng nghyfanswm (cronnol) arwynebedd y cynefinoedd twyni cymhwysol y dynodwyd y safle hwn ar eu cyfer (h.y. ni ddylai cyfanswm y cynefin twyni cymhwysol leihau). Gall maint a lleoliad nodweddion cynefin twyni unigol amrywio'n gyfnodol a thymhorol. • Dylai holl gymunedau llaciau twyni llaith fod yn bresennol, o laciau twyni elfennol gyda chanran uchel o dir noeth i lystyfiant mwy caeëdig gyda *Salix repens*. • Mae cyfleoedd yn bodoli i ddechrau llaciau twyni elfennol (trwy erydiad y gwynt). • Mae tir noeth yn bresennol. • Mae lefel dŵr codi'n briodol yn y gaeaf a'r haf. • Nid yw lygredd yn effeithio ar ansawdd dŵr codi. • Y rhywogaethau nodweddiadol yw *Salix repens, Carex arenaria, C flacca, Equisetum variegatum, Lotus corniculatus, Ononis repens, Potentilla anserina, Galium palustre, Mentha aquatica, Hydrocotyle vulgaris, Campyllium stellatum, Prunella vulgaris, Ranunculus flammula, Calliergon cuspidatum, Anagallis tenella. Parnassia palustris, Selaginalla selaginoides, Dactylorhiza incarnata* ac *Epipactis palustris.* • Mae llysiau'r afu i'w cael mewn llaciau twyni llaith lle mae *Equisetum variegatum* yn gyffredin yn adrannau Aberffraw a Niwbwrch. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Ymwthiad halwynog:</u> Mae'r safle'n cynrychioli llaciau twyni llaith yng Ngogledd Cymru. Mae cylchoedd helaeth o blanhigion twyn agored a llawer o laciau twyni llaith yn dal yno, er y bu newidiadau yn y lefel trwythiad sydd i'w briodoli'n rhannol i dwf y goedwig fasnachol. Mae'r newidiadau wedi dylanwadu ar ddatblygiad llaciau twyni llaith sydd, serch hynny, yn cadw mwyafrif nodweddion hanfodol y math o gynefin. Yn PDZ 17, dim ond Unedau Polisi 17.2, 17.3 ac 17.4 sydd ar bwys yr ACA hon ac, o'r rhain, polisi dewisol Uned Bolisi 17.2 ac 17.4 yw NAI. Felly, y disgwyl yw y bydd y twyni tywod yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr – a bydd unrhyw golled o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid y CRhT. Nid oedd mapiau Rheoliad 33 ar gael i nodi lleoliad y cynefin penodol hwn. Gallai'r cynefin hwn gael ei gyfyngu gan HTL yn Uned Bolisi 17.3 yn y cyfnod cyntaf, os yw'r cynefin yn neu dan ddylanwad Uned Bolisi 17.3. Fodd bynnag, nid yw bwriad polisi HTL yn y cyfnod cyntaf ond ar hyd mur presennol y cei nad yw'n cyfyngu nac yn dylanwadu ar symudiad gwaddodion a datblygiad llaciau twyni llaith. Felly, mae'n annhebygol o effeithio ar y nodwedd twyni am nad oes unrhyw gyfyngiad i'w ddisgwyl. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 17.**	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Llynnoedd ewtroffaidd naturiol gyda phlanhigion *Magnopotamion* neu fath *Hydrocharition*	Amherthnasol	• Helaethder cynefin • Cyflwr y nodwedd • Presenoldeb rhywogaethau ymosodol estron	• Mae dosbarthiad y llynnoedd yn adlewyrchu eu statws ffisiograffig fel llynnoedd a gronnwyd gan dwyn o ddyffrynnoedd bas. • Maint (arwynebedd) y cynefin yw 30ha, heblaw os yw'n llai oherwydd dilyniant naturiol i gorstir neu gors. • Mae dalgylch y llynnoedd yn dal i ddarparu ansawdd a swmp digonol o ddŵr. • Caiff lefel dŵr priodol ei gynnal drwy gydol y flwyddyn, (amrywiad tymhorol +/- 30cm). • Mae ansawdd dŵr yn nodweddiadol o lynnoedd bas morol, alcalinaidd iawn, fel ag i gadw pH 7-9, alcalinedd 1500-2500µeq/l, ocsigen toddedig a Chyfanswm Ffosfforws blynyddol brig <50µg/l. • Mae gwerthoedd α cloroffyl yn isel, ac yn ddigonol i ganiatáu dosbarthu'r ddau lyn fel 'Da' neu well o ran 'llyn bas alcalinaidd iawn' gan ddefnyddio dulliau dosbarthu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. • Y rhywogaethau nodweddiadol yw planhigion dyfrol boddedig gan gynnwys *Elatine hydropiper*, *Potamogeton trichoides*, P *pectinatus*, P. *perfoliatus* P. *lucens*, *Ranunculus circinatus*, , *Eleocharis acicularis*, *Myriophyllum spicatum*, *Callitriche hermaphroditica* a *Chara* spp.. • Dylai planhigion dyfrol newydd ymddangos, yn nodweddiadol *Phragmites australis*, *Schoenoplectus lacustris*, *Sparganium erectum*, *Typha latifolia*, *Alisma plantago-aquatica*, and *Litorella uniflora* fod yn bresennol ar y draethlin. • Dylai rhywogaethau ymosodol neu aflonyddol fel *Crassula helmsii* neu bysgod breision fod yn absennol. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Mae darn o ddŵr croyw ym mhen ACA Twyni Abermenai i Aberffraw. Nid yw unrhyw bolisi CRhT yn berthnasol i'r llyn hwn ac mae Unedau Polisi cyfagos yn annhebygol o gael effaith ar gyfanrwydd y nodwedd. Bydd unrhyw ymateb i gynnydd yn lefel y môr yn digwydd yn naturiol. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 17.**	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Llysiau'r afu *Petalophyllum ralfsii*	Llaciau twyni llaith	• Helaethder y nodwedd • Cyflwr y cynefin	• Mae poblogaeth llysiau'r afu'n sefydlog neu'n cynyddu. • Mae llysiau'r afu i'w cael mewn llaciau twyni llaith lle mae *Equisetum variegatum* yn gyffredin, ar hyd a lled y safle lle mae cyflwr y cynefin yn addas, h.y. adrannau Aberffraw a Niwbwrch. • Mae llac twyni llaith gyda thywod noeth neu gramen ddeilbridd a llystyfiant byr gydag *Equisetum variegatum* yn nodweddiadol ohono'n bresennol yn adrannau Aberffraw a Niwbwrch lle gwaddod ac amgylchiadau hydrolegol yn caniatáu (gwelwch amcan llaciau twyni llaith). • Caiff cystadleuaeth rhywogaethau eraill ei rheoli (gan gynnwys cysgodi). • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Yn PDZ 17, dim ond Unedau Polisi 17.2, 17.3 ac 17.4 sydd ar bwys yr ACA hon ac, o'r rhain, polisi dewisol Uned Bolisi 17.2 ac 17.4 yw NAI. Felly, y disgwyl yw y bydd y twyni tywod yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr – a bydd unrhyw golled o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid y CRhT. Nid oedd mapiau Rheoliad 33 ar gael i nodi lleoliad y cynefin penodol hwn. Gallai'r cynefin hwn gael ei gyfyngu tua'r tir yn y cyfnod cyntaf, os yw'r cynefin yn neu dan ddylanwad Uned Bolisi 17.3. Fodd bynnag, nid yw bwriad polisi HTL yn y cyfnod cyntaf ond ar hyd mur presennol y cei nad yw'n cyfyngu nac yn dylanwadu ar gymunedau llysiau'r afu a'u datblygiad. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar y cynefin hwn sy'n cynnal llysiau'r afu yn PDZ 17.**	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Tafolen y traeth *Rumex rupestris*	Traethau creigiog, traethau tywodlyd a chyfordraethau. Llwyfannau'r lan. Llethrau isaf clogwyni. Anfynych ar laciau twyni.	• Presenoldeb / absenoldeb • Nifer yr unigolion • Strwythur y llystyfiant	• Mae poblogaeth tafol y traeth yn sefydlog neu'n cynyddu. • Mae tafol y traeth i'w cael mewn 3 lle o leiaf ar hyd a lled y safle. • Mae cyfleoedd i hadau wasgaru ar y môr. • Mae cynefin glannau nentydd agored, tryddiferiadau clogwyni meddal arfordirol neu byllau llaciau twyni'n ddigonol ar gyfer ei barhad. • Caiff cyflenwad dŵr croyw digonol ei gynnal. • Caiff tir noeth neu ardaloedd a aflonyddwyd (e.e. gan anifeiliaid pori) eu cynnal i ganiatáu egino. • Caiff cystadleuaeth rhywogaethau eraill ei rheoli (gan gynnwys cysgodi). • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Yn PDZ 17, dim ond Unedau Polisi 17.2, 17.3 ac 17.4 sydd ar bwys yr ACA hon ac, o'r rhain, polisi dewisol Uned Bolisi 17.2 ac 17.4 yw NAI. Felly, y disgwyl yw y bydd y twyni tywod yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr – a bydd unrhyw golled o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid y CRhT. Nid yw'r lan a'r gyfundrefn dwyni sy'n datblygu'n debygol o gael ei effeithio gan y polisi HTL yn y cyfnod cyntaf yn Uned Bolisi 17.3 oherwydd nad yw'r nodwedd ar ochr aber Uned Bolisi 17.3 ac, felly, nid oes cyfyngiad i'w ddisgwyl ar fur presennol y cei o fwriad polisi HTL. O ganlyniad, ni fydd effaith ar y cynefinoedd cynhaliol a'u swyddogaeth. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar y cynefin hwn sy'n cynnal tafolen y traeth yn PDZ 17.**	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Cors Heli Glannau Môn							
Aberoedd	Amherthnasol	• Maint • Dosbarthiad gofodol cymunedau aberol	• Caiff dosbarthiad a maint yr aberoedd, a'r cynefinoedd ynddynt, eu penderfynu'n bennaf gan adeiledd naturiol a phrosesau amgylcheddol. • Caiff yr adeileddau cynefin naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hirdymor yr aberoedd a'r cynefinoedd a rhywogaethau nodweddiadol ynddynt eu cynnal. • Caiff dosbarthiad gronynnau a strwythur gwaddodion yr aberoedd, a'u hamrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan brosesau naturiol cyflenwi a chludo gwaddod. • Nid yw ansawdd strwythur cynefin wedi'i ddiraddio'n fwy o ganlyniad i weithrediad dynol neu gan ddeunyddiau o darddiad anthropogenig. • Caiff y prosesau amgylcheddol naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hirdymor yr aberoedd, y cynefinoedd sydd ynddynt a'u rhywogaethau nodweddiadol eu cynnal. • Caiff cemeg dŵr a gwaddod eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Caiff y gyfundrefn a graddiannau halltedd yn yr aberoedd eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Caiff rhywogaethau nodweddiadol eu penderfynu'n bennaf gan ddynameg poblogaeth gynhenid a phrosesau ecolegol. • Caiff cyfoeth rhywogaethau, dynameg poblogaeth, digonedd, biomas, strwythurau poblogaeth, iechyd ffisiolegol, gallu atgenhedlol, denu, cyrhaeddiad a symudedd eu cynnal. • Mae rheoli gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, maint, strwythur, swyddogaeth neu boblogaethau nodweddiadol rhywogaethau'r nodwedd, yn briodol i gynnal statws cadwraethol ffafriol ac yn sicr yn yr hirdymor. • Mae rheoli pysgodfeydd masnachol presennol ar gyfer rhywogaethau nodweddiadol yn sicrhau nad yw manteisio ar rywogaethau'n ddim mwy nag uchafswm cynnyrch cynaliadwy ac yn sicr yn yr hirdymor.	Heb fod yn bresennol yn PDZ 17.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill yn cytrefu llaid a thywod	Amherthnasol	• Maint • Dosbarthiad • Cyflwr • Dosbarthiad a helaethder cymuned cordwellt cyffredin *Spartina anglica* SM6 yn y parth morfa heli arloesol	• Caiff dosbarthiad a helaethder Salicornia eu penderfynu'n bennaf gan adeiledd naturiol a phrosesau amgylcheddol. • Caiff yr adeileddau cynefin naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hirdymor Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill a'u rhywogaethau nodweddiadol eu cynnal. • Caiff dosbarthiad gronynnau a strwythur gwaddodion Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill, a'u hamrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan brosesau naturiol cyflenwi a chludo gwaddod. • Caiff geomorffoleg y nodwedd Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill, a'i amrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan y ddaeareg sylfaenol a phrosesau amgylcheddol naturiol. • Caiff y prosesau amgylcheddol naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hirdymor y nodwedd Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill a'i rhywogaethau nodweddiadol eu cynnal. • Caiff y prosesau hydrograffig a meteorolegol angenrheidiol i gynhaliaeth hir-dymor y nodwedd Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill a'i rhywogaethau nodweddiadol eu penderfynu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol. • Caiff cyfundrefn a graddiannau halltedd y nodwedd Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Mae maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn aros o fewn amrediadau na allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hir-dymor y cymunedau Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill, eu dosbarthiad a'u cyrhaeddiad. • Mae halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol yn aros islaw lefelau a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hir-dymor y cymunedau Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill, eu dosbarthiad a'u cyrhaeddiad. • Caiff lefelau ocsigen toddedig yn y golofn ddŵr a gwaddodion eu penderfynu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol. • Mae cymunedau rhywogaethau nodweddiadol yn cadw eu statws cadwraeth dros gyfnod hir fel cydrannau hyfyw o'r cynefinoedd Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill. Mae rheolaeth briodol o weithgareddau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, maint, strwythur, swyddogaeth neu rywogaethau nodweddiadol cymunedau'r nodwedd, ar gyfer cynnal statws cadwraethol ffafriol ac yn sicr yn yr hirdymor.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir :</u> Yn PDZ 17, dim ond Unedau Polisi 17.2, 17.3 ac 17.4 sydd ar bwys yr ACA hon ac, o'r rhain, polisi dewisol Uned Bolisi 17.2 ac 17.4 yw NAI. Felly, y disgwyl yw y bydd y twyni tywod yn gallu ymateb yn naturiol i gynnydd yn lefel y môr – a bydd unrhyw golled o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid y CRhT. Ar y cyfan, mae'n debygol y bydd y morfa heli o flaen y twyni'n datblygu gyda chynnydd yn lefel y môr; fodd bynnag, nodwyd HTL yn y cyfnod cyntaf yn Aberffraw ei hun fel cyfyngiad all fod ar ddatblygiad morfa heli. Fodd bynnag, o dderbyn natur sianel y distyll ar hyd llawer o'r Uned Bolisi ac o dderbyn llethr serth y tir tua'r gorllewin, byddai cyfyngiad naturiol ar ehangu'r morfa heli hyd yn oed gyda senario naturiol. Bydd MR arfaethedig yn y ddau gyfnod olaf yn lliniaru'r cyfyngiadau ar ddatblygiad naturiol y gyfundrefn ac, felly, bydd yn caniatáu datblygiad naturiol yr arfordir yn y pen draw. Mae'r gwastadeddau tywod yn Uned Bolisi 17.2 lle mae polisi dewisol o NAI yn ystod pob cyfnod. Felly, bydd unrhyw golli cynefin yn digwydd o ganlyniad i brosesau naturiol yn hytrach na pholisïau CRhT2.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai	Amherthnasol	• Maint • Dosbarthiad biotopau • Cyfansoddiad y gymuned • Helaethder biotopau nodedig • Cyfansoddiad rhywogaethau biotopau nodedig	• Caiff dosbarthiad a maint y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod, a'r cynefin ynddynt, eu penderfynu'n bennaf gan adeiledd naturiol a phrosesau amgylcheddol. • Caiff y strwythurau cynefin naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hir-dymor y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod, a'r cynefin a rhywogaethau nodweddiadol ynddynt eu cynnal. • Caiff dosbarthiad gronynnau a strwythur gwaddodion y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod, a'u hamrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan brosesau naturiol cyflenwi a chludo gwaddod. • Nid yw ansawdd strwythur cynefin wedi'i ddiraddio'n fwy o ganlyniad i weithrediad dynol neu gan ddeunyddiau o darddiad anthropogenig. • Caiff y prosesau amgylcheddol naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hir-dymor y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod, y cynefinoedd sydd ynddynt a'u rhywogaethau nodweddiadol eu cynnal. • Caiff cemeg dŵr a gwaddod eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Caiff cyfundrefn a graddiannau halltedd yn y gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Caiff rhywogaethau nodweddiadol eu penderfynu'n bennaf gan ddynameg poblogaeth gynhenid a phrosesau ecolegol y cyfoeth rhywogaethau, dynameg poblogaeth, digonedd, biomas, strwythurau poblogaeth, iechyd ffisiolegol, gallu atgenhedlol, denu, cyrhaeddiad a symudedd eu cynnal. • Mae rheoli gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, maint, strwythur, swyddogaeth neu boblogaethau nodweddiadol rhywogaethau'r nodwedd, yn briodol i gynnal statws cadwraethol ffafriol ac yn sicr yn yr hirdymor. • Mae rheoli pysgodfeydd masnachol presennol ar gyfer rhywogaethau nodweddiadol yn sicrhau nad yw manteisio ar rywogaethau'n ddim mwy nag uchafswm cynnyrch cynaliadwy ac yn sicr yn yr hirdymor.				
Dol heli Iwerydd (ASM)	Amherthnasol	• Helaethder dol heli Iwerydd • Cyflwr cyfundrefn geinciau a phantiau heli ASM • Dosbarthiad planhigion • Strwythur glaswellt	• Caiff dosbarthiad a maint y dolydd heli eu penderfynu'n bennaf gan adeiledd naturiol a phrosesau amgylcheddol. • Caiff y strwythurau cynefin naturiol angenrheidiol i gynhaliaeth hir-dymor y dolydd heli a'r rhywogaethau nodweddiadol eu cynnal. • Caiff dosbarthiad gronynnau a strwythur gwaddodion y dolydd heli, a'u hamrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan brosesau naturiol cyflenwi a chludo gwaddod. • Caiff geomorffoleg y dolydd heli, a'i amrywiad naturiol, dosbarthiad a maint, eu penderfynu'n bennaf gan y ddaeareg sylfaenol a phrosesau amgylcheddol naturiol. • Caiff y prosesau hydrograffig a meteorolegol angenrheidiol i gynhaliaeth hir-dymor y dolydd heli a'u rhywogaethau nodweddiadol eu penderfynu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol. • Caiff cyfundrefn a graddiannau halltedd yn y dolydd heli eu penderfynu'n bennaf gan brosesau hydrodynamig, hydrolegol a meteorolegol naturiol. • Mae maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn aros o fewn amrediadau na allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hir-dymor cymunedau'r dolydd heli, eu dosbarthiad a'u cyrhaeddiad. • Mae halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol yn aros islaw lefelau a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hir-dymor cymunedau'r dolydd heli, eu dosbarthiad a'u cyrhaeddiad. • Caiff lefelau ocsigen toddedig yn y golofn ddŵr a gwaddodion eu penderfynu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol; • Caiff dosbarthiad morfa heli o arloesol, corstir canol isaf a chorstir canol uchaf a'u trosiad i ddŵr croyw a llystyfiant daearol eu cynnal. • Mae cymunedau rhywogaethau nodweddiadol yn cadw eu statws cadwraeth dros gyfnod hir fel cydrannau hyfyw o gynefinoedd y dolydd heli. • Caiff cyfoeth rhywogaethau, dynameg poblogaeth, digonedd, biomas, strwythurau poblogaeth, iechyd ffisiolegol, gallu atgenhedlol, denu, cyrhaeddiad a symudedd eu cynnal. • Mae rheolaeth briodol o weithgareddau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, maint, strwythur, swyddogaeth neu rywogaethau nodweddiadol cymunedau'r nodwedd, ar				

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
			gyfer cynnal statws cadwraethol ffafriol ac yn sicr yn yr hirdymor.				

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Glannau Ynys Gybi							
Clogwyni môr dan dyfiant o arfordiroedd Iwerydd a'r Baltig	Amherthnasol	• Helaethder clogwyni môr dan dyfiant o arfordiroedd Iwerydd a'r Baltig (gan gynnwys planhigion clogwyni ac agennau, glaswelltir morol a rhostir morol). • Cyflwr clogwyni môr dan dyfiant o arfordiroedd Iwerydd a'r Baltig (gan gynnwys planhigion clogwyni ac agennau, glaswelltir morol a rhostir morol).	• Mae planhigion clogwyni ac agennau, glaswelltir morol a rhostir morol i'w cael ar hyd a lled y safle mewn mannau priodol a chaiff eu maint a dosbarthiad cymharol eu penderfynu gan ffurf y tir, amlygrwydd, pori a digwyddiadau stocastig naturiol (e.e. stormydd). • Ffurfiwyd llystyfiant y clogwyni o blanhigion brodorol fel troellig arfor *Spergularia rupicola* lafant y môr (*Limonium britannicum*, L *procerum*, L. *binervosum*) a ffenigl y môr *Crithmum maritimum*. • O ddewis mae planhigion estron, fel ffigysen y Penrhyn *Carpobrotus edulis* neu lysiau gwlithog porffor *Disphyma crassifolium* yn absennol neu o leiaf heb fod yn lledaenu. • Mae glaswelltir morol ar silffoedd uwch y clogwyni arfordirol a phen clogwyni. • Mae'r planhigion canlynol yn gyffredin yn y glaswelltir morol: peiswellt coch *Festuca rubra*, clustog Mair *Armeria maritima*; seren y gwanwyn *Scilla verna* a llyriad arfor *Plantago maritima* • Gweundir morol yw ardaloedd mewndirol y glaswelltir morol. • Mae'r planhigion canlynol yn gyffredin yn y gweundir morol: eithin mân *Ulex gallii*, clustog Mair *Armeria maritima*, llyriad arfor *Plantago maritima*, llyriad corn carw *Plantago coronopus* neu seren y gwanwyn *Scilla verna*. • Bydd rhywogaethau cystadleuol sy'n dangos arwyddion diffyg pori, yn enwedig rhedyn ungoes *Pteridium aquilinum* ac eithin Ffrengig *Ulex europaeus* a rhywogaethau gwair sy'n dangos arwyddion gwelliant gan gynnwys maeswellt rhedegog *Agrostis stolonifera*, yn absennol bennaf i raddau helaeth o'r rhostir. • Bydd poblogaethau cynaliadwy o'r planhigion sy'n ffurfio casgliad planhigion prin clogwyni môr Iwerydd yn bresennol, yn arbennig: chweinllys Ynys Gybi *Tephroseris integrifolia*, lafant y môr (*Limonium britannicum*, L. *procerum*, L. *binervosum*), cen blew euraid *Teloschistes flavicans* a chen rhuban blewog *Heterodermia leucomelos*. • Bydd holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn, gan gynnwys dwysedd pori a llosgi, dan reolaeth.	Mae nodwedd clogwyni'r ACA hon yn Uned Bolisi 17.14 gyda pholisi dewisol NAI ar gyfer yr uned gyfan hon. Felly nid oes disgwyl dim effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. Dim effaith sylweddol yn y pen draw gan y byddai'r clogwyni dan dyfiant yn cael erydu'n naturiol. Byddai hyn yn caniatáu dilyniant naturiol o blanhigion, ac ymateb gwastadedd llaid a gwastadedd tywod rhynglanwol a chynefinoedd twyni i gynnydd yn lefel y môr. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 17.**	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Rhostiroedd sych Ewropeaidd	Amherthnasol	• Maint y rhostir sych • Cyflwr y rhostir sych • Dosbarthiad y rhostir sych	• Mae rhostir sych yn gorchuddio dim llai na'r maint presennol a fapiwyd (i'w benderfynu) • Mae'r planhigion canlynol yn gyffredin yn y rhostir sych: grug *Calluna vulgaris*; grug y mêl *Erica cinerea*, eithin mân *Ulex gallii*. • Bydd rhywogaethau cystadleuol sy'n dangos arwyddion diffyg pori, yn enwedig rhedyn ungoes *Pteridium aquilinum*, glaswellt y gweunydd *Molinia caerulea* ac eithin mân *Ulex gallii* yn cael eu rheoli. • Bydd 70% o'r rhostir sych mewn 'cyflwr da'. • Mae'r rhostir sych yn darparu bwyd toreithiog a hygyrch i'r frân goesgoch yn magu. • Mae'r rhostir sych yn cynnal poblogaethau cynaliadwy o lindag (yn ei flodau). • Mae cor-rosyn rhuddfannog i'w gael mewn 5 lle gwahanol o leiaf (Ynys Lawd, gogledd Porth Dafarch, Porth y Garan, llwybr Pant yr Hyman, rhos Pant yr Hyman) gyda 200 planhigyn yr un o leiaf. • Mae merywen y mynydd i'w chael mewn 3 lle o leiaf yn dod i gyfanswm o 50 planhigyn. • Mae'r rhostir sych yn cynnal poblogaeth hyfyw o'r glesyn serennog. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Glannau Ynys Gybi yw'r safle pwysicaf yng Ngogledd Cymru am ffurfiau morol ar rostiroedd sych Ewropeaidd. Y prif fathau DCLl yw rhostir H7 *Calluna vulgaris - Scilla verna* a rhostir H8 *Calluna vulgaris - Ulex gallii*. Mae'r gweundir sych yn gysylltiedig ag ardaloedd bach o rostir gwlyb ac yn ffurfio rhan o ddosbarthiad cyflawn o laswelltir morol trwy rostir morol i rostir mewndirol gyda rhedyn ungoes *Pteridium aquilinum* i brysgwydd mieri *Rubus fruticosus*. Mae'r rhostir yn lle pwysig i'r cor-rosyn rhuddfannog *Tuberaria guttata*. Mae nodwedd clogwyni'r ACA hon yn Uned Bolisi 17.14 gyda pholisi dewisol NAI ar gyfer yr uned gyfan hon. Felly nid oes disgwyl dim effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. Dim effaith sylweddol yn y pen draw gan y byddai'r clogwyni dan dyfiant yn cael erydu'n naturiol. Byddai hyn yn caniatáu dilyniant naturiol o blanhigion. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar nodweddion diddordeb yn PDZ 17.**			Ie
Rhostiroedd gwlyb gogledd Iwerydd gydag *Erica tetralix*	Amherthnasol	• Helaethder rhostir gwlyb • Cyflwr rhostir gwlyb • Dosbarthiad rhostir gwlyb	• Mae rhostir gwlyb yn gorchuddio dim llai na'r maint presennol a fapiwyd (i'w benderfynu) • Mae'r planhigion canlynol yn gyffredin yn y rhostir gwlyb: grug *Calluna vulgaris*; grug croesddail *Erica tetralix*, migwyn *Sphagnum* spp., tamaid y cythraul *Succisa pratensis* a *Narthecium ossifragum*. • Bydd rhywogaethau cystadleuol sy'n dangos arwyddion diffyg pori, yn enwedig rhedyn ungoes *Pteridium aquilinum*, glaswellt y gweunydd *Molinia caerulea* ac eithin mân *Ulex gallii* yn cael eu rheoli. • Bydd 70% o'r rhostir gwlyb mewn 'cyflwr da'. • Mae'r rhostir gwlyb yn cynnal cynaliadwy poblogaethau (blodeuog) o grwynllys y gors, crafanc ddŵr drillabedog, a phelenllys gronynnog. • Mae'r rhostir gwlyb yn cynnal poblogaeth hyfyw o griciaid hirgorn y gors. • Gall y rhostir gwlyb gyfrannu at gynnal meta-boblogaeth brith y gors. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.				

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid							
Rhywogaethau Erthygl 4.1 pwysig yn rhyngwladol (magu): Môr-wennol ffrwynog *Sterna dougallii,* môr-wennol gyffredin *Sterna hirundo,* môr-wennol y gogledd *Sterna paradisaea,* môr-wennol bigddu *Sterna sandvicensis*	Afonydd llanwol. Aberoedd. Gwastadeddau llaid. Gwastadeddau tywod. Morlynnoedd (gan gynnwys pantiau gwaith halen) Graean. Clogwyni môr. Ynysigau Gweundir a phrysgdir Corsydd, corstiroedd, ffeniau Morfeydd heli. Dolydd halen. Peithiau halen	• Maint poblogaeth • Cynhyrchiant	• Mae nifer y gwenoliaid y môr sy'n magu yn yr AGA yn sefydlog neu'n cynyddu. • Mae nifer y cywion sy'n magu'n llwyddiannus yn yr AGA a thu hwnt yn ddigon i gynorthwyo cynnal y boblogaeth. • Nid yw cyrhaeddiad a dosbarthiad gwenoliaid y môr yn yr AGA a thu hwnt yn cael ei gyfyngu na'i rwystro. • Mae maint cynefinoedd cynhaliol sy'n cael eu defnyddio gan wenoliaid y môr yn sefydlog neu'n cynyddu. • Mae cynefinoedd cynhaliol o ansawdd ddigonol ar gyfer gofynion gwenoliaid y môr. • Mae ffynonellau bwyd priodol a digonol ar gyfer gwenoliaid y môr o fewn cyrraedd i'r AGA. • Mae gweithrediadau neu ddigwyddiadau sy'n debygol o effeithio ar gynaliadwyedd y boblogaeth dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Mae polisïau ar gyfer Unedau Polisi 17.6 (HTL/HTL/MR) ac 17.7 (HTL/HTL/HTL) ar bwys yr AGA. Fodd bynnag, byddant yn effeithio ar nodweddion y cynefin presennol ar neu o gwmpas AGA Ynys Feurig o fewn polisi NAI Uned Bolisi 17.8. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar y cynefin hwn sy'n cynnal y fôr-wennnol yn PDZ 17.**	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Glannau Ynys Gybi / Holy Island Coast SPA							
Rhywogaethau Erthygl 4.1 bwysig yn rhyngwladol (magu a gaeafu): Brân goesgoch *Pyrrhocorax pyrrhocorax*	Gweundir a phrysgwydd Graean. Clogwyni môr. Ynysigau. Glaswelltir llaith. Glaswelltir mesoffil Corsydd, corstiroedd a ffeniau	• Poblogaeth fagu • Poblogaeth fagu • Cyflwr y cynefin porthi	• Poblogaeth fagu'r frân goesgoch yn yr AGA yw 18 pâr o leiaf, a dylai 12 o leiaf ohonynt fod yn SoDdGA Glannau Ynys Gybi / Tre Wilmot a dylai 6 o leiaf fod yn SoDdGA Glannau Rhoscolyn. • Poblogaeth y frân goesgoch heb fod yn magu yw o leiaf 18 unigolyn neu 2.5% o boblogaeth aeafu Gwledydd Prydain. • Cynefin addas digonol (gan gynnwys clogwyni môr Iwerydd, glaswelltir morol, rhostir morol, rhostir gwlyb a rhostir sych) yn bresennol ac mewn cyflwr priodol i gynnal y poblogaethau magu. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	Mae nodwedd clogwyni'r ACA hon yn Uned Bolisi 17.14 gyda pholisi dewisol NAI ar gyfer yr uned gyfan hon. Felly nid oes disgwyl dim effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i bolisi rheoli'r arfordir. Dim effaith sylweddol yn y pen draw oherwydd y byddai'r cynefinoedd cynhaliol yn cael erydu'n naturiol a datblygu trwy ddilyniant naturiol. **Ni fydd polisïau CRhT2 yn peri colli nac yn effeithio er gwaeth ar y cynefin hwn sy'n cynnal y frân goesgoch yn PDZ 17.**	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Helaethiad B – Tablau Asesu CRhT2 Gorllewin Cymru ar Safleoedd Natura 2000

Tabl 18 : PDZ 18 Gogledd Ynys Môn: Twyn Cliperau i Drwyn Cwmrwd

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA Bae Cemlyn							
Morlynnoedd arfordirol	Amherthnasol	• Maint • Mesurau poblogaeth rhywogaeth	• Nid oes unrhyw arwynebedd yn cael ei golli heblaw hynny oherwydd prosesau naturiol. • Mae'r cymunedau planhigion ac anifeiliaid arbenigol yn y morlyn yn aros. • Mae holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amgylchiadau hyn dan reolaeth.	<u>Ymwthiad halwynog / Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir:</u> Caiff morlyn Cemlyn ar arfordir gogleddol Ynys Môn, Gogledd Cymru, ei ystyried fel yr enghraifft orau o forlyn arfordirol hallt yng Nghymru. Gwahanwyd y morlyn o'r môr gan draethell gyda sianel gul yn y pen gorllewinol, yr adeiladwyd llifddor ar ei thraws yn y 1930au. Mae dŵr y môr yn cael ei gyfnewid yn bennaf trwy'r llifddor a thrylifo trwy'r draethell, er bod tonnau'n torri dros y draethell pan fydd stormydd eithafol yn cyd-daro â llanwau mawr. Yn ACA Bae Cemlyn y polisi dewisol yw MR yn y cyfnod cyntaf gyda NAI yn y ddau gyfnod olaf. Bwriad polisi MR yw rheoli'r newid naturiol yn ystod y cyfnod cyntaf a bwriad NAI at ei gilydd yn ystod y ddau gyfnod olaf fyddai caniatáu datblygiad naturiol yr ardal gyfan, gyda'r rheoli dechreuol yno'n sicrhau bod hyn yn digwydd yn raddol ac yn caniatáu trawsnewid amgylchiadau'n raddol. Bwriad MR yw rhoi cyfle i eiddo addasu mewn ymateb i effeithiau cynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol. Fodd bynnag, o ran y nodweddion a thargedau, bwriad y polisi yw peidio ag effeithio'n uniongyrchol ar gynefin y morlyn trwy darfu ar ôl troed, ond trwy gynnal a chadw'r gored a'i thynnu yn y pen draw yn ystod y cyfnod cyntaf. Bydd hyn yn caniatáu rheoli lefel y dŵr ŵr mwyn symud yn nes at yr amrywiad hydrolegol naturiol fyddai'n digwydd gyda thynnu'r gored a rhoi cyfle, felly, i'r cymunedau planhigion ac anifeiliaid yn y morlyn addasu. Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn aros, oherwydd y gallai cymunedau'r morlyn gael eu colli neu ddifodi os bydd newid rhy chwim neu afreoledig o hydroleg y morlyn yn digwydd oherwydd rheoli'r gored yn amhriodol, er y gallai cymunedau ymateb yn gyflym i'r newidiadau hyn hefyd. Mae NAI yn y ddau gyfnod olaf yn debygol o arwain at leihau mwy ar arwynebedd cynefin y morlyn. Ar ben hynny, gallai bylchu ddigwydd gan newid nodweddion ffisegol a chemegol y morlyn, a allai beri newidiadau sylweddol i gymunedau planhigion ac anifeiliaid y morlyn. Byddai'r newid hirdymor hwn yn digwydd oherwydd y prosesau erydu a bylchu naturiol (all beidio â digwydd o angenrheidrwydd) ac na fyddai o ganlyniad i'r CRhT. Fe allai cymunedau'r morlyn newid yn ystod y cyfnod cyntaf. Fodd bynnag, byddai newid ym maint y morlyn o ganlyniad i brosesau geomorffolegol arfordirol	Er mwyn rheoli'r newid yng nghymunedau'r morlyn yn briodol, dylid llunio a gweithredu strategaeth i nodi rheolaeth briodol o lefelau a thresmasiad dŵr dros y gored yn ystod y cyfnod cyntaf er mwyn cyflawni cyfundrefn naturiol y morlyn yn yr ail gyfnod. Dylid ymgymryd â'r strategaeth ar y cyd â CCGC er mwyn sicrhau bod dilyniant cymunedau a datblygu tuag at strwythur naturiol y gymuned mewn cyfnod priodol.	Dim effaith andwyol i'w disgwyl yn y cyfnod cyntaf o ganlyniad i bolisi CRhT.	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
				naturiol, er enghraifft yn gweithredu ac yn dylanwadu ar symud y grib raeanog tua'r tir o'i sefyllfa bresennol. Gallai'r newidiadau i'r cymunedau ddigwydd yn gyflym heb eu rheoli'n briodol gan beri colledion mwy o gymunedau a chyfnodau hwy ar gyfer ailddatblygu'r dilyniant naturiol, fyddai'n peri effaith andwyol ar gyfanrwydd nodwedd morlyn y safle.			
Planhigion parhaol o lannau caregog	Amherthnasol	• Maint y cynefin • Ansawdd cynefin • Adeiledd ffisegol: ymarferoldeb a chyflenwad gwaddod	• Caiff helaethder planhigion y traethellau ei gynnal oni bai iddo gael ei newid gan ddigwyddiadau naturiol (e.e. storm). • Caiff rhywogaethau cydrannol o blanhigion nodweddiadol traethellau eu cynnal. • Mae rhywogaethau goresgynnol estron (e.e. *Fallopia japonica*) yn absennol. • Mae rheolaeth gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o niweidio neu ddiraddio dynameg poblogaeth, cyrhaeddiad a chynefin cynhaliol naturiol y nodwedd yn briodol i gynnal statws cadwraethol ffafriol ac yn sicr yn yr hirdymor.	Mae'n annhebygol y byddai angen i MR darfu ar y traethellau na'r rhywogaethau sydd arnynt yn ystod y cyfnod cyntaf. Fodd bynnag, cyn penderfynu manylion y gweithgareddau, fe allai fod tarfu. Fodd bynnag, nid oes modd gwybod faint fydd o darfu ar yr adeg hon. O ganlyniad, gallai effaith andwyol ddigwydd yn y byrdymor. Bydd NAI yn ystod y ddau gyfnod olaf yn arwain at symudiad a dilyniant naturiol o'r traethellau a'r cymunedau llystyfiant.	Ensure no disturbance to shingle ridge occurs during MR activities.	Sicrhau nad oes dim tarfu ar y grib raeanog yn ystod gweithgareddau MR.	Ie
AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid							
Rhywogaethau Erthygl 4.1 pwysig yn rhyngwladol (magu): Môr-wennol ffrwynog *Sterna dougallii,* môr-wennol gyffredin *Sterna hirundo,* môr-wennol y gogledd *Sterna paradisaea,* môr-wennol bigddu *Sterna sandvicensis*	Afonydd llanwol. Aberoedd. Gwastadeddau llaid. Gwastadeddau tywod. Morlynnoedd (gan gynnwys pantiau gwaith halen) Graean. Clogwyni môr. Ynysigau. Gweundir a phrysgdir Corsydd, corstiroedd, ffeniau Morfeydd heli. Dolydd halen. Peithiau halen.	• Maint poblogaeth • Cynhyrchiant	• Mae nifer y gwenoliaid y môr sy'n magu yn yr AGA yn sefydlog neu'n cynyddu. • Mae nifer y cywion sy'n magu'n llwyddiannus yn yr AGA a thu hwnt yn ddigon i gynorthwyo cynnal y boblogaeth. • Nid yw cyrhaeddiad a dosbarthiad gwenoliaid y môr yn yr AGA a thu hwnt yn cael ei gyfyngu na'i rwystro. • Mae maint cynefinoedd cynhaliol sy'n cael eu defnyddio gan wenoliaid y môr yn sefydlog neu'n cynyddu. • Mae cynefinoedd cynhaliol o ansawdd ddigonol ar gyfer gofynion gwenoliaid y môr. • Mae ffynonellau bwyd priodol a digonol ar gyfer gwenoliaid y môr o fewn cyrraedd i'r AGA. • Mae gweithrediadau neu ddigwyddiadau sy'n debygol o effeithio ar gynaliadwyedd y boblogaeth dan reolaeth.	<u>Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir / Ymwthiad halwynog:</u> Yn AGA Bae Cemlyn y polisi dewisol yw MR yn y cyfnod cyntaf gyda NAI fel y polisi dewisol yn y ddau gyfnod olaf (Uned Bolisi 18.6). Y strategaeth MR fyddai rheoli'r newid naturiol yn ystod y cyfnod cyntaf a bwriad NAI at ei gilydd yn ystod y ddau gyfnod olaf fyddai caniatáu datblygiad naturiol yr ardal gyfan, gyda'r rheoli dechreuol yno'n sicrhau bod hyn yn digwydd yn raddol ac yn caniatáu trawsnewid amgylchiadau'n raddol. Nid oes disgwyl i MR arwain at golli meintiau'r cynefin cynhaliol cronnus, ond gall beri bod mân newid yng nghydbwysedd cynefinoedd rhynglanwol, corstir, rhostir a'r morlyn, er nad oes disgwyl i hynny arwain at newid nodweddion hanfodol (e.e. ardal nythu neu adnodd bwyd) y rhywogaethau y dynodwyd y safle ar eu cyfer. Yn y pen draw bydd cryn newid i'r cynefin oherwydd symud y grib raeanog yn ôl; gan leihau arwynebedd y morlyn a mwy o donnau'n torri dros y grib. Fodd bynnag, byddai hyn o ganlyniad i brosesau naturiol yn yr ardal ac nid o ganlyniad i'r CRhT. Nid yw'n hysbys a fydd y grib yn bylchu ac a fydd nodwedd y morlyn arfordirol yn cael ei chynnal yn y ddau gyfnod olaf. Fodd bynnag, os bydd yn digwydd, bydd o ganlyniad i brosesau naturiol ac nid o ganlyniad i bolisi CRhT2.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol.	Ie

Helaethiad B – Tablau Asesu CRhT2 Gorllewin Cymru ar Safleoedd Natura 2000

Tabl 19: PDZ 19 – Baeau'r Gorllewin: Trwyn Cwmrwd i Drwyn Penmon

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
ACA y Fenai a Bae Conwy							
Cilfachau a baeau mawr bas	Amherthnasol	• Cyrhaeddiad • Adeiledd a swyddogaeth	Cyrhaeddiad Dosbarthiad a maint nodweddion cynefin safle at ei gilydd, a phob un o'u prif gydrannau'n sefydlog neu'n cynyddu. O ran y nodwedd **gwastadedd llaid a gwastadedd tywod rhynglanwol** mae'r rhain yn cynnwys; • Cymunedau gro lleidiog • Gwellt-y-gamlas bach, gwelyau *Zostera noltei* • Cymunedau gwaddod Traeth Lafan O ran nodweddion y creigresi mae'r rhain yn cynnwys; • Cymunedau creigres dan amgylchiadau cysgodol rhag tonnau ynni mawr, yn cael eu hysgubo gan y llanw • Cymunedau dan glogfeini, dan fargod ac mewn agennau • Cymunedau creigresi calchfaen • Cymunedau creigresi brigiad clai O ran y nodwedd **bae bas mawr** mae'r rhain yn cynnwys; • Ardaloedd gwaddod lleidiog yn fras o ddeunydd organaidd Adeiledd a swyddogaeth Nid yw'r strwythur a swyddogaethau ffisegol, biolegol a chemegol angenrheidiol i gynhaliaeth ac ansawdd hirdymor y cynefin yn cael eu diraddio. Ymhlith elfennau pwysig mae; • daeareg, • gwaddodeg, • geomorffoleg, • hydrograffeg a meteoroleg, • cemeg dŵr a gwaddod, • rhyngweithiadau biolegol. Mae hyn yn cynnwys gofyn bod lefel maetholion yn y golofn ddŵr a gwaddodion fel a ganlyn: • ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol o fewn amrediadau na allant fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor poblogaeth rywogaethau'r nodwedd, eu cyflenwad a chyrhaeddiad. • Halogyddion yn y golofn ddŵr a gwaddodion yn deillio o weithgaredd dynol i fod: • ar neu islaw crynoadau canllaw statudol presennol	Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir: Mae'r lan o Foelfre i Fangor i Gonwy a'r Gogarth yn cynnwys brithwaith o wahanol fathau gwaddod, sy'n cynnal cymysgedd amrywiol o gymunedau planhigion ac anifeiliaid. Mae'r nodwedd hon yn ardal alltraeth y PDZ hwn. Y rhagolwg yw na fydd dim cyfyngiad ar gynefinoedd amrywiol y nodwedd cilfachau a baeau bas (gwelwch isod) ac, felly, nid yw'r strwythur a swyddogaeth yn debygol o newid heblaw trwy brosesau a datblygiad naturiol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Ponciau tywod dan ychydig o ddŵr y môr	Amherthnasol	• Cyrhaeddiad. • Strwythur a swyddogaeth. • Rhywogaethau nodweddiadol.		Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Mae'r safle'n cynnwys cymhlethdod Four Fathom Banks, sy'n fath cymharol brin o boncen dywod islanwol yng Nghymru, trwy fod yn gymharol fawr, ac yn eithaf cysgodol rhag effaith y tonnau ond yn sefyll mewn ardal o arfordir agored. Mae'r ponciau tywod yn amrywio o dywodydd lleidiog sefydlog mewn ardaloedd lle mae llifau llanw gwan i dywod crych cymharol lân wedi'i ddidoli'n dda ac yn ardal allanol y boncen lle mae llifau llanw'n gryfach. Mewn dyfroedd bas iawn, yn enwedig ger y glannau, mae cymunedau tywodlyd cymharol gyfoethog o rywogaethau yw drwm o fwydod gwrychog fel *Spio filicornis*. Yn rhai blynyddoedd pan fo llawer o gregyn deuglawr, gwelwyd heidiau pwysig yn rhyngwladol o'r fôr-hwyaden ddu *Melanitta nigra* yn ymgynnull yn ardal cymhlethdod y Four Fathom Banks i fwydo. Mae'r ponciau tywod islanwol yn PDZ 19 dros 1km alltraeth ac, felly, byddant yn gallu addasu'n naturiol i gynnydd yn lefel y môr a bydd y porthiant parhaol o ddeunydd sy'n deillio o'r polisi NAI yn bennaf ar gyfer yr uned arfordirol hon yn cynnal y ponciau tywod. Ni fydd y polisïau HTL yn Uned Bolisi 19.5, 19.10 ac 19.12 yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y ponciau tywod islanwol, gan eu bod yn y cefndraeth y tu ôl i'r parth rhynglanwol uchaf ac nid oes disgwyl i iddynt effeithio ar brosesau hydrodynamig neu symudiad gwaddodion yn lleol neu ar raddfa fwy.	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie
Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod heb fod dan ddŵr y môr ar drai	Amherthnasol			Gwasgfa Arfordirol / Prosesau'r Arfordir : Dim ond yn Afon Menai mae'r gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol o fewn terfynau'r safle, a dim ond parthau islanwol bas a rhynglanwol sydd yn y PDZ hwn. Mae polisïau HTL Unedau Polisi 19.5, 19.10, a 19.12 ym mhen uchaf y parth rhynglanwol; yn achos Porth Moelfre mae hyn tua 40m oddi allan i derfynau'r safle, yn y Benllech mae tua 200m oddi allan i derfynau'r safle, ac yn y Traeth Coch mae dros 600m oddi allan i derfynau'r safle. Ni fyddai bwriadau HTL yn y ddau gyfnod cyntaf yn ymestyn at derfynau'r safle ac, felly, ni fyddai unrhyw golled uniongyrchol o gynefin rhynglanwol. Ar ben hynny, oherwydd lleoliad yr HTL ar y lan uchaf, nid oes disgwyl unrhyw newidiadau i brosesau gwaddod	Nid oes angen dim	Dim effaith andwyol i'w disgwyl	Ie

Nodwedd Gymhwysol	Cynefin Cynhaliol	Priodwedd	Targed	Effeithiau Posibl	Mesurau Osgoi neu Liniaru	Effaith Weddilliol	Casglu nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd?
			• islaw lefelau a allai beri cynnydd mewn crynoadau halogyddion mewn gwaddodion neu fywyd • islaw'r hyn a allai fod yn niweidiol i gynhaliaeth hirdymor y nodweddion, rhywogaethau, poblogaethau, eu cyflenwad neu gyrhaeddiad. • Adennill ac adfer	neu brosesau hydrodynamig ac, felly, dim newid i'r cynefinoedd o fewn y safle sydd gryn bellter i ffwrdd. Ni fydd y polisïau HTL chwaith yn atal y cynefin islanwol bas a rhynglanwol isel rhag mudo tua'r tir gyda chynnydd yn lefel y môr. Felly, nid oes disgwyl dim newid i ddatblygiad a strwythur naturiol y nodwedd cynefin rhynglanwol yn y PDZ hwn.			
3.3.7 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi adolygiad thematig sy'n sefydlu'r nodweddion allweddol ar hyd yr arfordir ac yn disgrifio pam fod y nodweddion hyn ar y cyd yn crynhoi gwerth y darn hwn o arfordir. Mae'r gwerthoedd a nodwyd yn berthnasol i nodweddion naturiol yr arfordir, y dirwedd a chymeriad yr ardal a'r adeileddau hanesyddol a nodweddion gofodol sy'n diffinio cymeriad arfordir Gorllewin Cymru at ei gilydd.

Thematic Basis of Options Development



3.3.8 Mae disgrifio'r arfordir fel hyn yn rhoi sail i reolaeth sy'n ystyried cymeriad arbennig yr ardal, gan greu canolbwynt i sicrhau cymryd agwedd gyfannol sy'n cydnabod pam fod y darn arbennig hwn o arfordir mor bwysig i randdeiliaid lleol. Yn ogystal, cloriannwyd patrymau tebygol defnydd tir yn ardal yr astudiaeth yn y dyfodol ar sail ystyried cwmpas y cynllun strategol a defnydd tir perthnasol gan gynnwys y rhai sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae darparu'r wybodaeth hon yn hanfodol wrth wraidd datblygu dewisiadau polisi ar gyfer yr arfordir ac yn hanfodol wrth ystyried gwneud dewisiadau o fewn proses CRhT2, yn ogystal ag ysbrydoli'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).

3.3.9 Mae'r tablau'n rhestru holl asedau naturiol ac adeiledig yn ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru, ynghyd â'u sensitifedd a'u gwerth, yn **Atodiad B**.

C 3.2 Yn yr adrannau canlynol (4 i 11), oes yna unrhyw wybodaeth amgylcheddol ar goll a allai fod yn berthnasol i effaith negyddol neu gadarnhaol sylweddol?

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

4 DEFNYDD TIR HEDDIW AC YN Y DYFODOL

4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r adran hon yn rhoi hanes yr amgylchedd trefol o ran defnyddiau tir a phatrymau datblygiad sy'n bodoli. Defnyddiwyd y strategaethau rhanbarthol perthnasol a chynlluniau defnydd tir lleol fel sail strwythuredig i'r disgrifiad hwn. Gyda dyfodiad Strategaethau Gofodol Rhanbarthol a Fframweithiau Datblygu Lleol mae'r gyfundrefn gynllunio'n cael ei diwygio ar hyn o bryd ac mae mwyafrif cynlluniau defnydd tir naill ai'n cael eu hadolygu neu ailysgrifennu. Felly, rhannwyd ardal yr astudiaeth fesul awdurdod lleol gan gynnig disgrifiad dechreuol o safbwynt rhanbarthol. O dderbyn mai proses gynllunio statudol sy'n pennu defnydd tir, cynlluniau statudol sydd wedi bod yn brif ganolbwynt yr astudiaeth hon. Yn olaf, caiff y casgliad eginol o gynlluniau defnydd tir ar gyfer yr ardal ei ddefnyddio i roi disgrifiad o ddefnydd tir disgwyliedig yn yr ardal yn y dyfodol.

4.2 Trosolwg

4.2.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno golwg dros y morlin o Benrhyn y Santes Ann ac Ynys Enlli i Ben y Gogarth o ran dynameg poblogaeth a phatrymau defnydd tir.

Dynameg Poblogaeth

4.2.2 Caiff y prif gylchoedd trefol ar hyd morlin CRhT2 Gorllewin Cymru eu cyflwyno yn **Nhabl 4.1** ac maent yn cynnwys dinasoedd (Bangor a Thyddewi) yn ogystal â threfi glan môr llai a chyrchfannau glan môr.

Tabl 4.1 Dinasoedd (mewn print trwm), Trefi a Chyrchfannau Glan Môr yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Trefi, dinasoedd a chyrchfannau glan môr	Prif ardal	Poblogaeth (yn fras)
Aberaeron	Ceredigion	1,520
Aberdyfi	Gwynedd	-
Aber-soch	Gwynedd	-
Aberystwyth	Ceredigion	16,928 (+8841)*
Amlwch	Ynys Môn	3,438
Bangor	**Gwynedd**	**21,735**
Y Bermo	Gwynedd	2230
Biwmares	Ynys Môn	< 2,040
Benllech	Ynys Môn	2,340
Borth	Ceredigion	-
Caernarfon	Gwynedd	9,611
Aberteifi	Ceredigion	4,203
Clarach	Ceredigion	-
Conwy	Conwy	3,847
Cricieth	Gwynedd	1,826
Deganwy	Conwy	3,700
Y Friog	Gwynedd	-
Abergwaun	Sir Benfro	3,300
Wdig	Sir Benfro	-
Harlech	Gwynedd	1,264

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Trefi, dinasoedd a chyrchfannau glan môr	Prif ardal	Poblogaeth (yn fras)
Caergybi	Ynys Môn	13,580
Talacharn	Sir Gâr	-
Llandanwg	Gwynedd	-
Llanddona	Ynys Môn	-
Llandudno	Conwy	20,090
Llanfairfechan	Conwy	3,755
Llangrannog	Ceredigion	772
Porthaethwy	Ynys Môn	3,850
Mwnt	Ceredigion	-
Nefyn	Gwynedd	2,550
Trefdraeth	Sir Benfro	1,122
Cei Newydd	Ceredigion	-
Pentywyn	Sir Gâr	-
Penmaen-mawr	Conwy	2,500
Porth-gain	Sir Benfro	-
Porthmadog	Gwynedd	4,187
Pwllheli	Gwynedd	3,861
Saundersfoot	Sir Benfro	-
Mochras	Gwynedd	-
Tyddewi	**Sir Benfro**	**1,797**
Trearddur	Ynys Môn	25,896
Tywyn	Gwynedd	2,864
Ynys-las	Ceredigion	-

* Mewnlifiad myfyrwyr

4.2.3 Yn y tueddiadau poblogaeth yn ystod y degawd diwethaf gwelwyd gostyngiad mewn pobl iau, yn enwedig rhwng 25 a 34 oed a chynnydd yn nifer y bobl 65 oed a hŷn (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009). Mae dwywaith gymaint o bobl yn mudo i Gymru oddi tramor â'r rhai sy'n ymadael i gyrchfannau tramor. Cynyddodd mewnlif clir ymfudwyr rhyngwladol i Gymru o 1.0 fil yn 2005 i 8.5 mil yn 2007 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009). Lloegr sy'n cyfrif am fwyafrif y symudiadau mudo trawsffiniol i/o Gymru, tra bo'r nifer cyfartalog mwyaf o ymfudwyr clir yn rhanbarthau'r Gogledd, er mai cyfradd echlifol Ynys Môn oedd yr isaf ar gyfartaledd. Mae awdurdodau lleol gyda phoblogaethau myfyrwyr mawr fel Ceredigion yn tueddu i fod â'r mudo mwyaf, gyda'r cyfraddau mewnlif ac echlif uchaf yn y Canolbarth (**Tabl 4.1**). O ranbarthau'r De-orllewin yn Sir Benfro oedd y cyfraddau mewnlif uchaf (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

4.2.4 Yn gyffredinol, nid yw iechyd y boblogaeth yng Nghymru gystal ag yn Lloegr, ond mae iechyd mewn llawer rhan o'r Gorllewin yn sylweddol waeth nag yng ngweddill Cymru. Yn gyffredinol mae cyfraddau marwolaeth yn y Gorllewin islaw cyfartaledd Cymru ac mae'n adlewyrchu mwy o glefyd coronaidd y galon a chanser yn arbennig. Mae disgwyliad einioes yn rhai o gymunedau'r Gorllewin bum mlynedd neu fwy yn llai nag yn rhannau mwy breintiedig Cymru, a gormodedd marwoldeb cynamserol a gododd o 48% i 69% dros y degawd o 1981 i 1991 (Crynodeb o Ystadegau Ardaloedd Lleol Cymru, 1998).

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

4.2.5 Mae mesurau iechyd ac amddifadedd fel cymarebau marwoldeb yn dangos bod iechyd corfforol a'r meddwl yn sylweddol waeth yng Ngorllewin Cymru nag mewn rhannau eraill o Gymru. Cynyddodd hunan-hysbysu salwch a dibyniaeth ar Fudd-daliadau Analluedd ac Analluogrwydd yn sylweddol ers y 1980au, gan adlewyrchu tueddiadau ehangach y DU. Mae corff sylweddol o dystiolaeth sy'n cysylltu penderfynyddion iechyd ag incwm isel a nodweddion eraill allgáu cymdeithasol. Felly, mae'r cymarebau marwoldeb uwch a mwy o salwch hirdymor cyfyngol yn cynrychioli canlyniadau safonau byw isel ac allgáu cymdeithasol. Maent hefyd yn adlewyrchu ffactorau sy'n cyfrannu at weithgarwch economaidd ac incwm isel.

Defnydd Tir

4.2.6 Caiff patrymau defnydd tir yng Ngorllewin Cymru eu cyflwyno yn **Ffigur 4.1**, lle mae'n amlwg mai'r prif ddefnydd tir amaethyddol yw glaswelltir yn bennaf. Yn 2004, defnydd tir yng Nghymru oedd 62% o borfa barhaol (1,010,000ha), 23% o borfa arw (383,000ha), 11% o dir âr (177,000ha) a 4% o goetir a thiroedd eraill gan gynnwys neilltir (64,000ha). Gall diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin arwain at ostyngiad sylweddol mewn tir âr a chynhyrchu da byw a symudiad mewn defnydd tir amaethyddol yng Nghymru. Mae disgwyl i bolisi diweddar y llywodraeth ar ynni adnewyddadwy, fel cynllun cnydau biomas, newid defnydd tir amaethyddol a bioamrywiaeth tirwedd cefn gwlad o ganlyniad trwy ymgorffori coedlannau cylchdro byr (SRC) a chnydau gwair biomas bythol.

4.2.7 Mae cyfran tir o wahanol fathau'n amrywio'n sylweddol, gyda chyfran y tir dan anfantais ddifrifol yn arbennig o uchel yng Ngwynedd a Chonwy. Mae ffermio gwartheg godro ar ei gryfaf mewn ardaloedd fel Sir Benfro, tra bo mwy o ffermio cig eidion yn y gogledd (e.e. Gwynedd, Conwy) i raddau llai. Mae cadw defaid yn gyffredinol yn yr ucheldiroedd nad yw'n gweddu gystal i fathau eraill o dda byw.

4.2.8 Cafodd dwysâd amaethyddol effaith amgylcheddol negyddol ar ansawdd ucheldiroedd Cymru. Mewn llawer o ardaloedd difrodwyd y dirwedd ac mae'n dal i gael ei bygwth gan newidiadau amaethyddol fel tynnu terfynau caeau traddodiadol. Dangosodd arolwg a wnaed gan y Sefydliad Ecoleg Tir 10% o golled glir mewn gwrychoedd yng Nghymru yn y cyfnod 1990-93. Roedd hyn yn dilyn colli 25% o wrychoedd yng Nghymru yn y cyfnod 1984-90. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod 70% o'r golled hon i'w briodoli i reoli gwael, a 30% oherwydd tynnu gwrychoedd mewn gwirionedd.

4.2.9 Ar diroedd isel, gostyngodd porfeydd lled-naturiol o bob math yn sylweddol ers y 1930au ac mae'r rhywogaethau dan fygythiad o ganlyniad yn cynnwys tegeirian y waun a glöyn byw brith y gors.

4.2.10 Mae coedwigaeth a choetir yn cynrychioli defnydd tir arall yn y Gorllewin. Mae tua 269,000 hectar o goetir yng Nghymru (13% o'r arwynebedd llawn) a chaiff 94% ohono ei ystyried yn gynhyrchiol. Fodd bynnag, mae cyflwr coetir yn anffafriol yn aml oherwydd gorbori gan anifeiliaid dog a cheirw cochion gwyllt, a rhododendron trwchus yn bla.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 4.1 Defnydd Tir yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.



Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

5 YR AMGYLCHEDD DŴR

5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae'r adran hon yn rhoi hanes yr amgylchedd dŵr o ran ansawdd dŵr ymdrochi, ansawdd dŵr pysgod cregyn, ansawdd dŵr arfordirol aberol ac, ansawdd dŵr afonydd, llygru dŵr a defnyddio adnoddau yn amgylchedd yr arfordir.

5.2 Trosolwg

Dyfroedd Ymdrochi a Physgod Cregyn

5.2.1 Safonau sy'n cael eu rhestru yng Nghyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi y CE (76/160/EEC) sy'n asesu ansawdd dŵr ymdrochi. Mabwysiadodd Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd y Gyfarwyddeb yn 1975 a throswyd hi'n gyfraith Cymru a Lloegr fel Rheoliadau (Dosbarthiad) Dyfroedd Ymdrochi 1991. Mae'r Gyfarwyddeb yn ymwneud ag ansawdd dyfroedd ymdrochi at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd ac mae'n gofyn mesur paramedrau microbiolegol a nifer bach o baramedrau corfforol (e.e. olew gweladwy). Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn pennu'r amlder lleiaf ar gyfer samplu dyfroedd ymdrochi.

5.2.2 Ar hyn o bryd mae 80 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig y Comisiwn Ewropeaidd (CE) yng Nghymru sy'n cael eu mesur rhwng 1af Mai a 30ain Medi bob blwyddyn. Roedd 62 o safleoedd dŵr ymdrochi dynodedig yn ardal yr astudiaeth yn 2008 (gwelwch **Ffigur 5.1**). O'r dyfroedd ymdrochi dynodedig hyn, roedd 48 (77.4%) yn cyrraedd safonau canllaw, 13 (21%) yn cyrraedd safonau gorfodol a dim ond 1 (1.6%) wedi methu. Yr unig ddŵr ymdrochi a fethodd gyrraedd safon ansawdd orfodol oedd yn Llandanwg, Gwynedd (**Tabl 5.1**). Mae'r tywydd gwael iawn yn ystod yr haf yn awgrymu mai'r rheswm tebygol oedd llygredd oherwydd goferiad dŵr arwyneb o dir amaeth ac ardaloedd trefol.

Tabl 5.1 Dyfroedd Ymdrochi yn Methu Cyrraedd y Safon Orfodol yng Ngorllewin Cymru yn 2008

Cyngor	Enw'r dŵr ymdrochi
Cyngor Gwynedd	Llandanwg

5.2.3 Nod Cyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn y CE yw gwarchod neu wella dyfroedd pysgod cregyn er mwyn cynnal bywyd a thwf pysgod cregyn, a chyfrannu at safon uchel cynhyrchion pysgod cregyn sy'n fwytadwy'n uniongyrchol gan bobl. Mae'n pennu gofynion ansawdd dŵr ffisegol, cemegol a microbiolegol y mae'n rhaid i ddyfroedd pysgod cregyn dynodedig naill ai cydymffurfio â hwy (safonau 'gorfodol') neu geisio eu cyrraedd (safonau 'canllaw').

5.2.4 Lluniwyd y Gyfarwyddeb i warchod cynefin dyfrol meddalogion dwygragennog a gastropod, gan gynnwys wystrys, cregyn gleision, cocos, cregyn bylchog a chregyn Aberffro. Nid yw'n cynnwys cramenogion fel crancod, cimychiaid a chimychiaid cochion.

5.2.5 Bydd Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y CE yn diddymu'r Gyfarwyddeb yn 2013. Pan digwydd hyn, rhaid i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr roi o leiaf yr un faint o amddiffyniad â'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn i ddyfroedd pysgod cregyn (y mae'r CFfD yn eu dosbarthu fel ardaloedd gwarchodedig).

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 5.1 Cydymffurfiad Dyfroedd Ymdrochi Dynodedig (2008) Gorllewin Cymru

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.


N
Key:
EU Designated Bathing Waters
Fail
Guideline
Imperative
West Wales SMP2 Study Area
Title:
Designated Bathing Water Compliance (2008) for West Wales
Project:
West Wales
Shoreline Management Plan 2
Date:
November 2009
Scale:
1:750,000
Figure:
5.1
ROYAL HASKONING
Liverpool
Holyhead
Beaumaris
Llandudno
Colwyn Bay
Anglesey
Bangor
Cheshire
Chester
Flintshire
Caernarfon
Conwy
Denbighshire
Wrexham
Porthmadog
Gwynedd
Abersoch
Dolgellau
Shropshire
Borth
Aberystwyth
Llangurig
Llanrhystud
Powys
Ceredigion
Llangranog
Herefordshire
Fishguard
Brecon
St Davids
Pembrokeshire
Carmarthenshire
Carmarthen
Monmouthshire
Dale
Swansea
0 5 10 20 Kilometers

5.2.6 O'r ddwy ar bymtheg o ardaloedd dŵr pysgod cregyn dynodedig yn ardal CRhT2 Gorllewin Cymru (gwelwch **Dabl 5.2** a **Ffigur 5.6**), dosbarthwyd y mwyafrif fel Dosbarth B yn 2008/2009, lle rhaid puro pysgod cregyn yn gymedrol trwy ailosod mewn dŵr glanach am gyfnodau amrywiol cyn marchnata (FSA, 2008).

Tabl 5.2 Canlyniadau Mesur ar gyfer Rhywogaethau Arwyddocaol yn Ecolegol (Dyfroedd Pysgod Cregyn) – ar sail Data 2007

Enw'r dyfroedd pysgod cregyn	Statws cydymffurfio (llwyddo canllaw, llwyddo gorfodol, methu)	Rhywogaeth'n bresennol
Conwy	Methu canllaw / Llwyddo gorfodol	Cregyn Gleision (*Mytilus ssp)*
Dwyryd	Methu canllaw / Llwyddo gorfodol	Cocos *(Cardium edule)* Cregyn Gleision (*Mytilus ssp)*
Dyfi	Methu canllaw / Llwyddo gorfodol	Cocos *(Cardium edule)* Cregyn Gleision (*Mytilus ssp)*
Glaslyn	Methu canllaw / Llwyddo gorfodol	Cocos (*Cardium edule*) Cregyn Gleision (*Mytilus ssp)*.
Bae Llanddwyn	Methu canllaw / Llwyddo gorfodol	Cregyn Gleision (*Mytilus ssp)*
Llandudno	Methu canllaw / Methu gorfodol	Cregyn Gleision (*Mytilus ssp)*
Traeth Malltraeth	Llwyddo canllaw / Llwyddo gorfodol	Cocos *(Cardium edule)* Cregyn Gleision (*Mytilus edulis)*
Mawddach	Methu canllaw / Llwyddo gorfodol	Cocos *(Cardium edule)* Cregyn Gleision (*Mytilus ssp).*
Afon Menai (Dwyrain)	Llwyddo canllaw / Llwyddo gorfodol	Cocos *(Cardium edule)* Cregyn Gleision (*Mytilus ssp)*
Afon Menai (Y Foryd)	Llwyddo canllaw / Llwyddo gorfodol	Cregyn Gleision (*Mytilus edulis)*
Afon Menai (Gorllewin)	Llwyddo canllaw / Llwyddo gorfodol	Cregyn Gleision (*Mytilus ssp)* Cocos *(Cardium edule)*
Y Traeth Coch	Methu canllaw / Methu gorfodol	Cocos *(Cardium edule)*
Taf	Methu canllaw / Llwyddo gorfodol	Cocos *(Cardium edule).*

5.2.7 O'r dyfroedd pysgod cregyn dynodedig yn ardal yr astudiaeth dim ond dau (Llandudno a'r Traeth Coch) a fethodd gyrraedd y safonau gorfodol.

5.2.8 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi ysgrifennu Cynlluniau Lleihau Llygredd Cyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn ar gyfer yr holl ddyfroedd pysgod cregyn yn ardal yr astudiaeth. Mae'r rhaglenni hyn yn amlinellu cyflwr y dalgylch mewn perthynas â safonau'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn. Mae'n archwilio ac yn egluro achosion methu cyrraedd y safonau hynny.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

5.2.9 Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae dŵr pysgod cregyn Llandudno wedi bod yn cydymffurfio â holl safonau gorfodol, heblaw sinc yn 2007. Mae hefyd wedi cyrraedd holl safonau canllaw heblaw halltedd ac ocsigen toddedig yn 2007 a bacteria ysgarthol y colon yn 2004 a 2005. Nid yw'r rheswm dros yr unig fethiant sinc yn hysbys. Caiff Gwaith Trin Carthion Afon Ganol ei amau fel ffynhonnell methiannau canllaw ac mae camau adfer ar y gweill i wella'r broses drin.

5.2.10 Yn ystod y 5 mlynedd aeth heibio (2003-2007) mae Dŵr Pysgod Cregyn y Traeth Coch wedi cydymffurfio â holl safonau gorfodol ar wahân i fethiannau gorfodol unigol am arian byw yn 2004 a sinc yn 2007. Yn ystod y 5 mlynedd aeth heibio, cyrhaeddodd Dŵr Pysgod Cregyn y Traeth Coch y safon ganllaw am ocsigen toddedig a halltedd ymhob blwyddyn ac am facteria ysgarthol y colon yn 2003.

Ansawdd Dŵr Arwyneb a Dŵr Codi

5.2.11 Daeth y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Ewropeaidd i rym ym mis Rhagfyr 2000 a daeth yn rhan o gyfraith y DU ym mis Rhagfyr 2003. Mae'n rhoi cyfle i Asiantaeth yr Amgylchedd gynllunio a chyflawni gwell amgylchedd dŵr, gan ganolbwyntio ar ecoleg.

5.2.12 Trwy reoli dŵr 11 Dosbarth Basn Afon, bwriad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yw:

- Gwella iechyd ecolegol dyfroedd mewndirol ac arfordirol ac atal dirywiad pellach, yn enwedig trwy warchod rhag llygredd gwasgaredig mewn cylchoedd trefol a gwledig trwy reoli'r tir yn well;
- Hybu defnyddio dŵr yn ddoethach a chynaliadwy fel adnodd naturiol;
- Creu gwell cynefinoedd i fywyd gwyllt sy'n byw mewn ac o gwmpas dŵr, er enghraifft trwy wella ansawdd cemegol dŵr;
- Lleihau neu ddiddymu gollyngiadau, allyriadau a cholledion sylweddau blaenoriaethol a sylweddau peryglus blaenoriaethol bob yn dipyn;
- Llygru llai ar ddŵr codi; a hefyd
- Cyfrannu at gyfyngu ar effeithiau llifogydd a sychderau.

5.2.13 Dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD), mae afonydd, llynnoedd, dŵr codi ac arfordiroedd i gyflawni statws ansawdd dŵr da mewn dosbarthau basnau afonydd yn y DU erbyn 2015. Ar gyfer pob dosbarth basn afon rhaid datblygu Cynllun Rheoli Basn Afon (CRhBA), fydd yn llunio cyflawni gwarchod a gwella ansawdd dŵr (Erthyglau 11 a 13). Felly, bydd gwella ansawdd dŵr afonydd yn cael cryn effaith ar ansawdd dyfroedd arfordirol, er enghraifft, Dyfroedd Ymdrochi a Physgod Cregyn.

5.2.14 Mae ardal astudiaeth CRhT2 oddi mewn i Ddosbarth Basn Afonydd Gorllewin Cymru sy'n cynnwys 27 o gyrff dŵr aberol a 24 o gyrff dŵr arfordirol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi'n ymgynghori ar ddrafft y Cynllun Rheoli Basn Afon (CRhBA). Mae drafft y CRhBA yn datgan bod y cyrff dŵr yn symud ymlaen tuag at statws ecolegol da a photensial ecolegol da (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2008).

5.2.15 Dosbarthwyd crynoadau dŵr arwyneb yn wahanol fathau yn ôl eu nodweddion ffisegol a chemegol. Caiff prif fathau aberoedd a chyrff dŵr arfordirol sydd i'w cael yng Ngorllewin Cymru eu dosbarthu yn ôl **Tabl 5.3** a **Ffigurau 5.2 – 5.3.**

Tabl 5.3 Dosbarthiad Aberoedd

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Aber	Dosbarthiad
Conwy	Rhannol gymysg, macro
Alaw	Cymysg, meso, rhynglanw helaeth
Cefni	Cymysg, meso, rhynglanw helaeth
Ffraw	Cymysg, meso, rhynglanw helaeth
Y Foryd	Cymysg, meso, rhynglanw helaeth
Braint	Cymysg, meso, rhynglanw helaeth
Seiont	Cymysg, meso, rhynglanw helaeth
Erch	Cymysg, meso, rhynglanw helaeth
Dwyfor	Rhannol gymysg, meso
Glaslyn	Rhannol gymysg, meso
Artro	Cymysg, meso, rhynglanw helaeth
Mawddach	Rhannol gymysg, meso
Dysynni	Rhannol gymysg, meso
Dyfi a Leri	Rhannol gymysg, meso
Ystwyth / Rheidol	Rhannol gymysg, meso
Teifi	Rhannol gymysg, meso
Nyfer	Rhannol gymysg, meso
Gwaun	Cymysg, meso, rhynglanw helaeth
Solfach	Cymysg, meso, rhynglanw helaeth

5.2.16 Mae statws cemegol dŵr ardaloedd arfordirol Gorllewin Cymru'n gyffredinol dda gyda dim ond Aberdaugleddau'n methu cyflawni statws da **Ffigur 5.4**. Nid oes angen asesu llawer o'r ardaloedd arfordirol, gan gynnwys Bae Ceredigion ac aberoedd Ynys Môn. Aseswyd bod statws ecolegol morlin Gorllewin Cymru'n dda (gwelwch **Ffigur 5.5**), gyda llawer o aberoedd a dyfroedd Afon Menai heb fod angen eu hasesu.

Llygredd Gwasgaredig

5.2.17 Daw llygredd gwasgaredig o ddŵr codi, dŵr arwyneb a dŵr arfordirol o lawer o ffynonellau, sy'n ffynonellau unigol bach iawn yn gyffredinol ac yn digwydd ar draws ardal eang. Felly, nid yw'n ymddangos eu bod yn effeithio ar ansawdd dŵr yn unigol ond ar y cyd gallant gael effeithiau sylweddol ar ansawdd dŵr ac, yn anuniongyrchol wedyn, ar fioamrywiaeth a bodau dynol. Gall llygredd gwasgaredig ddigwydd o ddefnyddiau a gweithgareddau tir hanesyddol a phresennol, mewn ardaloedd amaethyddol a threfol.

Defnyddio Adnoddau / Adloniant

5.2.18 Defnydd adloniadol a gwerth amwynderol morlin Gorllewin Cymru yw dwy o'i brif nodweddion. Mae arfordir Cymru'n adnodd hanfodol i'r diwydiant ymwelwyr yng Nghymru (yn enwedig yn y gogledd a'r de-orllewin), ac mae'n cyfrif am chwarter cyfanswm gwariant

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

twristiaeth yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007). Mae ymwelwyr ag arfordir Cymru o'r DU yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau cysylltiedig â glan y môr (**Tabl 5.4**). Mae'r morlin hefyd yn rhan bwysig o gynnal ansawdd bywyd da'r trigolion lleol. Safon uchel y traethau, o ran hygyrchedd ac ansawdd dŵr, yn peri bod dŵr ymdrochi'n gwneud cyfraniad sylweddol at dderbyniadau twristiaeth. Mae caiacio, bordhwylio, rhwyfo, sgwba-blymio, hwylio a brigdonni ymysg y gweithgareddau adloniadol pwysig eraill seiliedig ar ddŵr ar hyd y morlin.

5.2.19 Seiliwyd llawer agwedd arall ar economi Cymru ar ei hadnoddau morol. Aberdaugleddau yw'r porthladd mwyaf yng Nghymru, yn trin cynhyrchion olew a nwy yn bennaf ond gyda rhywfaint o gyswllt fferi ag Iwerddon a chyfleusterau hamdden a physgota. Caergybi yw'r porthladd fferi mwyaf yng Nghymru, yn cludo unedau teithwyr a nwyddau fel ei gilydd. Mae porthladdoedd Aberdaugleddau a Chaergybi hefyd yn ganolfannau pysgota môr masnachol yng Nghymru. Mae pysgota gyda'r lan o gwmpas arfordir Cymru am amrywiaeth eang o rywogaethau gan gynnwys draenogod y môr, crancod, cregyn bylchog, cimwch a gwichiaid môr ac mae llawer o ardaloedd hefyd yn bwysig i boblogaethau pysgod cregyn fel Afon Menai sydd â physgodfa fwyaf y DU yn tyfu cregyn gleision. Mae hybwyr cryf cynhyrchu ynni adnewyddadwy hefyd gan ddefnyddio grym y gwynt ac ynni'r llanw a thonnau. Mae llawer o'r ardaloedd ar hyd morlin Gorllewin Cymru, gan gynnwys Bae Ceredigion, yn safleoedd pwysig i'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD).

Tabl 5.4 Gweithgareddau ymwelwyr o'r DU tra byddant ar wyliau ar lan môr Cymru

Gweithgaredd	%
Siopa	65%
Cerdded mwy na 2 filltir	38%
Ymweld â safleoedd treftadaeth	35%
Nofio	34%
Ymweld ag amgueddfeydd ac orielau	19%
Astudio natur	18%
Gwylio celfyddydau perfformio	13%
Chwaraeon dŵr	9%
Beicio	9%
Pysgota môr	6%
Geithgareddau petroleg	5%
Golff	4%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 5.2 Mathau o Gyrff Dŵr Aberol yng Ngorllewin Cymru



Ffigur 5.3 Mathau o Gyrff Dŵr Arfordirol yng Ngorllewin Cymru



Ffynhonnell: Asiantaeth yr Amgylchedd, 2008.

Hawlfraint © Mehefin 20101Haskoning DU Cyf.

Ffigur 5.4 Statws Cemegol Dyfroedd Aberol ac Arfordirol yng Ngorllewin Cymru



Ffigur 5.5 Statws Ecolegol Dyfroedd Aberol ac Arfordirol yng Ngorllewin Cymru



Ffynhonnell: Asiantaeth yr Amgylchedd, 2008.

Hawlfraint © Mehefin 20101Haskoning DU Cyf.

Ffigur 5.6 Dyfroedd Pysgod Cregyn Dynodedig yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Hawlfraint © Mehefin 20101Haskoning DU Cyf.


N
Key:
Designated Shellfish Waters
West Wales SMP2 Study Area
Title:
Designated Shellfish Waters in the West of Wales SMP2 Study Area
Project:
West Wales Shoreline Management Plan 2
Date:
November 2009
Scale:
1:750,000
Figure:
5.6
ROYAL HASKONING
Liverpool
Holyhead
Benllech
Llandudno
Colwyn Bay
Anglesey
Bangor
Cheshire
Chester
Flintshire
Caernarfon
Conwy
Denbighshire
Wrexham
Porthmadog
Gwynedd
Abercych
Dolgellau
Shropshire
Borth
Aberystwyth
Llangurig
Llanrhystud
Powys
Ceredigion
Llangranog
Herefordshire
Fishguard
Brecon
St Davids
Pembrokeshire
Carmarthenshire
Carmarthen
Monmouthshire
Dale
Swansea
0 5 10 20 Kilometers

Tudalen wag o fwriad.

Hawlfraint © Mehefin 20101Haskoning DU Cyf.

6 PROSESAU ARFORDIROL A RHEOLI'R ARFORDIR

6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae'r adran hon yn rhoi hanes y prosesau arfordirol a rheoli'r arfordir ar hyn o bryd yn ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru.

6.2 Trosolwg

Yr Hinsawdd Donnau

6.2.1 Caiff tonnau eu creu gan wynt o bob cyfeiriad ar draws Môr Iwerddon, ond mae lled cymharol fychan y môr yn cyfyngu ar yr uchder y gall y tonnau hyn dyfu iddo. Daw tonnau gwynt mwy ac ymchwydd cefnforol o'r de-orllewin tua'r gogledd-ddwyrain drwy Sianel Sain Siôr. Oherwydd symudiad i'r cyfeiriad hwn, byddai tonnau mwy i'w disgwyl ar forlin Cymru nag ar lannau dwyreiniol Iwerddon. Arfordir deheuol Sir Benfro sydd fwyaf agored i'r amgylchiadau hyn ac, felly, dylai fod yn agored i'r tonnau mwyaf a mwyaf egnïol.

6.2.2 Mae Sir Benfro'n cysgodi rhai o rannau deheuol Bae Ceredigion ac mae'r amddiffyniad hwn yn cael ei gynyddu'n lleol gan y pentiroedd creigiog niferus fel Pen Caer a Thrwyn Cemais. Fodd bynnag, nid yw'r amddiffyniad yn llwyr; mae prosesau newid ffurf a diffreithio'n gadael i donnau droi tuag at y morlin a rheiddio i lecynnau cysgodol. Yng nghanol a gogledd Bae Ceredigion mae effaith gysgodi Sir Benfro'n lleihau ac mae'r arfordir yn fwy agored i'r tonnau mawr o'r de-orllewin. Fodd bynnag mae rhywfaint o ynni'r tonnau'n cael ei golli wrth iddynt ymledu dros ddŵr sy'n mynd yn fasach yn eithaf graddol i gyrraedd yr arfordir.

6.2.3 Mae man cychwyn deheuol y tonnau cryfaf ar hyd arfordir Bae Ceredigion yn golygu bod deunydd traeth yn tueddu i gael ei yrru tua'r gogledd. Dyma achos y tafodau sy'n anelu at y gogledd ar hyd yr arfordir hwn, fel yn Ynys-las, Tywyn a'r Friog.

6.2.4 Ar hyd ochr ddeheuol Pen Llŷn daw'r arfordir yn fwy agored i'r tonnau mawr o'r de-orllewin. Mae llai o gysgodi ac, oherwydd bod dŵr dyfnach yn ymestyn yn nes at y lan, mae tonnau'n colli llai o'u hynni cyn cyrraedd yr arfordir. Mae gogwydd y penrhyn, o'i gymharu â'r tonnau cryfaf, yn golygu bod traethau'n tueddu i gael eu symud tua'r dwyrain.

6.2.5 O flaen Pen Llŷn i Ben y Gogarth, mae'r arfordir yn wynebu gogledd Môr Iwerddon. Mae'r agoriad i'r Iwerydd (Sianel y Gogledd) yn eithaf main ac, felly, cymharol ychydig ymchwydd cefnforol sy'n dod drwyddo. Yn ogystal mae Ynys Manaw'n rhoi peth cysgod o'r cyfeiriad hwnnw. Mae rhywfaint o ynni'r tonnau'n mynd i'r rhan hon o Fôr Iwerddon, ond caiff y rhan fwyaf o'r tonnau sy'n cyrraedd rhan hon yr arfordir eu creu ym Môr Iwerddon. O ganlyniad, mae cyfeiriad teithio tonnau'n eithaf amrywiol yn yr ardal hon, er bod y tonnau mwyaf yn dal i ddod yn gyffredinol o'r gorllewin a de-orllewin. Mae ffurf afreolaidd yr arfordir a nodweddion mawr Ynys Môn, a Phen Llŷn, yn arwain at lawer mwy o amrywiad yn amgylchiadau tonnau gyda'r lan nag sydd i'w gael ar hyd morlin Bae Ceredigion.

Llanwau

6.2.6 At ei gilydd, atyniad disgyrchol y lleuad a'r haul sy'n creu llanwau. Yn fras, pan fo'r lleuad a'r haul ar yr un llinell (yn ystod lleuad lawn neu leuad newydd) mae eu grymoedd disgyrchol ar yr un llinell hefyd, a bydd llanwau uchel ('mawr') yn digwydd. Yn y pegwn arall, pan fo'r lleuad yn ei chwarter cyntaf neu olaf, mae'r grymoedd disgyrchol hyn yn tynnu'n fras ar groes i'w gilydd ac, felly, bydd llanwau llai ('distyll') yn cael eu creu.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

6.2.7 Bydd llanwau'n teithio o gwmpas y ddaear, gan ymateb i symudiadau'r lleuad a'r haul (o'i gymharu â'r ddaear). Mae'n haws meddwl amdanynt fel tonnau hir iawn. Daw'r 'tonnau llanwol' hyn at Ynysoedd Prydain o'r Iwerydd. Maent yn mynd drwy'r Môr Celtaidd cyn cyrraedd Penmaendewi, a symud i'r gogledd i fyny arfordir Gorllewin Cymru. Gall gymryd tua phedair awr iddynt symud o Benmaendewi i Ynys Môn. Dyma pam fod y penllanw'n hwyrach yn rhannau mwy gogleddol arfordir Cymru nag mewn ardaloedd mwy deheuol.

6.2.8 Mae dyfnder y dŵr y mae'n symud drwyddo, a chyfyngiadau ar y ffordd, yn effeithio ar gyflymder ac uchder ton. Er enghraifft mae Môr Iwerddon yn gulach yng Nghaergybi nag yn Aberystwyth ac, o ganlyniad, mae amrediad y llanw'n fwy yng Nghaergybi.

6.2.9 Mae gwahaniaethau yn amseriad ac uchder y llanw'n creu effeithiau dramatig yn Afon Menai. Oherwydd bod y don lanw'n gorfod teithio o gwmpas Ynys Môn, mae penllanw'n cyrraedd y geg ogleddol tuag awr ar ei ôl iddo gyrraedd y geg ddeheuol. Yn ogystal, mae amrediad llanw mawr tua 2.7m yn fwy ym mhen gogleddol y culfor ac mae'r gwahaniaethau hyn yn lefel y dŵr yn creu cerhyntau cryf iawn.

6.2.10 Oherwydd bod symudiad cyrff seryddol yn cael ei ddeall yn dda, mae llanwau'n rhagweladwy dros ben. Fodd bynnag, anaml fydd lefel y dŵr sy'n cael ei fesur yn cyd-fynd â'r hyn sydd i'w ddisgwyl, ac mae hyn fel arfer oherwydd ymchwydd. Mae'r term 'ymchwydd' yn cyfeirio at newidiadau yn lefel y môr oherwydd y tywydd. Caiff y rhain eu gyrru gan y gwynt a gwasgedd atmosfferig, a gysylltwyd yn agos ac sy'n dylanwadu'n fawr ar amrywiad ymchwydd at ei gilydd ar hyd arfordir Gorllewin Cymru. Er enghraifft, ym Mhenmaendewi, mae lefelau dŵr eithafol (1:100) dan 4m; Tywyn a Chricieth tua 4.5m; ac wrth i donnau deithio o gwmpas Pen Llŷn mae lefel dŵr uchaf yn gostwng (uwchlaw 3.5m) (gwelwch CRhT2 Gorllewin Cymru: Adolygu Prosesau'r Arfordir a Daeareg, Haskoning, 2009).

Ffynonellau Gwaddod

6.2.11 Mae amrywiaeth mawr arfordir Gorllewin Cymru'n cael ei adlewyrchu yn amrywiaeth gwahanol ffynonellau gwaddod allweddol gan gynnwys y canlynol:

- Mae hindreulio ac erydu clogwyni'n rhyddhau gwaddodion o amrywiaeth o fathau ac ar gyflymderau amrywiol. Er enghraifft, mae gwaddod yn tueddu i gael ei ryddhau'n araf iawn o greigiau caled Sir Benfro mewn cymhariaeth â'r clogwyni til ar hyd arfordir Pen Llŷn ac ym Mochras. Mae'r creigiau hyn yn tueddu i fod yn ffynhonnell dda o waddod oherwydd eu bod yn erydu'n rhwydd gydag effaith y tonnau ac yn aml yn cynnwys llawer o ddeunydd addas ar gyfer adeiladu traethau, fel tywod a gro.
- Gall llawer mwy o waddod gael ei ryddhau o nodweddion a ffurfiwyd o'r arfordir ei hun, fel twyni. Yn rhan ogleddol arfordir Gorllewin Cymru mae cyfundrefnau twyni mawr dros ben, rhai ohonynt wedi erydu yn y degawdau diweddar, fel yn Aberdyfi, Morfa Dyffryn a Chwningar Niwbwrch. Caiff y tywod sy'n cael ei ryddhau fel hyn ei dynnu i draethau lleol ac i'r parth ger y lan, lle gall gael ei gludo a'i waddodi dros bellterau mawr.
- Bydd deunydd hefyd yn cyrraedd glan y môr o ffynonellau alltraeth. Yn fras iawn mae gwaddod yn tueddu i gronni mewn ardaloedd cymharol gysgodol. Enghreifftiau da o hyn yw aber Afonydd Glaslyn a Dwyryd, Bae Conwy ac Afon Menai.
- Dros y rhan fwyaf o ardal alltraeth Bae Ceredigion a Bae Caernarfon mae haen drwchus o glog-glai. Wrth iddo erydu mae'n rhyddhau llaid sy'n symud alltraeth yn nodweddiadol ac yn setlo, neu'n cael ei ddal mewn rhannau tawel o aberoedd.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Mae'r erydu hefyd yn rhyddhau gro, sy'n tueddu i ffurfio haen denau dros y clog-glai ac fe all hyn, yn ei dro, all gael ei orchuddio gan ardaloedd o waddodion manach. Nid yw'r gro'n ansymudol o angenrheidrwydd; mewn rhai ardaloedd mae'n cyflenwi deunydd i draethau cyffiniol, fel yn y Gwbert a Nefyn.

- Mae ponciau bach yng ngogledd a de Swnt Enlli a'r gred yw y ffurfiwyd hwy o dywod. Mae'r mwyaf, Bastram Shoal, yn codi o ddyfnder dŵr o ryw 40m, o fewn 6m i wyneb y môr. Mae tywod o'r ardal hon yn cyflenwi twyni Cwningar Niwbwrch a Morfa Dinlle.
- Fe all fod cyfnewid gwaddod rhwng llenni tywod alltraeth a thraethau ceudod bach tywodlyd ar hyd Bae Ceredigion ac i'r de o Dowyn.
- Mae'r llifau llanwol allan o aberoedd Dyfi a Mawddach yn achos symudiad gwaddod tua'r de o'u cegau, ond mae hyn yn dychwelyd i symud tua'r gogledd ymhellach o'r lan, wrth i effeithiau jet llanwol yr aber leihau.
- Gall afonydd ac aberoedd weithredu fel ffynonellau pwysig o waddod arfordirol. Fodd bynnag, ar hyd arfordir gorllewin Cymru mae'r aberoedd yn fwy tebygol o dderbyn gwaddodion a'u dal, neu i fod yn niwtral o ran gwaddod. Yr eithriadau i hyn yw aber Afon Dyfi, sy'n cyflenwi tywod i'r parth arfordirol a ger y lan ac, er yn wannach, i aber Afon Teifi a Thraeth Dulas.

Cludo Gwaddodion

6.2.12 Dewiswyd terfynau rheoli polisïau CRhT2 Gorllewin Cymru mewn mannau lle nad oes fawr ddim cyfnewid gwaddod. Felly, nid oes llawer o lif gwaddod heibio Penrhyn y Santes Ann ac o gwmpas Pen y Gogarth. Yn ogystal, ychydig o waddod sy'n mynd i mewn i Fae Ceredigion o'r de (o gwmpas Penmaendewi) nac o'r gogledd (o gwmpas Ynys Enlli), ac mae rhan allanol y bae'n brin iawn o waddod symudol. Fodd bynnag, fe all tonnau a cherhyntau llanw symud gwaddod yn y bae mewnol tua'r lan at y traethau.

6.2.13 Oddi ar arfordir deheuol Bae Ceredigion, rhwng aber Afon Teifi a man i'r gorllewin o Ben Caer, cyfeiriad cludiant tywod gweddilliol yw tua'r de-orllewin. Yn rhan allanol ogleddol y bae, mae tywod yn symud tua'r gogledd a'r dwyrain yn gyffredinol. I'r gogledd o Ben Llŷn, cludiant tywod gweddilliol yw tua'r gogledd-ddwyrain i Fae Caernarfon. Mae cludo gwaddodion yn rhannu rhwng Ynys Enlli ac arfordir Iwerddon, gyda'r cludiant tywod gweddilliol yn ymwahanu i'r gogledd ac i'r de.

6.2.14 O gwmpas traethlinau rhicynnog Sir Benfro, gorllewin Llŷn a llawer o Ynys Môn, caiff traethau eu dal rhwng pentiroedd. Yn y sefyllfa hon mae'r cludiant ar hyd y glannau'n tueddu i fod yn wan oherwydd yr effeithiau mynd yn fasach yn y baeau, a diffreithiad o gwmpas y pentiroedd. Os oes cerhyntau'r glannau'n bodoli, maent yn tueddu i ostwng wrth iddynt wthio gwaddod tuag at un pen o'r bae, ac mae llinell y traeth yn cylchdroi i wynebu'r tonnau sy'n cyrraedd.

6.2.15 Oddi ar arfordir deheuol Bae Ceredigion, rhwng aber Afon Teifi a man i'r gorllewin o Ben Caer, cyfeiriad cludiant tywod gweddilliol yw tua'r de-orllewin. Yn rhan allanol ogleddol y bae, mae tywod yn symud tua'r gogledd a'r dwyrain yn gyffredinol. I'r gogledd o Ben Llŷn, cludiant tywod gweddilliol yw tua'r gogledd-ddwyrain i Fae Caernarfon. Mae cludo gwaddodion yn rhannu rhwng Ynys Enlli ac arfordir Iwerddon, gyda'r cludiant tywod gweddilliol yn ymwahanu i'r gogledd ac i'r de.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

6.2.16 Ar hyd llawer o Bae Ceredigion mae'r tonnau pennaf o'r de-orllewin yn peri cludiant gweddilliol gogleddol gyda'r lan; er y gall hyn gael ei atal neu wyrdroi'n lleol. Mae'r ymddygiad hwn at ei gilydd i'w weld yn eglur yn y tafodau sy'n anelu at y gogledd ar draws cegau'r aberoedd, fel yn Ynys-las, Tywyn a'r Friog. Yng ngogledd Bae Ceredigion, mae gwaddod yn tueddu i gronni o gwmpas Bae Tremadog. Yma mae'r cludiant gogleddol yn cyfarfod y deunydd sy'n symud tua'r dwyrain ar hyd arfordir deheuol Pen Llŷn. Mae patrwm tebyg o gydgyfeiriant i'w weld yng ngheg ddeheuol Afon Menai. Yma mae tafodau'n ymestyn o'r ddwy ochr; cânt eu cadw ar wahân gan y llifau llanwol cryf drwy Afon Menai.

Amddiffynfeydd Arfordirol a Rhag Llifogydd

6.2.2 Mae Deddf Amddiffyn y Glannau 1949 yn rhoi pwerau caniataol i gynghorau dosbarth morol wneud gwaith diogelu'r arfordir. Mae gan gynghorau dosbarth morol ac Asiantaeth yr Amgylchedd bwerau i wneud gwaith amddiffyn. Yr awdurdodau gweithredu sy'n hyrwyddo'r amddiffynfeydd lle mae budd cymunedol.

6.2.3 Yn **Ffigur 6.1** mae golwg dros leoliad a mathau amddiffynfeydd arfordirol a rhag llifogydd cysylltiedig â CRhT2 Gorllewin Cymru. Mae amddiffynfeydd arfordirol yn gysylltiedig ag adeileddau sy'n gwarchod yr amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag effeithiau erydiad naill ai trwy adeileddau gwneud (e.e. muriau) neu ddulliau naturiol (e.e. traethell), tra bo amddiffynfeydd rhag y môr yn gysylltiedig ag amddiffyn rhag llifogydd. Gall amddiffynfeydd rhag y môr hefyd gynnwys naill ai adeileddau gwneud (e.e. muriau) neu ddulliau naturiol (e.e. crib raeanog / cyfundrefn dwyni).

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 6.1 Amddiffynfeydd Arfordirol a Rhag Llifogydd yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Hawlfraint © Mehefin 2010Haskoning DU Cyf.



Hawlfraint © Mehefin 2010Haskoning DU Cyf.

Tudalen wag o fwriad.

Hawlfraint © Mehefin 2010Haskoning DU Cyf.

7 DAEAREG A PHRIDDOEDD

7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae'r adran hon yn rhoi hanes y ddaeareg soled, priddoedd, a phresenoldeb tirlenwi neu faterion eraill ansawdd pridd yn ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru.

7.2 Trosolwg

7.2.1 Mae morlin Gorllewin Cymru'n enwog am ei daeareg drawiadol, sydd wedi rhoi'r dystiolaeth yn y maes ar gyfer deall creigiau'r cyfnodau amser daearegol Cambriaidd, Ordofigaidd, Silwraidd a Charbonifferaidd. Mae ei hanes daearegol hir yn weladwy yn y dirwedd ond mae'n fwyaf hawdd ei ddarllen yn ei morlin creigiog cymhleth. Mae'r nodweddion daearegol hyn o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol. Erydu naturiol yw un o'r hybwyr allweddol cynnal nodweddion diddordeb daearegol morlin ardal astudiaeth CRhT2 trwy amlygu dilynnau creigiau yn wyneb clogwyni. Fe all gwaith amddiffyn yr arfordir atal y broses hon er anfantais i'r nodweddion diddordeb.

Daeareg Soled

7.2.2 Daeareg yn aml yw'r dylanwad cryfaf ar y dirwedd yn effeithio'n sylfaenol ar y gorchudd tyfiant, patrymau draenio, cymeriad tirwedd a'r amgylchedd dynol. Ffurfiwyd arfordir Bae Ceredigion o gerrig clai a thywodfeini Ordofigaidd a Silwraidd mewn haenau da. Ffurfiwyd llawer o'r morlin gwaddodol hwn ym Masn Paleosöig Cymru. Roedd y basn yn ymestyn i ardaloedd silffoedd môr Ffiniau Cymru, De-orllewin Cymru, Arfordir Gogledd Cymru a Phen Llŷn a gallai fod wedi cyrraedd dyfnder o gannoedd lawer o fetrau.

Nodweddion Daearegol o Bwys

7.2.3 Mae creigiau, mwynau, ffosilau a thirffurfiau i gyd yn rhannau annatod o'n treftadaeth naturiol ac yn ffurfio nodweddion a chydrannau pwysig o'r dirwedd arfordirol. Mae nifer o safleoedd o ddiddordeb daearegol yn ardal CRhT2 Gorllewin Cymru.

Safleoedd Gwarchodedig Rhyngwladol

7.2.4 Mae rhai safleoedd daearegol yn Safleoedd Treftadaeth y Byd, gall eraill ddod yn Safleoedd Daearegol Ewropeaidd. Nid oes unrhyw safleoedd daearegol a warchodwyd yn rhyngwladol yng Nghymru, er y caiff rhai safleoedd Cymreig eu defnyddio fel 'ffyn mesur' neu safleoedd cyfeiriol gan wyddonwyr ymhob rhan o'r byd.

7.2.5 Mae dau Barc Daearegol Ewropeaidd yng Nghymru'n ffurfio rhan o rwydwaith Ewrop gyfan o safleoedd sy'n cael eu gwarchod oherwydd eu pwysigrwydd daearegol. Mae un o'r safleoedd hyn, parc daearegol Ynys Môn a gafodd yr enw GeoMôn, yn ardal astudiaeth CRhT2 ac mae'n cynnwys enghreifftiau nodedig o ddaeareg gyn-Gambriaidd ac yn un o'r mannau gorau i astudio prosesau a nodweddion tectoneg platiau.

Safleoedd Gwarchodedig Cenedlaethol

7.2.6 Caiff SoDdGA Daearegol (gwelwch **Dabl 7.1**) neu safleoedd a ddewiswyd fel y safleoedd gorau oll ym Mhrydain o ran ymchwilio daeareg a geomorffoleg dan yr Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol (GCR) eu dynodi gan CCGC sydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod safleoedd GCR yng Nghymru'n cael eu dynodi'n SoDdGA. Ar sail y data GCR gwreiddiol mae tua 463 o'r safleoedd hyn yng Nghymru, 126 ohonynt o fewn terfyn yr astudiaeth (**Tabl**

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

7.2). Fel y safleoedd biolegol cyfatebol, caiff SoDdGA Daearegol eu gwarchod yn y gyfraith ac ymgorfforwyd rhai ohonynt mewn Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG).

Tabl 7.1 SoDdGA Daearegol a Nodweddion yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Enw'r SoDdGA	Cyflwr	Disgrifiad o'r Nodwedd
Aber Mawr	Anffafriol	Cwaternaidd Cymru
Aber-arth – Carreg Wylan	Anffafriol	Adeileddau Caledonaidd Cymru
		Cwaternaidd Cymru
Afon Teifi	Dim data	Geomorffoleg afonol Cymru
Allt Wen a Thraeth Tanybwlch	Dim data	Adeileddau Caledonaidd Cymru
Arfordir Abereiddi	Dim data	Arenig – Llanfirn
		Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd
Arfordir Marros – Pentywyn	Dim data	Geomorffoleg arfordirol Cymru
		Namuraidd Cymru a Lloegr
		Cwaternaidd Cymru
Arfordir Niwgwl – Aber Bach	Dim data	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip
		Westffalaidd
Arfordir Penrhyn Angle	Dim data	Cwaternaidd Cymru
Arfordir Saundersfoot – Telpyn	Dim data	Westffalaidd
Borth – Clarach	Dim data	Adeileddau Caledonaidd Cymru
Cadnant	Ffafriol	Caradog-Ashgill
Trwyn Carmel	Ffafriol	Adeileddau Caledonaidd Cymru
		Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr
Clogwyni a Thwyni Castellmartin	Dim data	Geomorffoleg arfordirol Cymru
		Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip
Craigyfulfran a Chlarach	Ffafriol	Adeileddau Caledonaidd Cymru
		Llanymddyfri
		Cwaternaidd Cymru
Cregennen a Phared y Cefn Hir	Ffafriol	Arenig – Llanfirn
		Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd
Creigiau Abergwaun	Ffafriol	Arenig – Llanfirn
Creigiau Cwm-ceriw a Ffos-las (Morfa Bychan)	Ffafriol	Cwaternaidd Cymru
Creigiau Rhiwledyn (Trwyn y Fuwch)	Dim data	Dinantaidd Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr
Arfordir Dale a De Marloes	Dim data	Llanymddyfri
		Defonaidd anforol
		Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd
		Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip
Chwareli a Glaswelltir Deganwy	Dim data	Caradog-Ashgill
De Porth Sain Ffraid	Dim data	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip
Dinas Dinlle	Ffafriol	Cwaternaidd Cymru

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Enw’r SoDdGA	Cyflwr	Disgrifiad o’r Nodwedd
Pwll Dwrhyd	Anffafriol	Cambriaidd

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Enw’r SoDdGA	Cyflwr	Disgrifiad o’r Nodwedd
Dyfi	Dim data	Geomorffoleg arfordirol Cymru
		Cwaternaidd Cymru
Foel Ispri	Ffafriol	Mwnyddiaeth Cymru
Clogwyni Freshwater East i Skrinkle Haven	Dim data	Defonaidd anforol
Adran Gas Works Lane (Hwlffordd)	Anffafriol	Llanymddyfri
Glannau Rhoscolyn	Dim data	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr
Glannau Ynys Gybi	Dim data	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr
Henborth	Ffafriol	Cwaternaidd Cymru
Llanbadrig – Dinas Gynfor	Dim data	Arenig – Llanfirn
		Adeileddau Caledonaidd Cymru
		Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr
Dyfrffordd Aberdaugleddau	Dim data	Defonaidd anforol
Cwningar Niwbwrch – Ynys Llanddwyn	Dim data	Geomorffoleg arfordirol Cymru
		Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr
Pen y Gogarth	Dim data	Dinantaidd Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr
		Mwnyddiaeth Cymru
Ynys Dewi	Dim data	Arenig – Llanfirn
		Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd
Rhosneigr	Ffafriol	Adeileddau Caledonaidd Cymru
Arfordir Penrhyn Dewi		Cydosodiad o RDB a/neu blanhigion fasgwlaidd anfynych ledled y wlad
		Geomorffoleg arfordirol Cymru
		Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr
Cei Ystagbwll – Pen Trewŵen	Dim data	Gweunllwg
Arfordir Penrhyn Dewi	Dim data	Geomorffoleg arfordirol Cymru
		Cwaternaidd Cymru
Pen Caer – Clogwyni Llechdafad	Dim data	Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd
		Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd
Clogwyni Dinbych-y-pysgod ac Ynys Catrin	Dim data	Namuraidd Cymru a Lloegr
Traeth Lligwy	Dim data	Adeileddau Caledonaidd Cymru
		Dinantaidd Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr
		Defonaidd anforol
Tywyn Aberffraw	Dim data	Geomorffoleg arfordirol Cymru
Twyni Talacharn – Pentywyn	Dim data	Geomorffoleg arfordirol Cymru
Bae Waterwynch i Harbwr Saundersfoot	Dim data	Westffalaidd

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Table 7.2 Safleoedd GCR Arfordirol a SoDdGA Perthnasol yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Safle	Bloc GCR	SoDdGA	Math o SoDdGA
Morfa Aber-arth	Llanymddyfri	Creigiau Aber-arth – Morfa	GEO
Allt Wen	Adeileddau Caledonaidd Cymru	Allt Wen a Thraeth Tanybwlch	MIX
Llechwedd y Bermo	Cambriaidd	Llechwedd y Bermo	MIX
Clarach	Cwaternaidd Cymru	Craigyfulfran & Clarach	GEO
Gwaith Aur Clogau	Mwnyddiaeth Cymru		
Craigyfulfran	Llanymddyfri	Craigyfulfran a Chlarach	GEO
Craigyfulfran	Adeileddau Caledonaidd Cymru	Craigyfulfran a Chlarach	GEO
Cwm Tydu	Adeileddau Caledonaidd Cymru	Aber-arth – Carreg Wylan	MIX
Gwaith Aur Foel Ispri	Mwnyddiaeth Cymru	Foel Ispri	GEOL
Isglogwyn y Friog	Mwnyddiaeth Cymru	Glannau Tonfannau i'r Friog	MIX
Llan-non	Cwaternaidd Cymru	Traeth Llan-non	GEO
Llynnau Cregennen	Arenig – Llanfirn	Cregennen a Phared y Cefn Hir	GEO
Morfa Bychan	Cwaternaidd Cymru	Creigiau Cwm-ceriw a Ffos-las (Morfa Bychan)	GEO
Morfa Dyffryn	Geomorffoleg arfordirol Cymru	Morfa Dyffryn	MIX
Morfa Harlech	Geomorffoleg arfordirol Cymru	Morfa Harlech	MIX
Mwnt (Traeth-y-Mwnt)	Cwaternaidd Cymru	Aberarth – Carreg Wylan	MIX
Gogledd Clarach	Adeileddau Caledonaidd Cymru	Borth – Clarach	GEO
Pared y Cefn Hir	Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd	Cregennen a Phared y Cefn Hir	GEO
Traeth Penbryn	Adeileddau Caledonaidd Cymru	Aber-arth – Carreg Wylan	MIX
Gwaith Aur y Figra	Mwnyddiaeth Cymru	Mwynfa'r Figra	GEO
Ynyslas	Geomorffoleg arfordirol Cymru	Dyfi	MIX
Ynyslas a'r Borth	Cwaternaidd Cymru	Dyfi	MIX
Afon Seiont	Arenig – Llanfirn	Afon Seiont	GEO
Braich-y-Pwll i Barwyd	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr	Glannau Aberdaron	MIX
Bwlch Mine	Mwnyddiaeth Cymru	Bwlch Mine	GEO
Cadnant Cutting	Caradog-Ashgill	Cadnant	GEO
Cae'r Sais	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr		
Trwyn Carmel	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr	Trwyn Carmel	
Trwyn Carmel	Adeileddau Caledonaidd Cymru	Trwyn Carmel	
Chwareli Deganwy	Caradog-Ashgill	Chwareli a Glaswelltir Deganwy	
Dinas Dinlle	Cwaternaidd Cymru	Dinas Dinlle	GEO
Chwarel Flagstaff	Dinantaidd Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr	Glannau Penmon – Biwmares	
Glanllynnau	Cwaternaidd Cymru	Glanllynnau a Glannau Penychain i Gricieth	GEO/MAR
Y Gogarth	Dinantaidd Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr	Pen y Gogarth	MIX
Mwyngloddiau Copr y Gogarth	Mwnyddiaeth Cymru	Pen y Gogarth	MIN WAL

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Safle	Bloc GCR	SoDdGA	Math o SoDdGA
Bae Gwydir	Cwaternaidd Cymru	Bae Gwydir	GEO
Hen Borth	Cwaternaidd Cymru	Henborth	GEO
Rhiwledyn (Trwyn y Fuwch)	Dinantaidd Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr	Creigiau Rhiwledyn (Trwyn y Fuwch)	
Ardal Llanbadrig	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr	Llanbadrig – Dinas Gynfor	GEO
Llanbedrog	Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd	Mynydd Tir y Cwmwd a'r Glannau at Garreg yr Imbill	
Ynys Llanddwyn	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr	Cwningar Niwbwrch – Ynys Llanddwyn	MIX
Lleiniog	Cwaternaidd Cymru	Glannau Penmon – Biwmares	GEO
Traeth Lligwy	Dinantaidd Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr	Traeth Lligwy	GEO
Traeth Lligwy	Adeileddau Caledonaidd Cymru	Traeth Lligwy	GEO
Colofn Ardalydd Môn	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr		
Morannedd	Cwaternaidd Cymru	Tiroedd a Glannau rhwng Cricieth ac Afon Glaslyn	MIX
Mynydd Penarfynydd	Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd	Mynydd Penarfynydd	MIX
Nant Mine	Mwnyddiaeth Cymru	Benallt Mine a Nant y Gadwen	GEO
Nant-y-gadwen	Arenig – Llanfirn	Benallt Mine a Nant y Gadwen	GEO
Cwningar Niwbwrch	Geomorffoleg arfordirol Cymru	Cwningar Niwbwrch - Ynys Llanddwyn	MIX
Ogof Gynfor	Adeileddau Caledonaidd Cymru	Llanbadrig – Dinas Gynfor	GEO
Ogof Gynfor - Hell's Mouth	Arenig – Llanfirn	Llanbadrig – Dinas Gynfor	GEO
Pen Benar	Tremadog	Pen Benar	GEO
Penrhyn Bodeilias	Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd	Porth Dinllaen i Borth Pistyll	
Penrhyn Nefyn – Adran y Blaendraeth	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr	Porth Dinllaen i Borth Pistyll	GEO/MAR
Porth Ceiriad	Cambriaidd	Porth Ceiriad, Porth Neigwl ac Ynysoedd Tudwal	MIX
Porth Ceiriad	Cwaternaidd Cymru	Porth Ceiriad, Porth Neigwl ac Ynysoedd Tudwal	MIX
Porth Neigwl	Cwaternaidd Cymru	Porth Ceiriad, Porth Neigwl ac Ynysoedd Tudwal	GEO
Porth Neigwl	Geomorffoleg arfordirol Cymru	Porth Ceiriad, Porth Neigwl ac Ynysoedd Tudwal	GEO
Porth Oer	Cwaternaidd Cymru	Glannau Aberdaron	MIX
Porth-y-môr	Defonaidd anforol	Traeth Lligwy	GEO
Traeth Coch	Cwaternaidd Cymru	Trwyn Dwlban	GEO
Rhiw-for-fawr	Cambriaidd-Tremadog	Rhiw-for-fawr	GEO
Rhoscolyn	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr	Glannau Rhoscolyn	MIX
Rhosneigr	Adeileddau Caledonaidd Cymru	Rhosneigr	GEO
Ynys Lawd	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr	Glannau Ynys Gybi	MIX
Chwarel Tandinas	Dinantaidd Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr	Arfordir Gogleddol Penmon	GEO
Trwyn Carreg y Tir	Cambriaidd	Porth Ceiriad, Porth Neigwl ac Ynysoedd Tudwal	MIX

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Safle	Bloc GCR	SoDdGA	Math o SoDdGA
Trwyn Dwlban	Dinantaidd Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr	Trwyn Dwlban	GEO
Trwyn Llech y Ddol	Arenig – Llanfirn	Porth Ceiriad, Porth Neigwl ac Ynysoedd Tudwal	MIX
Trwyn y Gorlech i Chwareli'r Eifl	Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd	Yr Eifl	
Tywyn Aberffraw	Geomorffoleg arfordirol Cymru	Tywyn Aberffraw	MIX
Wig Bach	Arenig – Llanfirn	Wig Bach a'r Glannau i Borth Alwm	GEO/MAR
Aber Mawr i Borth Lleuog	Igneaidd Ordofigaidd-Silwraidd	Ynys Dewi	MIX
Abergwaun	Arenig – Llanfirn	Creigiau Abergwaun	GEO
Abermawr	Cwaternaidd Cymru	Aber Mawr	GEO
Traeth Albion ac Ynys y Geifr	Defonaidd anforol	Arfordir Dale a De Marloes	MIX
Blucks Pool – Bullslaughter Bay	Dinantaidd De Cymru a De Lloegr	Clogwyni a Thwyni Castellmartin	MIX
Aberllydan i Drwyn Settling	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip	Arfordir Niwgwl – Aber Bach	MIX
Bae Caerfyrddin	Geomorffoleg arfordirol Cymru	Amrywiol	MIX
Castell Coch i Drwyncastell	Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd	Arfordir Abereiddi	MIX
Parc y Ceirw	Llanymddyfri	Arfordir Dale a De Marloes	MIX
Dinas & Esgyrn Bottom	Cwaternaidd Cymru	Esgyrn Bottom	MIX
Druidston	Cwaternaidd Cymru	Arfordir Niwgwl – Aber Bach	MIX
Druidston Haven	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip	Arfordir Niwgwl – Aber Bach	MIX
Pwll Dwrhyd	Cambriaidd	Pwll Dwrhyd	GEO
Freshwater East	Paleobotaneg Paleosöig	Clogwyni Freshwater East i Skrinkle Haven	MIX
Freshwater East	Gweunllwg	Cei Ystagbwll – Pen Trewŵen	MIX
Freshwater East (Gogledd)	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip	Clogwyni Freshwater East i Skrinkle Haven	MIX
Freshwater West (Gogledd)	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip	Cwningar Broomhill	MIX
Freshwater West (De)	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip	Clogwyni a Thwyni Castellmartin	MIX
Gasworks Lane	Llanymddyfri	Adran Gas Works Lane (Hwlffordd)	GEO
Little Castle Head	Defonaidd anforol	Dyfrffordd Aberdaugleddau	MIX
Llanfirn – Abereiddy	Arenig – Llanfirn	Arfordir Abereiddi	MIX
Marloes	Llanymddyfri	Arfordir Dale a De Marloes	MIX
Marloes	Gweunllwg	Arfordir Dale a De Marloes	MIX
Traeth Marloes i Draeth Albion	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip	Arfordir Dale a De Marloes	MIX
Marros	Namuraidd Cymru a Lloegr	Arfordir Marchros – Pentywyn	MIX
Traeth Marchros [Ragwen Point o'r blaen]	Cwaternaidd Cymru	Arfordir Marchros – Pentywyn	MIX
Mill Haven	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip	De Porth Sain Ffraid	MIX
Bae Musselwick	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip	De Porth Sain Ffraid	MIX
Traeth Musselwick	Adeileddau Farisgaidd De	De Porth Sain Ffraid	MIX

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Safle	Bloc GCR	SoDdGA	Math o SoDdGA
	Cymru a Bryniau Mendip		
Arfordir Nolton Haven	Westffalaidd	Arfordir Niwgwl – Aber Bach	MIX
Ogof Hen	Arenig – Llanfirn	Ramsey	MIX
Pen-caer	Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd	Pen Caer – Clogwyni Llechdafad	MIX
Traeth Poppit	Cwaternaidd Cymru	Aberarth – Carreg Wylan	MIX
Porth Clais	Cwaternaidd Cymru	Arfordir Penrhyn Dewi	MIX
Porth-y-rhaw	Cambriaidd	Arfordir Penrhyn Dewi	MIX
Ynys Sgomer	Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd	Ynys Sgomer ac Ynys Ganol	MIX
Solfach	Geomorffoleg arfordirol Cymru	Arfordir Penrhyn Dewi	MIX
Harbwr Solfachg	Cambriaidd	Arfordir Penrhyn Dewi	MIX
Clogwyni De Penfro	Geomorffoleg arfordirol Cymru	Clogwyni a Thwyni Castellmartin	MIX
Penrhyn y Santes Ann	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip	Arfordir Dale a De Marloes	MIX
Arfordir Penrhyn Dewi	Cyn-Gambriaidd Cymru a Lloegr	Arfordir Penrhyn Dewi	MIX
Penmaendewi	Igneaidd Ordofigaidd – Silwraidd	Arfordir Penrhyn Dewi	MIX
Capel Non i Borth Caerfai	Cambriaidd	Arfordir Penrhyn Dewi	MIX
Cei Ystagbwll	Adeileddau Farisgaidd De Cymru a Bryniau Mendip	Cei Ystagbwll – Pen Trewŵen	MIX
Traeth Dinbych-y-pysgod	Namuraidd Cymru a Lloegr	Clogwyni Dinbych-y-pysgod ac Ynys Catrin	MIX
Clogwyni Dinbych-y-pysgod	Defonaidd anforol	Clogwyni Freshwater East i Skrinkle Haven	MIX
Clogwyni Dinbych-y-pysgod	Dinantaidd De Cymru a De Lloegr	Clogwyni Dinbych-y-pysgod ac Ynys Catrin	MIX
Arfordir Dinbych-y-pysgod i Saundersfoot	Westffalaidd	Clogwyni Dinbych-y-pysgod ac Ynys Catrin	MIX
Trwyn Cynddeiriog	Cambriaidd	Arfordir Penrhyn Dewi	MIX
Bae Gorllewin Angle	Cwaternaidd Cymru	Arfordir Penrhyn Angle	MIX
Bae Gorllewin Angle (Gogledd)	Defonaidd anforol	Arfordir Penrhyn Angle	MIX
Porth Mawr	Arenig – Llanfirn	Arfordir Penrhyn Dewi	MIX
Arfordir Wiseman's Bridge – Llanrhath	Westffalaidd	Arfordir Saundersfoot – Telpyn	MIX

Safleoedd Lleol a Rhanbarthol

7.2.7 Caiff y mannau pwysicaf o ran daeareg, geomorffoleg a phriddoedd oddi allan i'r SoDdGA daearegol cydnabyddedig yn genedlaethol eu dynodi fel Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (RIGS) gan awdurdodau lleol. Yn wahanol i SoDdGA, nid yw RIGS yn cael eu gwarchod yn y gyfraith. Bydd y rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio'n cynnwys RIGS yn eu cynlluniau fframwaith, gan eu rhoi ar gofrestri cyfyngiadau ac yn eu gwarchod drwy'r broses gynllunio. Bydd llawer o grwpiau RIGS y DU yn dan ambarél sefydliad UKRIGS. Yng Nghymru, mae grwpiau yn y Gogledd-ddwyrain (NEWRIGS), RIGS Gwynedd a Môn a grŵp RIGS y Canolbarth yn gweithredu dan gorff cenedlaethol o'r enw Cymdeithas Grwpiau RIGS Cymru (AWRG).

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

7.2.8 Tra bo safleoedd GCR yn cael eu dewis yn y lle cyntaf oherwydd eu gwerth gwyddonol ac ymchwiliol, fe all RIGS gael eu dewis am resymau hanesyddol, addysgol ac esthetig yn ogystal â rhinweddau gwyddonol. Agwedd bwysig ar ddewis RIGS yw cynrychioli hynodrwydd a chymeriad geoamrywiaeth leol / ranbarthol. O'r 567 RIGS a gofnodwyd ar hyd a lled Cymru mae 180 ohonynt yn ardal astudiaeth CRhT2. Caiff y safleoedd hyn eu nodi yn **Nhabl 7.3** gan gynnwys categorïau nodweddion a chaiff eu lleoliadau eu nodi yn **Ffigur 7.1**.

Tabl 7.3 Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (RIGS) ar Arfordirol Ardal Astudio CRhT2

RIGS	Categori	Categori'r Nodwedd	Awdurdod
Cei Newydd	Gwyddonol / Addysgol	Stratigraffeg / Daeareg adeileddol	Ceredigion
Craig y Delyn	Gwyddonol / Addysgol	Stratigraffeg	Ceredigion
Adran Arfordirol y Friog	Gwyddonol / Addysgol	Stratigraffeg	Gwynedd
Gwaith Aur Figra	Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Gwynedd
Rhiwledyn (Trwyn y Fuwch)	Gwyddonol / Esthetig	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Conwy
Glan Ogleddol Llandudno	Addysgol / Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Conwy
Dinlligwy, Claddgell Lligwy a Hen Gapel Llig	Hanesyddol		Ynys Môn
Fferi'r Foel	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Calchbalmant y Gogarth	Gwyddonol / Addysgol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Conwy
Caer Rufeinig ac Eglwysi Canoloesol Caergybi	Hanesyddol	Adeiladau Rhufeinig a Chanoloesol	Ynys Môn
Plas Newydd	Hanesyddol		Ynys Môn
Porth Nobla 1	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Porth Nobla 2	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Aberlleiniog	Gwyddonol / Addysgol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Clogwyn a Drymlin Biwmares	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Porth yr Ysgaw	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Llanddona	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Mermaid Inn	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Penial Dowyn	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Drymlin Penrhos	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Penrhyn y Gell	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Porth Cwyfan	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Porth Dryw	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Porth Nobla 3	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Trwyn y Penrhyn	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Coedwig Niwbwrch	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Ynys Llanddwyn	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Gallows Deep	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Trwyn y Parc	Gwyddonol	Geomorffoleg	Ynys Môn
Llangrannog – Traeth Ynys Lochtyn	Addysgol / Esthetig / Gwyddonol	Stratigraffeg / Daeareg Adeileddol	Ceredigion
Pentir Carreg Ddu	Addysgol / Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Gwynedd
Pier Trefor	Addysgol / Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Gwynedd

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

RIGS	Categori	Categori'r Nodwedd	Awdurdod
Ffynnon Badrig	Gwyddonol	Paleontoleg	Ynys Môn
Trwyn Llanbadrig	Gwyddonol	Paleontoleg	Ynys Môn
Colofn Ardalydd Môn	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Porth Trefadog	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Porth Padrig	Gwyddonol / Esthetig	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Porth Wen	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Porth Swtan	Gwyddonol	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Craig Wen a Phorth Wen	Gwyddonol	Daeareg adeileddol / Metamorffedd	Ynys Môn
Cofeb Dennis Wood	Hanesyddol		Ynys Môn
Bwa Du	Gwyddonol	Adeileddol a Metamorffaidd	Ynys Môn
Porth y Corwgl	Gwyddonol	Adeileddol	Ynys Môn
Bwrdd Arthur	Esthetig	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Mynydd Garreg	Hanesyddol / Addysgol	Mwnyddiaeth	Gwynedd
Lleidiog	Addysgol / Gwyddonol	Petroleg Igneaidd	Ynys Môn
Trwyn y Penrhyn	Gwyddonol	Paleontoleg	Ynys Môn
Carreg-lwyd	Addysgol / Gwyddonol	Trydyddol	Ynys Môn
Craig Pen Las	Addysgol / Gwyddonol	Petroleg Igneaidd	Ynys Môn
Parlwr	Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Mynydd Rhoscolyn	Gwyddonol	Gwaddodol / Adeileddau?	Ynys Môn
Trwyn Carmel	Gwyddonol / Addysgol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Porth y Pwll	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Porth Wen	Hanesyddol	Hanesyddol	Ynys Môn
Ffordd Osgoi Llanfairpwll	Gwyddoniaeth	Stratigraffeg / Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Ynys Lawd	Gwyddoniaeth	Paleontoleg	Ynys Môn
Ymwthiad Rhiwledyn	Gwyddonol / Addysgol	Daeareg adeileddol	Conwy
Cefn yr Ogof	Gwyddonol	Stratigraffeg / Cwaternaidd a Geomorffoleg	Conwy
Chwarel Llyn Glas	Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg	Gwynedd
Parc Gwledig Morglawdd Caergybi	Esthetig / Addysgol	Igneaidd / Geomorffoleg	Ynys Môn
Moelfre	Addysgol / Gwyddonol / Esthetig	Cwaternaidd a Geomorffoleg	Ynys Môn
Soldiers Point Bay	Gwyddonol	Paleontoleg	Ynys Môn
Maes Parcio'r Santes Ann (Stryd Cilbedlam Porthaethwy)	Gwyddonol / Addysgol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Cerrig Moelion (Cae'r Sais)	Gwyddonol / Addysgol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Traeth Bychan 3	Esthetig / Addysgol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Arfordir Llanbadrig	Gwyddonol / Addysgol	Cyn-Gambriaidd	Ynys Môn
Cemais	Addysgol	Cyn-Gambriaidd	Ynys Môn
Ynysoedd y Moelrhoniaid	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Gadlys Quarry	Gwyddonol	Paleontoleg	Ynys Môn
Rhos Ynys Lawd	Addysgol	Adeileddau / Metamorffaidd	Ynys Môn
Niwbwrch a Llanddwyn	Gwyddonol	Paleontoleg	Ynys Môn

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

RIGS	Categori	Categori'r Nodwedd	Awdurdod
Creigiau Cliperau	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Fynnon Eilian (Plac Greenly)	Hanesyddol	Adeileddau	Ynys Môn
Maes Parcio'r Santes Ann	Gwyddonol / Addysgol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Cerrig Moelion	Gwyddonol / Addysgol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Traeth Bychan 2	Gwyddonol / Addysgol	Paleontoleg	Ynys Môn
Traeth Bychan 1	Gwyddonol / Addysgol	Igneaidd	Ynys Môn
Benllech	Gwyddonol	Cwaternaidd / Geomorffoleg	Ynys Môn
Craig Glais	Addysgol	Stratigraffeg / Adeiledd	Ceredigion
Traeth Lligwy	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Bae Lligwy	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Pedolau i Eglwys Siglen	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Moelfre i Draeth Bychan	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Trwyn Penrhyn i Huslan	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Trwyn Dwlban	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Chwarel a Chlogwyni Tandinas	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Fedw Fawr	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Chwarel Flagstaff	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Porth Defaid	Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Porth Swtan	Gwyddonol / Addysgol	Datblygiad Tirwedd	Ynys Môn
Porth Wnal Dolerit	Gwyddonol / Addysgol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Porth Wnal Ithfaen	Gwyddonol / Addysgol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Trwyn y Penrhyn, Cemis	Gwyddonol / Addysgol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Trwyn Eilian	Gwyddonol / Addysgol / Esthetig	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Ogof Fawr	Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Ogof Fach	Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Porth Namarch	Gwyddonol / Addysgol / Esthetig	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Porth Dafarch	Gwyddonol / Addysgol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Rhosygader	Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Porth Trecastell	Gwyddonol / Addysgol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Mynydd Bach	Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Llanfaelog	Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Felin-wen	Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Craig Fawr	Gwyddonol / Addysgol	Mwnyddiaeth	Ynys Môn
Cwningar Niwbwrch	Gwyddonol / Addysgol / Esthetig	Priddoedd	Ynys Môn
Biwmares (Salop)	Gwyddonol	Priddoedd	Ynys Môn
Borth Uchaf	Gwyddonol	Stratigraffeg / Adeiledd	Ceredigion
Y Gogarth (Marcham)	Gwyddonol	Priddoedd	Conwy
Biwmares (Fflint)	Gwyddonol / Addysgol	Priddoedd	Ynys Môn
Rhosneigr	Gwyddonol / Addysgol	Priddoedd	Ynys Môn
Traeth Bach	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn
Porth y Môr	Gwyddonol	Stratigraffeg	Ynys Môn

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

RIGS	Categori	Categori'r Nodwedd	Awdurdod
Ty'n Llan	Gwyddonol		Ynys Môn
Rhyd y Gari	Gwyddonol		Ynys Môn
Plas Newydd	Gwyddonol / Hanesyddol		Ynys Môn
Traeth Bychan Igneaidd	Gwyddonol / Addysgol / Esthetig		Ynys Môn
Clogwyni Lawrenni	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Traeth Trefdraeth	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Traeth Poppit	Esthetig / Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg / Adeiledd	Sir Benfro
Pwll-y-wrach	Esthetig / Addysgol / Gwyddonol	Cwaternaidd / Geomorffoleg	Sir Benfro
Tirlithriad Llandudoch	Esthetig / Addysgol / Gwyddonol / Hanesyddol	Cwaternaidd / Geomorffoleg	Sir Benfro
Chwareli West Williamston	Hanesyddol / Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Abercibwr	Esthetig / Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg / Adeiledd / Cwaternaidd	Sir Benfro
Drysau Eglwys – Pentir Lystep	Esthetig / Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
East Pickard Bay	Gwyddonol	Stratigraffeg / Igneaidd	Sir Benfro
Porth-gain	Esthetig / Addysgol / Gwyddonol / Hanesyddol	Stratigraffeg / Igneaidd	Sir Benfro
Clogwyni Pen-yr-afr	Esthetig / Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg / Adeiledd	Sir Benfro
Porth Sain Ffraid	Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg / Adeiledd	Sir Benfro
Mill Bay	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Bae Lindsway	Addysgol / Hanesyddol / Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Bae Gelliswick	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Cei Landshipping	Esthetig / Addysgol / Hanesyddol / Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Y Settlands	Esthetig / Addysgol / Hanesyddol / Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Chwarel Pont Fasgl	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Chwareli Coedcanlas (Llangwm Ferry)	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Sandy Haven	Hanesyddol / Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Glen Beach	Hanesyddol / Addysgol / Gwyddonol	Daeareg Adeileddol / Geomorffoleg Arfordirol / Daeareg Economaidd	Sir Benfro
Townsend	Gwyddonol	Stratigraffeg / Igneaidd	Sir Benfro
Trwyn Sawdern	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

RIGS	Categori	Categori'r Nodwedd	Awdurdod
Rwyn Picton	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Pont Mullock	Gwyddonol	Cwaternaidd	Sir Benfro
Afon Penfro	Hanesyddol / Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Trwyn Pennar	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
West Angle Bay	Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg / Adeiledd	Sir Benfro
New Shipping	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Trwyn Gilman	Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Marloes	Gwyddonol	Mwnyddiaeth / Adeiledd	Sir Benfro
Yr Aber Bach	Addysgol / Gwyddonol	Mwnyddiaeth / Adeiledd	Sir Benfro
Llaneilfyw	Hanesyddol / Gwyddonol	Mwnyddiaeth	Sir Benfro
Bae Westdale	Gwyddonol	Stratigraffeg / Igneaidd / Adeiledd	Sir Benfro
Castle Reach (Gorllewin)	Gwyddonol	Stratigraffeg / Igneaidd	Sir Benfro
Talacharn	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Gâr
Longstone Down	Addysgol / Gwyddonol	Cwaternaidd Geomorffoleg	Sir Benfro
Bae Bullslaughter	Gwyddonol	Stratigraffeg / Geomorffoleg Cwaternaidd / Adeiledd	Sir Benfro
Creigiau Tar	Gwyddonol	Stratigraffeg / Adeiledd	Sir Benfro
Traeth Musselwick	Gwyddonol	Startigraphy / Igneaidd / Adeiledd	Sir Benfro
Cei Newydd	Gwyddonol	Geomorffoleg Cwaternaidd	Sir Benfro
Martin's Haven	Gwyddonol	Igneaidd	Sir Benfro
Clogwyn Burton	Gwyddonol	Startigraphy	Sir Benfro
Sma's Wood	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Chwarel Caeriw	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Wear Point	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Monk Haven	Gwyddonol	Stratigraffeg / Igneaidd / Adeiledd	Sir Benfro
Sandy Haven Pill	Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg / Adeiledd	Sir Benfro
Penmaendewi	Addysgol / Gwyddonol	Metamorffedd / Igneaidd / Adeiledd	Sir Benfro
Traeth Niwgwl	Esthetig / Addysgol / Gwyddonol	Geomorffoleg Arfordirol	Sir Benfro
Pwll March	Addysgol / Gwyddonol	Stratigraffeg / Geomorffoleg Cwaternaidd	Sir Benfro
Pwllderi	Esthetig / Gwyddonol	Stratigraffeg / Igneaidd	Sir Benfro
Trwyn y Capel, Ynys Bŷr			Sir Benfro
Clogwyn Uchel, Ynys Bŷr			Sir Benfro
Trwyn Giltar	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Priory Bay Sands			Sir Benfro
Middle Cove	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Penrhyn Ystagbwll	Gwyddonol	Geomorffoleg	Sir Benfro
Traeth Trefdraeth (Gogledd)	Gwyddonol	Stratigraffeg / Adeiledd	Sir Benfro
Chwareli Bae Caerbwdy	Hanesyddol / Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

RIGS	Categori	Categori'r Nodwedd	Awdurdod
Bae Angle	Gwyddonol	Stratigraffeg	Sir Benfro
Penrhyn Safnas	Gwyddonol / Addysgol	Igneaidd	Ynys Môn
Porth Dinllaen	Gwyddonol	Cwaternaidd / Geomorffoleg	Gwynedd
Trwyn y Tal	Gwyddonol	Cwaternaidd / Geomorffoleg	Gwynedd

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Priddoedd

7.2.9 Mae'r Sefydliad Adnoddau Pridd Cenedlaethol (http://www.landis.org.uk/soilscapes/) yn nodi mai'r math pridd pennaf ar hyd llawer o forlin Gorllewin Cymru priddoedd lomog ychydig yn asidaidd yn draenio'n rhwydd, gydag ardaloedd o briddoedd asid lomog a chleiog, gwlyb yn dymhorol yn draenio'n araf ar hyd Pen Llŷn ac ar Ynys Môn. Yng Nghymru, deilliodd gwaddod a gro, heblaw hynny o darddiad rhewlifol, yn bennaf o gerrig clai a llechi Paleosöig Isaf a Chyn-Gambriaidd yn y gogledd a'r gorllewin, a cherrig calch Carbonifferaidd yn bennaf yn y de.

7.2.10 Proses naturiol yw asideiddio, yn deillio o golli basau maethol (calsiwm, magnesiwm a photasiwm) trwy broses trwytholchi a'u disodli gan elfennau asidaidd, fel hydrogen ac alwminiwm. Yn ogystal â digwydd yn naturiol, mae asideiddio hefyd yn gysylltiedig yn gyffredin â llygru'r awyr yn deillio o sylffwr a nitrogen o darddiad dynol (www.apis.ac.uk). Mae rhannau mawr o Gymru'n agored i asideiddio, yn enwedig yr ucheldiroedd, oherwydd bod y creigwely'n hindreulio'n araf a'r priddoedd heb fawr ddim gallu i niwtraleiddio asid. Yr amcangyfrif yw bod dyddodiad asidaidd yn effeithio ar 34% o briddoedd Cymru ac, yn y cylchoedd hyn, gall tua 50% o'r nentydd gradd gyntaf i drydydd fod wedi cael eu niweidio. O ran gwarchod natur, Cymru yw'r rhanbarth a effeithiwyd waethaf yn y DU gydag asideiddio dŵr croyw'n gallu bod wedi niweidio mwy na 40% o gyfanswm arwynebedd y SoDdGA.

7.2.11 Mae llawer o ardal yr astudiaeth yn dal yn wledig ac yn bennaf heb ei datblygu. Mae arferion amaethu (ac ansawdd y pridd, felly) wedyn o gryn bwysigrwydd lleol i'r rhanbarth. Mae **Ffigur 7.2** yn dangos dosbarthiad tir amaethyddol yng Nghymru o ran ei addasrwydd i amaethyddiaeth (cymesur ag ansawdd y priddoedd); Gradd 1 sy'n cynrychioli pridd rhagorol a Gradd 5 yw gwael iawn. Mae'n amlwg mai Graddau 3 i 5 yw Gorllewin Cymru'n bennaf.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 7.1 Dynodiadau Daearegol Allweddol yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.



Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 7.2 Dosbarthiad Tir Amaethyddol yng Ngorllewin Cymru



Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tudalen wag o fwriad.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

8 TIRWEDDAU ARFORDIROL

8.1 Cyflwyniad

8.1.1 Mae'r adran hon yn rhoi hanes cymeriad y dirwedd a dynodiadau ar hyd yr arfordir yn ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru.

8.2 Trosolwg

Cymeriad y Dirwedd

8.2.1 Yn aml, daeareg waelodol yr arfordir sy'n cael y dylanwad mwyaf ar gymeriad tirwedd, gan effeithio ar y cynefinoedd naturiol, planhigion ac amrywiaeth fiolegol. Rhan o gymeriad tirwedd hefyd yw nodweddion diwylliannol a hanesyddol. Ffurfiwyd morlin Gorllewin Cymru o amrywiaeth o dirweddau gwahanol gyda chyfoeth o asedau treftadaeth a naturiol, gan gynnwys dwy Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) (**Ffigur 8.1**).

8.2.2 Disgrifiad mwy priodol o'r ardal dirwedd gysylltiedig â morlin CRhT2 yw 'morwedd' a ddiffiniwyd yn fras fel 'ardal o fôr, morlin a thir, fel y bydd pobl yn ei gweld, sydd â'i chymeriad yn deillio o weithrediadau a rhyngweithiadau tir a môr, gan ffactorau naturiol a/neu ddynol'. Mae astudiaeth asesu morwedd ar raddfa ranbarthol (CCGC, 2001) yn rhannu morlin cyfan Cymru (1,288km) yn 50 o unedau morwedd, pob un ohonynt â'i ddisgrifiad ei hun, yn canolbwyntio ar gymeriad rhyngweithiad tir a môr. Yn bendant nid yw'r gwaith yn disodli asesiad confensiynol seiliedig ar dirwedd yn y parth arfordirol ond, yn hytrach, mae'n ychwanegu dimensiwn arall atynt.

Dynodiadau Tirwedd

8.2.3 Cafodd pwysigrwydd harddwch naturiol eiconig Cymru i gyfoeth, iechyd a ffyniant y wlad ei gydnabod yn y gyfraith ers 1949. Dynododd Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad dri Parc Cenedlaethol yng Nghymru a sefydlu'r hyn a ddatblygodd yn Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Caiff tirweddau Cymru eu gwarchod gan gyfraith genedlaethol neu gan awdurdodau lleol. Ymhlith y rhai sy'n cael eu gwarchod gan gyfraith y DU mae Parciau Cenedlaethol ac AHNE. Mae tirweddau eraill sy'n cael eu clustnodi ar gyfer rheolaeth ystyriol yn cynnwys Arfordiroedd Treftadaeth a Thirweddau Hanesyddol.

Safle Treftadaeth y Byd

8.2.4 Mae modd dynodi ardaloedd sydd o werth naturiol neu ddiwylliannol eithriadol yn Safleoedd Treftadaeth y Byd. Gallant gynnwys enghreifftiau eithriadol o gynefinoedd naturiol neilltuol, neu nodweddion naturiol rhagorol. Mae rheolaeth o safon yn ofynnol cyn gallu ystyried rhestru'r safle. O'r tri safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru, dim ond un sydd yn ardal astudiaeth CRhT2 (**Tabl 8.1, Ffigur 8.1**).

Tabl 8.1 Dynodiadau Treftadaeth y Byd yn Ardal Astudiaeth CRhT2

Safle Treftadaeth y Byd	Disgrifiad o'r Dynodiad
Cestyll a Muriau Trefi Iorwerth I yng Ngwynedd	Mae'r cestyll gogoneddus ac mewn cyflwr da ym Miwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech, gyda threfi amddiffynedig cynlluniedig yng Nghaernarfon a Chonwy, yn enghreifftiau nodedig o bensaernïaeth a chynllunio milwrol canoloesol. Adeiladwyd Biwmares a Harlech gan James o St George, peiriannydd milwrol mwyaf ei gyfnod, i Iorwerth I, brenin Lloegr, fel rhan o'i ymgyrch i orchfygu a rheol tywysogaeth ganoloesol Gwynedd.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)

8.2.5 Caiff Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) eu gwarchod oherwydd rhinweddau arbennig eu tirwedd, bywyd gwyllt, daeareg a daearyddiaeth. Mae ganddynt fwy o amddiffyniad nag ardaloedd eraill dan y broses gynllunio ac, o ran tirwedd a golygfeydd, maent yn gyfartal â Pharciau Cenedlaethol. Caiff AHNE eu dynodi dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a ddiwygiwyd yn Neddf yr Amgylchedd 1995. Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn egluro gweithdrefn a diben dynodi AHNE.

8.2.6 Mae 40 AHNE yng Nghymru a Lloegr (4 yn gyfan gwbl yng Nghymru ac 1 sy'n croesi'r ffin) ac mae 2 ohonynt yn ardal CRhT2 sef Llŷn ac Ynys Môn (**Tabl 8.2, Ffigur 8.1**). Prif ddiben y dynodiad AHNE yw gwarchod harddwch naturiol – sydd, trwy statud, yn cynnwys bywyd gwyllt, nodweddion ffisiograffig ac etifeddiaeth ddiwylliannol yn ogystal â chysyniadau mwy confensiynol tirwedd a golygfeydd. Ystyrir yr angen i ddiogelu amaethyddiaeth, coedwigaeth a diwydiannau eraill cefn gwlad ac anghenion economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol. Mae statws AHNE yn gyfartal â Pharciau Cenedlaethol o ran cadwraeth.

Tabl 8.2 Dynodiadau AHNE yn Ardal Astudiaeth CRhT2

AHNE	Arwynebedd Safle'r Dynodiad (Hectarau)
Llŷn	15,860
Ynys Môn	21,999

8.2.7 Mae Pen Llŷn yn enwog am ei forlin amrywiol a diddorol a'i dirwedd hardd a dyma sail ei ddynodi yn 1957. Mae'r AHNE yn cwmpasu tua chwarter y penrhyn – cyfanswm o 15,500 hectar, yn bennaf ar hyd yr arfordir, ond mae hefyd yn ymestyn tua'r tir ac yn cynnwys allwthiadau igneaidd amlwg.

8.2.8 Dynodiad arfordirol yn bennaf yw AHNE Ynys Môn, yn cynnwys y rhan fwyaf o 201 cilometr o forlin Ynys Môn. Mae'r AHNE yn cwmpasu tua 221 cilomedr sgwâr (21,500 hectar) o Ynys Môn a dyma'r AHNE mwyaf yng Nghymru.

8.2.9 Mae Adran 89 (2) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol perthnasol i: 'baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n ffurfio eu polisi ar reoli'r ardal o harddwch naturiol eithriadol a chyflawni eu swyddogaethau ar ei gyfer'.

8.2.10 Diben y Cynllun Rheoli yw cydnabod rhinweddau arbennig yr ardal, asesu eu cyflwr a cheisio rheoli datblygiad a newidiadau yn y dyfodol er mwyn ffyniant y rhinweddau hynny.

Parciau Cenedlaethol

8.2.11 Caiff Parciau Cenedlaethol eu dynodi i warchod rhinweddau arbennig eu tirwedd a hyrwyddo adloniant awyr agored. Mae gan Barciau Cenedlaethol eu Hawdurdodau eu hunain, sy'n rheoli cynllunio ac, yn achos y rhai sydd yn ardal astudiaeth CRhT2, yr awdurdodau hyn yw: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

8.2.12 O'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru, mae dau'n gysylltiedig ag ardal astudiaeth CRhT2 (**Tabl 8.3**).

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tabl 8.3 Dynodiad Parciau Cenedlaethol yn Ardal Astudiaeth CRhT2

Parc Cenedlaethol	Arwynebedd Safle'r Dynodiad (Hectarau)
Eryri	213,933
Arfordir Penfro	61,461

Arfordiroedd Treftadaeth

8.2.13 Yn wahanol i Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), mae dynodiad Arfordir Treftadaeth yn anstatudol, ac nid oes modd gwneud dynodiadau heblaw gyda chytundeb awdurdodau lleol a pherchenogion tir. Fodd bynnag, mae mwyafrif Arfordiroedd Treftadaeth o fewn Parciau Cenedlaethol, AHNE a Safle Treftadaeth y Byd yr Arfordir Jwrasig. Darnau o forlin neilltuol, heb eu difetha, yw Arfordiroedd Treftadaeth ac mae'r pedwar ar ddeg gwahanol ddarn yng Nghymru'n cyfrif am bron hanner morlin Cymru ac mae deuddeg ohonynt yn ardal yr astudiaeth (**Tabl 8.4, Ffigur 8.1**).

Tabl 8.4 Dynodiadau Arfordir Treftadaeth yn Ardal Astudiaeth CRhT2

Arfordir Treftadaeth	Hyd y dynodiad arfordirol (cilometrau)
Bae Aberffraw	9
Arfordir Ceredigion	42
Pen Dinas	13
Y Gogarth	13
Mynydd Tŵr	13
Arfordir Llŷn	98
Marloes a Dale	47
Arfordir Gogledd Ynys Môn	36
De Penfro	60
Porth Sain Ffraid	7
Penmaendewi	75
Llandudoch a Threwyddel	20

Tirweddau Hanesyddol

8.2.14 Tirweddau eraill sy'n cael eu clustnodi ar gyfer rheolaeth ystyriol yw Tirweddau Hanesyddol sy'n aml yn dangos sut y datblygodd ardaloedd a chymunedau dros ganrifoedd. Nodwyd yr enghreifftiau gorau a'u cynnwys ar gofrestr. Nid oes ganddynt unrhyw warchodaeth arbennig, ond nod y gofrestr yw tynnu sylw at werth y tirweddau hyn wrth ystyried ceisiadau cynllunio a datblygiadau. Yn ogystal, mae CCGC yn ystyried bod holl dirweddau o'r fath yn deilwng o gael eu diogelu ynddynt eu hunain. Mae tirweddau hanesyddol yn dyddio'n ôl i gyfnodau cyn hanes a'r cyfnod Mesolithig pan gliriwyd tir ar raddfa fach am y tro cyntaf. Ar arfordir Cymru, mae'r angen i allforio nwyddau, i bysgota, i ddiogelu teithio ar y môr ac i amddiffyn y tir rhag ymosodiad, wedi arwain at dirweddau arfordirol neilltuol sy'n cynnwys porthladdoedd, dociau, goleudai a harbwrs, yn ogystal â meysydd awyr a'r casgliad

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

nodedig o geyrydd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Aberdaugleddau. Caiff tirweddau hanesyddol eu trafod yn fanylach yn **Adran 10** – Yr Amgylchedd Hanesyddol.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Fgigur 8.1 Dynodiadau Tirwedd yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru



Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

9 BIOAMRYWIAETH

9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Mae'r adran hon yn rhoi hanes y buddiannau gwarchod natur a bioamrywiaeth ar hyd ac ar bwys arfordir ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru.

9.2 Trosolwg

Dynodiadau

9.2.1 Bendithiwyd Cymru ag amrywiaeth eithriadol o gynefinoedd ac mae'r planhigion ac anifeiliaid yn cynnwys llawer o rywogaethau nodedig. Mae llawer o'r rhywogaethau a chynefinoedd hyn o bwysigrwydd cenedlaethol, Ewropeaidd neu ryngwladol ac mae llawer o'r dirwedd arfordirol a'i bioamrywiaeth yn bwysig i'r economi lleol. Caiff safon uchel bioamrywiaeth morlin Cymru ei hadlewyrchu yng nghyfran uchel y safleoedd cydnabyddedig yn Ewropeaidd neu'n rhyngwladol sy'n cwmpasu cylchoedd helaeth o fôr ac arfordir.

9.2.2 Mae modd dosbarthu safleoedd gwarchodedig yng Nghymru'n fras fel a ganlyn:

- Safleoedd arbennig a warchodwyd dan gyfraith y DU – Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Gwarchodfeydd Natur y Môr (GNM);
- Safleoedd Natura 2000 a warchodwyd dan Gyfarwyddebau'r Comisiwn Ewropeaidd – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig (AGA);
- Safleoedd arbennig a warchodwyd dan gytundebau rhyngwladol – Gwlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol (safleoedd Ramsar), Gwarchodfeydd Biosffer a Gwarchodfeydd Biogenetig; a
- Safleoedd arbennig eraill – Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) a Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNL).

9.2.3 Caiff trosolwg cryno o'r dynodiadau a gwarchodfeydd yng Ngorllewin Cymru ei chyflwyno yn **Nhabl 9.1**.

Tabl 9.1 Dynodiadau Safleoedd a Gwarchodfeydd CRhT2 Gorllewin Cymru

Mathau o Safleoedd	Arwynebedd Dynodiad y Safle (Hectarau)
Safleoedd Ramsar	653
Ardal Gwarchodaeth Arbennig Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE (AGA)	176,209
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE (ACA)	488,530
SoDdGA	40,466
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol	6,027
Gwarchodfeydd Natur y Môr	1,324
Gwarchodfeydd Natur Lleol	3,359

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoniong DU Cyf.

Dynodiadau Rhyngwladol Statudol – Cynefinoedd a Rhywogaethau

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)

9.2.4 Mae Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion Gwyllt, a droswyd i gyfraith y DU gan Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol) 1994 ('Rheoliadau Cynefinoedd'), wedi arwain at ganfod amryw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ar hyd morlin CRhT2. Caiff cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar warchod adar gwyllt ('Y Gyfarwyddeb Adar') ei gweithredu yn y DU trwy Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y diwygiwyd, ac mae'n darparu ar gyfer dynodi Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA).

9.2.5 Mae Rheoliadau Cynefinoedd y CE yn berthnasol i ACA ac AGA gan atgyfnerthu gwarchodaeth safleoedd trwy Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y diwygiwyd, trwy wneud yn anghyfreithlon unrhyw ddifrod i fagwrfeydd neu nythfeydd rhywogaethau gwarchodedig. Yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009), dylai safleoedd Ramsar ac AGAa hefyd fod yn amodol ar ddarpariaethau'r Rheoliadau Cynefinoedd. Ni fydd unrhyw ddatblygiad o fewn ystyr Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 sy'n debygol o effeithio ar AGA, ACA, Ramsar neu AGAa yn cael ei ganiatáu, oni bai fod yr 'awdurdod cymwys' perthnasol wedi penderfynu, ar ôl cwblhau 'asesu priodol', nad oes unrhyw atebion eraill a bod rhaid gwneud y datblygiad am resymau hanfodol o fudd cyhoeddus gor-redol.

9.2.6 Dynodwyd tua 70% o forlin Cymru a llawer o'r aberoedd fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a/neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mae ACA yn ffurfio rhwydwaith o safleoedd sy'n cael eu gwarchod yn gaeth ar hyd a lled yr Undeb Ewropeaidd gan wneud cyfraniad pwysig at warchod mathau pwysig o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae 90 ACA neu ACAy yng Nghymru gyda 31 ohonynt yn ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru. Caiff y rhain eu manylu yn **Atodiad C** ac maent yn cynnwys:

- Aber Dyfrdwy;
- Y Ddyfrdwy a Llyn Tegid;
- Afon Eden;
- Y Fenai a Bae Conwy;
- Afonydd Cleddau;
- Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn;
- Afon Teifi;
- Bae Ceredigion;
- Clogwyni Pen Llŷn;
- Sir Benfro Forol;
- Bae Cemlyn;
- Twyni Bae Caerfyrddin;
- Coedwigoedd Penrhyn;
- Cors Fochno;
- Glan-traeth;
- Cors Heli Glannau Môn;

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoniong DU Cyf.

- Glannau Ynys Gybi;
- Pen y Gogarth;
- Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru;
- Llyn Dinam;
- Morfa Harlech a Morfa Dyffryn;
- Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston;
- Tyddewi;
- Y Twyni o Abermenai i Aberffraw;
- Coedydd Aber;
- Corsydd Llŷn;
- Comins Gogledd-orllewin Sir Benfro;
- Pen Llŷn a'r Sarnau;
- Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd;
- Glynllifon; and hefyd
- Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion.

9.2.7 Bwriad Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yw diogelu adar prin, agored i niwed ac ymfudol yn ôl Cyfarwyddeb Adar y Comisiwn Ewropeaidd. Mae 19 AGA yng Nghymru sydd i gyd yn SoDdGA ac yn cael eu gwarchod fel y cyfryw. Mae cyfanswm o 15 safle AGA yn ardal astudiaeth CRhT2 ac AGA arfaethedig ychwanegol ar hyd morlin Ynys Môn a Gogledd Cymru (Bae Lerpwl). Caiff yr AGA yn ardal astudiaeth CRhT2 eu cyflwyno'n fanwl yn **Atodiad C** ac maent yn cynnwys:

- Bae Caerfyrddin
- Burry Inlet
- Aber Dyfrdwy
- Gwales
- Arfordir Castellmartin
- Aber Afon Dyfi
- Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli
- Glannau Ynys Gybi
- Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Tudwal
- Ynys Dewi ac Arfordir Penmaen Dewi
- Ynys Sgogwm ac Ynys Sgomer
- Traeth Lafan, Bae Conwy
- Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid
- Ynys Seiriol
- Bae Lerpwl

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoniong DU Cyf.

Safleoedd Ramsar

9.2.8 Gwlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol, neu Safleoedd Ramsar ar ôl y dref yn Iran lle cafwyd cytundeb rhyngwladol i warchod gwlyptiroedd pwysig a than fygythiad, sy'n gallu amrywio o gorsydd a chorsleoedd i ddŵr agored. Ar ddiwedd 2000 roedd 10 safle Ramsar yng Nghymru yn cwmpasu dros 30,861ha. Mae pob un o'r 10 Safle Ramsar yng Nghymru yn SoDdGA ac yn cynnwys planhigion ac anifeiliaid prin. Mae llawer ohonynt yn arbennig o bwysig i adar dŵr.

9.2.9 Mae tri safle Ramsar yn ardal yr astudiaeth. Un yw Cors Fochno a Dyfi sydd o bwysigrwydd rhyngwladol gydag un o'r corsleoedd dyrchafedig byw mwyaf yn y DU. Mae'r geomorffoleg, y planhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r safle'n cynnal yr unig haid o wyddau talcen-wyn yr Ynys Las sy'n gaeafu'n rheolaidd yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n safle allweddol yng Nghymru i adar hirgoes yn magu. Mae Cors Fochno ar ochr ddeheuol aber Afon Dyfi ac mae hefyd yn ffurfio cydran o Warchodfa Biosffer Dyfi. Y ddau safle Ramsar arall yw Corsydd Ynys Môn a Llŷn, ac Aber Dyfrdwy. Caiff nodweddion allweddol y safleoedd hyn eu cyflwyno yn **Atodiad C**.

9.2.10 Mae Cyfarwyddyd Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio cyfredol a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5 yn ymestyn yr un amddiffyniad ar lefel polisi i safleoedd Ramsar rhestredig o ran datblygiad newydd â'r hyn sy'n cael ei roi i safleoedd a ddynodwyd dan y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd fel rhan o rwydwaith Natura 2000 yr Undeb Ewropeaidd (UE). Fel y cyfryw, caiff safleoedd Ramsar eu hasesu dan yr un meini prawf wrth wneud Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Gwarchodfeydd Biosffer

9.2.11 Mae un o'r gwarchodfeydd bïosffer hyn sy'n gydnabyddedig yn rhyngwladol yng Nghymru (Dyfi) sy'n cael eu neilltuo i astudio sut mae gweithgaredd dynol yn effeithio ar yr amgylchedd lleol. Dim ond yr ail un yn y DU yw hon ac mae'n rhan o gadwyn fyd-eang dan UNESCO.

Gwarchodfeydd Biogenetig

9.2.12 Mae Gwarchodfeydd Biogenetig yn ffurfio rhwydwaith Ewropeaidd o warchodfeydd i warchod planhigion, anifeiliaid ac ardaloedd naturiol all fod yn gyffredin yn un wlad, ond yn brin mewn un arall. Eu bwriad yw cadw deunydd genetig o'r fath at y dyfodol. Rhaid i safleoedd fod yn SoDdGA neu debyg. Dim ond un warchodfa fiogenetig sydd yng Nghymru ac nid yw yn ardal astudiaeth CRhT2.

Dynodiadau Cenedlaethol

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

9.2.13 Mae morlin Gorllewin Cymru hefyd yn cynnwys amryw safleoedd a ddynodwyd dan ddeddfwriaeth genedlaethol a'r prif ddynodiad cenedlaethol o bwysigrwydd ecolegol yw Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sy'n ffurfio conglfeini gwarchod bywyd gwyllt a chynefinoedd yng Nghymru. Mae mwy na 1,000 SoDdGA yng Nghymru ac mae 43,544ha o SoDdGA Cymru (17% o'r cyfanswm yn ôl arwynebedd) ar lannau môr ac aberoedd islaw'r marc penllanw cymedrig a'r mwyafrif ohonynt yn y parth rhynglanwol. Yng Nghymru mae cyfanswm arwynebedd y parth rhynglanwol tua 56,848ha, 77% ohono wedi ei ddynodi fel SoDdGA (CCGC, 2006). Mae 160 SoDdGA yn ardal yr astudiaeth a chaiff eu nodweddion a statws ffafriol eu manylu yn **Atodiad D**.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoniong DU Cyf.

9.2.14 Mae CCGC yn dynodi bod SoDdGA “o ddiddordeb arbennig oherwydd planhigion, anifeiliaid, neu nodweddion daearegol neu ffisiograffig (gwelwch **Adran 7**). Mae SoDdGA yn cynrychioli ardaloedd o bwysigrwydd cenedlaethol i warchod natur yn y Deyrnas Unedig. Mae llawer o SoDdGA yn cynnal bywyd gwyllt a chynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol ac, felly, cânt eu dynodi hefyd fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) , er enghraifft. Mae eraill yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, gan eu cydnabod fel yr enghreifftiau gorau oll o fioamrywiaeth a threftadaeth ddaearegol yn y DU.

9.2.15 Dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ddiwygiedig, mae’n ddyletswydd ar holl awdurdodau cyhoeddus ar hyd morlin ardal yr astudiaeth, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, i hyrwyddo a gwella buddiannau gwarchod natur y safleoedd hyn wrth gynnal eu swyddogaethau statudol. Dylid cyflawni hyn trwy ymgynghori â chynghorwyr gwarchod natur perthnasol y llywodraeth (CCGC yn yr achos hwn) i gael cyngor a yw trwydded arfaethedig neu waith i’w wneud yn uniongyrchol i’r awdurdod yn debygol o niweidio buddiannau’r SoDdGA. Os na chaiff y cyngor ei ddilyn, rhaid i’r awdurdod roi rhesymau dros hyn yn ysgrifenedig i’r Ysgrifennydd Gwladol, a gwneud iawn am unrhyw ddifrod i’r safle.

9.2.16 Mae **Tabl 9.2** yn disgrifio’r dynodiadau SoDdGA yn ardal yr astudiaeth a’u statws ffafriol ac mae **Ffigurau 9.1 – 9.2** yn dangos ble mae’r safleoedd hyn.

Tabl 9.2 Tabl-Map o Orllewin Cymru’n dangos y prif afonydd eogiaid ac yn dynodi’r rhai gyda Cynlluniau Gweithredu ar Eogiaid (*) a’r rhai a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig lle rhaid cynnal neu adfer eogiaid i statws cadwraethol ffafriol. Mae’r Tabl yn dynodi cydymffurfio presennol gyferbyn â’r amcan rheoli a chydymffurfio disgwyliedig yn 2013.



Afon	Cydymffurfio Presennol	Cydymffurfio Erbyn 2013
43 Taf	P A R	P A R
44 Dwyrain a Gorllewin Cleddau	A R	P A R
45 Nyfer	P A R	P N A R
46 Teifi	P N A R	P N A R
47 Aeron		
48 Ystwyth		
49 Rheidol	A R	P A R
50 Dyfi	P A R	P N A R
51 Dysynni	A R	A R
52 Mawddach ac Wnion	A R	A R
53 Artro		
54 Dwyryd	P N A R	P N A R
55 Glaslyn	P A R	P N A R
56 Dwyfach a Dwyfawr	A R	A R
57 Llyfni		
58 Gwyrfai		
59 Seiont	P N A R	P N A R
60 Ogwen	N A R	P N A R
61 Conwy	N A R	N A R

Allwedd i asesiadau cydymffurfio: NAR - ‘Nid Mewn Perygl’; PNAR - ‘Nid Mewn Perygl yn ôl pob tebyg’; PAR - ‘Mewn Perygl yn ôl pob tebyg’; AR - ‘Mewn Perygl’. Seiliedig ar ddata amodol 2008. Ffynhonnell: Cefas ac Asiantaeth yr Amgylchedd, 2009.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoniong DU Cyf.

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG)

9.2.17 Caiff Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) eu dynodi gan CCGC dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae 71 GNG yng Nghymru a 10 ohonynt o fewn terfynau'r astudiaeth (**Tabl 9.3**). Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) yw'r enghreifftiau gorau oll o gynefinoedd a safleoedd bywyd gwyllt a gallant gynnwys nodweddion daearegol diddorol.

Tabl 9.3 Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Enw'r safle	Arwynebedd (ha)
Coed Dolgarrog	69
Coedmor	46
Dyfi	2282
Morfa Dyffryn	197
Morfa Harlech	878
Gwarchodfa Genedlaethol Cwningar Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn	1551
Ynys Dewi	280
Ynys Sgomer	314
Ystagbwll	232
Ynys Enlli	178

9.2.18 Mae 15% o arwynebedd GNG dan ddŵr yn barhaol neu dros dro, trwy fod islaw'r marc penllanw cymedrig arfordirol. Mae hyn yn cynnwys glannau môr, aberoedd llai a rhai sianelau islanwol. Fodd bynnag, nid yw GNG yn cael eu defnyddio i warchod safleoedd morol islanwol pwysig – swyddogaeth Gwarchodfeydd Natur y Môr (GNM) yw hynny.

Gwarchodfeydd Natur y Môr (GNM)

9.2.19 Arwynebedd Gwarchodfa Natur y Môr (GNM) Ynys Sgomer yw 1,324ha fel unig GNM Cymru ac un o ddim ond tair yn y DU. Mae GNM yn gwarchod cynefinoedd morol pwysig, bywyd y môr a nodweddion arbennig ar y lan neu ar wely'r môr. Mae'r warchodfa'n amgylchynu Ynys Sgomer ac Ynys Ganol yn gyfan gwbl ac yn cwmpasu morlin y tir mawr o gwmpas trwyn penrhyn Marloes, gan gynnwys bae bach Martin's Haven. Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn rhoi grym i CCGC wneud cais i Brif Weinidog Cymru bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) yn dynodi GNM. I roi rhywfaint o amddiffyniad, mae modd llywodraethu GNM trwy is-ddeddfau, i'w creu trwy drafodaethau a chytundebau gyda phawb dan sylw, a'u cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNL)

9.2.20 Caiff Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNL) eu dynodi dan Adran 21 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a'u sefydlu gan awdurdodau lleol oherwydd bod ynddynt nodweddion sy'n bwysig yn lleol. Maent yn cyfuno cadwraeth gyda chyfleoedd i fwynhau natur yn dawel. O'r 53 yng Nghymru, mae 20 o fewn 1km i ardal yr astudiaeth (**Tabl 9.4**).

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoniong DU Cyf.

Tabl 9.4 Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNL) yn Ardal Astudiaeth CRhT2

Cod y safle	Enw'r Warchodfa Natur Leol	Arwynebedd (ha)
2296	Y Foryd	304
2938	Coed Bodlondeb	8
2281	Bryn Euryn	24
1737	Coed Cyrnol	5
2922	Cytir Mawr	6
2802	Ffos Noddyn	3
2930	Freshwater East	41
2301	Pen y Gogarth	183
2307	Twyni Cinmel	7
2642	Comin Llanddona	16
2308	Lôn Cob Bach	12
2643	Mynydd Marian	11
2314	Parc y Borth	7
2318	Pen y Banc	20
2316	Pendinas	40
2317	Penglais	11
2320	Coed Pwllycrochan	20
2324	Traeth Lafan	2627
2931	Trwyn yr Wylfa	13
2937	Upper Dingle Woods	1

Cynefinoedd a Rhywogaethau Cynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth (BAP)

9.2.21 Yn 1994 cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth y DU gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992. Nodwedd unigryw'r cynllun yw ei fod yn nodi camau i'w cymryd gan amrywiaeth eang o gyrff statudol ac anstatudol yn cydweithio. Caiff rhai camau eu dwyn ymlaen yn ddaearyddol gan bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth; eraill ar sail y DU ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau arbennig; ac eraill gan gyrff gyda chyfrifoldebau arbennig, fel y Comisiwn Coedwigaeth neu Asiantaeth yr Amgylchedd. Ysbryd y cynllun i raddau helaeth yw un o gydweithrediad a gweithredu ar y cyd, gyda phartneriaid ymhob haen yn cael eu galw i gyfranogi yn natblygiad polisïau a strategaethau ar gadwraeth bioamrywiaeth.

9.2.22 Mae morlin Gorllewin Cymru'n cynnal nifer o rywogaethau blaenoriaethol sy'n cael eu rhestru yn y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth y DU, nifer ohonynt yn gysylltiedig â dŵr fel herlod a gwangod. Mae eogiaid a dyfrgwn yn Rhywogaethau Atodiad II y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac yn rhywogaethau dangos pwysig o afonydd ac ecosystemau iach. Ar hyn o bryd mae poblogaethau dyfrgwn ar gynnydd yng Nghymru.

9.2.23 Caiff y cynefinoedd blaenoriaethol allweddol yn ardal astudiaeth CRhT2 y gallai cynlluniau polisi effeithio arnynt eu manylu isod.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoniong DU Cyf.

Tir Gwlyb:

- Gorgors;
- Merddyfroedd ewtroffaidd;
- Coetir gwlyb;
- Ffeniau; a
- Gwelyau cyrs.

Arfordirol a Morol:

- Twyni tywod arfordirol;
- Cors bori arfordirol a gorlifdir;
- Twyni tywod arfordirol;
- Graean bras arfordirol â llystyfiant;
- Ffeniau;
- Rhostir iseldirol;
- Clogwyni a llethrau morol;
- Gwastadeddau llaid;
- Gwelyau cyrs;
- Morlynnoedd halwynog; a
- Gwelyau morwellt.

9.2.24 Mae gwasgfa arfordirol o gynefinoedd BAP yng ngorllewin Cymru gan gynnwys morfa heli, gwastadeddau llaid a thwyni tywod arfordirol o bryder mawr i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Awdurdodau Lleol. Enghraifft o safle allweddol yng ngorllewin Cymru dan fygythiad cynnydd yn lefel y môr a newidiadau i gynefin arfordirol mewn ymateb i wasgfa arfordirol Morlyn yw Cemlyn (gwelwch **Blât 2**).

Pysgodfeydd Arfordirol a Dŵr Croyw

9.2.25 Yn gyffredinol mae morlin Gorllewin Cymru'n arw iawn, gyda thraethau tywodlyd helaeth ger aberoedd ac mewn baeau cysgodol yn unig. O ganlyniad, caiff pysgodfeydd môr eu cyfyngu gan dywydd cyffredin o'r gorllewin yn ystod y gaeaf. Bydd mwyafrif y cychod yn pysgota o fewn 6 milltir i'r arfordir, yn dal cimychiaid, crancod a gwichiaid môr mewn cewyll ac yn rhwydo lledod, penfreision, draenogiad môr, hyrddiaid, penwaig, eogiaid a siwin (Walmsley a Pawson, 2007). Bydd rhai cychod dros 10m o hyd yn defnyddio treillrwydi estyll i ddal pysgod gwyn. Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr sy'n rheoleiddio gweithgaredd pysgota o fewn y terfyn 6 milltir fôr.

9.2.26 Mae ardaloedd hefyd o gwmpas arfordir Cymru sy'n bwysig i boblogaethau pysgod cregyn. Ar hyn o bryd mae 26 o ddyfroedd pysgod cregyn yng Ngorllewin Cymru. Yn Afon Menai mae pysgodfa fwyaf tyfu cregyn gleision yn y DU a chaiff cocos eu casglu â llaw o lawer o aberoedd, y ddwy rywogaeth wedi cael mwy o sylw fel y gwellodd cyfleoedd marchnata. Mae'n amlwg bod ansawdd dŵr y dyfroedd arfordirol hyn yn hollbwysig i lwyddiant y pysgodfeydd gyda'r lan ac ardaloedd cynaeafu meddalogion hyn.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoniong DU Cyf.

9.2.27 Bu hanes maith o dreillio cregyn bylchog yn nyfroedd Cymru, gyda thystiolaeth o'r bysgodfa arbennig hon yn weithredol ers dros 30 mlynedd, ond bod y stoc sydd ar gael wedi amrywio yn ystod y cyfnod hwnnw a'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i gynaeafu'r cregyn bylchog yn ddinistriol. Maent yn golygu tynnu fframiau metel trwm ar hyd gwely'r môr i ryddhau cregyn bylchog i'r dŵr ac i'r rhwydi ynghlwm tu cefn. Mae nifer y cychod sy'n gweithredu wedi tyfu'n gyflym yng Ngorllewin Cymru a hefyd eu nerth a nifer y treillrwydi sy'n cael eu tynnu. Gyda nifer mawr o gychod yn gweithredu am oriau lawer y dydd, fe all y difrod i'r amgylchedd morol fod yn sylweddol. Er enghraifft, bu anghydfod (ym mis Mai 2009) ynghylch treillio cregyn bylchog ym Mae Ceredigion ar ôl i reolyddion pysgodfeydd anwybyddu galwad cynghorwyr bywyd gwyllt Cynulliad Cenedlaethol Cymru am wahardd llwyr ar unwaith mewn ardaloedd a warchodwyd gan ddeddfwriaeth gadwraeth Ewropeaidd, oherwydd posibilrwydd bod y gweithgaredd aflonyddol yn effeithio ar ddolffiniaid a morloi, yn ogystal â difrodi neu ddinistrio eu cynefinoedd a magwrfeydd.

9.2.28 Porthladdoedd Aberdaugleddau a Chaergybi yw canolfannau pysgota môr masnachol yng Nghymru, er bod llawer o gychod llai'n gweithredu o lawer o'r aberoedd a phorthladdoedd llai ar hyn y morlin.

9.2.29 Mae pysgota môr adloniadol yn digwydd hefyd ar hyd llawer o forlin Gorllewin Cymru gyda bron 300 o gychod siarter yn gweithredu o borthladdoedd Cymru. Bydd pysgodfeydd hamdden yng Nghymru'n creu cyfleoedd sylweddol i ddatblygu economïau cefn gwlad ac, i gyfran sylweddol o ymwelwyr â Chymru, mae'n ffurfio rhan o'u rheswm dros ddod. Mae cyfundrefnau arfordirol a dŵr croyw Cymru'n bwysig i nifer o rywogaethau ymfudol, fel eogiaid, siwin a llysywod sydd o werth i'r diwydiant pysgota hamdden. Mae afonydd Gorllewin Cymru'n bwysig i rywogaethau eogiaid gyda dros 240 o afonydd pysgota eog a brithyll. Mae afonydd Cymru yn cyfrif am dros hanner y siwin sy'n cael eu dal yng Nghymru a Lloegr.

9.2.30 Gwelwyd datblygiad hanesyddol nifer o ddulliau pysgota gwahanol yn ogystal â defnyddio gwialen a lein yng Nghymru, gyda'i nifer mawr o afonydd eog a brithyll a'i morlin amrywiol. Defnyddiwyd y dulliau hyn, sy'n gweddu i amgylchiadau lleol, drwy'r canrifoedd i ddal eog a siwin (brithyll môr) ac maent wedi cynnwys defnyddio cwryglau, rhwydi gafl, *putchers*, rhwydi bracso a rhwydi llysg i enwi ond ychydig. Yn draddodiadol mae'r dulliau hyn wedi darparu ffynhonnell fwyd a chyflogaeth i lawer o gymunedau. Am lawer o resymau, mae stociau eogiaid wedi dirywio ac mae deddfwriaeth i atal gor-bysgota, gan gynnwys cau pysgodfeydd stociau cymysg (pysgodfeydd sy'n manteisio ar bysgod o fwy nag un gyfundrefn afon) wedi golygu nad yw llawer o bysgodfeydd yn gweithredu mwyach ac mae daliadau masnachol yng Nghymru wedi lleihau'n ddramatig yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda gostyngiad o 53% rhwng 2003 a 2008 (Cefas ac Asiantaeth yr Amgylchedd, 2009). Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi paratoi cyfres o gynlluniau gweithredu, ar sail dalgylchoedd afonydd, yn dangos yr hyn sydd angen ei wneud i gynnal ac adfer poblogaethau eogiaid. Mae map o'r prif afonydd eogiaid yng Nghymru gyda data ar eu cyfer yn **Nhabl 9.4** sydd hefyd yn amlinellu cydymffurfio presennol gyferbyn â'r amcan rheoli a chydymffurfio disgwyliedig erbyn 2013.

9.2.31 Mae pysgodfeydd masnachol ar gyfer rhywogaethau eraill fel llysywod melyn ac arian i'w cael hefyd yn ar hyd morlin Gorllewin Cymru. Trwyddedwyd y bysgodfa lysywod gyntaf yn 1986 gyda daliadau'n gyffredinol yn cynnwys llai nag 1% o gyfanswm y daliad datganedig yng Nghymru a Lloegr (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2008). Mae gostyngiadau diweddar mewn llysywod wedi arwain at sefydlu Cynllun Rheoli Llysywod ar gyfer Dosbarth Basn Afonydd (DBA) Gorllewin Cymru sy'n anelu at ddisgrifio statws presennol poblogaethau llysywod, asesu cydymffurfio â'r targed a bennwyd Rheoliad Rhif 1100/2007 y Cyngor a manylu mesurau rheoli i gynyddu cilfa llysywod ariannaidd.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoniong DU Cyf.

Ffigur 9.1 Safleoedd Gwarchod Natur o Bwys Rhyngwladol yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru



Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 9.2 Safleoedd Gwarchod Natur o Bwys Cenedlaethol yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru



Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tudalen wag o fwriad.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

10 YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

10.1 Cyflwyniad

10.1.1 Mae'r adran hon yn rhoi hanes yr amgylchedd hanesyddol ar hyd arfordir ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru. Mae'n trafod safleoedd archeolegol ac arwynebau tir cyn hanes i adeileddau cyfoes (yr Ail Ryfel Byd.

10.2 Trosolwg

Disgrifiad

10.2.1 Mae ymweld â safle treftadaeth yn un o weithgareddau mwyaf poblogaidd ymwelwyr â glan môr Cymru. Mae fwy neu lai bob milltir o arfordir Cymru'n cynnwys olion hanes Cymru o gladdedigaethau a cheyrydd cyn hanes i amddiffynfeydd arfordirol Rhyfeloedd Napoleon a'r Ail Ryfel Byd. Daw cyffro a hud rhai o'r delweddau arfordirol mwyaf parhaol ac eiconig o'u hamgylchedd hanesyddol, o gyn hanes Carreg Samson yn Sir Benfro, i Gastell Harlech a Phier Llandudno. Cestyll Iorwerth I yn y Gogledd yw un o ddim ond dau Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru a bydd hanner miliwn o bobl y flwyddyn yn ymweld â nhw.

10.2.2 Mae amgylchedd hanesyddol yr arfordir yn cynnwys amrywiaeth eang o safleoedd, adeileddau a thirweddau, gan gynnwys:

- Adeiladau;
- Dyddodion paleolithig;
- Safleoedd archeolegol cyn hanes ôl-rewlifol (holosen);
- Dyddodion mawn;
- Adeileddau coed a phren;
- Tomen gregyn;
- Pyllau halen;
- Morgloddiau; a
- Llongau drylliedig, ysgerbydau llongau ac awyrennau.

10.2.3 Mae'r Amgylchedd Hanesyddol hefyd yn cynnwys tirweddau cyfan. Enghreifftiau amlwg yw parciau, gerddi a meysydd brwydr; ond mae llawer o dirweddau'n gynnyrch defnydd tir a chynllunio dynol dros filoedd o flynyddoedd.

Safleoedd Dynodedig a Henebion

10.2.4 Dim ond cyfran fechan iawn o asedau hanesyddol cydnabyddedig a chofnodedig (llai na 5%) sydd ag unrhyw fath o warchodaeth statudol ac mae llawer mwy o safleoedd archeolegol, efallai'r mwyafrif, eto i'w darganfod. Ymhlith safleoedd dynodedig mae:

- **Henebion Cofrestredig (SM)** sy'n cael eu dynodi dan Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979;
- **Llongddrylliadau hanesyddol** sy'n cael eu dynodi dan Deddf Diogelu Llongau Drylliedig 1973; ac
- **Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth** sy'n cael eu dynodi yn ôl telerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Caiff adeiladau rhestredig eu garddio'n I, II*, neu II.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

10.2.5 Caiff safleoedd hanesyddol eraill, gan gynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd (sydd hefyd yn SM), parciau a gerddi hanesyddol a safleoedd hanesyddol meysydd y frwydr eu cynnwys ar gofrestri anstatudol, sy'n tanlinellu'r angen i ystyried eu pwysigrwydd arbennig yn y broses gynllunio, pan gaiff datblygiad ei gynnig. Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ei amcanion yw amddiffyn, gwarchod a chynnal amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhestru henebion ac adeiladau hanesyddol.

10.2.6 Mae'r wybodaeth sydd ar gael am dirweddau hanesyddol yng Nghymru'n cynyddu'n gyflym. Pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru sy'n cynnal Cofnodion Safleoedd a Henebion (SMR) rhanbarthol eu hardaloedd. Y prif ymddiriedolaethau o berthnasedd i ardal yr astudiaeth yw; Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd / Powys. O fewn ardaloedd yr ymddiriedolaethau sydd yn ardal astudiaeth CRhT2 mae 20 o dirweddau hanesyddol allan o gyfanswm o 58 yng Nghymru.

10.2.7 Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw'r ymgynghorydd statudol i'r llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored ar hyd a lled Cymru a dyfroedd ei glannau. Mae'n bartner i Cadw ac ICOMOS (y DU) wrth gynnal Cofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru ac, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Cymru, mae wedi datblygu LANDMAP, methodoleg asesu tirwedd ar gyfer Cymru (gwelwch dudalen 22). Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) yw'r corff cenedlaethol cynnal arolygon a chofnodi. Mae'n crynhoi ac yn gweld bod archif gynhwysfawr o henebion ac adeiladau hanesyddol ar gael –Cofnod Henebion Cenedlaethol (NMR) Cymru.

Safle Treftadaeth y Byd

10.2.8 Safleoedd Treftadaeth y Byd yw mannau neu adeiladau o werth cyffredinol eithriadol. Cenhadaeth Treftadaeth y Byd UNESCO yw annog gwledydd i sicrhau diogelu eu treftadaeth naturiol a diwylliannol eu hunain. Enghreifftiau o Safleoedd Treftadaeth y Byd o fewn terfyn astudiaeth CRhT2 yw Cestyll a Muriau Tref y Brenin Iorwerth yng Ngwynedd a Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon.

Llongau Drylliedig Gwarchodedig

10.2.9 Mae deddfwriaeth ganlynol y DU yn gwarchod Llongau Drylliedig Gwarchodedig: Deddf Diogelu Llongau Drylliedig 1973, Deddf Gwarchod Gweddillion Milwyr 1986 a Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979. Daw llongau drylliedig yng Nghymru dan awdurdod Cadw.

10.2.10 Caiff pedair o longau drylliedig eu gwarchod dan Ddeddf Diogelu Llongau Drylliedig 1973 yn ardal astudiaeth CRhT2 a chânt eu manylu yn **Nhabl 10.1** a'u dangos yn **Ffigur 10.1**.

Tabl 10.1 Safleoedd Llongau Drylliedig Gwarchodedig yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Llong Ddrylliedig Warchodedig	Lleoliad	Blwyddyn y Llongddrylliad	Awdurdod
SS Castilian	Ynys Môn	1943	MCA
Tal-Y-Bont	Bae Ceredigion	1677	Cadw
Cwch Hwylio Brenhinol Mary	Ynysoedd y Moelrhoniaid, Ynys Môn	1675	Cadw

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Pwll Fanog	Afon Menai	Canoloesol	Cadw

Henebion Rhestredig

10.2.11 Diffiniwyd Henebion Rhestredig (SAM) yn Neddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979. Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n gyfrifol am ddynodi Henebion Rhestredig yng Nghymru. Mae dros 4,000 o Henebion Rhestredig yng Nghymru, gyda 308 ohonynt yn ardal yr astudiaeth ac yn cael eu hystyried o bwysigrwydd cenedlaethol (**Ffigur 10.1**). Yn achlysurol caiff Henebion Rhestredig eu dynodi'n adeiladau rhestredig hefyd, er bod y dynodiad hwn yn gyffredinol ond yn berthnasol i adeiladau ac adeileddau sydd neu y byddai modd eu defnyddio o ddydd i ddydd heddiw. Mae'n drosedd peri difrod i Heneb Restredig ac mae angen Caniatâd Heneb Restredig gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r cywerth datganolog cyn gwneud unrhyw waith yn un ohonynt.

Parciau a Gerddi Hanesyddol

10.2.12 Yng Nghymru, Cadw yw'r asiantaeth sy'n gyfrifol am Cofrestr Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Cadw / ICOMOS. Ar hyn o bryd mae 372 o safleoedd ar y gofrestr. Mae 15 safle o'r fath yn ardal astudiaeth CRhT2.

Adeiladau Rhestredig

10.2.13 Adeilad rhestredig yw adeilad neu adeiledd arall a ddynodwyd yn swyddogol fel un o arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol neu ddiwylliannol arbennig ac nad oes hawl eu dymchwel, ymestyn neu newid heb ganiatâd arbennig yr awdurdod cynllunio lleol. Yng Nghymru, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 sy'n rhoi'r awdurdod i restru ac sy'n cael ei gweinyddu gan Cadw. Dosbarthwyd dros 30,000 o adeiladau rhestredig ar hyd a lled Cymru ac mae 4,061 ohonynt yn ardal astudiaeth arfordirol CRhT2, a chaiff y rhain eu cyflwyno yn **Ffigur 10.1**.

Ardaloedd Cadwraeth

10.2.14 Mae llawer o anheddau ar wahân ar hyd morlin Cymru sydd â chymeriad neilltuol cryf, yn cwmpasu ffurfiau adeiladu pensaernïaeth draddodiadol yn ogystal â dulliau trin mwy ffurfiol. Mae Ardaloedd Cadwraeth yng nghreiddiau hanesyddol llawer o'r trefi glan môr sy'n creu tapestri cyfoethog ac amrywiol, yn diffinio traddodiadau adeiladu'r gorffennol. Awdurdodau cynllunio lleol sy'n dynodi ardaloedd cadwraeth fel ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae natur a chymeriad ardaloedd cadwraeth yn amrywio'n fawr. Maent yn amrywio o ganol ein trefi a dinasoedd hanesyddol; pentrefi pysgota a mwyngloddio, maestrefi o'r 18fed ganrif a'r 19eg, stadau tai model, a phlastai yn eu parciau hanesyddol; a chysylltiadau cludiant hanesyddol a'u cyffiniau, fel darnau o gamlas. Mae 28 ardal gadwraeth yn ardal astudiaeth CRhT2.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 10.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru



Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

11 ASEDAU MATEROL

11.1 Cyflwyniad

11.1.1 Mae'r adran hon yn rhoi hanes yr asedau materol ar hyd arfordir ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru. Mae'n trafod asedau cymunedol, isadeiledd ac isadeiledd hanfodol. Yr asedau hyn sy'n rhwymo'r defnydd tir ac anheddiad i'w lleoedd.

11.2 Trosolwg

Prif Ganolfannau Trefol ac Asedau Cymunedol

11.2.1 Mae dwy ddinas yn ardal astudiaeth CRhT2, Bangor a Thyddewi (**Tabl 4.1**), ac mae mwyafrif y trefi glan môr mwy yn y Gogledd, fel Bae Colwyn, Llandudno ac Aberystwyth. Maint y canolfannau trefol hyn hefyd sy'n pennu dosbarthiad a nifer asedau cymunedol, gan gynnwys ysgolion, cartrefi gofal ac ysbytai (**Ffigur 11.1**).

Porthladdoedd a Harbwrs

11.2.2 Nododd *Dal y Don* (Awst 2004) un marian ar ddeg o gwmpas arfordir Cymru a rhyw dri harbwr ar hugain (ynghyd â chwech o borthladdoedd masnachol a phymtheg o orsafoedd cychod hwylio). Mae **Tabl 11.1** isod yn disgrifio'r marinâu ac angorfeydd ar hyd y morlin ac mae'n dangos a ydynt yn agored i erydiad ac a oes modd eu hadleoli. Nid yw'r tabl yn disgrifio llithrfeydd, angorfeydd ar y traeth, mewn baeau neu aberoedd na mynedfeydd. Ymhlith safleoedd allweddol a effeithiwyd hefyd gan siltio a charthu mae Harbwr Caernarfon, Marina Deganwy, Harbwr Caergybi, Harbwr Abergwaun, Harbwr y Felinheli, Marina Conwy, Harbwr Aberystwyth a Harbwr Pwllheli.

11.2.3 Y prif borthladdoedd masnachol yw rhai Caergybi, Abergwaun ac Aberdaugleddau sydd â rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd da (**Ffigur 11.2**). O'r rhain, mae Aberdaugleddau'n chwarae rhan bwysig fel rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd yn cysylltu Gweriniaeth Iwerddon, y DU a thir mawr Ewrop. Aberdaugleddau yw'r porthladd mwyaf ond tri yn y DU o ran tunelledd a'r prysuraf o ran cynhyrchion olew, sector sy'n debygol o dyfu'n dilyn cwblhau'r derfynfa a llinell gyflenwi Nwy Naturiol Hylifedig (LNG). Mae porthladdoedd Caergybi, Abergwaun ac Aberdaugleddau (Dociau Penfro) hefyd yn darparu gwasanaethau pwysig cludo teithwyr a nwyddau (gyrru i mewn - gyrru allan) i Iwerddon. O'r rhain, Caergybi yw'r porthladd fferi teithwyr mwyaf ond dau yn y DU (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a, b).

Tabl 11.1 Niferoedd a mathau o farinâu ac angorfeydd yn ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru a pha mor agored ydynt i erydiad

Enw'r Marina neu Angorfa	Math	Nifer	Agored i Erydiad	Adleoladwy
Harbwr Caernarfon	Harbwr / marina adeiledig	50	Ie	Ie
Marina Deganwy	Marina adeiledig	100	Ie	Ie
Harbwr Porthmadog a'r Aber	Angorfeydd aber a chei	130	Ie	Ie
Angorfeydd a Chei Seiont	Angorfeydd aber a chei	90	Na	Ie
Pier ac Angorfeydd Aberdyfi	Angorfeydd aber a llithrfeydd	70	Ie	Ie
Harbwr Caergybi	Harbwr Pysgota	5	Ie	Ie
Amlwch Harbour	Harbwr	24	Ie	Ie
Harbwr Abergwaun	Harbwr	80	Ie	Ie

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Enw'r Marina neu Angorfa	Math	Nifer	Agored i Erydiad	Adleoladwy
Harbwr Porthclais	Harbwr	25	Ie	Ie
Harbwr Porth-gain	Harbwr	1	Ie	Ie
Harbwr Tywyn	Harbwr	30	Ie	Ie
Harbwr Traeth Bychan	Harbwr	22	Ie	Ie
Marina / Cei Bangor	Llawr caled a llithrfa / lansio	130	Ie	Ie
Parc cychod dienw a ramp	Llawr caled a llithrfa / lansio	45	Ie	Ie
Harbwr y Felinheli	Loc gyda harbwr / camlas	55	Na	Ie
Marina Conwy	Marina	390	Ie	Ie
Harbwr Aberaeron	Marina ac angorfa aber	70	Ie	Ie
Angorfeydd Traeth a Marina Caergybi	Marina ac angorfa aber	290	Ie	Ie
Harbwr Aberystwyth	Marina ac angorfa aber	160	Ie	Ie
Marina Caer Belan	Marina ac angorfa aber	25	Ie	Ie
Harbwr Pwllheli	Marina ac angorfa aber	430	Ie	Ie
Marina Ynys Mochras	Marina ac angorfa aber	70	Ie	Ie
Marina'r Felinheli	Marina a chei	80	Ie	Ie
Porth Penrhyn	Marina / Cei	70	Ie	Ie
Morfa Nefyn	Angorfeydd a lleiniau caled	20	Ie	Ie
Afon Menai gyferbyn â Brynsiencyn	Angorfeydd yn Afon Menai	30	Ie	Ie
Angorfa Gwersyll Rhufeinig Bangor	Angorfeydd yn Afon Menai	30	Na	Ie
Marina'r Felinheli	Angorfeydd yn Afon Menai, gyda pharc cychod a llethr lansio	80	Na	Ie
Trefor Pier	Angorfeydd cysgodol	15	Na	Ie
Angorfeydd Pier Menai	Angorfa pier	2	Ie	Ie
Harbwr y Bermo	Cei ac angorfeydd aber	60	Ie	Ie
Harbwr Conwy	Cei	20	Ie	Ie
Pont Lanio Ynys Dewi	Cei		Ie	Ie

Isadeiledd Cludiant

11.2.4 Daearyddiaeth a hanes Cymru sydd wedi llunio cyfundrefn gludiant heddiw. Y gadwyn o fynyddoedd a bryniau sy'n ymestyn o Eryri i Fannau Brycheiniog, a lleoliad y meysydd glo, fu'r dylanwad cryfaf ar dwf Cymru, gyda phrif anheddau yn tueddu i fod ger yr arfordir, yn bennaf yn y gogledd a'r de. Tyfodd y boblogaeth fwyaf o gwmpas anheddau yn y De. Yng Ngorllewin Cymru mae cymysgedd o fentrau bach i ganolig (BBaCh) yn bennaf, busnesau amaeth a thwristiaeth, gyda chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da rhwng dwyrain a gorllewin ar hyd yr arfordir ond cysylltiadau gwaelach rhwng gogledd a de. Mae **Ffigur 11.2** yn dangos yr isadeiledd cludiant yng Ngorllewin Cymru.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

11.2.5 Yn gyffredinol, creodd dirywiad mwyngloddio a diwydiant trwm fwy o angen i bobl deithio o'u cymunedau i gael gwaith. I'r rhai sy'n byw oddi allan i brif ganolfannau cyflogaeth, mae hyn yn aml yn golygu mynediad at y prif ffyrdd rhyngdrefol. I Gaerdydd, Casnewydd, Caernarfon a Bangor mae'r llifau cymudo mwyaf i mewn tra bo'r llifau mwyaf at allan o Fro Morgannwg, Caerffili, Ynys Môn a Rhondda Cynon Taf. Mae traffig sylweddol yn llifo hefyd rhwng Cymru a Lloegr ar y prif dramwyfeydd ffyrdd yn y gogledd (yr A55 yn bennaf) ac yn y de (yr M4 yn bennaf). Yn y de, mae rheilffyrdd y Cymoedd yn cludo nifer sylweddol o gymudwyr o anheddau anghysbell i'r prif ganolfannau cyflogaeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a a 2008b).

11.2.6 Yn 2005/06, roedd tuag 20.1 miliwn teithiau teithwyr trên yn dechrau neu'n darfod yng Nghymru. Roedd tua 13 miliwn o'r teithiau hyn yn llwyr yng Nghymru, gyda Chaerdydd yn gyrchfan cyfran sylweddol ohonynt (yn agos at 40 y cant) (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a a 2008b). Amcangyfrifwyd bod 1.6 miliwn o deithiau lleol teithwyr yn 1999 ar brif linell Gorllewin Cymru i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr. Mae cyswllt rheilffordd allweddol rhwng Aberystwyth a Phwllheli sy'n gyswllt rheilffordd o bwys i ymwelwyr (a thrigolion) ac yn rhedeg ar hyd arfordir Gorllewin Cymru. Mae'r rheilffordd hefyd yn amddiffyn asedau niferus rhag llifogydd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar hyd yr arfordir. Mae Rheilffordd y Gogledd yn cludo tua 1,703 o drenau nwyddau bob blwyddyn (1.1 miliwn tunnell) sydd ar hyn o bryd ond yn darparu gwasanaeth cyfyngedig iawn i borthladd Caergybi. Mae prif linell y De-orllewin, i''r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, ac yn cynnwys y llinell Glynebwy, yn cludo rhyw 42,445 trên nwyddau bob blwyddyn (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Cadwyd rhwydwaith sylfaenol o reilffyrdd mewnol, er bod cysylltiadau rhwng gogledd a de'n eithaf cyfyngedig. Eto, cyfyngedig yn unig fu'r buddsoddiad yn y gyfundrefn yn y degawdau diweddar ac, ar hyd a lled y rhanbarth, mae nifer teithwyr cymharol isel yn cyfyngu'n nodweddiadol ar amledd gwasanaethau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a a 2008b).

11.2.7 Bydd pobl Gorllewin Cymru sy'n byw yng nghefn gwlad yn gwario canran uwch o'u hincwm ar gludiant na'r rhai mewn cylchoedd trefol. Ynghyd â daearyddiaeth neilltuol, mae'r ffactorau hyn wedi golygu anhawster teithio rhwng gogledd a de Cymru, a rhwng cymunedau gwledig a'r cylchoedd trefol mwy. Bu tir a phoblogaeth denau rhanbarth Gorllewin Cymru'n her arbennig i ddarparu gwasanaethau cludiant cyhoeddus cost-effeithiol. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn mwy o berchenogaeth ceir yng nghefn gwlad (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008a a 2008b).

Isadeiledd Hanfodol

11.2.8 Mae tua 64 gwaith trin dŵr budr a charthion yn ardal astudiaeth CRhT2 i'w cael yn rheolaidd ar hyd y morlin. Mae dosbarthiad pŵer ac is-orsafoedd trydan yn tueddu i glystyru o gwmpas prif ganolfannau trefol yr arfordir (**Ffigur 11.3**). Mae 27 o safleoedd trin gwastraff ac ailgylchu yn ardal CRhT2 (**Tabl 11.2**) y rhan fwyaf ohonynt yn trin gwastraff nad yw'n beryglus neu ailgylchu metelau.

Tabl 11.2 Safleoedd Rheoli Gwastraff yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Math o wastraff	Cyfeiriad y safle	Cyfeirnod Grid
Safle Ailgylchu Metelau	Uned 6, Stad Ddiwydiannol Waterloo, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 4RR	SM9789403809
Tirlenwi Gwastraff nad yw'n Beryglus	Tir yn Slade Croes, Cosheton, Sir Benfro, SA72 4SX	SM9949202792
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	The Salterns, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, SA70 7NS	SN1270000500
Trin Gwastraff nad yw'n Beryglus	Purfa Texaco, Penfro, Sir Benfro, SA71 5SJ	SM9100003000

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Math o wastraff	Cyfeiriad y safle	Cyfeirnod Grid
Trin Gwastraff nad yw'n Beryglus	Gwaith Trin Gwastraff Pont Fadlen, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1JW	SM9554514651
Gwastraff Arall nad yw'n Beryglus	Safle Amwynderau Dinesig Waterloo, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 4RT	SM9820003700
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Tir yn Uned A, Stad Ddiwydiannol Waterloo, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 4RT	SM9800203789
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Manian Fawr, Poppit, Llandudoch, Sir Benfro, SA43 3LL	SN1554247753
Gwastraff Arall nad yw'n Beryglus	Celtic Buildings, The Old Royal Dock, Edgar Morgan Way, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72	SM9584403675
Trin Gwastraff nad yw'n Beryglus	Grove Quarry, De Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 4RB	SM9892200947
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Oddi ar Marsh Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL19 7NT	SJ0031780245
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Chwarel Plas Gwilym, 78 Ffordd Llysfaen, Bae Colwyn, LL29 9HE	SH8784378074
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Llain 2a Stad Ddiwydiannol Tremarl, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9PN	SH7973877593
Safle Ailgylchu Metelau	Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd, LL57 4HN	SH5927472835
Safle Ailgylchu Metelau	Nefyn, Pwllheli, LL53 6EG	SH3044440544
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Iard Berwyn, Ffordd Porthdafarch, Caergybi, Ynys Môn, LL65 2SA	SH2479581520
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Stad Ddiwydiannol Penamser, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NY	SH5619739136
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Uned 18 Glan y Don, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5YT	SH3844935372
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Safle Comin Glan-Leri, Borth, Ceredigion, SY24 5JF	SN6116189423
Safle Ailgylchu Metelau	Arch Motors, Ffordd Maesdu, Llandudno, Conwy, LL30 1LF	SH7852781273
Safle Ailgylchu Metelau	Uned 1 Stad Ddiwydiannol Glan-y-morfa, Marsh Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2PL	SJ0030080400
Gwastraff Arall nad yw'n Beryglus	71 Builder Street, Llandudno, Conwy, LL30 1DR	SH7827481687
Gwastraff Arall nad yw'n Beryglus	Yr Hen Waith Brics, Llain 1 Stad Ddiwydiannol Tre Marl, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9BE	SH7963777655
Gwastraff Arall nad yw'n Beryglus	Glanllynnau, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6SJ	SH4565137645
Gwastraff Arall nad yw'n Beryglus	Cae Bwsan, Clynnog Fawr, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5NN	SH4093449200
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Ffordd Bronwydd, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL57 2NX	SH5449570372
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	Uned 1 Gallaghers Yard, Foryd Bank, Green Avenue, Bae Cinmel, Conwy, LL18 5LE	SH9960080215

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 11.1 Asedau Cymunedol yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.



Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 11.2 Isadeiledd Cludiant yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru



Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Ffigur 11.3 Isadeiledd Hanfodol yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru



Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tudalen wag o fwriad.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

12 NEWID YN YR HINSAWDD

12.1 Cyflwyniad

12.1.1 Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd ar Gymru'n cael eu crynhoi isod ar sail Rhaglen y DU ar Effeithiau'r Hinsawdd (http://www.ukcip.org.uk/index.php) yn ystod y cyfnod o 30 mlynedd o 2070 i 2099 (sy'n cael eu galw'n 2080au) gyda senario allyriadau cymedrol, ac ar gyfer tymheredd a dyodiad yr haf a'r gaeaf:

- Gydag allyriadau cymedrol, amcangyfrif canol o gynnydd yn nhymheredd cymedrig y gaeaf yw 2.8ºC; mae'n annhebygol iawn o fod yn llai nag 1.6ºC ac yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 4.2ºC;
- Gydag allyriadau cymedrol, amcangyfrif canol o gynnydd yn nhymheredd cymedrig yr haf yw 3.5ºC; mae'n annhebygol iawn o fod yn llai nag 1.9ºC ac yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 5.8ºC;
- Gydag allyriadau cymedrol, amcangyfrif canol o newid yn nyodiad cymedrig y gaeaf yw 19%; mae'n annhebygol iawn o fod yn llai na 4% ac yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 42%; a
- Gydag allyriadau cymedrol, amcangyfrif canol o newid yn nyodiad cymedrig yr haf yw –20%; mae'n annhebygol iawn o fod yn llai na –43% ac yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 5%.

12.1.2 Yn gryno:

- Bydd hafau'n mynd yn gynhesach a bydd gaeafau'n mynd yn fwynach;
- Bydd dosbarthiad glaw'n newid, gan arwain at hafau sychach yn enwedig mewn ardaloedd dwyreiniol a deheuol, a bydd gaeafau'n wlypach ar hyd a lled Cymru;
- Bydd sychder amlach ar hyd a lled Cymru, yn enwedig yn y de;
- Glaw trwm amlach yn y gaeaf yn arwain at fwy o debygolrwydd llifogydd, tirlithriadau, priddoedd gwlypach, a pherygl erydu pridd a thagu cyrsiau dŵr; a
- Llai o oerfel gaeaf a llai o ddiwrnodau rhew.

12.2 Senarios

12.2.1 Erbyn hyn mae newid yn yr hinsawdd yn ffenomen gydnabyddedig a'r rhagolwg yw y bydd yn peri newidiadau sylweddol i lifogydd yn y DU yn yr 21ain ganrif. Mae hyn oherwydd newidiadau ym mhatrymau glaw a chynnydd yn lefel y môr. Gallai newidiadau mewn patrymau glaw beri newidiadau yn nwysedd ac amlder stormydd a dyfnder a pharhad glaw tymhorol.

12.2.2 Bydd newidiadau o'r fath yn effeithio ar wlypter dalgylch, llifau dŵr codi i afonydd, anterth llifau mewn cyrsiau dŵr a draenio trefol. Gallai newidiadau yn lefel y môr beri mwy o gloi llanwol o gyrsiau dŵr sy'n gwagio i'r môr a llifogydd arfordirol a llanwol yn ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru.

12.2.3 Mae effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd ar lifau llifogydd yn dal i gael eu hymchwilio. Disgrifiodd adroddiad Rhagolwg diweddar y Swyddfa Gwyddoniaeth a Thechnoleg setiau o ffactorau y mae disgwyl iddynt beri cynyddu perygl llifogydd yn y 50 mlynedd nesaf, seiliedig ar newidiadau tebygol i'r economi byd-eang a newidiadau dilynol disgwyliedig i allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

12.2.4 Gwnaeth DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd ymchwil yn ddiweddar i effaith y senarios diweddaraf newid yn yr hinsawdd ar lifau llifogydd mewn dalgylchoedd afonydd (UKCIP02, Rhaglen Effeithiau Hinsawdd Llywodraeth y DU, 2002). Dangosodd hyn yr amrywiad tymhorol sylweddol sy'n cael ei ragweld ar gyfer y DU yn y 2080au.

12.2.5 Yn ogystal, mae arwyddion y bydd newid yn yr hinsawdd yn peri hafau sychach. Mae'r adroddiad yn dangos gostyngiad o ryw 10% i 50% mewn glawiad haf dyddiol, ynghyd â glawogydd trymach, mwy stormus (e.e. glaw taranau). Bydd y rhain yn peri problemau yn nalgylchoedd y CRhT2 gyda thir serth, sy'n debygol o waethygu problemau llifogydd lleol gyda chyfnudrefnau draenio dŵr arwyneb a'r rhwydwaith carthffosiaeth. Yn ogystal, mae problem llifogydd i ffyrdd ac eiddo gan ddŵr ffo o gaeau'n debygol o waethygu oherwydd diffyg athreiddedd priddoedd sych iawn.

12.2.6 Mae canllawiau diweddaraf DEFRA yn FCDPAG3 "Nodyn Atodol i Awdurdodau Gweithredu – Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd" (DEFRA, 2006c) yn awgrymu delio â newid yn yr hinsawdd trwy gynyddu maint anterth llifau gymaint â 10% hyd at 2025, ac 20% y tu hwnt i 2025. Y cynnydd hwn mewn llifau fydd yn diffinio'r rhagolwg eithafol uchel o'r sefyllfa yn y dyfodol. Yn ogystal, dengys y canllawiau y dylid tybio y bydd cyflymder gwyntoedd alltraeth yn cynyddu 5% hyd at 2025 a 10% y tu hwnt i 2025, tra dylid tybio y bydd uchder tonnau eithafol yn cynyddu 5% hyd at 2025 a 10% y tu hwnt i 2025 (DEFRA, 2006c).

12.2.7 Hefyd, byddai effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gynnydd yn lefel y môr yn cynyddu'r peryglon presennol o lifogydd llanwol, yn ogystal â phroblemau afonol cysylltiedig â'r llanw. Ar hyn o bryd mae DEFRA yn argymell mabwysiadu 3.5mm y flwyddyn rhwng 1990 a 2025, 8mm y flwyddyn rhwng 2025 a 2055, 11.5mm y flwyddyn rhwng 2055 a 2085, a 14.5mm y flwyddyn rhwng 2085 a 2115 (DEFRA, 2006c). Canlyniad hyn fydd lefel y môr yn cynyddu 12cm erbyn 2025, 36cm erbyn 2055, 71cm erbyn 2085 a 114cm erbyn 2115 uwchlaw lefelau 1990.

12.2.8 Mae cyfuno'r gwerthoedd hyn yn rhoi amcangyfrif o 859mm o gynnydd yn lefel y môr rhwng 2009 a 2100. Nid yw'r gwerthoedd hyn yn cyfrif am amrywiadau lleol, sy'n gymharol fychan.

12.2.9 Bydd cynnydd o'r fath yn lefel y môr yn tueddu i wneud rhai ardaloedd isel yn fwy agored i lifogydd arfordirol, ac yn peri i lawer o draethlinau gilio. Bydd clogwyni meddal yn tueddu i erydu'n gyflymach, tra bydd llwyfannau clogwyni caled ar y lan dan ddŵr yn amlach. Bydd traethau'n tueddu i 'dreiglo'n ôl' os nad ydynt yn cael eu cyfyngu tua'r tir. Bydd traethau sy'n cael eu cyfyngu, er enghraifft gan glogwyn neu adeiledd arfordirol, yn tueddu i fynd dan ddŵr, fel bod y llanw'n amlygu llai o'u harwyneb. Yn ogystal, bydd mwy o bwysau ar adeileddau a godwyd i reoli perygl llifogydd neu erydiad. Wrth i ddyfnder y dŵr o'u blaenau gynyddu, bydd tonnau mwy'n eu cyrraedd, gan gynyddu'r grymoedd arnynt. Bydd hyn yn cynyddu cyflymder eu dirywiad ac yn golygu defnyddio adeileddau mwy yn eu lle, os ydynt i gael eu hailgodi.

12.2.10 Nid yw canlyniadau cynnydd yn lefel y môr yn negyddol i gyd; yn wir mae arfordir Gorllewin Cymru ei hun yn gynnyrch y broses hon i raddau helaeth. Pan fo arfordiroedd yn erydu byddant yn rhyddhau gwaddod, sy'n aml yn adeiladu traethau. Fel y disgrifiwyd uchod, ffurfiwyd traethau presennol Cymru gan erydiad arfordirol yn cael ei yrru gan gynnydd yn lefel y môr.

12.2.11 Felly, bydd CRhT2 yn archwilio'r senario newid yn yr hinsawdd ar gyfer y morlin gan ystyried cynnydd o 859mm yn lefel y môr rhwng 2009 a 2100, cynnydd o 10% yn uchder tonnau eithafol, cynnydd o 10% yng nghyflymder gwyntoedd alltraeth, ac 20% o gynnydd yn anterth llifau afonydd.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

13 PERYGLON HEDDIW AC YN Y DYFODOL

13.1 Cyflwyniad

13.1.1 Prif nod yr adran hon yw tynnu sylw'n fyr at ba asedau yn ardal yr astudiaeth sydd mewn perygl llifogydd ac erydiad ar hyn o bryd a sut all y rhain newid yn y dyfodol. Nodwyd y rhain trwy amrywiol ffynonellau gan gynnwys asesiad manwl o'r cynlluniau a strategaethau a nodwyd ac a adolygwyd yn **Atodiad A**.

13.2 Defnydd Tir a Chymunedau Heddiw ac yn y Dyfodol

13.2.1 Ymhlith peryglon allweddol i ddefnydd tir heddiw ac yn y dyfodol mae:

- Mae tirweddau trefol a gwledig Gorllewin Cymru'n fannau deniadol i fyw ynddynt ac ymweld â hwy, er y bydd ardaloedd o'r fath yn dod yn fwyfwy poblog cyn bo hir gyda phosibilrwydd peri effeithiau ar nodweddion pwysig y dirwedd (e.e. geoamrywiaeth a bioamrywiaeth);
- Effeithiau cynnydd yn lefel y môr ar ddatblygiadau trefol / arfordirol presennol ac arfaethedig fel Strategaethau Datblygu'r Borth a Glannau Caergybi;
- Mudo anheddau arfordirol tua'r tir mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr a delio â materion ymarferol yr addasu hwn i rai anheddau, fel y Bermo, sydd islaw clogwyni neu darenni;
- Effeithiau ar ddatblygiad cynaliadwy ac asedau twristiaeth (e.e. colli trên bach yn y Bermo);
- Cynnal cysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol gan gynnwys cysylltedd rhwng cymunedau llai gyda mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol;
- Mae amryw drefi a phentrefi glan môr wedi dioddef difrod stormydd (e.e. Bae Colwyn). Mae amddiffynfeydd arfordirol yn gwarchod bywyd dynol ac eiddo, yn ogystal â llwybrau ffyrdd a rheilffyrdd. Felly, mae'n hanfodol bod gwelliannau i'r amddiffynfeydd arfordirol yn cael yr amddiffyniad mwyaf heb niweidio ansawdd traethau, geoamrywiaeth, ecoleg neu dwristiaeth;
- Mynediad at ddigon o fannau agored adloniadol ar hyd y morlin, all gael ei leihau oherwydd gwasgfa arfordirol a newidiadau i brosesau arfordirol;
- Erydu hynodrwydd lleol a cholli llystyfiant arfordirol i ddatblygiad trefol, diwydiannol ac amaethyddol;
- Wrth i amaethwyr adael y tir, mae diffyg pori sy'n peri bod prysgwydd yn ennill tir;
- Gall halogi tir gan ddatblygiad diwydiannol y gorffennol achosi peryglon annerbyniol i'r gymuned. Gall peryglon o'r fath gynyddu mewn ymateb i newidiadau mewn dŵr ffo / amgylchiadau llifogydd oherwydd newid yn yr hinsawdd;
- Newidiadau defnydd tir fel amaethyddiaeth a goblygiadau cysylltiedig i brosesau draenio a dŵr ffo all ddylanwadu ar forffoleg clogwyni arfordirol;
- Diraddiwyd a chollwyd cynefinoedd afonol a thir gwlyb trwy ddraenio tir, datblygu gorlifdir, effeithiau amaethyddol, ac ymledu rhywogaethau planhigion anfrodorol ymosodol, yn enwedig llysiau'r cythraul; a
- Mae creu safleoedd tirlenwi'n newid tirweddau ac yn cynhyrchu arogleuon, llwch a sŵn. Mae gwaredu gwastraff didrwydded a gwibdaflu sbwriel yn anharddu'r dirwedd. Gall pryderon gwastraff o'r fath ddod yn fwy difrifol oherwydd llifogydd mwy (e.e. gorlifo safleoedd tirlenwi).

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Plât 1: Malwyd promenâd Bae Colwyn gan wyntoedd cryfion a thonnau ffyrnig ym mis Ebrill 2009 gan dynnu sylw at yr angen am well amddiffynfeydd rhag y môr. Ffynhonnell: http://www.northwalesweeklynews.co.uk/)

13.3 Yr Amgylchedd Dŵr

13.3.1 Ymhlith peryglon allweddol yr amgylchedd dŵr heddiw ac yn y dyfodol mae:

- Gorlifiad dŵr stormydd yn amlach a mwy gan arwain at lygru dyfroedd arfordirol naill ai trwy ddiffyg cynnal a chadw neu fwy o law o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd;
- Mwy o 'ôl-lifiad' mewn draeniau dŵr storm / carthffosiaeth trwy ddiffyg cynnal a chadw neu fwy o law o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd;
- Cynnydd yn lefel y môr yn arwain at ddynameg arfordirol anrhagweladwy, all gynyddu erydiad arfordirol a difrodi amwynderau arfordirol, er enghraifft y difrodi diweddar i bromenâd Bae Colwyn (**Plât 1**) fydd yn agored i ymchwydd a chynnydd yn lefel y môr;
- Gall cynnydd yn lefel y môr arwain hefyd at newidiadau sylweddol mewn dynameg a phrosesau afonol;
- Peryglon i gyflenwad / tyniadau dŵr all ddod o gynnydd yn lefel y môr / ymchwydd;
- Posibilrwydd colli trefi bach a phentrefi oherwydd cynnydd yn lefel y môr a llifogydd llanwol ac afonol, er enghraifft, Y Friog, Biwmares, Y Bermo, Caergybi a Chonwy, Abergwaun ac Wdig;
- Effeithiau ar gynefinoedd dŵr croyw mewn ymateb i amddiffynfeydd a/neu wasgfa arfordirol (e.e. effeithiau ar forfeydd heli);
- Cynnydd mewn gorlifo sydyn oherwydd glaw trwm a chynnydd mewn llifogydd ac erydiad afonol ac arfordirol;
- Llai o ymdrochi ac ansawdd dŵr gwaelach oherwydd posibilrwydd mwy o lygredd gwasgaredig ac ysbwriel ar draethau; a

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

- Newidiadau yng nghynaliadwyedd pysgodfeydd, twristiaeth ac adloniant.

13.4 Amgylchedd a Daeareg yr Arfordir

13.4.1 Ymhlith peryglon allweddol i amgylchedd a daeareg yr arfordir heddiw ac yn y dyfodol mae:

- Mae amddiffynfeydd arfordirol, sy'n gallu cael cryn effaith ar brosesau naturiol yr arfordir, yn ffinio rhyw 29% o forlin Cymru. Maent yn cael cryn effaith ar dirwedd arfordirol Cymru;
- Colli neu ddifrodi nodweddion diddordeb daearegol a geomorffolegol ar yr arfordir oherwydd datblygiad a/neu waith arfordirol / amddiffyn rhag llifogydd, fel yn SoDdGA Solfach, SoDdGA Abermawr, SoDdGA Creigiau Pen y Graig, SoDdGA Traeth Trefdraeth a rhannau o Arfordir Penfro;
- Mae traeth Mwnt (ger Aberteifi) yn cilio'n araf;
- Cynnydd yn lefel y môr a goblygiadau i adloniant a thwristiaeth;
- Dirywiad amddiffynfeydd arfordirol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd;
- Mwy o lifogydd llanwol ac afonol gydag ardaloedd o'r fath mewn perygl gan gynnwys yr anheddau hynny a ddisgrifiwyd yn **Adran 13.3**;
- Gwaith amddiffyn yn ymyrryd ar gyflenwadau gwaddod gan waethygu problemau erydu yn rhywle arall;
- Glawogydd amlach a mwy yn y gaeaf yn arwain at orlifo sydyn ac ansadrwydd clogwyni, gydag ardaloedd o'r fath mewn perygl yn cynnwys yr anheddau hynny a ddisgrifiwyd yn **Adran 13.3**; a
- Diffyg cyflenwad gwaddod o gwmpas yr arfordir yn peri gwaethygu problemau erydu, gydag ardaloedd o'r fath mewn perygl yn cynnwys twyni tywod y Borth, tra gallai effeithiau cynnydd yn lefel y môr newid amgylchiadau ffisegol a chemegol presennol cynefinoedd fel halltedd morlynnoedd arfordirol (**Plât 2**).

Plât 2: Morlyn Cemlyn.
(Ffynhonnell: Eric Jones, 2009)

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

13.5 Bioamrywiaeth

13.5.1 Ymhlith peryglon allweddol i fioamrywiaeth heddiw ac yn y dyfodol mae:

- Newidiadau yn nosbarthiad presennol cynefinoedd a rhywogaethau oherwydd newid yn yr hinsawdd;
- Colli cynefinoedd arfordirol (e.e. morfa heli a gwastadeddau llaid) oherwydd gwasgfa arfordirol rhwng moroedd uwch ac amddiffynfeydd caled rhag y môr / llifogydd, er enghraifft colli morfa heli / gwastadeddau llaid Aber Mawddach;
- Posibilrwydd peryglon i gynefinoedd aberol a'r glannau oherwydd cynnydd yn lefel y môr / ymchwydd;
- Darnio cynefinoedd;
- Rhywogaethau 'newydd' yn cytrefu cynefinoedd oherwydd newid yn yr hinsawdd;
- Cynnydd yn lefel y môr a cholled uniongyrchol o fioamrywiaeth a chynefin rhywogaethau, fel llifogydd mwy / perygl gorlifo i Ynys Feurig, Bae Cemlyn, ac AGA Ynysoedd y Moelrhoniaid gan gynnwys Morlyn Cemlyn (**Plât 2**);
- Mwy o ddefnydd adloniadol ar ddyfrffyrdd ac effeithiau cysylltiedig ar gynefinoedd a rhywogaethau, fel effeithiau ar ACA Bae Ceredigion ac ACA Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd;
- Dirywiad cynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig oherwydd gwaith arfordirol ac amddiffyn rhag llifogydd a gwaith sefydlogi clogwyni, fel o gwmpas clogwyni a llethrau morol Gwynedd (e.e. Pen Llŷn);
- Datblygiadau presennol a godwyd mewn mannau amhriodol ar yr arfordir yn dibynnu ar waith amddiffyn parhaol;
- Amddiffynfeydd presennol yr arfordir nad oes modd eu cyfiawnhau'n economaidd mwyach ond sydd ag effeithiau gweddilliol;
- Ymyriad ar gyflenwadau a symudiad gwaddod ar hyd y lan yn effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig;
- Cynefinoedd dŵr croyw a lled-hallt yn dibynnu ar amddiffynfeydd presennol rhag y môr;
- Bydd cynnydd mewn twristiaeth a gweithgareddau dŵr yn effeithio ar erydu'r arfordir a chlogwyni a gall effeithio ar adar, morfilod ac ati; ac
- Mae darnio cynefinoedd yn fater allweddol; yn y blynyddoedd diwethaf bu tuedd gyffredinol i gynefinoedd bywyd gwyllt fynd yn llai ac yn fwy ar wahân. Gallai newid yn yr hinsawdd effeithio mwy ar blanhigion ac anifeiliaid ac, felly, mae'n bwysig sicrhau datblygu cysylltiadau a thramwyfeydd fydd o gymorth i fywyd gwyllt ymateb i newid yn yr hinsawdd.

13.6 Yr Amgylchedd Hanesyddol

13.6.1 Ymhlith peryglon allweddol i'r amgylchedd hanesyddol heddiw ac yn y dyfodol mae:

- Colli safleoedd archeolegol fel Henebion Rhestredig a safleoedd hanesyddol trwy lifogydd ac erydiad arfordirol;
- Mwy o bwysau adloniadol ar safleoedd hanesyddol;
- Datblygiad arfordirol amhriodol yn effeithio ar safleoedd a thirweddau hanesyddol;

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

- Colli mwy o safleoedd hanesyddol trwy newidiadau yn yr hinsawdd fel y rhai sy'n digwydd yn y parth rhynglanwol ac islanwol. Ymhlith safleoedd allweddol all fod dan fygythiad newidiadau yn yr hinsawdd a chyflwr cysylltiedig y tywydd mae: Castell Conwy (**Plât 3**); Castell Cricieth; Capel y Mwnt; adfeilion Eglwys Dwynwen a'r goleudy; Abaty Llandudoch; a Chapel Non; ac
- Mae safleoedd archeolegol niferus heb eu rhestru a heb eu dynodi ar hyd a lled ardal astudiaeth CRhT2, ac mae'n debygol bod llawer mwy o safleoedd sy'n anhysbys ar hyn o bryd a allai ddod i'r amlwg yn y dyfodol oherwydd datblygiad neu erydu arfordirol parhaol, neu sy'n cael eu heffeithio gan bolisïau rheoli'r arfordir.

Plât 3: Castell Conwy. (Ffynhonnell: http://www.redbubble.com/)

13.7 Asedau Materol

4.6.1 Ymhlith peryglon allweddol cysylltiedig â chymunedau ac asedau heddiw ac yn y dyfodol mae:

- Cau mwy o ddarnau rheilffordd arfordirol;
- Cynaliadwyedd isadeiledd presennol, cynnydd yn lefel y môr a chilio rheoledig;
- Erydiad clogwyni (cilio) a pherygl i asedau cymunedol (e.e. Bae Ceredigion);
- Perygl llifogydd, er enghraifft mewn cylchoedd trefol ac anheddau a ddisgrifiwyd yn **Adran 13.3**;
- Lleihau mannau agored cyhoeddus oherwydd cilio clogwyni arfordirol mewn ymateb i erydiad (e.e. Bae Ceredigion);
- Lleihau twristiaeth oherwydd colli traethau i erydiad neu ddiffyg cyflenwad gwaddod;
- Lleihau twristiaeth oherwydd dirywiad yn ansawdd dŵr ymdrochi; a
- Mwy o bwysau i ddatblygu ar hyd yr arfordirol ac isadeiledd cludiant cysylltiedig.

C 13.1 Ydych chi'n teimlo na nodwyd unrhyw beryglon penodol heddiw neu yn y dyfodol?

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tudalen wag o fwriad.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

14 CWMPASU A METHODOLEG YR AAS

14.1 Materion Cynaliadwyedd a Chyfyngiadau ar gyfer Ardal yr Astudiaeth

14.1.1 Mae'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru (2006) yn cyflwyno'r strategaeth neu fframwaith hirdymor i'w gweithredu yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n tynnu sylw at y materion cynaliadwyedd allweddol i Gymru gyfan, ac mae'n cyflwyno cyfres o amcanion a gweithrediadau sy'n rhoi fframwaith ar gyfer rhoi sylw i'r materion hyn. Y canlynol yw'r materion allweddol:

- Newid yn yr hinsawdd;
- Ecosystemau ac ansawdd dŵr diraddiedig;
- Defnyddio adnoddau'n anghynaliadwy;
- Colli bioamrywiaeth;
- Colli tirwedd, ansawdd treftadaeth ac arbenigrwydd;
- Ansawdd gwael amgylchedd byw;
- Peryglon amgylcheddol a'u peryglon cysylltiedig i iechyd; ac
- Effaith amddiffynfeydd rhag llifogydd a datblygiadau ar forffoleg arfordirol.

14.1.2 Mae rhai o'r materion ac amcanion hyn yn arbennig o berthnasol i ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru a chânt sylw yn **Nhabl 14.1**.

Tabl 14.1 Materion Cynaliadwyedd Allweddol yn y Rhanbarth

Mater	Amcan
Newid yn yr Hinsawdd	Ymateb i'r peryglon, heriau a chyfleoedd sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys mesurau addasu i gynnydd yn lefel y môr, llifogydd arfordirol, gorlifo afonydd a cholli bioamrywiaeth.
Defnyddio Adnoddau Naturiol yn Ddoethach	Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy, gyda'r difrod amgylcheddol lleiaf, er mwyn gwarchod ansawdd amgylchedd y rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys ecosystemau / cynefinoedd, bioamrywiaeth, tirwedd a threftadaeth.
Bwyd, Amaeth, Coedwigaeth a Physgota	Gwella gallu'r sectorau bwyd, amaeth, coedwigaeth a physgota i ddarparu'r buddiannau amgylcheddol a chymdeithasol y mae pobl yn y rhanbarth eu hangen ac yn eu disgwyl, a chynorthwyo sicrhau dyfodol hyfyw iddynt.
Twristiaeth	Hyrwyddo diwydiant twristiaeth a hamdden sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd ac yn cydnabod hynodrwydd y rhanbarth.
Cynllunio Gofodol	Hyrwyddo defnyddio tir yn ddoeth ac amgylchedd diogel ac iach i gymunedau lleol, cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy wella'r amgylchedd a sicrhau bod Cymru'n aros yn wlad o dreftadaeth, bywyd gwyllt a thirweddau amrywiol a nodedig.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

14.1.3 Mae materion cynaliadwyedd allweddol penodol sy'n bwysig i CRhT2 Gorllewin Cymru. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r materion amgylcheddol a chymdeithasol, a ddeilliwyd o wybodaeth o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys y data dechreuol, a chynlluniau, rhaglenni a strategaethau presennol. Mae **Tabl 14.2** yn cyflwyno'r materion a nodwyd ar hyn o bryd.

Tabl 14.2 Materion Cynaliadwyedd yn Ardal Astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru a nodwyd o'r Adolygiad Cynlluniau a Pholisi

Mater	Gwybodaeth Ategol	Goblygiadau
Newid yn yr hinsawdd a phrosesau afonol	Mae effeithiau amrywiol cysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, sef: • Cynnydd yn lefel y môr; • Cynnydd mewn dwysedd glaw ac amlder a maint llifogydd afonol; • Cynnydd yn uchder tonnau eithafol; a hefyd • Cynnydd cyflymder gwyntoedd o'r môr.	Dylai polisïau alluogi addasu i newidiadau naturiol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, yn arbennig yr angen i roi sylw i'r effeithiau tebygol canlynol: • Cynnydd mewn llifogydd afonol ac arfordirol; • Mwy o erydiad afonol; • Pwysau ychwanegol ar amddiffynfeydd arfordirol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd; • Cynnydd mewn difrod stormydd gaeaf ac erydiad arfordirol; • Colli cynefinoedd a rhywogaethau (yn enwedig y rhai cysylltiedig ag amddiffynfeydd); • Newidiadau i'r dirwedd; a • Mwy o erydiad ac ansadrwydd clogwyni oherwydd newidiadau mewn draenio, stormydd cryfach a chynnydd yn lefel y môr.
Asedau Materol	Peryglon llifogydd llanwol ac afonol i asedau materol.	Dylai polisïau'r CRhT geisio sicrhau bod asedau materol gwerthfawr fel isadeiledd cludiant yn cael eu gwarchod a'u cynnal pan fo hynny'n briodol a/neu fod isadeiledd yn gallu ymaddasu i newid yn yr hinsawdd (gwelwch uchod).
Bioamrywiaeth	Mae colli bioamrywiaeth yn parhau oherwydd pob math o bwysau, gan gynnwys gorbori, dwysâd amaethyddol a gormod o faetholion, gorbysgota, halogiad, a mwy o bwysau i ddatblygu. Mae mwy o weithgareddau adloniadol ar hyd yr arfordir hefyd o bryder mawr, yn effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau.	Dylai polisïau warchod ac osgoi holl gynefinoedd dynodedig a rhywogaethau gwarchodedig, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl neu'n sensitif, gan gynnwys y rhai cysylltiedig ag amddiffynfeydd arfordirol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd, a'r amgylchedd morol a dŵr croyw. Ar ben hynny, dylai mesurau wella ansawdd cynefinoedd dynodedig ble bynnag y bo modd.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Mater	Gwybodaeth Ategol	Goblygiadau
Ansawdd dŵr	Materion newid yn yr hinsawdd cysylltiedig ag ymwthiad dŵr hallt i gyflenwad / tyniadau dŵr. Er bod ansawdd dŵr ymdrochi'n rhesymol yn ardal yr astudiaeth, mae problemau'n dal a allai waethygu gyda datblygiad arfordirol a newid yn yr hinsawdd.	Dylai polisïau sicrhau bod ansawdd dŵr ymdrochi'n cael ei warchod a, lle bo modd, ei wella.
Cyfanrwydd y dirwedd a'r forwedd	Gall pwysau datblygiad ac amddiffynfeydd arfordirol effeithio er gwaeth ar dirweddau a morweddau yn ardal yr astudiaeth. Mae hyn yn debygol o gynyddu dros gyfnod.	Dylai polisïau osgoi tarfu ar y tirweddau a'r morweddau, a gwarchod hynodrwydd lleol a rhanbarthol.
Yr amgylchedd hanesyddol	Fe all asedau treftadaeth gael eu colli a'u difrodi oherwydd pob math o bwysau fel galwadau datblygu'r dyfodol, darparu amddiffynfeydd arfordirol, a hefyd erydiad arfordirol.	Dylai polisïau sicrhau bod asedau'r amgylchedd hanesyddol (a thirweddau hanesyddol) yn cael eu diogelu a'u gwarchod.
Iechyd	Yn gyffredinol mae iechyd cymuned ardal yr astudiaeth yn dda.	Dylai polisïau atal llifogydd arfordirol a llanwol rhag peri mwy o berygl i fywyd.
Amddiffynfeydd arfordirol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd	Bydd materion yn codi gyda'r amgylchedd naturiol, e.e. bioamrywiaeth, cynefin a geomorffoleg arfordirol gan gynnwys sefydlogrwydd clogwyni a bydd yn cynyddu gyda newid yn yr hinsawdd.	Dylai polisïau osgoi colli bioamrywiaeth a chynefin yn ddiangen a mwy o ddifrod i geomorffoleg y morlin.

C 14.1 Oes yna unrhyw faterion amgylcheddol arwyddocaol na restrwyd yn Nhablau 14.1 ac 14.2?

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tudalen wag o fwriad.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

15 CWMPASU A METHODOLEG YR AAS

15.1 Defnyddio'r AAS yn Weithredol ym Mhroses CRhT2

15.1.1 Ar ôl ymgynghori ar yr **Adroddiad Cwmpasu** hwn, bydd y meini prawf asesu (gwelwch adran **15.5**) yn cael eu defnyddio i bwyso a mesur senarios polisi ar gyfer y CRhT2. Bydd yr AAS yn rhoi asesiad cynhwysfawr o effeithiau ar yr amgylchedd fydd hefyd yn cynnwys asesiad strategol o'r effeithiau hynny a nodwyd trwy'r canlynol:

- Yr Asesiad Priodol (AA) dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar gyfer CRhT2; ac
- Ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

15.1.2 Bydd polisïau a awgrymwyd yn cael eu datblygu fel dewis a ffafriwyd. Ar yr adeg hon bydd yr AAS yn cael ei ddefnyddio i ddangos yn eglur sut y rhoddwyd sylw i ystyriaethau amgylcheddol ym mhroses CRhT2. I'r perwyl hwn, bydd yr AAS yn rhoi adroddiad agored ar sut y rhoddwyd sylw i faterion amgylcheddol a sut yr effeithiodd hyn ar ddewis polisi. Bydd hyn yn arwain at ddarparu'r **Adroddiad Amgylcheddol**.

15.1.3 Fel cydran o'r adroddiad amgylcheddol, bydd cynllun arolygu'r AAS yn rhoi cyfres o gamau gweithredu, seiliedig ar y dangosyddion a ddarparwyd, fydd yn sicrhau nodi canlyniadau annisgwyl y cynllun.

15.2 Cyd-destun a Methodoleg

15.2.1 Mae proses yr AAS yn cael ei diffinio'n eglur yng nghasgliad rheoliadau a chanllawiau'r AAS, a'i disgrifio'n fanylach yn **Adran 15.5** isod. Mae'r broses sylfaenol yn dilyn darparu adroddiad cwmpasu (y ddogfen hon) sy'n rhoi'r man cychwyn, yn nodi materion amgylcheddol allweddol, yn amlinellu'r fethodoleg ac yn cynnig cyfres o feini prawf asesu. Ar ôl ymgynghori ar y ddogfen hon a datblygu ac asesu polisi CRhT2, bydd Adroddiad Amgylcheddol (ER) yn cael ei gynhyrchu sy'n manylu a chofnodi'r asesiad ei hun ac sy'n nodi lliniaru / digolledu all fod ei angen os nad oes modd osgoi neu leihau effeithiau andwyol. Bydd yr ER yn cyd-fynd â chyhoeddi drafft CRhT2 a chamau'n cael eu cymryd o ganlyniad i ymateb y cyhoedd i'w cyflwyno yn y Datganiad Wedi Mabwysiadu (PAS). Mae'r PAS yn manylu sut fydd yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod effeithiau gwirioneddol y CRhT2 yn cael eu hystyried drwy arolygu ac ymateb.

15.3 Dewisiadau / Strategaethau Gwahanol

15.3.1 Bydd CRhT2 Gorllewin Cymru yn rheoli traethlin yr is-unedau trwy edrych ar bedwar gwahanol bolisi sef: cadw'r llinell amddiffyn bresennol; gwella'r llinell amddiffyn bresennol; adlinio rheoledig; neu ddim ymyriad gweithredol (gwelwch **Dabl 2.1**). Bydd y polisïau hyn yn cael eu hasesu gyferbyn â'r asedau a meini prawf amgylcheddol (gwelwch isod) ar gyfer ardal yr astudiaeth, fesul uned.

15.4 Cynnwys / Hepgor Materion AAS

15.4.1 Mae **Tabl 15.1** yn rhoi rhestr o baramedrau allweddol Asesu'r Effaith Amgylcheddol (AEA) sy'n cael eu defnyddio i asesu AAS, a pha rai o'r paramedrau hyn fydd yn cael eu cynnwys neu hepgor o'r AAS o ran eu perthnasedd i oblygiadau warchod yr arfordir ac amddiffyn rhag llifogydd. Hepgorwyd paramedrau o'r AAS yn seiliedig ar adolygu'r pedair gwahanol strategaeth rheoli traethlin a thebygolrwydd y bydd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol yn deillio o'r paramedrau penodol.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tabl 15.1 Paramedrau AEA Dethol ar gyfer AAS

Parametedrau AEA	Yn yr AAS	Allan o'r AAS
Bodau Dynol		
Anheddau ac eiddo	✓	
Asedau cymunedol	✓	
Isadeiledd	✓	
Asedau adloniadol ac amwynder	✓	
Planhigion ac Anifeiliaid		
Cynefinoedd a rhywogaethau	✓	
Prosesau a swyddogaethau geoffisegol	✓	
Pysgodfeydd	✓	
Yr Awyr a Hinsawdd		
Ansawdd yr awyr		×
Sŵn a dirgryniad		×
Newid yn yr hinsawdd	✓	
Tirwedd ac Amwynder Gweledol		
Cymeriad tirwedd	✓	
Amwynder gweledol	✓	
Defnydd Tir		
Math o ddatblygiad	✓	
Rheoli: Newid defnydd	✓	
Yr Amgylchedd Hanesyddol		
Safleoedd archeolegol a henebion	✓	
Asedau heb eu dynodi	✓	
Traffig a Chludiant		
Traffig a chyfaint	✓	
Isadeiledd cludiant	✓	
Pridd, Daeareg a Hydroddaeareg		
Nodweddion a phrosesau daearegol / geomorffolegol	✓	
Hydroddaeareg	✓	
Ansawdd pridd a thir	✓	
Ansawdd Dŵr		
Dyfroedd Ymdrochi	✓	
Dyfroedd Pysgod Cregyn	✓	
Statws dyfroedd arfordirol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr	✓	
Effeithiau ar adnoddau dŵr	✓	
Defnyddio Adnoddau Naturiol		
Defnyddio deunydd adeiladu		×
Defnyddio deunydd a ailgylchwyd		×
Defnyddio mesurau ynni-effeithlon		×
Defnyddio dŵr yn ddoeth		×
Gwastraff yn deillio		×

C 15.1 A gafodd yr holl baramedrau perthnasol eu cynnwys yn yr AAS o Dabl 15.1?

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

15.5 Methodoleg AAS CRhT2 Gorllewin Cymru

15.5.1 Caiff fframwaith yr AAS ei nodi yn **Adran 1.2**. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r camau manwl i'w cymryd wrth gynhyrchu'r Adroddiad Amgylcheddol.

15.5.2 ***Cam 1 – Asesu Polisïau CRhT2:***

15.5.3 Bydd yr Adroddiad Amgylcheddol (ER) yn nodi effeithiau cadarnhaol neu negyddol arwyddocaol tebygol y themâu arfaethedig ar yr amcanion amgylcheddol a dangosyddion perthnasol (gan gynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol, uniongyrchol, anuniongyrchol, tymor byr, canolig a hir, parhaol a thros dro). Bydd yr ER hefyd yn nodi mesurau lliniaru fydd yn ceisio osgoi, lleihau neu wneud iawn am effeithiau andwyol sylweddol a allai ddeillio o'r cynllun arfaethedig (gwelwch isod). Mae cyfeiriad at effeithiau cronnus polisïau arfaethedig, gyda dadansoddiad ohonynt yn cael ei ddisgrifio yng Ngham 2. Bydd arwyddocâd effeithiau'n cael ei briodoli a'i gyflwyno yn **Nhabl 15.2**.

15.5.4 Trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, yn fras, dosbarthwyd effeithiau fel cadarnhaol neu negyddol, gyda'r disgrifydd 'mân', 'sylweddol' neu 'niwtral' yn cael ei ddefnyddio i ddynodi os yw'r effaith yn arwyddocaol neu beidio ar sail meini prawf arbennig.

15.5.5 ***Cam 2 – Asesu Effeithiau Cronnus Polisïau CRhT2:***

15.5.6 Bydd y dadansoddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth a gynhyrchwyd gan yr asesiadau o bolisïau unigol yn nogfen CRhT2 Gorllewin Cymru a wnaed yng Ngham 1. Bydd holl effeithiau polisïau arfaethedig yn cael eu nodi a'u pennu, gan ystyried a oes effeithiau amgylcheddol cronnus arwyddocaol yn debygol o ddigwydd.

15.5.7 ***Cam 3 – Cyfundrefn Liniaru ac Arolygu ar gyfer CRhT2***

Bydd unrhyw fesurau lliniaru neu ddangosyddion arolygu sy'n ofynnol o ganlyniad i'r AAS yn cael eu manylu'n eglur ac yn cael eu rhestru yn yr ER ac, yn y pen draw, yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r CRhT. Mae'r agwedd hon yn darparu'r peirianwaith mwyaf cadarn ar gyfer cyflawni, oherwydd bod y Cynllun Gweithredu a) yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r CRhT a b) yn adeiladu ar y swyddogaethau trefnyddol a ddatblygwyd ym mhroses y CRhT.

15.5.8 Wrth ddeillio'r dangosyddion arolygu arfaethedig bydd sylw arbennig yn cael ei roi i ddangosyddion sy'n perthyn i'r effeithiau a farnwyd fwyaf tebygol o ddigwydd, yn ogystal â'r rhai gyda'r gallu i beri effaith sylweddol ar yr amgylchedd.

15.5.9 Bydd yr ER hefyd yn cyd-fynd â chyhoeddi drafft CRhT2 a bydd adroddiad ar y camau sy'n cael eu cymryd o ganlyniad i ymateb y cyhoedd yn y PAS.

Sylwch: Mae'n bwysig nodi bod yr agwedd at AAS ar gyfer CGRhT2 Gorllewin Cymru ar lefel uwch nag a fyddai'n cael ei chymrwd at Asesu Effaith Amgylcheddol (AEA) prosiect penodol. O ganlyniad, mae effeithiau'n cael eu targedu ar faterion 'rhanbarthol' ac, fel y cyfryw, ystyriwyd bod y dangosyddion sy'n rhoi canolbwynt rhanbarthol yn bwysicach na'r rhai sy'n rhoi gwybodaeth ar raddfa leol neu sirol. Mae hyn yn unol â Chyfarwyddeb AAS.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

15.6 Methodoleg Ragfynegi a Chloriannu

15.6.1 Caiff y fethodoleg arfaethedig ar gyfer nodi a rhagweld effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol gweithredu'r cynllun ei disgrifio isod. I ragweld effeithiau amgylcheddol gweithredu CRhT2, bydd y model ffynhonnell-llwybr-derbynnydd (SPR) sy'n cael ei dderbyn yn eang yn cael ei fabwysiadu fel y mynegir yn **Ffigur 15.1**. Felly, bydd effeithiau posibl polisïau'r CRhT yn cael eu penderfynu ar sail archwilio ffynonellau effaith all ddigwydd (ffisegol, cemegol neu fiolegol), y llwybr ar hyd yr hwn y gallai'r effaith ddylanwadu ar dderbynnydd (e.e. tarfu ôl troed uniongyrchol neu newid proses arfordirol anuniongyrchol) a'r amgylchedd neu adnodd sy'n derbyn (y derbynnydd).

Ffigur 15.1 Y Model Ffynhonnell-Llwybr-Derbynnydd fel y Cymhwyswyd i AAS



15.6.2 Yna caiff arwyddocâd yr effeithiau ei gloriannu ar sail ystyried maint yr effaith all fod, gwerth a sensitifedd yr amgylchedd sy'n derbyn (y derbynnydd), a thebygolrwydd y bydd yr effaith yn digwydd.

15.6.3 Mae'r maint yn cyfeirio at 'faint' neu 'swm' yr effaith mewn perthynas â'r derbynnydd, a chyfnod yr effaith. Rhaid nodi bod hyn hefyd yn ystyried 'cyd-destun' y derbynnydd mewn perthynas â'i brinder neu gyffredinedd, sydd hefyd yn gysylltiedig â gwerth y derbynnydd.

15.6.4 Bydd gwerth a sensitifedd y derbynnydd yn ffwythiant amrywiaeth o ffactorau e.e. gwerth i fioamrywiaeth, gwerth cymdeithasol / cymunedol a gwerth economaidd. Mae modd penderfynu gwerth neu werth dichonol adnodd neu nodwedd mewn cyd-destun daearyddol diffiniedig. Caiff yr hierarchaeth ganlynol ei chymeradwyo gan IEEM (2006) mewn perthynas â pharamedrau ecolegol (a chaiff hyn hefyd ei ddwyn drosodd i baramedrau cymdeithasol, economaidd, yr amgylchedd adeiledig a pharamedrau eraill):

- Rhyngwladol
- Y DU;
- Cenedlaethol (h.y. Cymru / Gogledd Iwerddon / Lloegr / Yr Alban);
- Rhanbarthol;
- Sirol (neu Fetropolitanaidd – e.e. yn Llundain);
- Dosbarth (neu Awdurdod Unedol, Dinas neu Fwrdeistref);
- Lleol neu Blwyf; ac
- O fewn parth dylanwad yn unig (a allai fod yn safle'r prosiect neu ardal fwy).

15.6.5 Mewn perthynas â thebygolrwydd y bydd effaith yn digwydd gallai'r tebygolrwydd hwnnw ddylanwadu ar faint yr effaith, yn enwedig lle nad oes fawr ddim tystiolaeth na pherygl effaith ar, er enghraifft, derbynnydd o bwys cenedlaethol.

15.6.6 Gan ddefnyddio gwerthoedd a sensitifedd y derbynnydd, ynghyd â maint yr effaith, a thebygolrwydd y bydd yr effaith yn digwydd, bydd arwyddocâd yr effeithiau all fod yn cael ei benderfynu.

15.6.7 Bydd y penderfynu a chloriannu hwn yn waith ansoddol seiliedig ar farn broffesiynol, gyda chefnogaeth deunydd darllen a adolygwyd gan gydweithwyr lle bo modd. O dderbyn natur

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

polisi CRhT sy'n lefel uchel ac felly'n brin o fanylion cynllun gwirioneddol, mae'n bwysig pwysleisio y bydd yr asesiad ar sail effeithiau sefydledig ble bynnag y bo modd, ond bydd yn dibynnu'n drwm ar farn arbenigol ar effeithiau disgwyliedig. Bydd perfformiad pob polisi CRhT2 gyferbyn â phob maen prawf asesu yn cael dosbarthiad arwyddocâd yn ogystal â chrynodeb disgrifiadol byr (e.e. effeithiau negyddol helaeth heb ansicrwydd).

15.6.8 Ar gyfer pob polisi CRhT2, bydd y tabl asesu hefyd yn cynnwys sail resymegol fwy cynhwysfawr o'r broses farnu a ddefnyddiwyd i benderfynu effeithiau amgylcheddol ac arwyddocâd tebygol pob polisi CRhT2. Yn arbennig, bydd yr ystyriaethau canlynol yn hollbwysig wrth benderfynu effaith amgylcheddol ac arwyddocâd tebygol:

- Gwerth a sensitifedd y derbynyddion;
- A yw'r effaith yn barhaol / dros dro;
- A yw'r effaith yn gadarnhaol / negyddol;
- A yw'r effaith yn debygol / annhebygol;
- A yw'r effaith yn aml / anfynych;
- A yw'r effaith yn uniongyrchol / anuniongyrchol; ac
- A fydd yna effeithiau eilaidd, cronnus a/neu synergaidd?

15.6.9 Yn fras, bydd yr effeithiau'n cael eu dosbarthu fel naill ai cadarnhaol neu negyddol, gyda'r disgrifydd 'mân', 'sylweddol' neu 'niwtral' yn cael ei ddefnyddio i ddynodi a yw'r effaith yn sylweddol neu beidio ar sail meini prawf arbennig. Caiff disgrifiad manwl ei gyflwyno yn **Nhabl 15.2.**

15.6.10 Bydd yr asesiad yn cael ei gofnodi mewn cyfres o dablau asesu fel sy'n cael eu dangos yn yr enghraifft yn **Nhabl 15.3**, gyda phob polisi CRhT2 yn elwa ar adroddiad eglur ac agored o'i effeithiau tebygol ar yr amgylchedd ac arwyddocâd effeithiau o'r fath, gan gynnwys a yw'r effaith yn uniongyrchol, anuniongyrchol, eilaidd, parhaol neu dros dro. Caiff effeithiau cronnus eu hasesu ar wahân wrth gwblhau'r asesiad dechreuol.

15.6.11 Bydd angen data i gefnogi asesiad o effeithiau tebygol ar amrywiaeth o dderbynyddion amgylcheddol. Bydd yr asesiad hwn ar sail gwybodaeth sydd ar gael a bydd yn ystyried natur gymharol haniaethol polisi CRhT2 (mewn cymhariaeth â data lefel cynllun).

15.6.12 Ystyriwyd defnyddio derbynyddion priodol wrth ddatblygu meini prawf asesu, fel bod disgrifiad eglur o sut mae CRhT2 yn effeithio ar bob derbynnydd (mewn ymateb i faterion amgylcheddol arfordir Gorllewin Cymru). Lle bo bylchau yn y wybodaeth (cysylltiedig â'r wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi asesiad o'r cyswllt rhwng polisi a derbynnydd), bydd barn arbenigol yn cael ei defnyddio neu benderfyniad o effaith anfesuradwy yn cael ei gofnodi.

Sylwch: Mae'n bwysig nodi bod yr agwedd at AAS ar gyfer CGRhT2 Gorllewin Cymru ar lefel uwch nag a fyddai'n cael ei chymrwd at Asesu Effaith Amgylcheddol (AEA) prosiect penodol. O ganlyniad, mae effeithiau'n cael eu targedu ar faterion 'rhanbarthol' ac, fel y cyfryw, ystyriwyd bod y dangosyddion sy'n rhoi canolbwynt rhanbarthol yn bwysicach na'r rhai sy'n rhoi gwybodaeth ar raddfa leol neu sirol. Mae hyn yn unol â Chyfarwyddeb AAS.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tabl 15.2 Meini Prawf Arwyddocâd i'w defnyddio wrth Asesu Effeithiau

Sgôr	Disgrifiad
Cadarnhaol Iawn ✓✓✓	Mae'r polisi'n debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar baramedrau pwysig yn genedlaethol (neu'n rhyngwladol), neu gyflawni'r amcan cynaliadwyedd yn sylweddol. Gall yr effeithiau cadarnhaol fod yn fyrdymor ar raddfa fawr neu hirdymor ac ar raddfa genedlaethol. Yn ogystal, mae effeithiau cadarnhaol cronnus ac anuniongyrchol sylweddol yn debygol o fewn ac oddi allan i ardal CRhT2 Gorllewin Cymru.
Cadarnhaol Cymedrol ✓✓	Mae'r polisi'n debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar baramedrau pwysig yn rhanbarthol, neu gyflawni'r amcan cynaliadwyedd yn gymedrol, neu effaith gadarnhaol sylweddol ar raddfa leol. Gall yr effeithiau cadarnhaol fod yn fyrdymor ar raddfa fawr neu hirdymor ac ar raddfa ranbarthol. Byddai effeithiau cronnus cadarnhaol yn digwydd rhwng cylchoedd lleol neu nifer o baramedrau.
Mân Gadarnhaol ✓	Mae'r polisi'n debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar baramedrau pwysig yn lleol, neu gyflawni'r amcan cynaliadwyedd i raddau. Byddai effeithiau'n fyrdymor a hirdymor, neu gallent fod yn effeithiau negyddol cymedrol yn y byrdymor. Fe all fod effeithiau cronnus neu anuniongyrchol cyfyngedig os o gwbl yn ardal CRhT2 Gorllewin Cymru.
Niwtral **O**	Ni fyddai gan y polisi unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol nac yn newid yr amcan yn y byrdymor neu hirdymor. Mae sgôr niwtral yn codi pan fo cryn dipyn o sicrwydd nad oes rhagolwg o effaith gadarnhaol na negyddol, neu pan fyddai effaith yn ddibynnol ar leoliad mesurau polisi o'r fath.
Mân Negyddol ×	Mae'r polisi'n debygol o arwain at effaith negyddol ar baramedrau pwysig yn lleol, neu ostwng ychydig ar yr amcan cynaliadwyedd. Byddai effeithiau'n fyrdymor a hirdymor, neu gallent fod yn effeithiau negyddol cymedrol yn y byrdymor. Fe all fod effeithiau cronnus neu anuniongyrchol cyfyngedig os o gwbl yn ardal CRhT2 Gorllewin Cymru.
Negyddol Cymedrol ××	Mae'r polisi'n debygol o arwain at effaith negyddol ar baramedrau pwysig yn rhanbarthol, neu ostwng yr amcan cynaliadwyedd yn gymedrol. Byddai effeithiau'n fyrdymor a hirdymor, neu gallent fod yn effeithiau negyddol sylweddol yn y byrdymor. Gall y polisi fod ag effeithiau cronnus ac anuniongyrchol cyfyngedig mewn ardal prosiect.
Negyddol Iawn ×××	Mae'r polisi'n debygol o effeithio'n negyddol ar baramedrau pwysig yn genedlaethol (neu'n rhyngwladol) neu gyfres o effeithiau (cronnus) hirdymor ar raddfa fach. Mae'r polisi'n debygol o darfu'n sylweddol ar gyflawni'r amcan cynaliadwyedd. Gall effeithiau anuniongyrchol ymestyn oddi allan i ardal CRhT2 Gorllewin Cymru hefyd.
Cymysg ✓✓/× neu ✓/××	Mae disgwyl i'r polisi arwain at effeithiau cadarnhaol a negyddol. Gallai effeithiau cymysg fod yn sylweddol yn yr hirdymor a pheri effeithiau cronnus.
Anfesuradwy **?**	Mae maint effaith y polisi'n anrhagweladwy, ond caiff barn ei mynegi ar faint yr effaith mewn perthynas â'r amgylchedd sy'n dylanwadu at ei gilydd. Gall yr effaith fod yn ddibynnol ar lawer o ffactorau nad oes modd gwybod beth ydynt yn strategol fel hyn, er enghraifft pan fo'r dewis yn cwmpasu amrywiaeth o faterion, neu pan fydd gweithrediad yn penderfynu'r effaith.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tabl 15.3 Dull Deillio Effeithiau amgylcheddol ac Arwyddocâd Tebygol

Sail resymegol / cefndir	Canlyniadau disgwyliedig	Effaith debygol	Asesiad / argymhelliad
		Manylu effeithiau: • Parhauster • Maint • Cyfeiriad • Amlder • Graddfa • Parhad • Effeithiau eilaidd, cronnus neu synergaidd. Sensitifedd (pwysigrwydd) yr adnodd. Tebygolrwydd yr effaith.	

15.6.13 Lle nodwyd a gwerthuswyd effeithiau a allai fod yn negyddol iawn, bydd mesurau lliniaru'n cael eu harchwilio i gael gwybod a oes ffurfiau arbennig ar reoli'r arfordir neu ble fyddai modd gwneud newidiadau polisi neu unrhyw gamau gweithredu eraill i atal, lleihau cymaint â phosibl neu wneud iawn am / adfer yr effaith. Iawndal yw'r gobaith olaf, tra bo atal yn ateb gorau ble bynnag y bo modd (a phan nad yw hyn yn gwrthdaro â derbynyddion eraill neu'n peri mwy fyth o effeithiau negyddol arnynt).

15.7 Cyflwyniad i Amcanion yr AAS

15.7.1 Nod datblygu cynaliadwy yw cydbwyso cynnydd economaidd gydag anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol, a pheidio â chymryd adnoddau y gall cenedlaethau'r dyfodol fod eu hangen i oroesi a datblygu. Polisïau rheoli traethlin yn gynaliadwy fydd y rhai sy'n ystyried y cysylltiadau ag amddiffynfeydd, datblygiadau a phrosesau eraill, ac sy'n osgoi, mor bell ag y bo modd, ymrwymo cenedlaethau a ddaw i ddewisiadau amddiffyn anhyblyg a drud. Dylai gweithredu'r polisïau elwa rhanddeiliaid a chynorthwyo gwella'r amgylchedd, yn genedlaethol ac yn lleol. Mewn perthynas â'r arfordir, mae ansawdd amgylcheddol yn cynnwys daeareg a geomorffoleg, tirwedd, treftadaeth, planhigion ac anifeiliaid a'u cynefinoedd cysylltiedig, ansawdd ac adnoddau dŵr (ar gyfer bodau dynol a'r amgylchedd naturiol), a'r "asedau" a "adnoddau" amgylcheddol niferus eraill.

15.7.2 Amcanion cynaliadwyedd yw'r arf hanfodol ar gyfer cymharu a phenderfynu wrth greu a dewis polisïau CRhT2. Caiff amcanion CRhT2 Gorllewin Cymru eu cyflwyno yn **Nhabl 15.4**, a seiliwyd ar amcanion CRhT2 Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr cyffiniol i'r dwyrain o'r Gogarth (Halcrow, 2010) er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr unedau CRhT yn ogystal â chysondeb wrth asesu effeithiau posibl polisïau'r CRhT. Ychwanegwyd at y dangosyddion a gyflwynwyd gyda'r amcanion cynaliadwyedd (Halcrow, 2010) pan oedd hynny'n berthnasol i ardal astudiaeth y CRhT hwn. Mae'r dangosyddion yn sicrhau bod modd gwneud asesiad gwrthrychol a mesuradwy o'r polisïau ble bynnag y bo modd, gan roi mwy o eglurder. Gall y dangosyddion hyn hefyd ddarparu rhai o'r dangosyddion allweddol fyddai'n cael eu defnyddio i gadw golwg ar bolisïau CRhT2 i'r dyfodol.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Table 15.4 Amcanion a Dangosyddion Cynaliadwyedd CRhT2 Gorllewin Cymru

Amcan AAS	Nodweddion dan yr amcan (yn dilyn cwmpasu)	Dangosydd	Targed
Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid			
Cynorthwyo prosesau naturiol a chynnal a gwella cyfanrwydd safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol a chynnal / cyflawni cyflwr ffafriol eu nodweddion diddordeb (cynefinoedd a rhywogaethau)	• Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) • Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) • Safleoedd Ramsar ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig	Statws cadwraeth dywededig o safleoedd cadwraeth rhyngwladol cysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydiad	Dim dirywiad yn statws cadwraeth safleoedd dynodedig o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau rheoli perygl llifogydd / erydiad.
Osgoi effeithiau andwyol ar ddiddordeb dynodedig safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol, eu gwarchod a'u gwella lle bo hynny'n ymarferol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffafriol.	• Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) • Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG)	Statws cadwraeth dywededig safleoedd cadwraeth cenedlaethol cysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydiad	Dim dirywiad yn statws cadwraeth safleoedd dynodedig o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau rheoli perygl llifogydd / erydiad.
Osgoi effeithiau andwyol ar ddiddordeb dynodedig safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn lleol, eu gwarchod a'u gwella lle bo hynny'n ymarferol (mae hefyd yn cynnwys Treftadaeth y Ddaear, Priddoedd a Daeareg)	• Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNL) • Gwarchodfeydd RSPB Mae hefyd dyletswydd statudol gyffredinol (Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006) i ystyried gwarchod bioamrywiaeth sy'n berthnasol i holl gyrff cyhoeddus ac sy'n ymestyn y tu hwnt i safleoedd dynodedig.	Statws cadwraeth dywededig safleoedd cadwraeth lleol cysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydiad	Dim dirywiad yn statws cadwraeth safleoedd dynodedig o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau rheoli perygl llifogydd / erydiad.
Osgoi effeithiau andwyol ar gynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol, eu gwarchod a'u gwella lle bo hynny'n ymarferol	• Cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol	Cynefin BAP sy'n bresennol	Dim colled o faint cynefin BAP.
Treftadaeth y Ddaear, Priddoedd a Daeareg			
Cynorthwyo prosesau naturiol a chynnal amlygiadau daearegol yn holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol	• Safleoedd Daearegol o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) cysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydiad	Statws cadwraeth dywededig SoDdGA daearegol	Dim dirywiad yn statws cadwraeth safleoedd dynodedig o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau rheoli perygl llifogydd / erydiad.
Cynnal a gwella nodweddion fel amddiffynfa naturiol rhag llifogydd	• Traethau • Cyfundrefnau twyni	Nifer y nodweddion naturiol sydd â swyddogaeth amddiffyn naturiol rhag llifogydd ar hyn o bryd	Colli dim nodweddion naturiol sydd â swyddogaeth amddiffyn naturiol rhag llifogydd ar hyn o bryd.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Amcan AAS	Nodweddion dan yr amcan (yn dilyn cwmpasu)	Dangosydd	Targed
Dŵr			
Rheoli a lleihau perygl llygredd o ffynonellau halogedig	• Safleoedd tirlenwi hanesyddol a gweithredol (ffynhonnell EA), safleoedd diwydiant sylweddol a gwastraff peryglus, tystiolaeth chwedlonol o fwyngloddiau segur, tir a allai fod yn halogedig, dŵr ymdrochi dynodedig, dŵr arwyneb a dŵr codi (e.e. Parthau Diogelu Ffynonellau Dŵr Codi) • Pysgodfeydd masnachol a physgodfeydd cregyn (e.e. Ardaloedd Cynaeafu Pysgod Cregyn)	Nifer y safleoedd llygru a allai fod mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol	Dim cynnydd mewn perygl i safleoedd a allai fod yn llygru sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Cymeriad Tirwedd ac Amwynder Gweledol			
Gwarchod a gwella tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn perthynas â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro ag Amcanion AHNE a Chynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol	Newidiadau yng nghymeriad tirwedd a golygfeydd o fewn: • Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) • Parciau Cenedlaethol • Arfordiroedd Treftadaeth	Cydymffurfio ag amcanion AHNE a'r Parciau Cenedlaethol perthnasol i reoli perygl llifogydd llanwol / erydiad. Newid cymeriad tirwedd o fewn ardaloedd dynodedig.	Dim effeithiau andwyol ar gymeriad tirwedd o fewn safleoedd dynodedig o ganlyniad i newid mesurau rheoli perygl llifogydd / erydiad.
Yr Amgylchedd Hanesyddol (Etifeddiaeth Ddiwylliannol)			
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau a safleoedd rhestredig eraill a'u hamgylchoedd ac etifeddiaeth ddiwylliannol sy'n bwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol.	• Safleoedd Treftadaeth y Byd • Henebion Cofrestredig (SM) (Cymru a Lloegr) • Parciau a Gerddi Cofrestredig • Adeiladau Rhestredig • Ardaloedd Cadwraeth	Ardaloedd o bwysigrwydd pensaernïol ac archeolegol sydd mewn perygl o lifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol	Dim cynnydd mewn perygl llifogydd llanwol / erydu i nodweddion archeolegol sy'n agored i lifogydd / erydiad, o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Asedau Materol			
Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol	• Porthladdoedd, ierdydd cychod, angorfeydd, clybiau hwylio, llwybrau fferi a dyfrffyrdd, gwylwyr y glannau, badau achub ac achubwr. • Mynediad at y môr a mordwyo	Nifer y gweithrediadau a gweithgareddau morol sy'n teimlo effaith llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol	Dim cynnydd yn nifer y gweithrediadau a gweithgareddau morol sy'n teimlo effaith llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Amcan AAS	Nodweddion dan yr amcan (yn dilyn cwmpasu)	Dangosydd	Targed
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i isadeiledd hanfodol a chynnal gwasanaethau hanfodol.	• Traffyrdd, ffyrdd A, B a mân (lle bo cysylltiad yn fater allweddol) • Rheilffyrdd a gorsafoedd • Meysydd awyr • Meysydd awyr rhyngwladol • Gorsafoedd pwmpio, gweithfeydd trin carthion, tyrbinau gwynt, chwareli, cyfleusterau presennol cynhyrchu trydan (e.e. ffermydd gwynt), is-orsafoedd • Mynediad ar gyfer y gwasanaethau brys	Nifer yr asedau isadeiledd hanfodol sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol	Dim cynnydd yn nifer yr asedau isadeiledd hanfodol sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Defnydd Tir			
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i dir amaethyddol a gweithgareddau garddwriaethol	Tir amaeth Graddau 1 – 3a	Graddau tir amaethyddol sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol	Dim perygl llifogydd llanwol / erydiad i dir amaethyddol Graddau 1 – 3a.
Poblogaeth			
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl	• Eiddo ar wahân • Tai mewn pentrefi, trefi a dinasoedd glan môr • Cymunedau	Nifer yr eiddo preswyl sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol	Dim cynnydd yn nifer yr eiddo preswyl sydd mewn perygl llifogydd llanwol neu erydiad arfordirol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol.	• Cyfleusterau cymunedol allweddol agored i niwed (e.e. meddygfeydd, ysbytai, cartrefi henoed, ysgolion, siopau, eglwysi, llyfrgelloedd, prifysgolion ac ati) • Cyfleusterau amwynderol allweddol (e.e. tir agored cyhoeddus ac ati) • Cyfleusterau adloniadol allweddol (e.e. cyrsiau golff, traethau ymdrochi, promenadau ffurfiol, llwybrau beicio cenedlaethol, parciau gwledig, hawliau tramwy cyhoeddus, cestyll a cheyrydd ac ati) • Mynediad at gyfleusterau cymunedol / amwynderol	Nifer y cyfleusterau cymunedol, amwynderol ac adloniadol gwerth uchel sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol	Dim cynnydd yn nifer y cyfleusterau cymunedol, amwynderol ac adloniadol gwerth uchel sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd.	Siopau, swyddfeydd, busnesau, ffatrïoedd, warysau, tir a ddynodwyd i'w adfywio, meysydd carafanau, meysydd awyr, safleoedd tynnu carreg a mwynau, sefydliadau milwrol a mannau cyflogaeth allweddol eraill	Nifer yr asedau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol	Dim cynnydd yn nifer yr asedau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Amcan AAS	Nodweddion dan yr amcan (yn dilyn cwmpasu)	Dangosydd	Targed
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i feysydd tanio'r MoD.	• Safleoedd y MoD (gan gynnwys safleoedd gwaredu yn y DU, safleoedd creiddiol a meysydd tanio)	Nifer safleoedd y MoD sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol	Dim cynnydd yn nifer safleoedd y MoD sydd mewn perygl llifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol i'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.

15.7.3 Canolbwyntiwyd casglu a chrynhoi'r data cysylltiedig â nodi effeithiau presennol amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol ar yr amcanion a'r dangosyddion a all fod yn gysylltiedig â hwy. Yn ogystal, cysylltwyd nodi cyfyngiadau a chyfleoedd hefyd lle bo modd â'r amcanion a dangosyddion.

15.8 Asesiad Cronnus

15.8.1 Effeithiau cronnus yw'r rhai sy'n deillio o newidiadau cynyddol a achoswyd gan ddatblygiadau, cynlluniau neu brosiectau eraill ynghyd â'r CRhT arfaethedig. Mae dau brif fath o effaith gronnus:

- Cyfuniad o wahanol fathau o effeithiau'r amrywiol bolisïau yn y cynllun ar dderbynnydd arbennig (hefyd yn cael eu galw'n 'rhyngweithiad effeithiau'); ac
- Effeithiau amryw bolisïau, cynlluniau neu brosiectau, a allai fod yn ddinod yn unigol ond, o'u hystyried gyda'i gilydd, allai beri effeithiau cronnus arwyddocaol.

15.8.2 Felly, bydd yr asesiad effaith gronnus yn nodi a oes effeithiau cronnus ar draws unedau polisi ac unedau rheoli'r CRhT a allai beri effeithiau negyddol sylweddol, a bydd yn archwilio sut allai polisïau, cynlluniau a phrosiectau eraill ryngweithio a pheri effeithiau cronnus gydag effeithiau polisïau'r CRhT.

15.9 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

15.9.1 Daw'r angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o ofynion Cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE (92/43/EEC) a'i weithrediad yng Nghymru dan IVA y Rheoliadau Cynefinoedd (Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2007). Caiff y weithdrefn ar gyfer yr HRA ei nodi yn rheoliad 85A-E yn Rheoliadau 2007. Yn gryno rhaid i'r HRA wneud asesiad priodol o oblygiadau polisïau'r CRhT ar y Safleoedd Ewropeaidd o ystyried eu hamcanion cadwraeth. Lle polisïau caiff eu hasesu fod ganddynt neu y gallai fod ganddynt effaith andwyol sylweddol ar gyfanrwydd Safleoedd Ewropeaidd, naill ai'n unigol neu ar y cyd, rhaid dangos nad oes unrhyw atebion eraill yn lle'r polisi ac, os felly, rhaid cyflwyno achos dros Resymau Hanfodol er Budd Gor-redol y Cyhoedd (IROPI). Wedyn, byddai angen sicrhau cynefin cydadferol yn y CRhT.

15.9.2 Mae amgylchedd naturiol CRhT2 Gorllewin Cymru o werth cadwraeth uchel a gallai polisïau rheoli traethlin CRhT2 effeithio ar Safleoedd Ewropeaidd sy'n cynnwys ACA ac AGA (gwelwch **Dabl 9.1 a 9.4**). Felly, bydd gofyn HRA er mwyn sicrhau nad yw'r polisïau dewisol ar gyfer rheoli traethlin cysylltiedig â phob uned bolisi yn cael unrhyw effaith sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd, neu nad oes unrhyw atebion eraill a bod y polisi'n ofynnol o ganlyniad i IROP, ac y bydd angen nodi neu gynnwys cynefin cydadferol addas yng nghamau gweithredu'r CRhT.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

15.10 Yr Adroddiad Amgylcheddol

15.10.1 Bydd cyfnod yr adroddiad yn golygu crynhoi pob agwedd ar y broses a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad cwmpasu hwn, a chyflwyno'r canfyddiadau mewn dogfen glir, fanwl, gyffrous, addysgiadol a darllenadwy. Bydd hefyd yn darparu deunydd cyflwyniadol perthnasol y mae modd ei ddefnyddio i hysbysu'r cyhoedd. Bydd yr Adroddiad Amgylcheddol yn cyflwyno'r broses, cwmpasu (gan gynnwys astudiaethau ac arolygon cefndir ategol), ac asesiad CRhT2 Gorllewin Cymru, yn arwain at argymhellion ar gyfer gwaith parhaol.

15.10.2 Yn benodol bydd yr Adroddiad Amgylcheddol yn darparu:

- Crynodeb annhechnegol;
- Cyflwyniad a chefndir;
- Methodoleg (ac ymgynghori);
- Crynodeb o ddiben ac amcanion CRhT2 Gorllewin Cymru;
- Amcanion yr AAS (a blaenoriaethu);
- Man cychwyn amgylcheddol (gan gynnwys agweddau economaidd-gymdeithasol);
- Materion amgylcheddol a chymdeithasol cysylltiedig ag ardal CRhT2 Gorllewin Cymru;
- Disgrifiad o'r dewisiadau a archwiliwyd a'r rhai a wrthododd;
- Nodi effeithiau amgylcheddol gwahanol ddewisiadau;
- Nodi mesurau lliniaru posibl;
- Nodi effeithiau amgylcheddol y dewisiadau ffafriedig;
- Nodi mesurau lliniaru posibl y dewisiadau ffafriedig;
- Ansicrwydd a risgiau;
- Cysylltiadau â chynlluniau a pholisïau penodol i brosiectau; a hefyd
- Cynigion ar gyfer arolygu.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

16 Y CAMAU NESAF

Yn yr adran hon, caiff yr ymgynghori fydd yn digwydd drwy gydol proses yr AAS ei ddisgrifio. O ganlyniad, mae'n amlinellu:

- Diben ymgynghori a'r dulliau sy'n cael eu defnyddio; a
- Sut fydd ymateb yn cael ei gynnwys ym mhroses yr AAS.

16.1 Yr Agwedd at Ymgynghori

16.1.1 Bydd yr ymgynghori ar yr AAS hwn ar sail cyfnod ymgynghori dechreuol ar yr **Adroddiad Cwmpasu** (y ddogfen hon), yn cael ei ddilyn gan gyfnod o ymgynghori ar ddrafft CRhT2, fydd yn cael ei gynnal gan y wybodaeth yn yr **Adroddiad Amgylcheddol** (a dogfennau eraill).

16.1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli diwedd **Cam 1** y broses ymgynghori, lle bu ymgynghori ar fethodoleg, man cychwyn a meini prawf asesu drafft ar gyfer asesiad strategol CRhT2 Gorllewin Cymru. Darparwyd Drafft yr Adroddiad Cwmpasu am bedair wythnos o ymgynghori â chynulleidfa eang, gan gynnwys y canlynol:

- Cyngor Sir Penfro;
- Cyngor Sir Ceredigion;
- Cyngor Sir Powys;
- Cyngor Gwynedd;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- HENEB;
- Network Rail;
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
- CBHC;
- Archeoleg Dyfed; ac
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

16.1.3 Yn ogystal, gwelwyd bod **Adroddiad Cwmpasu'r** A**AS** ar gael i'r cyhoedd ar wefan CRhT Gorllewin Cymru (http://www.westofwalessmp.org/).

16.1.4 Yn dilyn yr ymgynghori ar **Gam 1**, golygwyd a choethwyd yr Adroddiad Cwmpasu hwn. Caiff y newidiadau i'r Adroddiad Cwmpasu eu nodi yn yr ymatebion i sylwadau a wnaed yn **Atodiad E**, ac mae'r man cychwyn, methodoleg ac amcanion cynaliadwyedd a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu terfynol hwn i gael eu defnyddio wrth gloriannu ac asesu polisïau CRhT2.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

16.1.5 Diben allwedd Drafft yr Adroddiad Cwmpasu oedd cael ymateb yr amrywiol asiantaethau a restrwyd uchod a hefyd fel cyfle i ymgyngoreion cyhoeddus roi sylw i'r cwestiynau canlynol:

1. A yw'r adroddiad cwmpasu wedi nodi'r materion amgylcheddol ar arfordir Gorllewin Cymru'n gywir? (h.y. oes yna faterion ychwanegol sydd angen rhoi sylw iddynt?).
2. A yw manylder y man cychwyn yn briodol i gynnal yr asesiad?
3. A yw'r meini prawf asesu'n rhoi peirianwaith priodol ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol CRhT2, ac a ydynt yn berthnasol i'r morlin dan sylw?
4. A yw'r fethodoleg awgrymedig yn cael ei hystyried yn gadarn a phriodol i asesu effeithiau amgylcheddol CRhT2?

16.1.6 Unwaith y dewiswyd y polisïau a ddymunwyd ar gyfer CRhT2 a'u cynnig ar ffurf drafft ymgynghori, bydd **Adroddiad Amgylcheddol** yn cael ei ddarparu sy'n dangos asesiad manwl o'r senarios a ddewiswyd a dewisiadau eraill ymarferol. Bydd yr **Adroddiad Amgylcheddol** hefyd yn cynnwys manylion sut fydd effeithiau CRhT2 yn cael eu harolygu, a'u mesur gyferbyn ag amcanion yr AAS. Bydd yr Adroddiad Amgylcheddol yn cael ei gyflwyno at ymgynghori ochr yn ochr â drafft CRhT2, sy'n ffurfio **Cam 2** proses ymgynghorol yr AAS. Mae disgwyl i hyn ddigwydd ym mis Gorffennaf 2010.

16.1.7 Yn dilyn ymgynghori **Cam 2**, bydd CRhT2 yn cael ei derfynu, a bydd **Datganiad Wedi Mabwysiadu** yn cael ei gynhyrchu, fydd yn nodi sut yr ystyriwyd atebion y cyhoedd (ac asiantaeth statudol) yn yr **Adroddiad Amgylcheddol**. Os oes angen newidiadau i ddrafft CRhT2 ar ôl ymgynghori, bydd **Adroddiad Amgylcheddol** diwygiedig yn cael ei gyflwyno ar gyfer rhagor o ymgynghori. Bydd hyn yn ffurfio **Cam 3** proses ymgynghorol yr AAS.

16.2 Materion Allweddol a Godwyd trwy Ymgynghori

16.2.1 Caiff materion allweddol a godwyd trwy'r broses ymgynghori ar Ddrafft yr Adroddiad Cwmpasu eu cyflwyno yn **Atodiad E** a byddant yn porthi proses yr AAS.

16.2.2 Bydd materion allweddol o'r gwaith ymgynghori hwn yn cael eu manylu hefyd yn yr **Adroddiad Amgylcheddol**.

C 16.1 Oes yna unrhyw ymgyngoreion ychwanegol neu benodol y dylid anfon yr Adroddiad Amgylcheddol atynt i gael eu sylwadau?

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

17 CYFEIRIADAU

CCGC (2001). *Arweiniad i Arferion Gorau Asesu Morweddau*. Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

CCGC (2006). *Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yng Nghymru – Adroddiad ar sefyllfa bresennol gwybodaeth Ebrill 2005 – Mawrth 2006*. Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, English Nature, Asiantaeth yr Amgylchedd, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (2004). *Asesiad Amgylcheddol Strategol a Bioamrywiaeth: Canllawiau i Ymarferwyr*.

DEFRA (2004). *Canllawiau ar AAS*. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

DEFRA (2006a). *Canllawiau Cynlluniau Rheoli Traethlin Cyfrol 1: Nodau a Gofynion*. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

DEFRA (2006b). *Canllawiau Cynlluniau Rheoli Traethlin Cyfrol 2: Gweithdrefnau*. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

DEFRA (2006c). *FCDPAG3 Arfarniad Economaidd: Nodyn Atodol i Awdurdodau Gweithredu – Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd*.

Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2004/20041656e.htm

FSA (2008). *Dosbarthiadau Cynaeafu Pysgod Cregyn Cymru a Lloegr: 2008-2009*. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd. http://www.food.gov.uk/foodindustry/farmingfood/shellfish.

Halcrow (2010). *ChRhT2 Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr – Drafft Ymgynghori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) Adroddiad*. Ar ran Cyngor Blackpool.

Haskoning (2009). *CRhT2 Gorllewin Cymru: Adolygiad o Brosesau'r Arfordir a Daeareg (Cyflwyniad)*.

Sefydliad Ecoleg a Rheoli'r Amgylchedd (2006). *Canllawiau i Asesiad Effaith Ecolegol yn y Deyrnas Unedig*. http://www.ieem.net/ecia/.

SDBW (2005a). *Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol*. Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

SYG (2004). *Cyfrifiad 2001*. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. www.statistics.gov.uk/census2001/default.asp

SYG (2007). *Ystadegau'r Boblogaeth ac Ystadegau Bywyd Allweddol – Ardaloedd Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Iechyd*. Cyfres VS Rhif 33, PPI Rhif 21. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Walmsley S.A. a Pawson, M.G (2007). *The coastal fisheries of England and Wales, Part V: a review of their status 2005–6.* Sci. Ser. Tech Rep., Cefas Lowestoft, 140: 83 tud.

LlCC (2002). Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

LlCC (2007). Strategaeth Dwristiaeth Glan Môr Cymru, drafft dogfen strategaeth derfynol Ionawr 2007. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

LlCC (2008a). Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Ebrill 2008. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

LlCC (2008b). Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl. Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. G/MH/2589/04-08.

LlCC (2009). Poblogaeth Cymru: Trosolwg Demograffig 2009. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

18 ABBREVIATIONS AND ACRONYMS

AA	Adroddiad Amgylcheddol
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
BAP	Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth
Cadw	Henebion Cymru
CCW	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CE	Y Comisiwn Ewropeaidd
CFfD	Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
DBA	Dosbarth Basn Afon
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
DU	Y Deyrnas Unedig
EAW	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
GIS	System Gwybodaeth Ddaearyddol
Ha	Hectarau
JNCC	Cydbwyllgor Cadwraeth Natur
km	Cilometr
km^2	Cilometr sgwâr (neu 100ha)
LBAP	Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
m	Metrau
MNR	Gwarchodfa Natur Forol
NNR	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
NTS	Crynodeb Annhechnegol
^oC	Graddau Celsius
PPP	Cynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau
RDP	Cynllun Datblygu Gwledig
SFRA	Asesiad Strategol Perygl Llifogydd
SM	Heneb Restredig
SPA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

SR	Adroddiad Cwmpasu
SSSI	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
UDO	Uwchlaw Datwm Ordnans
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
UKCIP	Rhaglen Effaith Newid yn Hinsawdd y UK
WHS	Safle Treftadaeth y Byd
Y&D	Ymchwil a Datblygiad

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

19 GEIRFA

Addaswyd o: http://www.environment-agency.gov.uk/commondata/acrobat/6_chapter_5_glossary__1388113.pdf

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)
Dynodwyd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 i warchod ardaloedd o gefn gwlad gydag ansawdd olygfaol arbennig nad oes modd eu dewis ar gyfer statws Parc Cenedlaethol oherwydd diffyg cyfleoedd hamdden awyr agored ynddynt (un o amcanion hanfodol Parciau Cenedlaethol). Yr Asiantaeth Cefn Gwlad sy'n gyfrifol am ddynodi AHNE a chynghori'r Llywodraeth ac eraill ar sut y dylid eu gwarchod a'u rheoli. Mae rhagor o wybodaeth am AHNE i'w chael yn http://www.aonb.org.uk/

Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth (BAP)
Cynllun a gytunwyd ar gyfer cynefin neu rywogaeth, sy'n ffurfio rhan o ymrwymiad y DU i fioamrywiaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan BAP: http://www.ukbap.org.uk

Y Gyfarwyddeb Adar
Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd (79/409/EEC) ar warchod adar gwyllt. Gweithredwyd yn y DU fel Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) 1994. I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch â gwefan Gwasg Ei Mawrhydi:
http://www.hmso.gov.uk/si/si1994/Uksi_19942716_en_1.htm

Cyrff Ymgynghori
Awdurdodau sydd, oherwydd eu cyfrifoldebau amgylcheddol, yn debygol o fod â diddordeb mewn effeithiau gweithredu cynlluniau a rhaglenni ac y mae'n orfodol ymgynghori â hwy ar gyfnodau penodedig yr AAS.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Corff cyhoeddus anadrannol sy'n gyfrifol am gyflawni polisi'r llywodraeth ar yr amgylchedd a rheoli perygl llifogydd yng Nghymru.

Arfarniad Amgylcheddol
Ffurf ar asesiad amgylcheddol sy'n cael ei defnyddio yn y DU (yn bennaf ar gyfer cynlluniau datblygu) ers y 1990au cynnar, gyda chefnogaeth "Arfarniad Amgylcheddol o Gynlluniau Datblygu: Arweiniad Arferion Da" (DoE, 1993); disodlwyd yn fwy diweddar gan arfarniad o gynaliadwyedd. Mae rhai agweddau ar arfarniad amgylcheddol yn rhagfynegi gofynion y Gyfarwyddeb AAS.

Asesu'r Effaith Amgylcheddol (AEA)
Yn gyffredinol, dull neu weithdrefn ar gyfer rhagweld effeithiau cynnig ar yr amgylchedd, naill ai brosiect unigol neu "strategaeth" lefel uwch (polisi, cynllun neu raglen), gyda'r bwriad o ystyried yr effeithiau hyn wrth wneud penderfyniadau. Caiff y term "Asesu'r Effaith Amgylcheddol" (AEA) ei ddefnyddio, fel yng Nghyfarwyddeb Ewropeaidd 337/85/EEC, wrth asesu prosiectau. Haenau o asesiad amgylcheddol yw AAS ac AEA – y cyntaf yn cael ei wneud yn strategol a'r ail ar lefel prosiect.

Adroddiad Amgylcheddol (AA)
Dogfen ofynnol gan Gyfarwyddeb AAS fel rhan o asesiad amgylcheddol, sy'n nodi, disgrifio a chloriannu effeithiau sylweddol tebygol gweithredu cynllun neu raglen ar yr amgylchedd.

Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (AAS)
Cyflwynodd y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF; rhagflaenydd DEFRA) gynlluniau AAS yn 1987 a chânt eu dynodi yn ôl darpariaethau adrannau 18 a 19 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1986 a Gorchymyn Dynodi Ardaloedd o Sensitifrwydd Amgylcheddol Arbennig (Cyfnod II) (Newid) (Rhif 2) 2001. DEFRA sy'n eu llywodraethu ac

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

maent yn cynnig cymhellion (dan gytundeb 10 mlynedd gyda chymal terfynu 5 mlynedd) i annog amaethwyr i fabwysiadu arferion amaethyddol fyddai'n gwarchod a gwella rhannau o'r wlad yn arbennig o werth mawr oherwydd tirwedd, bywyd gwyllt neu hanes. Mae rhagor o fanylion i'w cael ar wefan DEFRA:
http://www.defra.gov.uk/erdp/schemes/esas/default.htm

Cyrch
Y pellter y bydd gwynt yn chwythu dros y môr.

Map Llifogydd
Y Map Llifogydd yw map gwybodaeth gyhoeddus Asiantaeth yr Amgylchedd am orlifdiroedd. Mae'n dangos meintiau'r Parth Llifogydd, sy'n anwybyddu amddiffynfeydd, lleoliad amddiffynfeydd dyrchafedig, a'r arwynebedd sy'n elwa ar amddiffynfeydd. Ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd, mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am debygolrwydd gorlifo darnau cyffredinol o dir.

Dynodiad Cyfarwyddeb Pysgodfeydd Dŵr Croyw
Bwriad Cyfarwyddeb 78/659/EEC y Gymuned Ewropeaidd ar Ansawdd Dyfroedd Croyw sydd Angen eu Gwarchod neu Wella er mwyn Cynnal Bywyd Pysgod ('Cyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw') yw gwarchod a gwella ansawdd dŵr ac mae'n ffurfio rhan o raglen arolygu ansawdd dŵr Asiantaeth yr Amgylchedd. Dan y Gyfarwyddeb roedd gofyn i Lywodraeth y DU ddynodi dau ddosbarth o ddŵr: dyfroedd addas ar gyfer rhywogaethau eogiaid (dyfroedd sy'n gallu cynnal pysgod o'r teulu Salmonidae, yn bennaf eogiaid a brithyll ond hefyd penllwyd) a dyfroedd addas ar gyfer sypriniaid (o'r teulu Cyprinidae ynghyd â phenhwyad, draenogyn dŵr croyw a llysywen). Mae'r Gyfarwyddeb yn pennu safonau ar gyfer gwarchod pysgodfeydd dŵr croyw, cysylltiedig ag ansawdd y dŵr yn bennaf, ac mae'n gofyn bod darnau arbennig o ddŵr yn cyrraedd y safonau hyn er mwyn i bysgod allu byw neu fagu. I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch â'r wefan: http://www.environment-agency.gov.uk/

System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)
System gyfrifiadurol yw GIS ar gyfer cipio, cadw, cadarnhau, cyfuno, trin, dadansoddi ac arddangos data gofodol.

Dŵr Codi
Dŵr sy'n digwydd dan ddaear mewn ffurfiannau naturiol (creigiau, graeanau a thywodydd yn nodweddiadol).

Dangosydd
Mesur o newidynnau dros gyfnod, yn cael ei ddefnyddio'n aml i fesur cyflawni amcanion.

Defnydd Tir
Dynodiadau amrywiol o weithgareddau, datblygiadau, cnydau, ac ati y caiff tir ei ddefnyddio ar eu cyfer.

Rheoli Tir
Amrywiol weithgareddau cysylltiedig ag arferion amaethyddol, coedwigaeth, ac ati.

Cynlluniau Datblygu Awdurdodau Lleol
Yn gyffredinol mae'r cynlluniau datblygu tir statudol hyn yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd o ddyddiad eu mabwysiadu.

Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth (LBAP)
Agenda lleol (a gynhyrchir gan yr awdurdod lleol) gyda chynlluniau a thargedau i warchod a gwella bioamrywiaeth a chyflawni datblygiad cynaliadwy. Rydym yn ymrwymo i Gynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth ac yn gweithio gyda llywodraeth ganolog (Uwch-gynhadledd y Ddaear yn Rio di Janeiro, 1992) i wireddu amcanion LBAP.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Lliniaru
Caiff ei ddefnyddio yn yr AAS hwn i gyfeirio at fesurau i osgoi, lleihau neu wneud iawn am effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd.

Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG)
Caiff Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol eu dynodi dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 neu Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y newidiwyd) yn bennaf ar gyfer gwarchod natur, ond gallant hefyd gynnwys safleoedd gyda nodweddion daearegol o ffisiograffig arbennig. Cawsant eu sefydlu i warchod yr ardaloedd pwysicaf o gynefin bywyd gwyllt a ffurfiannau daearegol ym Mhrydain, ac fel mannau ar gyfer ymchwil wyddonol. Mae pob GNG yn "bwysig yn genedlaethol" ac yw enghreifftiau gorau o gynefin / ecosystem arbennig. Caiff GNG ddynodiad SoDdGA dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y newidiwyd).

Parciau Cenedlaethol
Darnau eang o gefn gwlad a ddynodwyd dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 oherwydd eu harddwch naturiol a'u cyfleoedd adloniant awyr agored. Mae dynodiad yn cefnogi gwarchod a gwella eu tirweddau, bywyd gwyllt ac etifeddiaeth ddiwylliannol, a hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'u rhinweddau arbennig. I gael rhagor o wybodaeth, ymwelwch â gwefan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
http://www.anpa.gov.uk/

Amcan
Datganiad o'r hyn a fwriadwyd, gan fanylu ar gyfeiriad dewisol newid mewn tueddiadau.

Datwm Ordnans Newlyn
System draddodiadol o gyfesurynnau fertigol yw Datwm Ordnans Newlyn (ODN), yn cynnwys datwm medrydd llanw gyda man dechreuol yn Newlyn (Cernyw) a Ffrâm Cyfeirnodau Daearol a grëwyd gyda lefel wirod rhwng 200 o feincnodau sylfaenol ar hyd a lled Prydain. Mae gan bob meincnod uchder orthometrig yn unig (nid uchder elipsoid na sefyllfa lorweddol fanwl). Mae'r system gyfesurynnau hon yn bwysig am ei bod yn cael ei defnyddio i ddisgrifio sefyllfaoedd fertigol nodweddion ar fapiau Prydeinig (er enghraifft, pwyntiau uchder a chyfuchliniau) fel uchder uwchlaw lefel môr cymedrig. A bod yn fanwl gywir, mae'r gair Datwm yn y teitl yn cyfeirio at bwynt dechreuol y medrydd llanw yn unig, yn hytrach na'r meincnodau cenedlaethol a lefelwyd.

Cynllun neu Raglen
Mae'r term "cynllun neu raglen" yn cynnwys unrhyw gynlluniau neu raglenni y mae Cyfarwyddeb AAS yn berthnasol iddynt.

Safle Ramsar
Tiroedd gwlyb pwysig yn rhyngwladol a ddynodwyd dan Gytundeb Ramsar 1971 ar 'Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol yn Enwedig fel Cynefin Adar Dŵr'. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan Gytundeb Ramsar ar wlyptiroedd: http://www.ramsar.org/

Awdurdod Cyfrifol
Y sefydliad sy'n paratoi cynllun neu raglen dan y Gyfarwyddeb ac sy'n gyfrifol am yr AAS.

Amcan Ansawdd Afonydd (RQO)
Caiff afonydd a chamlesi eu harolygu dan ofynion y Deddf Adnoddau Dŵr 1991. Rhoddodd y ddeddfwriaeth hon awdurdod i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a thros Gymru i bennu Amcanion Statudol Ansawdd Dŵr i sicrhau safonau ansawdd dŵr penodol. I ateb y gofyniad hwn rydym ni, fel y corff statudol enwebedig, wedi sefydlu cyfundrefn ddosbarthu Amcan Ansawdd Afonydd (RQO). Ar hyn o bryd, caiff RQO eu dosbarthu trwy ddefnyddio Dosbarthiad Ecosystem Afonydd (RE), a seiliwyd ar gyfres o baramedrau cemegol

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

ansawdd dŵr a ddiffiniwyd yng Nghyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw y CE (78/659/EEC). Mae pum dosbarth ecosystem afon, o RE1 i RE5. Mae trefn ddosbarthu RQO yn rhoi syniad o amgylchiadau ansawdd y dŵr yr hoffem eu gweld yn holl afonydd sylweddol ond nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol yn uniongyrchol gysylltiedig â hi. Yn hytrach, mae'r system RQO yn rhoi syniad o ansawdd dyfroedd 'delfrydol' a, thrwy hynny, mae'n rhoi syniad o'u pwysigrwydd cymharol. I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch â'r wefan ganlynol: http://www.environment-agency.gov.uk

Henebion Cofrestredig
Er mwyn gwarchod safleoedd archeolegol i'r cenedlaethau a ddaw, mae modd "rhestru" y mwyaf gwerthfawr ohonynt. Rhestru yw proses rhoi amddiffyniad cyfreithiol i safleoedd a henebion pwysig yn genedlaethol trwy eu rhoi ar restr, neu 'restru'

Cwmpasu
Proses benderfynu cwmpas a manylder AAS, gan gynnwys yr effeithiau amgylcheddol a gwahanol ddewisiadau sydd angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio a strwythur a chynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol.

Sgrinio
Proses benderfynu a oes angen AAS ar gynllun neu raglen.

Traeth Graean
Traeth graean yw traeth a arfogwyd gyda cherrig mân neu gerrig crynion bach i ganolig. Yn nodweddiadol gall cyfansoddiad y garreg raddoli o feintiau nodweddiadol yn rhedeg o 2 i 200 milimetr o dryfesur.

Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT)
Cynlluniau anstatudol i lunio polisïau cynaliadwy amddiffyn yr arfordir (er mwyn atal erydiad gan y môr a gorlifo tir arfordirol isel), ac i bennu amcanion ar reoli'r draethlin yn y dyfodol. Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol arforol sy'n eu paratoi, yn gweithredu'n unigol neu fel rhan o grwpiau amddiffyn yr arfordir.

Effeithiau Amgylcheddol Sylweddol
Effeithiau ar yr amgylchedd sy'n sylweddol yng nghyd-destun cynllun neu raglen. Caiff meini prawf ar gyfer asesu arwyddocâd eu cyflwyno yn Helaethiad II i'r Gyfarwyddeb AAS.

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
Safleoedd pwysig yn genedlaethol sy'n ffurfio rhwydwaith o enghreifftiau gorau a mwyaf cynrychiadol o nodweddion ein bywyd gwyllt a geoamrywiaeth. Cânt eu dewis a'u dynodi gan CCGC a'u diogelu dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y newidiwyd).

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
Caiff ACA eu dynodi dan Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Gymuned Ewropeaidd yn dwyn yr enw 'Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd'. Mae hon gofyn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau pwysig, prin neu dan fygythiad ar hyd a lled Ewrop.

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
Caiff AGA eu dynodi dan Gyfarwyddeb 79/409/EEC y Gymuned Ewropeaidd, yn dwyn yr enw 'Y Gyfarwyddeb Adar', i warchod cynefinoedd rhai adar ymfudol neu brin.

Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)
Term cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel sy'n berthnasol i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Yn yr adroddiad hwn, caiff "AAS" ei ddefnyddio i gyfeirio at y math o asesiad amgylcheddol sy'n ofynnol dan y Gyfarwyddeb AAS.

Cyfarwyddeb AAS

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC “ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni arbennig ar yr amgylchedd”.

Rheoliadau AAS
Y rheoliadau sy’n trosi’r Gyfarwyddeb AAS yn ddeddf, sef Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004.

Asesiad Strategol Perygl Llifogydd (SFRA)
Asesiad bras o berygl llifogydd a wneir gan awdurdod unedol neu gyngor dosbarth. Caiff dogfennau o’r fath eu llunio fel bod modd cloriannu datblygiadau arfaethedig yn gyflym gyferbyn â Chanllawiau Polisi Cynllunio.

Cynllun Fframwaith
Cynllun statudol yn cynnwys rhan o’r Cynllun Datblygu, sy’n cael ei baratoi gan Gynghorau Sir neu gyfuniad o awdurdodau unedol, yn cynnwys polisïau strategol sy’n cwmpasu materion cynllunio allweddol dros faes eang ac yn rhoi fframwaith i gynllunio lleol.

Cynaliadwyedd
Cysyniad sy’n ymwneud ag effaith dynolryw, trwy ddatblygiad, ar yr amgylchedd. Datblygu cynaliadwy yw ‘datblygu sy’n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau a ddaw i ddiwallu eu hanghenion eu hunain’ (Brundtland, 1987). Dylai hefyd ystyried, er enghraifft, y galwadau hirdymor am ddeunyddiau anadnewyddadwy.

Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD)
Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd (2000/60/EC) ar reoli basnau afonydd yn gyfannol. Mae’r CFfD yn cyflwyno amcanion amgylcheddol ar statws dŵr yn seiliedig ar: paramedrau ecolegol a chemegol; strategaethau arolygu ac asesu cyffredin; trefniadau ar gyfer gweinyddu a chynllunio basn afon; a rhaglen o fesurau ar gyfer cyflawni’r amcanion. I gael rhagor o fanylion, ymwelwch â gwefan y Comisiwn Ewropeaidd: http://europa.eu.int

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad
Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y newidiwyd) yw’r prif beirianwaith deddfwriaethol ar gyfer gwarchod bywyd gwyllt. Rhannwyd Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn bedair rhan:

- Mae Rhan I yn ymwneud â gwarchod bywyd gwyllt;
- Mae Rhan II yn ymwneud â chefn gwlad a pharciau cenedlaethol (a dynodi ardaloedd gwarchodedig);
- Mae Rhan III yn ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus; a
- Mae Rhan IV yn ymwneud â darpariaethau amrywiol y Ddeddf.

Mae dynodi rhywogaethau gwarchodedig yn Atodlenni 1, 5 ac 8 i’r Ddeddf, sy’n rhestru adar gwarchodedig, anifeiliaid gwarchodedig a phlanhigion gwarchodedig, yn ôl eu trefn.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tudalen wag o fwriad.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

ATODIAD A POLISÏAU, CYNLLUNIAU A STRATEGAETHAU PRESENNOL PERTHNASOL ALLWEDDOL

Cynllun	Nodau (ac Amcanion)	Dylanwadau ar CRhT2	Dylanwadau ar yr AAS	Materion Perthnasol Allweddol
Cyd-destun Ewropeaidd				
Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Ewropeaidd	• Bwriad y Gyfarwyddeb yw gwella dyfrffyrdd a gwlyptiroedd drwy Ewrop gyfan, i sicrhau bod dŵr yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy, i leihau llygru dŵr ac i leihau effeithiau llifogydd a sychderau. • Bydd y gyfarwyddeb yn sefydlu fframwaith strategol ar gyfer rheoli'r amgylchedd dŵr ac mae'n darparu agwedd gyffredin at warchod a phennu amcanion amgylcheddol ar gyfer holl ddyfroedd codi a dyfroedd arwyneb a hyrwyddo defnyddio dŵr yn gynaliadwy. • O ran dŵr arwyneb, mae'r Gyfarwyddeb yn gofyn bod amcanion amgylcheddol yn cael eu seilio ar statws cemegol ac, yn fwy arwyddocaol, ar statws ecolegol y corff dŵr. O ran dŵr codi, rhaid pennu amcanion meintiol a chemegol. • Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn gofyn bod cynlluniau rheoli strategol statudol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer pob Dosbarth Basn Afon (DBA).	Dylai gwybod am, a mynediad at, wybodaeth newydd o'r Gyfarwyddeb (e.e. data basn cyfan am ddŵr ffo), gynorthwyo gwella'r rhestri gwybodaeth sy'n cael eu dal gan Grwpiau Arfordirol a'i ymdoddi yn CRhT heddiw ac yn y dyfodol. Ni ddylid edrych gweld y Gyfarwyddeb fel cynllun arfordirol neu gynllun rheoli perygl arfordirol trosfwaol. Yn hytrach, dylid ymdoddi egwyddorion y Gyfarwyddeb yn eglur ac yn hanfodol yn CRhT2 Gorllewin Cymru.	Gall yr AAS atgyfnerthu cynnwys cynlluniau gofodol cysylltiedig â'r Gyfarwyddeb (fel Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd) o ran y cyswllt rhwng dŵr â phrosesau ac effeithiau wynebau clogwyni arfordirol. Dylid adlewyrchu gofynion y Gyfarwyddeb cysylltiedig â materion fel mwy o ddŵr ffo a llygredd yn yr AAS.	Effeithiau ar glogwyni arfordirol a thirweddau cysylltiedig gan gynnwys ardaloedd a warchodwyd oherwydd pwysigrwydd a chymeriad eu tirwedd.
Cyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop	• Cynnal neu adfer mathau cynefinoedd naturiol dynodedig, a chynefinoedd rhywogaethau dynodedig. • Cymryd camau priodol i osgoi diraddio neu ddinistrio ACA. • Dylid cadw adeileddau llinellol (afonydd, nentydd, gwrychoedd, terfynau caeau ac ati) sy'n galluogi symudiad a mudo rhywogaethau.	Dylai unrhyw gynllun neu brosiect sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle dynodedig gael asesiad priodol o'i oblygiadau i amcanion cadwraeth y safle.	Sicrhau bod gofynion y Gyfarwyddeb yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	Effeithiau neu golledion mathau cynefinoedd naturiol dynodedig oherwydd newidiadau yn nulliau rheoli'r arfordir (e.e. adlinio rheoledig a cholli corsydd pori neu wastadeddau llaid) a phrosesau naturiol yr arfordir.
Cyfarwyddeb AAS Ewropeaidd	• Mae'r gyfarwyddeb hon yn ceisio sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol ynghlwm wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau a phrosiectau arbennig sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. • Mae'r gyfarwyddeb yn gorchymyn pa gynlluniau a rhaglenni ddylai orfod cynhyrchu AAS ffurfiol. • Darparu safon uchel o amddiffyniad i'r amgylchedd a gweld bod ystyriaethau amgylcheddol yn rhan o baratoi a mabwysiadu cynlluniau arbennig.	Dylai amcanion a pholisïau CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried yr atebion cynaliadwy i reoli traethlin a'r amgylchedd.	Sicrhau bod gofynion y Gyfarwyddeb yn cael eu hadlewyrchu yn agwedd / methodoleg yr AAS a wnaed ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru.	Effeithiau ar yr amgylchedd cysylltiedig â rheoli traethlin a phrosesau naturiol yr arfordir.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Cynllun	Nodau (ac Amcanion)	Dylanwadau ar CRhT2	Dylanwadau ar yr AAS	Materion Perthnasol Allweddol
Cyfarwyddeb Adar Ewropeaidd	• Amddiffyn, rheoli a chadw trefn ar holl rywogaethau adar sy'n bodoli'n naturiol. • Cymryd camau i gadw, cynnal neu ailsefydlu amrywiaeth ac arwynebedd digonol o gynefin.	Dylai amcanion a pholisïau CRhT2 Gorllewin Cymru gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb.	Sicrhau bod gofynion y Gyfarwyddeb yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	Effeithiau ar y cynefin adar cysylltiedig â rheoli traethlin a phrosesau naturiol yr arfordir.
Strategaeth Datblygiad Cynaliadwy yr UE	• Wedi'i chymeradwyo yn 2006, nod SDS yr UE yw nodi a datblygu camau gweithredu sy'n galluogi i'r UE gyflawni gwelliant parhaol yn ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol, trwy greu cymunedau cynaliadwy sy'n gallu rheoli a defnyddio adnoddau'n effeithlon a manteisio ar botensial arloesi ecolegol a chymdeithasol yr economi, gan sicrhau ffyniant, diogelu'r amgylchedd a chydlyniad cymdeithasol. • **Y themâu allweddol yw**: - Newid yn yr hinsawdd ac ynni glân; - Cludiant cynaliadwy; - Treuliant a chynhyrchiad cynaliadwy; - Cadw a rheoli adnoddau naturiol; - Iechyd y cyhoedd; - Cynhwysiad cymdeithasol, demograffeg, mudo; a - Tlodi byd-eang a heriau cynaliadwy. • **Y polisïau trawsbynciol yw**: - Addysg a hyfforddiant; - Ymchwil a datblygiad; - Cyllido ac Offerynnau Economaidd; a hefyd - Cyfathrebu, paratoi gweithredwyr a lluosi llwyddiant.	Dylai amcanion a pholisïau CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried y themâu a pholisïau allweddol cysylltiedig â SDS yr UE.  *Datblygiad Cynaliadwy (Ffynhonnell: http://www.ac-nancy-metz.fr/enseign/anglais/Henry/Sustainable.png)*	Sicrhau bod yr AAS yn adlewyrchu gofynion SDS yr UE.	**Yn gyffredinol:** Effeithiau ar gynaliadwyedd hirdymor cymunedau (e.e. anheddau) a'r amgylchedd naturiol. **Pwyntiau allweddol:** - Cyfyngu ar newid yn yr hinsawdd a'i gostau ac effeithiau negyddol ar gymdeithas a'r amgylchedd. - Sicrhau bod cyfundrefnau cludiant diwallu anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymdeithas wrth leihau eu heffeithiau annymunol ar yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd. - Atal colli bioamrywiaeth a chyfrannu at ostyngiad sylweddol yng nghyflymder colli bioamrywiaeth fyd-eang erbyn 2010. - Gwella rheolaeth ac osgoi gorfanteisio ar adnoddau naturiol adnewyddadwy fel pysgodfeydd, bioamrywiaeth, dŵr, awyr, pridd a'r atmosffer, gan adfer ecosystemau morol a ddiraddiwyd. - Creu cymdeithas gynhwysol trwy ystyried undod rhwng ac o fewn cenedlaethau a sicrhau a gwella ansawdd bywyd dinasyddion fel rhag-amod o ffyniant unigolion parhaol. Dylai'r Comisiwn ac Aelod-wladwriaethau weithio tuag at reoli adnoddau dŵr yn fwy cyfannol, yr amgylchedd morol a hyrwyddo rheoli'r parth arfordirol yn gyfannol.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Strategaeth Fioamrywiaeth yr UE	• Ar 4 Chwefror 1998, mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd Ddogfen Gyfathrebu ar Strategaeth Fioamrywiaeth Ewropeaidd. • Bwriad y strategaeth hon yw rhagweld, atal ac ymosod ar achosion gostyngiad sylweddol neu golli bioamrywiaeth yn llygad y ffynnon. Bydd hyn yn cynorthwyo gwyrdroi tueddiadau presennol yn nirywiad bioamrywiaeth a gweld bod rhywogaethau ac ecosystemau, gan gynnwys ecosystemau amaeth, yn cyflawni statws cadwraeth boddhaol, o fewn a thu hwnt i diriogaeth yr Undeb Ewropeaidd (UE). • Caiff y Strategaeth ei threfnu o gwmpas pedair thema strategol ac wyth o feysydd polisi. Hefyd datblygwyd pedwar Cynllun Gweithredu thematig ar gyfer y themâu canlynol: - Cadwraeth Adnoddau Naturiol; - Amaethyddiaeth; - Pysgodfeydd; a hefyd - Cydweithrediad Economaidd.	Dylai amcanion a pholisïau CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried y themâu allweddol cysylltiedig â'r Strategaeth Fioamrywiaeth. *Peunog, Ynys Môn, Gorllewin Cymru (Ffynhonnell: http://www.anglesey.info/horses.htm)*	Sicrhau bod yr AAS yn adlewyrchu gofynion y Strategaeth Fioamrywiaeth.	Caiff nodau trosfwaol y Strategaeth Fioamrywiaeth eu disgrifio fel: "cyfrannu at wrthdroi tueddiadau presennol colledion bioamrywiaeth", a "gweld bod statws cadwraeth rhywogaethau ac ecosystemau'n foddhaol o fewn a thu hwnt i diriogaeth yr Undeb Ewropeaidd".
Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd	• Seiliwyd y Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd (ESDP) ar nod yr UE o gyflawni datblygiad cytbwys a chynaliadwy, yn arbennig trwy atgyfnerthu cydlynu economaidd a chymdeithasol. • **Ymhlith polisïau allweddol y Safbwynt mae**: - Datblygu cyfundrefn drefol lluosganolog a chytbwys, ac atgyfnerthu'r bartneriaeth rhwng cylchoedd trefol a gwledig, fel ag i greu perthynas newydd rhwng tref a chefn gwlad. - Hyrwyddo cysyniadau cludiant a chyfathrebu cyfun, sy'n cefnogi datblygiad lluosganolog tiriogaeth yr UE, fel bod symudiad graddol tuag at gydraddoldeb mynediad at isadeiledd a gwybodaeth. - Rheoli'r etifeddiaeth naturiol a diwylliannol yn ddoeth, fydd yn cynorthwyo gwarchod hunaniaethau rhanbarthol ac amrywiaeth ddiwylliannol yn wyneb hollfydedd.	Dylai amcanion a pholisïau CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried polisïau allweddol y Safbwynt, yn arbennig polisi 3.	Sicrhau bod yr AAS yn adlewyrchu gofynion y Safbwynt, yn arbennig polisi 3.	Dewisiadau / materion polisi allweddol: - Paratoi strategaethau datblygu gofodol cyfannol ar gyfer ardaloedd gwarchodedig, ardaloedd amgylcheddol sensitif ac ardaloedd gyda bioamrywiaeth fawr fel ardaloedd arfordirol a gwlyptiroedd, gan gydbwyso amddiffyn a datblygu ar sail asesiadau effaith tiriogaethol ac amgylcheddol. - Gwarchod y pridd fel sail bywyd bodau dynol, anifeiliaid a phlanhigion, trwy leihau erydiad, dinistrio pridd a gorddefnyddio mannau agored. - Cadw ac adfer gwlyptiroedd mawr sydd mewn perygl tynnu dŵr gormodol neu ddargyfeirio mewnfeydd. - Rheolaeth unedig o'r moroedd, yn arbennig cadw ac adfer ecosystemau morol sydd dan fygythiad.
Strategaeth Thematig yr UE ar Amddiffyn a Gwarchod yr	Mae'r Strategaeth Thematig yn pennu canllawiau eglur a gweithredol ar sut i gyflawni "statws amgylcheddol da" ymhob un o ardaloedd morol yr UE erbyn 2021, fel bod pobl yn gallu elwa ar foroedd a chefnforoedd sy'n ddiogel, yn lân ac yn llawn natur.	Dylai amcanion a pholisïau CRhT2 Gorllewin Cymru gydymffurfio â'r Strategaeth fel bod ardaloedd morol Gorllewin Cymru'n cyflawni statws amgylcheddol da.	Sicrhau bod yr AAS yn adlewyrchu gofynion cyflawni statws amgylcheddol da yn ardaloedd morol Gorllewin Cymru.	Ar hyn o bryd mae pob math o fygythion ar yr amgylchedd morol, yn amrywio o golli neu ddiraddio bioamrywiaeth a newidiadau yn ei strwythur, colli cynefinoedd, halogiad gan sylweddau peryglus a maetholion ac effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd yn y

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Amgylchedd Morol	Amcan cyflawn y Strategaeth yw gwarchod ac adfer cefnforoedd a moroedd Ewrop a sicrhau bod gweithgareddau dynol yn cael eu gwneud mewn ffordd gynaliadwy fel bod cenedlaethau heddiw a'r dyfodol yn mwynhau ac yn elwa ar gefnforoedd a moroedd bioamrywiol a dynamig sy'n ddiogel, yn lân, yn iach ac yn gynhyrchiol.			dyfodol.
Cyfarwyddeb Ansawdd Dŵr Ymdrochi	Mae'n pennu safonau gorfodol ar ansawdd dŵr ymdrochi.	Lle bo modd dylai polisïau CRhT2 Gorllewin Cymru sicrhau pennu mesurau i warchod neu adfer ansawdd dyfroedd ymdrochi i safonau BWD.	Sicrhau bod gofynion y Gyfarwyddeb yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	Effeithiau ar y dyfroedd ymdrochi cysylltiedig â rheoli traethlin a phrosesau naturiol yr arfordir.
Cyd-destun Cenedlaethol a Rhanbarthol				
Gwarchod Arfordiroedd Dynamig: **Fframwaith at reoli Natura 2000**	Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar rai materion sy'n effeithio ar safleoedd Natura 2000 arfordirol yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig rheoli llifogydd a'r angen i adeiladu ar agweddau presennol at bolisi a rheolaeth arfordirol. **Mae canlyniadau'r fframwaith yn cynnwys**: - Gwell dealltwriaeth o swyddogaeth mesurau amddiffyn rhag llifogydd wrth gyflawni nod y Cynefinoedd; - Cyfarwyddeb ar arfordir y DU; - Gwell dealltwriaeth o gymhwyso'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ymhlith Aelod-wladwriaethau eraill; - Rhanddeiliaid o ganlyniad i'r ddau weithdy Ewropeaidd; a hefyd - Camau gweithredu i hyrwyddo rheoli safleoedd Natura 2000 arfordirol i gyflawni statws cadwraethol ffafriol, dwyn ymlaen y canlyniadau'r prosiect at ei gilydd yng nghyd-destun materion dynodi terfynau safleoedd a hyrwyddo datblygu dealltwriaeth glir o gysyniad rhwydwaith cydlynol yn y DU.	Mae'r adroddiad / fframwaith hwn yn hyrwyddo agwedd fwy strategol at reoli safleoedd a'r ymateb i newid dynamig. Bydd camau arfaethedig yr adroddiad yn cynorthwyo gweithredu'r Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yn y Deyrnas Unedig. Dylai CRhT2 Gorllewin Cymru (fel y dywedwyd dan y Cyd-destun Ewropeaidd) gynnwys nodi iawndal priodol / safleoedd lliniaru ar bwys ardaloedd gwarchodedig oherwydd ei fod, ar hyn o bryd, yn annhebygol o gyflawni fframwaith o'r fath.	Bydd yr AAS yn ymgorffori cyfeiriadau strategol at reoli safleoedd Natura 2000 cysylltiedig â CRhT2 Gorllewin Cymru.	Rheoli'r amgylchedd naturiol o ran safleoedd Natura 2000 cysylltiedig ag amgylchedd yr arfordir (e.e. effeithiau ar safleoedd dynodedig oherwydd prosesau naturiol yr arfordir a'i reoli, er enghraifft, bylchu'r arfordir, erydiad clogwyni, sefydlogi clogwyni, gwasgfa arfordirol, ymyrraeth ar gyflenwadau gwaddod ac ati).
Asesu Cymeriad Tirwedd: **Papur Pwnc 9 – Newid yn yr Hinsawdd**	Mae'r papur yn amlinellu proses ddeall y rhyngweithiadau all fod rhwng newid yn yr hinsawdd a chymeriad tirwedd y DU. Ymhlith effeithiau uniongyrchol a ystyriwyd mae newidiadau cymeriad tirwedd fel llifogydd, tymhorau tyfu hwy, llifau bach mewn afonydd a cholli tirweddau cyfan mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr.	Mae angen ystyried effaith newid yn yr hinsawdd fel cynnydd yn lefel y môr yn CRhT2 Gorllewin Cymru ynghyd â mwy o lifogydd afonol a llanwol ar y polisïau rheoli traethlin dewisold (e.e. adlinio rheoledig).	Sicrhau bod y materion allweddol cysylltiedig ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gymeriad tirwedd a drafodwyd yn y papur pwnc yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	Effeithiau newid yn yr hinsawdd ar y tair thema a nodwyd, gan gynnwys yr amgylchedd naturiol, defnydd tir ac etifeddiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, cynnydd yn lefel y môr ac effeithiau ar gynefinoedd / rhywogaethau, twristiaeth ac adloniant neu effeithiau mwy o lifogydd afonol a llanwol ar oferiad llygredd, etifeddiaeth ddiwylliannol a chynefinoedd.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

		 Cynnydd yn lefel y môr (Ffynhonnell: http://www.treehugger.com/20090831-katrina-flooding-alabama.jpg)		

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Drafft Mesur Morol 2008	Mae'r Mesur drafft yn cynnwys amrywiaeth o fesurau a luniwyd i wella'r penderfyniadau hirdymor, strategol ar reoli'r amgylchedd morol, ac i symleiddio'r cyfundrefnau sy'n cael eu defnyddio i reoli adnoddau morol. Mae'r Mesur drafft hefyd yn cynnwys mesurau i wella rheoli pysgodfeydd ymfudol a dŵr croyw a chynyddu mynediad at yr arfordir. **Mae'r mesuraue'n cwmpasu'r canlynol**: - Creu'r Sefydliad Rheoli Morol; - Cynllunio morol; - Gwell penderfyniadau trwyddedu; - Gwarchod natur; - Rheoli pysgodfeydd môr; - Diwygio pysgodfeydd ymfudol a dŵr croyw; - Gorfodaeth; - Cosbau gweinyddol; a - Mynediad at dir arfordirol.	Yn CRhT2 Gorllewin Cymru mae angen ystyried y mesurau allweddol at wella rheoli pysgodfeydd morol, dŵr croyw ac ymfudol, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn ogystal, mae angen ystyried y mesurau i gael mwy o fynediad arfordirol dan ddrafft y Mesur Morol wrth ddatblygu dewisiadau polisi CRhT2 Gorllewin Cymru. *Dolffiniaid Cyffredin, Sir Benfro, Gorllewin Cymru (Ffynhonnell: http://news.sky.com/skynews/Home/Sky-News-Archive/Article/200806413411802?f=rss)*	Sicrhau bod mesurau allweddol drafft y Mesur Morol yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS, yn arbennig diogelu mynediad arfordirol.	- Newid yn yr hinsawdd yn newid cynefinoedd morol. - Mae erydiad arfordirol, perygl llifogydd, a cholli cynefinoedd i gyd yn cynyddu (mae'r arfordir yn erydu ym mwy na 25% o safleoedd dan arolygaeth yng Nghymru a Lloegr). - Mae stociau pysgod morol ac ymfudol yn isel. Gostyngodd nifer y llysywennod ifanc yn dychwelyd i Gymru a Lloegr 70% ers y 1980au cynnar (yn Ewrop, mae'r gostyngiad hwn >95%). Dosbarthwyd stociau eogiaid fel 'mewn perygl' yn 43% o brif afonydd eogiaid yn 2006. - Gall dulliau pysgota modern wneud drwg i gynefinoedd gwely'r môr. - Mae un mewn tri o bobl yn byw ger y môr ac mae'r arfordir yn gyrchfan gwyliau poblogaidd ac yn tyfu. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi nodi'r materion canlynol cysylltiedig â drafft y Mesur Morol: 1. Cyfuno cynllunio gofodol morol gyda pholisïau eraill Cymru, y DU a'r UE a Chynllun Gofodol Cymru; 2. Ymestyn dyfroedd tiriogaethol Cymru. 3. Trefniadau cynllunio a thrwyddedu ar gyfer cynhyrchu trydan alltraeth a safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddatganoli pwerau ychwanegol. 4. Rhan a swyddogaethau'r Uned Caniatadau Morol a'i rhyngweithiad â chyrff trwyddedu eraill. 5. Gweithrediad ac eglurder y drefn apelio. 6. Swyddogaethau'r MMO a Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth gyflawni rheoli a thrwyddedu morol. 7. Swyddogaeth ac effeithiolrwydd Parthau Cadwraeth Morol a gorchmynion cadwraeth. 8. Swyddogaeth pwerau statudol wrth greu mynediad at yr arfordir yng Nghymru. 9. Y berthynas rhwng y Mesur Morol Drafft a'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar Reoli Gwastraff a Diogelu'r Amgylchedd.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

				Gwnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru argymhellion hefyd (gwelwch http://www.assemblywales.org/index.htm).
Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru a'i Chynllun Gweithredu 2006	Diben y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru yw rhoi'r fframwaith ar gyfer cyflawni amgylchedd sy'n lân, yn iach, yn fioamrywiol ac yn cael ei werthfawrogi gan bobl Cymru. Erbyn 2026, y weledigaeth yw gweld amgylchedd Cymru'n ffynnu ac yn cyfrannu at ffyniant economaidd a chymdeithasol ac iechyd holl bobl Cymru. Yn ategu'r Strategaeth mae Cynllun Gweithredu, sy'n manylu camau gweithredu penodol sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth a chanlyniadau sy'n cael eu cyflwyno yn y Strategaeth.	Mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried effaith materion fel cynnydd yn lefel y môr ar yr amgylchedd o ran gallu'r dewisiadau polisi traethlin i ymladd yn erbyn pryderon amgylcheddol o'r fath.	Sicrhau bod holl ganlyniadau a dangosyddion perthnasol cysylltiedig â'r Strategaeth (a'r Cynllun Gweithredu) yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	Mae amryw weithgareddau, sy'n bwysig ynddynt eu hunain, yn rhoi pwysau ar amgylchedd Cymru, gan gynnwys: • Cludiant; • Amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth; • Diwydiant a masnach; • Defnyddio ynni; ac • Adeiladu a datblygu. O ganlyniad i'r pwysau hyn, mae amgylchedd Cymru'n wynebu nifer o heriau allweddol: • Newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr; • Defnyddio adnoddau'n anghynaliadwy; • Ecosystemau diraddiedig; • Colli bioamrywiaeth; • Colli ansawdd a hynodrwydd tirwedd a threftadaeth; • Ansawdd gwael amgylcheddau lleol; a hefyd • Peryglon amgylcheddol.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Cyflwr Amgylchedd Cymru 2003	Er nad yw Adroddiad yr Amgylchedd yn gynllun, mae'n gwneud argymhellion (gwelwch isod), ac yn amlinellu materion perthnasol allweddol cysylltiedig ag amgylchedd Cymru (gwelwch Materion Perthnasol Allweddol). Argymhellion brys o berthnasedd i CRhT2 Gorllewin Cymru: - Adolygu'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Cymru i sicrhau bod mesurau addasu a lliniaru priodol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i Hasiantaethau 2004 yn cael eu hyrwyddo a'u cyllido; - Ymchwilio i'r cyfleoedd i addasu arferion defnydd tir cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i Hasiantaethau yn enwedig yn yr ucheldiroedd i liniaru rhag llifogydd yn y gwastadeddau; - Lleihau datblygiadau mewn gorlifdiroedd gymaint â phosibl; a chyllido a chefnogi prosiectau adfer ar raddfa tirwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004 ar gwmpasu cynefinoedd, rhywogaethau a mynediad.	Mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried pryderon cynnydd yn lefel y môr ac effeithiau cysylltiedig ar gynefinoedd (e.e. morfa heli) mewn ymateb i bosibilrwydd gwasgfa arfordirol. *Ymchwydd llanwol, Mawrth 10 2008 – Abereiddi, Gorllewin Cymru*	Sicrhau bod y materion allweddol a nodwyd yn adroddiad yr amgylchedd yn cael eu hadlewyrchu wrth wneud AAS. Dylid rhoi neu gynhyrchu digon o wybodaeth yn yr AAS ar gyfer yr HRA i bwyso a mesur effeithiau cynnydd yn lefel y môr ar y dewisiadau polisi a safleoedd Natura 2000 cyfagos.	Ymhlith materion amgylcheddol allweddol a nodwyd yn Adroddiad yr Amgylchedd mae: - Colli llystyfiant arfordirol i ddatblygiad trefol, diwydiannol ac amaethyddol. - Amaethwyr yn gadael glaswelltiroedd pen clogwyn fel bod diffyg pori'n gadael i brysgwydd ennill tir. - Mae cyfundrefnau twyni tywod yn dod yn or-sefydlog oherwydd datblygiad llystyfiant, yn peri dirywiad rhai rhywogaethau prin. - Dangosodd adolygiad newydd o glogwyni meddal arfordirol yng Nghymru bod llawer ohonynt dan fygythiad. Mae'r cynefin hwn o bwysigrwydd mawr i anifeiliaid di-asgwrn-cefn daearol, fel yr unig boblogaethau o'r saerwenynen *Osmia xanthomelana* yn y DU. - Mae amddiffynfeydd arfordirol, sy'n gallu cael cryn effaith ar brosesau naturiol yr arfordir, ar ryw 29% o forlin Cymru. Maent yn cael cryn effaith ar dirwedd arfordirol Cymru. Mae adeileddau o'r fath yn atal cynefinoedd arfordirol, fel gwastadeddau llaid a morfa heli, rhag datblygu ymhellach tua'r tir i wneud iawn am y colledion sy'n digwydd pan fydd lefel y môr yn cynyddu ac yn boddi cynefin presennol. Sylwch: Mae rhai o'r rhain yn cael sylw ar hyn o bryd ers cyhoeddi'r adroddiad gan gynnwys, er enghraifft, cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol ar wneud amddiffynfeydd arfordirol yn fwy derbyniol yn amgylcheddol.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy 2004-2007	Rhannwyd Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy (SDAP) yn bedwar maes sy'n adlewyrchu'r materion allweddol sy'n wynebu Cymru a'r meysydd lle gall Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud y gwahaniaeth mwyaf. Rhaid i'r holl faterion hyn ryngweithio a chael eu symud ymlaen yn gydlynol i gyflawni dyfodol mwy cynaliadwy. Lle na chaiff dim cerrig milltir penodol eu pennu, bydd y camau gweithredu'n cael eu cwblhau erbyn 2007. 1. Byw Wahanol: Rhoi sylw i brif faterion strwythurol datblygu cynaliadwy – ynni, anheddau, yr amgylchedd naturiol, a chynhyrchiad a threuliant; 2. Arweiniad a Chyflawni: Creu strwythurau llywodraethu a chymdeithas sifil sy'n gallu cyflawni datblygiad cynaliadwy; 3. Gwneud i'n harian weithredu: Gwneud yn siŵr bod y Cynulliad a gwariant arall y sector cyhoeddus yn canolbwyntio ar gyflawni datblygiad cynaliadwy; a 4. Mesur ein cynnydd: Ein profi gyferbyn â dangosyddion newydd a hysbysu cynnydd.	Mae angen i ddewisiadau polisi CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried mater datblygiad cynaliadwy a'r hyn y mae SDAP yn rhoi sylw iddo ar hyd traethlin Gorllewin Cymru, er enghraifft rheoli llygredd o ffynhonnell wasgaredig (gwelwch y Materion Perthnasol Allweddol).	Sicrhau bod materion allweddol a nodwyd yn y SDAP cysylltiedig â'r amgylchedd naturiol yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	Materion allweddol y bydd SDAP yn rhoi sylw iddynt: - Sicrhau bod ein polisïau sy'n datblygu ar amaeth, coedwigaeth a chefn gwlad, yn cynorthwyo gwarchod y carbon sydd ar gadw ym mhriddoedd Cymru. - Arfarnu'n ffurfiol y fframwaith cludiant diwygiedig ar gyfer Cymru gyferbyn â'n fframwaith datblygu cynaliadwy. - Annog Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i weithio gyda datblygwyr i ddarparu tai rhad a chynaliadwy ar raddfa fach yn y Parciau Cenedlaethol. - Defnyddio dyfodiad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi'i gyfuno ag Arfarnu Cynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau datblygu i sicrhau rhoi sylw priodol i faterion a chysylltiadau cylch ehangach. - Mae gan Gymru ddyfroedd y môr sy'n llawn bioamrywiaeth, gwell ansawdd afonydd a llawer gwell ansawdd yr awyr. Daw her allweddol sy'n parhau o ffynonellau llygredd gwasgaredig fel cyfraniad cyfunol amaethyddiaeth a chludiant. Felly, bydd cam gweithredu allweddol ar lygredd gwasgaredig yn cael ei weithredu, fel gofyniad dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gan ymgynghori ar y mater fel y mae'n ymwneud ag amaethyddiaeth. - Gweithredu ein strategaeth coetiroedd, fel y bydd 50% o Goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi trosi o lwyrdorri i orchudd di-dor erbyn. *[Ar gyfer materion eraill y cynllun gweithredu, gwelwch y SDAP]*

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru (Diweddariad) 2008	Yn wreiddiol Mabwysiadwyd Cynllun Gofodol Cymru, Pobl, Lleoedd, Dyfodol, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2004. Mae'r Diweddariad hwn yn gweld bod Cynllun Gofodol Cymru'n cyd-fynd â Chymru'n Un, ac yn rhoi statws i'r gwaith Ardal sydd wedi datblygu dros y ddwy flynedd diwethaf. **Mae agenda 20 mlynedd bras a swyddogaeth, diben ac egwyddorion Cynllun Gofodol Cymru at ei gilydd yn aros yn ddigyfnewid:** - Gwneud yn siŵr bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o ran eu heffaith y tu hwnt i'r ffiniau sectoraidd neu weinyddol uniongyrchol a bod gwerthoedd craidd datblygu cynaliadwy'n llywodraethu popeth a wnawn; - Pennu cyd-destun cynllunio lleol a chymunedol; - Dylanwadu ar ble caiff arian ei wario gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy ddealltwriaeth o'r swyddogaethau a rhyngweithiadau rhwng lleoedd; a Darparu sail dystiolaeth eglur ar gyfer y sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd i ddatblygu polisi a gweithred. **Mae materion allweddol yn gysylltiedig â phum thema**: 1. Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy; 2. Hyrwyddo Economi Gynaliadwy; 3. Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd; 4. Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy; a hefyd 5. Parchu Nodweddion Unigryw.	Mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried themâu gofodol cysylltiedig y Cynllun gan gynnwys: 1. Y Weledigaeth; 2. Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy; 3. Hyrwyddo Economi Gynaliadwy; 4. Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd; 5. Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy; a hefyd 6. Parchu Nodweddion Unigryw. Hefyd mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried Strategaethau Ardal Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer y Gogledd-orllewin, y Canolbarth Cymru a Sir Benfro – Yr Hafan. **Nodyn 1**: Nodwyd Strategaeth Amddiffyn Arfordir Bae Colwyn yn y Cynllun, sy'n dangos asesiad strategol a chynigion ar gyfer mesurau amddiffyn yr arfordir i warchod ochr yr arfordir tua'r tir sy'n cynnwys cysylltiadau ffordd a rheilffordd y prif Rwydwaith Traws-Ewropeaidd ar draws y Gogledd ar hyd llain arfordirol Conwy. **Nodyn 2**: Mae rhaglen Blaenau'r Cymoedd y'n targedu cefnogaeth ar adfywio ardaloedd mwyaf difreintiedig rhanbarth y Brifddinas, gan gynnwys anheddau allweddol Merthyr Tudful a Glynebwy, cysylltiedig â deuoli'r A465 ffordd Blaenau'r Cymoedd.	Bydd yr AAS yn sicrhau bod y materion amgylcheddol allweddol yn cael sylw. Fodd bynnag, dylai'r AAS hefyd dynnu sylw at neu ymgorffori thema Parchu Nodweddion Unigryw'n llwyddiannus.	- Mae peryglon llifogydd ac erydiad arfordirol yn y dyfodol yn fygythiad economaidd sylweddol i rai o ganolfannau economaidd allweddol Gorllewin Cymru ac mae gallu darparu gwasanaethau'n dal i greu rhwystr i dwf economaidd mewn rhannau arbennig o'r rhanbarth. - Addasu ac ymateb i newid yn yr hinsawdd o ran heriau a chyfleoedd i Orllewin Cymru (perygl llifogydd, hidlo / gwrthbwyso carbon, erydiad arfordirol, ynni adnewyddadwy). - Cyflawni defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau, gan gynnwys gwastraff, dŵr, priddoedd, mwynau, agregau a thir ar gyfer cynhyrchu bwyd. - Gwarchod a gwella ein hecosystemau a chynyddu gallu bioamrywiaeth i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. - Gwella'r amgylchedd lleol, gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig, a mynediad at yr arfordir a chefn gwlad, a rhoi blaenoriaeth i ddatblygu safleoedd tir llwyd. - Hyrwyddo addysg amgylcheddol a datblygu sgiliau yn y cylch i gael yr eithaf o'r cyfleoedd amgylcheddol a thechnolegau eginol. - Parchu hynodrwydd: cadw unigrywiaeth Cymru gan gynnwys y Gymraeg ac etifeddiaeth ddiwylliannol. - Datblygu cyfleusterau rhwydwaith cyfannol er mwyn gwella arferion rheoli gwastraff cynaliadwy yng Ngorllewin Cymru.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008	Nod Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl yw hyrwyddo rhwydweithiau cludiant cynaliadwy sy'n amddiffyn yr amgylchedd wrth atgyfnerthu bywyd economaidd a chymdeithasol y wlad. Mae'r strategaeth drafnidiaeth yn nodi cyfres o ganlyniadau lefel uchel ac yn pennu'r camau i'w cyflawni. **Nodwyd pum maes allweddol lle mae angen cynnydd sylweddol:** 1. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac effeithiau amgylcheddol eraill; 2. Gwella cludiant cyhoeddus a chysylltu gwell rhwng dulliau teithio; 3. Gwella cysylltiadau a mynediad rhwng anheddau a safleoedd allweddol ar hyd a lled Cymru a chysylltiadau Cymru gyfan sy'n bwysig yn strategol; 4. Gwella cysylltedd rhyngwladol; a hefyd 5. Cynyddu diogelwch a sicrwydd.	Mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried effeithiau'r dewisiadau polisi ar isadeiledd cludiant fel rheilffyrdd a ffyrdd rhwng anheddau er mwyn cynnal cysylltedd a lleihau effeithiau unigedd gymaint â phosibl. *Ymchwydd llanwol ac isadeiledd rheilffordd (Ffynhonnell: ttp://knowledge.allianz.com/nopi_downloads/images/sorm_devon_train_z.jpg)*	Sicrhau bod yr AAS yn ymgorffori effeithiau tebygol colledion cludiant ac effeithiau cysylltiedig ar y gymuned.	Mae angen i'r Strategaeth ystyried effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd ar isadeiledd cludiant. Gall y rhain gynnwys gorlifo sydyn, oherwydd glaw trwm, mwy o lifogydd ac erydiad afonol ac arfordirol, tymereddau uchel yn yr haf a cholli cynefinoedd a rhywogaethau. Bydd angen i isadeiledd cludiant allu gwrthsefyll yr effeithiau hyn yn arbennig y llwybrau cludiant hynny sy'n dilyn y draethlin. Gall isadeiledd cludiant gyfrannu hefyd at strategaethau addasu i'r hinsawdd – er enghraifft defnyddio ffyrdd fel rhwystrau mewn cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd. *[Gwelwch amcanion y Strategaeth ar gyfer materion eraill]*
Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru 2007	Crëwyd Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (WBP) fel canllaw cam cyntaf i'r canlynol: - Nodi gyrwyr ymarferol, polisi a deddfwriaethol allweddol gwarchod, adfer a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru; - Amlinellu'r peirianwaith ar gyfer hyrwyddo gweithredu cadarnhaol; - Egluro swyddogaethau a chylch gwaith y rhai sy'n gyfrifol am weithred ar fioamrywiaeth; a - Darparu cysylltiadau â'r offer a gwybodaeth i gynorthwyo cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.	Mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried camau gweithredu ar fioamrywiaeth yn ôl y Strategaeth Amgylcheddol (gwelwch Helaethiad A) yn arbennig y gweithrediadau hynny sy'n gysylltiedig â chynefin arfordirol. Er enghraifft, cynhyrchwyd Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol – strategaeth newydd ar gyfer Cymru ar ICZM fydd yn cael ei hadolygu ym mis Gorffennaf 2010 gyda chynllun gweithredu newydd i'w ddatblygu i fynd â phrosesau'r ICZM ymhellach ymlaen (Gweithred 47).	Sicrhau bod camau gweithredu penodol y fframwaith yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS. Er enghraifft, cael safleoedd dynodedig i gyflawni cyflwr ffafriol neu'n gwella trwy gyfres o fesurau'n anelu at gael rheolaeth fwy ystyriol (Gweithred 32).	- Adeiladu a datblygu – tai, ffyrdd, masnachol, diwydiant, amddiffynfeydd rhag llifogydd ac isadeiledd ynni; - Defnydd o ynni, cludiant a gweithgareddau teithio'n cynyddu; - Rheoli tir yn amhriodol gan gynnwys diffyg pori a gorbori; - Llygru'r awyr, pridd a dŵr; - Mwy o alwadau ar gyflenwad dŵr; - Gweithrediadau coedwigaeth amhriodol; - Rhywogaethau ymosodol; - Gorbysgota a chasglu abwyd anghynaliadwy; - Pwysau adloniadol fel defnyddio cerbydau oddi ar y ffordd; ac - Effeithiau newid yn yr hinsawdd ar fioamrywiaeth a chynefinoedd.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Cyflawni Ein Potensial: Strategaeth Dwristiaeth ar gyfer Cymru 2000	Yn ategu'r weledigaeth mae'r amcanion strategol canlynol: 1. Marchnata Cymru'n fwy effeithiol fel cyrchfan ddeniadol i ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn; 2. Rhagori ar ddisgwyliad ymwelwyr â Chymru trwy ddarparu safonau uchel a sicrhau bod buddsoddiad mewn twristiaeth yn ymatebol i'w hanghenion newidiol; 3. Gwella proffesiynoldeb ac arloesi trwy hyrwyddo proffil y diwydiant a thrwy wella sgiliau, hyfforddiant a chymhelliad yn y diwydiant; a 4. Mabwysiadu agwedd gynaliadwy at ddatblygu twristiaeth sydd o fudd i gymdeithas, sy'n cynnwys cymunedau lleol, ac sy'n cyfoethogi asedau amgylcheddol a diwylliannol unigryw Cymru.	Mae angen i ddewisiadau polisi CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried sut all dewisiadau o'r fath ddylanwadu ar dwristiaeth ar hyd traethlin Gorllewin Cymru.	Bydd yr AAS yn sicrhau bod y derbynyddion amgylcheddol allweddol sy'n fuddiol i dwristiaeth Cymru'n cael eu hasesu.	- Gwella ansawdd amgylchedd yr arfordir gan gynnwys dyfroedd ymdrochi er lles y gymuned leol ac ymwelwyr. - Effeithiau newid yn yr hinsawdd ar blanhigion ac anifeiliaid, cynefinoedd a thirweddau a goblygiadau cysylltiedig i dwristiaeth Cymru. - Datblygu twristiaeth gynaliadwy.
Dogfen Ymgynghori ar Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd 2009	Mae'r Ddogfen Ymgynghori ar Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd yn cyflwyno bwriadau polisi Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd ac yn ymhelaethu ar ymrwymiadau *Cymru'n Un*. Mae'n cyflwyno'r her i Gymru, targedau a'r meysydd sy'n gofyn gweithredu manwl. Yn rhan gyntaf 2010 bydd ymgynghoriad ar raglen weithredu ar newid yn yr hinsawdd yn dilyn y Strategaeth, fydd yn cynnwys cynnig camau gweithredu penodol.	Mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried effaith newid yn yr hinsawdd fel cynnydd yn lefel y môr ynghyd â mwy o lifogydd afonol a llanwol ar y polisïau rheoli traethlin a ddewiswyd (e.e. adlinio rheoledig). Hefyd mae angen ystyried strategaethau addasu anheddau ar hyd traethlin Gorllewin Cymru i gynnydd yn lefel y môr fel dewisiadau yn lle gwella neu newid amddiffynfeydd arfordirol.	Sicrhau bod y materion allweddol cysylltiedig ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar blanhigion ac anifeiliaid a thirwedd yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	- Cynnydd mewn gorlifo sydyn oherwydd glaw trwm a chynnydd mewn llifogydd ac erydiad afonol ac arfordirol; - Pwysau ychwanegol ar garthffosydd; - Cynnydd yn nifrod stormydd gaeaf; - Newid mewn cynefinoedd a rhywogaethau; - Newidiadau i'r dirwedd; - Prinderau dŵr yn yr haf a lifau bach yn amlach mewn afonydd (wedi ei gysylltu â mwy o alw); - Mwy o berygl ymsuddiant mewn ardaloedd sy'n dueddol o ymsuddo; - Mwy o anesmwythder gwresol mewn adeiladau; a hefyd - Problemau iechyd yn yr haf, gan gynnwys marwolaethau cysylltiedig â gwres a llygru'r awyr yn fawr.
Newid Hinsawdd Cymru – Dysgu Byw'n Wahanol 2001	Mae'r adroddiad yn disgrifio sut all cymuned Cymru addasu i hinsawdd sy'n newid.	Mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried strategaethau addasu i gynnydd yn lefel y môr, llifogydd afonol i anheddau, isadeiledd a chymunedau ar hyd traethlin Gorllewin Cymru.	Sicrhau bod y materion allweddol cysylltiedig ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gymuned Gorllewin Cymru'n cael eu hadlewyrchu mewn yr AAS.	- Addasu i hinsawdd sy'n newid; a - byw'n gynaliadwy.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Tan 14 – Cynllunio Arfordirol	Canllawiau penodol sy'n cwmpasu datblygiad adloniadol, arfordir treftadaeth, cynlluniau rheoli traethlin a gwaith arolwg amddiffyn yr arfordir.	Sicrhau bod materion allweddol a chanllawiau TAN 14 yn cael eu hadlewyrchu yn CRhT2.	Sicrhau bod materion allweddol a chanllawiau TAN 14 yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	Mae'r canllawiau'n manylu nifer o faterion sy'n rhaid eu hystyried oherwydd eu heffeithiau tebygol ar brosesau ffisegol a chyflwr y tir, yn ogystal â chydbwysedd, sensitifedd a chadwraeth yr ardal at ei gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys effaith weledol y tir a'r môr, a phosibilrwydd y bydd angen gwaith adfer ac amddiffyn. Mae'n cwmpasu ystyriaethau a materion cynllunio i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Mae'r angen i gadw a gwarchod safleoedd morol ac arfordirol dynodedig yn cael ei ystyried.
TAN 15 – Datblygu a Pherygl Llifogydd	Caiff arweiniad ei roi ar lifogydd fel ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau rheoli datblygiad, dŵr ffo a chynyddu perygl llifogydd ar neu oddi ar y safle, gwaith diogelu'r arfordir a gwaith amddiffyn rhag llifogydd.	Sicrhau bod materion allweddol ac arweiniad TAN 15 yn cael eu hadlewyrchu yn CRhT2.	Sicrhau bod materion allweddol ac arweiniad TAN 15 yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried perygl llifogydd bob amser wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
Tan 5 – Cadwraeth a Chynllunio Natura	Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn rhoi cyngor ar faterion rheoli datblygiad mewn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae hefyd yn cynnwys dewis a dynodi safleoedd gwarchod natur anstatudol, fel gwarchodfeydd natur lleol, a diogelu rhywogaethau, comins a thir glas.	Sicrhau bod materion allweddol ac arweiniad TAN 5 yn cael eu hadlewyrchu yn CRhT2.	Sicrhau bod materion allweddol ac arweiniad TAN 5 yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	Materion rheoli datblygiad ar gyfer Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Cyd-destun Lleol: Cynlluniau Sir a Dosbarth / Bwrdeistref				
Adolygiad Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2009	Deilliwyd cymeriad economaidd-gymdeithasol AHNE Ynys Môn trwy ddadansoddi data Cyfrifiad 2001. Rhannodd Adolygiad Cynllun Rheoli'r AHNE yn bedair Isardal a rifwyd un i bedair gan ystyried y canlynol: - NODWEDDION ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL AHNE YNYS MÔN; - Y SECTOR TWRISTIAETH; - AMAETHYDDIAETH; - ANSAWDD AMGYLCHEDDOL.	Mae Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn yn sicrhau bod cyfanrwydd yr AHNE yn cael ei gynnal fel un o fuddiannau'r genedl. Fel y cyfryw, dylid defnyddio'r Cynllun hwn i lywio ac ysbrydoli holl gynlluniau eraill fel CRhT2 Gorllewin Cymru a gweithgareddau a ddatblygwyd gan gyrff cyhoeddus all effeithio ar yr AHNE, fel amddiffynfeydd arfordirol.	Sicrhau bod y materion allweddol cysylltiedig â rheoli AHNE Ynys Môn yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS.	Mae newid yn yr hinsawdd yn fater allweddol sy'n dylanwadu ar yr AHNE. Mae cyflwr llawer o gynefinoedd yr AHNE yn anffafriol: Yn gyffredinol caiff cyflwr ardaloedd o weundir arfordirol gwlyb a sych eu cofnodi fel anffafriol ac yn dirywio. Caiff porfa arfordirol ei chofnodi fel anffafriol ond yn gwella'n gyffredinol ac mae cyflwr rhai ardaloedd o rostir calchaidd sych yn ffafriol ac yn gwella. Y prif faterion sy'n effeithio ar gyflwr y cynefinoedd hyn yw tanbori, gweithrediadau amaethyddol a diffyg rheoli adferol a llosgi ar y rhostiroedd sych. Mae ffactorau economaidd byd-eang yn dylanwadu ar yr AHNE, yn arbennig y berthynas â rheoli amaethyddol. Heb arweiniad a chefnogaeth amaeth-amgylchedd briodol gallai hyn arwain at ddiraddio pellach o gynefinoedd gwerthfawr (sydd erbyn hyn oddi allan i gyfundrefnau rheoli amaethyddol) trwy ddiffyg rheolaeth a dwysáu mwy ar ffermio tir cyfagos. Mae heriau anghenion datblygu tai a ffyrdd a thraffig, colli bywyd gwyllt a cholli cynefinoedd hefyd yn faterion o bwys wrth reoli'r AHNE.
Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Ynys Môn	Bwriad LBAP Ynys Môn yw sicrhau gwaith ar y cyd rhwng pobl a sefydliadau lleol i sicrhau bod yr adnoddau lleol hyn yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn gofal yn y dyfodol. Mae'r cynllun gweithredu'n cyflwyno gwaith sydd i'w wneud i gynorthwyo cynefinoedd a rhywogaethau pwysig ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd ar gyfer 2010-2015.	Mae'n bwysig bod y targedau cysylltiedig â LBAP Ynys Môn yn cael ei hymdoddi i waith arweiniadau sydd â dylanwad ar gadwraeth bioamrywiaeth gan gynnwys CRhT.	Dim dylanwadau sylweddol ar yr AAS gan fod y LBAP ac AAS yn ategu amcanion ei gilydd o ran diogelu bioamrywiaeth leol.	Effeithiau datblygiad arfordirol ar y canlynol: - Cors bori arfordirol a gorlifdir; - Morlynnoedd halwynog; - Twyni; - Ffeniau a gweundiroedd; a hefyd - Traethau tywodlyd.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Dogfen Ymgynghori ar Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr o Ddalgylch Ynys Môn 2006	Gweledigaeth y CAMS yw strategaeth ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy ar Ynys Môn. Caiff hyn ei gyflawni trwy weld bod rhagor o wybodaeth am adnoddau dŵr ac arferion trwyddedu ar gael i'r cyhoedd a chaniatáu ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion echdynwyr, defnyddwyr eraill y dŵr a'r amgylchedd dyfrol ar ôl ymgynghori â'r gymuned leol a'r rhai sydd â diddordeb. Mae 2 Uned Rheoli Adnoddau Dŵr (WMRU) yn gysylltiedig ag Ynys Môn.	Gallai newidiadau yn y gyfundrefn ddŵr effeithio ar y safleoedd dynodedig ac nid yw'n amlwg sut fyddai'r newidiadau hyn yn lefel y dŵr yn effeithio ar y polisïau a ddewiswyd ar gyfer rheoli'r draethlin. Mae gan WMRU1 statws 'Dŵr ar Gael' ac mae gan WMRU2 statws 'Dim Dŵr ar Gael'. Fodd bynnag bydd gan holl unedau statws hirdymor 'Dim Dŵr ar Gael' (2013 a 2019). *Argae Cefni* *(Ffynhonnell: CAMS Ynys Môn, 2006)*	Dylai'r AAS sicrhau bod safleoedd dibynnol ar ddŵr yn cael eu nodi a bod asesiad polisi'n canolbwyntio ar yr effaith all fod. Hefyd posibilrwydd cyfleoedd i wella safleoedd ac ehangu safleoedd. SoDdGA allweddol cysylltiedig ag WMRU1 – Werthry, Llyn Traffwll, Bodffordd a Salbri. SoDdGA allweddol cysylltiedig ag WMRU2 – Llyn Alaw, Nantanog, Llyn Llywenan, Cors y Farl, Caeau Talwrn ac ACA / Ramsar Corsydd Môn.	Er y bydd sefyllfaoedd arfordirol fel arfer oddi allan i brosesau CAMS, fe all fod mater lleihad mewn ailgyflenwi dŵr codi neu ddŵr arwyneb ar gyfer safleoedd dynodedig neu effaith ar ddaeareg adeileddol clogwyni arfordirol. Yr uned gyda therfynau agosaf at y draethlin yw WMRU1 sy'n ymestyn tuag at Gaergybi a Rhosneigr.

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Strategaeth Ddewisol Cyngor Sir Ceredigion Ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol 2007 - 2022	Cynllun statudol yw'r CDLl a bydd yn pennu polisïau a chynigion penodol ar ddatblygu a defnyddio tir yng Ngheredigion am ryw 15 mlynedd; hyd at 2022. Sefydlwyd hyd at 18 o amcanion i'r CDLl gan gynnwys y rhai cysylltiedig â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd er enghraifft: **Amcan 11:** Gwarchod a gwella tirwedd Ceredigion gan gwmpasu'r amgylcheddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol . **Amcan 12:** Atal colli, a gwella, bioamrywiaeth a'i chysylltedd ar hyd a lled Ceredigion, gan roi sylw arbennig i rywogaethau a chynefinoedd blaenoriaethol lleol, wrth fwynhad a deall bioamrywiaeth yn well trwy hybu mynediad at safleoedd o fudd i gadwraeth, ond bod modd diogelu eu cyfanrwydd ecolegol. **Amcan 13:** Hybu agwedd gynaliadwy at ddatblygiadau yn y parth arfordirol wrth warchod yr amgylchedd treftadaeth a ffisegol. **Amcan 14:** Gwarchod a rheoli adnoddau naturiol Ceredigion, gan gynnwys pridd, awyr, dŵr a geoamrywiaeth, er mwyn cynnal a chyfoethogi eu gwerth i genedlaethau heddiw a'r dyfodol.	Mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried polisïau allweddol y CDLl gan gynnwys y canlynol: **Polisi 2: Tai a Thwf Economaidd** Bydd y CDLl yn hwyluso tai a datblygiad economaidd ar gyfer twf disgwyliedig. Yn ôl rhagamcaniadau cyfredol fe allai tua 5,900 o gartrefi newydd a 3000-4000 o swyddi newydd ddod ymlaen dros gyfnod y cynllun. **Polisi 3: Canolfannau Gwasanaeth Trefol (USC)** Bydd swyddogaeth leol, sirol a rhanbarthol y Canolfannau Gwasanaeth Trefol (gwelwch adran 8, Tabl 2 o'r CDLl) yn cael ei chydnabod a'i gwella trwy wneud y canlynol: • Darparu ar gyfer 50-55% o gynnydd tai i gynorthwyo gyda diwallu anghenion cyffredinol y Sir ar gyfer cylchoedd trefol fel Aberystwyth; • Creu canolbwynt i ddatblygiadau mawr (yn cynnwys tai, cyflogaeth, adwerthu, cymuned, addysg, adloniant a hamdden) sydd eu hangen i ddiwallu anghenion sirol / is-sirol a lleol; • Neilltuo tir i sicrhau bod datblygiad yn gallu dod ymlaen ar gyfer defnyddiau penodol, ynghyd â sicrhau bod rhywfaint o gyfle i ddatblygu ar safleoedd na neilltuwyd; a • Ailddefnyddio adeiladau presennol a safle tir llwyd i'r eithaf. **Polisi 4: Canolfannau Gwasanaeth Gwledig (RSC)** Bydd swyddogaeth Canolfannau Gwasanaeth Gwledig (gwelwch adran 8, Tabl 2 o'r CDLl) wrth gefnogi rhannau gwledig mawr o Geredigion yn cael ei hyrwyddo a'i chyflawni er enghraifft trwy ddarparu ar gyfer 25-30% o gynnydd tai i gynorthwyo gyda diwallu eu hanghenion a rhai'r cylch. **Polisi 6: Datblygiad yng Nghefn Gwlad Agored**	Dylai'r AAS ymgorffori unrhyw faterion perthnasol i draethlin Ceredigion a aseswyd yn yr AAS a wnaed ar gyfer y CDLl. Dylai'r AAS sicrhau bod y materion allweddol cysylltiedig â'r amgylchedd a gafodd sylw yn CDLl yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS hefyd.	Mae modd nodi'r materion allweddol i Geredigion o fewn amryw themâu fel a ganlyn: - **Maint a math twf** gan gynnwys cyflenwad digonol o dir ar gyfer datblygiad economaidd lle bo natur y datblygiad disgwyliedig yn gofyn darparu safleoedd cyflogaeth. - **Dosbarthiad twf / datblygiad** gan gynnwys yr angen i sicrhau bod dosbarthiad twf yn cyfrannu at bwyslais mwy amlwg ar gysylltiadau lleol, gyda mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol. - **Ffurf twf**. - **Y gymuned**. - **Y Gymraeg**. - **Yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd** gan gynnwys yr angen i nodi ac amddiffyn nodweddion pwysicaf y dirwedd, geoamrywiaeth a bioamrywiaeth trwy ddynodiadau priodol a sicrhau, ble bynnag y bo modd, bod datblygiad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fioamrywiaeth ac amwynder gweledol. - **Isadeiledd a Gwasanaethau** gan gynnwys ble bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at angen i ailasesu cynaliadwyedd isadeiledd presennol, bydd angen ystyried goblygiadau hyn i ddatblygiad (e.e. cynnydd yn lefel y môr a chilio rheoledig).

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

		Bydd datblygiad oddi allan i'r anheddau diffiniedig (gwelwch adran 8, Tabl 2 o'r CDLl) yn cael ei oddef yn unig mewn mannau sy'n cyd-fynd â chyfarwyddyd cenedlaethol. **Polisi 7: Tai Fforddiadwy** O ran Tai Fforddiadwy bydd y CDLl yn cyflenwi 700 o gartrefi fforddiadwy ar safleoedd tai cyffredinol ac eithriadau. **Polisi 10: Llety Ymwelwyr** Bydd y CDLl yn rhoi sylw i lety ymwelwyr trwy ganiatáu ac annog datblygu llety fel gwestai a safleoedd gwersylla. **Polisi 19: Datblygu yn y Parth Arfordirol** Bydd datblygu yn y parth arfordirol (i'w ddiffinio) yn cael ei oddef yn unig fel a ganlyn: 1. Os oed modd dangos bod angen lleoliad ar yr arfordir; 2. Na fyddai'n dibynnu ar waith peirianyddol helaeth i amddiffyn y safle datblygu arfaethedig; ac 3. Y dylai ceisiadau am amddiffynfeydd arfordirol newydd ystyried holl effeithiau amgylcheddol all godi. **Polisi 24: Darparu Cludiant** Bydd Ceredigion yn ceisio hyrwyddo mathau mwy cynaliadwy o gludiant, wrth leihau defnydd ac effaith ceir modur preifat trwy wneud y canlynol: 1. Sicrhau hyd y bo'n ymarferol, bod holl ddatblygiad yn gwneud y defnydd gorau o fesurau cludiant gwahanol gan gynnwys cerdded a beicio; 2. Neilltuo tir ar gyfer cyfnewidfeydd cludiant gan gynnwys safleoedd parcio a theithio a pharcio a rhannu, ar gyfer parcio cerbydau nwyddau ac ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd drwy'r sir i gyd, fel a lle bo gofyn yn unol â'r RTP; 3. Cytuno ar safonau parcio priodol mewn datblygiadau newydd ar sail Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol; a 4. Diogelu rheilffyrdd blaenorol a thiroedd		

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

		rheilffyrdd cysylltiedig ar gyfer datblygu cludiant cynaliadwy a chyfnewidfeydd fel y mynegwyd yn y RTP. *[I gael gwybodaeth fanwl am bolisi, gwelwch Adran 9 o'r CDLl]*		
Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Ceredigion 2002	Mae Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Ceredigion (LBAP) yn cwmpasu'r ardal yng Ngheredigion, gan gynnwys dyfroedd y glannau a gwely'r môr hyd at 12 milltir alltraeth o gwmpas arfordir Ceredigion. Mae'r LBAP yn rhoi fframwaith ar gyfer gweithredu lleol ar fioamrywiaeth fydd yn cyfrannu at gyflawni targedau cenedlaethol ar gynefinoedd a rhywogaethau allweddol, ac yn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o berthnasedd bioamrywiaeth i bobl Ceredigion.	Mae'n bwysig bod y LBAP yn cael ei ymdoddi i waith arweiniadau sydd â dylanwad ar gadwraeth bioamrywiaeth gan gynnwys CRhT.	Dim dylanwadau sylweddol ar yr AAS gan fod y LBAP ac AAS yn ategu amcanion ei gilydd o ran diogelu bioamrywiaeth leol.	- Colli a darnio coed onn cymysg yr ucheldir; - Rheoli amhriodol, neu ddiffyg rheoli, coetir; - Colli cyfanrwydd genetig; - Rhywogaethau goresgynnol estron; a - Newid yn yr hinsawdd.
Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr o Ddalgylch Gogledd Ceredigion 2008	Gweledigaeth y CAMS yw strategaeth ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy yng Ngogledd Ceredigion. Caiff hyn ei gyflawni trwy weld bod rhagor o wybodaeth am adnoddau dŵr ac arferion trwyddedu ar gael i'r cyhoedd a chaniatáu ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion echdynwyr, defnyddwyr eraill y dŵr a'r amgylchedd dyfrol ar ôl ymgynghori â'r gymuned leol a'r rhai sydd â diddordeb. Mae 3 Uned Rheoli Adnoddau Dŵr (WMRU) cysylltiedig â Gogledd Ceredigion.	Gallai newidiadau yn y gyfundrefn ddŵr effeithio ar y safleoedd dynodedig ac nid yw'n amlwg sut fyddai'r newidiadau hyn yn lefel y dŵr yn effeithio ar y polisïau a ddewiswyd ar gyfer rheoli'r draethlin. Mae gan WMRU1 a 2 statws 'Dŵr ar Gael' ac mae gan WMRU3 statws 'Dim Dŵr ar Gael'. Mae gan WMRU1 a 2 statws hirdymor 'Dŵr ar Gael' (2014 a 2020) a bydd gan WMRU3 statws hirdymor 'Dim Dŵr ar Gael' (2014 a 2020). *Cronfa Ddŵr Dinas* *(Ffynhonnell: CAMS Gogledd Ceredigion, 2006)*	Dylai'r AAS sicrhau bod safleoedd dibynnol ar ddŵr yn cael eu nodi a bod asesiad polisi'n canolbwyntio ar yr effaith all fod. Hefyd posibilrwydd cyfleoedd i wella safleoedd ac ehangu safleoedd. Mae nodweddion lleol pwysig all effeithio ar ddŵr sydd ar gael yn WMRU1 yn cynnwys 12 SoDdGA a 3 ACA. Mae nodweddion lleol pwysig all effeithio ar ddŵr sydd ar gael yn WMRU2 yn cynnwys 8 SoDdGA, 2 ACA ac 1 AGA. Mae nodweddion lleol pwysig all effeithio ar ddŵr sydd ar gael yn WMRU3 yn cynnwys 7 SoDdGA, 1 ACA ac 1 AGA.	Er y bydd sefyllfaoedd arfordirol fel arfer oddi allan i brosesau CAMS, fe all fod mater lleihad mewn ailgyflenwi dŵr codi neu ddŵr arwyneb ar gyfer safleoedd dynodedig neu effaith ar ddaeareg adeileddol clogwyni arfordirol.
Strategaeth Ddewisol Cynllun Datblygu Lleol	Mae strwythur y Cynllun yn adlewyrchu'r pedair egwyddor datblygu cynaliadwy a fabwysiadodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru,	Mae angen i CRhT2 Gorllewin Cymru ystyried polisïau allweddol y CDLl gan gynnwys y canlynol:	Dylai'r AAS ymgorffori unrhyw faterion perthnasol i draethlin Conwy a aseswyd yn yr AAS a	Lluniwyd nifer o amcanion CDLl fel dull o wireddu gweledigaeth y Strategaeth Gymunedol a rhoi sylw i faterion amrywiol

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Conwy **2006**	sef: 1. Cynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb; 2. Twf economaidd a chyflogaeth uchel a sefydlog; 3. Defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth; a 4. Amddiffyn yr amgylchedd yn effeithiol.	**Bydd y cynllun yn:** a) Cynnig 4,730 o anheddau yn ystod y cyfnod o 2005 i 2020; a b) Cynnig amrediad arwyddol o 60 – 90 hectar o dir cyflogaeth. Mae'r ardaloedd yn cynnwys – Arfordir (Dwyrain) Abergele, Llanddulas, Towyn a Bae Cinmel; Arfordir (Canolog) Bae Colwyn, Llysfaen, Mochdre; Creuddyn gan gynnwys Conwy, Llandudno; Arfordir (Gorllewin) Llanfairfechan, Penmaen-mawr; Gwledig; a holl gymunedau eraill. **Bydd y cynllun yn:** a) Llywio datblygiad tuag at safleoedd sy'n lleihau'r angen i deithio a, lle nad oes modd gwneud hyn, at safleoedd sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan gludiant cyhoeddus; b) Diogelu tir i ddarparu ffordd i osgoi Abergele; c) Diogelu llwybrau adloniadol presennol ac arfaethedig; a d) Mabwysiadu safonau parcio ar gyfer pob math o ddatblygiad. **Bydd y cynllun yn:** a) Cadw hunaniaeth anheddau unigol trwy ddefnyddio rhwystrau glas; b) Diogelu tirweddau, cynefinoedd a safleoedd nodweddion eraill o bwysigrwydd lleol; c) Gwarchod cymeriad a natur agored cefn gwlad a morlin heb ei ddatblygu rhag datblygu amhriodol; a d) Gwarchod a gwella ill dau amgylchedd gwledig a threfol naturiol. **Bydd y cynllun yn:** a) Llywio datblygiad oddi wrth ardaloedd sydd mewn perygl llifogydd; a b) Cefnogi darparu cyfundrefnau amddiffyn yr arfordir sy'n addas, yn economaidd, yn dechnegol ac yn amgylcheddol yn gadarn ac yn gynaliadwy.	wnaed ar gyfer y CDLl. Dylai'r AAS sicrhau bod y materion allweddol cysylltiedig â'r amgylchedd a gafodd sylw yn y CDLl yn cael eu hadlewyrchu yn yr AAS hefyd.	gan gynnwys difrod stormydd ac amddiffynfeydd arfordirol: Mae amryw drefi a phentrefi glan môr wedi dioddef difrod stormydd. Mae amddiffynfeydd arfordirol yn gwarchod bywyd dynol ac eiddo, yn ogystal â llwybrau ffyrdd a rheilffyrdd. Felly, mae'n hanfodol bod gwelliannau i'r amddiffynfeydd arfordirol yn amddiffyn i'r eithaf heb wneud drwg i ansawdd traethau, geoamrywiaeth, ecoleg na thwristiaeth. *[Ar gyfer materion eraill cysylltiedig â'r amcanion gwelwch Pennod 1 y CDLl]*

Hawlfraint © Mehefin 2010 Haskoning DU Cyf.

Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr o Ddalgylch Conwy 2004	Gweledigaeth y CAMS yw strategaeth ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy yng Nghonwy. Caiff hyn ei gyflawni trwy weld bod rhagor o wybodaeth am adnoddau dŵr ac arferion trwyddedu ar gael i'r cyhoedd a chaniatáu ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion echdynwyr, defnyddwyr eraill y dŵr a'r amgylchedd dyfrol ar ôl ymgynghori â'r gymuned leol a'r rhai sydd â diddordeb. Mae 3 Uned Rheoli Adnoddau Dŵr (WMRU) cysylltiedig â Chonwy.	Gallai newidiadau yn y gyfundrefn ddŵr effeithio ar y safleoedd dynodedig ac nid yw'n amlwg sut fyddai'r newidiadau hyn yn lefel y dŵr yn effeithio ar y polisïau a ddewiswyd ar gyfer rheoli'r draethlin. Mae gan WMRU1 statws 'Dŵr ar Gael' ac mae gan WMRU3 statws 'Dim Dŵr ar Gael' ar hyn o bryd. Ni aseswyd WMRU3.	Dylai'r AAS sicrhau bod safleoedd dibynnol ar ddŵr yn cael eu nodi a bod asesiad polisi'n canolbwyntio ar yr effaith all fod. Hefyd posibilrwydd cyfleoedd i wella safleoedd ac ehangu safleoedd.	Er y bydd sefyllfaoedd arfordirol fel arfer oddi allan i brosesau CAMS, fe all fod mater lleihad mewn ailgyflenwi dŵr codi neu ddŵr arwyneb ar gyfer safleoedd dynodedig neu effaith ar ddaeareg adeileddol clogwyni arfordirol.
	Sylw cyffredinol ar fesurau cydadferol – mae angen mwy o fanylion yn y ddogfen hon.	M Webber	04-Oct-10	Ar yr adeg hon (Asesiad Priodol), nid yw'n berthnasol manylu mesurau cydadferol, am nad yw polisïau terfynol y CRhT yn hysbys cyn Ymgynghori â'r Cyhoedd ac ar ôl hynny y bydd mesurau cydadferol yn cael eu nodi.	P.Thornton	25/10/2010
	Mae ychydig o wallau argraffu hefyd.	M Webber	04-Oct-10	Gwiriwyd y sillafu eto i ddileu gwallau argraffu.	P.Thornton	25/10/2010
Sylwadau Cyffredinol:		Adolygydd:	D Cowley	Sefydliad:	Cyngor Sir Ynys Môn	
Mae ein LBAP yn: https://www.ukbap-reporting.org.uk/plans/lbap_plans.asp?LBAP={42A89BF7-2E26-4C14-8253-40937ACA129D}						
Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
	Ni chynhwyswyd Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Ynys Môn; rwy'n meddwl fy mod wedi nodi hyn mewn sylwadau cynharach – mae'n bwysig bod y ddogfen yn cael ei hystyried.	D Cowley	05-Oct-10	Ystyriwyd Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Ynys Môn eisoes yn yr Adroddiad Cwmpasu, tudalen 16 (Atodiad E o'r ER). Fodd bynnag, darparwyd asesiad o'r cynllun hwn ar gyfer dylanwad yr AAS a CRhT hefyd yn Atodiad A o'r Adroddiad Cwmpasu - Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau Allweddol Perthnasol presennol.	P.Brunner	03/11/2010
	Nid yw gwybodaeth a roddwyd yn yr un Atodiad ar Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (CDLI) 2006 -2021 mor ddilys mwyach, gan fod proses y CDLI wedi gorfod mynd yn ôl beth ffordd ac ar hyn o bryd mae'n debygol o gael ei gyfuno i ddod yn rhan o un CDLI ar y cyd â Gwynedd.	D Cowley	05-Oct-10	Nodwyd y newid cysylltiedig â CDLI Ynys Môn a'i ddileu o'r Adroddiad Cwmpasu (Atodiad E o'r ER).	P.Brunner	03/11/2010
Tabl 15.4	Amcanion Cynaliadwyedd CRhT2 Gorllewin Cymru a Dangosyddion Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid 'Cwmpaswyd nodweddion gan yr amcan (yn dilyn cwmpasu)' yn cynnwys: Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl) a gwarchodfeydd RSPB. Awgrymu cynnwys gwarchodfeydd yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt hefyd.	D Cowley	05-Oct-10	Ar sail lefel strategol yr asesiad, ni fydd dynodiadau o'r fath yn cael eu hasesu ar gyfer y CRhT hwn.	P.Brunner	03/11/2010

Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
Sylwadau Cyffredinol:		Adolygydd:	T Jones / D Worrall	Sefydliad:	CCGC	
Caiff ein sylwadau eu gwneud yng nghyd-destun ein swyddogaeth fel corff ymgynghori dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 ac fel cynghorwr i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion yn ymwneud â threftadaeth naturiol Cymru a'i dyfroedd arfordirol. Mae CCGC yn croesawu ymdrechion Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru a chi, fel eu hymgynghorwyr, o ran y broses AAS hon. Rydym yn falch o nodi yr ymgorfforwyd llawer o'r pwyntiau a nodwyd mewn ymatebion blaenorol ac y cawsant sylw. Mae CCGC yn nodi, fodd bynnag, fod materion yn dal i'w datrys wrth i broses yr AAS symud ymlaen a byddai CCGC yn croesawu'r cyfle i gyfarfod â'r partneriaid perthnasol i drafod mwy ar y materion hyn.						
Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
Crynodeb annhechnegol	Nod y crynodeb annhechnegol yw darparu fersiwn symlach o grynodeb y Cynllun. Yn yr ER drafft, mae'r crynodeb annhechnegol yn cynnwys nifer mawr o acronymau, sydd angen esboniad os yw'r adran hon i ateb ei diben orau.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Rhoddwyd tabl byrfoddau ac acronymau yn yr ER (tudalen 113). Fodd bynnag, gwiriwyd y crynodeb annhechnegol a'i ddiweddaru i leihau nifer yr acronymau sydd heb fod â byrfodd a'u hegluro ymhellach.	P.Brunner	03/11/2010
1.	Cyflwyniad a chefndir. Yn ogystal â map y Parthau Datblygu Polisi (PDZ) byddai'n fuddiol cael map o'r Unedau Polisi (PU). Nid yw lleoliad map o'r fath yn cael ei groesgyfeirio hyd yn oed. Byddai cynnwys y ddogfen hon o gymorth mawr iawn i ddehongli'r ddogfen.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Caiff map o'r unedau polisi ei ddarparu ym Mhennod 4 y CRhT.	P.Brunner	03/11/2010
1.6.3	Goblygiadau Polisi'r CRhT ar Dderbynyddion Amgylcheddol. Mae drafft yr Adroddiad Amgylcheddol yn datgan bod Tabl 1.3 yn rhoi crynodeb o effeithiau tebygol y CRhT ar yr amgylchedd at ei gilydd ond nid yw'n gwneud hynny.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae Tabl 1.3 yn rhoi rhestr o dderbynyddion allweddol fydd yn fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan bolisi'r CRhT. Nid diben y tabl hwn yw manylu'r effeithiau all fod ond, yn hytrach, mae Tabl 1.2 yn rhoi goblygiadau cyffredinol pob un o ddewisiadau'r CRhT. Felly, newidiwyd enw Tabl 1.3 i adlewyrchu hyn.	P.Brunner	03/11/2010
Tablau 1.2 ac 1.3	Enwyd y ddau dabl hyn yn 'Goblygiadau Cyffredinol Posibl pob dewis CRhT' ond mae'n amlwg eu bod yn wahanol. Mae Tabl 1.3 yn crynhoi sut mae Derbynyddion AAS yn berthnasol i derminoleg CRhT.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Cytuno, a bydd enwau'r tablau'n cael eu newid (gwelwch yr ymateb uchod).	P.Brunner	03/11/2010
Tabl 1.2	Mae CCGC yn croesawu'r sylw a roddwyd i restru effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth ystyried y goblygiadau cyffredinol all fod (yn gadarnhaol a negyddol) o bob dewis CRhT.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd.	P.Brunner	03/11/2010
1.9.3	Cloriannu'r Cynllun a'r Gwahanol Ddewisiadau. Mae CCGC yn croesawu'r sail resymegol eglur a roddwyd i'r dull a ddefnyddiwyd wrth gymhwyso'r asesiad. Mae hyn yn ymddangos fel agwedd ymarferol a synhwyrol sy'n osgoi ailadrodd diangen.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd.	P.Brunner	03/11/2010
Tabl 2.2	Mae CCGC yn croesawu amcanion yr AAS ac, yn arbennig, y penderfyniad i ddefnyddio amcanion a ddatblygwyd ar gyfer CRhT cyfagos Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr i sicrhau cysondeb. Fel y crybwyllwyd eisoes, byddai CCGC yn croesawu sicrwydd yr ystyriwyd cysondeb gyda CRhT2 Trwyn Larnog i Benrhyn y Santes Ann (De Cymru) hefyd.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Ystyriwyd Trwyn Larnog i Benrhyn y Santes Ann (De Cymru) wrth ddatblygu CRhT Gorllewin Cymru. Fodd bynnag, dylid nodi bod prosesau arfordirol y ddau CRhT yn wahanol ac ef allai nad oes unrhyw gydadwaith rhwng y ddau CRhT.	P.Brunner	03/11/2010
Tabl 2.2	Wrth ystyried Amcan Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid yr AAS, mae cyfeiriad at gynefinoedd BAP ond nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at rywogaethau BAP. Byddai modd cyfeirio'n benodol hefyd at yr angen i ystyried cynefinoedd a rhywogaethau daearol a morol.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	O ran rhywogaethau BAP, mae'r rhain yn fwy byrhoedlog mewn cymhariaeth â chynefinoedd sefydlog BAP ac nid oedd manylion rhywogaethau penodol i bob safle BAP yn hysbys. Fodd bynnag, ar sail asesu nodweddion diddordeb y SoDdGA yn yr asesiad lefel uwch byddai dylanwad yn rhaeadru ar reoli'r rhywogaethau BAP at ei gilydd ar gyfer CRhT Gorllewin Cymru 2.	P.Brunner	03/11/2010

Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
Tabl 2.2	Mae CCGC yn ceisio eglurhad ynghylch yr enw Derbynnydd AAS 'Treftadaeth y Ddaear, Priddoedd a Daeareg' – beth yw'r gwahaniaeth rhwng treftadaeth y ddaear, priddoedd a daeareg gan fod yr enw'n edrych fel petai'n ailadrodd yr un derbynyddion neu rai tebyg? Gall symleiddio'r enw hwn fod yn llai dryslyd. Byddem hefyd yn argymell ymestyn y nodweddion a drafodwyd, dangosyddion a thargedau ar gyfer derbynnydd AAS 'Treftadaeth y Ddaear, Priddoedd a Daeareg' i gynnwys safleoedd GCR (Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol) yn ogystal â SoDdGA.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Newidiwyd enw'r amcan AAS ar gyfer Treftadaeth y Ddaear, Priddoedd a Daeareg i ddaeareg a geomorffoleg er symlrwydd.	P.Brunner	03/11/2010
3.3.4	Bioamrywiaeth Gall perygl newid yn yr hinsawdd / cynnydd yn lefel y môr ar Ynysoedd y Moelrhoniaid ac Ynys Feurig fod â budd cadarnhaol hyd yn oed. Gall cymeriad morlyn Cemlyn newid a bod angen rhywfaint o reoli cadarnhaol, ond ni fydd cynnydd yn lefel y môr yn effeithio'n negyddol o angenrheidrwydd.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Adran 3.3.4 yr ER i adlewyrchu y gall fod canlyniad cadarnhaol hefyd i rai safleoedd mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr.	P.Brunner	03/11/2010
4.	Asesiad Amgylcheddol Strategol – Sylwadau cyffredinol.Mewn rhai achosion lle nodwyd HTL fel y polisi dewisol (e.e. Uned PDZ 5.7), mae hyn yn cael ei gofnodi ar hyn o bryd fel effaith niwtral er y gall beri gwasgfa arfordirol a cholli cynefin rhynglanwol. Ble bynnag y caiff cynefin arfordirol ei golli oherwydd polisi HTL, bydd angen dosbarthu hyn fel effaith negyddol a gwneud iawn amdani. Ar ben hynny, mae'r un peth yn berthnasol lle sefydlwyd polisi NAI ar ddarn o forlin a amddiffynnwyd ar hyn o bryd, oherwydd y bydd yr amddiffynfeydd arfordirol sy'n dal i weithredu'n gwaethygu a chyflymu colli cynefin arfordirol	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Tybiaeth gyffredinol sylweddol o HTL yw effaith andwyol ar nodweddion fel cynefin rhynglanwol trwy wasgfa arfordirol. Rydym wedi asesu HTL ac mae holl ddewisiadau rheoli eraill ar lefel unedau polisi'n ystyried y nodweddion diddordeb penodol, lleoliad a dylanwadau cyfagos (e.e. amgylchedd adeiledig). Fodd bynnag, y brif nodwedd budd amgylcheddol yn Uned Bolisi 5.7 yw'r cwrs dŵr cysylltiedig â SoDdGA Afon Teifi na fyddai polisi HTL yn dylanwadu arni gan gynnwys prosesau afonol cysylltiedig. O ran NAI ac amddiffynfeydd presennol, bydd maint yr effaith yn dibynnu ar fuddiannau gwarchod natur y tu ôl i'r amddiffynfeydd.	P.Brunner	03/11/2010
4.	Byddai CCGC yn disgwyl gweld adran ynghylch y derbynnydd 'Treftadaeth Ddaear, Priddoedd a Daeareg' ar gyfer pob Parth Datblygu Polisi sydd â SoDdGA daearegol (a safleoedd GCR – gwelwch y nodyn ar Dabl 2.2 uchod).	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Adran 4 yr ER i gynnwys adran ar ddaeareg a geomorffoleg dan yr effeithiau ar bob PDZ.	P.Brunner	03/11/2010
Tabl 4.1	Mae CCGC yn croesawu cymhariaeth o amcanion AAS â hwy eu hunain ac amcanion AAS eraill, i bennu faint o wrthdaro sy'n debygol o fod o ganlyniad i bennu polisïau'r CRhT. Fodd bynnag, mae Tabl 4.1 yn aneglur. Pam fod dwy res gyferbyn â phob amcan? Pam fod effeithiau (gwahanol) pan gaiff amcanion yr AAS eu hasesu gyferbyn â hwy eu hunain? Byddai allwedd i i ddehongli'r Tabl hwn yn hynod werthfawr.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Fel y nodwyd yn Adran 4 yr ER – Pan nad oes unrhyw wrthdaro neu os yw'r amcan yn cefnogi cyflawni amcan arall, caiff y rhes ei lliwio'n wyrdd (rhes 1), tra bo gwrthdaro'n cael ei liwio'n oren (rhes 2). Pan nad oes unrhyw wrthdaro, ond dim ymdoddi i'w ddisgwyl rhwng yr amcanion, lliwiwyd y rhes yn las gan ddangos effaith niwtral neu ddim effaith ar gyflawni'r amcan. Fodd bynnag, gall fod gwahanol wrthdrawiadau ar gyfer yr amcanion mewn ymateb i ganlyniadau cadarnhaol a negyddol. Er enghraifft, rhwng amcanion yr amgylchedd naturiol ac amcanion cysylltiedig â phobl, fe all gadael i brosesau naturiol ddigwydd (a datblygu ac ymestyn cynefinoedd newydd neu wahanol o ganlyniad) beri colli asedau dynol (treftadaeth adeiledig, archeoleg, isadeiledd, anheddau). Rhoddwyd allwedd yn Adran 4.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.122, 4.2.137, 4.2.162, 4.2.215 a 4.2.270	PDZ 10, 11, 12, 16 a 20. Calonogwyd CCGC o weld cydnabod gwasgfa arfordirol wrth gynnal amddiffynfeydd i warchod isadeiledd cludiant (rheilffordd a ffordd). Drwy gydol cyfranogiad CCGC yn y broses AAS ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru, rydym wedi mynegi pryderon ynghylch cyfyngiadau isadeiledd rheilffyrdd ar reolaeth orau'r morlin ac fe godwn y mater yma eto. Mae angen cofnodi gwasgfa arfordirol oherwydd isadeiledd rheilffyrdd a gwneud iawn amdano.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd. Fodd bynnag, dim ond cynlluniau byrdymor sydd gan awdurdodau rheilffyrdd gyda'r amcan allweddol o warchod isadeiledd rheilffyrdd ac, er y gall yr AAS a CRhT gofnodi'r effeithiau all fod ar yr amgylchedd oherwydd isadeiledd o'r fath (e.e. gwasgfa arfordirol o gynefinoedd), yr awdurdod rheilffyrdd fydd yn gorfod gwneud iawn am y cynefin.	P.Brunner	03/11/2010
4.3	Asesiad CFfD. Calonogwyd CCGC o weld asesiad CFfD o bolisïau CRhT2 ar gyfer pob PDZ.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd.	P.Brunner	03/11/2010

Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
Tabl 4.24	Tra bo'r tabl hwn yn rhoi ystyriaeth ddiddorol o effeithiau eilaidd, cronnus a synergaidd, nid yw'n ystyried goblygiadau'r cynlluniau perthnasol, rhaglenni a pholisïau'n ddigonol. Dim ond ychydig gynlluniau, rhaglenni a pholisïau sy'n cael eu crybwyll ac mae cyfeirio atynt yn ymddangos braidd yn symboleiddiol. Fel dim ond dwy enghraifft, nid oes unrhyw ystyriaeth o Astudiaeth Ragbrofol Llifogydd Pwllheli, a dim cyfeiriad at Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro dan gymeriad tirwedd ac amwynder gweledol.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Tabl 4.24 i adlewyrchu ystyried mwy ar y cynlluniau, rhaglenni a pholisïau.	P.Brunner	03/11/2010
4.5.1	Bioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid. Mae CCGC yn croesawu parhad cyfeiriad at yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drwy'r ddogfen i gyd. Rydym hefyd yn croesawu cydnabod yn benodol effeithiau polisïau CRhT2 ar nodweddion diddordeb SoDdGA a chynefinoedd BAP. Tra nad yw cynefin cydadferol yn ofynnol mewn cyfraith ar gyfer dynodiadau SoDdGA, mae ymrwymiad i ddiogelu a chyfoethogi eu nodweddion gwarchodedig. Mae colli cynefin arfordirol yn bygwth cyflawni targedau "dim colled at ei gilydd" ar gyfer ecosystemau arfordirol a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd. Fodd bynnag, er nad yw cynefin cydadferol yn ofynnol mewn cyfraith ar gyfer dynodiadau SoDdGA, mae mwyafrif nodweddion diddordeb yn gysylltiedig ag AGA neu ACA. Fel y cyfryw, bydd effeithiau andwyol cysylltiedig â safleoedd Natura 2000 a gofyniad cynefin cydadferol hefyd yn elwa cydrannau nodwedd ddiddordeb SoDdGA y dynodiadau Natura 2000.	P.Brunner	03/11/2010
4.5.4	Treftadaeth Ddaear, Priddoedd a Daeareg. NAseswyd polisi NAI fel niwtral neu effaith negyddol ar ddaeareg mewn mannau. Dylid awgrymu lliniaru ar gyfer y mater hwn fel y gwnaed gydag asedau'r Amgylchedd Hanesyddol sy'n debygol o ddiflannu / gael eu heffeithio. Hynny yw, dylai fod polisi o ddogfennu a chofnodi cyn eu colli. Mae CCGC yn credu bod asesiad o effaith niwtral ar ddaeareg yn anghywir – amcan yr AAS yw "cynnal prosesau naturiol a chadw amlygiadau daearegol yn holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol". Mae CCGC yn teimlo'n gryf na fyddai amlygiadau o'r fath yn cael eu cynnal os ydynt yn agored i erydiad ac, felly, byddai'r effaith yn un negyddol. Gallai hyn fod yn berthnasol hefyd i ardaloedd lle gall cynnydd yn lefel y môr beri nad yw amlygiad daearegol yn hygyrch mwyach.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Er nad oes unrhyw strategaeth liniaru sylweddol ar gael ar gyfer safleoedd daearegol, rydym wedi cynnwys y safleoedd hynny fyddai'n elwa ar ddogfennu a chofnodi yn Adran 5 yr ER. Mae parhad amlygu safleoedd daearegol yn naturiol o bwysigrwydd eithriadol i'r CRhT2, a dosbarthwyd y safleoedd hynny lle bydd NAI yn caniatáu parhad amlygiad fel niwtral trwy gadw'r sefyllfa bresennol am nad yw polisi CRhT wedi dylanwadu ar ganlyniad / cyfanrwydd y nodwedd ddiddordeb. O ran y safleoedd hynny all gael eu heffeithio gan gynnydd yn lefel y môr, efallai na fydd hyn ond yn digwydd ar hyd traed clogwyni ac ati ac na fydd yn effeithio ar y nodwedd diddordeb daearegol i gyd.	P.Brunner	03/11/2010
4.5.6	Cymeriad tirwedd ac amwynder gweledol. Mae CCGC yn croesawu ystyriaeth o'r effaith y gall polisïau CRhT2 ei chael ar gymeriad tirwedd ac amwynder gweledol. Bydd polisïau HTL yn gofyn amddiffyn yr arfordir yn fwy sylweddol yn y dyfodol. Mae mater effeithiau ar dirwedd yn codi eisoes a bydd yn fwy fyth felly yn y dyfodol. Tra byddai CCGC yn cytuno y gall dylunio camau gweithredu HTL yn ystyriol a phriodol gynorthwyo lleihau unrhyw effeithiau cysylltiedig â pholisïau CRhT2, byddem yn annog defnyddio dull asesu tirwedd / morwedd. Mae rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn i'w chael yn adroddiad CCGC ar effaith amddiffynfeydd rhag y môr ar dirwedd.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Noted.	P.Brunner	03/11/2010
5.	Arolygu a lliniaru. Rydym yn croesawu'r sail resymegol eglur i'r angen i arolygu a'i ymgorffori yn y Cynllun Gweithredu. Rydym hefyd yn croesawu a chefnogi'r camau allweddol i gadw golwg ar yr amgylchedd a nodwyd ac edrychwn ymlaen at weld mwy'n cael ei wneud i gysylltu gwaith arolygu'r CRhT2 ag arolygu parhaol SoDdGA a BAP.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Noted.	P.Brunner	03/11/2010

Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
5.	Lle nodwyd y gallai polisïau MR neu HTL effeithio ar y safleoedd dynodedig, awgrymwyd lliniaru (neu wneud iawn dan y Rheoliadau Cynefinoedd). Mae hyn yn cynnwys creu cynefinoedd. Tra bo hyn yn iawn mewn egwyddor, mae CCGC yn amheus ynghylch ymarferoldeb creu cynefin rhynglanwol a fyddai'n debygol o effeithio ar nodweddion daearol eraill (ar hyn o bryd) o ddiddordeb sy'n nodweddion dynodedig, yn gynefinoedd BAP neu'n wir yn bosibiliadau SoDdGA Cyfnod II. Gall lliniaru am golli asedau eraill, e.e. isadeiledd cludiant, ei hun effeithio ar gynefinoedd neu nodweddion eraill. Mae Niwgwl (PDZ 2) yn enghraifft glasurol o hyn. Mae CCGC yn awyddus i sicrhau nad yw mesurau lliniaru sy'n cael eu hawgrymu yn peri effeithiau amgylcheddol andwyol eu hunain.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Byddai mesurau lliniaru a awgrymwyd ar gyfer derbynnydd fel cynefinoedd BAP (e.e. creu cynefinoedd) ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru angen astudiaethau ymarferoldeb manwl penodol i safle eu hunain i sicrhau na fyddai effaith hirdymor ar dderbynyddion eraill mewn ymateb i liniaru.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad A	Byddem yn gwneud sylw cyffredinol fod llawer o wallau argraffu / sillafu.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Gwiriwyd mwy ar sillafu er mwyn dileu gwallau argraffu. Gwnaed hyn hefyd ar y tablau asesu eraill (Atodiadau B, C a D).	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C	Mae gan CCGC bryderon sylweddol ynghylch sut y cofnodwyd maint effaith rhai polisïau rheoli ar Unedau Polisi. Fel un enghraifft, y polisi ar gyfer Unedau Polisi 5.5 a 5.7 (Afon Teifi) yw HTL ymhob un o'r tri chyfnod, fydd yn peri gwasgfa arfordirol a cholli cynefin rhynglanwol. Ar hyn o bryd, cofnodwyd hyn fel effaith niwtral. Mae CCGC yn teimlo'n gryf na ddylid ystyried effaith sy'n peri colli nodwedd SoDdGA neu gynefin BAP yn un niwtral. Byddai CCGC yn awgrymu mwy o drafodaethau rhwng y rhai sydd â diddordeb i ailystyried yr effeithiau ar ddynodiadau SoDdGA. Fel mater o ddiddordeb, ar gyfer yr Unedau Polisi hyn caiff y polisi HTL ei gofnodi fel un sy'n cael effaith negyddol sylweddol ar y cynefin BAP cyfatebol.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Fel y nodwyd eisoes, tybiaeth gyffredinol sylweddol o HTL yw effaith andwyol ar nodweddion fel cynefin rhynglanwol trwy wasgfa arfordirol. Rydym wedi asesu HTL ac mae holl ddewisiadau rheoli eraill ar lefel yr unedau polisi'n ystyried y nodweddion diddordeb penodol, lleoliad a dylanwadau cyfagos (e.e. amgylchedd adeiledig) cysylltiedig â SoDdGA a BAP. Fodd bynnag, y brif nodwedd budd amgylcheddol yn Uned Bolisi 5.7 yw'r cwrs dŵr cysylltiedig â SoDdGA Afon Teifi na fyddai polisi HTL yn dylanwadu arni gan gynnwys prosesau afonol cysylltiedig. Fodd bynnag, gallai gwasgfa arfordirol ar hyd yr un unedau polisi effeithio'n uniongyrchol ar gynefinoedd BAP fel gwastadedd tywod a gwastadeddau llaid.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad D - cyffredinol	Mae CCGC yn gwneud sylw cyffredinol bod gwybodaeth am liniaru ar goll o lawer o fannau lle caiff effaith andwyol ei chofnodi ar gyfer pob un o'r tri chyfnod. Os nad yw ail-greu cynefin yn briodol (e.e. Uned Bolisi 11.10, colli coetir conifferaidd neu Uned Bolisi 15.6, colli glaswelltir wedi'i wella) dylid esbonio hyn.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Atodiad D i adlewyrchu'r ymateb hwn. Mae'r hynny o laswelltir wedi'i wella'n gors bori arfordirol ac ar orlifdir mewn gwirionedd ar sail dosbarthiad BAP CCGC ac, felly, rydym wedi newid enw'r dosbarthiad o ganlyniad (gwelwch sylwadau pellach isod ar laswelltir wedi'i wella).	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad E Adroddiad Cwmpasu	Mae CCGC wedi ymateb ddwywaith o'r blaen i'r adroddiad cwmpasu AAS (Mawrth a Medi 2010).	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Noted.	P.Brunner	03/11/2010
Sylwadau eraill	Byddai CCGC wedi disgwyl i ddrafft Adroddiad yr Amgylchedd fod wedi rhoi cyd-destun strategol a pholisi, gan gyfeirio at bolisïau, rhaglenni a chynlluniau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol allweddol ac ystyried sut yr ystyriwyd y rhain. Roddwyd rhestr o gynlluniau o'r fath yn ymateb cyntaf CCGC i ddrafft adroddiad cwmpasu'r AAS (dyddiad). Byddem hefyd yn disgwyl gweld rhywfaint o gyfeiriad at ansicrwydd a pheryglon all daro ar broses yr AAS.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Tabl 4.24 i adlewyrchu ystyried mwy ar y cynlluniau, rhaglenni a pholisïau.	P.Brunner	03/10/2010
Sylwadau eraill	Gall effeithiau anuniongyrchol ar brosesau arfordirol, llwybrau cludo, cyflymder a chyllidebau gwaddodion, ac ati ddeillio o weithredu polisïau HTL neu hyd yn oed MR. Felly, dylid cynnwys asesiad o effeithiau andwyol all fod ar brosesau arfordirol yn yr AAS.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Ystyriwyd effeithiau anuniongyrchol ar brosesau arfordirol, llwybrau cludo, cyflymder a chyllidebau gwaddodion cysylltiedig â gweithredu polisïau HTL neu hyd yn oed MR, trwy ddatblygu prif adroddiad y CRhT ac atodiadau cysylltiedig fel yr adroddiad prosesau arfordirol (Atodiad C) ac asesiadau senarios polisi (Atodiad E). Mae'r AAS wedi defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer rhai unedau polisi er mwyn eglurder wrth wneud yr asesiad.	P.Brunner	03/11/2010

Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
PDZ 1-4 (ACA Sir Benfro Forol)	Mae morloi llwydion yn nodwedd o ACA Sir Benfro Forol. Gallai colli cynefin rhynglanwol gael effaith sylweddol oherwydd y gall maint a nifer traethau bwrw lloi ac ardaloedd glanio leihau. Byddai hynny'n effeithio ar hyfywedd poblogaeth hirdymor ac yn tanseilio Amcanion Cadwraeth y nodwedd hon yn y pen draw.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Ni fydd unrhyw gynefin rhynglanwol yn cael ei golli yn PDZ 1 a 4 ar sail yr HRA ac, felly, ni fydd unrhyw effaith ar draethau bwrw lloi ac ardaloedd glanio. Bydd effaith ar ACA Sir Benfro Forol ac, felly, ar gynefin y morlo llwyd a nodwyd yn yr ER ar gyfer PDZ 2 a PDZ 3.	P.Brunner	03/11/2010
Tabl 3.1: Uned Reoli 16.8, Ynys Llanddwyn	Byddem yn awgrymu nad yw'r Bythynnod Peilotiaid blaenorol mewn perygl dybryd o gynnydd yn lefel y môr, na chwaith y goleudy.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Tabl 3.1 ac Atodiad A yr ER.	P.Brunner	03/11/2010
Tabl 3.1: Uned Reoli 17.14, Porth Dafarch, Ynys Lawd a Bae Gogarth	Mae mwy o gynnydd yn lefel y môr yn annhebygol iawn o effeithio ar yr adeileddau hyn. Maent yn sefyll ar glogwyni môr caled cyn-Gambriaidd.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Tabl 3.1 ac Atodiad A yr ER.	P.Brunner	03/11/2010
PDZ 3, SoDdGA y Bermo	Mae SoDdGA y Bermo eisoes yn dioddef colledion blynyddol i'r môr oherwydd erydiad. Y polisi ymhob cyfnod yw NAI. Dylai fod lliniaru (dogfennu a chofnodi cyn colli) ar gyfer y safle hwn, fel sydd ar gyfer llawer o asedau'r Amgylchedd Hanesyddol ar hyd a lled ardal y CRhT.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd dogfennu a chofnodi fel lliniaru ar gyfer y safle hwn yn yr ER ac Atodiad C.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.124: PDZ 10, Borth Uchaf i Donfannau	Gellid colli'r glaswelltir twyni sefydlog ar lannau Uned Bolisi 10.15 (Penllyn) a'r borfa gorslyd y tu ôl sy'n cynnal cornchwiglod yn magu (i gyd o ddiddordeb SoDdGA trwy erydiad a gorlifo gyda'r polisi MR.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Bydd maint yr effaith cysylltiedig â MR fel erydiad yn dibynnu ar ddyluniad a chwmpas yr adlinio rheoledig sydd yn yr arfaeth ar gyfer y safle hwn, sy'n anhysbys ar hyn o bryd. Pe bai bylchu'n digwydd yna byddai posibilrwydd gorlifo'r borfa gorslyd all arwain at effaith andwyol cymedrol. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei liniaru gan leihau maint yr effaith cysylltiedig â gorlifo.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.126: PDZ 10, Borth Uchaf i Donfannau	Gallai'r polisi MR yn Uned Bolisi 10.15 (Penllyn) beri colli cynefinoedd a rhywogaethau BAP: Cors bori twyni tywod, arfordirol a gorlifdir, cornchwiglod yn magu Vanellus vanellus, Dactylorhiza purpurella subsp. cambrensis, Oenanthe fistulosa.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Bydd maint yr effaith cysylltiedig â MR yn dibynnu ar ddyluniad a chwmpas yr adlinio rheoledig yn yr arfaeth ar gyfer y safle hwn sy'n anhysbys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai unrhyw effaith andwyol ar gynefinoedd a rhywogaethau BAP y safle hwn yn cael ei liniaru gan leihau'r effaith.	P.Brunner	03/11/2010
	Mae'n ymddangos bod glaswelltir wedi'i wella'n cael ei alw'n gynefin BAP.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae cyfeiriad at laswelltir wedi'i wella fel cynefin BAP mewn gwirionedd yn gors bori arfordirol ac ar orlifdir seiliedig ar ddosbarthiad cynefinoedd BAP CCGC. Diweddarwyd Atodiad D a'r ER o ganlyniad.	P.Brunner	03/11/2010
ASS	Mae'r ymadrodd 'coetir Yw cymysg collddail' yn ddiystyr yng nghyd-destun y rhan fwyaf o'r Canolbarth a'r Gogledd. Caiff yr ymadrodd hwn ei ddefnyddio rwy'r adran hon i gyd. Byddai 'coetir llydanddail lled-naturiol' yn fwy priodol.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Ar gyfer yr AAS hwn rydym yn defnyddio dosbarthiad cynefinoedd BAP sy'n cynnwys coetir Yw cymysg collddail i beri llai o ddryswch.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.137: PDZ 11, Tonfannau i Fochras	Cyfeiriwyd at Uned Bolisi 11.11 (Llyn Penmaen) fel 11.12 (Llyn Penmaen) ym Mhrif Adroddiad PDZ11 oedd yn trafod y polisïau rheoli. Dylid egluro at ba Uned Bolisi mae'n cyfeirio.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae'r unedau polisi a labelwyd yn yr ER a'r HRA yn gywir a dyma'r fersiynau cyfredol ym mis Tachwedd 2010.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.138: PDZ 11, Tonfannau i Fochras	Caiff ei grybwyll y gall gweundir gael ei golli o Uned Bolisi 11.13 (yr Aber Uchaf) oherwydd y polisi MR. Mae CCGC yn aneglur ymhle mae'r gweundir y cyfeiriwyd ato.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae ardal y gweundir yn ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.139: PDZ 11, Tonfannau i Fochras	Dylid egluro at ba Uned Bolisi mae 11.11 yn cyfeirio. Nid yw Prif Adroddiad PDZ 11 yn cynnwys 11.11, gan fynd yn syth o 11.10 (De Mawddach) i 11.12 (Llyn Penmaen)	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae'r unedau polisi a labelwyd yn yr ER a'r HRA yn gywir a dyma'r fersiynau cyfredol.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.139: PDZ 11, Tonfannau i Fochras	Gall y polisi MR yn Uned Bolisi 11.9 (Fegla) beri colli diddordeb y SoDdGA a nodwedd ACA Cors Arthog (cynefin BAP Cyforgors Iseldir). Dylid gwneud hyn yn glir.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Bydd maint yr effaith gysylltiedig â MR yn dibynnu ar ddyluniad a chwmpas yr adlinio rheoledig arfaethedig ar gyfer y safle hwn sydd ar hyn o bryd yn anhysbys a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr effaith negyddol bach ar gyfer y safle hwn. Fodd bynnag, bydd lliniaru priodol yn cael ei weithredu i leihau effeithiau andwyol sylweddol.	P.Brunner	03/11/2010

Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
4.2.140: PDZ 11, Tonfannau i Fochras	Mae creigres llyngyr diliau Sabellaria alveolata yn Uned Bolisi 11.1 (Rola) ac Uned Bolisi 11.3 (Clogwyni'r Friog) ac mae i'w chael ar lefel ganol y parth rhynglanwol. Os caiff HTL ei ddilyn yn yr unedau hyn a lefel y môr yn cynyddu, yna gall fod gwasgfa arfordirol o'r cynefinoedd rhynglanwol, gan wneud amgylchiadau'n llai ffafriol i Sabellaria.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae'r amddiffynfa bresennol ar hyd yr unedau polisi hyn o dir uchel a bydd yn cael ei chynnal er mwyn gwarchod y rheilffordd. Gan fod y tir uchel yn cyfyngu'r blaendraeth creigiog, bydd nodweddion diddordeb SoDdGA biolegol cysylltiedig â chreigresi'n cael eu colli, er enghraifft, yn naturiol ac nid o ganlyniad i bolisi CRhT2.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.141: PDZ 11, Tonfannau i Fochras	Caiff Uned Bolisi 11.13 (Gogledd Mawddach) ei chyfeirio ati fel 11.14 ym Mhrif Adroddiad PDZ 11. Caiff Uned Bolisi 11.15 (Gogledd y Bermo) ei chyfeirio ati fel 11.16 ym Mhrif Adroddiad PDZ 11. Caiff Uned Bolisi 11.17 (Cors Egryn) ei chyfeirio ati fel 11.18 ym Mhrif Adroddiad PDZ 11. Caiff Uned Bolisi 11.18 (Sunnysands) ei chyfeirio ati fel 11.12 ym Mhrif Adroddiad PDZ 11. Gall y cynefin BAP Cyforgors Iseldir gael ei golli o Uned Bolisi 11.9 (Fegla) os caiff MR ei ddilyn.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae'r unedau polisi a labelwyd yn yr ER a'r HRA yn gywir a dyma'r fersiynau cyfredol ym mis Tachwedd 2010.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.143: PDZ 11, Tonfannau i Fochras	Caiff Uned Bolisi 11.1 ei chrybwyll ddwywaith.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd a diweddarwyd yr ER.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.155: PDZ 12, Mochras i Benychain	Gallai HTL yn Uned Bolisi 12.6 (pentir Llandanwg) effeithio ar hyfywedd hirdymor y greigres Sabellaria, gan y byddai gwasgfa arfordirol ar lefel ganol y parth rhynglanwol gyda chynnydd yn lefel y môr.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Aseswyd polisi HTL yn Uned Bolisi 12.6 fel effaith negyddol sylweddol ar rai nodweddion diddordeb eisoes. Fodd bynnag, nodwyd yr effaith ar y greigres Sabellaria hefyd yn yr ER.	P.Brunner	03/10/2010
4.2.155: PDZ 12, Mochras i Benychain	Rhifwyd Uned Bolisi 12.14 (Borth-y-gest) fel 12.15 ym Mhrif Adroddiad PDZ 12. Caiff Uned Bolisi 12.17 (Traethellau Cricieth) ei henwi fel Morfa Bychan ym Mhrif Adroddiad PDZ 12.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae'r unedau polisi a labelwyd yn yr ER a'r HRA yn gywir a dyma'r fersiynau cyfredol ym mis Tachwedd 2010.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.156: PDZ 12, Mochras i Benychain	Mae'n ymddangos bod glaswelltir wedi'i wella a garddwriaeth âr yn cael eu galw'n gynefin BAP. Dylai rhestr cynefinoedd BAP gynnwys twyn tywod a morfa heli.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Tynnwyd cyfeiriad at arddwriaeth âr fel cynefin BAP o'r asesiad (Atodiad D). Mae CCGC wedi rhoi'r cynefinoedd BAP i Royal Haskoning, ond adeiladwyd y data o set ddata Cyfnod 1 gyda'r mathau bras o gynefin gwaddod arfordirol yn cynnwys morfa heli a gwaddod uwcharfordirol yn cynnwys y twyni tywod arfordirol. Mae asesu'n fanwl am y nodweddion BAP hyn ymhob uned bolisi yn eithaf cymhleth, er bod y nodweddion hyn yn gysylltiedig â rhai SoDdGA / safleoedd *Natura 2000* yng ngorllewin Cymru a aseswyd yn yr AAS a'r HRA. Fodd bynnag, rydym wedi tynnu cyfanswm yr ardaloedd morfa heli, twyn, llaid rhynglanwol a thywod rhynglanwol fesul Uned Bolisi a chyfnod i alluogi asesiad bras o'r polisïau ar y nodweddion hyn.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.170 i 4.2.180: PDZ 13, Penychain i Drwyn Cilan	Rydym yn synnu nad oes unrhyw groesgyfeiriad at Astudiaeth Ragbrofol Llifogydd Pwllheli (anogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i gefnogi gan Gyngor Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, CCGC, Dŵr Cymru a Network Rail). Mae'r prosiect hwn yn ystyried holl senarios ac yn ystyried effaith materion llifogydd afonol ac arfordirol.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Tabl 4.24 i adlewyrchu ystyried mwy ar y cynlluniau, rhaglenni a pholisïau.	P.Brunner	03/10/2010
4.2.211: PDZ 16, Trwyn Dylan i Lanfairfechan	Mae'n annhebygol y byddai'r Bythynnod Peilotiaid yn Llanddwyn yn cael eu heffeithio gan gynnydd yn lefel y môr (gwelwch y sylwadau ar Dabl 3.1).	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd, cadarnhawyd a diweddarwyd ER.	P.Brunner	03/11/2010
4.2.226: PDZ 17, Twyn y Parc i Dwyn Cliperau	Mae'n annhebygol iawn y byddai erydiad yn effeithio ar Dŵr Elen a Gorsaf Niwl Ynys Arw gan eu bod ar glogwyni cyn-Gambriaidd caled iawn, dros 30 metr uwchlaw HWOT (gwelwch y sylwadau ar Dabl 3.1 uchod).	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd, cadarnhawyd a diweddarwyd ER.	P.Brunner	03/11/2010
Tudalen 92: PDZ 19	Nid yw pennawd PDZ 19 yn gwneud synnwyr. Dylai ddarllen 'Baeau Dwyreiniol Ynys Môn'.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Cywirwyd pennawd ER i ddarllen Baeau Dwyreiniol Ynys Môn.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad A: ID 397, Pwllheli	Mae hyn angen croesgyfeiriad at Astudiaeth Ragbrofol Llifogydd Pwllheli (gwelwch y sylwadau ar baragraff 4.2.170 uchod).	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Tabl 4.24 i adlewyrchu ystyried mwy ar y cynlluniau, rhaglenni a pholisïau.	P.Brunner	03/10/2010

Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
Atodiad A: ID 570 (Ynys Lawd) a 573 (Bae Gogarth)	Mae'n annhebygol iawn y byddai erydiad yn effeithio ar Dŵr Elen a Gorsaf Niwl Ynys Arw gan eu bod ar glogwyni cyn-Gambriaidd caled iawn, dros 30 metr uwchlaw HWOT (gwelwch y sylwadau ar Dabl 3.1 uchod).	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd, cadarnhawyd a diweddarwyd ER.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C	Sylw cyffredinol yw pan fo effaith andwyol yn cael ei dangos ar draws bob un o'r tri chyfnod, mae'r golofn liniaru'n wag yn aml, e.e. Uned Bolisi 11.8 (Aber Mawddach) neu 12.13 (Morfa Harlech). Mae'r ddau achos penodol hwn yn cynnwys ACA, lle bo'r diffyg hwn yn syndod. Yn ogystal, mae'n ymddangos bod y bumed golofn (graddfa) yn gymysglyd, gydag ACA yn cael eu rhestru fel 'lleol' tra caiff SoDdGA cael eu labelu fel 'rhyngwladol'. Wrth reswm, mae holl ACA yn rhyngwladol.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Atodiad C i ymgorffori lliniaru am holl effeithiau negyddol sylweddol ar ddynodiadau. O ran y safleoedd SoDdGA hynny sy'n gysylltiedig â safle GCR, graddfa'r labelu yw Rhyngwladol / Cenedlaethol i adlewyrchu statws rhyngwladol GCR.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 6.1, Aber-arth - Carreg Wyla	Mae CCGC yn croesawu'r strategaeth NAI ar Gaeau Madryn.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 10.15, Dyfi	Dylai'r tabl asesu gofnodi effaith negyddol sylweddol ar y SoDdGA (gwelwch y nodyn ar baragraff 4.2.124 uchod).	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Bydd maint yr effaith cysylltiedig â MR fel erydiad yn dibynnu ar ddyluniad a chwmpas yr adlinio rheoledig arfaethedig ar gyfer y safle hwn sy'n anhysbys ar hyn o bryd. Pe bai bylchu'n digwydd yna gallai'r borfa gorslyd gael ei gorlifo a allai beri effaith andwyol cymedrol. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei liniaru gan leihau maint yr effaith cysylltiedig â gorlifo.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 10.18 i 11.3 Glannau Tonfannau i'r Friog	Ym mhumed golofn y tabl 'Buddiannau / Pam fod y mater yn bwysig?' cwtogwyd y testun.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae'r testun ym mhumed golofn y tabl 'Buddiannau / Pam fod y mater yn bwysig?' yn Uned Bolisi 10.18 yn edrych yn iawn.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 10.18, Glannau Tonfannau i'r Friog	Ar gyfer Uned Bolisi 10.18 (Aber Dysynni) SoDdGA Llyn Morfa Gwyllt gallai'r polisi MR yn y ddau gyfnod olaf effeithio'n negyddol ar fudd presennol y SoDdGA.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Yn Afon Dysynni, bwriad y cynllun fyddai Adlinio Rheoledig (MR) yr amddiffynfeydd yn y ddau gyfnod olaf. Fodd bynnag, bydd maint yr effeithiau (naill ai'n gadarnhaol neu negyddol) yn dibynnu ar gwmpas a dyluniad MR. O gymryd y llinell erydiad hirdymor fel maint y MR allai fod yna, ac eithrio mewn dau leoliad, ni fyddai MR yn effeithio'n sylweddol ar faint y SoDdGA. Yr ardaloedd hynny lle mae llinellau erydu yn ymestyn yn sylweddol heibio ffin y SoDdGA (cysylltiedig â thirweddau agored / anghyfyngedig), fe all fod lle i greu cynefinoedd fel rhan o MR.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 10.18, Glannau Tonfannau i'r Friog	Ar gyfer Uned Bolisi 10.18 (Aber Dysynni) SoDdGA Glannau Tonfannau i'r Friog, pam fod dwy gyfres o argymhellion polisi? O ran bioamrywiaeth, nodwyd planhigion ac anifeiliaid y polisïau HTL, MR, MR. Fodd bynnag, o ran Treftadaeth Ddaear, priddoedd a daeareg (GCR) dewiswyd polisïau HTL, HTL, HTL. HTL, MR, MR yw'r dewis polisïau ym Mhrif Adroddiad PDZ 10.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Atodiad C i adlewyrchu'r ymateb hwn gyda HTL, MR a MR yn Uned Bolisi 10.18 ar gyfer nodweddion biolegol a daearegol.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 11.1 to 11.2, Glannau Tonfannau i'r Friog	Yr argymhellion polisi ar gyfer Uned Bolisi 11.1 ac Uned Bolisi 11.2 (Rola / Llwyngwril) SoDdGA Glannau Tonfannau i'r Friog yn hollol groes i'w gilydd. Pam fod cyfeiriad at y ddau?	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Diweddarwyd Atodiad C i adlewyrchu'r ymateb hwn gydag asesiad ar wahân ar gyfer 11.2.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 11.1 to 11.2, Glannau Tonfannau i'r Friog	Os caiff erydiad ac felly treiglo'n ôl y tir uchel ei atal o ganlyniad i bolisi CRhT2 yna gall polisi CRhT2 arwain at golli nodwedd creigres Sabellaria yr ACA, diddordeb SoDdGA a chynefin BAP.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Yr amddiffynfa bresennol ar hyd yr unedau polisi hyn yw tir uchel a bydd yn cael ei gynnal er mwyn gwarchod y rheilffordd. Oherwydd bod y blaendraeth creigiog yn cyfyngu'r tir uchel, bydd colli nodweddion diddordeb biolegol SoDdGA cysylltiedig â chreigresi, er enghraifft, yn digwydd yn naturiol ac nid o ganlyniad i bolisi CRhT2.	P.Brunner	03/11/2010

Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
Atodiad C: Uned Reoli 11.3, Glannau Tonfannau i'r Friog	Yn Uned Bolisi 11.3 (Clogwyni'r Friog) SoDdGA Glannau Tonfannau i'r Friog – os caiff erydiad ac felly treiglo'n ôl y tir uchel ei atal o ganlyniad i bolisi CRhT2 yna gall polisi CRhT2 arwain at golli'r greigres Sabellaria.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Yr amddiffynfa bresennol ar hyd yr unedau polisi hyn yw tir uchel a bydd yn cael ei gynnal er mwyn gwarchod y rheilffordd. Oherwydd bod y blaendraeth creigiog yn cyfyngu'r tir uchel, bydd colli nodweddion diddordeb biolegol SoDdGA cysylltiedig â chreigresi, er enghraifft, yn digwydd yn naturiol ac nid o ganlyniad i bolisi CRhT2.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 11.5, Aber Afon Mawddach	Yn Uned Bolisi 11.5 (Tafod Ro Wen) SoDdGA Aber Afon Mawddach, gallai MR beri colli nodweddion y SoDdGA.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Awgrymwyd polisi HTL yn y cyfnod cyntaf i alluogi diogelu'r rheilffordd, yn cael ei ddilyn gan MR yn y ddau gyfnod olaf. Fodd bynnag, mae maint yr effaith cysylltiedig â MR ar Dafod Ro Wen a SoDdGA Aber Afon Mawddach yn anhysbys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd lliniaru priodol (e.e. creu cynefinoedd) yn cael ei wneud i leihau effeithiau andwyol negyddol mawr ar y SoDdGA yn y safle hwn.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 11.9, Aber Afon Mawddach	Yn Uned Bolisi 11.9 (Fegla) SoDdGA Aber Afon Mawddach, gallai MR arwain at golli budd SoDdGA (cors Arthog) ac, felly, mae effaith negyddol.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Bydd maint yr effaith cysylltiedig â MR fel erydiad yn dibynnu ar ddyluniad a chwmpas yr adlinio rheoledig arfaethedig ar gyfer y safle hwn sy'n anhysbys ar hyn o bryd a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr effaith negyddol fach ar gyfer y safle hwn. Fodd bynnag, bydd lliniaru priodol yn cael ei wneud i leihau effeithiau andwyol negyddol mawr.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C	Yn unedau polisi 11.11, 11.12, 11.13, 11.14, 11.19 ac 11.20, nid yw'n amlwg at ble mae'r rhifau'n cyfeirio am nad yw rhifau'r Unedau Polisi'n cyfateb i rai Prif Adroddiad PDZ 11.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae'r unedau polisi a labelwyd yn yr ER a'r HRA yn gywir a dyma'r fersiynau cyfredol ym mis Tachwedd 2010.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 12.5, Morfa Dyffryn	Yn Uned Bolisi 12.5 (Twyni Llandanwg) SoDdGA Morfa Dyffryn, gall MR beri colli budd Twyn Tywod y SoDdGA.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Bydd MR yn y safle hwn yn benodol yn osgoi estyniad pellach o amddiffynfa galed ar hyd y lan hon gyda'r bwriad o ganiatáu rhywfaint o reolaeth ond hefyd treiglo'n ôl naturiol y gyfundrefn dwyni fel bod rheoli presennol yn osgoi ymrwymiad yn y dyfodol i ymestyn amddiffynfa galed a chaniatáu prosesau naturiol. Felly, bydd y polisi'n cael mwy o effaith gadarnhaol na negyddol fel sy'n cael ei adlewyrchu yn Atodiad C.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 12.12, Morfa Harlech	Nid yw Uned Bolisi 12.12 ym Mhrif Adroddiad PDZ 12. A yw'n cyfeirio at Aber Uchaf Afon Dwyryd gyda rhif 12.11 yn y prif adroddiad? Os felly, dylai'r polisi fod yn MR yn y cyfnod cyntaf. Mae disgrifiad y polisi hefyd yn cyfeirio at dwyni, nad yw'n berthnasol i aber Dwyryd Uchaf.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae Uned Bolisi 12.12 yn cyfeirio at bentir Penrhyndeudraeth gyda pholisi NAI ymhob un o'r tri chyfnod.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad C: Uned Reoli 16.7, Cwningar Niwbwrch	Mae CCGC yn croesawu'r strategaeth NAI ar lan Coedwig Niwbwrch.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad D: Uned Reoli 10.15, Penllyn	Effaith negyddol sylweddol ar dwyni, cornchwiglod yn magu a phorfa gorslyd.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Bydd maint yr effaith cysylltiedig â MR fel erydiad yn dibynnu ar ddyluniad a chwmpas yr adlinio rheoledig arfaethedig ar gyfer y safle hwn sy'n anhysbys ar hyn o bryd. Pe bai bylchu'n digwydd yna gallai'r borfa gorslyd gael ei gorlifo a allai beri effaith andwyol cymedrol. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei liniaru gan leihau maint yr effaith cysylltiedig â gorlifo.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad D	Yn Unedau Polisi 10.16, 10.18, 10.19, 11.1, 11.3, 11.4, 11.6, 11.9, 11.10, 11.12, 11.13, 12.2, 12.3, 12.4, 12.5, 12.6, 12.8, 12.9 a 12.13 – nid yw glaswelltir wedi'i wella a rhedynen yn gynefinoedd BAP.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Ar sail dosbarthiad cynefinoedd BAP CCGC, glaswelltir wedi'i wella ar gyfer cynefinoedd blaenoriaethol BAP yng Nghymru yw cors arfordirol a chors bori ar orlifdir. Gan fod rhedyn yn gynefin BAP bras, gadawyd y rhain yn yr asesiad.	P.Brunner	03/11/2010

Cyfeirnod paragraff	Sylw	Enw	Dyddiad	Ymateb RH	Enw	Dyddiad
Atodiad D: Uned Reoli 11.1 (Rola), 11.3 (Clogwyni'r Friog), 12.6 (Pentir Llandanwg)	Dylai gynnwys effaith negyddol sylweddol ar gynefin BAP creigres Sabellaria alveolata.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Yr amddiffynfa bresennol ar hyd yr unedau polisi hyn yw tir uchel a bydd yn cael ei gynnal er mwyn gwarchod y rheilffordd. Oherwydd bod y blaendraeth creigiog yn cyfyngu'r tir uchel, bydd colli nodweddion diddordeb biolegol SoDdGA cysylltiedig â chreigresi, er enghraifft, yn digwydd yn naturiol ac nid o ganlyniad i bolisi CRhT2.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad D: Uned Reoli 11.9, Fegla	Gallai MR yn yr Uned Bolisi hon gael effaith negyddol sylweddol ar gynefin BAP Cyforgors Iseldir.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Aseswyd effaith negyddol sylweddol eisoes yn Atodiad D ar gyfer Uned Bolisi 11.9 (cynefin BAP ffen_cors_ corstir_rhanbarth) i ystyried yr effaith bosibl MR ar y Cors. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol bydd maint yr effaith yn dibynnu ar gwmpas a dyluniad y MR a fydd, fodd bynnag, yn cael ei liniaru er mwyn lleihau maint yr effaith ar y gors dŵr croyw.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad D	Unedau Polisi 11.11, 11.12, 11.13, 11.14, 11.15, 11.16, 11.17, 11.18, 11.19 – dylid egluro at ble mae'r unedau hyn yn cyfeirio.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Mae'r unedau polisi a labelwyd yn yr ER a'r HRA yn gywir a dyma'r fersiynau cyfredol ym mis Tachwedd 2010.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad D: Uned Reoli 11.12, Aber Uchaf	Gallai MR yn rhan uchaf aber Afon Mawddach greu gwely cyrs, porfa gorslyd, morfa heli ac, felly, beri cryn effaith gadarnhaol.	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Aseswyd hyn eisoes yn fel effaith gadarnhaol sylweddol o ran gallu MR i greu cynefin.	P.Brunner	03/11/2010
Atodiad D: Uned Reoli 12.5, Twyni Llandanwg	Mae argymhellion polisi yn y cyfnod cyntaf ar gyfer glaswelltir wedi'i wella a rhanbarth craig arfordirol yn wahanol. Bydd MR yn yr Uned Bolisi hon yn arwain at golli budd twyn tywod SoDdGA	T Jones / D Worrall	21-Oct-10	Nodwyd a diweddarwyd Atodiad D i'r ER.	P.Brunner	03/11/2010